THE LIBRARY OF CONGRESS

THE LIBRARY OF CONGRESS

# CANWYLL Y CYMRY:

SEF,

# GWAITH

Y PARCHEDIG

## MR. REES PRICHARD, M A.

GYNT FICER LLANYMDDYFRI.

THE

# WELSHMAN'S CANDLE:

OR,

# THE WORKS

OF THE REVEREND

## MR. REES PRICHARD, M.A.

SOMETIME VICAR OF LANDOVERY.

DEUT. xxxi. 19, 21.

Yſgrifenwch yr awr hon gan hynny i chwi y gân hon; dyſg hi hefyd i feibion Iſrael; a goſod hi yn eu genau hwynt, fel y byddo'r gân hon yn dyſt i mi yn erbyn meibion Iſrael: canys nid anghofir hi o enau ei hâd ef.

CAERFYRDDIN:

Argraphwyd ac ar werth yno gan J. DANIEL, yn Heol y Farchnad Iſaf: Ar werth hefyd gan Mr. NORTH, yn Aberhonddu; Mr. JENKINS, yn Abertawe; a Meſſrs. MILNER a KAYE, Liferpwl.

1807.

PB2297 .P7C3

# HANES
## Y PARCH. MR. REES PRICHARD,

Gynt Ficer *Llanymddyfri,* yn Sir *Gaerfyrddin,*

A gymmerwyd allan o Lyfr a elwid *Athenæ Oxonienses,* a argraphwyd yn Rhydychen, yn y Flwyddyn 1619. Yn tu dalen 29 o'r Ail Lyfr y mae'r Geiriau canlynol:

REES PRICHARD, fel y tybir, a anwyd yn Llanymddyfri, yn sir Gaerfyrddin, ac a ddygwyd i fynu yn y wlad honno, nes ei ddanfon ef i Golege yr Iesu, yn Rhydychen, yn y flwyddyn 1597, ynghylch 18 oed. Efe a urddwyd yn offeiriad yn Wittam yn Essex, gan John, suffragan esgob Rochester, ddydd Llun y 25 dydd o fis Ebrill, yn y flwyddyn 1602, ac efe a raddwyd ym Mehefin ar ol hynny yn wyryf y celfyddydau; ac ym mis Awst, yr un flwyddyn, efe a gafodd ficeriaeth Llanymddyfri gan Anthony arglwydd esgob Tŷ Ddewi. Ar y 19 dydd o fis Tachwedd, 1612, efe a ordeiniwyd yn berson Llanedi, yn esgobaeth Dewi, yr hon a gyflwynwyd iddo gan frenin Iago I. y lle a feddianodd, ynghyd â'r rhai rhagddywededig, trwy ganiattad yr archesgob; ac ar yr 28 dydd o fis Hydref, 1613, efe a sicrhawyd trwy awdurdod â sêl fawr y brenin. Ar y 29 dydd o'r un mis, efe a gyfaddaswyd i'r galwedigaethau hynny trwy ei wneuthur yn swyddog neu'n gaplain i Robert iarll Essex, yn y flwyddyn 1614. Ar y 17 dydd o fis Mai, efe a wnaed yn beryglor o'r eglwys gadeiriawl yn Aberhonddu, gan y rhagddywededig Anthony esgob Dewi, tan enw athraw y celfyddydau; efe a gymhellwyd i gymmeryd arno y graddau hynny gan ei esgob, Dr. Laud. Efe a wnaed hefyd yn ganghellawr Tŷ Ddewi, gyd â pha un y mae peryglorïaeth Llawhaden yn digwydd, ar y 14 dydd o fis Medi, 1626, pan ymadawodd Richard Baily, gwyryf difinyddiaeth o St. John's Colege yn Rhydychen, â'r lle hwnnw.

Y mae'n crybwyll hefyd am y llyfr hwn o'i waith ef, a argraphwyd gynt yn dair rhan. Hefyd efe a gyfieithodd amryw lyfrau yn Gymraeg, ac a ysgrifenodd ryw beth ar y namyn un deugain erthyglau eg-

1172F

lwys Loegr, pa un a wnaethpwyd eu hargraphu ai peidio, ni's gwyddai yr Awdwr, eithr efe a welodd rai o'r ysgrifenadau.

Yn ei fywyd efe a roddodd werth 20 punt yn y flwyddyn o dir i sefydlu ysgol rad yn Llanymddyfri, ynghyd â thŷ i'w chadw hi; a chwedi bod pedwar o athrawon yn feddiannol ol yn ol o'r tŷ a'r ysgol, a'r arian yn cael eu talu iddynt, darfu i Thomas, mab Roger Manwaring, gynt esgob Tŷ Ddewi, briodi Elisabeth, unig ferch ac etifeddes Samuel, yr hwn oedd fab Rees Prichard. Hwnnw a attaliodd (fel y gwnawd yn hyspys i'r awdwr trwy lythyrau oddi yno) ac a gymmerodd feddiant o'r tiroedd yn perthyn i'r ysgol rad, gan gymmeryd arno dalu i'r athraw ysgol yn arian, tros flwyddyn neu ddwy; eithr cyn pen hir (fel yr hyspyswyd i'r awdwr) afon Tywi a dorrodd i'r tŷ, ac a'i dygodd ymaith; a'r tiroedd ag oedd yn perthyn i'r lle y pryd hwnnw, oedd ym meddiant Roger Manwaring, mab ac etifedd y rhagddywededig Thomas Manwaring, yn y flwyddyn 1682; felly braidd gof clywed son am yr ysgol.—*Medd Mr. Wood.*

Dywedir ei fod yn ei ieuengctid yn chwannog iawn i'r ddiod, ond iddo gael ei argyhoeddi mewn modd tra hyfeddol gan fwch-gafr, yr hwn a fyddai arferol o'i dilyn i'r tafarn; eithr ar ryw amser efe a roddodd ddiod i'r bwch nes ei feddwi, yr hyn ni allwyd mewn un modd ei hudo i wneud drachefn. Hyn a wnaeth i Mr. Prichard ffieiddio meddwdod, ac ymroddi ei hun i dduwiol ymarweddiad.

Efe a fu byw 65 o flynyddoedd, ac a fu * farw yn Llanymddyfri, ym mis Tachwedd, yn y flwyddyn 1644, ac y mae'r awdwr yn cwbl feddwl ei gladdu ef yn yr eglwys honno.

---

* Yr oedd Esgob Bull wedi ei gynhyrfu cymmaint wrth weled yr Awdwr yn cospi pechod mor llym-dost, trwy geisio argyhoeddi ei gyd-wladwyr o'u hannuwioldeb, fel y gorchymynodd ei gladdu yn yr un bedd ag ef ei hun; ond cyn lleied barch ddangoswyd tu ag atto, fel na osodwyd cymmaint a maen ar ei fedd, er coffadwriaeth am dano; o herwydd pa ham, ni all neb ddweud ymha le y mae'r corph yn gorwedd

Y

# RHAGYMADRODD.

NID ydyw anhyfpys i'r fawl fydd yn gwybod trwy oleuni gair Duw, fod dau fath o gyflwr ar ol y bywyd prefennol, fef un o ddedwyddwch tragywyddol i'w feddiannu gyd â Chrift a'i angylion bendigedig yn y nefoedd; ac arall o annedwyddwch tragywyddol i'w fod yn gyfrannog o hono gyd â'r diafol a'i angylion melldigedig yn nhân uffern Nid ydyw, meddaf, yn anhyfpys i'r rhai fydd yn gwybod hyn, fod llawer i'w wneuthur yma cyn marw, gan y rhai a ewyllyfiant feddiannu y gogoniant nefol a diangc y poenau uffernol.

Y mae yn hawdd i ddeall allan o'r yfgrythurau fanctaidd, fod Duw i'w adnabod, a'i gydnabod, a'i garu, a'i wafanaethu gan ddyn, cyn y galio fod yn gadwedig: ac ymhellach, fod y gydwybod i'w hargyhoeddi a'i phigo am bechod, a'r cyflwr colledig yr ydys yntho o blegid pechod, allan o hynny nid yw bofibl i un dyn i ymofyn am Iachawdwr. Yn nefaf, fod rhan yng Nghrift i'w geifio fel y glanheir yr enaid oddiwrth bechod; fod cywilydd, a galar, a thriftwch, a ffieiddo, a barnu ein hunain i'w fyned tano âm ein pechodau; ac fod ein pechodau i'w marwhau, ac i'w gadael mewn meddwl, gair, a gweithred, cyn belled, ag nad oes ymfoddloni a chymmeryd hyfrydwch ynthynt, ac nad oes rhoddi lle iddynt i deyrnafu ynom, nac i fatan pan mae yn ein temtio, ond ei wrthwynebu ef. Ac y mae i ni rodio gyd â Duw, gan ymdrechu cadw ei holl orchymynion ef, gan roddi i Dduw eiddo Duw, ac i ddyn eiddo dyn; gan garu Duw â'r holl galon, gan gredu ei addewidion ef, gan grynu wrth ei fygythion ef, gan alw arno, a bod yn ddiolchgar iddo yn feunyddiol, yn ddirgel, ac yn ein teuluoedd, ac ynghynnulleidfaoedd ei bobl ef, gan gymmeryd ei enw ef yn fanctaidd yn ein geneuau, a

ſefyll mewn ofn parchus o hono pa le bynnag y b'om ni, gan ymddwyn â phob dyn, fel y dymunem ni ymddwyn o honynt hwythau â ninnau; gan ymdrechu, od oes plant a gwaſanaeth-ddynion gennym, i'w meithrin a'u maethu hwynt yn addyſg ac athrawiaeth yr Arglwydd, fel y b'o iddynt hwy a ninnau fod ynghyd yn gadwedig.

Fe wyddys hefyd, nad yw Duw yn ddiffygiol i neb dan ſwn yr efengyl, i ddyfod â hwy i wybodaeth o hono ei hunan, a'i Fab Criſt, a'r hyn ſydd angenrheidiol i'w cyflawni cyn gellir cael bywyd tragywyddol. Canys heblaw goleuni naturiaeth, a gwaith y greadigaeth, a rhagluniaeth Duw mewn ffordd o drugaredd a barn, ag ſydd megis goleu canwyll yn datguddio cymmaint o Dduw a'i ewyllys, ag ſydd ddigon i adael pobl yn ddi-eſgeulus; y mae efe, lle mae yn rhoddi ei air ſanctaidd, a'i Yſpryd i ymryſon â phobl trwyddo, yn caniattau megis goleuni'r haul i wneuthur ei hun a'i Fab, a'i ewyllys ſanctaidd yn adnabyddus i blant dynion, er iechydwriaeth iddynt.

A lle b'o rhai mewn gwlad trwy eu hymarweddiad ſanctaidd a'u ffrwythau da yn dangos grym a nerth gair Duw wedi ei hau ar, a chwedi gwreiddio yn eu calonnau hwynt, y mae y rhei'ny megis goleuadau wedi eu goſod i fynu gan Dduw, i lewyrchu ymyſg eu cymmydogion tywyll, i roddi iddynt, trwy eu ſiampl dda, gyfarwydd-deb pa fodd y mae iddynt drefnu eu bywyd a'u hymarweddiad, os mynnant hwy fod yn gadwedig

Ond, Och Dduw! er hyn i gyd, pwy ſydd mewn amryw leoedd yn dal ſulw ar y datguddiedigaethau hyn o Dduw a'i Fab Criſt, a'i ewyllys bendigedig? A phwy ſydd yn gwrando ar ei leferydd ef, ac yn troi atto i ufuddhau iddo? Och Dduw! y mae pobl yn caledu eu calonnau yn ei erbyn ef, ac yn myned rhagddynt yn eu ffyrdd ddrygionus, heb feddwl am ddydd marwolaeth, a'r cyfrif ſydd i'w roddi i Dduw ddydd y farn am yr holl eſgeuluſdra o wneuthur ei ewyllys ef ar y ddaear; ac am bob drwg feddwl, ac am bob drwg air, ac am bob drwg weithred, heb feddwl dim am nef ac uffern, nac am dragywyddol ogoniant yr

un, nac am dragywyddol boenau'r llall. Ie, y mae bagad yn byw felly, ſydd Griſt'nogion mewn enw, fel pe ni's gwyddent fod ganddynt cneidiau gwerthfawr i'w cadw neu colli. Canys gan ymgadw oddiwrth y porth cyfyng a'r ffordd gul ſydd yn arwain i'r bywyd, ag a dramwyir gan y nifer leiaf yn y byd, y maent yn rhodio, ïe yn rhedeg megis y march yn rhuthro i'r frwydr, gyd â'r nifer fwyaf yn y byd, yn y ffordd lydan ſydd yn arwain i ddiſtryw, gan fyw yn annuwiol ac yn ddrygionus, gan ddigio Duw trwy hynny, a boddloni'r cythraul, a gwneuthur cam â'u heneidiau eu hun, a rhoddi ſiampl ddrwg i eraill, i'w tynnu hwynt i bedwarcarnu tu ag uffern gyd â hwy. Da y cwynfanodd un, gan ddywedyd,

Och! o'r byw mae dynion ofer,
Heb fyfyrio marw un amſer;
Neu fod uffern, ffwrn dywyll-ddu,
Yn rhyw goeg-chwedl gwael i'w gredu.

Y mae Duw ymhob oes, gan ei fod yn llawn toſturi, ac yn ymarhous, ac yn hiraethu am iechydwriaeth pobl, gwedi cyfodi rhai i fynu i ddyrchafu eu llais fel udgorn, ac i dyſtiolaethu yn erbyn anwireddau pobloedd o'r fath hyn, gan ymdrechu eu troi hwy o'r ffordd lydan ſydd yn arwain i ddiſtryw, i rodio yn y ffordd gul ſydd yn arwain i fywyd. Swm y cwbl a ddywedpwyd yw hyn: ſef,

1. Fod llawer o bethau i'w gwneuthur yn y byd hwn gan y rhai a fynnant fod yn gadwedig.

2. Fod Duw yn caniattau moddion i wneuthur y pethau hynny yn gydnabyddus i blant dynion ag ſydd angenrheidiol i'w cyflawni cyn gellir bod yn gadwedig.

3. Fod llawer o bobl, er fod Duw wedi datguddio ei hun a'i ewyllys iddynt mewn meſur helaeth, etto yn dra eſgeulus i ufuddhau iddo; ond gan ymhyfrydu mewn pechod, y maent yn rhedeg yn y ffordd i ddamnio eu heneidiau yn dragywyddol.

4. Fod Duw er hynny yn ymarhous, ac o'i drugaredd a'i ras yn cyfodi gweinidogion i fynu i dyſtiolaethu droſto, yn erbyn drwg-weithredwyr, i edrych a edifarhant hwy, a gredant hwy yn ei Fab ef, ac a

droant hwy atto oddiwrth eu ffyrdd drygionus, a byw yn ſanctaidd, fel y b'ont cadwedig.

Ni adawodd Duw mo hono ei hun yn ddi-dyſt yng Nghymru, mwy nag mewn gwledydd eraill. Ymyſg y rhai hynny ag y ddyrchafwyd gan Dduw yn ein gwlad ni i'r diben hyn, y mae yr Awdwr bendigedig, Mr. Rees Prichard, i'w gyfrif yn un o'r pennaf yn ei amſer. Fe waſanaethodd Dduw yn ei genhedlaeth, a thrwy ei athrawiaeth a'i fuchedd ſanctaidd a ymryſonodd â drwg-weithredwyr yn ei ddyddiau ef, i geiſio cadw eu heneidiau hwy rhag diſtryw. Ac er ei fod ef yn awr gyd â Chriſt yn y nefoedd yn meddiannu diwedd ei ffydd, ſef iechydwriaeth ei enaid; etto, megis Abel, trwy ei ffydd a'i weithredoedd da, a'i waith a adawodd efe ar ei ol, yn awr yn gynhwyſedig yn y llyfr hwn, y mae efe yn llefaru wrthym ni ſydd ar y ddaear, ac a lefara wrth bobl Cymru tra f'o Cymru yn Gymru, am i ni droi at Dduw trwy ei Fab yr Arglwydd Ieſu Griſt, a gwneuthur gweithredoedd addas i edifeirwch, fel y b'o i Dduw gael y gogoniant, a'n heneidiau ninnau ſicrwydd oddiwrth hynny y cawn fod yn gadwedig.

Fe ellyd caſglu o'r llyfr hwn holl egwyddorion crefydd, gwedi eu hegluro felly, ag y dichon yr annyſgedig eu deall hwynt, oni fydd y bai arnynt eu hunain trwy ddarllain y llyfr yn yſgafn, heb ofn Duw yn eu calonnau.

Peth canmoladwy ydyw i ddyſgawdwyr ddaroſtwng eu hathrawiaeth a'u hymadroddion, fel y gwnaeth yr Awdwr, i ddealltwriaeth y cyffredin bobl, ac nid llefaru ac yſgrifennu yn y cymhylau; o blegid dyna'r ffordd, trwy fendith Duw, os efengyl Criſt a draethir, i droi pechaduriaid at Dduw, ac i adeiladu y duwiol yn ei ffydd ſanctaidd. Os traethir pethau Duw mewn geiriau, ac mewn modd tu hwnt i ſynwyr a dealltwriaeth y bobl, ni bydd y dyſgawdwyr, a'u gwrandawyr, a'u darllenwyr, ond barbariaid y naill i'r llall, heb gael i'r un na gwybodaeth nac adeiladaeth, na'r lleill gyſur yn y byd oddiwrth eu gweinidogaeth. O herwydd hyn, gwell oedd gan Paul, er maint ei ddyſg a'i ieithoedd, yn yr eglwys lefaru pum gair, fel y

dyſgai eraill, nâ myrddiwn o eiriau mewn tafod dieithr.

Daliwch ſylw ar yr holl athrawiaethau iachus yng waith yr Awdwr, ond tu hwnt i ddim ar y rhai a ganlynant.

*Yn gyntaf*, Fod dyn mewn cyflwr o golledigaeth, nid yn unig trwy ei bechodau gweithredol ei hun, ond hefyd trwy bechod Adda; canys yr oeddem ni oll yn ei lwynau ef yn pechu pan bwyttaodd efe y ffrwyth gwaharddedig.

*Yn ail*, Nad yw dyn, na thrwy ei weithredoedd ei hun, na thrwy weithredoedd y ſeintiau, megis Mair, Pedr, Paul, &c. yn abl ymddangos yn gyfiawn ger bron Duw, nac haeddu bywyd tragywyddol ar ei ddwylo ef; canys y mae ein gweithredoedd goreu ni yn amherffaith: a phe gallaſai dyn ymddangos yn gyfiawn ger bron Duw, ac haeddu bywyd tragywyddol ar ei ddwylo ef, er mwyn ei gyfiawnder ei hun, neu gyfiawnder eraill o'i frodyr, ni buaſai raid i Griſt ddyfod i geiſio, ac i gyfiawnhau, ac i gadw y rhai a gollwyd. Ac am y ſeintiau, ni phwyntiodd Duw un o honynt i gyfiawnhau ac i gadw ei eglwys; ïe, gan eu bod hwynt hwy eu hunain yn bechaduriaid fel eraill; yr oeddent yn ſefyll mewn diffyg o'n Ceidwad Ieſu Griſt yn gyſtal ag eraill.

*Yn drydydd*, Fod cyfiawnhad a iechydwriaeth i'w gael yn unig trwy ffydd yn ein Harglwydd Ieſu Griſt, Gal. ii. 16. Phil. iii. 9. Ioan iii. 16.

*Yn bedwarydd*, Fod y ffydd honno, trwy ba un y mae'r pechadur yn derbyn Criſt, ac yn cymmeryd gafael ar Griſt, a thrwy ba un y mae efe yn ymddiried yn Nuw; (ac efe a gaiff, ar gyfrif y iawn a roddodd ei Fab Criſt iddo, trwy offrwm ei hun ar y groes yn aberth o arogl peraidd dros bechodau ei bobl, ac ar gyfrif ei gyfiawnder ef, faddeuant pechodau, cyfiawnhad, heddwch Duw, bod yn blentyn iddo, ymwared rhag damnedigaeth, a bywyd tragywyddol yn y nefoedd.) Fod y ffydd honno, meddaf, nid yn ffydd farw, heb weithredoedd da yn ei chanlyn hi; ond pa le bynnag y bo'r ffydd honno, y mae hi yn fywiol at bob math o weithredoedd da; ac y mae'r pethau a ganlynant yn myned gyd â hi: ſef,

*Yn gyntaf*, Cywilydd, triſtwch, a galar am bechod, caſineb at bechod, gwir bwrpas i droi oddiwrth bechod, ac ymadawiad â phob pechod ag ydys yn ei adnabod cyn belled, ag nad yw pechod yn teyrnaſu yn yr enaid lle bo'r ffydd honno.

*Yn ail*, Gwir gariad at Dduw, yr hyn ſydd yn ymddangos trwy ofal i gadw ei orchymynion ef, trwy fyw yn dduwiol, yn ſobr, ac yn gyfiawn yn y byd preſennol, Ioan x. 27. a xiv. 15. Tit ii 11, 12.

*Yn drydydd*, Cariad diragrith at y ſawl ſydd yn ofni Duw, trwy ba un yr ydys yn ymhyfrydu ynthynt hwy, a chariad o doſturi tu ag at bawb, da a drwg, trwy ba un yr ydys yn dymuno yn dda iddynt, ac yr ydys yn barod mewn rhyw feſur neu gilydd, yn ol y gallu a roddodd Duw, i'w cynnorthwyo hwynt yn eu blinderau a'u hadfyd. Nid oes lle yn awr i ymhelaethu ac i agoryd yr yſgrythurau hyn, ac i ddangos pa fodd y maent hwy yn pryſio'r pyngciau: y mae arnaf fi ofn na ddichon y gwan ddeall hynny, ond gair i'r câll ſydd ddigon.

Ynghylch y wir ffydd hon, ag ſydd fodd i gyfiawnhau, ac i gadw'r pechadur edifeiriol, y mae'r Awdwr bendigedig fel hyn yn dywedyd:

Ni bydd tân heb wres lle bytho,
Ni bydd dw'r heb wlybrwydd yntho,
Ni bydd 'fallen dda heb 'falau,
Na bywiol ffydd heb fywiol ffrwythau.

Onid yw dy ffydd yn fywiol,
Yn dwyn gair a gweithred raſol,
Nid yw hon ond ffydd mewn enw,
Ffydd na ddichon byth dy gadw.

Ac eiſiau bod gan ddynion y ſath ffydd a hon, y mae efe ymhellach yn dywedyd fel hyn:

Prynodd Criſt â gwaed ei galon
Yr holl fyd o'u poenau trymion;
Llawer mil o'r byd, er hynny,
Ant i uffern eiſiau credu.

Craffwch ar y pethau a ddywedir yma ynghylch y wir ffydd, o blegid fod llaweroedd yn tybied fod y ffydd gyffredin ſydd ganddynt (trwy ba un y maent yn credu fod Duw, fod Criſt yn Fab Duw, farw o

hono ef trosom ni, ac y ceir bywyd tragywyddol trwyddo, &c.) yn ddigonol i iechydwriaeth, er nad oes gyd â hi nac edifeirwch na gwellhad buchedd, na gofal yn y byd i ryngu bodd Duw, trwy ddangos trugaredd a gwneuthur cyfiawnder, ac ymoftwng i rodio gyd ag ef yn ddifeius ac yn ddifrycheulyd: ond gwybydded y cyfryw rai yn hollol, nad ydynt ond twyllo eu heneidiau eu hun: mae'r ysgrythur yn dangos yn eglur, na wafanaetha mo'r ffydd farw honno i iechydwriaeth, Iago ii. 14, 19, 20, 26.

*Yn ddiweddaf oll*, Daliwch fylw ar yr athrawiaeth hon, fef, er nad â neb i'r nefoedd am eu gweithredoedd da, etto nid â neb i'r nefoedd heb weithredoedd da. Mae'n ddilys fod gweithredoedd da i'w gwneuthur, cyn gellir bod yn gadwedig; ond gan eu bod yn amherffaith, nid oes gwneuthur mo honynt mewn tyb eu bod hwy yn haeddu'r bywyd tragywyddol, fel y mae rhai pobl anghydnabyddus yn tybied, pan b'ont yn dywedyd, Duw a roddo i ni fel yr y'm yn haeddu; cymmaint yw hynny, pe deallent hwy beth y maent yn ei ddywedyd, a phe dywedent, Duw a daflo ein heneidiau a'n cyrph i'r tân tragywyddol, gyd â'r diawl a'i angylion; canys dyna'r peth yr ydym ni am ein pechodau bawb yn haeddu. Ond y mae gweithredoedd da i'w gwneuthur: (1.) I ddangos ein hufudd-dod a'n cariad at Dduw. (2.) I ddwyn gogoniant i'w enw ef. Y mae pobl trwy y gweithredoedd da y maent yn wneuthur o ufudd dod i Dduw, ac o gariad atto ef, yn dywedyd allan yn uchel, er gogoniant iddo, nad oes neb yn deilwng o ufudd-dod o'i flaen ef. (3.) Y mae gweithredoedd da i'w gwneuthur, fel y gallom ni, trwy gyflawni â chalon onest, trwy nerth Yfpryd Crist ynom, ein rhan ni o'r cyfammod o ras, wybod wrth hynny, a ficrhau ein hunain er mawr gyfur i'n heneidiau, ein bod ni yn ganghenau bywiol yng Nghrist, ac y cawn ni trwyddo ef, ac er ei fwyn ef, fywyd tragywyddol yn y nefoedd. (4.) Fel y b'o i ni harddu efengyl Crist, trwy ddangos ei grym hi yn ein bywyd a'n hymarweddiad. Ac *yn ddiweddaf*, Fel y gwnelom trwyddynt lefhad i eraill, trwy ddangos iddynt fiampl dda i'w dilyn, er gogoniant i Dduw, a chyfur i'w heneidiau.

Er cyſtal yw'r athrawiaethau, a'r rhybuddion, a'r ceryddon y ſydd yn y llyfr hwn; etto oni iawn arferir hwynt, ni cheir lleſhad oddi wrthynt; ond hwy fyddant yn arogl o farwolaeth i farwolaeth i'r ſawl a'u camarferant; hynny yw, hwy fyddant achos i wneuthur eu damnedigeeth hwynt yn fwy. Cymmer gan hynny, ddarllenydd anwyl, y cynghorion a ganlynant, fel y b'o i ti trwy ddarllen y llyfr hwn dderbyn lleſhad ac nid dim niwed i'th enaid.

*Yn gyntaf*, Deiſyf ar yr Arglwydd ar iddo wneuthur i ti ddaioni trwyddo. Nid gwaith ofer yw ceiſio'r Arglwydd: y mae efe yn gorchymyn i ni i alw arno, ac yn addaw ein gwrando pan weddiom â'n holl galon, Jer. xxix. 13. Nid yw boſibl heb ei fendith ef gael gwybodaeth allan o un math o lyfrau yn y byd. Arfer dda gan hynny ydyw, cyn darllen llyfr, lle crybwyllir am bethau Duw, i ddyrchafu'r galon a'r llygaid atto ef, gan ddywedyd, Arglwydd, agor fy llygaid i weled dy wirioneddau, parottoa fy nghalon i'w derbyn hwynt, ac i ufuddhau iddynt, a chadw fi rhag amryfuſeddau, Sal. cxix. 18.

*Yn ail*, Darllenwch ag yſpryd goſtyngedig. Er cymmaint yw gwybodaeth pobl, etto hwy ddylent gofio nad ydynt yn gwybod ond mewn rhan; ac o herwydd hynny fod yn rhaid iddynt hwy wrth ragor o wybodaeth. Ac oni chânt trwy'r llyfr hwn wybodaeth o bethau na's gwyddent o'r blaen; etto os cânt eu hadgofio o wirioneddau a anghofiaſant, fe fydd hynny er budd iddynt. Ni ddylem dybied ein hunain yn ffyliaid, fel y b'o i Dduw ein gwneuthur ni yn ddoeth. Y mae'r Arglwydd yn dal ſylw gyd ag hyfrydwch ar y goſtyngedig, ac yn addaw dyſgu ei ffyrdd i'r cyfryw.

*Yn drydydd*, Gochelwch yſgafnder wrth ddarllen; canys ni ddylit chwareu â phethau ſanctaidd; o blegid nid gwirion gan yr Arglwydd y ſawl a gymmero ei enw ef yn ofer. Gwybyddwch, mai pa beth bynnag ſydd yn gwneuthur Duw yn gydnabyddus, ei enw ef yw hynny, megis ei briodoliaethau, ei weithredoedd, a'i air. Ac a gytgammu di, neu a fyddi di mor eon a darllen pethau yn rhygyl ac yn yſgafn dan chwerthin, ag ſydd gan mwyaf wedi eu tynnu allan

o'r ysgrythur lân, ac wedi selio arni? Na atto Duw. Os darllenwch bethau sanctaidd mewn parch ac ofn yr Arglwydd, chwi ellwch ddisgwyl, yn ol ei addewid ef, am fendith ar eich darlleniad. Dyma'r defnydd a ddichon yr anghydnabyddus wneuthur o'r gweddiau yn y llyfr hwn; sef, trwy eu mynych ddarllen, hwy a allant lanw eu calonnau â matter da i'w dywallt allan mewn gweddi ger bron yr Arglwydd. Fe ddichon y gwan gael cyfarwydd-deb oddi wrthynt, pa bethau sydd i'w ceisio, ac ymha fodd y mae eu ceisio hwynt ar bob achosion.

Nid oes yma ond tammeidiau allan o hen bapyrau; sef, torriad garw yr Awdwr, a'r rhei'ny yn amherffaith, ac yn anhawdd i'w darllen; megis, (1.) Am y Sabbath. (2.) Dyledswydd Gweinidogion. (3.) Purdan y Papistiaid. (4.) Parhad mewn ystad o ras, &c. Da y gwnae y sawl sydd â llyfr pennaf yr Awdwr (ag a gollwyd yn amser y rhyfel yn sir Frecheiniog, fel yr ydys yn tybied) neu ddim pethau eraill o'i waith, i'w rhoddi hwynt i'r neb a fyddai gofalus i osod y fath ganwyll mewn canhwyllbren i oleuo'r holl wlad, fel y darfu i Mr. Evan Pugh, o Llandingat wneuthur; o ba herwydd, y mae nid yn unig mysi, ond hefyd holl Gymru yn rhwymedig iddo.

Y mae "Hil Adda" yn amherffaith yn yr holl gopïon a welais i; ac hefyd y "Gân ynghylch y Diawl a'r Meddwon," os ei waith ef ydyw hi; y mae copi yn y wlad yn dywedyd mai efe yw yr awdwr, yr hyn beth yr wyf fi yn amheuo; canys er fod ynthi rai o gynheddfau'r meddwon wedi eu gosod allan, etto nid oes yno fawr o resymmau yn erbyn y pechod cas hwnnw, yr hyn beth oedd anarferedig yng waith yr Awdwr, yr hwn sydd yn ysgrifennu, nid fel ffol, ond fel un a allai roi rheswm am y peth yr oedd yn ei ddywedyd.

Er nad yw weddus i wr ddywedyd llawer am dano ei hunan, etto ni allaf fi ymattal rhag cyhoeddi fy ngorfoledd, am fod Duw wedi rhoddi i mi fy mywyd i weled cyflawni yr hyn oeddwn i yn ei rag-dybied a ddigwyddai ar brintiad gwaith yr Awdwr.

Un peth a'm hannogodd i brintio'r gwaith hwn, yw y tebygoliaeth mawr y cynhyrfir wrth hyn lawer-

oedd ni fedrant ddarllen i ddyſgu darllen Cymraeg. Awyddus yw pobl at bethau newyddion, a'r rhai'n yn brintiedig ydynt newydd i'n gwlad. Ac odid na bydd llawer (er yſgatfydd nid am amcan i gael lleſhad i'w heneidiau, etto o ran eu difyrrwch) yn ymdynnu i ddyſgu darllen gwaith Ficer Llanymddyfri. Ac ar ol dyſgu hwn, pa rwyſtr fydd i ddarllen llyfrau Cymraeg eraill? trwy ba rai (oni cheſglir trwy hwn) y gellir caſglu daioni mawr.

Bendithied Duw y gwaith preſennol, a chyfoded rhai i'w brintio pan b'om ni yn ein beddau, er daioni i'r cenhedlaethau a'n canlynant. Ac os cei di, ddarllenydd anwyl, ddim lleſhad trwy'r llyfr hwn, rho'r diolch i Dduw, ac nac anghofia yn dy weddiau,

*Dy waſanaethwr yn yr Arglwydd,*

*Mawrth* 20, 1671.

S. HUGHES.*

---

* Gwr bonheddig, gynt o Abertawe, yn ſir Forganwg, (heblaw cyhoeddi'r Llyfr hwn o waith Mr. PRICHARD) a gynnorthwyodd y duwiol Mr. GOUGE mewn dau Argraphiad o'r Bibl ſanctaidd, ac a ddiwygiodd un o honynt ei hun o'r Waſg; efe a gyfieithodd agos i ugain o Lyfrau o'r Iaith Saeſonaeg i'r Cymraeg, ac a gyhoeddodd y rhan fwyaf o honynt ar ei draul ei hun. Dywedir iddo, er daioni ei gydwladwyr, dreulio y rhan fwyaf o'i foddion yn eu gwaſanaeth.—Dyn da, dyſgedig ydoedd, ac yn bur gyfarwydd yn y Iaith Gymraeg.

# CYNGOR I'R LLYFR,

GAN

STEPHEN HUGHES.

DOS, O Lyfyr bach, i Gymru,
I ddatguddio ac i ddyſgu
Y ffordd union i baradwys,
Ag ſy'n myn'd at Dduw yn gymmwys.
Er bod yno rai'n ei gwybod,
Ac yn rhodio ynthi'n waſtod,
Etto mae yno rai, er hynny,
Na cherddaſant droedfedd ynthi.
Mae yno rai nad yw'n adnabod
Y gwir Dduw, nac ei lân hanfod,
Ei Fab Criſt, na'i Yſpryd ſanctaidd,
Trwy ddibriſio'i eiriau puraidd.
Mae yno rai ſy'n anghydnabyddus
O'u drwg ffyrdd a'u 'ſtad anhappus,
Trwy ddirmygu a dibriſio
'R moddion ſydd i'w cyfarwyddo.
Mae yno lawer yn annuwiol, *Mat.*7.13.
Yn tramwyo'r ffordd uffernol;
Rhai ni thront i'r ffordd fendiged,
Gan fyw'n ffromffol a phengaled.
Rhaid yw 'nabod Tad goleuni, *Ioan* 17.3.
A'r Mab rhad, ein Harglwydd Ieſu;
Credu yntho, a byw'n raſol, *Heb.*12.14.
Cyn yr eir i'r deyrnas nefol.
Dos gan hynny, a goleua
Y rhai tywyll ſydd yng * Nghambria, * *Cymru.*
A chyfeiria eu traed yn gymmwys
I'r ffordd union i baradwys.
*Canwyll Cymry*, mae d'hen Feiſtyr
Yn dy alw mewn rhyw lyfyr;
Gwna dy ſwydd ar frys gan hynny,
Trwy oleuo pawb yng Nghymru

Llawer plwyf, Och Dduw! ſydd yno,
Mewn mawr ddiffyg o'u cyfrwyddo,
Trwy ddallineb neu 'ſgeulufdra,
Rhai o'r 'ffeiriaid llawn cybydd-dra.

Can's mae rhai o'r prif offeiriaid
Yno'n ddiofal am eu defaid,
Ac yn gadael idd' eu dyſgu,
Rai na fedrant wneuthur hynny.

Toſt yw gweled ſath *guradiaid*,
Sydd olygwyr ar y defaid,
Dan berſoniaid mawr cyfoethog,
A ficeriaid uchel, enwog.

Deillion, meddwon, a gwatwarwyr.
Rhai heb nabod Duw na'r 'ſgrythur,
(Heb ddim malais 'rwy'n ei ddweud e')
Sydd fugeiliaid mewn rhyw fanne.

Nid am y *conſformiaid* graſol
'Rwyf fi'n d'wedyd hyn yn hollol;
Nid am Jerem, nid am Eli, 1 *Sam*. 2. 17.
Ond am Phinees, a'i frawd Hophni.

Nid wy'n d'wedyd ond y dd'wedodd
Yr hen Ficer, pan lefarodd,
Gan roi allan, a chyhoeddi,
Hyn o bennill yn Llanedi.

§ "Dodi'r dall ar ben diſgwylfa,
"Dodi'r dwl i ddyſgu tyrfa,
"Dodi'r diddyſg wrth y llyw,
"Yw dodiad dyn, nid dodiad Duw."

Dos, gan hynny, a bryſia i Gymru,
A chyflawna'r diffyg dyſgu
Y ſydd yno mewn rhyw fanne,
Ac nac ofna ddyn yn un-lle.

Gwir *gonfformiſt* oedd dy Feiſtir,
Ac am hynny ni'th 'ſgymmunir:
Ni throir arnat ti yn haerllug,
Waith dy dacclu gan † *ffanatig*.

§ Gwel y gân am ddyledſwydd gweinidogion. † Fe ddatguddia Duw ryw ddydd pwy ſydd felly, barned pobl a ſynnont.

'Rwyt ti'n crio fynu'r gwyliau,
'Rwyt ti'n dala ffurf weddiau,
'Rwyt ti'n gwawdd rhai i'r eglwysydd,
'Rwyt ti'n *lwo* tadau bedydd.

Temlau a thai Duw yw'r llannoedd,
Medd d'hen feistr, mewn rhyw leoedd
Ynot ti, pa ham gan hynny
Mae arnat ofn myn'd i Gymru?

Mae d'ail feistir ynte'n dala
Holl athrawiaeth y gymmanfa,
O Eglwys Loegr, gan ei thraethu
Ym mhob tyrfa y del iddi.

Mae e'n traethu ei hathrawiaeth,
Er na * *lica* mo'i disgybliaeth;
Ond nid yw'n cyhoeddi hynny,
B'le mae'n arfer o bregethu.

Ymwrola, dos yn ebrwydd,
Na phrydera y cei aflwydd,
Am dy fod yn d'od o ddwylo
Un nad ydyw yn *conffformo*.

Can's mae llawer o'r *conffformiaid*
Grasol, sanctaidd, hwytheu'n tybiaid,
Fel mae eraill, fod d'ail feistyr
Yn ceisio llwyddiant ei gydwladwyr.

Ti ge'st roesaw gynt yng Nghymru,
Ac na thebyg na chei hynny
Etto, gan bob *fort* o ddynion,
Oni byddant balch neu ffromffol.

Hwy ddioddefant dy geryddon,
Hwy a hoffant dy gynghorion,
Hwy'th ddarllenant yn awyddus,
Canys trwyddot 'rwyt ti'n felus.

Er y byddi yn fwy costfawr
Nag y buost, ni bydd nemmawr
O deuluoedd yr holl Gymru,
Na's derbyniant di er hynny.

Ni bydd 'ffeiriad, ni bydd meistyr,
Ni bydd plantach, na gwas'naethwyr,

* Er nad yw foddlon i'w disgybliaeth.

Na bugeilydd ar fynyddau,
Na's groesawant ti yn ddiau.

Fe ddioddefir i ti dd'wedyd
Pethau ni's baidd eraill 'nghanyd;
A phe 'nganent, mewn rhyw fannau,
Hwy gaent gerrig am eu pennau.

Fe all y gwan gael ynot gysur,
Ac ychwaneg gras mewn mesur,
I was'naethu Duw yn ddifrad,
Bob un yn ei briod alwad.

Os dyn grasol fydd i'th ddarllen,
Os rhagorol fydd dy berchen,
Mewn pob dawn a gras ysprydol,
Trwy'th gyfeillach f'a'n fwy duwiol.

Ac os drygddyn fydd ddarllenwr,
Meddwyn marllyd, neu watworwr,
Er ei bleser fe'th fawrha di,
Dal e'n gyfrwys os y gelli.

Gwna iddo alw ar Dduw ac adde'
Ei ddrwg gyflwr a'i bechode.
Credu yng Nghrist, ac edifaru;
Nid twyll dynnu dyn at Iesu. *Diar.*4.14.

Cadw'th fach mewn gafael yntho, *hyd yr* 20.
Na'd ef fyned a thramwyo
At ei hen gyfeillion ofer,
I fyw'n atgas yn ddibryder:

Ond ymhwedd arno gofio, *Sal.*103.17.
Mai gwell ofni Duw nâ'i ddigio; 1*Sam.*2.30.
Can's fe geidw'r rhai a'i hofnant,
Ac fe ddamna'r rhai 'dirmygant.

Dos, gan hynny, fe'th dderbynir
Gan bob *sort*, ac fe'th gymmerir
I bob dwylo yn dra hyfryd,
Fe'th fawrheir di'n anwyl hefyd.

A thra 'Nghymru ddim crist'nogaeth,
Fe gymmerir dy gwmpeiniaeth;
Fe'th ddarllenir, ac fe gyfyd
Rhai a'th brintiant pan fo angenyd.

Gan dy fod mewn ſut gymmeriad,
Bydd yn fwyn a dangos gariad
Yn ddiragrith ym mhob teulu,
A dod allan dy oleuni.

Gwna hwy wybod, a chyffeſu, *Rhuf.* 6.23.
Fod pob pechod brwnt yn haeddu *Deut.* 28.15.
Melldith Duw, a'r tân uffernol, *Dat.* 21. 8.
Ymyſg diafliaid yn drag'wyddol.

Ac nad oes un ffordd i gadw *Ioan* 14.6.
Unrhyw ddyn rhag myn'd i ddiſtryw, *Act.* 4.12.
Ond yn unig trwy Griſt Ieſu,
Ddaeth o'r nef i'r ddae'r i'n prynu:

Ac na cheidw Criſt un Criſtion, *Ioan* 3.36.
Ond y gretto yntho'n ffyddlon,
Gan droi ymaith eu pechodau, *Eſay* 55.7.
A byw'n ol ei ſanctaidd ddeddfau.

Dyſg hwy wiliad eu meddyliau,
Dyſg hwy 'ſtyried eu holl eiriau,
Ac i edrych beth a wnelont,
Pa le bynnag ag y byddont.

Gwna hwy gofio gorfydd cyfri', *Rhuf.* 2.16.
Ger bron Criſt, ar ddydd eu didri,
Am eu cas a'u drwg weithredoedd,
A'u drwg eiriau ym mhob lleoedd:

Ac na â drwg feddwl heibio
Heb ei ddannod, heb ei gofio,
Gan y Barnwr mawr, Criſt Ieſu,
Os o'r byd eir cyn 'difaru.

Dyſg hwy 'ddoli Duw'n eu teiau,
A chyflawni eu dyledſwydau
Idd' eu gilydd yn griſt'nogaidd,
Yn dra diwyd ac yn weddaidd.

Fel y tynnaiſt gynt i § ddarllain,
Lawer un yn ddigon cywrain,
Er mwyn Criſt gwna hynny etto;
Da fydd hynny i bob Cymro.

§ Yr ydys yn tybied i lyfrau Mr. PRICHARD dynnu miloedd i ddyſgu darllen.

Tyn bob rhai at y 'ſgrythurau,
Dangos iddynt y rheſymmau
Rows dy Feiſtir yn dy ddechrau,
Pa'm rhaid darllen y 'ſgrythurau.

Dyſg hwy dreulio'r ſabbath ſanctaidd
Yn griſt'nogol ac yn weddaidd,
Gan addoli Duw'n gyhoeddus,
Ac yn ddirgel, fel mae'n weddus.

Hel hwy o'r pebyll, na'd hwy *botian*
Ar y ſabbath, nac i *loitran*;
D'wed i'th Feiſtir feio hynny
Lawer gwaith yn enw'r Ieſu.

Gwna hwy wrando'r gair â gofal,
Gwna hwy arfer gweddi'n ddyfal;
Cym'ryd y *communion* ſanctaidd
Yn dra gweddol a chriſt'nogaidd.

Gwna i bob rhai fynych goſio,
Rhaid myn'd ymaith, a rhaid *paccio*
Bawb oddi yma, can's rhaid marw,
A derbyn barn gan Griſt yn hoyw.

Pâr i'nt wybod fod dedwyddwch
I'r rhai ſanctaidd, a rhialtwch,
Yn y nef, a bod toſt benyd *Mat.* 25.41.
I'r rhai drwg yn uffern danllyd.

Dyſg nad oes, ar ol marwolaeth,
Yn y pwll ddim taledigaeth
Am bechodau, ac am frynti,
Can's dros fyth rhaid yno boeni.

Pâr i'r Cymry fynych goſio,
Mai peth toſt yw gorfod trigo
Blwyddyn gyfan mewn tywyllwch,
A chadwynau, heb ddiddanwch.

Och! faint doſtach y fydd trigo
Fyth yn uffern i boenydio,
Dan law ſatan mewn cadwynau,
Am ddibriſio Duw a'i ddeddfau.

Pan y doech i dre' Llan'ddyfri,
Ac i Lanfair, a Llanedi,

'Mofyn yno pwy ſydd raſol,
Pwy ſydd ffyddlon a 'difeiriol.

Ond cael cwrdd, trwy fawr ymofyn,
A'r rhai ſanctaidd ſydd yn tarin
Yn y dref a'r plwyfau hynny,
Dywed heddwch wrth y rhei'ny.

Ac yn enw'th Feiſtir traetha
Llid a bâr y Duw gorucha'
I'r troſeddwyr ni 'difarant,
A'r anffyddlon ag ni chredant.

Dywed wrthynt, i'r hen Ficer
Wylo'n doſt, â chalon dyner,
Am eu brynti, a'u rhybuddio
Wella eu buchedd, a *repento*.

Dywed iddo ddyſgu o'r 'ſgrythur
Ffordd yr Arglwydd mawr yn eglur
Iddynt hwy, a'u bod er hynny
Fyth yn byw mewn ffiaidd frynti.

D'wed y bydd y dydd diwedda'
Lai o goſp i dre' Gomorra,
Nag y fydd i dre' Llan'ddyfri,
Ac i Lanfair a Llanedi.

Criſt y ddengys yn *blain* ddigon,
Am y rhai ſydd dan y ‡ moddion,
Y daw arnynt fwy o'r 'ſtorom,
Nag y ddaeth o'r nef ar Sodom. *Mat.* 11.23.

Can's y ſawl ſy'n pechu'n rhigyl,
Dan bregethiad yr efengyl,
Sy'n pentyrru eu hanwiredd,
Am droi eu cefnau ar drugaredd.

D'wed na cha's yn nyddiau'r Ficer
Nemmawr iawn yng Nghymru'r hanner
O'r athrawiaeth a'r cynghorion
Gawſant hwy yn eglur ddigon.

D'wed fod Duw yn gofyn llawer,
Ym mhob gwlad, ac ym mhob cwarter,
Lle mae'n raſol yn rhoi amledd *Luc* 12.48.
O'i efengyl mewn trugaredd.

‡ Moddion gras.

A pha fwyaf y ddeallir *Luc* 12. 47.
O wir 'wyllys Duw o'r 'ſgrythur,
Mwy o lawer cawn ein curo,
Am roi achos i Dduw ddigio.
Gwawdd gan hynny hen ac ifangc,
(Os hwynt-hwy a fynnant ddiangc
Llid a bâr yr Arglwydd nefol)
I fyw'n ſanctaidd ac yn dduwiol.
Cofia'n ifangc y dielir
Ar y plant ſydd ddrwg weithredwyr, *Ecſ.* 20. 5.
Anwireddau'r tadau'n gyngan,
Gyd â'u hanwireddau eu hunan.
Can's o rodio'n ffyrdd eu teidau,
Maent hwy'n dweud i maes yn olau,
Eu † cydſent yn eu drygioni;
Duw ſydd gyfiawn yn eu coſpi.
Gwna hwy ddarllen y trwm achwyn
Wnaeth dy Feiſtir yn eu herbyn:
Er mwyn Criſt bydd yn dra eiriol
Ar i'nt fod yn edifeiriol.
Yn ol traethu hyn ym mhlwyfe
Yr hen Ficer, bryſia, dere,
Gwna'r un neges dros d'ail Feiſtyr,
Ym mhlwyf Meidrim ac ym Merthyr.
D'wed wrth bawb ag ſydd yn tarin
Ym mhob plwyf yn ſir Gaerfyrddin,
Ac wrth bawb o bobol Cymru,
Y gair a glywſont gaiff eu barnu. *Ioan* 12.48.
Pan y doech i dai'r bon'ddigion,
Pâr i'nt newid eu harferion,
Gadael balchder, trawſedd, medd'dod,
A gochelyd digio'r Drindod.
D'wed yn *blain* pan dont i'w barnu
At y bar o flaen Criſt Ieſu,
Na bydd gwân rhwng *prins* a deiliaid,
Rhwng cyfoethog a *begeriaid:*
Ac y dylent, herwydd hynny,
Lwyr ymadael â'u holl frynti; 1 *Pedr* 1. 17.

† Cyttundeb.

Credu yng Nghrist a bod 'n edifar,
Cyn ei myn'd hi'n rhy ddiweddar.

Gwna hwy feddwl am eu 'neidiau,
Fwy nag am eu cas bleserau,
Fwy nag am eu dâ a'u rhenti,
Eu ffryns, cene'l, a'u holl wegi.

Pan y doech i ddwylo'r ifangc,
Gwna hwy gofio'r bywyd didrangc:
Deisyf arnynt adael heibio
Eu hynfydrwydd, a *repento*.

Dangos iddynt nad yw plesér *Preg*. 11. 9.
Y byd hwn ond rhyw beth ofer,
Ac y gorfydd rhyw ddydd atteb
O flaen Crist am bob ffolineb.

Ni chyflawna plesér bydol
Chwant yr enaid sydd anfarwol;
Nid oes dim all wneuthur hynny,
Ond nawdd Duw trwy waed yr Iesu.

Oh! ymhwedd arnynt adael
Chwant y byd, y cnawd a'r cythrael,
Ac ymroi, tra'i gelwyr heddy', *Heb*. 3. 7, 8.
I was'naethu'r Arglwydd Iesu:

Can's ni wyddant y cânt amser
I ymadael â diffeithder;
Can's mae'n arfer d'od i'r farchnad
Groen yr Oen fel croen y ddafad.

Dangos iddynt pa fath Feistyr
Yw Crist Iesu i'w was'naethwyr,
Yn rhoi iddynt hedd a bywyd,
Teyrnas nef a choron hyfryd.

Gwna hwy'n fynych ddyfal gofio,
Nad yw'r cythraul ond eu hudo;
Ac nad oes ond yr aflwyddiant
I'r rhai hynny a'i gwas'naethant.

Can's os byddant heb eu cospi *Job* 21. 31.
Gan Dduw yma am ddrygioni;
Cânt ryw bryd, mewn tân uffernol,
Gosp ofnadwy yn drag'wyddol.

Ffarwel, deiſyf ar bob Criſtion,
Na's derbyniont ond a welon'
Ynot yn gyttnn â'r 'ſgrythur,
Felly pleſu dy ddau Feiſtir.

Ond cyn myned, un gair gwrando,
Pâr i'th brynwr ddyfal goſio,
Pan dy brynwyd gynt yn rhannau,
Trwy roi'th fenthyg eſt yn * llarpiau:

A thrwy'th oſod ar ffeneſtri,
Tyllau gwlybion, ac ar ſeldi
§ Uſt, llawn llwydi, eſt yn ufflon,
Na wnant beth yn awr mor ffinion.

Ond pâr iddynt herwydd hynny,
'Th gadw'n ſych, a'th ymgeleddu,
Fel y byddech hir o amſer
Dra gwas'naethgar ym mhob cwarter.

* Darnau. § Llaith.

## LLYTHYR YR AWDWR

AT RYW

# ARGLWYDD,

I'r hwn yr oedd yn ei Fryd ef i gyssegru ei Lyfr.

ARGLWYDD grasol, na ryfedda
Wel'd eglwyswr tlawd i'th goffa,
Ac yn mentro urddas Cymru,
A'r fath lyfrau dy anrhegu.

Dy zel at eglwys Crist a'i hurddas,
Dy wasanaeth da i'th *brins* a'th deyrnas,
Dy serch a'th garc am gene'l Cymru,
Y bair i bawb dy anrhydeddu.

Ymhlith miloedd a'th anrhegant,
A thalentau mawr eu moliant,
Arglwydd da, cenhada finnau
Dy gydnabod â'm dimmeuau.

Cym'rodd Arglwydd yr arglwyddi,
Rodd y weddw dlawd heb siommi,
Er na thalai'i rhodd ond dimmau,
Am ro'i'r cwbl ag a feddai.

Cymmer ditheu, arglwydd serchog,
Rodd o'r fath gan wr dyledog,
Sy'n 'wyllysgar i'th anrhegu
A rhodd well pe b'ai'n ei feddu.

Haeddaist well diddanwch Cymru,
Cawsit well pe bu'sai genny';
Pwysa'r rhodd yn ol yr 'wyllys,
Hi gyd-bwysa roddion *prinsys*.

LLYTHYR ARALL

AT Y

# DARLLENYDD,

Fel y mae'n dybygol.

GOGONIANT Duw, a lles Brutaniaid,
Canlyniaeth ffryns, a gwaedd y gweiniaid,
Y wnaeth brintio hyn o lyfran,
A'i ro'i rhyngoch, Gymry mwyn-lân.

* Abergofi pur bregethiad,
Dyfal gofio ofer ganiad,
A wnaeth im' droi hyn o werſau,
I chwi'r Cymry, yn ganiadau.

Am wel'd † dyfn-waith enwog Salſbury
Gan y diddyſg heb ei hoffi,
Cym'rais feſur byr cyn *blained*,
Hawdd i'w ddyſgu, hawdd i'w 'ſtyried.

Gelwais hon yn *Ganwyll Cymro*,
Am im' chwennych brudd oleuo
Pawb o'r Cymry diddyſg deillion,
I was'naethu Duw yn union.

Er mwyn helpu'r annyſgedig,
Sydd heb ddeall ond ychydig,
Y cynhullais hyn mor gyſon;
Mae gan eraill well athrawon.

Duw oleuo pawb o'r Cymry,
I'w wir 'nabod a'i was'naethu;
Duw a wnel i hyn o *Ganwyll*
Ro'i i'r dall oleuni didwyll.

* A byr gofio. † Y Salmau Cymraeg a gyfieithodd Mr. William Salſbury.

# Canwyll y Cymry, &c.

Cyngor *i wrando ac i ddarllen Gair* Duw.

Os cais gwr, na gwraig, na bachgen,
Ddyſgu'r ffordd i'r nefoedd lawen, *Ioan* 5. 39.
Ceiſied Air Duw i'w gyf'rwyddo,
Onid ê, fe aiff ar ddidro.

Mae'r nef ymhell, mae'r ffordd yn ddyrus, *Mat.* 7. 14.
Mae'r tramwy'n fach, mae rhwyſtrau anhappus,
Mae'r porth yn gul i fyned trwyddo, *Sal.* 119. 105.
Heb oleu'r Gair nid air byth atto.

Mae'r nef uwchlaw yr haul a'r lleuad,
Mae'r ffordd yn ddierth it' i ddringad:
Rhaid Criſt yn yſgol cyn dringhadech,
A'i Air yn ganwyll cyn canfyddech.

Mae llawer craig o rwyſtrau cnawdol,
Mae llawer môr o drallod bydol; *Mat.* 18. 7.
Cyn myn'd i'r nef rhaid myned troſtynt, *Sal.* 119. 92.
Heb oleu'r Gair nid air byth trwyddynt.

Mae llawer mil o lwybrau ceimion,
O dd'ryſwch blin, o ffoſydd dyfnion:
Cyn myn'd i'r nef 'rwy'n d'wedyd wrthyd,
Heb oleu'r Gair ni elli eu goch'lyd.

Di elli fyn'd i uffern danllyd,
Lwyr dy ben heb un cyf'rwyddyd;
Nid â neb i'r nef, gwnaed allo,
Heb 'r Efengyl i'w gyf'rwyddo. *Rhuf.* 1. 16.

Nid goleu'r haul, nid goleu'r lleuad,
Nid goleu'r dydd, na'r ſer ſy'n gwingad,
Ond goleu'r Gair a'r 'Fengyl hyfryd,
All dy oleuo i dir y Bywyd.

Cymmer Lantern Duw'th oleuo,
A'r Efengyl i'th gyf'rwyddo:
Troedia'r llwybr cul orch'mynwys,
Di ai'n union i baradwys.

Y Gair yw'r ganwyll a'th oleua, *2 Ped.* 1.19.
Y Gair yw'r gennad a'th gyf'rwydda,
Y Gair a'th arwain i baradwys,
Y Gair a'th ddwg i'r nef yn gymmwys.

Dilyn ditheu oleuni'r Gair,
Gwna'r peth archodd un Mab Mair:
Gochel wneuthur a w'rafunwys,
Di ai'n union i baradwys.

Fel Seren wen yn arwain dyn
O fan i fan at Grift ei hun,
Yw'r Efengyl i gyf'rwyddo
Pawb i'r nefoedd a'i dilyno.

Bwyd i'r enaid, bara'r bywyd,
Gras i'r corph, a maeth i'r yfpryd;
Lamp i'r troed, a ffrwyn i'r genau, *Jer.* 15.16.
Yw Gair Duw a'r holl 'fgrythurau.

Llaeth i fagu'r gwan yfprydol,
Gwin i lonni'r trift cyftuddiol; *1 Pedr* 2.2.
Manna i borthi'r gwael newynllyd, *Sal.* 19.8.
Ydyw'r Gair a'r 'Fengyl hyfryd.

Eli gwych rhag pob rhyw bechod,
*Oil* i ddofi gwŷn cydwybod: *Diar.* 4.22.
Triagl gwerthfawr rhag pob gwenwyn
Ydyw'r Gair, a balfam addfwyn.

Morthwyl dûr i bario'n cnapiau, *Jer.* 23.29.
Bwyall lem i dorri'n ceingciau;
Rheol gymmwys i'n trwfiadu,
Ydyw'r Gair, ac Athro i'n dyfgu.

Udgorn pres i'n * gwyfio i'r || frawdle,
Cloch i'n gwawdd i wella'n beie;
‡ *Herawld* yn *proclaimio*'n heddwch
Ydyw'r Gair, a'n gwir ddiddanwch.

Y Gair yw'r Drych fy'n gwir ddinoethi *Iago* 1.23.
Ein holl frychau, a'n holl frynti; *Rhuf.* 3.20.
Ac yn erchi i ni eu gwella,
Tra fo'r dydd a'r goleu'n para.

Y Gair yw'r Hâd fy'n adgenhedlu *1 Pedr* 1.23.
Yn blant i Dduw, yn frodyr Iefu:

* Galw. || Lle barn. ‡ Cennad yn cyhoeddi.

Yn deulu'r nef, yn deml i'r Yſpryd,
Yn wir drigolion tir y bywyd.

Heb y ‖ Gair nid wy'n dychymmyg, *Rhuf.* 1.16.
Pa wedd y bydd dyn yn gadwedig:
Lle mae'r Gair yn benna' o'r moddion
Ordeiniodd Criſt i gadw Criſtion.

Heb y Gair ni ellir 'nabod
Duw, na'i natur, na'i lân hanfod,
Na'i Fab Criſt, na'r ſanctaidd Yſpryd,
Na rhinweddau'r Drindod hyfryd.

Heb y Gair ni ddichon un-dyn
'Nabod 'wyllys Duw, na'i ganlyn:
Na gwir ddyſgu'r ffordd i addoli,
Nes i'r Gair roi iddo oleuni.

Heb y 'Sgrythur ni ddealla
Un dyn byth ei gwymp yn Adda,
Na'i drueni, na'i ymwared,
Trwy Fab Duw, o'r ſath gaethiwed.

Heb y Gair ni all neb gredu
Yng Nghriſt Ieſu fu'n ei brynu: *Rhuf.* 10.
Can's o wrando'r Gair yn brudd, 14—17.
Y mae i Griſtion gyrraedd ffydd.

Heb y Gair nid yw Duw'n arfer
Troi un enaid o'i ddiffeithder,
Ond trwy'r Gair mae'n arferedig
Troi'r eneidiau ſ'o cadwedig.

A'r Gair y trodd yr Apoſtolion *Act.* 13.48.
Y Cenhedloedd yn Griſt'nogion;
Heb y Gair peth dierth yw
Troi pechadur byth at Dduw.

A phregethiad yr Efengyl, *Act.* 2.41.
Y trodd Pedr gwedi tair-mil
O Iuddewon i wir gredu,
Ar ol iddynt ladd yr Iesu.

Trwy had y Gair yr adgenhedla *Iago* 1.18.
Yſpryd Duw'r pechadur mwya';

‖ Er bod gwaith y greadigaeth a goleuni natur yn dangos ſod Duw mewn rhan; etto y Gair ſy'n ei oſod ef allan yn Dduw'r Iachawdwriaeth.

Ac a'i gwna yn oreu ei ryw,
Yn frawd i Grift, yn fab i Dduw.

Y Gair fy'n cynnwys ynddo'n helaeth,
Faint fydd raid at Iachawdwriaeth,
Chwilia hwn a chais e'n aftud, *Ioan* 5.39.
Can's ynddo mae'r trag'wyddol fywyd.

Crift fy'n erchi it' lafurio
Am y Gair â'th draed a'th ddwylo,
Mwy nag am y bwyd a dderfydd, *Ioan* 6.27.
Os chwennychu fyw'n dragywydd.

Fel y llef dyn bach am fronnau, 1 *Pedr* 2.2.
Fel y cais tir crâs gawodau:
Fel y brefa'r hydd am ffynnon, *Sal.* 42.1.
Llef am eiriau'r 'Fengyl dirion.

Gwerth dy dir a gwerth dy ddodre'n,
Gwerth dy grys oddi am dy gefen:
Gwerth y cwbwl oll fydd gennyd,
Cyn b'ech byw heb Air y bywyd.

Gwell it' fod heb fwyd, heb ddiod,
Heb dŷ, heb dân, heb wely, heb wafgod;
Heb oleu'r dydd a'r haul garuaidd,
Na bod heb 'r Efengyl fanctaidd.

Toft yw aros mewn cornelyn,
Lle na oleuo'r haul trwy'r flwyddyn;
Toftach trigo yn y cwarter
Lle na oleuo'r Gair un amfer.

Na thrig mewn gwlad heb wlaw ar brydiau,
Mewn glyn heb haul, mewn tŷ heb olau:
Mewn tref heb ddw'r, mewn llong heb gwmpas,
Mewn plwyf heb ryw bregethwr addas.

Gado'r wlad, a'r plwyf, a'r pentre',
Gado'th dad, a'th fam, a'th drafe;
Gado'r tai, a'r tir yn ebrwydd,
Lle na byddo Gair yr Arglwydd.

Gwell it' drigo mewn ogofau,
A chael gwrando'r 'Fengyl weithiau,
Nag it' drigo mewn gwlad ffrwythlon,
Lle na byddo'r 'Fengyl dirion.

Toft yw trigo mewn tywyllwch,
Lle na chaffer dim diddanwch:

Triſtach trigo yn rhy hair,
Lle nâ chaffer gwrando'r Gair.

Nid gwaeth trigo ymyſg y Twrcod,
Sydd heb ofni Duw na'i 'nabod,
Nag it' drigo'n doſt dy dreigyl,
Lle na chlywer Criſt na'i 'Fengyl.

Tyn i Loeger, tyn i Lundain,
Tyn dros fôr tu hwnt i Rufain,
Tyn i eitha'r byd ar dreigyl,
Hyd nes caffech gwrdd â'r 'Fengyl.

Blin it' wel'd yr haul a'r gwlaw,
Mewn plwyfau o ddeutu yma a thraw;
A'th blwyf ditheu (peth yſgymmun)
Heb na haul na gwlaw trwy'r flwyddyn.

Oni bydd un bregeth * ddurfing *Heb*.4.12.
Yn y plwyf lle b'ech yn taring,
Dos i maes i'r plwyf lle byddo, *Joſ*.22.19.
Na ad un Sabbath heb ei gwrando.

Pan f'o eiſiau ar dy fola,
Di ai i'r gell i geiſio bara:
Pan b'o newyn ar dy enaid,
Nid ai i un lle i geiſio'i gyfraid.

Pa beth a dâl it' borthi'r corphyn, *Mat*.16.26.
Os bydd d'enaid marw o newyn:
A all dy gorph di gael difyrrwch,
Pan fo d'enaid marw o driſtwch?

Drwg it' ladd y corph â newyn,
Eiſiau bara tra fo'r flwyddyn;
Gwaeth o lawer lladd yr yſpryd,
Eiſiau ei borthi â bara'r bywyd.

Llef gan hynny ar y 'ffeiriaid,
Am roi bwyd i borthi d enaid; *Mal*.2.7.
'Rwyt ti'n rhoi dy ddegwm iddyn',
Pâr i'nt hwythau dorri'th newyn.

Gwrando'r Gair o enau'r 'ffeiriad, *Luc* 10.16.
Fel o enau Criſt dy Geidwad;
Criſt a rôdd awdurdod iddo,
I'th gynghori a'th rybuddio.

* Lymdoſt.

Os pâr Crist i 'ffeiriad noethlyd,
Dy rybuddio wella'th fywyd: *2 Pedr* 2.16.
'Rwyt ti'n rhwym i wneuthur archo,
Pe doi asen i'th rybuddio.

Pe doi Suddas i bregethu
'Fengyl Crist, ti dd'lid ei dysgu;
Fe all 'r Efengyl gadw d'enaid,
Er i'th athro dost gamsyniaid.

Os dy fugail sydd anweddaidd, *Mat*.23.2,3.
A'i athrawiaeth yn grist'nogaidd;
Dysg ei wers, na ddysg ei arfer,
Gochel feiau Paul a Pheder.

Na wna bris o'i wedd na'i wisgad,
Pa un ai gwych ai gwael fo'i ddillad:
Nid llai grym 'r Efengyl gyngan
O'r siacced ffrîs na'r * gassog sidan.

Cymmer berl o enau llyffan',
Cymmer aur o ddwylo aflan,
Cymmer wîn o bottel fudur,
Cymmer ddysg o ben pechadur.

Gwrando'r 'Fengyl, Crist yw hawdwr,
Pa fath bynnag fo'r pregethwr;
Prisia'r Gair, na phrisia'r gennad,
Crist ei hun a'i helodd attad.

Cadw'r geiriau yn dy galon,
Na ad eu dwyn gan gigfrain duon; *Marc* 4.4.
Had yw'r Gair i'th adgenhedlu,
Os i'r galon y derbynni.

Dyfal chwilia di'r 'sgrythurau,
Darllen Air Duw nos a borau: *Ioan* 5.39.
Dilyn arch y Gair yn ddeddfol,
Hynny'th wna di'n ddoeth anianol.

Cadw'r Gair bob pryd i'th galon, *Deut*.6.6,7.
Ac hyspysa hwn i'th feibion:
Sonia am dano nos a bore,
Y mewn, y maes, wrth rodio, wrth eiste'.

Dod e'n gadwyn am dy † swnwg,
Dod e'n rhactal o flaen d'olwg:

* Math o wisg offeiriad. † Gwddf.

Dod e'n *ſignet* ar dy fyſedd,
Na ddos hebddo led y droedfedd. *Sal.*119.98.

Gwna'r Gair beunydd yn gydymaith,
Gwna'n gywelu it' bob nosſwaith:
Gwna e'n gyfaill wrth ſiwrneia,
Gwna'r peth archo wrth chwedleua.

Gwna 'fe'n ben-cynghorwr i ti, *Sal.*119.24.
Gwna 'fe'n athro i'th reoli:
Fe ry'r Gair it' gan gwell cyngor,
Nag a roddo unrhyw ddoctor.

Na'd e'i drigo yn yr eglwys,
Gyd â'r 'ffeiriad 'r hwn a'i traethwys;
Dwg ef adref yn dy galon,
Ail-fynega rhwng dy ddynion.

Gwna di'r Gair yn ddyſglaid benna' *Jer.*15.16.
Ar dy ford tra f'ech ti'n bwytta:
Gwedi bwytta, cyn cyfodi,
Bid y Gair yn * *juncets* i ti.

Rho i'th enaid nos a borau
*Frecffaſt* fechan o'r 'ſgrythurau;
Rho iddo ginio brudd a *ſwpper*,
Cyn yr elych i'th eſmwythder.

Fel y porthi'r corph â bara,
Portha d'enaid bach â'r manna;
Na ad i'th enaid hir newynu,
Mwy nâ'r corph ſy'n cael ei fagu.

Mae'r Bibl bach yn awr yn gyſon,
Yn iaith dy fam i'w gael er coron;
Gwerth dy grys cyn bod heb hwnnw,
Mae'n well nâ thref dy dad i'th gadw.

Gwell nag aur, a gwell nag arian, *Sal.*119.72.
Gwell nâ'r badell fawr na'r crochan:
Gwell ddodrefnyn yn dy letty, *Rhuf.*15.4.
Yw'r Bibl bach nâ dim a feddi.

Fe ry gomffordd, fe ry gyngor,
Fe ry addyſg gwell nâ doctor:
Fe ry lwyddiant a diddanwch,
Fe ry it' lawer o ddedwyddwch.

* Felus-fwyd.

Fe ry fara i borthi d'enaid,
Fe ry laeth i fagu'th weiniaid:
Fe ry win i'th lawenhau,
Fe ry eli i'th iachau.

Pwy na phrynai'r Bibl ſanctaidd,
Sydd mor werthfawr, ac mor g'ruaidd!
Pwy na werthai ei dŷ a'i dyddyn,
I bwrcaſu'r fath ddodrefnyn?

Dyma'r Perl a fyn yr Ieſu, *Mat.* 13.45.
I bob Criſtion doeth ei brynu,
Fel y * *marſiant* call a werthai,
I brynu hwn, faint oll a feddai.

Gan i Dduw roi i ni'r Cymry,
Ei Air ſanctaidd i'n gwir-ddyſgu;
Moeſwch i ni fawr a bychain,
Gwympo i ddyſgu hwn a'i ddarllain.

Moeſwch i ni, wyr a gwragedd,
Gyd â'u gilydd, heb ymhywedd,
Brynu bob un iddo lyfyr,
I gael darllen geiriau'r 'ſgrythur.

Moeſwch i ni bawb rhag gw'radwydd,
Ddyſgu darllen Gair yr Arglwydd,
Gan i Dduw ei ddanfon adre'
Attom bawb yn iaith ein mamme.

Na ad'wn fyn'd y gwaith yn ofer,
A fu'n goſtfawr i wyr Lloeger,
Rhag na fedrom wneuthur cyfri'
Ddydd y farn am gyfryw wrth'ni.

Gwyr a gwragedd, merched, meibion,
Cym'rwn ddyſg oddiwrth y Saeſon,
Y rhai a fedr bob un ddarllain,
Llyfr Duw 'n eu hiaith eu hunain.

Gw'radwydd blin i ninnau'r Cymry,
Oni cheiſiwn weithian ddyſgu
Darllen gair Duw, a'r 'ſgrythurau,
Gan eu printio yn iaith ein mammau.

Ni chyſt Bibl i ni weithian
Ddim tu hwnt i goron arian:

* Marſiandwr.

Gwerth hen ddafad a fo marw
Yn y clawdd ar nosfwaith arw.
Os medr un o'r tylwyth ddarllain,
Llyfr Duw yn ddigon cywrain;
Fe all hwnnw'n ddigon esmwyth,
Ddysgu'r cwbwl o'r holl dylwyth.
Ni bydd Cymro'n dysgu darllain,
Pob Cymraeg yn ddigon cywrain,
Ond un mis-gwaith, beth yw hynny?
Os bydd 'wyllys ganddo i ddysgu.
Mae'n g'wilyddus i bob Cristion
Na chlyw arno 'stofi coron!
Ac un mis-gwaith o'i holl fywyd
Ynghylch dysgu'r 'Fengyl hyfryd.
Mae'r § cobleriaid a'u morwynion,
A'r rhai gwaetha 'mysg y Saeson,
Bob yr un a'r Bibl ganthynt,
Dydd a nos yn darllain ynthynt.
Mae'r pennaethiaid gyd â ninnau,
A'u || *Tableri* ar eu bordau,
Heb un Bibl, nac un plygain
Yn eu tai, na neb i ddarllain.
Peth c'wilyddus gwel'd cobleriaid
Yn rhagori ar bennaethiaid!
Am gadwraeth eu heneidiau,
A'r peth rheittaf mewn neuaddau.
Y cobleriaid hyn a gyfyd
Ddydd y farn yn anian aethlyd,
I gondemnio'r fath bennaethiaid,
Sydd mor ddi-bris am yr enaid.
Pob merch *tincer* gyd â'r Saeson
Feder ddarllain llyfrau mawrion,
Ni ŵyr merched llawer 'scwier,
Gyd â ninnau ddarllain Pader.
Gw'radwydd tost sydd i'r Brutaniaid,
Eu bod mewn crefydd mor ddieithraid,

§ Os oeddym felly y pryd hynny, clod i Dduw! mae gennym yn awr gymmaint o foddion gwybodaeth, a rhai a chymmaint o honi a'n cymmydogion. || Math o chwarae.

Ac na's gŵyr y ganfed ddarllain,
Llyfr Duw'n eu hiaith eu hunain.
Bellach moefwch in' rhag c'wilydd,
Bob rhai ddyfgu pyngciau crefydd!
Ac ymroi i ddyfgu darllain, *Ioan* 17.3.
Llyfr Duw a'n hiaith ein hunain.
Felly gallwn ddyfgu 'nabod
Y gwir Dduw, a'i ofni'n waftod;
Ac o'i 'nabod a'i wir ofni,
Fe ry'r didrangc fywyd i ni.
Duw r'o gras a grym i'r Cymry
Adnabod Duw, a'i wir was'naethu;
Crift a nertho bob rhai ddarllain,
Llyfr Duw'n eu hiaith eu hunain.

II. *Hil* BRUTUS. *Rhybudd i'r Cymry i edifarhau.*

HIL Brutus fab Sylfus, Brutaniaid brwd hoenus,
Curedig cariadus, cyd redwch i'm bron,
I wrando'n 'wyllyfgar â chalon ufuddgar,
Fy llefain a'm llafar hiraethlon.

Mae rhôd y ffurfafen yn dirwyn y bellen
O'n heinioes, nes gorphen, heb orphwys nos na dydd;
A ninnau heb feddwl, nes dirwyn y cwbwl,
Yn cwympo i'r trwbwl tragywydd.

Fel llong dan ei hwylau, yn cerdded ei fiwrnau,
Tr'o'r morwyr yn chwarau, neu'n chwrnu ar y nen,
Mae'n heinioes yn *pafio*, bob amfer heb *ftaio*,
Beth bynnag a wnelo ei pherchen.

Mae'r angeu glas yntau yn dilyn ein fodlau,
A'i ‡ *ddart* ac â'i faethau, fel lleidr di-fon, ‡ *piccell.*
Yn barod i'n corddi ynghanol ein gwegi,
Pan b'om ni heb ofni ei ddyrnodion.

A'n bywyd fel † bwmbwl ar lynwyn go drwbwl,
Sy'n diffodd cyn meddwl ei fod ef yn myn'd;
A ninnau cyn ddyled, nad y'm yn ei weled,
Nes darffo iddo fyned i'w helynd. *Iag.*4.14.

Mae'r byd yntau'r cleirchyn, yn glaf ar ei derfyn,
Bob ennyd yn rofyn rhwyfo tu a'i fedd;

† Bothellen o ddwfr.

A'i ben wedi *dottio* a'i galon yn *ffeintio*,
  A'i fuſtil yn *waſtio* yn rhyfedd. *Eſa.* 1.5.
'Ry'm ninnau blant dynion, heb arſwyd nac ofon,
  Yn § *truſto* gormoddion i'r gwr marwedd hên;
Fel morwyr methedig, a druſtent mewn perig'
  I'r llongau ſigedig nes ſodden'.

O nedwch in' druſto i'r byd ſy'n ein twyllo,
  Fel iâ pan y torro gric dan ein tra'd; *Luc* 12.20.
A'n gollwng heb wybod, i'r farn yn amharod,
  Cyn inni gydnabod ei fwriad.

Ond moeſwch yn * *garcus*, in' bawb fod yn dacclus,
  I fyned yn weddus, ni wyddom pa awr,
O flaen y Meſſias, yng wiſg y briodas,
  A thrwſiad cyfaddas i'r neithiawr. *Mat.*22.11.

A nedwch ein dala, pan ddelo'r awr waetha, *Luc* 21.34.
  Mewn medd'dod, putteindra, rhag rhwyſtr i'r daith,
Heb *oil* yn ein lleſtri, heb *gownt* o'n talenti,
  A'r cwbwl o'n cyfri' yn berffaith. *Mat.* 25.

Mae'r fwyall ar wreiddau y crin-goed er's dyddiau,
  Mae'r wyntill yn dechrau dychryn yr us; *Mat.*3.10
Mae'r Angel â'r crymman yn bygwth y graban,
  I'w bwrw i'r boban enbeidus. *Dat.*15.19.

Mae'r farn uwch ein pennau mae'r dydd wrth y dryſau,
  Mae'r udgyrn bob borau yn barod roi blo'dd, 1 *Cor.*
Mae'r môr a'r mynwentydd, ac uffern yn ufudd, 15.52
  Roi'r meirw i fynydd a lyngcodd. *Dat.*20.13.

A'r Barnwr ſydd barod, a'r Saint ſy'n ei warchod,
  A'r dydd ſydd ar ddyfod i ddifa hyn o fyd;
A'n galw'r holl ddynion, o flaen y Duw cyfion,
  I gyfri' am a gawſom o olud. 2 *Cor.*5.10.

'Ry'm ninnau'n ymbeſgi ar bechod a brynti,
  Heb feddwl am gyfri', na gorfod ei roi;
Yn *waſtio*'n talentau i borthi'n trachwantau,
  Doed â barn a dialau pan delo'i.

Fel Cawri cyn diluw, fel Sodom cyn diſtryw,
  Fel Phar'o a'r cyfryw (eu cyfrif nid gwaeth)
Yr ydym ni'n pechu, â'n grym ac â'n gallu,
  Heb fedru 'difaru yſywaeth.

§ Hyderu. * Ofalus.

Ymbesgi ar bechod fel moch ar y callod,
  Ymlanw ar ddiod fel ychen ar ddw'r;
Ymdroi mewn putteindra, fel perchyll mewn llacca,
  Yw'n crefydd, heb goffa cyfyngdwr.

Tyngu a rhegu, a rhwygo cig Iesu,
  Ac ymladd am gwnnu y ‡ gawnen i gyd,
Cyfreithia'n rhy ddiriaid, nes myn'd yn *fegeriaid*,
  A gadael y gweiniaid mewn gofid.

Mae'r haul, y mae'r lleuad yn gwel'd ein hymddygiad,
  Mae'r ddaear yn beichiad fod ein buchedd mor ddrwg,
Mae'r sanctaidd angylion yn athrist eu calon, *Rhuf.* 8.22
  Wrth weled Crist'nogion yn cynddrwg.

Mae'r 'ffeiriad, mae'r ffermwr, mae'r hwsmon a'r creff-
  Mae'r baili a'r barnwr, a'r bonedd o'u bron, [twr,
Bob un am y cynta', yn digio'r Gorucha',
  Heb wybod p'un waetha' eu harferion.

Mae'r ffeiriaid yn *loitran*, mae'r barnwyr yn *bribian*,
  Mae'r bonedd yn *tiplan* o dafarn i dwlc;
Mae'r hwsmon oedd echdo' heb fedru cwmpnio,
  Yn yfed *Tobacco* yn ddidwlc.

Putteindra'r Sodomiaid, medd'dod y Parthiaid,
  Lladrad y Cretiaid, (os credwch y gwir)
Ffalstedd gwlad Grecia, gwangred Samaria,
  Sy'n awr yn llettua ymhob rhandir.

Mae'n anfoes im' draethu ein campau ni'r Cymry,
  Rhag c'wilydd mynegu'n hymddygiad i'r byd,
Etto rhaid meddwl, y traetha Duw'r cwbwl,
  Pan ddelo'r dydd trwbwl i'w trefnyd.

Gwell i ni'r awran gael clywed eu datgan,
  Er peri i ni'n fuan 'difaru tra f'om;
Nâ gweled ein taflu i'r tywyll garchardy,
  O eisiau 'difaru tra fyddom.

Gan hynny mi fynnwn, gael gennych, pe gallwn,
  Ymbilio am bardwn yr ennyd y b'och,
A gwella'n 'wyllysgar, cyn eloi'n ddiweddar,
  Rhag bod yn edifar pan deloch.

Mae'n ofer 'difaru, a chrio, a chrynu,
  Pan ddelir i'n barnu, bawb wrth y *bar*;

‡ Cael y goreu.

Ni cheir ond cyfiawnder, er cymmaint a *grier*,
  Pan elo'i yn amſer diweddar.

Meddyliwn gan hynny, cyn delo Criſt Ieſu
  O'r nefoedd i'n barnu, bob un wrth ei ben,
Am fod yn edifar, a deiſyf ei ffafar,
  Cyn tafler ni i'r carchar anniben.

## *Yr Ail Ran.*

FE ddaw yn dra digllon, â llu o angylion,
  I ddial ar ddynion ei ddirmyg mor ddû,
Yn daran echrydus, i'r bobol anraſus, *Mat.*16.27.
  Sy 'rwan mor frowus yn pechu.

Yno waith cymmaint a fydd ei ddigofaint,
  Ei weiſion a'i geraint a garai mor gu;
A'i ſanctaidd angylion a grynant yn greulon,
  Pan ddelo mor ddigllon i farnu.

Yr haul a dywylla, y lleuad a wrida,
  Y nefoedd a gryna bob modfedd yn grych,
A'r dewra o blant dynion, rhag echryd ac ofon,
  A gria'n hiraethlon wrth edrych.

Fe dawdd y ffurfafen, fe ſyrthia pob ſeren,
  Fe loſga'r holl ddaeren oddi arni yn boeth;
A'r tyrrau a'r ceſtyll a gwympant yn gandryll,
  A phob rhyw o bebyll a'n bilboeth.

Y creigydd a holltant, y glennydd a doddant,
  Y moroedd a ſychant ar ſyrthiad y ſer;
A phob rhyw fwyſtfilod, ymluſgiaid a phyſgod,
  A drengant ar waelod y dyfnder.

Pan ddelo Criſt Ieſu, mewn nerth ac mewn gallu,
  O'r nefoedd i'n barnu ni, bawb wrth ei ben,
Pa wyneb na laſa, pa galon na wywa,
  Wrth wel'd y gymmanfa yn yr wybren?

Pa waſgfa, pa wewyr, pa gymffwrdd, pa gyſur,
  A fydd gan bechadur na chodo ei big? 1*Ped.*4.18.
Pan welo'r fath drallod, ar bob peth yn dyfod,
  O herwydd ei bechod yn unig.

Brenhinoedd cadarnblaid, cawri, capteniaid, *Dat.*6.15,
  Beilchion a * gwylliaid gwycha'r awr hon, 16.

* Lladron.

A griant ar greigydd, am bwnian eu mhennydd,
 A'u cuddio rhag cerydd Duw cyfion.
Yn hyn o lwyr drafel, fe gân yr archangel
 Ei udgorn mor uchel, ond awchus y cri!
Nes clywo'r rhai meirw, yn grai ac yn groyw,
 Y llef yn eu galw i gyfri'.
A'r meirw a godant, ar d'rawiad yr amrant,
 O'r llwch lle gorweddant, pan glywant y cri,
A'r byw a newidir, a phawb a gyrhaeddir 1 *Cor*.15.5
 I'r wybren, lle bernir eu brynti. 1 *Thes*.4.17.
Y Barnwr mawr yntau, yn gyflym â'i gleddau,
 A'i dafol a'i bwyfau, a bwyfa ddrwg a da;
Gan rannu i'r eneidiau, wrth gywir fefurau,
 Y cyfion o'r gorau, a'r gwaetha'.
Nid edrych e'n llygad yr emprwr na'r abad,
 Ni phrifia fe drwfiad na galwad un gwr:
Ond rhannu cyfiawnder i'r brenin a'r † *beger*,
 Heb ofni ‡ *difplefer* na chryfdwr.
Fe egyr y llyfrau, fe rwyga'u calonnau, *Dat*.20.12.
 Fe ddengys eu beiau yn amlwg i'r byd;
Fe deifil anwiredd pawb yn eu ddannedd;
 Fe ddial ar gamwedd y gwynfyd. *Luc*.12.25.
Ni ddiangc gair ofer, na'r ffyrling a dreulier, *Mat*.12.
 Na'r funud a waftier heb yftyr na phwys, 36.
Na gwagedd, na gwegi, na beiau, na brynti, *Preg*.12.14
 Na's gorfydd eu cyfri' yn gyfrwys.
Putteindra'r gwyr mawrion a'r gwragedd bon'ddigion,
 Sy'n arfer eu gweifion heb wybod i'r gwyr; *Gen*.39.21
A'r mawrddrwg a'r mwrddrad, a'r ffalftedd a'r lladrad,
 A wneir i bob llygad yn eglur.
Pa wyneb iradus, pa galon echrydus,
 Pa gynffwrdd gofidus, gwae feddo ar y fath,
A fydd y pryd hynny, gan bobl fydd heddy'
 Mor ffyrnig yn pechu yfywaeth!
Ni ddiangc na llymmaid, na thippyn, na thammaid, *Mat*.
 A roddir i'r gweiniaid er mwyn Iefu gwyn, 10.42.
Heb ymdal am dano, a chyfrif, a chofio,
 Y briwfion a ballo y cerlyn.

† Cardottyn. ‡ Anfoddlondeb.

Yno detholir y defaid a'r geifir,
Ac yno y bernir pawb wrth y § *pol*, § *Pen.*
Y defaid i'r deyrnas, mewn harddwch ac urddas,
A'r geifr i'r ffwrnas uffernol.

Yno'r a'r cyfion yn llawen eu calon,
Mewn gynau tra gwynion yn union i'r nef, *Dat.* 7. 9.
I dderbyn gorefgyn o'r deyrnas ddiderfyn,
A roddodd Duw iddyn' yn artref.

A'r geifir damnedig, a'r bobol fileinig,
Sy 'rwan yn dirmyg y Barnwr a'r dydd, *Mat.* 13. 30.
A deflir yn glymmau, mewn cadarn gadwynau,
I uffern i'r poenau tragywydd.

Yn uffern y llefan', gan flined eu llofgfan,
Yn ebrwydd ar Abra'm am ddafan o ddw'r;
Ond llefent hyd * *ddiffin*, ni chant hwy un droppyn,
Na thammaid, na thippin o swccwr. * *Byth.*

Can's yno'n dragywydd, mewn carchar a chyftudd,
Heb obaith y derfydd eu tra dirfawr gur,
O herwydd anwiredd, yn rhingcian eu dannedd,
Heb derfyn na diwedd o'u dolur. *Mat.* 13. 42.

Ac yno'r awn ninnau, i eftyn ein gweflau,
Am dreulio ein dyddiau mewn pechod mor dal,
O ddiffyg in' wilio a dyfal weddio,
A gwella cyn delo'r dydd dial.

Meddyliwn gan hynny, tro'r amfer yn gadu,
Am brudd edifaru, nid yw foru i neb,
A 'madael â'n brynti, a'n gwagedd, a'n gwegi,
Cyn delom i gyfri' ac atteb.

Duw Iefu dewifol a brynaift dy bobol
O'r ffwrnais uffernol, oedd ffyrnig ei phwys,
Cadw'n eneidie, pan delont i'r frawdle,
A dwg hwy i gadeirie paradwys.

Os gofyn Deheubarth, na Gwynedd o un parth,
Pwy ganodd y dofparth, i'ch difpwyll rhag ing,
Eglwyfwr fy'n hoffi eich dad'raidd o'ch didri,
A'ch cofio am eich cyfri' mawr cyfyng.

III. *Truenus gyflwr dyn wrth naturiaeth.*

ADDA werthodd bawb o'r byd, *Gen.* 3. 6.
I'r hên farph am afal drud; *Rhuf.* 5. 12.

Ni ddaw un o grampau Satan,
Nes del Crist i'w dynnu allan.

Y mae Satan ynte'n cadw
Pob pechadur, gwrryw a benyw,
Yn ei garchar tonnog, tywyll,
Nes del Crist i'w dorri e'n gandryll. *Esa.*42.7.

Y mae'r carchar cyn dywylled,
Fel nad y'm yn abal gweled
'Mo'n tost gyflwr a'n gofidi,
Nes del Crist â goleu i ni. *Ioan* 8.12.

'Ry'm ni'n aros heddyw, heno,
Mewn tywyllwch dan ei ddwylo,
Ac heb weled ein trueni,
Nes del Crist i'w ddangos i ni. *Act.*26.18.

'Ry'm ni'n farw yn ein pechod, *Eph.*2.1.
'Ry'm ni heb wel'd 'mo'n câs na'i ganfod,
'Ry'm ni'n gorwedd mewn tywyllwch,
Ac heb geisio gwell diddanwch.

'Rwyt ti'n ymladd ymhlaid Satan,
'Rwyt ti'n elyn it' dy hunan;
'Rwyt ti'n myned byth ar ddidro, *Mat.*18.11,12.
Nes del Crist i'th droi a'th rwystro.

'Rwyt ti eisoes gwedi'th golli,
A'th gondemnio cyn dy eni;
Oni cheisi Grist i'th helpu,
Yn golledig yr arhosi.

Mae'r sarph â'i cholyn gwedi'th frathu,
Mae d'enaid bach o'r brath yn gruddfu:
Cais Grist yn feddyg i'th iachau,
Oni's ceisi marw a wnai.

Mae d'enaid gwedi'r diawl ei 'speilio,
O'r holl ddoniau roes Duw iddo;
Cais gan Grist ei ail ddilladu,
Oni's ceisi'n siwr di sythu. *Dat.*3.18.

Mae'r fall â'i follt o bechod tanllyd,
Wedi'th glwyfo yn wenwynllyd:
Cais gan Grist iachau dy glwyfau,
Oni's ceisi'r fall a'th biau.

Mae d'enaid bach fel dafad wirion,
Rhwng palfau'r llew, a'r bleiddiaid digllon;

Cais Grist mewn pryd i'th ddwyn o'i grampau,
Oni's ceisi 'r blaidd a'th biau.

Mae'r diawl fel *ffowler* gwedi dala
D'enaid bach â rhwyd o'r cryfa; *Sal.*124.7.
Ni ddoi byth o rwydau Satan,
Nes del Crist i'th dynnu allan.

'Rwyt ti'n ufudd was i bechod, *Ioan* 8.34.
'Rwyt ti'n pechu bob diwrnod;
Cais gan Grist roi gras a chryfder
It' i'w was'naethu mewn cyfiawnder.

'Rwyt ti'n blentyn i'r digofaint,
Wrth naturiaeth, fel dy geraint;
Cais gan Grist dy adgenhedlu,
Rhag dros fyth it' aros felly.

'Rwyt ti'n ‡ *slaf* i'r cythraul aflan, ‡ *Caethwas.*
'Rwyt ti'n byw dan feddiant Satan,
Cais mewn pryd gan Grist dy dynnu
O law'r fall, rhag aros felly.

Mae'r gwr cadarn yn heddychlon, *Luc* 11.21,22.
Yn cadw ei gastell yn dy galon;
Nes cael Crist i-ddwyn ei arfau,
Nid a'r cadarn byth o'th § asgrau. § *Mynwes.*

'Rwyt ti'n gangen wyllt anffrwythlon,
Heb ddwyn ffrwyth ond grawnwin surion: *Esa.*6.4.
Oni wella Crist dy natur,
I dân uffern boeth y'th deflir.

Fe wnaeth y diawl di'n elyn Duw,
O blentyn grasol gore'i ryw: *Col.*1.21.
Cais gan Grist dy * *reconsilo,* * *Heddychu.*
Rhag aros byth yn elyn iddo.

'Rwyt ti'n un o'r cywion bychain,
Y sy'n pori rhwng y cigfrain: *Mat.*13.37.
Os Crist Iesu ni'th adeina,
Cigfrain uffern a'th 'sglyfaetha.

'Rwyt ti'n gorwedd mewn tywyllwch,
Heb wir 'nabod llwybrau heddwch:
Oni oleua Crist ein llwybrau,
Ni awn i uffern ar ein pennau.

'Rwyt ti'n haeddu pob gofidi,
Gwedi'th ddamnio cyn dy eni;

Oni chei gan Grift i'th helpu,
Yn ddamnedig yr arhofi.

'Rwyt ti'n elyn i'r Goruchaf,
'Rwyt ti'n *flaf* i'r cythraul pennaf:
'Rwyt ti'n dewyn uffern ifod,
Nes del Crift i olchi'th bechod.

'Rwyt ti'n euog o bob tramgwydd, *Deut.*28.15,16,17.
O bob nychdod, o bob aflwydd,
O bob gofid, o bob trallod,
Nes cael Crift i olchi'th bechod.

Drwg tu fewn, a drwg tu fa's,
Llawn o bechod, tlawd o ras; *Rhuf.*3.10—19.
Aflan, oflyd, dwl, diwybod,
Nes cael Crift i olchi 'th bechod.

Dyma gyflwr pob rhyw Griftion,
Medd y 'fgrythur yn § *blain* ddigon, § *Eglur.*
Hyd nes delo Crift ein Prynwr,
I'n hail-eni, i wella ein cyflwr.

Oni chawn ni Grift i'n helpu, *Rhuf.*5.7.
A'n hail-weithio, a'n gwaredu, *Cor.*3.5.
Ni all dyn o'i rym ei hunan,
Wella ei gyflwr mwy nâ Satan.

Ni all Peder, ni all Pawl,
Ni all angel, ni all diawl;
Ni all neb ond Crift yn unig,
Gadw enaid dyn colledig.

Chwilia'r nef, a'r ddae'r, a'r awyr,
Chwilia'r môr, a phob creadur;
Di gei weled na all un,
Ond Crift gadw enaid dyn.

Oni cheifi Grift ein Prynwr,
Gan ei Dad i wella'th gyflwr,
I bwll uffern yr ai i drigo,
O eifiau ceifio cymmorth ganddo.

Ni bydd un dyn yn gadwedig,
O'r holl fyd, er maint ei ryfyg, *Mat.*7.21.
Ond y dyn a gaffo ei gadw,
Er mwyn Crift ein Ceidwad croyw.

Ac ni cheidw Crift un Criftion,
O'r holl fyd, er maint a grion',

Ond y dyn a gretto yn brudd,
Yng Nghrist trwy wir a bywiol ffydd.
 Y neb a gretto yng Nghrist yn gywir,
Fe gaiff hwnnw ei gadw'n sicir;
Y neb ni chretto ynddo'n syth, *Ioan* 3.36.
Ni chaiff hwnnw ei gadw byth.

IV. *Genedigaeth, Bywyd, a Marwolaeth* CRIST.

POB rhyw Gristion ag sy'n caru
'Nabod Crist a fu'n ein prynu,
Clywch fi'n adrodd genedigaeth
Prynwr cred a'i brudd farwolaeth.
 Y Gair, Mab Duw, oedd o'r dechreuad, *Ioan* 12.3.
Cyn bod nef, na dae'r, na 'deilad, *Diar*.8.22.
Yn ail Berson o'r glân Ddrindod, 1 *Ioan* 5.7.
Yr hwn a wnaeth y byd mor barod.
 Yr oedd e'n Arglwydd c'uwch a'i Dad,
Yn y nef yn llawn o rad,
Yn rheoli'r holl angylion,
Cyn ei ddyfod at blant dynion.
 'Roedd e'n Dduw galluog grymmus, *Rhuf*. 9.5.
'Roedd e'n Arglwydd anrhydeddus,
'Roedd e'n Frenin mawr ei rad,
'Roedd e' 'mhob pwynt c'uwch a'i Dad.
 Pan ddaeth o'r nef i brynu dyn, *Phil*.2.6,7.
Fe gymmerth arno'n lliw a'n llun;
A'n gwir gnawd o Fair ei fam, *Ioan* 1.14.
'Rhon oedd wyryf bur ddinam.
 Hi feichiogodd arno yn rhyfedd,
O rad yr Yspryd Glân a'i rinwedd,
Heb fod iddi wneud na 'nabod
Gwr erioed, er bod yn briod.
 Ac felly'r aeth Mab Duw yn ddyn, *Ioan* 1.14.
O naturiaeth Mair ei hun,
(Heb ei halogi â dim pechod)
Yn y groth trwy rad y Drindod. *Rhuf*. 1.3,4.
 Dwy naturiaeth amlwg yn',
Sydd i'n Prynwr, Duw a dyn,
Un o'i Dad, a'r llall o'i fam,
Dwy wahanol dwy ddinam.

Mab i Dduw, a Mab i ddyn,
Heb un Perſon iddo ond * un;
Mab i ddyn, o fam heb dad,
Mab Duw mawr heb fam y ca'd.

O ran ei ddyndod mae'n fy mryd,
I ddangos iwch' ar hyn o bryd,
Y dull, a'r modd y ganed Ieſu,
Pan y daeth o'r nef i'n prynu.

Pan daeth Mair i Fethle'm hygar,
I dalu treth i'r emprwr Ceſar,
Daeth ei hamſer i eſgori,
Fel y traetha'r 'fengyl i ni.

Ond waith cymmaint oedd y cwmp'ni
Oedd yn gorwedd ymhob † *oſtri*, † *Lletty*.
Fe orfu ar Fair, yn fawr ei gofal,
Fyn'd i eſgori hwnt i'r ſtabal.

Yno 'mhlith y mud 'nifeilod,
Heb ddim ‖ *ſtade*, Duw'n ei wybod, ‖ *Gwychdra*.
Fe eſgorodd Mair wen ddiddig,
Ar ein Prynwr ddydd Nadolig.

Gwedi geni'n Prynwr hyfryd,
Heb fod arni boen na goſid,
Yn dra llawen hi a rwymau
Frenin nefoedd mewn cadachau.

Gwedi rwymo, hi rhoi orwedd,
Yn y preſeb yn ddiryfedd,
Ac a fyddai boddlon ddigon
I bob peth oedd Duw'n ei ddanfon.

Yno cyn i'r wawr gael torri,
Fe ddanfonai Duw gwmpeini
O fugeiliaid, mewn gwiriondeb,
I'w addoli E' yn y preſeb.

Y rhai ddanfonwyd gan angylion,
Yn dra llawen iawn eu calon,
I dref Bethle'm, o wir bwrpas,
I gael gweled y Meſſias.

* Y mae'r Duwdod yn dri Pherſon, ond yr ail Berſon a gymmerth atto natur dyn, ac a'i hunodd yn y fath fodd â'r Duwdod, fel nad yw'r ddwy natur ond un Perſon.

Ac i fyneg i bawb hefyd,
Fel y d'wedſai'r angel hyfryd,
Mai fe oedd Criſt y gwir Geidwad,
'Rhwn addawſid o'r dechreuad.

Ac y byddai mawr lawenydd,
I'r holl fyd o'r chwedel newydd,
O ran geni'r boreu hwnnw,
Y Iachawdwr ddeuai'n cadw.

Yno deuai llu o angylion,
Ac a ganent hymnau mwynion,
I'r Tad nefol o'r uchelder,
Am roi i ddynion y fath fwynder.

Ar hyn fe ymddangoſai ſeren
Rymmus, raſol, yn yr wybren,
Yr hon a dd'wedai â'i goleuni,
Fod y Prynwr gwedi eni.

Yno deuai hen wyr doethion,
O'r dwyrain-dir yn dra union,
I Judea wrth y ſeren,
I ymofyn Criſt yn llawen.

Y rhai a geiſient gael copinod,
Gan y brenin creulon Herod,
B'le ganeſid Criſt y Cyfion,
Brenin graſol yr Iuddewon.

Yna dywedai'r 'ffeiriaid mwya',
Mai ym Methle'm, tref o Juda,
Yn ſiwr y genid y Meſſias,
Meddai'r prophwyd hen Micheas. *Mic.* 5. 2.

Pan y clywai'r doethion hyn,
Daethont yn faith ac yn dyn,
I dref Bethle'm wrth y ſeren,
Dan ymofyn Criſt yn llawen.

Ond pan ddaethont hwy yn agos *Mat.* 2. 9.
I'r tŷ, y lle'r oedd Criſt yn aros,
Fe ddiſgynnai y ſeren dlws,
Ac a aroſai uwch ben y drws.

Yno yr aent i mewn yn llawen,
Lle'r oedd Mair a Chriſt yn fachgen,
Ac a gwympent ar eu deu-lin,
I addoli'r graſol Frenin.

Rhoddent hefyd rial roddion,
A berthynai i Grift yn gyfon:
Aur, a ffrancinfens o'r gorau,
A myrr gwerthfawr, teg ei 'roglau.
Herod ynte' pan y clywas — *Mat.* 2.
Eni Crift y gwir Feffias,
Efe a fynnai ladd E'n blentyn
Bach yn fugno yn ei rwymyn.
O! fe helodd lu o fwytfwyr
Gwaedlyd, creulon, dig difefur,
I ladd yr holl blant bach o ddeutu,
Cyn y methai ladd yr Iefu.
Hwythau ladd'font yr holl fechgyn
Oedd ym Methl'em etto'n egin,
Fach a mawr, dan ddwy flwydd oedran,
A mab Herod gas ei hunan.
Yna gorfu ar Fair fyned
Ganol nos i ddechreu cerdded,
Tu a'r Aipht a'i phlentyn ganthi,
Lle archafai'r angel iddi.
Yno y bu Crift yn aros,
Gyd â'r Sibfwns lawer wythnos,
Nes cael clywed marw Herod,
Oedd yn ceifio ei ladd heb wybod.
Yn ol marw Herod greulon,
Fe ddaeth Crift i wlad Iuddewon,
Ac a fyddai oftyngedig — *Luc* 2.51.
I Fair, ac i Jofeph ddiddig.
Pan yr oedd ef yn ddeuddeg oed,
Y peth rhyfedda fu erioed,
Efe ymbyngciai â'r doctoried,
Nes b'ai'r doethion arno'n fynied.
Yno yn ddeg ar hugain oedran,
Pan fedyddiwyd ef gan Ioan,
Pe ddifgynnai arno'r Yfpryd,
Ar lun colomnen hygar hyfryd.
Ac fe lefai Duw ei hunan — *Mat.* 3.17.
Fry o'r nef lle clywai'r § *cwmpan'*, — a 4.1.
Hwn yw f'unig Fab aberthwyd, — § *Cwmpeini.*
Ynddo ef y'm llwyr-foddlonwyd.

Gwedi'r Yſpryd ddiſgyn arno,
Fe ddoi'r cythraul ynte' i'w demtio:
Ond er maint oedd cyrch y cythrel,
Rhodd Criſt iddo ffŵyl ddiogel.

Yn ol hyn fe ai i bregethu
Yr Efengyl wen o ddeutu,
Ac i ddechreu gwneuthur gwyrthiau
Ymhob tir y ffordd y cerddai.

Fe drodd y dw'r yn gynta'n win,
Fe lwyr-iacha'dd bob clefyd blin; *Ioan* 3.
Ac fe wnaeth i'r deillion weled, *Mat.*11.5.
Ac i'r byddar cluſt-drwm glywed.

Fe wnaeth i'r cripliaid yn ddi-fraw *Luc* 13.13.
Neidio a thripio yma a thraw,
Ac fe wnaeth i'r wreigin grocca,
Godi ei chefen o'r uniawna.

Ynte' rodiodd ar y môr,
Gan oſtegu ei rwyf a'i ‖ *rôr*; ‖ *Ruad.*
Ac fe wnaeth i'r 'ſtorom wynt,
Beidio a chwythu yn ei hynt.

I ddangos in' ei fod E'n Dduw,
Fe gododd dri o farw i fyw; *Marc* 5.41.
Merch i Jairus, mab i'r weddw, *Luc* 7.15.
Lazar' gwedi drewi a marw. *Ioan* 11.

Porthodd bum mil â phum torth, *Luc* 9.17.
Mawr ei bwer, da ei borth;
Llanwodd ddwy long o'r pyſg mwya', *Ioan* 11.
Pan y methai ar bawb eu dala.

Bwriodd lawer cythraul allan,
O'r rhai cleifion, lloerig, egwan,
A chluſt Malcus gwedi dorri, *Luc* 22.5.
A iacha'dd ef toc heb eli.

Llawer gwyrthiau gyd â hyn,
A wnaeth ein Prynwr Ieſu gwyn,
Cyn i Suddas frwnt ei werthu
I'r Iuddewon a'i fradychu.

Ni chaed twyll erioed o'i enau,
Nid oedd un dyn a'i harg'oeddai:
'Roedd ef yn ddiddrwg fel yr oen, 1 *Pedr* 2.22.
Yn fach ei barch, yn fawr ei boen. *Ioan* 8.46.

Pan ddaeth yr awr oedd Duw'n ei osod,
I'w aberthu dros ein pechod;
Fe ddeuai Suddas ac a'i gwerthai
I'r Iuddewon am geiniogau.

Ni cha'dd ddim ond hanner coron,
Am ei roi E'n llaw'r Iuddewon,
I fyn'd ag ef yn rhwym at Gai'phas, *Mat.* 19. 16.
Wedi holi yn dost gan Annas.

Yn y man y daeth at Gai'phas,
Fe ddoi tystion *ffals* o'i gwmpas,
Ac a fynnent *brwsio* arno
Lawer peth na's gwyddai oddi wrtho.

Cai'phas ynte' a'i *hecsamnai*
Yn galed iawn am fil o bethau,
Ac a'i tynghedai trwy'r Duw byw, *Mat.* 26. 63.
I adde' od oedd yn Fab i Dduw.

Ac am i'r Iesu adde'n glir,
Mai 'fe oedd Crist Mab Duw yn wir,
Braidd na fynnai pawb ei lethu,
A'i labyddio cyn ei farnu.

Yno poerwyd yn ei wyneb,
Bwbach dallwyd mewn ffolineb: *Marc* 14. 56.
Ffustwyd ei ben â gwielyn,
A chernodiwyd E'n ysgymmun.

Ar y boreu yr holl Iuddewon,
A'r offeiriaid a'r gwyr mawrion,
A ddoent â Christ gwedi ei glymmu,
At Bilatus i'w ei farnu.

Pilat gwedi holi E'n galed,
Heb gael ynddo fai na niwed,
Dan lanhau a golchi ei ddwylo, *Mat.* 27.
A rodd farn marwolaeth arno.

Cynta' peth a farnai Pilad,
Oedd ei chwyppo heb ei ddillad;
Yn ol hynny ei groeshoelio,
Ar y crogpren nes † *departo*. † *Ymado.*

Felly chwipwyd Crist yn dost,
O hewl i hewl, o bost i bost;

Ac ni adawyd modfedd arno,
O'i ben i'w draed heb ei **fcwrgio.* — * *Fflangellu.*
Gwedi'n deuai filwyr Pilad,
Ac hwy || *ftripent* Grift o'i ddillad, — || *Diofgent.*
Ac a'i gwifgent ef cyn brafed,
Mewn hen fantell goch o 'fcarled.
Yn ol hyn fe blethai rhai'n,
Anfad goron fawr o ddrain,
Ac a'i gwifgent ar arleifiau
Crift, nes rheda'i waed yn bibau.
Rhoddent hefyd yn ei law
Gorfen dan ymgrymmu draw,
A'i watwaru â geiriau mwynion,
Dydd da iwch', Brenin yr Iuddewon.
Gwedi diofg Crift drachefen,
Rhoifant ei groes ar ei gefen, — *Ioan* 19.17.
Iddo i'w llufgo i'r benglogfa,
Lle croeshoeliwyd ar ei hucha.
Pan yr aethont i'w groeshoelio,
Tyllwyd ei draed a'i ddwy ddwylo,
A hwy a hoeliwyd yn fileinig,
A thair hoel o haiarn ffyrnig.
Er maint oedd ei boen a'i loefau,
Etto er hyn ni 'gorai enau,
Ac ni ynganai wrth y poenwyr — *Act.*8.32.
Mwy nâ'r ddafad dan law'r cneifwyr.
Ond fe offrymmai ar y groes,
Pan oedd chwerwa a blina'r loes,
Ei enaid gwyn, a'i waed i gyd,
Yn aberth dros bechodau'r byd.
Ac orch'mynai ei enaid gwirion, — *Luc* 23.34.46.
Yn llaw ei Dad, y Barnwr cyfion,
Dan ymhywedd arno am faddeu
I'r Iuddewon a'i croeshoeliai.
Felly y bu farw'r Iefu
Ar y pren croes wrth ein prynu,
Ac y rhodd ef waed ei galon,
Dros eneidiau'r gwir Grift'nogion.
Felly rhodd Duw ei Anwylyd,
I'w groeshoelio trwy fawr benyd,

Er mwyn prynu ein heneidiau,
A'u gwaredu o'u holl boenau.
Rhoddwn ninnau foliant iddo,
Ddydd a nos heb ddim diffygio,
Am ei gariad a'i drugaredd,
Yn prynu enaid dyn mor rhyfedd.
Diolch mawr a moliant hyfryd,
A fo i'r Tad, a'r Mab, a'r Yſpryd,
Am brynu enaid dyn mor britted,
A'i ddwyn i'r nef o doſt gaethiwed.

V. *Adroddiad o gariad* CRIST *at y byd.*

CLYWCH adrodd mawr gariad Mab Duw at y byd,
Pan ddaeth ef o'r nefoedd i'n prynu mor ddrud,
Er peri i chwi gofio am gariad Mab Duw,
A'i foli'n waſtadol tra fyddoch chwi byw.
Pan dwyllodd y cythraul â'r afal y wraig, *Rhuf.* 5.12.
I dorri'r gorchymyn trwy demtiad y ddraig,
Fe'n gwerthwyd am afal i'r diawl cymmain' un, [19.
Heb neb allai'n prynu ond Mab Duw ei hun. 1 *Ped.* 1.18,
Mab Duw pan y gwelodd ein cyflwr mor doſt,
Fe ddaeth yn ei un-ſwydd, o'r nefoedd yn boſt,
O blith yr angylion, i groth y wen Fair,
I gym'ryd ein natur, i'n gwared o'r pair.
Mair a feichiogodd ar unig Fab Duw,
O rad y Glân Yſpryd (ond tra rhyfedd yw!)
Pan 'roedd hi'n bur forwyn, tra ieuangc mewn oed,
Heb fod iddi hanfod ag un gwr erioed.
Pan ddaeth amſer eſgor, fe aned Mab Mair,
Mewn 'ſtabal ym Methle'm, ar bottel o wair,
Lle trowd ef mewn cadach, a'i oſod i lawr,
I orwedd mewn preſeb, ond happus yr awr.
Pan aned ein Prynwr, danfonwyd o'r nef
Angylion rhialwych, tra llawen eu llef,
I fyneg, dan ganu, yr amſer a'r pryd,
Y ganed Criſt Ieſu Iachawdwr y byd.
A'r doethion o'r dwyrain, pan god'ſant eu pen,
A gweled ei ſeren, mor wych ac mor wen,
Hwy ddaethant o'r dwyrain i Fethle'm yn boſt,
I addoli'r dyn bychan mewn llawer o *goſt.*

Herod pan glywodd ef eni Mab Duw,
Fe helodd ei || *ſwytſwyr*, i'w ſwrddro fe'n ſyw,
A rhag iddo ddiangc, fe laddodd pob un || *lleiddiaid.*
O fechgyn bach Bethle'm, a'i blentyn ei hun.

Mair hitheu gododd 'rhyd nos heb ddim trwſt,
Ac aeth at y Sibſwns â'i phlentyn ar ffrwſt,
Lle bu yn hir aros, ni wn i pa c'yd,
Nes darfod am Herod a'i ſwytſwyr i gyd.

Pan ddarfu am Herod, daeth Criſt yn ei ol,
O'r Aipht i Judea, at gene'l ry ffol,
Lle bu e'n pregethu'r efengyl yn hir,
I bobol bengaled na chredent mo'r gwir.

Gwyrthiau tra gwerthfawr a wnaeth lawer pryd,
I ddangos mai'r Ieſu oedd Ceidwad y byd;
Ni chredai'r Iuddewon na'i wyrthiau na'i wir,
Ond ceiſio'i fradychu ar fôr ac ar dir.

Suddas fradychus â chuſan tra chas,
A'i gwerthodd yn nwylo'r Iuddewon diras:
Trachwant ar arian a'i gyrrodd e'n boſt,
I ymgrogi mewn cebyſt', a'i ffortun oedd doſt.

Y nos y bradychwyd fe chwyſodd y gwaed,
Yn daran doſturus o'i ben hyd ei draed, *Luc* 22.44.
Wrth feddwl cyn chwerwed a blined y loes, [39.
Orfyddai arno oddef am bechod pob oes. *Mat.* 26.38,

Daliai'r Iuddewon E' â ffaglau a ffyn,
Pan oedd yn gweddio'n ol ſwpper yn ſyn;
Hwy rhwyment â chordau, hwy llusgent trwy fraw,
At Annas a Chai'phas i'w holi tan law.

Pilat yn fynych a'i holodd e'n chwai,
Heb allael cael ynddo na phechod na bai;
Ond dan olchi' ddwylo fe wnaeth ag ef gam,
Fe'i barnodd i farw heb wybod pa ham.

Fe farnodd ei chwippio o'i ben hyd ei draed,
Nes bod ei gorph purwyn yn lliwio gan waed;
A chwedi'n ei hoelio ar grogpren trwy gur,
Trwy ei ddwylaw a'i ddeudroed â hoelion o ddur.

Coronwyd Criſt hefyd â choron o ddrain,
Fe wiſgwyd mewn mantell o 'ſcarled coch main;
Fe addolwyd mewn gwatwar dan blygu pob glin,
Fe gurwyd â chorſen dan eſtyn y mîn.

Fe row'd ar ei yſgwydd y groes i'w ei dwyn,
Nes myn'd i'r bengloġfa heb nemawr o gŵyn;
Ar honno'n fileinig fe'i hoeliwyd yn fyw,
Ac felly ar grogpren fe grogwyd Mab Duw.

Er maint oedd ei flinder, ei gyſtudd, a'i gur,
Pan hoeliwyd ef felly â'r hoelion o ddur;
Ni agorodd mo'i enau, ni ofynodd pa ham,
Mwy nâ'r oen dan law'r cneifiwr, er maint oedd ei gam.

Ond llefain yn * irad o'r groes ar ei Dad, *Doſt.
Am faddeu i'r Iuddewon a ſugnent ei wa'd;
O achos na wyddent ar hynny o bryd,
Eu bod hwy'n croeshoelio Iachawdwr y byd.

Ac felly bu farw Mab Duw ar y groes,
Wrth ddwyn ynddo'i hunan y blinder a'r loes;
A'r poenau, a'r penyd, a'r dial i gyd,
Oedd Duw yn ei ofyn am bechod y byd.

Trwy angeu tra phoenfawr a phridwerth ei wa'd,
Fe wnaeth heddwch hyfryd rhwng dynion a'i Dad;
Fe'n dygodd ni'r eilwaith mewn ffafar â Duw, *Rhuf.* 5. 1
Moliannwn ni'r Ieſu tra fyddom ni byw.

Fe ddygodd ar grogpren ein pechod bob un,
Fe'n golchodd o'n beiau trwy wir waed ei hun;
Fe'n gwnaeth ni'n frenhinoedd a 'ffeiriaid i Dduw,
Moliannwn ni'r Ieſu tra fyddom ni byw.

Cyflawnodd y gyfraith, boddlonodd ei Dad,
Fe brynodd ein pardwn, fe'i ſeliodd â'i wa'd;
Fe'n tynnodd o'r carchar, fe rwygodd ein ſach,
Moliannwn ni'r Ieſu yn fawr ac yn fach.

A'i angau fel Samſon fe droediodd i lawr, *Heb.* 2. 14.
Gyhuddwr ein brodyr, y wiber goch fawr,
Fe rwygodd ei deyrnas, fe ſigodd ei ſiol, *Dat.* 12.
Moliannwn ni'r Ieſu a ynnillodd y gol. 9, &c

Fe ddofodd lidiawgrwydd a digter ei Dad, [8. 17.
Fe'n gwnaeth ni'n blant iddo trwy fabwys a rhad, *Rhu.*
Fe rodd i ni gyfran o deyrnas ein Duw, 1 *Pedr* 1. 3, 4.
Moliannwn ni'r Ieſu tra fyddom ni byw.

Coronau goreuraidd ar bennau pob un, 2 *Tim.* 4. 8.
A gynau gwych gwynion tra lluniaidd eu llun,
A brynodd ef i ni, a theyrnas gwlad nef,
Moliannwn ni'r Ieſu yn llawen ein llef. D 3

Gogoniant a gallu, a diolch bob pryd,
A fo i'r glân Ddrindod, a'n prynodd mor ddrud;
A mawr glod a moliant i'n Prynwr a'n Pen,
A dyweded pob Criſtion yn waſtad, *Amen.*

### VI. *Awn i Fethlehem.*

AWN i Fethle'm bawb dan ganu,
Neidio, dawnſio, a difyrru,
I gael gwel'd ein Prynwr c'redig,
Aned heddyw ddydd Nadolig.
Mae e'n Methle'm gwedi eni,
Yn y 'ſtabal tu hwnt i'r † oſtri, † *Lletty.*
Awn bob criſtion i gyflwyno,
Ac i roddi golwg arno.
Dyma'r Ceidwad a ddanfonwys
Tad toſturi o baradwys,
I'n gwaredu rhag marwolaeth,
Ac i weithio'n hiechydwriaeth.
Awn i Fethle'm bawb i weled
Y dull, a'r modd, a'r man y ganed,
Fel y gallom ei addoli,
A'i gydnabod gwedi eni.
Ni gawn ſeren i'n goleuo,
Ac yn ſerchog i'n cyf'rwyddo,
Nes y dycco hon ni'n gymmwys,
I'r lle ſanctaidd lle mae'n gorphwys.
Mae'r bugeiliaid gwedi blaenu,
Tu a Bethle'm tan lonychu,
I gael gwel'd y graſol Frenin,
Ceiſiwn ninnau bawb eu dilyn.
Y mae'r plentyn yn y 'ſtabal,
Gwedi drin gan Fair yn rhial,
A'i roi orwedd yn y preſeb,
Rhwng yr ych a'i dad-maeth Joſeb.
Fe aeth y doethion i gyflwyno,
Ac i roi anrhegion iddo,
Aur, a thus, a myrr o'r gorau,
A'u § *preſentio* ar eu gliniau. § *Offrwm.*
Rhedwn ninnau i'w gorddiwes,
I gael clywed rhan o'r gyffes,

Dyfgwn ganddynt i gyflwyno,
A rhoi clod a moliant iddo.

Yn lle aur rhown lwyr gred ynddo,
Yn lle thus rhown foliant iddo,
Yn lle myrr rhown wir 'difeirwch,
Ac fe'i cymmer trwy hyfrydwch.

Mae'r angylion yn llawenu,
Mae'r ffurfafen yn tywynnu,
Mae llu'r nef yn canu hymnau, *Luc* 2.13.
Caned dynion ryw beth hwythau.

Awn i Fethle'm i gael gweled
Y rhyfeddod mwya' wnaethbed, *Ioan* 1.14.
Gwneuthur Duw yn ddyn naturiol, *Heb.* 2.14, &c.
I gael marw dros ei bobol.

Awn i wel'd yr hen * Ddihenydd, * *Un nad yw yn* [*heneiddio.*
A wnaeth y nef, y môr, a'r mynydd,
Alpha oediog, Tad goleuni, *Dan.* 7.9.
Yn ddyn bychan newydd eni. *Dat.* 1.11.

Awn i weled Duw y Gair,
Brenin nef ar arffed Mair,
Gwedi cym'ryd cnawd dyn arno,
Yn fab bach yn dechreu fugno.

Awn i weled y Mab rhad,
Hŷn § nâ'i fam, cyfoed â'i Dad, § *Fel yr oedd ef yn* [*Dduw.*
Mab a Thad, ei fam a'i ferch,
Yn lleia' ei fon yn fwya' ei ferch.

Awn i Fethle'm i gael gweled,
Mair â Mab Duw ar ei harffed,
Mair yn dala rhwng ei dwylo *Heb.* 1.3.
'R Mab fy'n cadw'r byd rhag cwympo.

Awn i wel'd Concwerwr angau,
Gwedi rwymo mewn cadachau,
A'r Mab a rwyga deyrnas fatan, || *Prefeb.*
Yn y || *craits* heb allu § *crippian.* § *Cerdded.*

Awn i weled y Meffias,
Prynwr cred, ein hedd a'n hurddas,
Unig Geidwad ein heneidiau,
Ar fraich Mair yn fugno bronnau.

Awn i weled Had y wraig, *Gen.* 3.15.
A bwyntiodd Duw i bwnio'r ddraig,
Ac i ſigo ei ſiol wenwynig,
Am beri bwytta'r ffrwyth gwa'rddedig.

Awn i wel'd y Mab a ga'd
Yn rhyfedd iawn o'i fam heb dad,
A'i fam yn wyryf ieuangc oed,
Mam heb 'nabod gwr erioed.

Awn i wel'd y ferch yn * fam,
A'r fam yn ferch ddinwyf, ddinam,
Y ferch yn magu'i Thad o'i rwymyn,
A'r Tad yn ſugno bronnau'r plentyn.

Awn i wel'd y Pen-ſaer gorau,
A wnaeth yr haul a'r holl blanedau, *Ioan* 1.3.
Y nefoedd fawr a'i § rhwm mor rhial, § *Yſtafell.*
Yma'n gorwedd yn y 'ſtabal.

Awn i weled Duw'r gogoniant,
'R hwn ſy'n meſur nef â'i rychwant,
Yn y preſeb heb un gader,
Yr Oen mwyn yn ſalw ei biner.

Awn i wel'd yr Oen bendigaid,
Ni bu fath o flaen bugeiliaid,
Oen i Dduw a ddaeth mewn pryd,
I dynnu ffwrdd bechodau'r byd. *Ioan* 1.29.

Awn i wel'd ein Prynwr hoyw,
Sydd i farnu byw a meirw,
'Rhwn a'n dug i'r nefoedd dirion,
Ar adenydd yr angylion.

Dyma, gwelwch E'n ddiſtwr,
Y goreu i gyd, yn wanna' gwr,
Duw yn ddyn, a dyn yn Dduw,
A'i gwelo'n llyn tra dedwydd yw!

## VII. *Hil* Adda.

HIL Adda gamweddus, plant Efa drafaelus,
A deiliaid goſidus Gehenna,
Dihunwch, dihunwch, o'ch trymder a'ch triſtwch,
Daeth i chwi ddiddanwch o'r mwya'.

* I Griſt fel yr oedd ef yn ddyn, i Griſt fel yr oedd ef yn Dduw.

Can's heddyw, medd Gabriel, tra geirwir ei chwedel,
Negefwr o * *gwnfel* Jehofa, * *Gyngor.*
Y ganed ein Prynwr, Crift Iefu'n Iachawdwr,
Mab Duw, ein Achubwr ni'n benna'.

Gan hynny crechwenwch, a gwir orfoleddwch,
A chenwch, a feiniwch Hofanna,
I Dduw yn'r uchelder, i'r ddaear efmwythder,
I ddynion y mwynder o'r mwya'.

Can's hwn ydyw'r Hedyn, a'r Helpwr, a'r Himpyn,
Addawyd o'r wreigin i Adda,
I figo fiol fatan (y farph) dan ei waddan,
Pan helwyd o'r berllan † *araula.* † *Hyfryda.*

A dyma'r had dinam, addaw's Duw i Abra'm,
Yn fendith o'n hen-fam ni Sara,
A'i heppil lin o lin, had Ddafydd y brenin, [12.
O Jeffe y gwreiddin * *rhiala.* * *boneddicca.Rhuf.*15.

A thyma i chwi'r Silo, oedd Jacob yn feinio,
A ddeuai i'n bendithio o Judea,
Pan ddygid y goron oddi ar yr Iuddewon,
A'i rhoddi i eftron [a] '*Dumea.* [a] *Sef Herod gwr o Idumea.*

A thyma'r *prins* addfwyn, Emmanuel ir-fwyn,
Mab grafol y forwyn Faria,
Addawyd i Achas, trwy'r prophwyd Efaias, *Efa.*7.14.
I'n harwain i'r deyrnas b'radwyfa.

A thyma'r Meffias, addawodd Micheas,
O Fethlehem dinas Ephrata,
Y genid i'r bobol, yn Frenin trag'wyddol,
I'w harwain i'r nefol orphwysfa.

A thyma i chwi'r Prophwyd, a'r Brenin addawyd,
A'r 'Ffeiriad a bwyntiwyd yn bennaf,
I offrwm ei hunan, yn aberth bereidd-lan,
I ddattod gwaith fatan fileinaf.

Chwi glywfoch i fatan gynt dwyllo'n y berllan,
A'i hocced y wreigan hen Efa,
I fwytta yn rhy flyfig yr afal gwa'rddedig,
A chwedi'n rhoi 'chydig i Adda.

Pan demtiodd y gelyn â'r afal y ddeu-ddyn,
I dorri gorchymmyn Jehofa;
F' aeth Adda a ninnau yn euog o angau,
I §uffern a'i phoenau diffeitha. § *Cyflwr o golledigaeth*

O uffern ac angau, nid oedd neb a allai
Ein prynu trwy boenau pa bynna',
Ond unig Fab graſlon, yr Uſtus tra chyfion,
Ddigiaſom mor greulon o'r cynta'.

A'r Mab hwnnw ynte' oedd raid iddo ddiodde',
Ar grogpren yr angeu ddiffeitha',
Gan wir gym'ryd arno gnawd dyn i'w groeshoelio,
A throſom ddad-ddigio Jehofa. *Heb*.2.14,17.

Ac os Duw ni fynnai roi Fab i ddiodde',
Er cadw ein heneidiau rhag poenfa,
Mewn carchar uffernol, a phoenau trag'wyddol,
Y buaſai'r holl bobol pwy bynna'.

Pan welodd Duw graſol ein 'ſtad mor doſturiol,
O'i gariad rhagorol yn bennaf;
Fe addawodd ein helpu, trwy ddanfon i'n prynu,
Ei un Mab Criſt Ieſu anwylaf. *Gen*.3.15.

Ac felly pan welas Duw'r amſer cyfaddas,
Fe helodd o'i deyrnas b'radwyſaf,
I'r ddae'ren anhyfryd, ei unig Anwylyd,
Ein cnawd i gymmeryd yn gyntaf. *Gal*.4.4.

A chnawd dyn a gymmerth ein Prynwr yn brydferth,
O Fair wen yr eneth anwyla';
Yn daran rhyfeddol trwy'r Yſpryd ſanćteiddiol,
Heb weithred dyn cnawdol na'i goffa'.

Ond rhyfedd, rhyfeddod! fe aned heb bechod,
O forwyn yn gwrthod â gwra,
Yn berffaith ddyn cnawdol, heb weithred gorphorol,
Trwy'r Yſpryd ſanćteiddiol gorucha'

Os merch wrth feichiogi, a merch wrth eſgori,
A merch wedi geni'r mab cynta',
Oedd Mair pan ei magodd, a merch pan briododd,
A merch pan § *departodd* oddi yma. § *Ymadawodd*.

O waith iddo gym'ryd ein poenau a'n penyd,
Fe aned i'r triſt-fyd yn llwmma,
Mewn 'ſtabal anghymmen, ym mreſeb yr ychen,
Lle trowd ef mewn gwlanen o'r tlotta'.

Ac etto er peri i'r byd ei addoli,
Er maint oedd ei dlodi a'i lwmdra,
Fe wnaeth Duw ei ſeren mor ddiſglair a'r haulwen,
I'w † *waito* yn yr wybren iſela. † *Ddiſgwyl*.

Daeth hefyd wyr doethion, *Aſtronomers* mawrion,
Brenhinoedd o galon Caldea,
Pob un ar ei ddeulin i'w addoli'n ei rwymyn,
Eu Duw a'u gwir Frenin arbenna.

Tair anrheg ragorol, yn gweddu'n berth'naſol,
I ſwyddau neillduol Meſſia;
Offrym'ſant hwy hefyd, i'r brenin bach hyfryd,
Aur, thus peraroglyd, a myrra.

Daeth hefyd angylion i fyneg i ddynion,
Mai ef oedd yr union Feſſia,
A'r Ceidwad, a'r Prynwr, a'r unig Iachawdwr,
Addawſai'n Creawdwr o'r cynta'.

A'r nefoedd agorodd a'r ddae'ren oleuodd,
A'r angel a lefodd yn lewa',
* *Gloria in excelſis, pax et in terris,*
Pan aned Prins happus Europa.

Y goll'ſom yn wallus trwy Efa drachwantus,
Yn ddigon anhappus o'r cynta',
Ni cawſom drachefen, ond gwych oedd y fforten,
Pan ganed y bachgen Meſſia.

I ddattod gwaith ſatan, i groeſi ſlin amcan,
A'n cynnull o'i gorlan dywylla,
Y daeth Criſt ein Harglwydd, o'r nef yn ei un-ſwydd,
I'n cadw rhag gw'radwydd a phoenfa.

Gan gymmaint oedd cariad y graſol Ucheldad
Tu ag attom, blant anllad hen Efa,
Fe ro'dd ei Anwylyd i'w grogi'n anhyfryd,
I brynu ein bywyd o boenfa.

A chymmaint oedd cariad Criſt attom yn waſtad,
Ei frodyr tra irad eu poenfa;
Ac y rhoi ynte'n danbaid ei fywyd a'i enaid,
I farw dros ddefaid ei borfa.

Yr angeu haeddaſom, fe'i talodd ef droſtom,
A'r dyled adawſom heb gwpla;
Ein 'ſgrifen fe dorrodd, a'r fforten fe dalodd, *Col.* 3.13.
A'n pardwn fe'i prynodd o'r pritta. *Col.* 2.14.

Gwaed gwerthfawr ei galon, a'i fywyd gwyn gwirion,
Offrymmodd ef droſom yn fwyna,

* Gogoniant yn y goruchaf, ar y ddaear tangnefedd.

Yn aberth i'r Drindod, trwy g'wilydd a dannod,
 Yn ‡ *ranſwm* dros bechod pwy bynna'. ‡ *Pridwerth.*
Duw Dad a ddad-ddigiwyd, a'n *ranſwm* a dalwyd,
 A'n *pardwn* a ſeliwyd yn ſiwra,
Criſt a'i pwrcaſodd, â'i fywyd fe'i prynodd,
 A'r byd a waredodd o'i boenfa.

Dros bechod yr holl-fyd offrymmodd ei fywyd,
 I'w prynu o'u penyd a'u poenfa:
Os ynddo y credwn, mae'n ſiwr i ni bardwn,
 Heb * *ddanſier* o ddwnſiwn Gehenna. * *Perygl.*

Can's ſatan orchfygwyd, ac angeu gongcwerwyd,
 Ac uffern yſpeiliwyd yn ‡ *ſpwylſa*, ‡ *Anrhaith.*
Eneidiau plant dynion o grampau'r gwyr duon,
 A gariodd y gwirion Feſſia.

Adda a'n taflwys i uffern heb orphwys,
 O berllan Baradwys eſmwytha,
Criſt ynte' a'n cododd o uffern i'r nefoedd,
 I orphwys yn llyſoedd Jehofa. *Act.*26.18.

Can's dyma'r Oen tirion a laddai'r Iuddewon, *Col.*1.13.
 Etifedd gwyn gwirion Jehofa,
Dymuniad tra hyfryd cenhedloedd yr holl fyd, *Hag.*2.7
 Eu comffordd a'u hiechyd gorucha'.

A thyma'r Maen ſicr, wrthodai'r adeilwyr,
 Maen tramgwydd, Craig rhwyſtr Judea,
Ein Perl a'n Prins ninnau yr holl genhedlaethau,
 Criſt'nogion ſy'n adde'r Meſſia.

Er bod ein pechodau, heb feſur na phwyſau,
 A'n brynti fel pentre' Gomorra,
Etto os credwn, a gwella tra gallwn,
 Fe bair i ni bardwn a bara.

Un tropyn ſanctеiddlon o wir waed ei galon,
 All olchi ein ffinion ddiffeithdra,
Pe baent hwy cyn goched a'r pwrpwl neu'r 'ſcarled,
 A'u gwneuthur cyn wynned a'r eira. *Eſa.*1.18.

Weithian os credu wnawn ninnau i'r Ieſu,
 A chwympo i was'naethu e'n ufudda;
Fe ddug ein heneidiau i'r nef lle mae yntau,
 I ganu holl hymnau Jehofa.

Lle mae mwy hyfrydwch, a nefol rhialtwch,
 Llawenydd a heddwch o'r hwya',

Nag allo cluſt glywed, na llygad ei weled,
  Na chalon yſtyried pwy bynna'. 1 *Cor.*2.9.
Moliannwn gan hynny ag eithaf o'n gallu,
  Ein Prynwr Criſt Ieſu anwylaf,
Am brynu'n heneidiau, trwy chwerw loes angau,
  O uffern a'i phoenau diffeithaf.
O molwn ni'n waſtod, bob perſon o'r Drindod,
  Mewn undod mor barod er Adda,
I'n tynnu mor raſol, o'r carchar uffernol,
  I fyw yn y nefol orphwysfa.
Ac felly crechwenwch, a gwir orfoleddwch,
  A chenwch, a ſeiniwch hoſanna,
I Dduw yn 'r uchelder, i'r ddaear eſmwythder,
  I ddynion y mwynder o'r mwya'.
Os gofyn rhai'n un-lle, pwy wnaeth hyn o hymnau,
  Er cofio mawr ddoniau'r Meſſia?
Bugail eglwyſig, o galon garedig,
  At ddefaid cadwedig Jehofa.

VIII. *Cyngor i bechadur i ddyfod at Ieſu Griſt.*

DERE hen bechadur truan, *Mat.*11.28,29.
  Dere at Griſt trwy ffydd dan riddfan,
Mae Mab Duw yn d'alw atto,
Os yw pechod yn dy flino.
  Criſt ei hun ſy'n galw arnad,
Criſt ſy'n erchi i ti ddwad, *Ioan* 7.37.
Criſt ſy'n cynnyg dy * *reffreſio*, * *Adfywio.*
Os trwy ffydd y doi di atto.
  Dere at Griſt er maint yw'th droſedd,
Dere er cynddrwg oedd dy fuchedd,
Dere 'mhryd, cais gymmorth ganddo,
Fe all dy gadw yr awr y mynno.
  Er dy golli'n || *gwit* yn Adda, || *Gwbl.*
Er i'r cythraul cas dy ddala,
Er it' ddigio Duw yn danllyd,
Cred yng Nghriſt, fe geidw'th fywyd. *Ioan* 3.36.
  Er dy ennill mewn anwiredd, *Sal.*51.5.
Er it' fyw mewn aflan fuchedd;
Dere at Griſt, cais gymmorth gantho,
Fe all dy olchi a'th ail greo. *Zec.*13.1.

Er dy fod ti'n elyn Duw, *Col.*1.21.
Wrth naturiaeth a'th ddrwg ryw;
Cred yng Nghrist, fe'th wna o elyn *Rhuf.*5.10.
I'th nefol Dad yn anwyl blentyn.

Er dy fod ti'n *slaf* i satan, *Eph.*2.2.
Ac yn was caeth yn ei gorlan;
Cred yng Nghrist fe'th dyn o'i grampau,
Fe'th ddwg o'i dywyll gell i'r golau. *Luc* 1.79.

Er dy fod di'n haeddu'th ddamnio, *Rhuf.*5.18.
A'th droi i uffern i'th boenydio,
Cred yng Nghrist fe'th ddwg i'r nefoedd, *Ioan* 6.47.
I glodfori'r hwn a'th greuodd.

Er dy fod ti megis †*rhebel*, † *Gwrthryfelwr.*
Gwedi'th droi o sant yn gythraul;
Cred yng Nghrist, bydd un o'i blant,
Fe'th dry o gythraul etto'n sant. 1 *Cor.*6.11.

Er dy fod di'n ddyn damnedig, *Rhuf.*5.12.
Yn hen Adda ein tad gwenwynig;
Cred yng Nghrist, fe'th geidw etto,
Er i Adda hen dy ddamnio.

Er i satan ‖*entro* i'th letty, ‖ *Myned i mewn.*
A'i oresgyn heb ei nadu;
Cred yng Nghrist, fe ddwg ei arfau,
Fe dry satan dros y trothau.

Er i'r lladron 'speilio d'enaid, *Luc* 10.30.
A'th archolli yn dra enbaid;
Cred yng Nghrist, y gwir Samariad,
Fe iacha d'archollion §*desprad.* § *Anobeithiol.*

Er i'r danllyd sarph dy frathu,
A'th wenwyno nes dy 'nafu;
Cred yng Nghrist, fe ddofa'r poen,
Fe iacha'r clwyf â gwaed yr Oen.

Er it' fynych gyfeiliorni,
Megis dafad gwedi cholli;
Cred yng Nghrist, fe ddaw yn fuan,
O'r nef i'th droi o'r gors i'r gorlan.

Er it' bechu fil o weithiau,
Er it' haeddu cant dialau;
Cred yng Nghrist, ti gei faddeuant, *Eph.*1.7.
Am dy bechod oll a'th drachwant.

Er bod lliw dy fai cyn goched, *Eſa*.1.18.
Ag yw'r pwrpwl coch neu'r 'ſgarled;
Cred yng Nghriſt, trwy waed fe'th olcha,
Nes b'ech di mor wyn a'r eira.

Er bod dy feiau mewn rhifedi,
Yn fwy nâ gwallt dy ben o gyfri';
Cred i'th Brynwr, Duw a dyn,
Fe'u maddeu i ti bob yr un. *Act*.10.43.

Cymmer gyſur, cwyn dy galon,
Cred yng Nghriſt dy Brynwr tirion,
Edifara am dy frynti,
Criſt a fydd yn Geidwad i ti.

Mae Criſt i'th wawdd, mae Criſt i'th alw,
Mae Criſt i'th gymmell atto'n groyw;
Pa'm y byddi marw'n irad,
Eiſiau dwad at dy Geidwad? *Ezec*.33.11.

Criſt a ddaeth o'r nefoedd auraid,
I'r byd i gadw pechaduriaid; *Luc* 19.10.
Ei ſwydd, a'i grefft, a'i waith yn unig,
Yw cadw eneidiau rhai colledig.

Dyn colledig ydwyt tithau, *Rhuf*.3.23.
Fel mae pawb o honom ninnau;
Pa'm na ddoi tra fytho'n galw,
At dy Geidwad Criſt i'th gadw?

Nid yw'th bechod, ddryg-ddyn angall, 1 *Tim*.1.15.
Fwy nâ phechod Saul neu arall:
Fe ga'dd Saul faddeuant gantho;
Titheu cei os credu yntho.

Nid yw'th bechod fwy nag allo
Criſt eu maddeu a'u dileuo,
Na'th holl feiau na'th holl frynti,
Fwy nag allo Criſt eu golchi.

Ni all ſatan byth dy lygru,
Fel na allo Criſt dy helpu,
Na'th ddifwyno, gwnaed ei waetha',
Fel na allo Criſt dy wella.

Criſt all wneuthur, heb fawr drafael, *Act*.9.13,
Oen o flaidd, a ſant o gythraul, [14,15.
Hen ddyn aflan yn ddyn ſyw,
A dyn i'r fall yn ddyn i Dduw.

Ni wnaeth Crist ond galw ar Zache, *Luc* 19.
A'i droi yn sant ar hynny o eiriau;
Fe'th dry ditheu'n oen os myn,
O lwdwn dû yn llwdwn gwyn.

Duw galluog ydyw Crist,
Yn maddeu beiau'r truan trist,
Yn newid naws, yn gwella natur,
Yn dattod gwaith y diawl heb rwystyr. 1 *Ioan* 3.8.

Hollalluog yw dy Brynwr,
Fe all ‡ *reparo* gwaith y temtiwr, ‡ *Adnewyddu.*
Fe all ei daflu beunydd allan,
O galonau'r bobol aflan.

Pe b'ai saith rhyw gythraul ynod,
Pe b'ai leng tu fewn i'th geudod; *Marc* 5.8,9,10.
Fe dry Crist hwy oll fel cilion,
A'r gair cynta', maes o'th galon.

Nid oes grym gan un creadur, *Jer*.32.17.
§ *Hindro* gwaith dy Brynwr prysur; § *Rwystro.*
Ni all dyn na diawl ei rwystro,
Roi it' ras, os credu ynddo.

Nid oes dyn yng Nghrist yn credu,
Na bo'n cael gras i 'difaru,
Ac i wella ei fuchedd beunydd, *Act*.15.9.
Nes yr elo'n ddyn o newydd. 2 *Cor*.5.17.

Ni ddaeth dyn i geisio gras,
At Fab Duw erioed na's cas,
Nac i fegian cymmorth ganddo, *Esa*.45.19.
Na's rhodd Crist e'n ebrwydd iddo.

Dere ditheu, cais ras gantho,
Na'd i'th bechod brwnt dy rwystro:
Ni ddaeth Crist i gadw enaid, *Marc* 2.17.
Ond eneidiau pechaduriaid.

Ni ddaeth Crist i gadw o ddifri',
Ond y rhai oedd gwedi eu colli:
Swydd a chrefft Mab Duw yn unig,
Ydyw cadw rhai colledig.

Dere ditheu'n fuan atto,
Mae'n dy gathrain, mae'n dy gyffro:
Dere atto, cred yn unig,
Fe wna Crist di'n ddyn cadwedig.

Duw ro ras i titheu ddwad,
Yn ddiaros at dy Geidwad,
Trwy ffydd fywiol a 'difeirwch,
I gael gan Grift ei ras a'i heddwch.

IX. *Cyngor arall i bechadur i ddyfod at Grift.*

DEwch bawb fydd drwmlwythog gan bechod a bai,
Dewch at eich Iachawdwr fy'ch gwawdd chwi bob [rhai,
I laefu'ch trwm-lwythau, a'ch blinder, a'ch cryd;
Mae'n addo'ch *reffrefio*, dewch atto mewn pryd.

Dewch bawb at eich Ceidwad, eich Prynwr, a'ch Pen,
A'ch Brenin, a'ch Prophwyd, a'ch 'Ffeiriad, a'ch Llen,
A'ch Meddyg, a'ch Bugail, a'ch Caftell, a'ch Craig,
A'ch unig Iachawdwr, Congcwerwr y ddraig.

Dewch bawb at Grift Iefu, fy'n gwawdd pawb mor [fwyn,
I ddwad hyd atto i wneuthur eich cwyn;
Ond dangos eich dolur, bid ef fawr, bid ef fach,
A deifyf ei gymmorth, fe'ch hela'n holl iach.

Fe'ch dad-ddrys o'ch dryfwch, fe'ch gwna yn wyr rhydd,
Fe dâl eich holl ddyled, fe'ch cymmorth yn brudd,
Fe laefa'ch trwm-lwythau, a'ch dagrau fe'u fych,
Fe g'weiria'ch archollion, fe'ch gwna chwi'n holl wych.

Fe wna heddwch rhyngoch a'r Barnwr ei Dad,
Fe fyn i chwi bardwn trwy bridwerth ei wa'd,
Fe'ch dug chwi drachefn mewn ffafr â Duw,
Fe'ch cadw mewn cariad tra fyddoch chwi byw.

Fe'ch gylch o'ch pechodau â'i waed bob yr un,
Fe efyd byth ynoch ei Yfpryd ei hun, *Ezec.*36.27.
Fe'ch gwna chwi yn feibion, yn ferched i'w Dad,
A chyd-etifeddion o'i deyrnas yn rhad.

Fe droedia'ch gelynion, fe'u teifl i'r llawr, *Rhuf.*26.[20.
Fe ddwg eu holl arfau, fe'u dylud fel cawr,
Fe dyn eu holl gryfder, fe ddadwraidd eu nyth, [25.
Fe'ch gwna yn gongcwerwyr ar fatan dros fyth. 1 *Cor.*15

Pe gwypech, blant dynion, mor doft ydyw'ch *cas*,
A'ch cyflwr colledig heb nerth Duw a'i ras,
Ni chyfgech, ni fwyttech, nes dyfod at Grift,
I wella'ch toft gyflwr â chalon drom drift.

Beth y'm ni rhai goreu, wrth natur a rhyw,
Ond plant i'r digofaint, heb gyfnerth Mab Duw,
A gweifion i bechod, a flafiaid i'r fall,
A thanwydd i uffern, plant angeu diball?

Mae pawb gwedi nurddo gan bechod, och! och!
Cyn ddued a'r || Moyrys, cyn frynted a'r moch; ||*dynion*
Rhaid dyfod at Iefu i newid ein grân, [*duon*.
A golchi'n haflendid, cyn gwneler ni'n lân.

Fe wnaeth yr hen Adda ni'n elynion i Dduw,
Yn blant i'r digofaint, heb ddim modd i fyw:
Rhaid dyfod at Iefu i'n cymmodi â'i Dad,
Cyn gwneler ni'n feibion, trwy fabwys a rhad.

Fe dynnodd y gelyn bob dyn i'w ei rwyd,
A'r 'falau gwa'rddedig, trwy wall Efa lwyd;
Ni thorrir o'r groglath, ni'n tynnir ni ma's,
Nes tynno'r hael Iefu â'i rym ac â'i ras.

Mae'n henaid fel dafad yn fafan y blaidd,
Ynghrafangc y gelyn, a diangc ni's baidd;
Rhaid cymmorth y Bugail, Crift Iefu a'i ras,
Cyn tynner un enaid o'i grafangc i ma's.

Mae'r angel dinyftriol goruwch ein holl dai, *Ecf.*12.
Yn ceifio'n diftrywio, waith cymmaint yw'n bai, [13.
Rhaid iro'n cynnorau, â gwaed un Mab Duw,
Cyn *pafio*'r fall heibio, na'n gadael yn fyw.

Y mae holl blant dynion dan feddiant y fall,
Mewn *dwnfiwn* dû, tywyll, yn gorwedd yn ddall,
Wrth gadwyn o bechod, nes delo Mab Mair,
I'n tynnu o'r *dwnfiwn* â'i ras ac â'i air.

Ni thynnir dyn allan o deyrnas y fall,
A'r pechod lle herys, gwnaed pawb oreu ag all,
Nes rhwymo Crift fatan, trwy gryfder a *ffors*,
A thynnu dyn allan fel 'nifail o'r gors.

Mae pawb mewn tywyllwch, wrth natur yn byw,
Dan gyfgod yr angeu, heb 'nabod o Dduw;
Mae'n rhaid i Grift Iefu'n goleuo â'i ras,
A'n tynnu o'r t'w'llwch, cyn deler i ma's.

Mae pechod mor farnllyd, mor ddrewllyd, mor grai,
Yn nurddo, yn 'nafu, yn 'ffecto pob rhai, *Efa*.1.6.
Ni olchir, ni thynnir, ni flottir i ma's, *Jer*.2.22.
Nes golcho gwaed Iefu, mae frynti mor gas.

Mae pechod fel mynydd o blwm ar ein gwar,
Mae'n gwasgu cyn drymmed nes plygo pob gar:
Fe'n hela trwy'r ddaear i uffern yn grwn, *Sal.* 38.4.
Oni ddewn at Grist Iesu i laesu'r fath bwn. *Mal.* 11.28.

Mae'r fall fel gwr cadarn, yn arfog heb gryn,
Yn cadw goresgyn o galon pob dyn;
Ni ddichon yr holl fyd ei daflu o'i blas,
Nes delo Crist attom i'w dwmlan e'i ma's.

Mae'r fall gwedi'n clwyfo a'n brathu bob rhai,
Mae'n harcholl yn rhedeg bob amser heb drai;
Ni ddichon un meddyg dan haul ein hiachau,
Nes delo Crist attom â'i waed i'n glanhau.

Fe ddygodd y gelyn ein trwsiad a'n gras,
Fe'n gadodd yn groenllwm, yn noeth ac yn gas:
Dewn at ein Brawd hynaf, Crist Iesu bob un,
Fe guddia'n holl noethder â'i ddillad ei hun. *Dat.* 3.18.

Mae pawb gwedi marw mewn pechod bob pryd,
Heb bwer i wneuthur daioni yn y byd, *Ioan* 15.5.
Nes delo'r Bywiawdwr Crist Iesu i'n bywhau,
A'n codi o bechod, ac felly'n cryfhau.

Dewch at y sarph efydd, dangoswch eich clwyf,
Lle brathodd y neidr chwi'n fynych trwy nwyf;
Edrychwch yn graffus ar Grist ar y groes,
Fe red yr holl wenwyn, fe ddofa'r holl loes.

Dangoswch eich dolur i'ch Prynwr heb a'th,
Ni bu dan y nefoedd un meddyg o'i fath;
Pob archoll, pob dolur, pob pechod, pob crach,
A phur waed ei galon fe'u gyr yn holl iach.

Ni ddichon nac eli, na *metswn*, na maeth,
Na *phisic*, na *phlaster*, na llysiau, na llaeth,
Na dim ac a enwer, ond gwaed Iesu Grist,
Iachau archoll pechod, mae'r archoll mor drist.

Mae llawer all hela cornwydion yn iach,
A'r frech fawr, a'r crygau, a'r claf-gwan, a'r crach;
Ni ddichon meddygon y byd cymmain' un,
Iachau archoll pechod, ond Mab Duw ei hun.

Ni ddichon angylion, er amled eu rhi',
Er cymmaint eu cryfder, er cystal eu bri,

Gadw un enaid rhag myned ar goll,
Nes cadwo Crist Iesu, ein Helpwr ni oll.

A'r saint a'r saintesau, pe baent oll ynghyd, *Act.*4.12
Er amser hen Adda, hyd ddiwedd y byd;
Ni allent hwy gadw un enaid tra'ent byw,
Rhag myned i uffern, heb gymmorth Mab Duw.

Pe rhoddit ti'n offrwm 'nifeiliaid y byd, *Mic.*6.6.
Afonydd o olew, a'th olud i gyd,
A'th gyntaf-anedig, a'th fywyd, a'th wa'd,
Ni chedwit ti d'enaid, heb help y Mab rhad. *Ioan* 14.6.

Pe chwilit ti'r nefoedd a'r ddaear ynghyd,
A'r awyr a'r moroedd hyd ddiwedd y byd,
Ni ellit ti ganfod, tra fyddit ti byw,
Un Ceidwad i'th enaid, ond unig Fab Duw.

Nac ymgais am geidwad heblaw Crist ei hun,
Mae'n Geidwad galluog, yn Dduw ac yn ddyn;
Nid oes iachawdwriaeth, nac enw dan nef,
I gael mewn neb arall, ond sydd ynddo ef.

Ni chedwir un enaid o'r oes hon y sydd,
Na'r oesoedd a basodd, na'r oesoedd a fydd,
Ond unig eneidiau a gatwo Mab Duw,
Y ‖ *rhest* eisiau credu a gollir bob rhyw. ‖ *Lleill.*

*Yr ail Ran.*

YMAFAEL yn dy Brynwr, yn ffest â llaw dy ffydd,
Os mynni gael dy gadw, dal d'afael ynddo'n brudd,
Na choll mo'th afael arno, nes caffech rym a gras,
Oddi wrtho i gadw d'enaid, a byth bod iddo'n was.

Na 'mddiried i'th weithredoedd, na'th ddysg, na'th dda, na'th ryw,
Ni all dim gadw d'enaid ond ffydd yn un Mab Duw;
Os rhoi d'ymddiried yntho, ni chollir d'enaid byth,
Heb Grist, os ceisi ei gadw, di colli ef dros fyth.

Mae pawb o feibion dynion, er Adda i ddiwedd byd,
Gan bechod gwedi llygru a'u damnio bawb ynghyd;
Ni chedwir un o honynt rhag angeu ac uffern drist,
Gwnaed pawb y goreu ag allont, nes cadwer hwy gan Grist.

Dewch bawb gan hynny'n gyfan at Geidwad yr holl
I gadw eich trist eneidiau a gollwyd oll ynghyd, [fyd,

Yr un a ddelo atto, fe'i dug i'r nefoedd wen,
Yr un a beidio dwad, fe â i uffern ar ei ben.

Na fydded neb mor angall, mor ddwl, mor ddall, mor
A throi oddiwrth y Ceidwad ſy'n galw yn eich hol, [ffol,
Ni ddiangc neb rhag angeu, ni ddringad un i'r nef,
Ni bydd un dyn cadwedig, nes caffo ei gymmorth ef.

Ni chedwid Noe, na Daniel, nac Abra'm, Job, na
 Phawl,
Na Mair, nac Ann, na Martha, na neb o rwydau'r
Na'r plentyn newydd eni, nac un o eppil dyn, [diawl,
Trwy nerth a'u gallu eu hunain, ond trwy nerth Criſt
 ei hun.

Ni chedwir neb tr'o gantho o hyn i ddiwedd byd,
Ond y rhai gadwo'r Ieſu, mae pryniad dyn mor ddrud;
Ni fyn y Barnwr cyfion §ſarhad am bechod dyn, §*iawn*
Lai nag angeu gwerthfawr, a gwaed Mab Duw ei hun.
Gan hynny ofer ceiſio help angel, ſant, na dyn,
Na phardwn Pab, na 'fferen i gadw enaid un;
'Does dim ag ellir enwi, beth bynnag fyddo ei ryw,
All gadw enaid Criſtion, ond angeu un Mab Duw.
Ni chymmer Duw'r dialau iawn lai am bechod dyn,
Nag angeu holl blant dynion, neu angeu'r cyfryw un
A f'ai ei angeu cyſtal ag angeu pawb o'r byd,
Nid oes un angeu felly, ond angeu'r Prynwr drud.
Ni ddichon neb foddloni cyfiawnder Duw wrth hyn,
Heb angeu ac ufudd-dod ein Prynwr Ieſu gwyn,
Y neb ni cheiſio ei gymmorth, er cymmaint fo ei ſcil,
Ni bydd e'n abl atteb i Dduw am un o ſil.
Mae rhai yn credu gallant trwy gwaith a'u gweddi eu
 hun,
A'u hympryd a'u cardodau, wir haeddu cymmain' un,
Gael diangc poenau uffern, a dringad chwip i'r nef,
Heb help y gwir Iachawdwr, ffei, ffei, beth wnant ag ef?

Ond pan fo rhai'n yn tybied y dringant uwch y ſer,
I uffern boeth y cwympant lle ſyrthiodd Luciffer:
Yn uffern y cânt weled, heb Griſt, na ddichon dyn
Fyn'd byth i deyrnas nefoedd trwy rym a'i allu ei hun.

Ni ddichon un dyn haeddu trugaredd ar law Duw,
Ni bu 'rioed arno ddyled, ni bydd byth tra fo byw,

Mae pawb yn rhwym i 'ddoli a'i foli ag uchel lef,
Heb ddyled arno er hynny, pawb yn ei ddyled ef.

Ni ddichon gweddi un dyn, na'u cardod o un rhyw,
Na'u hympryd na'u 'difeirwch, foddloni'r cyfiawn Dduw,
Nes darfo i Griſt yn gyntaf gymmodi'r dyn â'i Dad,
A golchi a ſanctеiddio y weithred dda â'i wa'd.

Mae'n rhaid i Griſt ail greo pechadur ar ei lun,
A'i droi'n greadur newydd ar ddelw Duw ei hun,
A newid ei feddyliau, a'i raen, a'i rym, a'i ryw,
Cyn gallo dyn feddiannu na gweled teyrnas Dduw.

Mae'n rhaid i Griſt heddychu rhwng dyn a Duw ei Dad,
A'i olchi o'i bechodau, trwy rym ei werthfawr wa'd,
A'i wiſgo â'i ſanctеiddrwydd, a'i holl rinweddau'i hun,
A dodi ei Yſpryd ynddo, cyn galler cadw'r dyn.

Mae'n rhaid i Griſt ein gwared, o law a gallu'r fall,
Sy'n cadw mewn caethiwed, mewn carchar tywyll dall,
Yn rhwym ein traed a'n dwylo, mewn cadwyn pechod
Ynglyn â chyſgod angeu, cyn delom byth i ma's. [cas,

Mae'n rhaid i Griſt ddiarfu y fall ſy'n cadw llys
Yngalon pob pechadur, a'i rwymo'n ffaſt â'i fys,
A'i daflu o'i neuadd allan, a chadw'r llys ei hun,
Cyn elo'r fall o'i gaſtell, na'r ddraig o galon dyn.

Mae'n rhaid i Griſt ein gwneuthur yn blant i Dduw ei Dad,
A'n hadgenhedlu'n feibion, trwy fabwys prudd a rhad,
A'n gwneuthur yn 'tifeddion, i'r Hollalluog Dduw,
Cyn gallom gael paradwys, er cyſtled a f'om byw.

Mae'n rhaid i Griſt ein tynnu o bob trueni ma's,
O rwydau'r fall uffernol, a gweflau'r angeu glas,
A'n gwneuthur yn gyfrannog o ffafar Duw a'i rad,
Cyn gallo neb feddiannu y deyrnas lle mae'i Dad.

Amhoſib' yw gan hynny i unrhyw ſath o ddyn
Feddiannu teyrnas nefoedd, trwy rym a'i allu ei hun,
Na diangc o law ſatan, a gweflau'r angeu glas,
Na dial Duw a'i felldith, heb gymmorth Criſt a'i ras.

O b'wedd y diangc un dyn rhag dial Duw a'i fâr, [ta'r,
Rhag melldith drom y gyfraith, rhag carchar pechod

Rhag gallu *prins* tywyllwch, rhag dannedd angeu trist,
Trwy nerth a'i rym ei hunan, heb gymmorth Iesu Grist?

Mae'n rhaid i ninnau'r dynion *repento* â chalon brudd,
A chredu 'Nghrist ein Ceidwad trwy wir a bywiol ffydd,
A beunydd wella'n buchedd, trwy nerth ei Yspryd ef,
A bod yn bobl newydd, cyn dycco Crist ni i'r nef.

Dewn bawb gan hynny'n fuan at Grist ein Ceidwad
Trwy alar a 'difeirwch, a gwir a bywiol ffydd: [prudd,
Yr un a ddelo atto, fe'i dug i'r nefoedd wen,
A'r dyn a beidio dwad, f'â i uffern ar ei ben.

## X. *Cynhyrfiad i foli'r Arglwydd Iesu.*

CYffredin a bonedd, trowch heibio bob maswedd,
A moeswch o'r diwedd gyttuno,
Ar foli'n garedig y boreu Nadolig,
Ein Prynwr arbennig a'i gofio.

Pan wnaeth Duw mor gymmen y ddeuddyn o'r ddae-
Fe'u rhodd hwy'n y berllan i dario, [ren,
I gym'ryd eu plefer, mewn heddwch a 'smwythder,
O'r prennau melus-ber oedd yno.

Pan gwelodd ein gelyn ni gyflwr y ddeu-ddyn,
A'u bod hwy mor gyttun yn rhodio;
A'r ddaear mor ffrwythlon, yn rhoi iddynt ddigon,
Heb drafael ar ddynion lafurio.

Ac yno daeth satan, mewn meddwl ac amcan,
Ar gaffael ymddiddan a hudo;
Yn union at Efa fel llestr o'r gwanna,
A gadael hen Adda fyn'd heibio.

Pe bwyttech ti dammed o'r afal goreured,
Nad ydych yn beiddied ei || *dwtsio*; || *Cyffwrdd.*
Eich llygaid agorai, chwi fyddech fel duwiau;
Fel dyma'r rhinweddau sydd arno.

Yr afal hi gym'rodd, a'r tammaid hi bwyt'odd,
Ac Adda ni pheidiodd a'i * *dasto*; * *Brofi.*
Nes cael anesmwythder (ond ydyw'n beth 'sgeler)
Yn dâl am y plefer aeth heibio.

Hwy aethant eill dauwedd, o blegid eu balchedd,
Yn euog o'r diwedd boenydio; *Rhuf.* 5.12.

A ninnau lin o lin, ſy'n dyfod o'r gwreiddyn,
Heb allu ond eu dilyn hwy yno.
Pan gwelodd Duw cyfion y poenau mor greulon,
A ninnau mor weinion yn † *ſingco*; † *Soddi.*
Rhodd i ni Gyfryngwr, wrth weled ein cyfiwr,
Criſt Ieſu'n Iachawdwr i'n ſwccro. *Rhuf.* 5.6.
Hwn aned yn unig y boreu Nadolig,
(Hwn ydyw'r gwir Feddyg i'w goſio) [ten,
Mewn preſeb anghymmen, ond gwych oedd ein ffor-
Pan gawſom ſath Gapten i'n § *ledio.* § *Arwain.*
Dwy natur neu rinwedd, heb gymmyſg eu ſylwedd,
Sydd ynddo, heb ddiwedd i'w cofio; *Rhuf.* 1.3,4.
Y Duwdod, y dyndod, ynghyd i'w cydnabod;
Ac felly mae'n gorfod *conffeſio.*
Mae'i Dduwdod cyn uchled â'i Dad y gogoned,
Bob amſer i'w weled yn * *rhaino*: * *Teyrnaſu.*
A'i ddyndod heb all'el cyrhaeddyd mor uchel,
Os credwn ni chwedel ein credo.
Ond mawr oedd y cariad, pan rhoddai'r Ucheldad,
O fenyw'r ſath Geidwad i'n ſwccro,
Yn berffaith ddyn cnawdol fel pob un o'i bobol,
Ond pechod yn hollol ‖ *ecſepto.* ‖ *Neillduo.* 1 *Ped.* 2.22.
Pan oeddym yn barod, o blegid ein pechod,
I fyn'd i'r pwll iſod i drigo;
Mewn ffwrnes uffernol, a chyſtudd anfeidrol,
Heb obaith ymwrthod oddi yno;
Fe redodd yn feichiau, fe ſeliodd ein bandau,
Fe'n unig a fedrai ddad-ddigio: *Heb.* 7.22.
Fe'n dygodd ni o'r goſid, fe roddodd in' rydd-did,
Fe barodd in' iechyd a baro.
Nid aur o'r melyna, nid cyfoeth o'r India, 1 *Pedr* 1.18.
Allaſai bwrcaſa *pardyno*;
Ond bywyd y plentyn, y gwir Dduw a'r gwir-ddyn,
Da iawn ydyw 'mofyn am dano.
Trwy hwn y boddlonwyd, trwy hwn y dad-ddigiwyd,
Ac heb hwn ni allwyd ei bleſio:
Er mwyn hwn yn union, mewn pob rhyw anghenion,
Y gwrendy pob criſtion a geiſio. *Ioan* 16.33.
F'offrymmodd ei hunan, yn Aberth bereiddlan,
Rhag ofan i ſatan gongcwero;

Fe 'ſigodd ei ſawdwl, fe wnaeth wrth fy meddwl,
  Fe gadwodd y cwbwl a gretto.
Er bod ein drwg weithred yn amal i'w gweled, *Eſa.*
  Mewn moddion afrifed i'w cownto; 64.6.
O ddiffyg ffydd hynod bob amſer yn barod,
  Nid ydynt ond pechod i'w * *ſwmno.* * *Priſio.*
Trwy ffydd y'n diddenir, trwy ffydd y'n perffeithir,
  Trwy ffydd y'n hennillir ni'n gyfrdro;
O ras trwy ffydd fywiol, medd Paul yr apoſtol,
  Mae Criſt yn ein dethol ni atto. *Eph.*2.8.
Ni cheiſiodd un bridwerth gan un dyn yn aberth,
  Er cymmaint y cymmerth e'i blago,
Ond yſpryd drylliedig, a chalon buredig;
  O dewch yn garedig i wrando. *Sal.*51.17.
Trwy ffydd y derbyniwn bob peth ag ofynwn,
  Nid oes dim ag allwn ddymuno, *Marc* 11.24.
Na's ceffir ond credu, yn hael gan yr Ieſu,
  Can's fe ſydd â'r gallu lle mynno.
Trwy ffydd yngwaed gwirion ein Prynwr gwyn graſlon,
  Fe olchir ein beion pan orffo *Act.*3.19.
Rhoi *cownt* am ein gweithred o flaen y Gogoned,
  Ond iddo gael gweled *repento.*
O! byddwch yn addas, trwy fynych gymdeithas,
  A gwiſg y briodas yn gryno,
I fyn'd i'r llawenydd, ymhell o'r aflonydd,
  Yn barod pan orfydd *apiro.*
A byddwch fel ſeintiau, ag *oil* i'ch lanternau,
  Bob nos a phob boreu i'ch goleuo:
Rhag dyfod y Priod, heb rybudd nac arfod,
  Mewn amſer heb wybod i || *gnocco.* || *Curo.*
A gwnewch eich gwaſanaeth i'r Drindod yn helaeth,
  Tr'o'r dydd iachawdwriaeth heb *baſio*; 1*Cor.*15.58.
Rhag dyfod tywyllwch, rheſymmol y gwelwch,
  Pryd hwnnw ni ellwch mo'r gweithio. *Ioan*9.4.
Gweddiwch yn dduwiol, ar eich cadw'n ddihangol,
  A bod yn waſtadol yn neffro;
Can's agos yw'r amſer, medd Mathew dafod-ber,
  Fe orfydd ar fyrder ymado. *Mat.*25.13.
Os byddwch gariadus, wrth fodd Duw a'i 'wyllys,
  Chwi gewch fod yn ddilys yn *rhaino*

Mewn 'smwythder, dedwyddwch, llawenydd, llonydd- [wch,
  A phethau na fedrwch ystyrio. 1 *Cor.* 2.9.
Nid oes yno glefyd, na thristwch, nac adfyd,
  Na gofal na gofid i'w gofio: *Dat.* 7.16,17.
Ond miwsic pereiddlon, gan sanctaidd angylion,
  Na ddichon un galon fyfyrio.

Gan hynny blwyfolion, chwi gwympwch yn ffyddlon,
  O ddyfnder eich calon weddio
Ar Dduw o'i wir fawredd a'i aml drugaredd,
  Yno'n dwyn ar ein diwedd i drigo.

XI. *Gwahoddedigaeth arall i foli Crist Iesu.*

DEWCH bawb yn garedig, yn ffres ac yn ffrolig,
  Yn awr y Nadolig i foli Mab Duw,
A salms ac â hymnau, yn hwyr ac yn forau,
  Am gadw'n heneidiau rhag distryw.
Dewch, cenwch yn llafar, nes dadsain y ddaeâr,
  A dringad eich trydar i'r trydydd nef;
I gyffro'r angylion i gyd-ganu â dynion,
  I Dduw am ei dirion dangneddef.
Pan n'allai na dynion, na saint, nac angylion,
  Na dim daearolion, mewn daear na dw'r,
Ein cymmorth na'n helpu, fe helodd Duw'n prynu
  Ei unig Fab Iesu'n Iachawdwr.
Pwy dad a f'ai perchen deg plentyn ar hugain,
  A roddai'n aflawen y gwaethaf i'w ladd
Ar grogpren echryslon, i gadw ei elynion,
  A'i gyrrai yn greulon i ymladd?
Duw nid arbedodd roi'r un Mab a feddodd,
  A'r mwyaf a garodd o'r holl fyd i gyd,
I farw dros ddynion ar grogpren echryslon,
  Pan oeddym elynion gwenwynllyd. *Rhuf.* 5.10.
Gan hynny'n enwedig, trwy wyliau'r Nadolig,
  Rhown ddiolch caredig i'n cariadus Dad,
Am roddi mor rasol ei Etifedd naturiol,
  I fod i ni'n nerthol wir Geidwad.

A molwn yn nesaf â moliant o'r mwyaf,
  Fab Duw goruchaf, gwir iechyd y byd;
Am ddyfod o'i fawredd, o'i nefol anrhydedd,
  I'n tynnu mor rhyfedd o'n gofid.

O'r nefoedd orucha', o fynwes Jehofa,
  Daeth Mab Duw anwyla', yn olud i ni;
I gym'ryd ei ddyndawd, o Fair at ei Dduwdawd,
  A'i wneuthur yn gyd-frawd glân i ni.

I'r 'ſtabal anghymmen, o'r nefoedd ddiſgleirwen,
  I breſeb yr ychen, o'i oruchaf lys;
O blith yr angylion, i gadw plant dynion,
  Y daeth yr Oen tirion cariadus.

Mab Duw gorucha', Duw'r gair mi a'i henwa',
  Etifedd Jehofa, Duw, Mab y Duw mawr,
A wnaed yn ddyn cnawdol, o Fair yn rhyfeddol,
  I achub ei bobol drallod-fawr.

Y Duw'r hwn a greodd nef, daear, a dyfroedd,
  Y Duw'r hwn a luniodd yr haul yn y nef,
A wnaethpwyd yn blentyn, yn fachgen, yn fwydyn,
  A milwyr cyffredin a'i lladdef.

Dewn bob rhai gan hynny, clodforwn yr Ieſu,
  Ymrown bawb i ganu gogoniant a mawl,
Ar dafod, ar dannau, yn hwyr ac yn forau,
  I'n Prynwr mewn hymnau pur nefawl.

A galwn y nefoedd, y ddaear a'r moroedd,
  A phawb o'r holl luoedd ſydd ynddynt yn llon,
I gyd-ganu moliant, a chlod a gogoniant,
  I Awdwr ein ffynniant yn ffyddlon. *Sal.*148.

Fel Zadrach o'r ffyrnes, fel Zachri o'i gyffes,
  Fel Miriam a Moſes ar lan y coch-fôr, *Ecſ.*15.
Clodforwn yr Ieſu, a ddaeth i'n gwaredu,
  O'r ffwrn a'r carchardy hyll || catcor. || *gwangcus.*

A threuliwn ei wyliau, er cof am ei ddoniau,
  Y modd ag y gweddai ŵyl Ieſu gwyn,
Mewn nefol hyfrydwch a duwiol ddifyrrwch,
  A phrudd ddiolchgarwch boed gennyn.

Mae'r Arglwydd yn erchi in' bawb fod yn *ſiri*,
  A llawen a llonni mewn llan ac mewn llys,
Yn Awdwr ein heddwch, a Thad ein diddanwch,
  Trwy fod ein difyrrwch yn weddus.

Gan hynny'n enwedig, yn awr y Nadolig,
  A'r galon yn *ffrolig* a'r wyneb yn *ffres*,
Gwir orfoleddwch yn Awdwr eich heddwch,
  Rhowch ymaith bob triſtwch anghynnes.

Trwſiwch eich teiau, huliwch eich byrddau,
  A phob ſir o'r gorau o gariad at Griſt;
Gwahoddwch eich gilydd i gynnal llawenydd,
  Na chedwch ei ŵyl-ddydd yn athriſt.

Cwnnwch eich calon, cymmerwch eich digon,
  Gochelwch ormoddion, mae meddwi yn gas;
Na cheiſiwch lawenydd mewn diod a bwydydd,
  Ond yn eich Achubydd mawr addas.

A chenwch trwy'r gwyliau wir dduwiol ganiadau,
  Na ſoniwch am ſennau ar wyliau'n gwir Sant:
Ond ſiriwch eich hunain ar Fab Duw ſy'n datſain,
  Fod ynddo iwch' gywrain faddeuant.

Nac ewch i'r tafarnau, a'r aflan butteindai,
  I lorian y gwyliau, mae'n g'wilydd y gwaith;
Amherchi Duw'n Prynwr, boddloni'n gwrth'nebwr,
  Mae'r cyfryw â'u dwndwr cas diffaith.

Ymaith â'r cardiau, a'r dwndran, a'r diſau,
  A'r gloddeſt, a'r gwleddau, bair griſtion yn glaf;
A'r medd'dod, a'r tyngu, ſy'n nurddo a naſu
  Nadolig Duw Ieſu anwylaf.

Cym'rwch y ſalmau, a'r 'fengyl wen olau,
  Yn lle y par cardiau, os gwyr da y'ch heb ddig;
*Fſitach* i griſtion nâ'r par cardiau brithion,
  Yw'r 'fengyl wen dirion Nadolig.

Gan hynny ymſiriwch, a gwir orfoleddwch,
  A neidiwch a molwch eich Prynwr Duw mawr;
Cenwch glod iddo, a churwch eich dwylo,
  Ymhyfrydwch ynddo yn ddirfawr.

Rhowch foliant rhagorol i'r Yſpryd ſancteiddiol,
  Sy'n dangos i'r bobol o'r bibl yn rhad,
Fod pardwn ac iechyd, a heddwch, a bywyd,
  I'w gael yn ein hyfryd wir Geidwad.

I'r Tad 'rhwn a'n creodd, i'r Mab 'rhwn a'n prynodd,
  I'r Yſpryd a'n gloywodd â'r gair a'r dw'r glân,
Y bytho bob ennyd, ogoniant tra hyfryd,
  Ym mhob man o'r holl-fyd yn gyngan.

XII. *Annogaeth i ddiolchgarwch am ein prynedigaeth trwy ein Harglwydd Ieſu Griſt.*

CURWCH bawb eich dwylo ynghyd, *Sal.* 47. 1.
  Bendithiwch Dduw o bryd i bryd,

Am roi unig Fab i'n prynu,
Pan yr oeddym wedi'n damnu.

Cwympwch bawb ar ben eich gliniau,
Aberthwch iddo nos a borau,
Glod a moliant, nerth a gallu,
Am roi unig Fab i'n prynu.

Ped yſtyriem faint yw'r dyled
Y ſydd arnom iddo o'r parthed,
Ni wnaem ſwydd ar nos na borau,
Ond ei foli ar ein gliniau.

Pan yr oeddym gwedi myned *Act.*26.18.
Dan law ſatan i gaethiwed, 1 *Ioan* 3.8.
Fe rodd Duw ei Fab i'n prynu,
Pan na allai neb ein helpu.

Carcharorion dan law ſatan, *Eph.*2.2.
Yn y *dwnſiwn* mawr yn cwynfan, *Luc*4.18.
Byth y bu'ſem bawb yn gryddfu,
Oni bu'ſai'r Ieſu ein prynu.

Nid oedd lun i *reconſilo*
Duw'r cyfiawnder gwedi digio, *Col.*1.20.
Oni bu'ſai ei un Mab Ieſu
Farw droſom er ein prynu.

Nid oedd lun gwaredu enaid *Act.*4.12.
Un pechadur o'r pwll tanbaid,
Oni bu'ſai i'r Ieſu cyfion
Dalu droſto waed ei galon.

Criſt a rodd ei werthfawr wa'd,
Yn bridwerth droſom ni i'w Dad;
Ac a'n tynnodd trwy fawr gryfder, *Heb.*2.14.
O law ſatan oedd y *ſiaeler*.

Adar oeddym wedi'n dala
Yn rhwyd ſatan i'w ein difa; *Sal.*124.7.
Criſt a dorrodd y rhwyd droſom,
Ninnau'r adar a ddihang'ſom.

Dafad oeddym aethai ar ddidro,
I blith bleiddiaid i gyrwydro,
O'r wir gorlan ym mharadwys,
Ar ol ſatan pan ein temtiwys.

Criſt yw'r Bugail a ddo'i 'mofyn
Hon i blith bwyſtfilod 'ſgymmun, *Luc* 15.

Ac a ddygai'r ddafad adre',
O enau'r diawl ar ei yfgwyddau.
  Nid yw'r gwr a ga'dd ei 'fpeilio, *Luc* 10.33--35.
A'i archolli wrth dramwyo,
I Jericho o Jerufalem,
Heb neb a'n cwnnai o'r clawdd lle'r oeddem.
  Crift yw'r mwyn Samaritan,
A rwymai'n harcholl yn y man,
Ac a'n dygai hyd yr oftri,
Yno i'n fwccro a'n comfforddi.
  Y farph a'n brathodd ym mharadwys,
A chol pechod pan ein twyllwys:
Crift eliodd ein harchollion,
Yn fwyn iawn â gwaed ei galon.
  Nid oedd dim a allai helpu
Ifrael gwedi'r feirph eu brathu, *Num.* 21
Ond golwg hyll ar farph o bres,
Dim amgenach ni wnai les.
  Nid oedd dim a'n helpai ninnau, *Ioan* 3.14,15
Gwedi'n brathu â chol pechodau,
Ond Crift Iefu gwedi hoelio,
Oedd y farph yn * *reprefento.* * *Arwyddo*
  Tebyg oedd ein cyflwr gwan,
I adar bach y pelican,
A f'ai'r neidr gwedi 'nafu
Nes caent waed eu mam i'w helpu.
  Pan y gwelodd Crift ein cyfur,
Megis pelican twym natur, *Heb.* 9.14
Fe rodd i ni waed ei galon,
I elio ein harchollion.
  O yftyriwn ninnau'n *cás*,
A'r daioni mawr a'r gras,
A ddaeth i ni'r byd colledig,
Trwy ddioddefaint Crift yn unig.
  Slafiaid fatan, gweifion pechod, *Act.* 26.18
Plant digofaint, bwyd bwyftfilod, *Ioan* 8.34
Oeddym bawb, oni bu'fai'r Iefu, *Eph.* 2.3
Ddaeth o'r nef i'r groes i'n prynu.
  Beth yw dyn heb gymmorth Crift,
Ond gwas a *flaf* i'r cythraul trift,

Gwedi Dduw ei farnu eiswys, *Ioan* 3.18.
Fyn'd i uffern o baradwys.
Nid oes dyn a ddichon gadw
Ei enaid bach rhag iddo farw,
Nes y caffo gyfnerth Iesu,
A'i waed gwerthfawr i'w ei olchi.
Nid oes dyn a ddichon wneuthur
Iawn i Dduw am bechod budur,
Nes y caffo waed yr Oen, 1 *Pedr* 1.18,19.
I dalu'r pris, i ddofi'r poen.
Crist yw'r Oen difrychau i gyd,
Sy'n tynnu ffwrdd bechodau'r byd,
Ac yn dofi llid ei Dad,
A'i fywyd gwyn, a'i werthfawr wa'd.
Crist yw'r 'Ffeiriad sy'n y nef,
Yn gwneuthur drosom weddi gref, *Heb*.4.14.
Gwedi offrwm gwaed ei galon, *Rhuf*.8.34.
Ar y groes yn bridwerth drosom.
Crist yw gwir oleuni'r byd,
Crist yw'n bywyd oll i gyd,
Crist yw'n Comffordd, Crist yw'n Ceidwad,
Crist yw'n Helpwr o'r dechreuad. 1 *Pedr* 1.20.
Heb Grist nid ydym ond colledig, *Ioan* 3.36.
Trwy Grist yr ydym yn gadwedig:
Heb Grist ni chawn ni weled Duw;
Trwy Grist ni a gawn ynddo fyw.
Pob dyn aiff i uffern drist,
Ond a gretto yn Iesu Grist: *Dat*.21.8,27.
Ac heb Grist ni ddichon un-dyn
Fyn'd i'r nef, er maint ei 'rofyn.
Dysgwn bawb gan hynny gredu,
Yn ein Prynwr mawr Crist Iesu;
A meddyliwn wrando arno,
Os yn y nef y mynnwn dario. *Act*.3.26.
Prynodd Crist â gwaed ei galon,
Yr holl fyd o'u poenau trymion,
Llawer mil o'r byd er hynny,
Ant i uffern eisiau credu. *Ioan* 3.36.
Er croeshoelio'r Iesu drosom,
A rhoi taliad llawn am danom,

Etto ni bydd neb cadwedig,
Ond a gretto ynddo'n unig.

Credwn yng Nghrist, ac fe'n cedwir,
Oni chredwn, yna ein collir;
'Run a gretto gaiff ei gadw,
'Rhwn na chretto, collir hwnnw.

Nid aiff un, na mawr na bach,
Byth i uffern i roi gwach,
Ond y dyn a beidio a chredu
Yn y Prynwr mawr Crist Iesu.

Porth y nef sydd led agored
Ddydd a nos, heb arno gaued,
I bob gradd o gywir gristion,
Ag a gretto ynddo'n ffyddlon.

Ni bydd son byth am ein beiau,
Na'n drwg natur, na'n pechodau;
Hwy faddeuwyd, ac hwy flottir
A gwaed Crist i maes o'r llyfyr.

Crist a'n golchod o'n pechodau,
Crist a brynodd ein heneidiau,
Crist a'n dwg i deyrnas nefoedd,
Nyni bia'r maint a brynodd.

O moliannwn ninnau'r Iesu,
Ddydd a nos am iddo'n prynu;
Ac na anghofiwn, tra chwyth ynom, *Heb.* 5.9.
Faint o bethau wnaeth ef erddom.

Clod a gallu, mawl a moliant,
Gwir anrhydedd a gogoniant,
A fyddo i'n Prynwr mawr a'n Pen,
A d'weded nef a dae'r, Amen.

XIII. *Cynghorion i'r sawl a ddymunai gael ffafr Duw a maddeuant pechodau.*

PWY bynna' geisio maddeu,
Ei bechod a'i drosеddau,
A chael pardwn gan Dduw gwyn,
Rhaid dilyn hyn o wersau.

Yn gynta' adde'th bechod *Diar.* 28.13.
Yn brudd o flaen y Drindod;
Na chais gelu dim rhag Duw,
'Does bai nad yw'n ei wybod.

Gwedi'n prawf ddeallu,
Pa ddial wyt ti'n haeddu, *Rhuf.* 6. 23.
A pha angeu didrangc maith,
Am dan dy waith yn pechu.

A deall fod dy feiau,
Yn haeddu uffern boenau; *Dan.* 9. 17.
Gwedi'n cais â chalon drist, *Eph.* 1. 7.
Gan Dduw er Crist eu maddau. 1 *Ioan* 1. 9. *a* 2. 2.

A dysg yn brudd gydnabod, *Ioan* 14. 14.
Nad oes o flaen y Drindod,
Iawn am bechod ond gwaed Crist,
A'i angau trist a'i 'fudd-dod.

A chred i'th Brynwr Iesu,
Yn gwbl gyflawn dalu,
Ar y groes yn ddigon drud, *Mat.* 20. 28.
Am feiau'r byd sy'n credu.

A gwybydd fod Duw'n foddlon, *Mat.* 3. 17
I'r iawn a wnaeth Crist droson,
Ac er ei fwyn yn barod iawn,
Roi pardwn llawn i'r ffyddlon.

A chred y maddeu i tithau,
Dy bechod a'th drosеddau,
Ond it' geisio, er mwyn Crist, *Ioan* 14. 14.
A chalon drist eu maddau.

Na chytgam geisio celu,
'Mo'r pechod wyt ti'n garu;
Adde'r cwbwl ger bron Duw,
Peth ofer yw ei wadu.

A barn dy hun yn euog, 1 *Cor.* 11. 13.
O flaen yr Hollalluog,
Fel na'th farner ar ddydd brawd,
Ar g'oedd trwy wawd digasog.

Galara am dy bechod, *Iago* 4. 9, 10.
Yn ol ei wel'd a'i 'nabod;
Ac ymofidia nos a dydd,
Nes i ti'n brudd ei wrthod.

Gwna'r galon brudd och'neidio,
A'r llygaid ddyfal wylo;
A gwna i'r yspryd brudd dristau,
Edifarhau a *mwrno*. F

A chais gan Dad goleuni, *Ezec.*36.23.
Roi calon dyner i ti;
Ac ymofidia ambell awr,
Am dan dy fawr ddrygioni.

Na orphwys byth yn ceifio,
Nes cael gan Dduw dy wrando,
A rhoi calon it' driftau,
Edifarhau ac wylo.

Yn ol it' fwrno ennyd,
Am dan dy bechod oflyd,
Dala afael tra f'ech byw,
Ar ammod Duw a'i 'ddewid. *Zec.*9.11.

Mae Duw'n ei air yn addo,
Diddanu'r rhai fo'n mwrno, *Mat.*5.4.
A rhoi hefyd bardwn clir,
I bawb a wir ‖ *repento.* ‖ *Edifarhau.*

*Repenta*'th fywyd anllad, *Luc* 13.5.
A chred yng Nghrift dy Geidwad; *Ioan* 3.16.
Gad dy feiau tra ynot chwyth, *Efa.*55.7.
Ni chollir byth o honad.

Mae Duw yn addo helpwr, *Efa.*35.4.
A Cheidwad a Diddanwr,
I bob dyn 'difeiriol trift,
Sef Iefu Grift dy Brynwr.

Mae Duw yn addo maddau
Dy bechod a'th drofeddau
A'th olchi'n lân o'th frynti gyd, *Efa.*1.16,17,18.
Ond gado ym mhryd dy feiau.

Os byddi di 'difeiriol,
Mae'n addo bod yn rafol, *Jer.*3.12.
Diddig, tirion, mwyn a ftri,
A byth â thi'n heddychol.

Mae'n addo dy lwyr olchi, *Zec.*13.1.
Oddi wrth dy feiau a'th frynti,
Yng waed ei Fab (O cofia hyn)
A'th droi mor wyn a'r lili. *Efa.*1.18.

Dal afael fiwr fel Criftion,
Ar hyn o addewidion;
Nef a dae'r ant heibio (clyw) *Mat.*24.35.
Cyn torro Duw bromeifion.

Caſa dy bechod oſlyd,
Fel neidr gas wenwynllyd,
Sy'n ceiſio 'th ladd o gyſgod llwyn,
Dan gel, a dwyn dy ſywyd.
Na ddere i'r man lle gallo
Dy bechod taer dy hudo,
Paſa heibio, neu dro'n d'ol, *Diar.*4.14,15,16.
Na ddos fel ffol i'th demtio.
Os doi ar draws y neidir,
A cholyn hon fe'th frethir;
Os doi'n rhy agos at y tân,
Medd 'ſgrythur lân, fe'th loſgir. *Diar.*6.27,28.
Gan hynny ymgadw arnad,
Rhag tramwy lle bo'r temtiad:
Gwell it' droi nâ myn'd i'r man,
Nid wyt ond gwan ac anllad.
Na thro at bechod eilwaith,
Fel ci neu fochyn diffaith, 2. *Ped.*2.22.
A red i'r dom yn frwnt ei fri,
Yn ol ymolchi unwaith.
Na ddilyn ddrwg gyfeillach, *Diar.*24.1.
A'th helo'n ffolach ffolach:
Ni thâl ceiſio troi at Dduw,
Nes gado'r cyfryw ffrythnach.
A glŷn wrth bobol dduwiol,
A *marca* eu 'mddygiad graſol,
Da a difyr yw'r ſath wyr, *Sal.*119.63.
I'th ddwyn i'r llwybyr nefol. *Phil*.3.17.
A chais gan Dduw trwy weddi,
Dy droi oddi wrth ddrygioni,
A'th gyf'rwyddo tra fech byw,
I garu Duw a'i ofni.
A nad i'r ſall dy ddallu,
A'th annog mwy i bechu: *Rhuf.*16.10.
Sathra ſatan dan dy draed,
Trwy rinwedd gwaed yr Ieſu. *Dat.*12.11.
Na ddere at y meddwon,
Rhag newid dy arferion;
Fel y newid y môr glas,
A heli flas yr afon.

Ymad â phob cyfeillach,
A'th helo'n annuwiolach:
Tyn oddiwrthynt, casa eu ffyrdd,
Fel *pitch* a nyrdd dy gadach.

XIV. *Cyngor i gredu yng Nghrist, a dangosiad o'r cyfnewidiad rhyfeddol sydd yn y dyn a gredo.*

CRED yng Nghrist, llef am dy Geidwad,
Mae Duw'n cynnyg Crist i sagad; *Luc.*14.16
Derbyn Grist pan y cynnygo,
Oni's gwnai ti fyddi hebddo.

Y dyn a gretto yng Nghrist yn brudd,
Trwy galon rwydd a bywiol ffydd,
Mae Crist yn rhoi i hwnnw ras, 2 *Cor.*5.17.
I fyw fel sant o hynny ma's.

Mae Crist yn rhoi ei Yspryd iddo, *Ioan* 7.39.
I'w ail eni, a'i ail lunio; *Gal.*3.22.
A'i lwyr droi yn ddyn o newydd,
O *rebel* ffol yn blentyn ufudd.

Mae'n rhoi ei Air i wir oleuo,
Mae'n rhoi ei Ras i gynnorthwyo;
Mae'n rhoi ei Yspryd i reoli,
Mae'n rhoi ei hun yn bob peth i ni.

Nid oes lun i ddyn wrth hyn,
A gretto'n gryf yn Iesu gwyn,
Na chasso ras a grym oddiwrtho, *Ioan* 15.5.
I fyw fel sant os cred ef ynddo.

Mae cred yn tynnu gras a gallu, 1 *Ioan* 3.3.
Oddiwrth Grist i'r dyn ddifaru,
Am bob bai o'i fuchedd aflan,
A byw fel sant o hynny allan.

Oni bydd dy ffydd yn tynnu
Gras o Grist i'th adnewyddu,
Dy ffydd sydd ffals, ni thâl hi ddimmau, *Iago* 2.24.
Nes tynno hi ras i wella'th feiau.

Mae bywiol ffydd yn tynnu gras
A grym o Grist o hynny ma's;
I roi heibio bob hen grefydd,
Ac i wneuthur oll o'r newydd. 2 *Cor.*5.17.

Er creuloned a fo'th natur,
Er bychaned a fo'th ſynwyr;
Cred yng Nghriſt, a galw arno,
Fe all dy wella'r awr y mynno.

Er creuloned oedd y *Siaeler*,
Er bod Saul yn filain 'ſgeler,
A Manaſſes gwaeth nâ hwythau,
Fe wnaeth Criſt hwy'n ſaint o'r gorau.

Fe'th wna dithau, o bechadur
Oflyd, aflan, drwg dy natur,
Yn wir ſant, os credi ynddo,
A thynnu gras a grym oddiwrtho.

Fe wnaeth Criſt o hen erlidiwr, 1 *Tim*.1.12,13.
Saul yn ebrwydd yn bregethwr;
Ac o'r wreigyn ddrwg dros ben,
Y gigfran ddû yn g'lommen wen. *Luc* 7.39,50.

Cred yng Nghriſt â chalon gywir,
Fe wella Criſt dy naws a'th natur;
O fab i'r fall fe'th wna di'n Griſtion,
O elyn Duw yn blentyn graſlon.

Na thyb dy fod yn credu'n gywir,
Oni newid Criſt dy natur;
Y dyn a gretto yng Nghriſt yn ffyddlon,
Fe newid Criſt ei ddrwg arferion.

Cenfydd Saul, a chenfydd Zache',
Cenfydd Mari Magd'len hitheu;
Di gei weled Criſt yn *altro*
Buchedd pob dyn pan y cretto.

Er bod Saul fel blaidd y boreu, *Act*.9.1.
Cyn credu yng Nghriſt yn difa allai;
Fe wnaeth Criſt cyn canol dydd
Y blaidd yn oen pan trowd i'r ffydd.

Cyn i Zache' fyn'd yn Griſtion, *Luc* 19.
'Roedd e'n pilo pawb o'r tlodion:
Gwedi credu fe rodd Zache'
Ran i'r tlawd o'r maint a feddai.

Er i Fagd'len fyw'n rhyfygus,
Cyn credu yng Nghriſt, a phechu'n rhwyfus,
Fe fu Fagd'len, ar ol credu,
Fyw fel ſantes nes ei chladdu.

Felly ditheu a newidi,
Dy arferion ond it'gredu:
Nes newidiech dy arferion,
Nid yw'th ffydd ond ffanſi ffinion.

Ffydd heb weithred dda'n ei dilyn, *Iago* 2.
Sydd ffydd farw, ffydd heb eilun;
Ffydd i'th ddallu, ffydd i'th dwyllo,
Ffydd ſydd barod i'th gondemnio.

Ni bydd tân heb wres lle byddo,
Ni bydd dw'r heb wlybrwydd ynddo:
Ni bydd 'fallen dda heb 'falau,
Na bywiol ffydd heb dduwiol ffrwythau.

Os dywaid un ei fod e'n credu, *Ioan* 3.20.
Ac heb wella'i feiau er hynny,
Nid oes dim ffydd gan hwn, ond ffroſt;
Yn twyllo'i hun yn daran doſt.

Ni all dyn ſy'n credu'n ffyddlon,
Lai nâ gwella ei ddrwg arferion,
Waith bod Criſt yn rhoi lân Yſpryd, *Ioan* 7.39.
I'r pechadur wella ei fywyd.

Na ad dwyllo ddrwg-ddyn aflan,
Lle b'o ffydd mae buchedd burlan:
Os yw dy ffydd yn talu ei gweled, *Iago* 2.14.
Moes ei dangos wrth dy weithred.

Onid yw dy ffydd yn fywiol,
Yn dwyn gair a gweithred raſol;
Nid yw hon ond ffydd mewn enw,
Ffydd na ddichon byth dy gadw.

XV. *Cyngor i ochelyd cwmpeini drwg.*

Y Neb a fynno fyw yn ddeddfol,
Yn ol 'wyllys ei Dad nefol,
Cynta' peth ſydd raid ei wneuthur,
Tynnu o blith y drwg weithredwyr: *Diar.*1.10,15.

A rhoi fynu ddrwg gwmp'niaeth,
Yn dragywydd heb ddim hiraeth, *Sal.*26.4,5.
Megis Moeſen gwmp'ni'r Aiphtiaid, *Heb.*11.27.
Lot ac Abra'm y Caldeaid. *Gen.*12.1,4.

Fel y tâg y chwyn y gwenith,
Felly ſura fineg' lefrith;

Fel y nurdda pyg dy gadach,
Felly'th 'nafa ddrwg gyfeillach.

Gochel neidr rhag dy frathu,
Gochel blag rhag dy ddifethu;
Ac os ceri iechydwriaeth,
Gochel ddilyn drwg gwmp'niaeth.

Tyn o Sodom, dere allan,
Rhêd o blith y bobol aflan:
Gad oferwyr, cadw d'enaid,
Tyn o blith yr anffyddloniaid.

Tra fu Moefen gyd â'r Aiphtiaid,
Tra fu Abra'm gyd â'r Syriaid,
Ni 'mddangofai'r Argwydd iddynt,
Nes eu tynnu 'mhell oddiwrthynt.

Rho gwmp'niaeth plant y fall
Heibio'n ebrwydd od wyt gall,
Ni bydd cydfod rhwng Duw'r heddwch, 2 *Cor*.6.15.
A chyfeillion plant tywyllwch.

Gwedi'n dilyn brudd gyfeillach
Pobl dduwiol, ddoeth, ddi-anach,
Rhai a ddyfgant it' adnabod
Y gwir Dduw, a'i ofni'n waftod. *Diar*.13.20.

Tra fu Saul ynghwmp'ni Samuel,
Fe aeth Saul yn fant o gythraul: 1 *Sam*.19.24.
Tra fu e'n dilyn pobl ddiffaith,
Fe aeth y fant yn gythraul eilwaith.

Dilyn prophwyd, fe'th oleua,
Dilyn athro, fe'th gyf'rwydda;
Dilyn fant, fe'th wna di'n fanctaidd,
Dilyn ffol, ti ddeui'n ffiaidd.

Gwedi'n canlyn ar dy liniau,
Ar Dduw ddangos it' ei lwybrau, *Sal*.25.4.
A'th lwyr droi yn dra awyddus,
O bob llwybyr traws twyllodrus.

Nes goleuo Duw dy lygaid,
Nes dadfywio Crift dy enaid, *Eph*.5.8.
Ni chanfyddi ffordd y bywyd
Mwy nâ'r dall yr haul-wen hyfryd.

Cymmer lantern Duw'n dy law,
I'th oleuo yma a thraw:
Nid aiff neb i dir y bywyd,
Heb oleuni'r 'fgrythur hyfryd.

Gwna'r peth archo'r 'Fengyl i ti,
Paid â phob peth na bo'i'n erchi: *Iago* 1.22.
Hi'th gyf'rwydda fyn'd o'r diwedd,
I gael bywyd a thrugaredd.

Gwedi'n gochel yn yftyriol,
Rhag byw'n ol dy 'wyllys gnawdol; *Rhuf.* 8.13.
Nac wrth fodd dy galon gynnil,
Ond yn ol goleuni'r 'Fengyl.

Ac os ceifi gael derchafiaeth,
Gras, a dawn, ac iechydwriaeth;
Dewis, dilyn, cerdd heb golli *Sal.* 128.1.
Y ffordd a ddyfgo'r Arglwydd i ti.

Hi fydd cyfyng ar y dechreu,
A gwrth'nebus i'th drachwantau; *Mat.* 7.13.
Ar y diwedd hi fydd efmwyth,
I'th ddwyn at Grift yn dra difymwyth. *Mat.* 11.30.

Ffordd i ddiftryw fydd yn waftad,
Ac yn efmwyth ei dechreuad;
Ond yn niwedd ffordd annuwiol *Diar.* 13.12.
Y mae'r pwll a'r ffos uffernol.

Gwedi dechreu'r ffordd trwy rinwedd,
Prawf ei dilyn hyd y diwedd; *Deut.* 5.32.
Ac na chytgam droi oddi arni,
Nes dy ddwyn i wlad goleuni.

Nid wyt nes, er dechreu'r fiwrneu,
A throi gwedi'n at dy feiau;
Nid oes 'ddewid gael y goron,
Heb barhau hyd angeu'n ffyddlon. *Dat.* 2.10.

Fe ddechreuodd Saul a Suddas
Fyn'd tu a'r nef ar drot fel Demas; 2 *Tim.* 4.10.
Waith diffygio cyn diweddu,
Fe aeth y tri i'r poeth garchar-dŷ.

Dilyn Grift ar air a gweithred, *Eph.* 5.1,2.
Troedia'r ffordd a fu e'n gerdded;
Gwna'r peth archodd yn y 'fgrythur,
Ni throi droedfedd dros y llwybyr.

## XVI. *Galarnad pechadur.*

O Arglwydd, Tad diddanwch,
Clyw gwynfan a 'difeirwch
Hen bechadur gwael ei gâs,
Sy'n deifyf gras a heddwch.

Mi'th ddigiais di mor greulon,
Fy Nhad am Harglwydd tirion,
Fel na baidd fy nghalon drom
Droi attat o'm goiygon.

Gan hynny â'm pen i'r ddaear, *Luc* 18.13.
Fel Publican edifar,
Yr wyf, dy annuwiolaf was,
Yn crio am ras a ffafar.

A'th ffafar wy'n ei ofyn,
Er mwyn fy Mhrynwr bur-wyn,
A fu drofwyf ar y groes,
Yn goddef loes efgymmun.

Ac oni chaf fi bardwn,
Er mwyn ei loes a'i * *baffiwn*; * *Dioddefaint.*
Fe orfydd arnaf fyn'd yn boft
I uffern doft a'i dwnfiwn.

O Arglwydd, er yn blentyn
'Rwy'n pechu'n doft i'th erbyn,
Heb wneuthur pris o'th gyfraith gaeth,
Ond byw yn waeth nag un-dyn.

Dy enw mawr a geblais,
Dy 'fgrythur a ddirmygais;
A'th Efengyl gywir iach,
Fel chweddel gwrach y prifiais.

Y gwerthfawr waed a gollaift
O'th galon pan y'm prynaift,
Wy'n ei dyngu ddydd a nos,
Heb brifio'r loes a gefaift.

Dy Sabbath a'th ddydd fanctaidd,
A dreuliais innau'n ffiaidd,
Mewn cyfeddach, meddwdod brwnt,
A mafwedd tu hwnt i weddaidd.

Pan fo pawb ar eu gliniau,
I'th foli nos a boreu,

Mewn rhyw dwll yn chwarae'r cnaf,
Och! och! y byddaf finneu.
  Er bod dy air mor felus *Sal.* 19. 10
A'r mel i'r enaid iachus,
Chwerwach oedd gen' inneu'i flas,
Nâ'r wermod cas gwrth'nebus.
  Godineb a phutteindra,
Fel un o blant Gomorra,
Fum i yn eu dilyn cy'd,
Nes myn'd o'r byd gan mwya'.
  Ei hyfed a'i charowſio,
A ſugno tarth tobacco,
Fu fy ſwydd tros ennyd fawr,
Gwae finneu'n awr ei gofio!
  Fy ieuengctid mewn oferedd,
Rhwyf, rhyfyg, ceccran, coegedd,
A lwyr-dreuliais gyd â mam,
Heb feddwl am fy niwedd.
  Yr awron ar fy niwedd,
Ni welai'n well fy muchedd,
Nâ'r pryd gwaetha 'rioed o'r blaen,
Os d'wedai'r *plaen* wirionedd.
  Gan hynny 'rwy'n rhyfeddu,
Pa fodd yr wyt ti'n gallu
Godde' cy'd fy mhechod taer,
Heb beri'r ddae'r fy llyngcu.
  Och! nid oes fawr o feiau,
O frynti a chamweddau,
Nad wyf ynddynt lawer pryd,
Gwae finneu, hyd y cluſtiau.
  Oni b'ai fod dy natur,
Yn raſol tu hwnt i feſur,
Yn uffern gou, cyn hyn yn rhoſt,
Y bu'ſai'n doſt fy nghyſur.
  O Arglwydd, 'rwy'n cyfadde',
Im' haeddu er ys dyddiau,
Fy nhorri'n *gwit* o blith y byw,
Waith cymmaint yw fy meiau.
  Oni b'ai fod dy Fawredd,
Yn raſol tu hwnt i ryfedd,

Gwan-obeithio'n *gwit* a wnawn,
Fel Cain, na chawn drugaredd.
Ond dyma ſ'ym comfforddi,
Pan byddw'i ymron ymdorri,
Fod trugaredd Duw a'i ras,
Yn fwy nâ'm cas ddrygioni.
Fy meiau ſydd cyn amled
A ſwnd y môr er maned,
Ond dy ras ſydd gan-mil mwy
Nâ'r môr ſy'n hwy'n amgyffred.
Gan hynny 'rwy'n gobeithio,
Lle cafas pechod *raino*,
Y caiff dy rwydd a'th nefol ras,
Ar bechod cas gongcwero.
Di fuoſt Dduw trugarog
I bechaduriaid enwog,
Na fydd waeth i minneu am ras,
Bechadur cas anffodiog.
Pan drodd y Ninifeaid
Oddiwrth eu beiau afrifaid ;
Er cymmaint oedd eu pechod cas,
Hwy gawſant ras eu llonaid.
Er cynddrwg oedd Manaſſes,
Y gwaetha' erioed a glywais ;
Fe g'as gennyt bardwn mwyn,
Yn ol ei gŵyn a'i gyffes.
A Dafydd brophwyd ynte',
Er amled oedd ei feiau,
Pan y llefodd am dy ras,
Yn rhwydd fe g'as eu maddau.
Fe gafodd Mari Magd'len, *Luc* 7.37.
Yn ol hir chwarae'r buttain,
Wrth wylo'n hallt y dagrau dw'r,
Dy ras a'th ffafwr lawen.
Pan trodd y Mab afradus, *Luc* 15.
Tu ag attat yn ei un-crys,
Fe ga'dd gwedi chwarae'r ffol,
Dy ras yn ol ei 'wyllys.
A minneu ſy'n gobeithio,
Er i mi'n doſt dy ddigio,

Y caf, er mwyn fy Mhrynwr gwar,
Dy ras a'th ffafar etto.

A'th ffafar wy'n ei segian
Yn daer, yn dost, yn druan,
Er mwyn Iesu nos a dydd,
A'r dagrau o'm grudd yn dropian.

O! cofia, Arglwydd cyfion,
I Grist fy Mhrynwr tirion,
Offrwm drosw'i yn * sarhad, * *Iawn*
Ar grogpren waed ei galon.

A chofia iddo dalu
Dros f'enaid i'r pryd hynny,
Y cur, a'r poen, a'r angeu, a'r bri,
Ag oeddwn i yn haeddu.

O moes gan hynny bardwn,
Er mwyn ei loes a'i || *bassiwn*, || *Dioddefaint*
Ac er ei gur a'i waedlyd chwys,
Na chais ail § *satisfacsiwn*. § *Boddlondeb*

Ond maddeu'n rasol i mi,
Fy meiau oll a'm brynti;
A golch yn llwyr fy mhen a'm traed,
Yng werthfawr waed ei † weli. † *Archollion*

Er bod fy mai cyn goched
A'r pwrpwl coch neu'r 'scarled, *Esa*.1.18
Un tropyn bach o'i waed er hyn, *Dat*.1.5
A'm gwna mor wyn a'r foled.

Gan hynny mae fy hyder
Ar Grist, ei waed, a'i fwynder,
Y caf gennyt yn ddinag,
Drugaredd ac esmwythder.

A dwyn at Grist yn gymmwys
Fy enaid i baradwys,
I gael rhan ymhlith dy saint,
O'r nef, a'r maint a brynwys.

I'r hon o'th ras a'th fawredd,
Duw dwg ni oll o'r diwedd,
I'th foliannu byth bob awr,
Am dan dy fawr drugaredd.

I'r Tad, i'r Mab, i'r Yspryd,
I'r Drindod, Undod hyfryd,

Y bo clod a moliant mawr,
Bob dydd, bob awr, bob ennyd. *Amen.*

XVII. *Cynghorion duwiol.*

FY anwyl blentyn, dere nes,
Gwrando gyngor er dy les,
Prawf ei ddilyn tra f'ech byw,
Os ceisi fyn'd i deyrnas Dduw.
Ofna Dduw tra bywyd ynod,
Parcha'i enw mawr yn waſtod;
Galw arno â'th holl galon, *Jer.*29.13.
Gwrando ei air, a chadw ei orch'mynion.
Cymmer air Duw yn waſtadol,
Yn gynghorwr ac yn rheol,
I reoli dy holl fywyd,
Ymhob gorchwyl a fo gennyd.
Dyna'r lantern a'th oleua,
Dyna'r athro a'th gyf'rwydda,
I ochelyd pob drygioni,
Ac i'th ddwyn at Dad goleuni.
Gochel wneuthur mawr na bychan,
Yn ol d'wyllys ffol dy hunan;
Y mae pechod gwedi llygru,
Nes cael gras i'w hadnewyddu.
Prawf gan hynny ffrwyno * *ffanſi*, * *Dy dyb.*
Ffiaidd ganddo bob daioni,
Nes del gair Duw i'th gyf'rwyddo, *Rhuf.*8.7.
Pob peth drwg ſydd felus gantho. *Tit.*3.3.
Gochel bechod er bychaned,
Colyn ſarph ſydd dan ei ſiacced:
Pleſer byr a bair hir alaeth;
Cyflog pechod yw marwolaeth.
Os ca'dd Adda gymmaint dial,
Am fwytta tammaid bach o afal,
Duw, pa faint a fydd dialau
'R ſawl ſy'n byw ar gyfryw 'ſalau.
Os bu ſiawns it' bechu unwaith,
Gochel byth rhag pechu'r eilwaith;
Nid oes iawn am bechod bychan,
Ond gwaed calon Criſt ei hunan.

Tro 'ddiwrth bechod, na ddymchwela,
Cas yw'r ci a fwytto'i chwydfa;
Ail yw hwn i'r mochyn diffaith,
El o'r dw'r i'r dommen eilwaith.

Os dehorwyd Moefen fwynlan, *Deut.* 1.37
Am un pechod fyn'd i Ganaan;
B'wedd na rwyftrir pobl ddiffaith,
Fyn'd i'r nef am bechu ganwaith?

Cafa falchder megis neidir, *Diar.* 16.18
Ymdderchafo, fe oftyngir:
Yn ol balchder y daw codwm,
Balch ei droed a drip i'r cawdrwm. 1 *Tim.* 3.6

Os taflodd Duw yr angel pennaf, 2 *Pedr* 2.4
Am ei falchder i'r pwll ifaf,
I b'le teflir llwch a lludw,
A falchio'n waeth nâ hwnnw?

Byth na chwennych wely arall,
'Rhwn a'i gwnel nid yw ond angall:
Y neb a fango ar y poeth-dân, *Diar.* 6.28,29
Nid oes lun na lofgo'i waddan.

Os ca's Pharao blag mor greulon,
Am chwennych Sara yn ei galon; *Gen.* 12.17.
Pa fath blag a dial caled,
Gaiff y fawl a wnelo'r weithred?

Gochel dyngu dim ond Ie, *Mat.* 5.37.
O'r diawl y daeth yr ofer lwe;
Melldith Duw fel mwg a leinw *Zec.* 5.3,4.
Y tŷ lle ceblir Duw a'i enw.

Os lladdwyd Senach'rib y § pagan, § *Y digred.*
Am gablu Duw o led ei fafan; *Efa.* 37.38.
Pa wedd y diangc y crift'nogion,
A gablo Grift a gwaed ei galon?

Er dy fywyd parcha'r Sul, *Efa.* 37.38.
Dere i'r eglwys, gwrando, gwyl, *Ecf.* 31.14.
Galw ar Dduw, a gad y potian,
Na wna'r Sul yn ŵyl i fatan.

Os pwyodd Duw â'r fath ddihenydd
Y dyn ddydd Sul am gafglu briwydd; *Num.* 15.35,36.
B'wedd y pwya bedwar afgwrn
'Run dreulio'r Sul yn waeth nâ'r Sadwrn?

Na chamattal ddim o'th ddegwm,
Na ddarnguddia ddim o'th offrwm;
'Rwyt ti'n 'fpeilio Duw'r dialau,
Wrth ddarnguddio dy ddegymau.

Melldigedig ymhob rhyw, *Mal.*3.8—12.
Ydyw'r dyn a 'fpeilio Dduw:
‡ *Stoppi*'r nef, a'r ddae'r, a'r llafur, ‡ *Cauad.*
Y mae pawb o'r camddegymwyr.

Cafa feddwdod yn dy fywyd,
Nid â i'r nef un meddw chwydlyd; 1 *Cor.*6.10.
Uffern boeth fy'n lledu fafan, *Efa.*5.11,14.
Am gael llyngcu'r meddw aflan.

Os daeth Efau mor ddannodus,
Am werthu'i fraint am ‖ *fes* o *bottus*; ‖ *Phiolaid o gawl.*
Pa ddannodiaeth ddaw i'r meddw,
Wertho'r nef am *bot* o gwrw? *Gen.*25.30.

Na fydd gybydd, na fyn occor, *Deut.*23.19.
Crift i'r hael yw'r cybydd angor;
A gafglo'r tad trwy ei gybydd-dra, *Diar.*28.8.
Mab afradus a'u gwaftraffa.

Haws i gamel fyn'd yn fuan, *Luc* 18.25.
Yma a thraw trwy'r nodwydd fechan,
Nag i'r cybydd anhrugarog,
Fyn'd i mewn i'r nef oreurog,

Gochel dreifio neb o'r tlodion, *Diar.*22.22,23.
Crift ei hun yw'r Uftus cyfion;
A dreifio'r tlawd fe big llygad
Crift ei hun y cadarn Geidwad.

Ahab frenin am ddwyn gwinllan, 1 *Bren.*21.
Naboth ei gymmydog truan,
A ga'dd golli ei frenhiniaeth, 2 *Bren.*10.7,11.
Lladd ei blant a'i holl genhedlaeth.

Os daeth Deifes dan law fatan,
Am ballu i'r tlawd o'i dda ei hunan;
I ba law ddiawl yr â'r gwyr mawrion,
Sy'n dwyn y maint fy'n helw'r tlodion.

Gochel ladrad, gochel dwyllo,
Ni ddaw ennill byth oddi wrtho: *Zec.*5.2,3,4.
Lle bo lladrad y bydd aflwydd,
Dial Duw a dyfal dramgwydd.

Os lladdodd Duw holl dylwyth Achan,
Am grach-guddio lladrad bychan, *Jos.* 7.24,25.
Oni ddial Duw ar ladron,
Sy'n dwyn y saint sy'n helw'r tlodion?

Gochel gadw cam-fesurau
Yn dy dŷ, nac amryw bwysau; *Mica* 6.10,11.
Ffiaidd cas yw'r dafol anwir,
Ger bron Duw, a'r pwys anghywir.

Maint ennillo dyn trwy ffalstedd,
Ar y dafol o anwiredd,
Bob ychydig mae e'n gosod,
Yn y cwd a'r pwrs heb waelod. *Hag.* 1.6.

Byth na chytgam dderbyn gwabar,
Honno lwngc sy'th helw o heinar;
Ni ad gwabar ben na chynffon
Byth yn helw'r plant a'r wŷrion.

Y claf gwan a ga's Gehezi, 2 *Bren.* 5.27.
Gyd â gwabar mewn ‡ bwdgedi; ‡ *Côd.*
Am y wabar y mae'n rhigyl,
Yr † andwya hi'r plant a'r eppil. † *dinystria.*

Gochel gelwydd tr'ech ar dir,
Er dy fywyd dywed wir;
Y cythraul brwnt a'r wiber las, *Ioan* 8.44.
Yw tad a mam y celwydd cas.

Os bu farw Ananias *Act.* 5.5,10.
|| Sioc am dd'wedyd celwydd atgas, || *Yn ebrwydd.*
A'i wraig hefyd, wrth farn Duw,
Casawn gelwydd tra f'om byw.

Na lysenwa neb er nam,
Y dwl, na'r dall, na'r cloff, na'r cam;
Duw wnaeth ddyn, a'i lun, a'i liw;
A gablo ddyn, fe gabla Dduw.

Os barna Crist i'r ffwrnes danllyd *Mat.* 5.25.
Y neb a alwo ei frawd yn ynfyd;
I b'le barna'r neb sy'n galw
Ei dad a'i fam ar gant llysenw?

Na thâl ddrwg dros ddrwg i un-dyn, 1 *Thes.* 5.15.
Os mynni fod i Dduw yn blentyn,
Helpa, swcra dy elynion, *Rhuf.* 12.20.
Na wna gam ag unrhyw gristion.

Pa ragoriaeth ſydd rhwng Criſtion, *Mat.*5.46.
A'r un gwaetha' o'r Iuddewon?
Os â i dalu drwg dros ddrwg,
Dant am ddant a gwg am wg.

Gochel wneuthur drwg ar hyder
Cael trugaredd pan y'th ſarner:
Felly cei di farn anffafrol,
Fyn'd dros fyth i'r tân trag'wyddol. *Deut.*29.19,20.

Os gorfydd atteb pan ein barner,
Ger bron Duw am bob gair ofer; *Mat.*12.36.
B'wedd attebwn, gwae fy nghalon!
Am ein drwg a'n cas fargenion?

Na cham-arfer un o'r doniau
Ro'es dy nefawl Dad i titheu,
Fe ddaw dydd y gorfydd rhoddi,
Am bob talent *gownt* a chyfri'. *Mat.*25.19,30.

Os taflodd Criſt i'r t'wyllwch eitha'
Y dyn a'i dalent eiſiau ei helwa;
I b'le teſlir ‖ drimbwl drambwl, ‖ *Bendramwnwgl.*
Y gwas a dreulio'r ſtoc a'r cwbwl.

Bydd di barod, heddyw, heno, *Mat.*25.13.
Ag *oil* i'th lamp, a'th wiſg yn gy'rdro,
Fyn'd o flaen dy Farnwr prudd,
Y foru o boſib' ydyw'r dydd.

Os caeodd Criſt y porth mor ebrwydd,
I'r ſawl ymron oedd mewn parodrwydd; *Mat.*25.10.
B'wedd y cânt hwy borth agored,
Sy heb ymg'weirio er pan ganed?

Bwrw heibio bob pibiaeth,
Meddwl am dy iachawdwriaeth:
Fe orfydd **paccio* bawb oddi yma, * *Myned.*
Naill ai'r nef, ai'r t'wyllwch eitha'.

Os n'air i'r nef heb ymwthio, *Luc* 13.24.
Ac ymdrechu â thraed a dwylo;
B'wedd y †*ſpidia*'r neb ſy'n credu, † *Ymdery.*
'Rant i'r nef wrth chwarae a chyſgu?

Cyn cael cynglwyſt rhaid ymdrechu, 1 *Cor.*9.14.
Cyn cael cyflog rhaid gwas'naethu, 2 *Tim.*2.5.
Cyn cael nefoedd mae'n rhaid byw
Yma yn gynta' wrth 'wyllys Duw.

Ni ry Crist i neb mo'i goron, *Dat.*2.10. *a* 3.13.
Ond ymladdo â'i elynion:
Ni ry i neb o'r geiniog fechan, *Mat.*20.8.
Ond a weithio dro'n y winllan.

Ni thal d'wedyd, Arglwydd, Arglwydd, *Mat.*7.21.
Ni cheir nef am eiriau maswydd:
Yn grist'nogaidd f'orfydd byw,
Cyn 'tifedder teyrnas Dduw.

O herwydd hyn, 'rwy'n cynghori
Pawb a garo'r nef o ddifri',
Fyw'n grist'nogaidd ac yn bur,
Felly cânt hwy'r nef yn wir.

Os daw gofyn pwy a'u cânt,
Bugail § chwerw, mawr ei chwant, § *Trist.*
Rwystro'r defaid ymhob twll,
Ar eu pennau fyn'd i'r pwll.

## XVIII. *Cyngor i wr ieuangc.*

F'Anwyl blentyn ce's dy lythyr,
Serchog, sanctaidd, llawn o synwyr,
Sy'n dymuno cyngor ffyddlon
I'th gyf'rwyddo fyw fel cristion.

Argoel gras yw'th wel'd cyn i'anged,
Mor fawr dy chwant, mor brudd dy syched,
I 'nabod Duw, i ddysgu'r 'sgrythur,
I ddofi'r cnawd a nwyfiant natur.

I gyflawni dy ddymuniad,
Derbyn hyn o gyngor difrad,
I gyf'rwyddo dy holl fuchedd,
O'th faboliaeth hyd dy ddiwedd.

Yn dy ie'ngctid, f'enaid cofia, *Preg.*12.1.
Wir was'naethu Duw gorucha',
Ac addoli dy Greawdwr,
Cyn i wendid waethu'th gyflwr.

Dechreu ddysgu tr'ech yn blentyn
'Nabod Duw a'th Brynwr pur-wyn;
Hoffi'i air a'chadw ei gyfraith,
Hynny'th wna yn hen-wr perffaith. *Diar.*22.6.

Tempra'th lestr tra fo'n newydd,
A'r gwin gwyn o dduwiol grefydd;

Fe arogla hyd dy ddiwedd,
A gwynt peraidd dy lân fuchedd.
Planna'n gynnar yn dy galon
Had pob gras a'th wnel yn griſtion,
Rhag i'r gelyn blannu'r efrau,
Eiſiau'i hau â had rhinweddau.
Cais flodeuo yn dra chynnar,
Gyd â'r *ſpring* fel *almond* hygar:
Y pren na ddycco flodau'r gwanwyn,
Trwy'r cynhauaf fe fydd difwyn.
Mae Duw'n gofyn gan ei dylwyth, *Ecſ.*22.29.
O flaen pob peth gael y blaen-ffrwyth;
Ac ni fyn y Duw goruchaf
Gan ei blant na'r ail na'r olaf.
Rho gan hynny flaen dy gryfdwr,
I was'naethu dy Greawdwr;
Ac na ddyro tr'ech yn blentyn,
Flaen-ffrwyth d'oes i was'naethu'r gelyn.
Drwg it' roddi'r gwin i ſatan,
A rhoi i Griſt y gwaddod aflan:
Rhoi dy nerth i foddio'r dryg-wr,
A rhoi'th wendid i'th Greawdwr.
Melldigedig yw'r dyn ynfyd,
A ro i'r gelyn rym ei fywyd;
Ac na roddo i'w Brynwr diddig,
Ond yr henaint gwan methedig.
Gochel arfer ddrwg yn blentyn;
Arfer ddrwg a'th nurdda'n 'ſgymmun,
Ac a dry yn ail naturiaeth,
Nes yr elech beunydd waeth-waeth.
Os arferi bechu'n blentyn,
A dibriſio Duw yn llengcyn:
Yn hen nid haws it' wella hyn, *Jer.*13.23.
Nag i'r || *Morys* fyn'd yn wyn. || *Dynion duon.*
Rho gan hynny gorph ac yſpryd
Yn dy ie'ngctid yn dra hyfryd,
I was'naethu dy Greawdwr,
Ac i ymladd â'th wrth'nebwr.
Megis Daniel tr'ech yn llengcyn, *Dan.* 1.
Gwrthod win a chwrw melyn,

Ac na ro dy fryd ar foethau,
Ond ar 'nabod Duw a'i ddeddfau.

Dyfg fel Samuel tr'ech yn fachgen, 1 *Sam*.3.
Sefyll o flaen Duw yn llawen,
Ac ymwrando o air y bywyd
Beth a dd'wetto'r Arglwydd wrthyd.

Fel Jofia, yn llangc bychan, 2 *Bren*.22.1,2.
Rhodia'n union o ŵyth allan;
A rho'th fryd ar gadw'r gyfraith,
Ofni Duw, a byw yn berffaith.

Dyfg y 'fgrythur lân o'th febyd, 2 *Tim*.3.15.
Megis Timoth' yn dra *pharffid*;
Honno'th wna di'n ddoeth anianol,
Yn grift'nogaidd ac yn dduwiol.

Dos fel Crift bob Sul i'r eglwys, *Luc* 4.16.
Gyd â'th dad a'th fam a'th fagwys;
Ac o ddeuddeg oedran, f'enaid, *Luc* 2.42.
Dechreu ymddiddan â'r doctoriaid.

Gwrando'r 'fengyl, gwrando'r gyfraith,
Dyfg bob un o'r ddau yn berffaith:
A chais fyw yn gynnil cynnil,
Yn ol cyfraith Duw a'i 'fengyl.

Mewn tywyllwch 'rwyt ti'n rhodio,
Cymmer lantern Duw'th oleuo;
Heb oleuni'r 'fgrythur hyfryd
Nid air byth i dir y bywyd.

Er bod Duw'n y nefoedd ucha',
Mae yn ei air â thi'n chwedleua,
Ac yn dangos ei holl 'wyllys
Yn y 'fgrythur i ti'n hyfpys.

Edrych ditheu yn y 'fgrythur,
Beth a fyn dy Dduw it' wneuthur;
Gwna beth bynnag fo'n orchymyn,
Ac na *fedla* fo e'n w'rafun.

Gochel dorri'r pyngciau lleiaf, *Rhuf*.6.23.
O holl gyfraith Duw goruchaf; *Deut*.28.15.
Y mae'r lleia'n haeddu angeu, *Ezec*.18.4.
Melldith Duw, a didrangc boenau.

Fe fyn Duw, y Barnwr cyfion,
Am bob pechod a wnel dynion,

Naill ai angeu'r dyn a becho,
Neu angeu Crist yn daliad drosto.
A lle pechaist fil o weithiau,
Yn erbyn Duw, nes haeddu angeu,
Edifara am bob pechod, *Act*.3.19.
A chais bardwn gan y Drindod.
Adde'th bechod ger bron Duw, *Diar*.28.13.
Fawr a bychan, o bob rhyw:
A 'mosidia am dy wegi,
Nes maddeuo'r Arglwydd i ti.
Edifara am dy wendid,
A'th holl nwyfiant yn dy ie'ngctid:
Oni wyli'r dw'r yn heli, *Luc* 13.3.
Duw a'th farna am y rhei'ny.
Ni cha'dd Ephraim nes c'wilyddio, *Jer*.31.19,20.
Ni cha'dd Dafydd nes och'neidio,
Faddeu nwyfiant ie'ngctid iddyn', *Sal*.32.5.
Ni's cei ditheu nes eu canlyn.
Gochel oedi hyd y foru,
Rhag it' farw heno wrth gysgu,
Ac i'r angeu glas dy lusgo
I farn yn llangc cyn ymgyweirio.
Mae yn uffern fil o filoedd,
O wyr ieuaingc a fwriadodd
Yn eu henaint brudd 'difaru,
Heb gael arfod wneuthur felly.
Edifara 'nawr gan hynny,
Ni wyddys pwy a fydd y foru;
Cymmer barchell tra cynnyccer,
Rhag na's caffech pan y ceisier.
Ac lle'r wyt ti'n pechu beunydd,
Edifara bob diwedd-dydd;
Rhag i'r dw'r sy'n suo'n 'sceler,
Eisiau ei ‖ *blwmpo*, soddi'r llester. ‖ *Ddisbyddu.*
Gwedi gwir 'difaru unwaith,
Gochel nurddo'th draed yr ailwaith;
Na thro gyd â'r hwch i'r dommen, 2 *Pedr* 2.22.
A'r ci i fwytta ei chwyd drachefen. *Eph*.4.22--24.
Ond cais ddilyn buchedd newydd 1 *Pedr* 1.14,15;18.
Trwy sancteiddrwydd a gwir grefydd, G 3

A chall-dreulio'th einioes fechan,
Mewn duwioldeb prudd ac ofan.

Dod dafg arnat nos a boreu
Foli Duw ar ben dy liniau:
Na'd i ddiwrnod fyned drofod *Sal.* 55.17.
Heb addoli'r fanctaidd Ddrindod.

Ac i'th helpu fyn'd yn dduwiol,
I orchfygu nwyfiant cnawdol,
Cymmer gyfraith Duw i'th ddyfgu, *Sal.* 19.7,8.
A'i lân Yfpryd i'th gyfnerthu. *Rhuf.* 8.26.

Cyfraith Duw fydd daran rymmus
I droi'r enaid cyfeiliornus, *Sal.* 19.7.
Ac i roddi dyfg a deall
I'r rhai ieuaingc, annoeth, angall. *Sal.* 119.9.

Gwna beth archo'r gyfraith i ti,
Gwrando'r cyngor a fo'n roddi:
Os dilyni'r gyfraith gyfion,
Hi'th wna di'n ddoethach nâ'th athrawon. *Sal.* 119.99.

Cadw afael ficr ynddi,
Plyg dy war, ymoftwng iddi:
Hi rydd ras, a pharch, a phwer:
O'i chadw hi mae gwobr lawer. *Sal.* 19.11.

Os arferi fyw yn berffaith,
'Nawr yn llangc yn ol y gyfraith,
Fe fydd hawdd trwy fawr lawenydd
It' fyw'n fanctaidd yn dragywydd.

Anrhydedda Dduw dy dadau,
Duw a'th anrhydedda dithau:
Os dirmygi ei was'naethu, 1 *Sam.* 2.30.
Fe ddirmyga dy ddiwallu.

Os gwas'naethu Dduw yn blentyn,
Duw'th wás'naetha ditheu'n hen-ddyn;
Ac a bair i'r brain dy borthi 1 *Bren.* 17.16.
Cyn bo arnat fawr galedi.

Ni'th ddanfonwyd i'r byd yma,
I was'naethu'r byd a'r bola;
Ond i was'naethu Duw yn weddaidd, *Efa.* 43.7.
Fel y gwna'r angylion fanctaidd.

Pan y codech gynta' o'th wely,
Cofia Dduw, cwymp i'w was'naethu;

Ac na ddos o'th 'ftafell allan,
Nes 'i addoli â pharch ac ofan.
Er maint a fo dy achofion,
A'th glamwri a'th orchwylion;
Na ddod law ar un o'r rheittaf,
Nes addoli Duw yn gyntaf.
Ni bydd llwyddiant, ni bydd llonydd,
Ni bydd comffordd, na llawenydd, *Jer.*10.25.
Lle bo trafferth o bob rhyw,
Heb ddim pris am foli Duw.
Er bod *bufnes* fawr gan Daniel, *Dan.*6.10.
Yn y cwrt dan frenin Babel,
Tair gwaith beunydd y gweddiai,
Yn ei 'ftafell ar ei liniau.
Cyn yr elych o'r drws allan,
At un gorchwyl fawr na bychan,
Cais gan Dduw dy brudd fendithio,
A rhoi rhad ar waith dy ddwylo.
Fel y llwyddodd Duw orchwylion
Jofeph gynt a Daniel dirion; *Gen.*39.3.
Felly llwydda d'orchwyl ditheu, *Dan.*6.3.
Os gweddii arno'n ddieu.
P'le bynna' b'ech, beth bynna' wnelech,
Ai da, ai drwg, y man y mynnech,
Duw 'mhob man fy'n difgwyl arnad, *Sal.*139.7.
Gochel bechu yngwydd ei lygad.
Gwna i eraill bob daioni,
A ddymunid wneuthur i ti, *Mat.*7.12.
Na ro i arall waeth mefurau,
Nag a fynnit roi i tithau.
Na wna orchwyl er dy gyffro,
Na bo Duw yn warant iddo,
Ac na allech yn ddiwawd,
Gyfri' am dano yn nydd brawd.
Gwna'r Duw byw yn wir Dduw i ti,
Ac yn garcus cais ei 'ddoli;
Galw arno, a molianna,
Felly'n waftad fe'th ddiwalla. *Sal.*34.10.
Gochel gym'ryd ar un amfer,
Enw'r Arglwydd mawr yn ofer; G 4

Can's nid gwirion gantho hwnnw,
Gam-arfero ei ſanctaidd enw.

Treulia'r Sabbath oll yn llwyr,
Mewn ſancteiddrwydd fore a hwyr,
Ac na ddyro ran na chyfran,
O ddydd Duw i foddio ſatan.

Anrhydedda dy rieni,
Parcha, llonna, ſwccra rhei'ny;
Felly'r eſtyn Duw dy ddyddiau,
Ac y parcha d'eppil dithau.

Gochel gytgam digalonni, *Diar.*16.18.
Na rhoi ammarch i'th rieni;
Odid gweled diwedd dedwydd,
I ferch falch neu fab anufudd. *Diar.*30.17.

Gochel rhag godineb ffiaidd, 1*Theſ.*4.3,4.
Cadw'th gorph yn lleſtr ſanctaidd;
Ac na wna, er golud Rhufain,
Aelod Criſt yn aelod puttain. 1*Cor.*6.15.

Gorwedd gyd â'th wraig dy hun,
Na chais arall wrth dy wŷn,
Ac na chytgam wneuthur temel, 1*Cor.*6.19.
Yſpryd Duw, yn wâl i'r cythraul.

Er mwyn Ieſu gochel fedd'dod, *Eſa.*28.1,7,8.
Gwaeth yw hwn nag unrhyw bechod,
Mae'n troi dyn i gyflwr cythraul, *Diar.*23.22,&c.
Ugain gwaeth nag un anifail.

Car â'th galon bob rhyw ddyn, *Mat.*22.39.
Fel y carech di dy hun;
Ac na wna i un dyn niwed,
Ar air, meddwl, nac ar weithred.

Gwna i bob dyn oreu ag allech, *Gal.*6.10.
Gwna yn ffyddlon 'rhyn a wnelech;
Ond na chytgam er mwyn un-dyn,
Wneuthur dim a fo Duw'n w'rafun.

Gad i gyfraith Duw'th reoli,
Ymhob gorchwyl a fo i ti; *Deut.*5.32.
Nid oes unrhyw orchwyl perffaith,
Ond yr un ſy'n ol y gyfraith.

Cofia, f'enaid, nad oes gennyd
Ddydd ſertennol ar dy ſywyd:

Treulia bob dydd mor ddigamwedd,
A phe b'ai ef ddydd dy ddiwedd.
Cofia'r nos dy waith y dydd,
Lle gwnaethoſt gam, gwna iawn yn brudd;
Os digiaiſt Dduw, cais bardwn gantho,
Os cefaiſt ras, rho foliant iddo.

## XIX. *Cyngor i waſanaethu Duw.*

Y Sawl a fynno gael eſmwythder,
Llwyddiant, heddwch, cyfoeth, cryfder,
Parch a ffyniant, tra font byw,
Cwympent i was'naethu Duw.
Y neb a fynno ddiangc hefyd,
Rhag trallodion toſt ac adfyd, *Sal.*34.10.
Nychdod, niwed, anhap, aflwydd, 1*Tim.*4.8.
Cwympent i was'naethu'r Arglwydd.
Dyled pob dyn tra fo byw,
Ydyw prudd was'naethu Duw,
Trwy lwyr-gadw ei orch'mynion,
Ar bob pryd o 'wyllys calon.
Rheitta' gorchwyl, penna' gweithred,
Mwya' ei ennill, goreu ei † wargred, † *Gweddill.*
Sicra ei wobr tra dyn byw.
Ydyw prudd was'naethu Duw.
Dyna'r unig waith a bwyntiwyd
I bawb wneuthur pan ein crewyd;
Dyna'r gwaith y gorfydd cyfri'
Doſta am dano ddydd ein ‖ didri. ‖ *Cyfyngder.*

## XX. *Beth yw gwaſanaethu Duw.*

GWrando'r gair a chadw'r gyfraith, *Iago* 1.22.
Credu'r 'fengyl yn ddiragraith, *Deut.*10.12,13.
Byw yn ol ei gwir oleuni,
Yw gwas'naethu Duw o ddifri'.
Gwneuthur a fo Duw'n orchymyn,
Goch'lyd 'rhyn a fo e'n w'rafun,
Dilyn ei air tra f'om byw,
Ydyw gwir was'naethu Duw.
Dau ryw o waſanaeth ffyddlon,
A fyn Duw ar law pob criſtion,

Un trwy ffydd a chrefydd dduwiol,
Llall trwy foes a buchedd rasol.

Yn grefyddol rhaid ei was'naethu,
Trwy wir grefydd a'i foliannu
Yn gyhoeddus, ac yn ddirgel,
Yn y tŷ, ac yn y demel.

Yn yr eglwys yn gyhoeddus, *Luc* 4.16.
Ar bob Sabbath yn dra pharchus, *Lef*.23.3.
Gyd â'r dyrfa ar ein gliniau, *Act*.20.7.
Ag un galon ac un genau.

Ar ddydd gwaith mewn 'stafell ddirgel, *Mat*.6.6.
Gyd â'n tylwyth fel mewn temel, *Act*.10.30.
Foreu a hwyr wrth alw arno, *Deut*.6.7.
Gwrando ei air a'i wir fendithio. *Jos*.24.15.

Rhaid gwas'naethu Duw yn foesol,
Trwy lân fuchedd dra christ'nogol,
Ymhob man, ac ar bob achos,
Hyd yr awr ddiwedda' o'n heinioes.

Rhaid yw byw yn ddiesgeulus, *Deut*.5.32,33.
Yn ol cyfraith Duw a'i 'wyllys;
Nid yn ol ein *ffansi*'n hunain,
Os gwas'naethwn Dduw yn gywrain.

Rhaid yw dilyn buchedd ddeddfol,
Yn ol 'wyllys ein Tad nefol,
A rhyngu' fodd, tra f'om ni byw, *Luc* 1.74,75.
Os ceisiwn wir was'naethu Duw.

Y neb na was'naetho Dduw yn brudd,
Yn ol ei air, trwy fywiol ffydd, *Heb*.11.6.
Ni all hwnnw, gwnaed ei oreu,
Byth foddloni Duw â'i foesau.

Duw a fyn i bob rhyw gristion *Mat*.22.37.
Ei wasanaethu â'i holl galon,
A'i holl enaid, a'i holl feddwl,
A'i aelodau oll a chwbwl. *Rhuf*.6.19.

Rho dy gorph yn aberth bywiol *Rhuf*.12.1.
I wasanaethu dy Dad nefol;
A rho d'anwyl enaid hefyd,
I'w addoli ef yn hyfryd.

Crist a brynodd gorph ac enaid, 1*Cor*.6.20.
Ar y groes â'i waed bendigaid;

Mae e'n difgwyl cael ei addoli
Gennym â phob un o'r rhei'ny.
Ni fyn Duw, ein Tad galluog,
Un gwafanaeth dau hannerog;
Ond fe fyn ei 'ddoli'n hyfryd,
Gan bob gwas â'r corph a'r yfpryd.
Yfpryd ydyw Tad trugaredd, *Mat.* 15.8.
Ac mewn yfpryd a gwirionedd, *Ioan* 4.24.
Y mae'n gofyn ei addoli, *Diar.* 23.26.
O'r tu mewn â chalon wifgi.
Ofer rhedeg dros baderau,
O'r tu faes â geiriau'r genau,
Oni bydd y galon hefyd,
Yn gweddio yn yr Yfpryd.
Nid oes man ar gorph un Criftion, 1 *Cor.* 14.15.
Tu fewn, tu faes, yn oed y galon, 1 *Cor.* 6.20.
Na fyn Duw ei lwyr gyffegru,
Oll a chwbwl i'w was'naethu.
Er bod fatan weithiau'n foddlon
Gym'ryd gennym ran o'r galon;
Ni fyn Crift na phen na fawdwl, *Mat.* 22.37.
Oni chaiff ef oll a chwbwl.
Rho dy enaid i'w fendithio,
Ac i orfoleddu ynddo:
Rho dy yfpryd i gydnabod
Faint o bethau wnaeth ef erddod. *Sal.* 103.1,2.
Rho dy fryd ar bethau nefol, *Col.* 3.2.
Ac na fercha ddim daearol:
Meddwl am y wlad y gorfydd
Aros ynddi yn dragywydd.
Rho dy gorph a'th holl aelodau,
Fawr a bychan yn eu graddau,
Bob yr un mewn gweddaidd gyflwr, *Rhuf.* 12.1.
I was'naethu dy Greawdwr.
Rho dy galon i'w bur garu
Yn ddiragrith, a'i was'naethu:
Ac i lynu'n ddyfal wrtho,
Gan roi llwyr ymddiried ynddo.
Rho dy dafod i'w glodfori, *Sal.* 40.10.
Ddydd a nos â'r eitha' o'th allu; *a* 51.15.

Ac i ddatgan ei ddaioni,
Ymhob tyrfa delech iddi.
Rho dy lygaid i attendo,
Ac i ddyfal ddifgwyl arno,
Gan eu dyrcha tu a'r mynydd *Sal.*121.1,2.
O'r lle daw dy holl lawenydd.
Rho dy gluft i wrando'n barchus *Iago* 1.19.
Ar ei air, a'i arch, a'i 'wyllys,
Ac i dderbyn yn ddifigil,
Addewidion yr efengyl.
Rho dy ddwylo yn awyddus, *Deut.*15.11.
I bob gweithred fydd ddaionus,
A chyfranna ei fendithion, *Eph.*4.29.
Wrth eu rhaid i'th frodyr tlodion.
Rho dy liniau i'w addoli, *Sal.*95.6.
Ac i 'moftwng iddo o ddifri',
Gan roi parch ac ofn iddo,
Pa le bynnag galwech arno.
Rho dy draed i droedio ei lwybrau,
Ac i rodio'n ffordd ei ddeddfau;
Ac i dramwy yn grift'nogaidd,
I'w lys a'i deml barchus fanctaidd.
Rho dy enaid, rho dy yfpryd, *Jof.*22.5.
Rho dy gorph a'th galon hefyd,
A phob peth ag y fydd ynod,
Ddydd a nos i foli'r Drindod.
Parch, anrhydedd, union olud,
Gwir ddyrchafiad, hir oes, iechyd,
Heddwch, ffyniant o bob rhyw,
A geir o wir was'naethu Duw.
Dos lle mynnech, doed a ddelo,
Gwnaed pob gelyn waetha' ag allo;
Yn ddigonol di gei fyw,
Os ti a wir was'naethu Dduw.
Yn y dref ac yn y wlad,
Ar bob gorchwyl di gei rad,
A gwir lwyddiant ar a feddu,
Os yr Arglwydd a was'naethu.
Bydd dy faefydd, bydd dy winllan,
Bydd dy letty, bydd dy gorlan,

Yn dra ffrwythlawn, heb ddim aflwydd,
Os ti wir was'naethu'r Arglwydd.

XXI. *Rhefymmau i'n cyffroi i wafanaethu Duw.*

1. DUW a'th wnaeth yn ddyn deallus,
Ar ei lun ei hun yn weddus:
'Rwyt ti'n rhwym was'naethu'n ffyddlon,
Am dy wneuthur felly'n griftion.

2. Crift a'th brynodd o law fatan, *1 Pedr* 1.18.
A'i wir waed, ac nid ag arian;
Am i Grift mor brid dy brynu,
'Rwyt ti'n rhwym i'w brudd was'naethu.

3. Duw a'th borthodd yn ddigonol,
O'r groth hyd yr awr brefennol, *Sal.* 22.10.
Am dy borthiant, os yftyri, *a* 71.6.
'Rwyt ti'n gaeth i wir addoli.

4. Ti addewaift yn dy fedydd,
Wir was'naethu Crift yn ufudd:
Oni was'naethu Dduw fel criftion,
'Rwyt ti gwedi tyngu 'nudon.

5. Duw a wnaeth i bob creadur,
Dan y nef d'was'naethu'n bryfur: *Sal.* 8.6.
'Rwyt ti'n gaeth ar ben dy liniau,
Am y rhai'n i'w was'naethu ynte'.

6. Duw a wnaeth i'r byd gweledig,
Brudd was'naethu dyn yn yftig,
Fel y gallai'r dyn a'i ryw,
Ynte'n brudd was'naethu Duw.

7. Y dyn anghofio was'naethu Duw,
Yn ei radd, tra fyddo byw;
Mae'n anghofio'r weithred fwya',
Bwyntiodd Duw i'w gwneuthur yma.

8. Nefoedd, daear, dw'r, angylion, *Sal.* 19.1.
Adar, pyfgod, bwyftfil gwylltion,
Ac ymlufgiaid o bob rhyw,
Sydd yn eu gradd yn moli Duw.

9. Nid oes un o'r holl greaduriaid
Gwyllt na dof, na dwl na diriaid,
Heb was'naethu Duw trwy fawl,
Ond yn unig dyn a diawl.

10. C'wilydd, gw'radwydd maes o fesur,
Ydyw gweled pob creadur,
Yn gwas'naethu Duw yn ffyddlon,
A'i ddibrisio gan blant dynion.

11. B'wedd y cyfyd dyn ei ben,
Pan dd'wetto Crist o'i orsedd wen,
Nad oes neb yn ei was'naethu,
Waeth nâ'r dyn a fu e'n brynu.

12. Mae mwy dyled ar bob cristion
Lwyr was'naethu Duw yn ffyddlon,
Nag y sydd ar un creadur,
Ag a wnaeth Duw dan yr awyr.

13. Nid â i uffern un creadur,
Gyd â'r diawl i'r poen difesur,
Onid dynion gwaetha' eu rhyw,
Eisiau gwir was'naethu Duw.

14. Rhag i titheu fyn'd i frwylian,
I dân uffern gyd â satan,
Nac anghofia tra f'ech byw,
Ymhob man was'naethu Duw.

XXII. *Siamplau o wir wasanaethwyr Duw, a'u gwobrwy.*

ENOC am was'naethu Duw,
A ga'dd fyn'd i'r nef yn fyw,
Yn ei gnawd a'i wir gorpholaeth,
Cyn cael gweled dim marwolaeth.

Noa am wir was'naethu'r Arglwydd,
Ga'dd ei gadw yn ddidramgwydd
Yn yr arch, a'i dylwyth hefyd,
Pan y boddodd Duw yr holl-fyd.

Abra'm a ga'dd barch a golud,
Ffafar Duw, ac Isaac hefyd:
Holl wlad Canaan, a'i thai mawrion,
Am was'naethu Duw yn ffyddlon.

Isaac yntef am fendithio
Duw'n y maesydd wrth fyfyrio,
A ga'dd lafur ar ei ganfed
Gan yr Arglwydd am ei weithred.

Joſeph ddiwair am was'naethu
Duw, a pheidio godinebu,
Ga's ei dynnu maes o'r dwnſiwn,
A'i roi'n ben ar wlad y Sibſwn.

Joſua rymmus ynte' am lynu
Wrth yr Arglwydd, a'i was'naethu,
A ga'dd ennill brenhiniaethau,
A phob tir a gwlad a gerddai.

Hen Elias a ga'dd ei borthi
Gan y cigfrain yn ei dlodi,
A'i ddwyn i'r nef mewn tân-gerbyd, 2 *Bren.*2.11.
Am was'naethu Duw'n ei fywyd.

Sadrac, Meſac, Abednego,
Am was'naethu Duw a'i gofio,
A waredwyd yn dra hyfryd
O'r tân poeth a'r ffwrnes danllyd.

Daniel am was'naethu'n ufudd
Duw'n ei 'ſtafell dair-gwaith beunydd,
A ga'dd ddiangc rhag y llewod,
A'i waredu maes o drallod.

Pwy erioed a wnaeth waſanaeth
I'r gwir Dduw heb wobr helaeth?
Pwy a daenodd ei ogoniant,
Na cha'dd ganddo barch a ffyniant? *Deut.*28.

Ni agorodd un-dyn etto
Ddrws ei demel heb ei wobro, *Mal.*1.10.
Ac ni 'nynnodd un offeiriad
Dân yr allor heb lawn daliad.

Ni ry un-dyn byth gwppanaid
Er ei fwyn o ddw'r i'r gweiniaid,
Ac ni chaiff ei wobr gantho,
Ar ei ganfed, medd ſant Matho. *Mat.*10.42.

Goreu Meiſtr i'w was'naethu,
Mwya'i barch yw'r Arglwydd Ieſu:
Goreu'n talu taliad ffyddlon,
Am waſanaeth i'w holl weiſion.

Meiſtr graſol, Meiſtr grymmus,
Meiſtr rhial gogoneddus:
Meiſtr a wna ei holl weiſion *Dat.*1.6.
Yn offeiriaid a thywyſogion.

Meiſtr a wna iddynt eiſte'
Yn y nefoedd mewn cadeiriau,
Mewn eſmwythder a dedwyddwch,
Mawr ogoniant a rhialtwch.

Meiſtr a rydd i'w holl weiſion
Deyrnas hardd ac auraidd goron, *2 Tim.* 4. 8.
A'r fath bethau mawr arbennig
Na all calon dyn ddychymyg. *1 Cor.* 2. 9.

Pwy gan hynny na was'naethai
Griſt yn ddyfal ar ei liniau?
'Rhwn ſy'n gwobru ei gywir weiſion
A'r fath deyrnas, a'r fath goron.

Pwy na ddirmygai'r byd a'r cnawd,
A'r cythraul cas, a'i ſaig, a'i ſawd,
Ag yſtyriai faint yw cyflog
Holl was'naethwyr Duw galluog?

Er nad oes un gwas yn haeddu *Luc* 17. 10.
Cael un wobr am was'naethu;
Etto o'i ras mae Duw yn addo
Teyrnas nef i'r rhai gwas'naetho.

Gwas i bechod, gwas i gythraul,
Gwas i angeu triſt trwy drafael,
Yw pob gwas ſydd yn gwas'naethu,
Na bo gwas i'r Arglwydd Ieſu.

Pan y delo'r angeu digllon,
Fyn'd i'r bar â phob rhyw weiſion;
O! p'un oreu'r amſer hynny,
Was i'r cnawd ai gwas i'r Ieſu?

Pan y lloſgo'r byd yn chwilboeth,
A'i holl olud, a'i holl gyfoeth; *2 Pedr* 3. 7.
O! p'un oreu'r amſer triſt,
Was i'r byd ai gwas i Griſt?

Pan dderchafer plant y Drindod,
A throi i uffern weiſion pechod,
Hi fydd chwerw'r amſer hynny,
Ado'r Arglwydd heb was'naethu.

Mwy o ennill ſydd o awr
Yn gwas'naethu'r Arglwydd mawr,
Nag a gaffom o'n holl fywyd,
Yn gwas'naethu'r byd anhyfryd.

Am was'naethu'r byd yn gyfan,
Ni cheir ond y poen a'r ffwdan;
A'r twyll toſt wrth fyn'd o hono,
Yn noeth fel y daethpwyd iddo.

Am was'naethu'r cnawd trwy bleſer, *Gal.*6.8.
A'i foddloni ag eſmwythder;
Ni cheir cyflog gantho 'ſywaeth,
Ond oes fer a llygredigaeth.

Am was'naethu unrhyw bechod,
Pe gwas'naethem hwn yn waſtod,
Ni cheir gwedi'r hir waſanaeth
Gantho ond gw'radwydd a marwolaeth.

Am was'naethu tad y celwydd,
Er ei fod yn cynnyg gwledydd; *Mat.*4.9.
Nid oes troedfedd dir gan ſatan,
Ond pwll uffern iddo'i hunan.

Am was'naethu'r Arglwydd Ieſu,
Y mae teyrnas i'w meddiannu,
A gogoniant a dedwyddwch,
A gwir fywyd mewn rhialtwch.

Ymrown ninnau tra f'om byw,
Bawb i brudd was'naethu Duw,
Dyna'r Meiſtr gorau i'w was'naethu,
Dyna'r gorchwyl rheitta' ei bennu.

A meddyliwn bawb am ymladd
A phob gelyn ſy'n ein gwrthladd,
Yn ein deor, yn ein ſtoppi
Weithio'r gwaith ſydd reittaf i ni.

Ac fel gweithwyr cywir ffyddlon,
Call, cofiadur, carcus, cyfion,
Cwympwn bawb i wir was'naethu
Duw tr'o amſer gras yn gadu. *Eſa.*55.6.

Oni was'naethwn Dduw tr'om yma,
A thro amſer gras yn para;
Ni gawn fyn'd i'r pwll yn gyngan
Ar ein pen i was'naethu ſatan.

Yn y pwll hi fydd edifar,
Trwy 'difeirwch rhy ddiweddar,
Mor ddibris ddirmygu'r Drindod,
Ac mor rhwydd was'naethu pechod.

Yno wylir heillion ddagrau, *Luc* 13.28.
Yno bloeddir gan y poenau:
Ond pe wylid perfedd allan,
Ni ddeir byth o grampau ſatan. *Mat*.5.26.

Cwympwn bawb yn brudd gan hynny,
I was'naethu Duw tr'o'i heddy';
A rhown ffarwel bawb i bechod,
Trwy lwyr droi i was'naethu'r Drindod.

Felly cawn ni pan f'o rheitta',
Gwedi'r byr waſanaeth yma,
Byth was'naethu'r Arglwydd tirion
Yn y nef ymhlith angylion.

I'r hon nefoedd, O'n Creawdwr,
Er mwyn Ieſu Griſt ein Prynwr,
Dwg ni oll i'th wir was'naethu,
Gyd â'th ſaint a'th nefol deulu.

## XXIII. *Am Weddi a'i pherthynaſau.*

TYN d'eſgidiau cyn gweddiech, *Ecſ*.3.5.
Rhwym dy aſyn cyn aberthech: *Gen*.22.5.
Golch dy draed cyn myn'd i'r Cymmun,
Yſtyria geiſiech cyn ei ofyn.

Cyn gweddio edifara,
Wrth weddio dyfal weithia:
Yn ol gweddi bydd ddiolchgar,
Felly caiff dy weddi ffafar. *Ioan* 9.31.

1 Y diawl a gais bob dydd dy demtio,
2 Y cnawd bob awr a fyn dy dwyllo;
3 Y byd a'i bethau gais d'orchfygu, *Mat*.26.41.
Prawf trwy weddi eu gwrth'nebu.

Da yw gweddi ymhob lleoedd, 1 *Tim*.2.8.
Da yw gweddi bob amſeroedd; 1 *Theſ*.5.17.
Da yw gweddi dros bob dynion, 1 *Tim*.2.1.
Mae'n dda gweddi 'mhob achoſion.

Aberth hyfryd i'r Gorucha', *Sal*.141.2.
§ *Whip* yn **ſcwrgio*'r diawl a'i dyrfa; § *Gwialen*.
Nerth i'r gwan ymhob gofidi, * *Fflangellu*.
Nawdd rhag pob drwg ydyw gweddi.

Allwedd aur i ddatgloi'r borau,
Bollt y nos i gae dy ddryſau:

Twr i'th gadw rhag drygioni,
Ddydd a nos, yw deddfol weddi.

Gweddi brudd ſydd drech nâ dynion, *Act.*17.11.
Gweddi daer a drôdd angylion ; *Gen.*19.3.
Gweddi a fwriodd ddiawlaid allan, *Mat.*17.21.
Gweddi orchfygodd Dduw ei hunan. *Ecſ.*32.14.

Na ddibriſia ddim o'th weddi,
Mae yn y nef fel *Thus* yn llosgi :
Mae ar y ddae'r yn clwyfo ſatan,
Mae'n ennillfawr it' dy hunan.

Mewn ffydd a pharch a llwyr-fryd calon, *Jer.*29.13.
Mewn zêl, ac awch, a meddwl union: *Marc.*11.24.
Mewn deall drud a dyfal-geiſio, 1 *Cor.*14.15.
Mewn hyder prudd y mae gweddio.

C'od d'olygon, plyg dy liniau,
Tan dy ddwylo, agor d'enau ;
Deffro d'yſpryd, cur dy ddwyfron,
Llwyrweddia â'th holl galon.

Nid ar Baal, na'r llo, na'r ddelw,
Sant na Santes y mae galw;
Ond ar Dduw trwy Griſt yn unig, *Ioan* 6.23.
Am bob peth ſydd arnat ddiffyg.

Ni ŵyr neb ond Duw ein cyflwr,
Ni all neb ond Duw roi ſwccwr,
Ni chlyw neb ond Duw ein gweddi,.
Ar Dduw'n unig y mae gweiddi.

Duw ſy'n erchi galw arno, *Sal.*50.15.
Duw ſy'n addo rhoi ond ceiſio,
Duw ſy'n gwrando pob prudd weddi,
Duw all dynnu pawb o'u dlodi.

Ni ŵyr Abra'm, ni ŵyr Iago, *Eſa.*63.16.
Ymha gyflwr yr y'm ynddo ;
Ni ŵyr neb ond Duw ei hunan,
Beth yw'n cais, a maint yw'n cwynfan.

Peth perth'naſol i Dduw'r lluoedd, *Sal.*65.2.
Ydyw gwrando gweddi miloedd,
A fo'n ceiſio mil o bethau,
Ar un pryd mewn amryw ieithau.

Ni ŵyr Mair i'm tyb ddim Saeſ'neg,
Ni ŵyr Martha ddim Gwyddeleg,

Ni ŵyr Clement Sant ddeallu
Beth a ddywed un o'r Cymry.

Ni ŵyr Abra'm ddim o'n cyflwr,
Ni all Clement roi i ni ſwccwr;
Ni chlyw Peder ddim o'n gweddi,
Ar Dduw'n unig y mae gweiddi.

Parcha'r ſaint yn fawr yn fychan,
Ond addola Dduw ei hunan; *Mat.* 4.10.
Rho anrhydedd gweddus iddynt,
Etto na weddia arnynt.

Ni bu Batriarc, ni bu Brophwyd,
Ni bu Boſtol ag a glywyd,
Wneuthur gweddi, ar ddarllenes,
Etto 'rioed at ſant na ſantes.

Nid oes * *bromais* yn'r Efengyl * *Addewid.*
I ni gael dim trwy fawr ymbil, *Ioan* 16.23.
Ond a gaffom trwy ymbilian,
Er mwyn Ieſu Griſt ei hunan.

Criſt yn unig yw'n Cyfryngwr, 1 *Tim*.2.5.
Criſt yw'n *Twrneu* a'n Dadleuwr:
Nid oes arall all gyfryngu
Rhwng Duw a dyn ond un Criſt Ieſu.

Er mwyn Ieſu y mae ceiſio
Faint a geiſiom wrth weddio:
Ar ddeheulaw'rTad mae'n eiſte', *Rhuf.* 8.34.
Er mwyn derbyn ein gweddiau.

Cym'red eraill hên ſant Catrin,
Dewi, Clement, Martha,Martin:
Byth ni cheiſiaf fi Gyfryngwr,
Rhyngo'i a Duw, ond Criſt fy Mhrynwr.

Cais yn eiriol wrth weddio
Nerth yr Yſpryd i'th gyf'rwyddo;
Ni all neb weddio'n hyfryd *Rhuf.* 8.29.
Heb gyf'rwydd-deb y Glân Yſpryd.

Heb yr Yſpryd f'ellir ſonio
Am Dduw mawr ac am weddio;
Ond ni ddichon un dyn ddywedyd
Wrth Dduw mawr heb nerth yr Yſpryd.

Duw ni phriſia weddi'r tafod, *Mat.* 15.8.
Heb y galon a'r gydwybod:

Gweddi'r enaid prudd a'r yspryd
O flaen Duw sydd aberth hyfryd.

Cais â'r genau, cais â'r galon,
Un o'r ddau sydd lai nâ digon;
Cydia'r genau gyd â'r Yspryd,
Hynny bair cynghanedd hyfryd. 1 *Cor.*14.15.

Gwell yw'r galon heb y genau,
I weddio ambell weithiau,
Nag yw'r genau heb y galon,
Gweddi o'r fath sydd weddi ffinion.

Gwell oedd gweddi Moesen hyfryd, *Ecs.*14.15.
Wrth siwrneia heb ynganyd,
Nâ gwaith gwefus yr Iuddewon *Marc* 7.8.
Yn gweddio heb y galon.

Cais a geisiech trwy wir ffydd, *Rhuf.*6.32.
Na chymmer ball ond begia'n brudd;
Nac ammeu dderbyn'r hyn a geisiech,
Os ceisi'n daer ti gei ofynech.

Ni chau'r adar bach eu safnau,
Nes y llanwo eu mam eu boliau,
Ac ni ddylai dynion dewi, *Luc* 18.1.
Nes cyflawno Duw eu gweddi.

Rhyfedd yw mor daer y begian
Llawer dyn am fwyd ac arian,
Ac mor llwfwr y gweddiant,
Am drugaredd a gogoniant.

Hael yw Duw i'r sawl a'i ceisiant,
Rhwydd yn rhoi i'r rhai ofynant,
Rhoi yn brudd heb ddim dannodiaeth,
Rhoi eu rhaid i bawb yn helaeth. *Iago* 1.5.

Fel y gwrendy mam ar blentyn,
A fo'n llefain yn ei rwymyn; *Sal.*103.13.
Felly gwrendy Duw ein gweddi,
Pan y llefom mewn gofidi.

B'wedd na wrendy Duw dy weddi,
Lle mae'r Yspryd Glân yn gwaeddi, *Rhuf.*8.26,27,28.
A Christ Iesu'n ymbil drosod,
Ar ddeheulaw'r Tad yn wastod?

Os yn enw Crist y ceisi, *Ioan* 16.23,24.
Os yn eiriol y gofyni;

Di gei naill ai'r hyn ofynaist,
Neu beth gwell nâ'r hyn a geisiaist.

Os bydd dy Arglwydd yn dihirio
Rhoi ofynech wrth weddio,
Mae e'n d'annog geisio'n daerach,
Neu ddymuno rhyw beth rheittach.

Cais ogoniant Duw yn gyntaf,
Cais nefolion bethau nesaf:
Cais ei deyrnas a'i gyfiawnder, *Mat.*6.33.
Di gei'r cwbwl heb ddim prinder.

Gochel geisio tra f'ech byw, 1 *Ioan* 5.14.
Ddim yn erbyn 'wyllys Duw,
Digio Duw y mae dy weddi,
Os ceisi'r peth na fynno'i roddi.

Ffol yw ceisio bydol bethau,
Pan aller cael nefolion dlysau;
Serchu'n fawr mewn daear domlyd,
Heb wneuthur pris o'r nefoedd hyfryd.

Nattur mochyn brwnt anhygar,
Yw rho'i fryd ar drwyno'r ddaear, *Col.*3.1,2.
Nid naturiaeth un o'r bobloedd,
Sydd â'u Tad yn nheyrnas nefoedd.

Cais y peth mae Duw yn addo,
Yn ei air ac yn ei * *lwo*; * *Cennadu.*
Cais y rhai'n er hynny'n weddus,
Os cenhada ei sanctaidd 'wyllys. *Mat.*26.39.

Gwna dy weddi byth yn ddiwall,
Yn yr iaith a f'ech yn ddeall,
Gwell yw pum gair ag ystyriech,
Nag yw deng-mil na's deallech. 1 *Cor.*14.19.

Gwatwor Duw a'i dwyllo ei hun,
Wrth weddio y mae dyn,
Pan y ceisio wrth * friwgawthan, * *Dywedyd ilawer.*
Gan Dduw'r peth na's gŵyr ei hunan.

N'ad i'r min ragflaenu'r meddwl,
Par i'r galon bwyso'r cwbwl, *Mat.*.15.7,8.
Ni all Duw un amser odde',
Heb y galon weddi'r genau.

Duw yw chwiliwr y calonnau, *Jer.*17.10.
Duw ei hun yw Tad y golau, *Ioan* 4.24.

Duw ſyn weddi brudd o'r galon,
Duw ni phriſia eiriau gweigion.
Tro bob meddwl aflan heibio,
Pan y byddech yn gweddio,
A rhwym gartre' dy fydolrwydd,
Tr'ech yn ‡ *parlo* ti a'th Arglwydd. *Ymddiddan.*
Ni chai aſyn Abra'm ſangu, *Gen.*22.5.
Lle b'ai Abra'm yn aberthu;
Na'd i'th fydol feddwl dithau
Dramwy lle b'o dy weddiau.
Megis Abra'm rhaid it' darfu *Gen.*15.11.
Pob rhyw rwyſtrau wrth aberthu,
A rhyfela â'r *buſneſon*
A'th ddehoro i adail Seion.
Pa ddyfala ceiſio ſatan,
Pan weddiech droi dy amcan,
Rheitta' gyd y d'lit weddio,
A'i wrth'nebu nes y cilio. *Iago* 4.7.
Fel y cilia'r llew crafangog,
Pan y clywo ganiad ceiliog;
Felly cilia ſatan greulon,
O'r lle clywo weddi ffyddlon.
Ni all * bual drigo'n heppell, * *Ych gwyllt.*
Lle b'o gwichiad cyw neu barchell,
Ni all ſatan ynte' drigo,
Lle b'o dynion yn gweddio.
Oni b'ai fod ſatan ddyrngas,
Yn gweled gweddi'n rhwygo'i deyrnas,
Ac yn awchlym yn ei glwyfo,
Byth ni rwyſtrai i neb weddio.
Ond os ceri iechyd d'enaid,
Na gogoniant Duw, na'th gyfraid,
Na'd i ſatan byth dy rwyſtro
Wrando'r gair nac i weddio.
Wrth weddio llef heb orphwys, 1 *Tim.*2.1,2.
Dros bob gradd ſydd yn yr eglwys;
Ac na arfer megis Pagan,
Weddio'n unig it' dy hunan.
Nid gwir blant yr eglwys ſanctaidd,
Ond baſtardiaid anghriſt'nogaidd,

Yw pawb na weddio'n ffyddlon,
Dros yr eglwys, ſanctaidd Seion.
 Os gweddiodd Abra'm fwyna',
Dros dre' Sodom a Gomorra,
B'wedd na ddylem ni'r Criſt'nogion,
Alw ar Dduw dros dylwyth Seion? *Sal.*51.18.
 Criſt ſy'n erchi i bawb weddio,
Ar bob amſer heb ddiffygio; *Luc* 18.1.
A Sant Paul ſy'n chwennych i ni
Ymhob man ymarfer gweddi. 1 *Tim*.2.8.
 Daniel raſol a weddiai *Dan*.6.10
Dair gwaith beunydd ar ei liniau;
A'r brenhinol brophwyd Dafydd, *Sal*.119.164.
A weddiai ſaith waith beunydd.
 Criſt ein Prynwr ynte'n glos,
A weddiai tra f'ai'r nos; *Luc*.6.12.
Ac a dreuliai'r dydd tro ganddo,
Yn pregethu neu'n gweddio.
 Ymhob man, ac ar bob amſer,
Y mae gweddi o fawr bwer; *Iago* 5.16.
Os y galon a fydd barod,
I ymbilian â'r hael Drindod.
 Ar y moroedd, ar y mynydd,
Yn ein teiau, ar ein maeſydd,
Mae'n ddyledus in' weddio,
Ymha fan y b'om ni ynddo.
 Gyd â Pheder yn ein lletty, *Act*.10.
Gyd â Dafydd yn y gwely, *Sal*.63.6.
Gyd â Daniel rhwng y llewod,
Y mae'n rhaid gweddio'n waſtod.
 Ni ddiffoddai ar un tymmor,
O'r tân ſanctaidd ar yr allor; *Lef*.6.13.
I fynegi byth na ddylai
Ddiffodd zel dy weddi ditheu.
 Dyn ſydd demel i'r Goruchaf,
Calon dyn yw'r allor bennaf,
Fore a hwyr y mae Duw'n ceiſio, *Num*.21.38.
Gael o'th galon aberth iddo. *Diar*.23.26.
 Na'd dy demel er dy fywyd,
Fore a hwyr heb aberth hyfryd;

Ac na'd ganol dydd fyn'd heibio,
Heb roi clod a moliant iddo. *Sal.* 55.17.

Felly byddi di gyfeillgar
A'th Greawdwr, ac mewn ffafar:
Felly cei di gan y Drindod
Dy rwyddhau a'th helpu'n waſtod.

Nid oes dim a ddylai rwyſtro
Dyn ewyllyſgar i weddio,
Ac i weithio ei orchwyl hefyd,
Pa ryw bynnag fo'i gelfyddyd.

F'all dyn weithio ei gelfyddyd,
A gweddio'n ddyfal hefyd:
Ni chais gweddi'r galon rwyſtro
Hynt y traed, na gwaith y dwylo.

Fe allai Moeſen wrth ſiwrneia, *Ecſ.* 14.15.
Fe allai Joſua wrth ryfela, *Joſ.* 10.12.
Criſt wrth ymdaith, Paul wrth forio, *Marc.* 1.35.
*Dendio* eu *buſnes*, a gweddio. *Act.* 27.

Er bod eſgus yn lwfedig,
Lawer pryd mewn pwyntiau pwyſig,
Nid oes eſgus ellir enwi,
All d'eſguſo am dy weddi.

Gelli beidio myn'd i'r eglwys,
Pan b'ech glaf o'r haint a'th rwyſtrwys,
Ond er clafed flin a fyddech,
Rhaid gweddio nes 'madawech.

Gelli beidio rhoi eluſen,
Pan na byddo'i yn dy berchen;
Ond er cymmaint a fo'th dlodi,
Nid oes peidio byth â gweddi.

Ymhob cyflwr ar bob amſer,
Y mae gweddi yn ei thymmer;
Na'd gan hynny ddim dy rwyſtro,
Ymhob cyflwr brudd weddio.

Yn ein trallod, yn ein gwynfyd,
Yn ein nychdod, yn ein hiechyd,
Ymha gyflwr y b'om ynddo,
Y gall Criſtion brudd weddio.

Nid yw carchar, nid yw cloion,
Nid yw rhwyſtrau holl blant dynion,

Na'r byd oll yn rhwyſtro gweddi,
Fyn'd bob awr at Dad goleuni.

Tyn di dafod dyn o'r gwreiddau,
Tor ei draed, a rho fe'n gwarchau;
Fe all gweddi'r galon ſaethu,
Trwy bob clo at Dduw er hynny.

Ar ŵyl a gwaith, ar nos a dydd,
Ar fore a hwyr, caiff gweddi brudd
Fyn'd at Dduw, y pryd y mynno,
Doed pan ddel hi gaiff ei groeſo.

Er na chai'r frenhines Eſther
Fyn'd at frenin ond rhyw amſer;
Fe gaiff gweddi, heb ei rhwyſtro,
Fyn'd at Dduw yr awr y mynno.

C'od fel Daniel ar y wawr-ddydd, *Sal.* 119.62.
C'od di ganol nos fel Dafydd;
Mae Duw'n barod gwrando geiſiech,
Galw arno'r awr y mynnech.

Er na chaffo dyn ei hunan
Fyn'd i'r nef at Griſt i ymddiddan,
Fe gaiff gweddi pob rhyw Griſtion,
Fyned atto'r awr y mynnon'.

Trwy'r gwynt a'r gwlaw, trwy'r *aer* a'r tonnau,
Trwy'r * *ſphers* i gyd, a'r holl blanedau, * *Ffurfafenau.*
Yr â gweddi fel llycheden,
O flaen Duw uwchlaw'r ffurfafen.

Ni all nef, na dae'r, na dynion,
Awdurdodau, nac angylion,
Rwyſtro gweddi gael ymddiddan,
Bob rhyw awr â Chriſt ei hunan.

Nid rhaid iddi ofyn cennad
Peder gwyn i gael agoriad;
Hi gaiff fyn'd trwy'r holl angylion,
O flaen gorſedd Criſt yn eon.

Hi gaiff gan Dduw wrando ei chyſur,
Hi gaiff gan Griſt bledio ei dolur,
Hi gaiff gan yr Yſpryd riddfan, *Rhuf.* 8.26.
Ac och'neidio droſti'n gyngan.

Ni thry Rhoddwr pob daioni,
Adre'n waglaw mo'th brudd weddi;

Ond fe leinw Crist ei mynwes,
Ac a'i nertha i gael ei neges. *Esa.*45.19.
Oni chaiff hi'r hyn a geisio,
Hi gaiff well nâ hynny gantho;
Os ni edy Crist un amser,
Weddi ffyddlon fyn'd yn ofer.
O! pa ddyled s'arnom roddi,
I'r gwir Dduw am odde'n gweddi,
Fyn'd o'i flaen yr awr y mynnom,
A chael ganddo'r hyn a geisiom.
Braich yw gweddi sy'n cyrhaeddyd
O'r byd hwn i'r nefoedd hyfryd;
Ac yn cym'ryd o drysorau
Duw beth bynnag s'arni eisiau.
Gweddi brudd sydd gennad hy',
A red dros ddyn i'r nefoedd fry,
Ac a gaiff bob awr ymddiddan,
Yn ddi *stop* â Duw ei hunan.
Gweddi laddodd gawr tra chadarn, 1 *Sam.*17.45.
Gweddi agorodd byrth o haiarn, *Act.*12.5.
Gweddi gauodd safnau llewod, *Dan.*6.
Gweddi dynn ddyn o bob trallod.
Gweddi glodd y nef yn hir, *Iago* 5.17.
Gweddi drôdd y môr yn dir, *Ecs.*14.21.
Gweddi wnaeth i'r meirw godi, 1 *Bren.*17.22.
Nid oes dim mor gryf a gweddi.
O! pa ddiolch s'arnom roddi
I'r gwir Dduw am adael gweddi
Fyned atto'r awr y mynnom,
A chael gantho'r pethau geisiom.
Clod, a gallu, diolch, moliant,
Parch, anrhydedd, a gogoniant,
A fo i Roddwr pob daioni,
Sydd mor fwyn yn gwrando'n gweddi.

*Yr Ail Ran.*

PAN yr elech i weddio,
Edifara am aeth heibio;
A llwyr ymolch o'th holl frynti,
Os dymuni wrando'th weddi.

Duw ni wrendy bechaduriaid,
A fo'n byw mewn pechod diriaid,
Fe orfydd 'madael â drygioni,
Cyn gwrandawo Duw dy weddi. *Ioan* .9.31.

Os mewn malais, rhyfyg, mwrddro,
Llid, a thrais, y doi weddio
I dŷ Dduw ar ben dy liniau,
Duw a'th wrthyd a'th weddiau. *Esa*.1.15.

Melldith Moab sydd yn cwympo
Ar yr anwir wrth weddio,
Ceisio maent heb gael eu * canlyn,
Am fod dwylo rhai'n ysgymmyn.

* *Deisysiad.*

Y neb a alwo ar yr Arglwydd, 1 *Tim*.2.8.
Ymadawed â'i halogrwydd,
Ac ymolched ei ddwy ddwylo,
Oddi wrth waed os cais ei wrando.

Tirion yw Duw a thosturiol, *Joel* 2.12,13.
I'r rhai a fydd edifeiriol;
Edifara am dy frynti,
Ac fe wrendy Duw dy weddi.

Os 'difaru am y cwbwl,
Pe b'ai'th fai mor goch a'r pwrpwl, *Esa*.1.18.
Crist a'th olch mor wyn a'r lili,
Ac a wrendy'n rhwydd dy weddi.

Pan y delech i weddio,
Tro bob meddwl ofer heibio, *Jer*.4.14.
A rhwym gartre' dy fydolrwydd,
Tr'ech yn § parlo ti a'th Arglwydd.

§ *Llafaru.*

Brwnt yw gweled pac a ffardel,
Ar dy gefen yn y demel;
Bryntach yw gwel'd dy fydolrwydd,
Pan gweddiech ar yr Arglwydd.

Pan gweddiech galw'n gynnwys
Ar Dduw dros bob 'stat o'r eglwys,
Ac na arfer megis Pagan
Weddi'n unig it' dy hunan.

Galw'n gyntaf dros frenhinoedd, 1 *Tim*.2.1,2.
Am gael gras i drin eu pobloedd,
Mewn gwir grefydd a llonyddwch,
Hedd, uniondeb, a dedwyddwch.

Gwedi'n galw dros eglwyſwyr, *Eph.*6.19.
Am gael gras i draethu'n eglur
Holl ddirgelwch yr Efengyl,
A phregethu'r gwir yn rhigyl.

A gweddia dros ſwyddogion, 1 *Pedr* 2.14.
Ar i Dduw roi grym a chalon
Iddynt goſpi pob rhyw droſedd,
A *maintainio* ffydd a rhinwedd.

Cais gan Dduw fendithio hefyd,
Bob 'ſgolheigion o gelfyddyd;
Fel y gallont lanw'r gwledydd
A goleuni, moes, a chrefydd.

Nac anghofia o'r cyffredin,
Ond gweddia hefyd droſtyn';
Fel y gallont fyw'n eu galwad,
Mewn ufudd-dod, hedd, a chariad.

A gweddia dros drueiniaid,
Sydd mewn trallod, cyſtudd enbaid,
Ar i Dduw doſturio wrthynt,
A rhoi *help* a *chomffordd* iddynt.

XXIV. *Rhybudd i ddyn feddwl am Dduw y boreu, ac i roddi diolch iddo am ei gadw'r nos rhag niwaid.*

Y Boreu pan ddihunech gynta',
C'od d'olygon at Jehofa;
Meddwl am ei foli'n ddiwall,
Cyn meddyliech am ddim arall.

Cofia mai Duw oedd y Ceidwad,
A fu neithiwr yn dy wiliad,
Heb roi amrant iddo i gyſgu,
Rhag i'r llew dy ladd a'th lyngcu.

Oni b'ai Dduw a'i angylion,
Sy'n caſtellu bob tu ei weiſion, *Sal.*34.71.
Dyn ni byddai heb ei lyngcu,
Gan y gelyn tra f'ai'n cyſgu.

Mwy yw perygl dyn ſy'n cyſgu
Yn ei wely heb nawdd Ieſu,
Nag oedd perygl Daniel hynod,
Gynt wrth gyſgu rhwng y llewod.

Y mae'r 'ſgrythur yn mynegi, 1 *Pedr* 5.8
Fod y diawl yn troi o bob-tu,
Ddydd a nos yn ceiſio llarpio,
Megis llew pwy bynnag allo.

Pwy ſy'n rhwyſtro'r llew i'n llyngcu,
Ond ein Ceidwad mawr Criſt Ieſu?
'R hwn ſydd nos a dydd heb heppian,
Yn cadw ei braidd rhag rhuthrau ſatan.

Meddwl dithau faint yw'r dyled
Y ſydd arnat i'r Gogoned,
Am dy gadw mor ddihangol,
Rhag y gelyn yn waſtadol.

Megis y mae'r dyled arnad,
Rho fawr foliant iddo'n waſtad;
Ac abertha ar dy liniau,
Ddiolch iddo nos a boreu.

Meddwl fel y gall'ſai ſatan,
Yn dy gwſg dy ladd heb yngan,
A'th ddwyn i'r farn yn rhy amharod,
Oni bu'ſai i Griſt dy warchod.

Meddwl fel y gall'ſai'r gelyn,
Oni bu'ſai i Griſt d'amddiffyn,
Ladd dy blant, a dwyn dy gyfoeth,
Lloſgi'th dŷ a'th flino boenoeth.

Cofia fel y gall'ſai'th daro
Ag ynfydrwydd nes gwallbwyllo,
Fel na allaſit ddim o'r cyſgu,
Oni bu'ſai i Griſt ei nadu.

Bydd gan hynny dra diolchgar,
I'th wir Geidwad am ei ffafar,
Yn dy gadw mewn eſmwythder,
Rhag y gelyn yn ddibryder.

Pe b'ai Iuddew yn dy warchod,
Tra f'ech yn cyſgu rhwng bwyſtfilod,
Di roit ddiolch fil o weithiau,
Am dy gadw o'u crafangau.

Er bod Criſt ei hun i'th warchod,
Tr'ech yn cyſgu rhwng y llewod,
Sydd bob awr yn ceiſio'th lyngcu,
Ni roi ddiolch iddo er hynny.

Agor d'olwg, gwel ei ffafar,
Cymmer rybudd, bydd ddiolchgar,
A rho ddiolch ar dy ddau-lin,
I Grist Iesu am d'amddiffyn.

Felly ceidw Crist di'n wastod,
Ac y tan ei adain drosod;
Ac a'th geidw mewn esmwythder,
Rhag pob perygl yn ddibryder.

Gochel feddwl dim o'th galon, *Ecs.* 34.26.
Gochel edrych â'th olygon,
Gochel dd'wedyd dim â'th enau,
Nes moliannu Duw y borau.

Rho iddo flaen-ffrwyth dy wir galon,
Blaen-ffrwyth d'eiriau a'th feddylion;
Duw a fyn y ffrwythau cyntaf,
Ni fyn Duw na'r ail, na'r olaf.

Cynta' peth a wna'r uchedydd,
Moli Duw pan torro'r wawrddydd:
Cynta' peth a ddylai dynion,
Moli Duw o ddyfnder calon.

* Rhobin bach cyn gwlycho'i genau, ** Y fron-rhuddyn.*
A gân i'r Arglwydd Salm y borau,
Am ei chadw'r nos rhag niwed,
Er bod gwely hon yn galed.

Llawer dyn yn waeth nâ'r 'deryn,
God o'i wely megis mochyn,
Heb gydnabod Crist ei Geidwad,
Na rhoi diolch am ei warchad.

Peth c'wilyddus i blant dynion
Fod yn waeth nâ'r adar gwylltion,
Sy'n clodfori nos a borau
Dduw mor ddyfal am ei ddoniau.

## XXV. *Diolch boreuol pan ddihuner gyntaf.*

DUW fy Ngheidwad, Duw fy Nghryfdwr,
Duw fy Nghastell rhag y drygwr,
Derbyn foliant ar fy nwylo,
Am fy nghadw'r nos aeth heibio.

'Rwyt ti'n gwilied ddeutu ngwely,
Ddydd a nos tra fyddwy'n cysgu;

Ac yn tannu d'adain drosof,
Pan ollwngwy'r byd yn angof.
'Rwyt ti'n rhoddi im' esmwythder,
A llonyddwch mawr bob amser,
Gan adfywio beunydd felly,
Fy egwan gorph a melus gysgu.
Ni winc, ni chwsg, ni hûn, ni heppian,
Fy Nhad graslon tra fwy'n slwmran,
Ond fe'm ceidw yn ei gesel,
Tra fwy'n cysgu yn ddiogel.
Pa fath ffafar yw hon yma?
Dy fod di y Brenin mwya',
Yn ymostwng i ddiwallu
Llwch a lludw tra fo'n cysgu.
Byth ni byddai'n abal rhoddi
Y ddegfed ran o ddiolch i ti,
Ag sydd arnaf (Dad caredig)
Am y ffafar hon yn unig.
Clod a gallu, diolch, moliant,
Gwir anrhydedd, a gogoniant,
A fo nos a dydd i'r Drindod,
Sydd mor ddiflin yn fy ngwarchod.

XXVI. *Diolch i Grist am ymddiffyniad ac esmwythder.*

O Fy Ngheidwad, O fy Mugail,
'Rhwn a'm cedwaist yn dy gesail
Neithiwr rhag i'r blaidd fy llyngcu,
'Rwyf o'm calon i'th glodfori.
Dan dy adain Crist di'm cedwaist,
Yn dy freichiau di'm cofleidiaist;
Rhoddaist i mi brudd esmwythder,
'Rwy'n ddiolchgar am dy fwynder.
Nedaist satan i'm difethu,
Nedaist ddynion i'm gorthrymmu,
Nedaist dân a gwynt fy 'speilio,
Nac anhunedd i'm dihuno.
Bendigedig a fo d'enw,
Crist fy Ngheidwad, am fy nghadw,
A gogoniant i ti rodder,
Am roi i mi'r fath esmwythder.

XXVII. *Rhybudd i ddyn wrth ddilladu'r corph i weddio am ddillad ac arfau i'r enaid.*

PAN y b'ech yn gwisgo'th ddillad,
Cais arfogaeth Duw am danad,
Fel y gallech ymladd ynthyn',
Megis cristion â phob gelyn.

Nid wyt nes er dillad twymglyd,
I guddio'r cnawd, i ddyor anwyd,
Oni b'ai it' gael pilynod,
I ddyor bai, i guddio pechod.

Cais gan hynny holl arfogaeth
Duw, i'th gadw rhag gelyniaeth, *Eph.* 6. 11.
A rhag pechod, a rhag trafael,
Twyll y byd, a'r cnawd, a'r cythraul.

Heb y rhai'n nid y'm ond noethion,
I ryfela â'n gelynion,
Ac nid posibl i neb hebddyn',
Gael y trecha' ar un gelyn.

XXVIII. *Gweddi wrth wisgo am danat, yn ceisio arfogaeth Duw i'th gadw rhag gelyniaeth pechod.*

GWISG dy armwr oll am danaf,
O fy Ngheidwad galluoccaf;
Fel y gallwyf megis cristion,
Ymladd ynddynt â'm gelynion.

N'ad o'm coryn hyd fy ngwadnau,
Unrhyw aelod heb ei arfau,
Rhag fy nghlwyfo gan y temtiwr,
Lle bo eisiau unrhyw armwr.

N'ad i'r byd a'i ofer bethau,
N'ad i'r cnawd a'i nwyfus chwantau,
N'ad i'r diawl a'i ruthrau 'sgymmun,
Beri i mi bechu'n d'erbyn.

Ond rho i mi rym a chryfdwr,
I orchfyfu pob gwrth'nebwr,
Ac i ymladd dan dy faner,
Nes y'm dygech i'th esmwythder.

## XXIX. *Gweddi arall wrth wisgo dy ddillad.*

CRIST fy nghraig a'm hiechydwriaeth,
Gwisg am danaf dy arfogaeth,
N'ad un aelod heb ei wisgo,
Rhag i'r gelyn fy anrheithio.

Gwisg y pen â helm y gobaith, 1 *Thes.* 5. 8.
Brest â'r ‖ *gorslet* gyfiawn berffaith, ‖ *Dwyfronneg.*
Lwynau â gwregys gwir 'difeirwch, *Eph.* 6. 14,
Traed â 'sgidiau 'fengyl heddwch. 16, 17.

Rho dy air yn gleddyf i mi,
Ffydd yn darian i ddiffoddi
Holl biccellau tanllyd satan,
A phrudd weddi i sefyll allan.

A rho rym fel milwr ffyddlon,
Im' ryfela â'm gelynion,
Rhuthrau satan, chwantau cnawdol,
Twyll y byd, a phechod marwol.

A rho gymmorth i'w gorchfygu,
A'u darostwng, a'u gwrth'nebu;
Fel y gallwyf byth d'addoli,
Megis plentyn i'r goleuni.

Felly beunydd yn ddibryder,
Mi ryfelaf dan dy faner,
Ac a roddaf i ti foliant,
O fy Nuw, tra ynof chwythiant.

## XXX. *Rhybudd wrth ymolchi.*

PAN yr elych i ymolchi,
Cais yn daer gan Dduw trwy weddi,
Olchi d'enaid oddiwrth bechod,
A'i lanhau â gwaed y cymmod.

Nid wyt nes er dw'r yr afon,
I olchi'r cnawd oddiwrth amrhyddion,
Nes y golchech dy gydwybod,
A gwaed Crist oddiwrth dy bechod.

Nid wyt nes er wyneb glân,
A chalon front, heb ras, heb rân;
Ni foddlonir Duw yn bur,
Ag wyneb glân, heb galon glir.

XXXI. *Gweddi fer wrth ymolchi.*

GOLCH, O Grift! â'th waed fy mhechod,
Golch fy enaid a'm cydwybod;
Golch fy meddwl oddiwrth wegi,
Golch fi'n llwyr oddiwrth fy mrynti.
Golch fy mhen, a'm traed, a'm calon,
Fel y golchaift d' apoftolion; *Ioan* 13.5.
Sych â'r tywel main fy mrynti,
A rho d' Yfpryd fanctaidd i mi.
Golch fi'n neigrau gwir 'difeirwch,
Golch fi'n ffynnon gras a heddwch; *Zec*.13.1.
Golch fi â'th waed mor wyn a'r lili, *Dat*.1.5.
Fel y gallwy'n bur d'addoli.

XXXII. *Gweddi foreuol, i'w harferu (o ran ei fylwedd) yn y man ar ol codi ac ymolchi.*

DUW trugarog, Tad tofturi,
Er mwyn Crift rho bardwn i mi,
Am fy meiau oll a'm pechod,
Sydd mewn rhif yn fwy nâ'r tywod. *Sal*.40.12.
Nid oes pwngc o'th holl gyfreithiau,
Na's trofeddais, llwyr gwae finnau;
Nac un dawn a roddaift i mi,
Na's arferais ar ddrygioni.
Drwg fy nhyb, a gwaeth fy ngweithred,
Brwnt fy nhafod, maith fy hocced,
Poeth fy nattur, oer fy ngweddi,
Arglwydd, maddeu'r cwbl i mi.
Maddeu'r maint a wnaetho'i'n d'erbyn
O bechodau, er yn blentyn; *Jer*.10.25.
Ac na thywallt ar fy lletty,
O'r dialau maent yn haeddu.
Ond rho ras a chymmorth i mi,
O hyn allan dy addoli,
A'th was'naethu mewn fancteiddrwydd,
Pur uniondeb ac oneftrwydd.
Tyn bob rhwyftr fydd i'm hattal,
I'th wa'naethu di mor ddyfal;

A rho allu yn ol hynny,
I mi'n ddiflin dy was'naethu.
Llwyr ddiwreiddia o'm calon ofer,
Yr holl frynti fum i'n arfer;
A gwir blanna yn eu cyfle,
Ras a dawn tra chwyth i'm genau.
Dyſg fi gadw dy orch'mynion,
A'u gwir garu â'm holl galon;
A'u cymmeryd yn lle rheol,
I fyw wrthynt yn waſtadol.
A chyf'rwydda â'th lân Yſpryd,
Fi reoli fy holl fywyd,
A'm holl eiriau, a'm hamcanion,
Yn ol d'wyllys a'th orch'mynion.
Arglwydd, ffrwyna fi rhag pechu,
Byth yn d'erbyn mwy ond hynny,
A rho bwer i mi'n waſtod,
Gael y trecha'n erbyn pechod.
Helpa fi ryfela yn erbyn
Y byd, a'r cnawd, a'r cythraul 'ſgymmun,
Fel y gallwyf gael y goron,
A gorchfygu fy ngelynion.
Taena droſw'i d'adain raſol,
Cudd fi dani yn waſtadol: *Sal.* 17.8.
N'ad un gelyn wneuthur niwaid,
Mewn un modd i'm corph na'm henaid.
Cadw fi rhag cwrp a thramgwydd,
C'wilydd, colled, anhap, aflwydd,
Nychdod, niweid a'r fath hynny,
Os bydd d'wyllys yn cenhadu.
Nertha fi â'th Yſpryd ſanctaidd, 1 *Theſ.* 4.11.
Dreulio'r dydd hwn yn griſt'nogaidd,
Trwy gymmeryd poen i'm galwad
I'th was'naethu'n brudd yn waſtad.
Pâr im' dreulio'r dydd preſennol
Mor ddeallus ac mor ddeddfol;
A phe gwypwn ar y ſicraf
Mai'r dydd hwn yw'r dydd diweddaf.
N'ad fi oedi gwella muchedd,
O ddydd i ddydd hyd at fy niwedd;

Ond tra heddyw byth yn para, *Heb.*3.7,8.
Pâr yn ddyfal i mi wella. *Preg.*1.2.
N'ad i'r cnawd rhyfygus enbaid,
Beri i mi ddamnio'r enaid,
A'i roi boeni yn drag'wyddol,
Am dippyn bach o blefer cnawdol.
N'ad i wagedd y byd yma,
'Rhwn fel llwyd-rew a ddiflanna,
Beri im' golli gwir lawenydd,
A mawr fraint y byd na dderfydd.
Tra fo'r dydd a'r goleu'n para, *Ioan* 12.35.
Pâr im' weithio ar yr eitha',
Y peth a berthyn at fy † iechyd, † *Iechydwriaeth.*
Rhag i'r nos fy ngorddiweddyd.
Pâr im' fod bob awr yn barod,
Ag *oil* i'm lamp, a'm goleu'n gwarchod,
* Dwad Crift i'm gwawdd i'r neithior, * *Dyfodiad.*
Tra fo'r nef a'r porth yn agor.
Pan b'wyf ficraf yn y carn,
Pâr im' feddwl am dy farn,
A'r dydd dû y gorfydd atteb,
Ar y bar am bob ffolineb.
Gwna im' feddwl am y cyfri'
Orfydd arnom bawb ei roddi,
Am y pechod lleia' wneler,
Hyd yn oed ein geiriau ofer. *Mat.*12.36.
Croefa'n awr i maes o'th lyfyr,
Yr holl frynti fum i'n wneuthur,
Ac na thafla yn fy nannedd,
Ddydd y farn o'm cas anwiredd.
Maddeu'n awr yr holl dalentau,
S'arna'i o ddyled yn dy lyfrau;
A llwyr *flotta* â gwaed Iefu,
Yr hatling eithaf f'arna'i dalu.
Gwedi maddeu'r cwbl yma,
Nertha fi ddiweddu 'ngyrfa,
Fel y gallo f'enaid orphwys,
Gyd â Chrift yn lân baradwys.
Lle caf gyd â'r holl angylion,
A llu'r nef heb § *ddowt* nac ofon, § *Amheu.*

Dy foliannu trwy lawenydd, *Sal.*16.11.
Mewn dedwyddwch yn dragywydd.

XXXIII. *Rhybudd i ymgadw tra fo'r dydd, rhag rhuthrau'r byd, y cnawd, a'r cythraul, ac i wiſgo ac arferu arfogaeth Duw yn eu herbyn.*

YN y man yn ol it' godi,
Cofia fod tri gelyn i ti,
Rhai amcanant dy andwyo,
Oni ymgedwi rhag dy dwyllo.
Mae'r un gwanna' o'n gelynion,
Yn gan cryfach nag un criſtion,
Oni chawn ni gan Griſt Ieſu,
Nerth ac arfau i'w gorchfygu.
Llef gan hynny ar dy Brynwr,
Dy || ffwrneiſio megis milwr, || *Arwiſgo.*
A'i arfogaeth, ac â chalon,
I orchfygu dy elynion.

XXXIV. *Yr arfogaeth yſprydol, a ddylai pob gwir griſtion ei gwiſgo a'i harferu.*

GWISG dy ben â helm criſt'nogaeth,
Gobaith cryf am iechydwriaeth,
N'ad i'r ſarph na'r diawl dy glwyfo,
Ar dy ben trwy anobeithio.
Gwiſg gyfiawnder am dy ddwyfron,
Ni all diawl â dwbwl canon,
Wneuthur byth na drwg na niwed,
I'r rhai wiſgo'r cyfryw gorſled.
Rhwym dy galon â gwirionedd, *Eph.*6.14.
Na ragrithia yn dy fuchedd,
Hardd, a chryf, a chryno odiaeth,
Ydyw gwregys gwir diragraith.
Gwiſg dy draed â 'ſgidiau'r 'fengyl,
Bydd ddioddefgar ymhob treigyl;
Can's trwy oddef llawer trallod,
Y mae myn'd i lys y Drindod. 14.22.
Cymmer ſywiol ffydd yn ſwcler,
Derbyn frath a ſaethau'r wiber;

Bywiol ffydd yng Nghrist a all,
Ddiffodd tanllyd saethau'r fall.

Cymmer awchlym gleddau'r Yspryd,
Grymmus air y 'sgrythur hyfryd;
Dyna'r cleddyf llym ei lafan,
Sy'n rhoi ffwyl a chlwyf i satan.

Cadw arfau Duw yn wastad,
Cymmain' un bob awr am danad;
N'ad un pryd dy ddala hebddyn',
Rhag dy glwyfo gan y gelyn.

A gweddia ar y Drindod,
Am gael grym a gras i orfod;
Y tri gelyn hyn yn wastad,
I was'naethu Duw yn d'alwad.

Os cwrdd satan â ni'n noethion,
Heb arfogaeth Duw am danon;
Mae e'n chwarae'n doft â hwnnw,
Sydd heb armwr ganddo i'w gadw.

Os bydd pen heb helmet ddilys,
*Brest* heb bais, na lwyn heb wregys,
Troed heb esgid, llaw heb gleddeu,
Y sarph a'n clwyfa, gwnawn ein goreu.

Bydd gan hynny megis milwr,
Yn dy gylch bob awr â'th armwr,
Ymhob man yn dyfal wylio,
Rhag i'r gelyn dy anrheithio.

XXXV. *Rhybudd i ddyn ymgadw ymhob lle rhag rhwydau satan.*

PAN yr elech gyntaf allan,
Gochel ddirgel rwydau satan,
'Rhwn sy'n ceisio dy fachellu,
Ar bob cam a'th hela i bechu.

Mae e'n fawr ei lid a'i hocced,
Mwy ei dwyll nâ'i rym, er cryfed;
Mae fel llew yn troi o bob tu,
Ddydd a nos yn ceisio'n llyngcu.

Hocced sarph, llidiawgrwydd gwiber,
Cryfder llew, ffyrnigrwydd teiger,

Awydd blaidd, bradwriaeth cadno,
Sydd gan ſatan lle tramwyo.
  Nid yw'n cyſgu, nid yw'n gorphwys,
Nos na dydd er pan y cwympwys;
Ond amcanu lladd a mwrddro,
Am ei chwyth pwy bynnag allo.
  Bydd gan hynny ar dy ochel,
Ymhob man rhag rhwyd y cythraul,
Cais gan Griſt bob awr dy helpu,
Criſt a'th nertha i'w orchfygu.

XXXVI. *Gweddi yn erbyn temtiad a rhuthrau ſatan.*

PORTHOR mawr y pwll diwaelod,
  Ceidwad dryſau uffern iſod,
Rhwymwr ſatan, llyngcwr angeu,
Clyw fy ngwaedd o'th nefol artre'.
  Y mae ſatan 'rhwn orchfygaiſt,
A'r ddraig waedlyd 'rhon a rwymaiſt,
Yn amcanu fy andwyo,
Oni chaf dy help i'w ffrwyno.
  Mae ef nos a dydd heb gyſgu, 1 *Pedr* 4.8.
Megis llew yn ceiſio'm llyngcu,
Ac yn barod i'm *deſowro*,
Oni chedwi di fi rhagddo.
  Mae e'n taenu ei groglathau,
Ddydd a nos ar draws fy llwybrau;
Nid oes llun na ſyrthiwyf ynddynt,
Oni chedwi di fi rhagddynt.
  Nid oes afal teg gwa'rddedig,
Na bo beunydd yn ei gynnyg;
Nac un pechod na bo'n ceiſio
Gennyf wneuthur i'th lwyr ddigio.
  Nid oes twrn da f'wy'n amcanu,
Na bo'r ddraig yn ceiſio ei nadu,
Ac yn dyor yn rhy fynych,
Y gwaith goreu f'wy'n ei chwennych.
  Ni chaf fwytta pryd o fara,
Ni chaf gyſgu mewn eſmwythdra,
Ni chaf yfed dracht o ddiod,
Na bo e'n ceiſio ei droi yn bechod.

Ni chaf ddywedyd gair o'm genau,
Na gweddio ar fy ngliniau,
Na bo ſatan yn amcanu,
Wrth weddio, beri im' bechu.

Pan bo mwya' chwant fy nghalon,
I'th was'naethu (Criſt) yn ffyddlon,
Dyna'r pryd y cais fy rhwyſtro,
A'r holl ddichell a fo gantho.

A phe b'ait ti'n gadael iddo,
Redeg arnaf heb ei ffrwyno,
Gwn na byddai well fy nhreigil,
Nag oedd dien Job a'i eppil.

Arglwydd, gwel ei waedlyd fwriad,
Tola ei falchder, tor ei ruad;
Rhwym ei ferr, byrha ei gadwyn,
Siga ei ſiol, a ſtoppa ei wenwyn.

Tydi Griſt ſy'n rhwymo'r wiber,
Ti ſy â'r gadwyn am ei ddwyfer: *Luc* 11.22.
Tydi 'ſpeiliodd o'i holl arfau;
Tydi gadwodd ein heneidiau.

Gwiſg dy armwr oll am danom,
Dod dy rymmus Yſpryd ynom;
Dyſg ein dwylaw i ryfela,
N'ad i'th weiſion gael y gwaetha'.

N'ad, O Griſt, i'r ſarph ein twyllo,
N'ad i'r wiber ein handwyo;
N'ad i'r llew ein lladd na'n llyngcu,
N'ad i'r gelyn ein gorchfygu.

Gwan y'm ni, a chryf yw ynte',
Can mil cryfach Criſt wyt titheu;
Nertha'n gwendid trwy dy gryfdwr,
I orchfygu ein gwrth'nebwr.

Call yw'r ſarph, a dwl y'm ninnau,
Doeth yw'r ddraig, a llawn bachellau;
Oni helpu di ni'n Prynwr,
Aiff dy bridwerth gan y bradwr.

Gwna ni'n ddoeth i wel'd ei rwydau,
Ffel i och'lyd ei groglathau;
Cryf i wrthladd ei ddichellion,
Call i wrthod ei gynnygion.

Arglwydd, edrych ar dy weiſion,
Nertha'th frodyr gael y goron;
Helpa bawb ſydd dan dy faner
Ddwyn eu croes, a throedio'r wiber.

XXXVII. *Cynghorion yn erbyn profedigaethau ſatan.*

OS promeiſia ſatan i ti,
Dai a thiroedd am ei 'ddoli,
Dywaid nad oes troedfedd fechan,
Ond pwll uffern gantho ei hunan.

Os bydd ſatan yn dy annog,
I halogi gwraig cymmydog: *Heb.*13.4.
Dywaid fod dialau'n barod, *Dat.*21.8.
A barn Duw am gyfryw bechod.

Os cais ſatan gennyt feddwi,
A *charowſio* gwin yn wiſgi;
Dywaid yr â'r holl rai meddwon, 1*Cor.*6.9,10.
Ddydd y farn i'r tân a'r brimſton.

Os cais ſatan gennyt dyngu
Cig a gwaed yr Arglwydd Ieſu; *Zec.*5.2--4.
Dywaid nad oes unrhyw bechod,
Waeth nâ chablu gwaed y cymmod. *Heb.*10.29.

Os cais ſatan gennyt dreiſio
Y rhai tlodion a'u handwyo; *Ecſ.*22.22--24.
Dywaid nad gwaeth pigo llygaid, *Diar.*22.22,23.
Criſt ei hun na threiſio ymddifaid.

Os cais gennyt wneuthur ffalſtedd,
Ac udoniaeth ac anwiredd;
Dywaid fod Duw'r barnwr cyſion *Mal.*3.5.
Yn eu printio ar dy galon. *Jer.*17.1.

Os cais gennyt mewn dirgelwch
Weithio gweithred y tywyllwch; *Job.*34.21,22.
Dywaid fod Duw â ſaith lygad,
Ymhob man yn edrych arnad.

Os cais ſatan gennyt gablu
Dy gyd-griſtion gwedi 'nafu;
Mae e'n ceiſio megis bradwr, *Diar.*17.5.
Gennyt gablu dy Greawdwr.

Os cais gennyt ddywedyd celwydd,
Mae'n amcanu yn ddig'wilydd,
Ladd a dwyn dy enaid gwirion, *Dat.* 21. 8.
I'r pwll poeth a'r tân a'r brimſton.

Os cais gennyt wan-obeithio
Am drugaredd, er *repento*;
Mae'n ei fryd dy ddwyn i'r deyrnas
Yr aeth Cain, a Saul, a Suddas.

Os cais ſatan gas dy rwyſtro
I dŷ Dduw, y mae'n dymuno
Dy droi maes o'r nef yn ddirgel,
Eiſiau addoli Duw'n ei demel.

Os cais gennyt droi dy wegil,
Pan pregethir yr efengyl; *Rhuf.* 1. 16.
Mae e'n ceiſio dy ddehoryd
Rhag cael profi pren y bywyd.

Os cais ſatan gennyt gyſgu
Yn yr eglwys wrth was'naethu;
Mae e'n ceiſio gennyt ‖ foccian ‖ *Gwatwor.*
Duw'n ei lys a'i dŷ ei hunan.

Gochel gyſgu wrth weddio,
Gwaeth nâ'r diawl yw'r dyn a foccio
Dduw'n ei demel, ar awr weddi,
Ar ei lin yn rhith addoli.

Os cais gennyt fynych arfer
Oedi bwytta'r ſanctaidd ſwpper;
Wrth dy ddyor i'r *communiwn*,
Mae'n dwyn ymaith ſel dy bardwn.

Os cais gennyt lwyr anghofio
'R 'fengyl ſanctaidd gwedi gwrando;
Mae e'n ceiſio dwyn o'th galon,
Had y gair a'th wnelai'n griſtion. *Luc* 8. 12.

Os caiff gennyt fod yn foddlon
Ddwyn heb ſylw enw criſtion,
Fe wna felly yn ddiogel,
Was i Griſt, yn was i gythraul.

Os cais gennyt ti broffeſo *Iago* 2. 14, 17.
Ffydd heb weithred yn cydweithio;
Mae'n dy dwyllo trwy ffydd farw,
Dryſto'r ffydd ni all dy gadw.

Os cais gennyt ti ddihirio,
Edifeirwch nes ymado;
Mae'n dy rwyſtro geiſio ffafar *Preg.* 9. 10.
Duw, nes elo'i'n rhy ddiweddar.

Ni ad ſatan unrhyw bechod,
Nad amcana gael dy orfod;
Ni ad garreg heb ei threiglo,
Nes y paro it' dramgwyddo.

Bydd bob amſer ar dy ochel, 2 *Cor.* 2. 11.
Nos a dydd y rhodia'r cythraul;
Nid oes man nad yw e'n tannu
Ei groglathau i'n bachellu.

Yn yr eglwys, yn y berllan,
Yn y ſiop, ac oddi allan,
Ar y ford, ac yn y gwely,
Y cais ſatan dy fachellu.

Bydd gan hynny megis milwr,
Yn dy gylch bob awr â'th armwr,
Ymhob man yn dyfal wilio,
Rhag i ſatan dy andwyo.

XXXVIII. *Rhybudd i ochelyd rhwydau ſatan ymhob oedran.*

GWAE'r dyn fyddo gwyllt yn blentyn,
Glwth yn llangc, a charl yn gleirchyn,
Hwnnw dreuliodd ei holl oedran,
Ymhob oes wrth 'wyllys ſatan.

Gochel, f'enaid, rwydau ſatan
I'th fachellu ymhob oedran:
Ar bob llwybr fe amcana,
A rhyw groglath gael dy ddala.

Yn dy ie'ngctid fe gais gennyd
Dreulio d'amſer yn ddibroffid,
Mewn pibiaeth ac oferedd,
Heb na dyſg, na dawn, na rhinwedd.

Yn d'wroldeb fe braw'th dynnu,
I garowſio a gordderchu,
Ac i nurddo dy lân leſter,
A thrythyllwch a diffeithder.

Yn dy henaint fe braw'th rwyſtro
Droi at Dduw trwy wir *repento*;
Ac fe dry dy fryd yn benna',
At fydolrwydd a chybydd-dra.

Prawf gan hynny ymhob oedran,
Lwyr ymgadw rhag twyll ſatan,
'Rhwn a gais dy gyfrgolli,
Trwy'r peth mwya' f'ech yn hoffi.

XXXIX. *Cyngor i weddio ar bob achos, &c.*

[Er fod yn hwn bennillion, yr un ag "Am weddi a'i pherthynaſau," gan eu bod mor briodol, a S. H. yn athro, ni a'u cyfleuaſom.]

ER fy mendith nac anghofia,
Dair gwaith beunydd ar y lleia',
Brudd weddio ar dy ddau-lin,
O flaen Duw dy dad a'th frenin. *Sal*.55.17.

Cyn myn'd allan y boreu-ddydd,
Cyn ciniawa y canol-ddydd,
Cyn ſwpperu; O gweddia
'R tri phryd hyn yn ddi'ſgeuluſdra.

Cod dy ddwylo i weddio,
Cyn goſtyngech law i weithio;
Cais gan Dduw fendithio d'orchwyl,
Cyn y delych yn ei gyfyl.

Ac wrth wneuthur dy orchwylion, 1 *Theſ*.5.19.
Arfer brudd weddiau byrrion:
A bydd eiriol yn dy weddi,
Ar i Dduw roi cymmorth i ti.

Os bydd trwm-waith a ffrwſt arnad,
Os bydd trafferth ar ddydd marchnad,
Gwybydd, f'enaid, y gwna gweddi
Fwy o les nâ rhwyſtr i ti.

Er bod *buſnes* fawr gan Ddaniel,
Yn y cwrt dan frenin Babel,
Tair-gwaith beunydd y gweddiai *Dan*.6.10.
Yn ei 'ſtafell ar ei liniau.

Er bod Dafydd yn rhyfelwr,
Ac mewn trafferth mwy nag un-gwr;

Etto er hynny, ſaith waith beunydd, *Sal.*119.164.
Y gweddiai'r brenin Dafydd.

Joſua rymmus a weddiai
Yn y frwydr, ac ymladdai;
'Roedd â'i galon yn gweddio, *Joſ.*10.12--14.
Ac yn ymladd â'i ddwy-ddwylo.

Nid oedd gweddi rhai'n yn rhwyſtyr,
Ar un gorchwyl f'aent yn wneuthur;
Ond rhwyddhau a llwyr fendithio
Pob rhyw waith a wnelai'u dwylo.

Arfer ditheu weddi hyfryd,
Ymhob gorchwyl a f'o gennyd;
Di gei weled y gwna gweddi
Rwydd-deb mawr a chomffordd i ti.

Fe all dyn weithio ei gelfyddyd,
A gweddio'n ddyfal hefyd:
Ni chais gweddi'r galon rwyſtro,
Hynt y traed, na gwaith y dwylo.

F'all yr hwſmon, f'all y geilwad,
Alw ar Dduw a dala'r arad',
Fel y gallant dd'wedyd ffregod,
Wrth yr ychen a'r 'nifeilod.

F'all trafaelwyr ganu ſalmau,
A gweddio ar ei ſiwrnai,
Fel y gallant ganu maſwedd,
A chwedleua am oferedd.

F'all y cryddion, f'all y taelwyr,
Foli Duw a chwarae'r crefftwyr;
Gan roi eu breichiau i ddyfal weithio,
A'u calonnau i weddio.

F'all y gwragedd hen wrth nyddu,
F'all y merched wrth ſidanu,
F'all pawb ddilyn eu celfyddyd,
A gweddio'n ddyfal hefyd.

F'allai Moeſen wrth ſiwrneia, *Ecſ.*14.15.
F'allai Joſua wrth ryfela, *Joſ.*10.12.
Criſt wrth ymdaith, Paul wrth forio, *Marc* 1.55.
*Dendio* eu *buſnes* a gweddio. *Act.*27.35.

Nid oes dim a ddylai rwyſtro
Dyn 'wyllyſgar i weddio,

Ac i weithio'i orchwyl hefyd,
Pa ryw bynnag fo'i gelfyddyd.

Crist sy'n erchi bawb weddio, *Luc* 18.2.
Ar bob amser heb ddiffygio,
A sant Paul sy'n erchi i ni, 1 *Tim*. 2.1.
Ymhob man ymarfer gweddi.

Yn ein trallod, yn ein gwynfyd,
Yn ein nychdod, yn ein hiechyd,
Y mae i ni brudd weddio,
Ymha gyflwr y b'om ynddo.

Ar y moroedd, ar y mynydd,
Yn ein teiau, ar y maesydd, 1 *Tim*. 2.8.
Y dirperai in' weddio,
Ymha fan y b'om ni ynddo.

Gyd â Phedr yn ein lletty, *Act*. 18.9.
Gyd â Dafydd yn ein gwely, *Sal*. 63.6.
Gyd â Daniel yn ein trallod, *Dan*. 6.10.
Y mae in' weddio'n wastod.

Gyd â Moesen ar y mynydd, *Ecs*. 27.11,12.
Gyd ag Isaac ar y maesydd, *Gen*. 24.63.
Gyd â Ioan yn yr eglwys, *Act*. 3.1.
Y mae gweddi yn dra chymmwys.

Ymhob man ac ar bob amser,
Y mae gweddi yn ei thymmer,
Os y galon a fydd parod, *Jer*. 29.13.
I weddio ar y Drindod.

XL. *Cyngor duwiol i bob gradd i'w ddilyn cyn myned at eu gorchwylion.*

CYN yr elych i'r drws allan,
At un gorchwyl mawr na bychan,
Cais gan Dduw dy brudd fendithio,
A rhoi rhad ar waith dy ddwylo.

Duw sy'n rhoddi rhad a llwyddiant,
Duw sy'n danfon ffawd a ffyniant,
Lle'i cyfarcher fe ry fendith,
Lle'i anghofier fe ddaw'r felldith.

Cais ei Yspryd i'th gyf'rwyddo,
Cais ei ras i'th gynnorthwyo,

Cais ei fendith ar bob gweithred,
Felly daw it' rad o'i barthed.
 Dechreu'r gwaith yn enw'r Iesu, *1 Cor.*10.31.
Cais ei gyfnerth i ddibennu,
Yn ei ddiwedd cais ei ogoniant,
Felly cei o'th weithred ffyniant.
 Fel y llwyddodd Duw orchwylion
Joseph gynt a Daniel ffyddlon,
Felly llwydda d'orchwyl ditheu,
Os gweddii arno'n ddieu.
 Oni wnei dy weddi'n addas,
Di gei adail bwth fel Jonas;
A physgotta megis Peder,
Ac heb ddala dim un amser. *Luc* 5.5.
 Di gei dwttan a thrafaelu,
Ac ymrwyfan a thrafferthu,
Ddydd a nos, a phoeni'n ofer,
Heb fod dim yn well un amser.
 Ofer codi ar y wawr-ddydd,
Ofer bwytta bara cystudd,
Ofer gwilio hir nos gaua',
Os yr Arglwydd ni'n bendithia.
 Ofer adail teiau newydd,
Ofer cadw caerau trefydd,
Ofer poeni trwy rymmustra,
Os yr Arglwydd ni chyd-weithia.
 Rhag i'th lafur fyn'd yn ofer,
O gweddia'n brudd bob amser,
Ar i'r Arglwydd dy fendithio,
Felly ffynna gwaith dy ddwylo.

XLI. *Cyngor i'r hwsmon neu'r llafurwr.*

CYN rhoi llaw ar gorn yr arad',
 Cod dy ddwylo, ti a'th eilwad,
At Dduw mawr am dy fendithio,
A rhoi rhad ar waith dy ddwylo.
 Ofer hau a 'redig llawer,
Ofer llyfnu'r maint a hauer,
Oni ddyry Duw ei fendith,
Dan y gwys y pydra'r gwenith.

Dyn ſy'n hau, a Duw ſy'n hadu, *Sal.* 104. 14.
Duw ſy'n peri'r llafur dyfu,
A dwyn ffrwythau ar ei ganfed,
I'r ſawl ſy ynddo yn ymddiried.

'Run a geiſio ffrwyth o'r ddaear,
Rhad a llwyddiant ar ei heinar,
Prudd weddied ar yr Arglwydd,
Fe gaiff lwyddiant heb ddim aflwydd.

Gwell yw gweddi gyd ag oged,
I gael llafur ar ei ganfed,
Na chwech aradr ac ogedi,
Lle na byddo ſon am weddi.

Fe gai Iſaac wrth fyfyried, *Gen.* 26. 12.
Lafur gan Dduw ar ei ganfed;
Pan b'ai eraill heb weddio,
Prin yn cael y chwechfed ganddo.

O gweddia dithau'r hwſmon,
Ar dy Dduw o ddyfnder calon,
Am roi rhad ar waith dy ddwylo,
Felly cei di ddigon ganddo.

## XLII. *Gweddi yr hwſmon.*

LLUNIWR daear, Helpwr dynion,
Awdwr hadau'r ddaear ffrwythlon,
Rhoddwr gwlaw, Cynhuddwr llafur,
Gwrando weddi hwſmon pryſur.

'Rwyf fi'n myn'd i drin y ddaear,
Ac i hau yn hon fy heinar,
Heb gael gweled mwy mo hono,
Oni roi dy fendith arno.

Arglwydd, ofer ydyw plannu,
Hau yn gyngan a gorlyfnu,
Oni pheri di 'ddo egino,
A rhoi rhad a chynnydd arno.

Ni ddaw hedyn byth trwy'r ddaear,
O'r maint oll ſy genny' o heinar,
Oni pheri di 'ddo darddu,
Tyfu allan a chynhyddu.

'Rwy' gan hynny'n *begio*'n bryſur,
Duw, dy fendith ar fy llafur,

Fel y gallwyf gael oddi wrtho,
Fodd fel Criſtion i'm *maintaino.*

Agor im' ffeneſtri'r nefoedd,
Gwlawia fendith ar fy nhiroedd;
Portha'r had â braſder daear,
A rho lwyddiant ar fy heinar.

Na ad i'r nefoedd fyn'd yn bres,
Na'r ddae'r yn harn rhag gormod gwres, *Lef.*26.3,
Na'd i'r maeſydd mawrion fethu, &c.
Am ein lleſgedd yn d'was'naethu.

Rho wrth feſur y gwlaw cynnar
Yn ei bryd, a'r gwlaw diweddar,
Hinon dempraidd, gwres cymhedrol,
Rhad a llwyddiant ar dy bobol.

Gw'ardd y locuſt, gw'ardd y lindys,
Gw'ardd y gwlith ſy'n brychu'r barlys, *Amos* 4.9.
Gw'ardd y gwres, y gwynt, a'r llyched,
Sydd yn peri i'r llafur niwed.

Corona'r flwyddyn â daioni,
Tywallt fraſder dy rad arni,
Gwiſg y dolydd oll â defaid,
A'n mynyddoedd â 'nifeiliaid.

Dyro ymborth i blant dynion,
Dyro wellt i'r 'ſgrubliaid mudion;
Dyro win ac olew'n helaeth,
I ddiwallu d'etifeddiaeth.

Dyro in' gynhauaf ffrwythlawn,
Rhad o'r maeſydd ac o'r fiſgawn,
Had o'r ardd, a ffrwyth o'r berllan,
Mel o'r graig, a llaeth o'r gorlan.

A bendithia waith ein dwylo,
Arglwydd graſol, byth tra gantho,
Felly ni'th fendithiwn dithau,
Ar ein daulin nos a borau.

XLIII. *Cyngor i'r trafaelwr.*

CYN y dodech droed mewn gwarthol,
Fyn'd i ſiwrneu angengrheidiol,
Cais gan Dduw fendithio'r ſiwrnai,
A'th ddwyn eilwaith yn iach adre'.

Cais ei angel i'th gyf'rwyddo,
Cais ei adain i'th *brotecto*;
Cais ei fendith ar dy ſiwrnai,
Fe rwyddha dy holl negeſau.

Fel yr helodd Duw ei angel
Gyd â Thobi yn ei drafael,
Felly hel ef heddyw, heno,
Help i bawb a alwant arno. *Sal.*50.15.

Dyſg gan was y Patriarc goreu,
Alw ar Dduw wrth fyn'd i'th ſiwrnai,
Am fendithio dy amcanion, *Gen.*24.12.
Di gei ffawd wrth fodd dy galon.

Oni cheiſi ar dy liniau,
Gan Fab Duw rwyddhau dy ſiwrnai,
Cei drafaelu ar yr ormes,
A dyfod adre' heb dy neges.

Gwell yw gweddi i drafaelwr,
Nag yw'r gwin yn amſer ſychdwr:
Gwell nâ chaſtell rhag y lluched,
Gwell nâ dim rhag pob drwg dynged.

Gwell yw gweddi i'th amddiffyn,
Wrth ſiwrneia, rhag y gelyn,
Nag un cleddyf dûr na phiſtol,
Carnau meirch, nâ mil o bobol.

O gweddia ditheu'n waſtod,
Wrth ſiwrneia at y Drindod,
Ac fe ddyry ei angylion,
I'th rwyddhau wrth fodd dy galon.

## XLIV. *Gweddi trafaelwr.*

HELPWR pob trafaelwr ofnus,
Ceidwad cryf pob gwan gofidus,
Gwrando'n raſol o'th orſeddfa,
Waedd trafaelwr wrth ſiwrneia.

Arglwydd, mae'n rhaid im' drafaelu,
I wlad bell nad wy'n ei medru,
Ac ni wn a ddof mwy adre',
Oni lwyddi di fy ſiwrnai.

Tydi, Arglwydd, ſydd yn llywio
Y byd hwn a'r maint ſydd ynddo, *Rhuf.*11.36.

Fel na ddigwydd ond a fynnech,
I'r rhai anwyl ag a garech.
'Rwy' gan hynny'n deisyf arnad,
O'th drugaredd ac o'th gariad,
Roi im' fwydd-deb yn fy siwrnai,
A'm dwyn yn holl iach lawen adre'.
Danfon d'angel i'm cyf'rwyddo,
I'm comfforddi a'm protecto,
I'm rhwyddhau yn fy negesau,
A'm dwyn eilchwaith yn iach adre'.
Tanna droswy' d'aden rasol,
Cudd fi dani yn waltadol,
N'ad un gelyn wneuthur niwed,
Ar y ffordd i'm corph na'm henaid.
Danfon Raphael dy anwyl-was,
I'm rhwyddhau a'm dwyn o gwmpas,
Fel yr helaist gyd â Thobi,
I'w rwyddhau o bob clamwri.
Bydd o'm blaen fel niwl y boreu,
Bydd y nos fel tanllwyth oleu, *Ecs.* 13.21,22.
I'm cyf'rwyddo, Crist dy hunan,
Megis Israel tu a Chanaan.
Di gyf'rwyddaist y gwyr doethion *Mat.* 2.1.
Gynt â'r seren i'r ffordd union;
O! cyf'rwydda felly finneu,
Nes fy nwyn i ben fy siwrnai.
Fel y cedwaist Dobi i'anga',
Rhag y pysg a fynnai'i ddifa,
Felly cadw finneu'n rasol
Rhag pob peryg' yn ddihangol.
Cadw fi rhag rhwydau satan,
A'i aelodau, pobl aflan;
A n'ad iddynt wneuthur niwed
Im', na ch'wilydd, stop, na cholled.
N'ad y * dwrw, n'ad y llyched,
N'ad y 'storom wneuthur niwed;
N'ad i'r follt na'r ddraig fy nrygu,
Nac un gormail fy ngorthrymmu.
Cadw fi rhag bradau lladron,
Peryg' dyfroedd, a drwg ddynion;

* *Taranau.*

Lletty anwir, bwydydd afiach,
Rhwyſtr ffordd, a drwg gyfeillach.
Cwyn fy nghalon, nertha f'yſpryd,
Rhwydda'm ffordd â'th gymmorth hyfryd,
Helpa 'ngheffyl, a'm cyfeillion;
Dwg ni dre' wrth fodd ein calon.
Rho di rwydd-deb yn ein *buſnes*,
Helpa bawb i gael eu neges,
Ag ſy â meddwl oneſt ganddo,
Fel y gallont dy fendithio.
Arglwydd, cadw ni rhag tramgwydd,
C'wilydd, colled, anhap, aflwydd,
Nychdod, niwed, croes, a dolur,
Colli'r ffordd a'r cyfryw rwyſtyr.
Arglwydd, dwg ni yn iach lawen,
At ein ffryns i dre' drachefen,
Fel y gallom dy glodfori,
Ddydd a nos am it' ein helpu.

## XLV. *Cyngor i'r milwr.*

CYN yr elych i ryfela,
Dros y goron, O! gweddia
Ar Dduw'r lluoedd am roi calon,
'Sgil a grym i'r milwr ffyddlon.
Duw ſy'n rhoddi grym a chryfdwr,
A chyf'rwydd-deb i bob milwr, *Sal.*144.1.
'Sgil i'r byſedd i ryfela,
Toſſo'r peic a thynnu'r bwa.
Duw y lluoedd ſydd ryfelwr, *Ecſ.*15.3.
Ac yn noddfa mewn cyfyngdwr:
Duw ſy'n rhoddi'r fuddugoliaeth;
Cais ei help, fe'i rhy yn helaeth.
Gwell yw gweddi mewn cyfyngdwr,
Wrth ryfela i bob ſawdiwr,
Nag un harnais i'w ymddiffyn;
Gwell nâ † glaif i glwyfo'r gelyn. † *Pladur.*
Mwy a laddodd dwylo Moeſen,
Wrth eu dyrcha tu a'r wybren, *Ecſ.*17.11.
Nag a laddodd cleddy' Joſua,
A holl Iſrael wrth ryfela.

Jonathan a'i weddi laddodd,
O'r Philiſtiaid fwy o filoedd, 1 *Sam.* 14.1
Nag a laddodd Saul â'r cleddau,
A'i ryfelwyr oll â'u harfau.

Chwyrnach ydoedd gweddi Dafydd, 1 *Sam.* 17
I droi'r cawr â'i dor i fynydd,
Nâ'r holl gerrig aeth o'i goden,
Er eu glynu yn ei dalcen.

Hen Elias heb ddim arfau, 2 *Bren.* 1
Ond ei weddi, a ddifethai
Ddau ben capten a'u cwmpeini;
Beth ſy gryfach nag yw gweddi?

Cryfach ydoedd gweddi Judith,
Nâ'r holl welydd cedyrn aruth',
I ymddiffyn tre' Bethulia,
Rhag Holophernes i'w ei difa.

Arfer ditheu brudd weddio,
Wrth ryfela â'th ddwy ddwylo,
Fel arferodd dewr-wych Joſua,
Di gei lwyddiant wrth ryfela.

Dod dy ddwylaw i filwrio,
Dod dy galon i weddio;
Di gei weled y gwna gweddi,
Fwy nâ dwylaw o ‖ wrhydri. ‖ *Gwrolder*

## XLVI. *Gweddi'r milwr.*

ARGLWYDD grymmus, Llywydd lluoedd,
Pen-rheolwr pob rhyfeloedd,
Unig Roddwr buddugoliaeth,
Gwrando 'ngweddi o'm milwriaeth.

'Ry'm ni yma ymhlaid y goron,
A'n prins, a'n gwlad, a'n da, a'n dynion,
Yn rhyfela â gwyr diras,
Sy'n amcanu treiſio'r deyrnas.

Duw, gw'radwydda eu hamcanion,
A'u bwriadau, a'u dichellion;
Tola eu balchder, tor eu cryfdwr,
Dofa eu hawch, goſtega eu cynnwr'.

Nertha ninnau, dy wael weiſion,
Chwarae'r gwyr ymhlaid y goron;

A rho i ni rym a gallu,
'w congcwero a'u gorchfygu.

Arglwydd grafol, cwyn ein calon,
Ymladd drofom â'n gelynion,
Gyr dy fraw a'th ofn arnynt,
Dyro ffwyl a gw'radwydd iddynt.

Er nad ydym yma ond gronyn,
'r fath nifer fydd i'n herbyn,
Etto 'ry'm yn ddigon grymmus,
Os tydi a fydd o'n hyftlys.

Arglwydd mawr, nid llai dy bwer,
Mewn ychydig nag mewn llawer: 1 *Sam.* 14. 11.
Os mewn gwendid 'rwyt fynychaf,
Yn mynegi d'allu mwyaf.

Peraift gynt i Gideon ddifa, *Barn.* 7. 6.
Ef â thrichant o'r gwyr gwanna',
Lu aneirif o'r Midianiaid
Oedd cyn amled â'r locuftiaid.

Jonathan a'i gludydd arfau,
Helodd filoedd i droi'u cefnau,
Pan y gyrraift ofn arnyn',
Pwy a feiddiai droi yn d'erbyn?

Rhoddaift rym i Samgar fraeni, *Barn.* 3. 31.
Chwe'chan wr, a'u lladd â'r ierthi,
Ac i Samfon ladd heb orphen *Barn.* 15. 15.
Fil o wyr â gên yr afen.

Di ddifethaift trwy law gwreigin,
Ben-tywyfog brenin Jabin;
Ac a wnaethoft i'r planedau *Barn.* 4. 21.
Ymladd drofto yn eu graddau. a 5. 20.

Gelli, Arglwydd mawr, os mynni,
Roi i ninnau rym a gallu,
Gorchfygu ein gelynion,
Er nad y'm ond milwyr gweinion.

Os tydi a fydd o'n hochor,
Nef a daear, dw'r a che'nfor,
Haul a lloer, a gwynt yftormus,
A ryfelant ar ein hyftlys.

Arglwydd mawr, os byddi o'n hyftlys,
Pe b'ai'r Twrc, a'r Pab, a'r 'Spanis,

A holl uffern yn ein herbyn,
Ni roem ddim o'r garrai erddyn'.
  Tydi'n unig fydd ryfelwr,
Gennyt ti mae 'fgil a chryfdwr;
Ti fydd roddwr buddugoliaeth,
Ti fy'n achub rhag marwolaeth.
  Ti fy'n peri rhyfel beidio,
Ti fy'n torri'r fper yn || yfflo; || *Yn ddarnau.*
Ti fy'n rhoddi'r march i gyfgu,
Ti yn unig fy'n gorchfygu.
  Dyro gomffordd i'n calonau,
Dyro gryfder yn ein breichiau;
Dyro 'fgil in' bawb ryfela,
Megis milwyr i'r Gorucha'.
  Gwna'r capteniaid megis Jofua,
Ymwroli i ryfela;
A bydd gyd â'r rhai'n dy hunan,
I gyf'rwyddo eu ‡ *plot* a'u hamcan. ‡ *Bwriad.*
  Dyro galon ymhob milwr,
Deall, dewrder, 'fgil a chryfdwr,
Gallu, 'wyllys, hyder eon,
I * *gonffronto* ein gelynion. * *Gwrthwynebu.*
  Dod d'angylion i'n caftellu,
Rhag pob gelyn tra ni'n cyfgu;
A dod lu o'th filwyr penna',
I'n cyfnerthu wrth ryfela.
  Bydd dy hun yn difgwyl arnom,
Ac yn llywio'r hyn a wnelom;
N'ad in' wneuthur yn wrth'nebus,
Ddim yn erbyn dy lân 'wyllys.
  Gwna ni'n gywir bawb i'n brenin,
Gwna ni'n ffyddlon i'r cyffredin,
Gwna ni'n ufudd i'n rheolwyr,
A heddychlon â'n lletteuwyr.
  Gwna ni'n foddlon bawb i'n cyflog, *Luc* 3.14.
N'ad in' 'fpeilio un cymmydog,
Na gormeilio mawr na bychan;
Ond byw'n weddus yn dy ofan.
  N'ad in' ddilyn afreolaeth,
Na chynhennu mewn cwmp'niaeth,

Nac ymdynnu â'n captenni,
Na byw'n aflan mewn drygioni.
 Na'd in' dreisio gwraig na morwyn,
Nac anrheithio un dyn addfwyn;
Rhag i'th lid gyfodi'n herbyn,
A'n troi bawb tan ddwylo'r gelyn.
 Gwna ni bawb ynghanol rhyfel,
Fyw fel pobl yn dy demel;
A f'ai bob yn awr yn galw
Am dy gymmorth i'w eu cadw.
 Lle'r y'm beunydd ymhyrth angeu,
Ar flaen *peics* a genau'r gynnau;
Pâr in' fyw bob awr yn d'ofan,
A throi heibio'n buchedd aflan.
 Ni ŵyr un pa awr, pa ennyd,
Y rhy gyfrif am ei fywyd,
Ger dy fron, O Farnwr cyfion:
Pâr in' fyw gan hynny'n union.
 Gwna ni'n barod ddwad attad,
Bob yr awr, O anwyl Geidwad:
Na'd in' fyw un awr mewn pechod,
Rhag ein cyrraedd yn amharod.
 Na'd in' wneuthur dim drygioni,
Nac un ‡ herc na allom roddi
* *Gownt* o'i phlegid heb g'wilyddio,
Ddydd y farn pan ddoir i || *appirio.*
 Arglwydd, achub ni dy weision,
A gw'radwydda ein gelynion:
Cadw ein brenin a'i frenhiniaeth,
A rho iddo'r fuddugoliaeth.

‡ *Gweithred ddrwg.*
* *Cyfrif.*
|| *Ymddangos.*

## XLVII. *Cyngor i'r porthmon.*

OS 'dwyt borthmon *dela*'n oneſt,
 Tâl yn gywir am a gefaiſt;
Cadw d'air, na thor addewid;
Gwell nag aur mewn côd yw *credid.*
 Na chais ddala'r tlawd wrth angen,
Na thrachwanta ormod fargen:
Na fargenna â charn lladron;
Ni ddaw rhad o ddim a feddon'.

Gochel brynu mawr yn echwyn,
Pawb ar air a werth yn 'fgymmun;
Prynu'n echwyn a wna i borthmon
Ado'r wlad a myn'd i 'Werddon.
  Gochel dwyllo dy fargenwyr, 1 *Thef*.4.6.
Duw fydd Farnwr ar y twyllwyr;
Pe dihangit tu hwnt i 'Werddon,
Duw fyn ddial twyll y porthmon.
  Byth ni roftia un o'r twyllwyr, *Diar*.12.27.
'Rhyn a heliant, medd y 'fgrythur;
Ni ddaw twyll i neb yn ennill,
Fe red ymaith fel trwy'r rhidyll.
  Gochel feddwi wrth borthmonna,
Gwin hel borthmon i gardotta;
Os y porthmon a fydd meddw,
F'a'r holl *ftoc* i brynu'r cwrw.
  Dela'n union, carca d'enaid;
Na ddiflanna â dâ'r gwirioniaid:
Pe diflannit i'r § *Low Countries*, § *Holand, &c.*
Dial Duw a fyn d'orddiwes.

## XLVIII. *Cyngor cyn myned i garu.*

PAN yr elech gynta' i garu,
Galw ar Dduw os myn di ffynnu; *Gen*.24.7.
Cais ei Yfpryd i'th gyf'rwyddo,
Hebddo nid oes lun it' lwyddo.
  Rhodd arbennig oddiwrth Dduw, *Diar*.19.4.
Yw gwraig rafol, weddaidd, wiw;
Rhodd na chaiff pob rhai o honi,
Ond y fawl a fo'n ei ofni. *Preg*.7.26.
  Cais gan d'Arglwydd hyn o rodd,
Di gei *fatfio* wrth dy fodd;
Cais ei nerth, a'i help, a'i gyngor,
Di gei bob rhai ar dy ochor.
  Ymddaroftwng i'th rieni, *Col*.3.20.
Cyn y ceifiech briod i ti;
Cais eu h'wyllys mewn modd addas,
Felly ffynna dy briodas.
  Fe fyn Duw it' ymgynghori *Gen*.28.1,2.
A'th dad, a'th fam, cyn it' briodi;

Ac ymfatſio'n ol eu h'wyllys,
Tra na cheiſiont *fats* anweddus.

Ni fyn Duw i'th dad dy fwrw,
Lle na byddo Duw'n dy alw;
Lle na allo'r galon hoffi,
Lle na bo cyfaddas i ti.

Os llawn o ras, os glân o ryw,
Os pur o gorph, a modd i fyw,
Os mwyn, os doeth, os da yw'r ferch,
Lle galwodd Duw di rho dy ſerch.

Mae'r tad a'r fam yn rhwym i'th helpio,
Mae'n erbyn Duw i'r rhai'n dy rwyſtro; *Barn.*14.4,5.
Cyffroi'r yſpryd a wna hynny, *Col.*3.21.
A themtio'r cnawd i odinebu. 1*Cor.*7.9.

Na ddigia'th dad os bydd lle i beidio,
Ymhob peth gweddus goſtwng iddo;
Cais ei gyſnerth yn barchedig,
Cais yn fwyn, fe ddyry'n ddiddig.

Cais wraig dduwiol o'r iawn ffydd,
O grefydd Criſt, heb nâg, heb ‖ nydd; ‖*Gyndynrwydd.*
Mewn un gwely byth ni chydfydd, 2*Cor.*6,14.
Gwr a gwraig o amryw grefydd.

Cais wraig ddiwair o rieni,
Rhyw a ymluſg i ddrygioni:
Oni cheidw Duw rhag nam, *Ezec.*16.14.
Fe dripia'r ferch lle tripio'r fam.

Cais wraig hygar, gryno, g'ruaidd;
Na *ffanſia* forwyn ffiaidd:
Triſt ac oer, a dof, a diflas,
A fydd cariad at un atgas.

Cais wraig ddiſtaw, dda ei nhwydau,
Ddof ei nhatur, bach ei chwedlau;
Gwaeth nâ defni, gwaeth nag arthes, *Diar.*27.15.
Gwaeth nâ gwiber yw ſcoldies.

Cais wraig fedrus, ddoeth, rinweddol,
Honno'th gwyd yn ben i'th bobol; *Diar.*31.23.
Honno leinw dy gornelau,
Honno bair i'th galon chwarae.

Cais wraig hygar, a gwraig fedrus,
Cais un raſol a chyſurus;

Llom yw'r ford, ac oer yw'r gwely,
Lle bo'r wraig heb drefnu'r lletty.
Cais wraig weddus ar ei gwên,
Nid rhy ieuangc, nid rhy hên;
'Rhen rhy oer a'th ladd â'i phefwch,
A'r llall a bair it' aflonyddwch.
Cais un ufudd megis Sara,
Cais un ddifym fel Rebecca,
Cais un ferchog megis Rachel,
Cais un fedrus fel mam || Lemuel. || *Bernir mai Salomon oedd.*
Cais un rafol, hygar, hyfryd,
Syber, fanctaidd, lân ei bywyd;
Araf, weddus, dda ei hymddygiad,
Hi dâl fwy nâ chyfoeth tair-gwlad. *Diar.*11.16.
O gochel goegen falch ddifeder,
Gochel foga, fur, anfyber,
Gochel un oludog ffrom-ffol,
Honno'th flina di a'th bobol. *Diar.*21.19.
Gochel wraig rhy wen, rhy gynnes,
Hi fydd neidir yn dy fynwes;
Odid gweled, medd y frân,
Wraig rhy wen â chalon lân.
Na chais wraig â gwaddol lawer,
Ac heb fedru trin ei phwer:
Mwg a niwl, a llif yn treio,
Yw gwaddol mawr heb fedru' drinio.
Os bydd ond dwy it' gael dy ddewis,
Un yn fras, a'r llall yn fedrus:
Gad i fyn'd y fras ddifeder,
Cais y fedrus â'th holl bwer.
Y ddoeth a'r dda, a ddaw i ddigon,
O ddydd i ddydd hi wella ei dynion, *Diar.*31.10, &c.
Ni chwfg hi'r nos, ni phaid ei byfedd,
Nes cael cyfoeth ac anrhydedd.
Y ddol a fwrw ei thŷ i lawr,
A'r ddoeth a adail drefydd mawr, *Diar.*14.1.
Y ddol a bair i'w gwr och'neidio,
A'r ddoeth a ddwg anrhydedd iddo.
Y ffol ei phen a flina gawr,
Ac anrheithia'r gwaddol mawr,

Gan lwyr droi ei * phac yn ffardel,
Nes gw'radwyddo'r ffryns a'r gen'el.
 Archoll calon, baich aneſmwyth,
Defni dyfal, gwawd i'w thylwyth,
Iau yn gwaſgu, ſarph yn priccio,
Yw gwraig ddrwg, gwae'r gwr a'i caffo.
 Duw â'i Yſpryd a'th gyf'rwyddo,
I gael 'roreu a'th foddlono,
O ddawn, o dda, o ras, o ryw,
Wrth fodd dynion, wrth fodd Duw.

* *Gyrru llawer yn ychydig.*

## XLIX. *Canmoliaeth gwraig dda.*

GWELL bachgen doeth nâ brenin ynfyd, *Preg.*4.13
Gwell enw da nag ennaint hyfryd, *Preg.*7.1.
Gwell bwyll nag aur, gwell gras na grym,
Gwell dyn nâ dâ, gwell Duw nâ dim.
 Gwell igir doeth yn ofni Duw,
A 'chydig bach o fodd i fyw, *Diar.*15.16.
Nâ'r ddol ddiddawn o gene'l grin,
A thryſor mawr heb fedru drin.
 Gwraig rinweddol, hygar hyfryd, *Diar.*31.10,14.
Sydd gan gwell nâ byd o olud,
Gwell nâ thir, nâ thai, nâ thryſawr,
Gwell nâ'r perls a'r meini gwerthfawr.
 Llong yn llawn o werthfawr dlyſau,
Perl a chanmil o rinweddau,
Gem na feder neb ei briſio,
Yw gwraig dda i'r ſawr a'i caffo.
 Piler aur mewn mortais arian,
Twr rhag angeu i ddyn egwan,
Coron hardd, a rhan ragorol, *Diar.*12.4.
Gras ar ras yw gwraig rinweddol.

## L. *Rhybudd a Chyngor i'r Godinebwr.*

GWRANDO'r godinebwr aflan,
Air o gyngor genny'n gyngan;
Cyn yr elech di mor ddiriaid,
Yn dy wŷn i ddamnio d'enaid.
 Gwel dy fargain front anhywaith,
Cyn y bwriech dy hun ymaith;

*Marca* d'ennill, bwrw'th golled,
Yſtyr b'le'r wyt ti yn myned.

'Rwyt ti'n myn'd i dŷ putteiniaid,
I *bleſio*'r corph, i ladd yr enaid,
I ddigio Duw, i nurddo ei demel,
I 'mado â Chriſt, i 'mlynu â chythrel.

'Rwyt ti'n myn'd fel ffol i werthu
D'enaid anwyl, pridwerth Ieſu,
Ffafar Duw a'i deyrnas lawen,
Am gael gorwedd gyd â phutten.

O ! na wna mor doſt â'th enaid, *Diar*.7.27
A'i roi rwygo rhwng cythreuliaid,
Yn nhân uffern am gael gronyn
O drythyllwch i'r cnawd melyn.

O na werth y nef gyfoethog,
Ffafar Duw a'th Brynwr ſerchog,
Gwir angylion, gwlad goleuni,
Am gael pleſer mewn drygioni.

Pwylla, aros, na'd dy dwyllo,
*Margain* hallt yw'r *jargain* honno;
Am gael tippyn o drythyllwch,
Na werth y nef a'i holl ddedwyddwch.

Cno dy dafod, pig dy lygad,
Tro dy wegil, na fydd anllad,
Gochel rhag i'r fall d'orchfygu,
Ac na chytgam odinebu.

Cenfydd ſatan ſy'n dy arwain, *Diar*.7.22,23
Wrth edefyn i dŷ'r buttain,
Megis arwain ych i'r lladdfa,
I ladd d'enaid trwy butteindra. 1 *Cor*.6.18

Clyw'r 'poſtolion a'r prophwydi,
A'r holl 'ſgrythur i'th gynghori,
Och'lyd rhag y cyfryw bechod,
Rhag dy daflu i uffern iſod. *Eph*.5.5,6

Ai di uffern i'th *dormento*,
Ai di'r brwmſtan poeth i'th *frwylio* ?
Am gael gorwedd megis *filain*,
Ambell bryd ym maglau puttain. *Dat*.21.8

Ai di orwedd i'r tywyllwch ?
Ai di'r carchar diddiddanwch ?

Ai di drigo at blant ſatan?
Am gofleidio menyw aflan.
A droi di ffafar Criſt oddiwrthyd,
A'i angylion hygar hyfryd?
Heb gael dim oddiwrth y *fargain*,
Ond cuſanu gweflau puttain.
Ffei rhag c'wilydd, tro yn d'wrthol,
A dos adref yn 'difeiriol;
Na werth nef am gariad puttain,
Ni wnai Eſau o'r fath *fargain*.
Cymmer gyngor, ofna Dduw,
Carca d'enaid tra f'ech byw:
Gochel wneuthur ti a'th riain,
Aelod Criſt yn aelod puttain.
Cadw'th gorph yn lleſtr ſanctaidd, 1*Theſ*.4.3,4.
Temel Dduw yw corph caruaidd, 1*Cor*.6.15,16.
Aelod Criſt, preſwylfa'r Drindod,
Gochel nurddo hwn â phechod.
Gwybydd nad oes bechod gaſach,
Nâ godineb brwnt a lloſgach,
A wnaeth ddifa da a dynion,
A'r dw'r diluw tân a brwmſton.
Digio Duw a *phleſio*'r cythrel,
Gryddfu'r Yſpryd nurddo ei demel,
Croeshoelio Criſt, halogi aelod,
Y mae'r rhyfyg brwnt yn waſtod. 1*Cor*.6.15.
Pydru'r corph, a damnio'r enaid,
Llygru'r enw, nurddo'r ddwy blaid, *Diar*.5.8,9,10,11.
Difa'r cyfoeth, andwyo'r eppil
Mae'r godineb brwnt yn rhigil.
Llanw'r deyrnas o faſtarddiaid,
Llanw'r eglwys o butteiniaid,
Llanw'r tai o gam 'tifeddion,
Mae godineb, medd y doethion.
Hela dynion i gardotta
Wna godineb a phutteindra,
Ac fel gwaddath o dân pryſur, *Diar*.6.26.
Difa cyfoeth godinebwyr.
Pan fo pob rhyw bechod diffaith,
Heb ladd un ond un ar unwaith;

Mae godineb brwnt mor 'ſgeler,
Yn lladd dau bob gwaith y gwneler.

Er nad oes un pechod atgas — *Mat.*19.9.
Ag all dorri rhwym priodas:
Mae godineb cas yn torri
'Rholl briodaſau mae'n halogi.

Gwaeth nâ lleidr, gwaeth nâ mwrddwr,
Gwaeth nâ neb yw'r godinebwr,
Sy'n lladd enaid, dau ar un-waith, — *Diar.*6.30,31,32.
Pan na bo'r lleill ond lladd cydymaith.

Nid yw'r lleidir wrth ei ofid,
Ond lladratta i gadw ei fywyd,
Mae'r putteiniwr yn ei afraid,
Wrth butteindra'n lladd ei enaid.

Er na fynnai'r Phariſeaid,
Ladd y ſawl amharchai henafiaid;
Etto mynnent ladd, er hynny,
Y wraig a fyddai'n godinebu.

Cyfraith Duw ſy'n gaeth yn erchi,
Yn ddiffafar ladd â meini, — *Lef.*20.10.
Y gwr a'r wraig a odinebo,
Mae'r godineb mor gas ganddo.

Mae'r godineb brwnt mor ffinion,
O flaen Duw a'i holl angylion,
Ac na fyn i neb o'r brodyr — 1 Cor. 8. 11.
Fwytta 'nghyd â'r godinebwyr.

Mae mor ffinion mae mor ffiaidd,
Ac na fyn y 'ſgrythur ſanctaidd,
Un waith enwi peth mor fudur, — *Eph.*5,3.
Chwaethach arfer i'w ei wneuthur.

Criſt ſy'n erchi cadw'r llygad, — *Mat.*5.28.
Rhag y cyfryw bechod anllad;
Mynych trwy ffeneſtri'r llygaid, — *Job.*31.1.
Y mae hwn yn lladd yr enaid.

Cyn trachwantech un wraig wen,
Tyn dy lygad ffwrdd o'th ben:
'Rhwn na ffrwyno lygad **wantan*, — * *Godinebus.*
Yn nhân uffern y caiff frwylian.

Y mae'r pechod hwn mewn calon,
O flaen Duw yn bechod creulon;

Er na ddelo byth mewn gweithred,
Mae â'i chwant yn lladd yr enaid.

## LI. *Cyngor i'r meddwyn.*

OS meddwyn wyt yn arfer chwiffio,
Gwin, a chwrw, a thobacco,
Llef am ras ar Dduw yn fuan,
I orchfygu medd'dod aflan.

Os cwympaist yn y wins o feddwdod,
Llef am gymmorth oddi uchod;
Nî all dyn, na diawl, nac angel,
Godi o'r wins y cyfryw 'nifail.

Nid â'r cythraul meddw o'th goryn,
Mwy nâ'r cythraul mud o'r plentyn,
Nes del Crist â'i nefol Yspryd,
I'w droi maes trwy weddi ac ympryd.

O gweddia ditheu'n wastod,
Am gael nerth yn erbyn medd'dod,
Ac ymprydia rhag gormoddion,
A rhag tramwy lle bo'r meddwon.

Nid gwell meddwyn er gweddio,
Heb ochelyd ac ymprydio,
Gweddi ac ympryd sydd yn groyw
Yn gorchfygu'r cythraul meddw.

Os gweddii'n erbyn medd'dod,
Ac heb och'lyd teiau'r ddiod;
Ni thal gweddi i ti ddimmau,
Eisiau goch'lyd y tafarnau. *1 Thes.* 5.22.

Dannedd llew yw dannedd medd'dod,
Ni chyll ei ddant o'i graff o honod,
Nes del Crist y Llew diofan,
I 'sigo ei siol a'th dynnu o'i safan.

Ni ddaw march o'r ffos lle suddo,
Nes del chwech neu saith i'w lusgo;
Ni ddaw dyn o'i fedd'dod aflan,
Nes del Crist i'w lusgo allan.

Na chymmell neb i yfed gormod,
Yfed pawb eu rhaid o'r ddiod;
Os myn un feddwi megis ci,
Meddwed ef, na feddwa di.

Rho barch i'th well os doi i'w plith,
Trwy berchu'r fol heb yfed rhith;
Os perchi'r gwr trwy chwiffio'r cwppan,
Wrth berchi'r ffrynd d'amharchu'th hunan.

Iechyd trift ac iechyd afiach,
Yw yfed iechyd a'th wna'n glafach,
Byth ni pharchaf iechyd un,
A waetho'm iechyd i fy hun.

Rhai fy'n chwerthin am fy mhen,
Am fod yn fobr heb fawr chwen;
Minneu'n wylo'r deigrau heilltion, *Sal*.119.136.
Wel'd pob rhai o'r rhai'n yn feddwon.

Y meddw chwarddodd am fy mod
Yn cadw 'ngheiniog yn fy nghod,
Yn awr fy'n wylo'r dw'r yn ffrwd,
Wrth fegian ceiniog fach o'm cwd.

Er mwyn Iefu, gochel fedd'dod,
Gwaeth yw hwn nag unrhyw bechod;
Mae'n troi dyn ar lun y cythraul,
Ugain gwaeth nag un anifail.

Tyn o'r tafarn, gochel fedd'dod,
Na chais fyn'd yn drech nâ'r ddiod;
Ni cha'dd un o'r trechaf arni,
Ond a giliai'n ebrwydd rhagddi.

Alecfander a gongcwerodd
Yr holl fyd y ffordd y cerddodd;
Ond y ddiod yn dra 'fgeler,
A gongcwerodd Alecfander.

Gwell yw diangc nag ymdrechu,
Gwell yw cilio nag ymdynnu;
Gwell rhoi'r goreu i'r hwrfwn cwrw,
Nag ymoftwng iddo'n feddw.

Treiaift feddwyn dy rym ddengwaith,
Cwympaift dan y ddiod ganwaith,
Oni chym'ri'r traed oddi wrthi,
Hi rydd etto godwm i ti.

Rhai fyn 'mafiyd cwymp â'r cwrw,
A myn'd yn drech nâ'r ddiod loyw;
Ni bu 'rioed a ga'dd y trechaf,
Ond a giliai oddi wrthi'n gyntaf.

Os doi at dân fe lysg dy grimpau,
Os doi at sarph hi frath dy sodlau;
Os doi at byg, ond cwrdd fe'th nurdda,
Os doi at ddiod gref hi'th feddwa.

Cil rhag sarph rhag iddi'th frathu,
Cil rhag plag rhag iddo'th nafu,
Cil rhag tân rhag iddo'th losgi,
Cil rhag gwin rhag iddo'th feddwi.

O holl slafiaid y byd yma,
Caetha' slaf yw slaf i fola:
Ni chais hwn tra bywyd ganddo,
Ond ei fol yn feistr iddo.

F'â'r meddw i'r § *inn* yn gall, yn ‡ gwmpli,
Fe ddaw maes heb gof, heb gyfri',
F'â mewn fel dyn, f'â maes fel 'nifail,
Fe chwyd fel ci, fe roch fel cythraul.

§ *Tafarndy.* ‡ *Fel dyn rhesymol.*

F'ollwng meddwyn Dduw a'i ddoniau, *Diar.* 23. 20, 21.
Tai a thir, i fyn'd i chwarae,
Fe geidw ei afael ar bob § Sini,
Fe gyll ei hun, a'i gof, a'i gyfri'.

§ *Menyw ofer.*

Gynt ni feddwai ond bedlemiaid,
A'r rhai gwaethaf o'r begeriaid,
'Nawr ni chaiff bedlemiaid tlodion,
Le i feddwi gan foneddigion.

Brwnt gwel'd barnwr mewn anhemper,
Neu bendefig draw'n y gwtter;
Brwnt gwel'd cawr yn slaf i'r cwrw,
Brynta' gyd gwel'd 'ffeiriad meddw.

Cyfraith dda oedd dodi meddwon,
Fel plant bychain dan 'drycholion;
Os ni fedrant fwy nâ bechgyn,
*Ordro* eu hun ac *ordro* eu *lising*.

Nid oes rhefwm na naturiaeth,
Gan y meddw drin ei arfaeth;
Eisiau un o'r rhai'n i'w ‖ arail,
Gwaeth yw'r meddw nâ'r anifail.

‖ *I arwain.*

Blin na fedra un dyn meddw,
Na'i reoli ei hun yn hoyw:
Och! na gadael i neb arall,
Lwyr reoli'r meddwyn angall.

Gwae, medd Duw, y dyn a godo
Y boreu glas-ddydd i gwmp'nio, *Efa.* 5.11.
Ac arhofo gyd â'r ddiod,
Nes ennyner ef gan fedd'dod.

Y mae uffern boeth a fatan,
Yn lledanu ar lled eu fafan,
Ac yn chwennych llyngcu'r meddw,
Yn ei feddwdod cyn bo marw.

Gwae fo cryf i chwiffio cwrw, *Efa*, 5.14,22,24.
Ac i gymmyfg diod loyw;
Ni ad Duw na gwraidd na himpyn,
Heb eu difa i'r fath feddwyn.

Gwae ro ddiod gref i feddwi,
Ei gymmydog i'w ddinoethi;
Mae Duw'n digio wrtho'n llidiog,
Am ladd enaid ei gymmydog.

Tyn ar frys o'r gors o fedd'dod,
Rhag dy lyngcu yn amharod,
O hir aros ar draeth fugyn,
Llwyr i'th lwngc tra f'ech yn rofyn.

Pob pechadur a gais guddio
Faint o feiau a fo arno,
Ond y meddw fyn ddynoethi
A datguddio ei holl frynti.

Adda geifiodd guddio'n garcus,
Ei drofeddau â dail ffigys;
Noe a fynnai lwyr ddatguddio, *Gen.* 9.21.
Yn ei feddwdod, faint oedd ganddo.

Crift fy'n gwa'rdd i griftion fwytta 1 *Cor.* 5.11.
Gyd â'r meddw glwth ei fola, 2 *Thef.* 3.6.
Ac ymgadw rhag d'od atto,
Fel rhag dyn â'r cowyn arno.

Fel y gyr y mwg o'r llefter,
Yr holl wenyn o'u hefmwythder,
Felly gyr y meddwdod aflan,
Ras a dawn o'r galon allan.

Ni bu, meddant, frenin Babel, *Dan.* 4.32.
Ond faith mlynedd ar lun 'nifail;
Y mae'r meddw ar lun mochyn,
Hwy na hwnnw lawer blwyddyn.

Einioes fer a chylla afiach, *Diar*.23.29,30.
Lletty llwm a drwg gyfeillach,
Coppa twn a fiacced frattiog,
A gaiff meddwyn yn lle cyflog.

Fe werth meddwyn dref ei dad,
A'r maint a fedd o fraint yn rhad,
A phob 'nifail fy'n ei helw;
Gwerth ei grys i brynu cwrw.

Fe 'medy'r meddw â'i holl bethau,
A'i aur, ei arian, a'i dryforau;
Ei dai, a'i dir, ei blant, a'i briod,
Ond nid ymedy byth â'i feddwdod.

Gwir dduw'r meddw ydyw § Baccus, § *Duw'r gwin.*
Tafarn chwydlyd yw ei eglwys,
Gwraig y tafarn yw ei 'ffeiriad,
Y pot a'r bîb yw ei ‖ gyfnefiad. ‖ *Ei gyd-gymmunwyr.*

Bydd di'n fobr tr'ech ti'n faehgen,
Na'd i'r bol yfpeilio'r cefen;
Na'd i'r afraid ieuengctid hela
Bol mewn henaint i gardotta.

Cyfraith Duw a fyn labyddio
Pob ofer-ddyn ag a feddwo,
I ddiwreiddio'r cyfryw frynti,
Ac i rwyftro eraill feddwi.

Fe ddaw Crift yn chwyrn heb wybod, *Luc* 21.34,35.
Ar ddyn meddw i ddial meddwdod;
Fe'i gwahana, fe'i rhy orwedd,
Mewn tân poeth i ringcian dannedd.

Duw ro gras i bob rhyw griftion,
Yfed deigryn lai nâ digon,
Cyn yr yfo fwy nâ'i gyfraid,
I ladd ei gorph, i ddamnio ei enaid.

LII. *Cân ynghylch y diawl a'r meddwon.*

Y Cythraul twyllodrus fy beunydd heb orphwys,
Ond ceifio'n ofalus ein twyllo, 1 *Pedr* 5.1.
I wneuthur pechodau, pob amryw o feiau,
Duw gadwo'n heneidiau ni rhagddo.

Fel y bydd cyfgod ar ddifglair ddiwrnod,
Ein dilyn yn waftod wrth rodio;

Felly mae ynte' yn dilyn ein fodlau,
  Yn gofod ei faglau i'n cwympo.

Duw gadwo bob criftion rhag fatan anghyfion,
  O 'wyllys fy nghalon 'rwy'n ceifio,
Gael dwyn ein heneidiau 'ddiwrth bob rhyw o feiau,
  O uffern a'i phoenau, a'u rhwyftro.

Meddwdod yw'r goreu a'r pennaf o'r heintiau,
  O hono mae'r beiau yn himpio;
Tyngu, putteindra, glwthineb, lladratta,
  Ac ymladd yw'r mwya' fydd ynddo.

Lle bo'r mwya' gyn'lleidfa fe gân y † *dantara,*
  Gyfeillion, dewch yma i gwmp'nio, † *Cân y trumpet.*
I'w hela hi'n fuan trwy'r ffeneft' ac allan,
  Mi fydda' fy hunan yn campio.

Ac yna hwy ddeuan' fel fawdwyr yn fuan,
  I'r man lle bo fatan yn ceifio;
I gym'ryd eu hafraid, heb garco am yr enaid,
  A llawer o'r gweiniaid fydd hebddo.

Dechreuant yn llonydd, fel haulwen foreu-ddydd,
  Nes cwnnu tes fplennydd a thwymo;
Y ddaurydd a gocha, y tafod a floefga,
  Y ddwy droed a ffaela a rhodio.

Gwedi darffo iddynt yfed, yn barod i fyned,
  Fy'm § *hoftes* a'm henaid moes etto; § *Tafarnwraig.*
Llanw di'r pottiau yn llawn o'r un goreu,
  Ni awn 'nawr i ddechreu carowfio.

Bellach, moes yma ddalen o'r India,
  A'i henw hi'n benna' tobacco;
Pibell a thewyn, neu ganwyll i'w hennyn,
  Na'd orfod eu gofyn hwy etto.

Yfgadan moes bellach, neu gig a fo halltach,
  'Spardyn cyfeddach, a baro
Ei hyfed yn hoyw, nes bo rhai yn feddw,
  A darfod y cwrw a'i fpendio.

Yno bydd dwndwr, a briwo gwr llwfwr,
  Oni bydd yn gwmp'niwr i g'rowfio;
Gelwch yn galed, na fperiwch ag yfed,
  Na chwrw na chlared lle bytho.

Rhai fydd yn ei fwrw, rhai fydd yn ei gadw,
A rhai fydd yn arw yn ei ſipio;
Rhai yn eu Saes'neg, a rhai yn eu Ffrangeg,
A rhai yn Wyddeleg yn pledio.

Rhai fydd yn tyngu, rhai fydd yn cynhennu,
A'r cythraul yn gwenu'n eu *hawnto*;
Atto f'eneidiau, ceiſiwch eich harfau,
Nid rhaid i chwi odde' dim ganddo.

Yno bydd cleiſiau, ond odid g'lanaſtrau,
Anhappus yw'r chwarae lle bytho;
Y cythraul cenfigennus, y bradwr hoccedus,
Anghenfil anghenus lle delo.

Nid oes neb heb ei feiau, yn llawn o bechodau,
Nid ydyw rhai goreu yn *ſcapo*;
Na bont hwy'n rhy ufudd yn rhyw feiau neu gilydd,
Yn dilyn lleferydd y § cadno. § *Diafol.*

O Arglwydd gorucha'! rho ras i ni wella,
A chadw blant Adda rhag llithro;
Maddeu'n pechodau, a dwg ein heneidiau
I'r man lle by'ch ditheu'n gorphwyſo.

LIII. *Cyngor i ymgadw rhag llettya meddyliau drwg yn y galon, ac i'w troi hwynt i fyfyrio ar ddaioni.*

MAE holl feddwl dyn yſywaeth, *Gen.*6.5.
Gwedi' lygru wrth naturiaeth,
Ni fyfyria ond drygioni,
Nes y darffo ei ail eni.

Nid oes dyn ag all myfyrio 2 *Cor.*3.5.
Meddwl da, gwnaed oreu ag allo,
Nes cael gallu Duw a'i radau,
I gyf'rwyddo ei feddyliau.

O gweddia'n daer gan hynny, *Sal.*51.1.
Ar i'r Arglwydd adnewyddu
Dy feddyliau a'th amcanion,
I fyfyrio ar yr union.

Felly denfyn Duw ei Yſpryd, *Luc* 11.13.
I oleuo dy feddylfryd,
Ac i newid dy feddyliau,
I fwriadu'r hyn fydd oreu.

Na'd i feddwl drwg lettya *Jer*.4.14.
Yn dy galon rhag dy ddifa;
Gwas yn ceisio lletty i satan,
Bob yr awr yw'r meddwl aflan.

Dod dy feddwl a'th fyfyrdod,
Ar y pethau sydd oddi uchod, *Col*.3.12.
Lle mae Crist dy Brynwr hygar,
Nid ar bethau s'ar y ddaear.

Rho dy fryd ar bethau nefol,
Ac na sercha ddim daearol:
Meddwl am y wlad y gorfydd
Aros ynddi yn dragywydd.

Meddwl am y pethau brynodd
Crist â'i waed it' yn y nefoedd;
Heddwch Duw a choron hyfryd,
Teyrnas hardd a didrangc fywyd.

Meddwl dy fod tra f'ech byw,
Bob yr awr yng olwg Duw; *Sal*.139.
A bod Duw yn gwel'd d'ymddygiad,
Ymhob man â chil ei lygad.

Meddwl fod y gelyn gwaedlyd,
Ddydd a nos fel llew newynllyd,
Yn troi o ddeutu dy orweddfa, 1 *Phedr* 5.8.
Bob yr awr yn ceisio'th ddifa.

Meddwl am reoli d'eiriau,
A'th weithredoedd a'th feddyliau,
Wrth fodd Duw, rhag iddynt beri,
Gwasgfa i'th enaid ddydd dy gyfri'.

Meddwl fel y daw dy Brynwr,
Yn y cymhylau i chwarae'r Barnwr, *Dat*.1.7.
Ac ymg'weiria i'w gyfarfod, *Mat*.25.10.
Fel priodferch gwrdd â'i phriod.

Meddwl fel y gorfydd rhoddi, *Rhuf*.14.12.
Ddydd y farn mor fanwl gyfri', *Preg*.12.14.
Am y meddwl drwg a'r bwriad, 1 *Cor*.4.5.
Ag a roir am weithred anllad.

Meddwl fel yr awn oddi yma,
I'r tŷ priddlyd am y cynta',
Mewn cwd canfas heb un *bêni*,
Pe b'ai i ni *rent* arglwyddi.

Meddwl fod yr angeu aethlyd,
Ar farch glas yn gyrru'n ynfyd; *Dat.*6.8.
Fel na ddichon hen nac ieuangc,
Rhag ei faeth na'i ddyrnod ddiangc.

Meddwl hefyd y daw angeu,
Megis lleidr am ein pennau, *Preg.*2.12.
Heb un udgorn i'n rhybuddio,
Yn ddiymgais i'n anrheithio.

Meddwl nad yw bywyd un-dyn, *Iago* 4.14.
Ond fel bwmbwl ar y llynwyn,
Neu fel pabell bridd neu wydyr,
'Rhwn yn hawdd a dyr yn glechdur.

Meddwl fel y rhed ein heinioes, *Job* 7.6.
Megis llong dan hwyl heb aros,
Ac y derfydd am ein hamser,
Cyn in' dybied dreulio ei hanner.

Meddwl fod y byd yn gado *Luc* 12.19,20.
Pawb yn llwm i fyn'd o hono,
Ac fel ia yn torri danynt,
Pan fo reitta' ei gymmorth iddynt.

Meddwl na ddaw aur nac arian,
Tai na thir o'r droedfedd fechan,
Gyd â neb i fyn'd i'r frawdle,
I roi cyfrif am eu beiau.

Meddwl pan y delo angeu,
Gorfydd gado'r byd a'i bethau;
A myned o flaen Crist yn wisgi,
Am y cwbwl i roi cyfri'. *Heb.*9.27.

Meddwl fel y bydd dy dlysau,
A'th holl olud, a'th holl swyddau,
Yn ymofyn newydd feistri,
Cyn y caffech gwbwl oeri.

Meddwl dosted a fydd pechod,
Yn dolurio dy gydwybod,
Pan y tafler yn dy ddannedd
Ddydd y farn dy holl anwiredd.

Meddwl fel y gorfydd rhoddi
Ddydd y farn i'r Arglwydd gyfri',
Am bob gweithred ddrwg a wnelom, *Preg.*12.14.
A'r gair ofer a ddywettom. *Mat.*12.36.

Meddwl fel y bydd gwyr gwychion,
Sydd heb ofni Duw na dynion, *Dat.*6.15,16.
Ddydd y farn yn crio'n 'ſgymmun,
Am i'r creigydd gwympo arnyn'.

Meddwl fel y bydd y duwiol *Dat.*7.9—16.
Yn y nef mewn braint ragorol,
Yn clodfori Duw gorucha',
Pan bo eraill yn Genhenna.

Meddwl fel y mae'r annuwiol, *Dat.*21.8.
Yn ymdroi mewn tân uffernol, *Marc* 9.44.
A'r pryf didrangc yn eu bwytta,
Bob yr awr heb gael ei wala.

Meddwl am hyn a dibriſia
Y byd hwn a'i wagedd mwya';
A myfyria trwy wir grefydd,
Ar air Duw a'r byd na dderfydd.

Meddwl dyn a red heb orphwys,
Ar y drwg neu'r da gyrhaeddwys,
Oni chaiff beth da i fyfyrio,
Ar y drwg fe red tra gantho.

Meddwl dyn fel maen y felin,
A dreulia ei hun nes myn'd yn gilin;
Oni roir rhyw rinwedd dano,
I'w ei falu a'i fyfyrio.

Meddwl weithio'r gwaith a bwyntiodd
Dy Greawdwr pan y'th greodd,
A'i was'naethu â'th holl bwer,
Yn dy alwad tra c'ech amſer.

Meddwl mai gwell un diwrnod, *Sal.*84.10.
Yn gwas'naethu'r ſanctaidd Ddrindod,
Nâ'th holl ddyddiau a'th holl oeſach,
Yn gwas'naethu dim amgenach.

Meddwl cyn y gwnelech bechod,
B'wedd 'rattebi ddydd dy drallod,
A pha fodd y gelli ddiangc 1 *Theſ.*5.3.
Ddydd y farn rhag angeu didrangc.

Dod dy feddwl ar ddaioni,
Na'd ar wagedd iddo ymborthi:
Hawdd y gelli ei gyf'rwyddo,
Os mewn pryd y ceiſi'i ffrwyno.

Hawdd yw diffodd y wreichionen,
Cyn ymaflo'i yn y nenbren;
Hawdd yw newid meddwl aflan, *Iago* 4.7.
Os gwrth'nebir hwn yn fuan.

Tro gan hynny'n ebrwydd heibio
Bob drwg feddwl ban dechreuo;
Rhag i'r gelyn mawr ei hocced,
Droi'r drwg feddwl i'r drwg weithred.

Lladd blant Babel tra font fechgyn,
Sang ar farph tra fo'n y plifgyn,
Tyn y § gangren cyn y gwreiddio, § *Cancr.*
Tor ddrwg feddwl cyn cynnyddo.

Gad wreichionen fach i gynnu
Yn dy do, hi lyfg dy letty:
Gad i feddwl drwg letteua,
Yn dy galon fe'th anrheithia.

Na letteua feddwl aflan,
Yn dy galon mwy na fatan;
Os lletteui 'rwyt ti'n derbyn
‡ *Harbinger* o flaen y gelyn. ‡ *Parottowr lle.*

Rho dy fryd ar gadw'r gyfraith,
A byw wrthi, yn ddiragraith;
Ac na ollwng Dduw o'th feddwl,
Ond bendithia am y cwbwl. 1 *Thef.* 5.18.

Na fwriada ddrwg o'th galon,
I anrheithio dy gyd-griftion: *Lef.* 19.17.
Mwrddwr yw'r fath feddwl gwaedlyd, 1 *Ioan* 3.15.
Gochel rhagddo er dy fywyd.

Na thrachwanta wraig cymmydog,
Ac na hoffa ei llygaid ferchog, *Mat.* 5.28.
Na'd i'th feddwl redeg arni,
Can's godineb yw ei hoffi.

Gochel roi dy fryd a'th fwriad,
Ar anrheithio un ymddifad, *Zec.* 9.10.
Trais a blin orthrymder yw, *Diar.* 23.10,11.
Y cyfryw fwriad y flaen Duw,

Gochel chwennych aur nac arian,
Tai na thir, trwy dwyll a chogian. 1 *Tim.* 6.10.
Nid yw'r cyfryw chwant a bwriad,
Ger bron Duw ddim llai nâ lladrad.

Rhwym dy feddwl, na'd e'i wibian
Ar oferedd, fawr na bychan,
Nac ar ddim na allech roddi
Cownt am dano ddydd dy ddidri.

Cadw'th galon rhag drwg fwriad,
Fel y cedwi'th law rhag lladrad;
Mae'n rhaid atteb yn cyn gaethed,
Am ddrwg fwriad, a'r ddrwg weithred. *Rhuf.* 1.32.

LIV. *Cyngor i lywodraethu ein geiriau wrth fodd Duw.*

BID dy eiriau yn wastadol,
yn grist'nogaidd ac yn rasol,
Yn rhoi gras i'r holl wrandawyr, *Eph.* 4.29.
Ac adeilad tra chymmesur.

Y mae bywyd, y mae angeu,
Yn y tafod, yn y geneu: *Diar.* 13.3.
Gochel dd'wedyd geiriau diriaid,
Cadw d'enau, cedwi d'enaid.

Dilyn d'Arglwydd yn dy eiriau,
Dywaid fel y d'wedai ynte';
Ni ddaeth twyll na gair anweddaidd, 1 *Pedr* 2.22,23.
Erioed i maes o'i enau sanctaidd.

Traetha'n bwyllog, gwrando'n esgud, *Iago* 1.19.
Mae dwy glust, un tafod gennyd, *Diar.* 10.19.
Aml eiriau bair cyfeiliorni;
Ni ddaeth drwg i neb o dewi.

Cyn y dywedych, meddwl ennyd,
B'wedd y myn Mab Duw it' dd'wedyd,
Yna dywaid'r hyn sydd rasol,
A da i adail rhai anneddfol. *Mat.* 5.37.

Na ddoed 'madrodd brwnt o'th enau,
Na gair ffol, na choeg ddigrifau, *Eph.* 5.4.
Sen, na ffrost, na phrwmp, na chelwydd,
Ond bid rasol dy leferydd.

Cadw d'enau rhag gair diriaid, *Sal.* 39.1.
Felly gelli gadw d'enaid,
Oni ffrwyni tafod anwir,
Yn ol d'eiriau y'th gondemnir. *Mat.* 12.37.

Arfer iaith ac ‡ aeg gwlad Canaan, ‡ *Lleferydd.*
Bid am Dduw a'i air d'ymddiddan; *Sal.* 145.1.

Wrth dy eiriau y cair gwybod, *Col.* 3.16.
O bwy wlad yr wyt yn hanfod. *Iago* 5.12.

Na'd i'th dafod arfer tyngu *Iago* 5.12.
Cig a gwaed yr Arglwydd Iesu;
'Rwyt ti'n damsang gwaed y cymmod, *Heb.* 10.29.
Pan arferech gyfryw bechod.

Am air Duw nid oes it' yngan,
Heb anrhydedd parch ac ofan;
Ac os cymmeri ei enw'n ofer,
Di ei'n euog pan y'th farner.

Dywaid beunydd leia' ag allech,
D'wed yn rasol pan y d'wedech;
Oni dd'wedy eiriau hyfryd,
Gwell it' dewi â sôn nâ d'wedyd.

Gochel fod yn ddau ddafodiog, *Diar.* 6.16.17.
Cas gan Dduw bob dyn celwyddog:
Tad y celwydd ydyw'r cythrel, *Ioan.* 8.44.
Gwas i'r diawl yw'r ffalst ei chwedel.

'Arfer draethu'r gwir o'th galon, *Zec.* 8.16.
Hoff yw'r gwir gan Dduw a dynion; *Sal.* 101.7.
Ni chaiff dyn celwyddog gredu,
Gair o'i wir pan bo'n ei dyngu.

Na chno un dyn llwyr ei gefen,
Ac nac arfer gair drwg absen;
Gwaeth nâ chleddyf llym dau finiog, *Sal.* 64.3.
Ydyw enllib dyn celwyddog.

Na ddwg dafod drwg anhappus, *Diar.* 4.24.
Gwaeth yw hwn nâ gwenwyn lindys,
Gwaeth nâ marwor poeth yn llosgi, *Iago.* 3.6.
Gwaeth nâ saethau un o'r cawri.

Er fy mendith na lysenwa 1 *Pedr* 2.1.
Neb yn rhwyl, neu'n ffol, neu'n rhaca, *Mat.* 5.22.
'Rhwn a alwo ei frawd yn lletffol,
Mae e'n haeddu tân uffernol.

Gochel adrodd faint a glywech,
Gochel dd'wedyd faint a wypech,
Dywaid wir pan orffo ei draethu,
Nes bo rhaid, gwell weithiau ei gelu.

Bydd ddeallgar pan ganmolech,
Bydd gwrteisiol pan gyfarchech,

Bydd gariadus wrth geryddu,
Bydd drugarog wrth gyfrannu. *Lef.* 19. 17.

LV. *Gweddi am *lywodraethu'r geiriau a'r genau wrth fodd Duw.*

ARGLWYDD, agor fy ngwefusedd,
I foliannu'th dduwiol fawredd, *Sal.* 51. 15.
A chyf'rwydda di fy nhafod,
I ddatganu 'maes dy fawrglod.
Llanw 'ngenau o'th wir foliant,
I'th fendithio am fy llwyddiant,
A'th glodfori, Dad trugarog,
Yn y dyrfa fawr liosog. *Sal.* 40. 10.
Llunia 'ngeiriau, llywia 'nhafod,
A chyf'rwydda fy myfyrdod:
Clo a datglo fy nwy wefus,
Na'd fi draethu ond dy 'wyllys. *Sal.* 141. 3.
Arglwydd, cadw ddrws fy ngenau,
Na'd fi draethu ffiaidd eiriau
|| Ffrwmp, na ffrost, na sen, na chabledd, || *Gwawd.*
Geiriau ffol, na dim anwiredd.
Bid myfyrdod fy holl galon,
Bid fy ngweithred a'm hamcanion;
Bid fy ngeiriau oll yn ddiddrwg, *Sal.* 19. 14.
A chymmeradwy yn dy olwg.

LVI. *Cyngor i ddyn fod bob amser o ymddygiad yn gristianogaidd.*

BID d'ymddygiad yn grist'nogaidd,
Yn gwrteisiol ac yn g'ruaidd,
Ymhob tyrfa delych iddi,
Megis plentyn i'r goleuni.
Bydd fel seren yn disgleirio,
Bydd fel canwyll yn goleuo,
Bydd fel patrwn o grist'nogaeth,
I'r rhai ddelo i'th gwmp'niaeth.
Bydd dra sanctaidd i'r galluog,
Bydd yn union i'th gymmydog,
Bydd yn sobor it' dy hunan, 1 *Pedr* 1. 15.
Dyna'r tri phwngc rheittaf allan. *Tit.* 2. 12.

Bydd mor ddiddrwg ag yw'r g'lommen,
Bydd mor gâll a'r ſarph drachefen,
Bydd ddioddefgar fel y ddafad;
Hoff gan Griſt y fath ymddygiad.

Bydd yn demprаidd megis Daniel,
Cadw'r cnawd mewn ymborth iſel,
Gochel win a bwyd rhy foethus;
Rhag dy fyn'd yn afreolus. *Eph.*5.18.

Bydd yn ddiwair, nid yn anllad,
Bydd fel Joſeph yn d'ymddygiad;
'Rwyt ti 'ngolwg Duw bob amſer,
Bydd gan hynny lân a ſyber.

*Dela*'n union wrth fargenna,
Na thwyll un dyn wrth farchnatta; 1*Theſ.*4.6.
Duw ei hun ſydd union Farnwr,
Rhwng y gwirion *plaen* a'r twyllwr.

Bydd o ffydd a chrefydd union,
Ofna Dduw o ddyfnder calon; *Deut.*6.13.
Na wna ddrwg o flaen ei lygad,
Ymhob man mae'n diſgwyl arnad.

Dilyn gyngor doeth bregethwyr, *Heb.*13.7.
Ymddaroſtwng i'th reolwyr, 1*Pedr* 2.17.
Bydd gariadus â'th gym'dogion,
A heddychol â phob criſtion. *Rhuf.*12.18.

Bydd dra graſol yn dy eiriau,
Bydd yn fedrus yn dy chwedlau,
Bydd yn gywir yn dy *bromais*,
Bydd ymhob peth lân a llednais.

Bydd di berffaith ymhob tyrfa,
Bydd fel ſant ymhlith y gwaetha';
Er diffeithed a fo'r cwmp'ni,
Bydd fel Noe ymyſg y cawri.

Cyfarch bob dyn yn dra ſiriol,
Goſtwng i'th well yn gwrteiſiol; *Rhuf.*13.1,7.
Parcha'r henaint a'r awdurdod, *Lef.*19.32.
A rho'r blaen i'th well yn waſtod.

Bydd ddioddefgar a chymmeſur,
Na fydd boeth na thwym dy natur; *Col.*3.8.
Goddef gamwedd cyn cynhennu, *Diar.*16.32.
A ddioddeſodd hwnnw orfu.

Ymddaroftwng i'th oreuon,
Duw ei hun a wrthladd feilchion;
Ac fe ddyry ras yn yftig,
I'r rhai ufudd goftyngedig.

Na falchia am un rhinwedd, *Diar.* 16. 5.
Nac am gyfoeth ac anrhydedd,
Ond rho ddiolch prudd am danynt,
Rhag i Dduw dy adael hebddynt.

Bydd di gryno yn dy ddillad, 1 *Tim.* 2. 9.
Dos yn lân yn ol dy alwad,
Tor dy bais yn ol dy bwer,
Na fydd goeg na brwnt un amfer.

Gochel bechu er cwmp'niaeth,
Cyflog pechod yw marwolaeth; *Rhuf.* 6. 23.
Cynnifer gwaith y b'ech yn pechu,
Cynnifer angeu wyt yn haeddu.

Mae cyfathrach er y dechreu,
Rhwng pob pechod brwnt ac angeu,
Fel na ddichon un dyn bechu,
Na bo angeu yn ei lyngcu.

Na fydd anllad yn dy chwedlau,
Na fydd aflan mewn cornelau; *Eph.* 5. 11, 12.
Ymhob cornel bid d'ymddygiad, *Esa.* 29. 15.
Fel pe b'ait wrth groes y farchnad.

Os cais dyn, na diawl, nac angel,
Gennyt bechu yn y dirgel;
Cofia fod Duw â faith llygad,
Ymhob man yn difgwyl arnad.

Er nad ydyw dyn yn gweled
Yn y dirgel lawer gweithred;
Y mae Duw yn gwel'd y cwbwl, *Jer.* 16. 17.
Pan na byddo dyn yn meddwl.

Os trofeddi yn y dirgel, 1 *Cor.* 4. 5.
Duw ddatguddia dy holl *gwnfel*,
Ac a fyneg' dy ymddygiad,
I'r byd yngŵydd yr haul a'r lleuad.

Gochel ddilyn drwg gwmp'niaeth,
Pobl anwir ddigrift'nogaeth; 2 *Thef.* 3. 6.
Can's fe nurdda rhai'n d'ymddygiad,
Fel y nurdda *pitch* dy ddillad.

Fel yr hallta'r môr y || granffo, || *Gyrbaeddo.*
O'r dw'r croyw ddelo atto;
Felly nurdda pobl 'fgymmun,
Foefau'r goreu ddelo attyn'.

Gochel neidr rhag dy frathu,
Gochel bla rhag dy ddifethu, *Sal.*26.4,5.
Ac os ceri iechydwriaeth,
Gochel ddilyn drwg gwmp'niaeth.

Câr â'th galon bob dyn duwiol,
Bydd gyfeillgar a rhinweddol,
Dilyn arfer y rhai doethion,
A ffieiddia'r annuwiolion.

## LVII. *Cyngor ynghylch bwytta ac yfed.*

GOCHEL eifte' lawr i fwytta,
Nes bendithio'r bwyd yn gynta';
Gochel godi pan eifteddech,
Nes rhoi diolch am a fwyttech.

Crift ni fwyttai fara barlys, *Ioan* 6.11.
Chwaethach bwyd oedd well ei *reüs*,
Nes yn gyntaf ei fendithio,
A rhoi mawl i'w Dad am dano. 1 *Tim.*4.4,5.

Pa'm y cytgam un dyn fwytta
Bwyd fy ar felldith er cwymp Adda? *Gen.*3.17.
Nes yn gyntaf ei fendigo
A gair Duw a gweddi drofto.

Toft yw gweled mor 'nifeilaidd,
Mor anneddfol, mor anweddaidd,
Y rhed llawer dyn i fwytta
Bwyd, fel buwch a red i'r borfa.

Toftach yw eu gwel'd yn cwnnu
Oddi ar y ford i fyn'd i gyfgu,
Fel y moch o'r trwcca i'r dommen,
Heb roi diolch mwy nâ'r afen.

Nid oes fon am ras cyn bwytta,
Nac am fendith Duw goruchа';
Nac am ddiolch gwedi porthi;
Mwy nâ'r moch a f'ai'n eu pefgi.

Er bod Duw yn rhoi gorchymyn, *Deut.*6.11,12.
I bawb yn ol torri newyn, *a* 8.10.
Roddi moliant ar yr eitha',
I'r Duw mawr am lanw eu bola.

Gochel fwytta ond dy ddigon,
Na fydd chwannog i ddanteithion,
Mwy na rhaid o ffar lysieulyd,
Bair i'r cnawd orchfygu'r yspryd.

Os rhoi i'r cnawd fwy nâ'i gyfraid,
'Rwyt ti'n porthi gelyn diriaid,
Os rhoi iddo lai nâ digon,
'Rwyt ti'n lladd cydymaith ffyddlon.

Nac yf ddiod tu hwnt i fesur,
Gronyn bach was'naetha nattur;
Diod gadarn sydd yn peri
I wyr nerthol gwympo dani.

Gwin a wnaeth i Noe ymnoethi, *Gen.*9.21.*a* 19.23.
Gwin a yrrodd Lot i ymlosgi,
Gwin a dorrodd wddwg llawer,
Gwin orchfygodd Alecsander.

Na'd dy ford yn fagal i ti, *Hos.*13.6.
Trwy lothineb cas a syrthni,
Rhag i'r gelyn dû dy hela,
Gablu Duw yn llawn dy fola.

Mae dau lygad yr ehedydd,
Yn eu gwaith wrth fwytta ei fwydydd,
Un yn gwel'd ei ymborth hyfryd,
Y llall yn gwarchad rhag y barcud.

Bid dy lygad dithau'n waetan,
Ddydd a nos rhag rhwydau satan,
'Rhwn a gais â'th fwyd dy faglu,
Wrth giniawa a swpperu.

Pan bo'r ceiliog coch yn bwytta,
Bydd ei lygaid hwnt ac yma,
Rhag i'r barcud llwyd ei 'sglifiaid,
Tra fo e'n bwytta heb feddyliaid.

Felly bydded dy ddau lygad
Dithau uwch dy fwyd yn gwiliad,
Un yn canfod dy Greawdwr,
Llall yn gwarchad rhag y temtiwr.

Gochel fwytta dim a baro
I'th gyd-griftion gwan dramgwyddo;
Y mae'r 'fgrythur lân yn gw'rafun, *1 Cor.* 8. 13.
It' trwy fwyd dramgwyddo un-dyn.

Na châr fwytta bwyd dy hunan,
Dyro ran i'r tlawd a'r truan,
Galw'r gwan i brofi'th ginio,
Rhan â'r hwn s'eb dammaid gantho.

Ni chiniawai hen Dobias,
Nes cai'r gweiniaid bach o'i gwmpas,
Ac ni chorphai ddim danteithion,
Nes rhoi rhan i'r bobol dlodion.

Job ni fwyttai fwyd yn felus,
Nes b'ai ymddifaid wrth ei yftlys, *Job* 31. 17.
Ac ni byddai iach ei galon,
Nes rhoi cyfran i'r rhai tlodion.

Galw dithau'r gweiniaid tlodion, *Luc* 14. 13, 14.
I gael cyfran o'th ddanteithion,
Felly gelwir dithau ar fyrder,
I gael rhan o'r nefol fwpper.

Gochel rwgnach, ond bydd foddlon,
I beth bynnag fo Duw'n ddanfon,
Bara a dw'r oedd ffar ddigonol,
Gynt i'r Patriarciaid duwiol.

Daniel bach a fyddai foddlon *Dan.* 1. 12.
Fwytta ffa a ffacbys duon;
A holl feibion y prophwydi *2 Bren.* 2. 42, 44.
Cym'rent fara haidd i'w porthi.

Pa'm na fyddwn ninnau foddlon *2 Tim.* 6. 8.
I beth bynnag fo Duw'n ddanfon?
Bid ef lawer, bid ef ronyn,
Trwy gael modd i dorri'n newyn.

Fe fu'r Drindod fanctaidd foddlon, *Gen.* 18. 8.
Wledda gyd ag Abr'am ffyddlon
Ar gig llo, a llaeth, a 'menyn,
Bara twymn, heb fwy o 'mheuthyn.

'Nawr nid nes gan bob ofer-ddyn,
Er cael bwyd i dorri newyn,
Oni b'ai cael chwech o feigiau,
Gwin a chan i borthi chwantau.

Rhaid cael *faws*, a rhaid cael fineg',
Rhaid cael *capers*, *fampier*, garlleg,
Cyn y gallo llawer fwytta
Pryd o fwyd gan faint eu traha.

Y mae *faws*-yn awr yn cofti,
Yr oes hon mewn gwres a gwegi,
Mwy nag oedd y breifion feigiau
Gynt yn cofti i'n hen dadau.

Gynt ni cheifiai Alecfander
*Saws* un amfer gyd â'i fwpper,
Ond y *faws* oedd yn ei gylla,
Chwant i'r bwyd, yn ol rhyfela.

Cyrus ynte' fyddai foddlon
I fwpperu ar lan afon,
Lle cai ddw'r i dorri' fyched,
Ef a'i filwyr yn eu lludded.

Rhaid yn awr i bobol ofer
Gael eu gwin ar ginio a fwpper;
Rhaid cael pint neu ddau o *glared*,
Cyn el tammaid bwyd i wared.

Duw ro fara i'r bobol dlodion,
Duw a'n gwnelo ninnau'n foddlon;
Duw faddeuo'n traha i ni,
Duw fendithier am ein porthi.

### LVIII. *Gras cyn bwyd.*

PORTHWR mawr y pum mil gwerin, *Ioan* 6.11.
A'r pum torph haidd a'r ddau byfgodyn,
Portha ninnau, dy wael weifion,
A'r hyn ymborth wyt yn ddanfon.

A bendithia'r bwyd a'r ddiod,
'Rhwn a roddaift yma i'n gwarchod,
Fel y gwir fendithiaift cyn hyn
Oen y Pafg, a'r ddau byfgodyn.

A rho iddynt rym i'n porthi,
I'th was'naethu a'th addoli,
Fel y rhoddaift rym o'th wiw-ras
Gynt ar deifen i Elias. 1 *Bren.* 19.8.

A phâr iddynt ein comfforddi,
A'n cryfhau a'n gwir ddigoni,

Fel y peraift i'r ffar ifel,
A'r ffacbys duon borthi Daniel. *Dan.*1.

A nad i ni o'th ddanteithion,
Gym'ryd gronyn mwy nâ digon,
Ond y maint a fo i'n *helpu*,
Yn ein galwad i'th was'naethu.

Eithr pâr in' roddi moliant
It' bob amfer am ein porthiant,
A chydnabod mai Duw * Celi, * *Hollalluog.*
Ginio a fwpper fy'n ein porthi.

## LIX. *Gras yn ol bwyd.*

PORTHWR grafol pob creadur,
Gwyllt a dof, yn ol ei nattur, *Sal.*145.15,16.
Derbyn foliant am ein porthi,
Mor ddigonol â'th ddaioni.

Er pan ddaethom o'r groth allan, *Sal.*22.10.
Tydi'n porthaift fawr a bychan,
Am dy fwynder yn ein porthi,
'Ry'm ni bawb yn diolch i ti.

Nid oes gennym ddw'r i yfed,
Bara i fwytta, grym i gerdded,
Goleu i ganfod, nerth i godi,
Ond a roddech, Arglwydd, i ni. 1*Cor.*29.11,12

I ti, Arglwydd, am ein porthiant,
Am ein hiechyd, am ein llwyddiant, *Mat.*6.11.
Am ein heddwch a'n llawenydd,
Y bo moliant yn dragywydd.

## LX. *Gras cyn bwyd.*

LLYGAID pob creadur bywiol,
Sydd yn edrych, Arglwydd grafol,
Ac yn trufto cael eu porthi
Gennyt, Rhoddwr pob daioni.

'Rwyt ti'n agor dy law rafol,
Ac yn porthi pob peth bywiol,
Gan roi ymborth wrth ei nattur,
Yn ei bryd i bob creadur.

O bendithia ni dy weifion,
A'r holl fwydydd a'r danteithion,

A bar'toaiſt ar ein meder,
I'n digoni ginio a ſwpper.
  A rho i ni ras i fedru,
Bawb yn ddyfal i'th glodfori,
Am dy garc, a'th rodd, a'th ſwynder,
Yn ein porthi ginio a ſwpper.

LXI. *Gras yn ol ciniaw.*

DI lenwaiſt, Criſt, ein cylla,
  Ag ymborth o'r danteithia,
Llanw enau pawb o'th blant
A moliant am eu bara.
  Yn ſoethus iawn di'n porthaiſt,
Yn raſol di'n diwallaiſt;
Rho i ni weithian ras bob cam,
I'th foli am a roddaiſt.
  Di roddaiſt i ni'n cinio,
Ac ymborth i'n *maintaino*;
'Ry'm ni'n rhoddi nos a dydd
It' foliant prudd am dano.
  Mae dyled arnom roddi
It' foliant am ein porthi,
O! rho galon i ni a chwant,
I roi mawr foliant i ti.
  Pob bol ag wyt yn lanw,
Clodforent byth dy enw,
A bendithient ar bob cam,
Dy fawredd am eu cadw.

LXII. *Arall cyn bwyd.*

DUW dod fendith ar ein hymborth,
  Duw rho iddynt rym a chymmorth,
I'n digoni â gwir gryfdwr,
I'th was'naethu di'n Creawdwr.
  Er bod llawer bwyd yn *ddainti*,
Nid oes ynthynt rym i'n porthi,
Nac i dorri dim o'n newyn,
Oni roi dy fendith arnyn'.
  O gan hynny, Duw, bendithia
Yr holl fwydydd a ro'iſt yma;

Fel y byddo pwer ynddyn'
Borthi'n cyrph, a thorri'n newyn.
  Lle mae llawer *fort* o fwydydd,
Yn troi'n geri yn ein coludd,
Am eu cym'ryd yn afradlon,
Ac yn magu cas glefydon.
  Rho dy ras in', Arglwydd fanctaidd,
Gym'ryd pob bwyd yn dymheraidd;
Fel y gwnelont lefiant i ni,
Ac na fagont haint na fyrthni.
  Rho rym iddynt i'n cyfnerthu
Yn ein galwad, i'th was'naethu,
Ac i foli d'enw'n waftad,
Er mwyn Iefu Grift ein Ceidwad.

## LXIII. *Gras yn ol bwyd.*

DERBYN, Arglwydd, loi'n gwefufedd,
  Am dy ffafar a'th drugaredd,
Yn ein porthi mor ddigonol,
A'r cre'duriaid fydd brefennol.
  Derbyn ddiolch ar ein dwylaw,
Am roi i ni gyftal ciniaw,
Er nad ydym yn ei haeddu,
Mwy nâ'r fawl fydd yn newynu.
  Rhoed pob genau ag a borthaift
Foliant i ti am a roddaift;
Ninnau roddwn it' ogoniant
Yn dragywydd am ein porthiant.

## LXIV. *Gras cyn bwyd.*

DUW mawr, o'r nef fancteiddia
  Ni oll â'r ymborth yma,
Wyt ti'n roddi wrth ein rhaid,
I'th blant a'th ddefaid borfa.
  A phar i ni gydnabod,
Fod pob daioni'n dyfod
Oddi wrthyt, (grafol wyd)
Yn oed y bwyd a'r ddiod.
  A dyfg in' bawb foliannu
Dy enw, a'th glodfori,

Am ein porthi'n well nâ neb,
Bob amser heb ei haeddu.

Ac er mwyn d'anwyl blentyn,
Yr y'm ni'n daer yn canlyn
Arnat roddi bara a dw'r,
I'r neb s'eb swccwr ganthyn'.

A rhoddi gras i ninneu,
D'was'naethu nos a boreu,
Nes ein dyccer lle mae'n blys,
I'th nefol lys a'th artre'.

Lle mae gwir swyd a diod
Yn para byth heb ddarfod,
Yn dy blâs lle mae dy blant,
Heb arnynt chwant na thrallod.

## LXV. *Gras gwedi bwyd.*

DUW, pa'm 'rwyt yn ein porthi
Mor foethus ac mor *ddainti*,
Yn wastadol heb ddim trai,
A gadael rhai mewn tlodi?

Pa ham yr wyt yn danfon,
I ni dy waelaf weision,
Fwy nag sydd raid i ni 'mhell,
A gado'n gwell yn llymion?

Can's yr y'm yn cyffesu,
Nad ydym neb yn haeddu
Cael mwy swccwr ar dy law,
Nâ'r neb sy draw'n newynu.

Ond dy fod di o'th swynwedd,
A'th gariad a'th drugaredd,
Yn roddi i ni fwy ymhell,
Nâ'r sawl sydd well eu buchedd.

Ar hyder y rhoem ninnau
Fwy diolch byth i tithau,
Nâ'r sawl y sydd mor llwm eu ffar,
I'th foli ar eu gliniau.

I ti gan hynny rhodder,
O'n genau ni bob amser,
Glod a moliant tra ynom chwyth,
Ar ginio byth a swpper.

## LXVI. *Gras cyn fwpper.*

CODWN bawb ein pen a'n ffriw,
At Grift'r hwn yw'n *Profeider*,
A chanlynwn arno e'n daer,
Roi' fendith ar ein fwpper.
Mae e'n porthi pob peth byw,
Er maint eu rhyw a'u nifer,
Ac yn rhoi i'r rhai'n i gyd,
Eu bwyd mewn pryd a thymmer.
Nid yw un o adar to,
Yn difgyn na bo'i fwynder
Yn parottoi i hwn ar *haft*,
Ei ginio, *brecffaft*, fwpper.
Pa faint mwy y carca Duw
Am ddyn 'rhwn yw ei *bicter*,
A rhoi iddo'i raid bob tro,
Ond bwrw arno'i hyder?
Mae e'n rhoddi i ddyn yn fwyd,
A grewyd ar ei feder,
Llyfiau, llafur, 'nifail glân,
Pyfg, adar mân heb nifer.
Ni wnaeth Duw un genau 'rioed,
Mewn tir, mewn coed, mewn dyfnder,
Nes par'toi ei ymborth tyn,
I'r genau cyn ei ganer.
Llawer rhyw o 'nifail glân,
A phyfgod mân, ac adar,
A rodd Duw i borthi dyn,
A'u lladd bob un cyn bwytta'r.
Pa'm nad yftyr dynion hyn?
A rhoddi cyn y cymmer,
Glod a moliant prudd bob tro,
I'r Arglwydd ginio a fwpper.
Duw agoro'n llygaid dall,
I wel'd heb wall a rodder,
A'n geneuau ar pob cam,
I'w foli am ei fwynder.
Clod a moliant bob yr awr,
I'r Arglwydd mawr a rodder;

Am ddiwallu'n cylla gwag,
Ar ginio ac ar swpper.

## LXVII. *Gras yn ol swpper.*

RHOWN foliant prudd bob amser,
I'r Arglwydd ginio a swpper,
Am roi ymborth in' mor hael,
Heb adael *ffael* na phrinder.

Rhown iddo ddiolch hyfryd,
Am gael ein bwyd a'n hiechyd,
A'n llawenydd a'i fawr ras,
I'n cadw maes o ofid.

A cheisiwn gantho'n rasol,
Er mwyn ei Fab sancteiddiol,
Borthi'r enaid yn ei bryd,
A'i air a'i Yspryd nefol.

A thywallt ei fendithion,
A'i ras yn ddyfal arnom,
Fel y gallom nos a dydd,
Ei foli'n brudd o'r galon.

## LXVIII. *Arall yn ol swpper.*

GWYR a gwragedd, gweision, plant,
Rhown foliant am ein porthi,
I'r hael Dduw sy o bryd i bryd,
Yn rhoi maeth hyfryd i ni.

Mae'n diwallu pob peth byw,
Bob pryd â rhyw ddaioni,
Ac o'i law, a'i ras, a'i rodd,
Yn rhoddi modd i'n peri.

Mae'n rhoi bara i ni o'r ddae'r,
A gwyllt a gwar i'n pesgi;
Pysg o'r mor, a mel o'r graig,
A llawer saig heb enwi.

Mae e'n porthi pob rhyw gnawd,
Fel un dan sawd i'w costi,
Heb anghofio'r adar mân,
Na'r llew, na'r frân, sy'n gwaeddi.

Mae e'n porthi dyn yn rhin, *Sal.* 147.9.
A chann a gwin yn *ddeinti*,

A brwd a rhoſt o lawer rhyw,
Heb neb ond Duw'n eu peri.

O rhown ninnau foliant prudd,
Bob nos, bob dydd, heb dewi,
I'r hael Dduw am dan ei borth,
Sy'n rhoi'r ſath ymborth i ni.

LXIX. *Cerydd am eſgeuluſo ceiſio bendith ar, a rhoi diolch am ymborth.*

FE g'wilyddia hen ddyn bas,
Ddechreu'n hen wr dd'wedyd gras;
Rheittach oedd i hwn g'wilyddio,
Fod ef cy'd heb ei *bracteiſio.*

Na ch'wilyddied un rhyw ddyn,
Ddilyn arfer Criſt ei hun; *Mat.* 15. 36.
Ond c'wilyddied pob ofer-ddyn,
Arfer bwytta'i fwyd fel mochyn.

Fe 'nebydd ych, fe 'nebydd aſen,
Pwy yw porthwr, pwy yw perchen; *Eſa.* 1. 3.
Ac a roddant ddiolch iddynt,
Yn y meder a fo ganthynt.

Llawer dyn yn waeth nâ 'nifail,
Ni adwaenant Griſt eu Bugail,
'R hwn ſy'n waſtad yn eu porthi,
A'u trwmlwytho â daioni. *Act.* 14. 17.

Y mae'r adar bach yn canu
Clod i Dduw yn ol ſwpperu,
Ac yn rhoddi moliant iddo,
Nes bo llawen in' eu gwrando.

Maent hwy bob un yn ymdynnu
Am y goreu allo ganu;
Mawl i'r Arglwydd nos a borau,
Sy'n rhoi bwyd y lanw eu boliau.

Y mae dynion hwythau'n tewi,
Gwedi'r Arglwydd mawr eu borthi,
Heb roi clod na moliant iddo,
Mwy nâ'r pyſg s'eb lafar gantho.

Ond da dylai'r ſath gan hynny,
Fod yn uffern yn newynu?

Eiſiau 'nabod Duw'n eu cymmorth,
A rhoi diolch am eu hymborth.
  O na fydded un rhyw griſtion,
Yn gyffelyb i'r fath ddynion;
Ac os byddant yn ddi-*gwnſel*,
Maent hwy'n waeth nag un anifail.

LXX. *Gweddi ar yr un yſtyriaeth.*

DUW na'd i ni fwytta o'th ddoniau,
Fel y bwytty moch afalau,
Heb ddyrchafu pen na llygad,
I wel'd o b'le y maent yn dwad.
  Ond par i ni godi'n pennau,
A chydnabod fod y doniau
Oll yn dwad ſydd i'n porthi,
Oddi wrthyt, Tad goleuni.
  A phâr i ni foli d'enw,
Am dy fwynder yn ein llanw,
A'th fendithio yn dragywydd,
Am ein hiechyd a'n llawenydd.

LXXI. *Cyngor i gyfrannu i'r anghenus yn ol ein gallu.*

GWAE'r goludog di-doſturi,
Gaeo ei gluſt rhag gwrando tlodi,
Fe gaiff hwnnw ddyfal grio, *Diar*.21.13.
Yn y pwll heb neb i'w wrando.
  Pan bo ei wraig, a'i blant a'i draſau,
Yn chwydu'r gwin yn nhai tafarnau,
Ynte' fydd mewn carchar caled,
Heb y dw'r i dorri ei ſyched.
  Iago ddywaid, nad oes crefydd
Na chriſt'nogaeth yn y cybydd;
Na ddiwallo'r gwrꝛgedd gweddwon *Iago* 1.29.27.
Yn eu hadfyd, a'r rhai tlodion.
  Ioan anwyl ynte' dd'wedai, 1 *Ioan* 3.17.
Os gwel carl ei frawd mewn eiſiau,
Ac heb roddi dim i'w ſwccro,
Nid yw cariad Duw ddim ynddo.
  Criſt a ddywaid yr â'r Camel *Marc*.10.25.
Trwy grau'r nodwydd yn ddidrafel,

Cyn yr el y carl goludog
I'r nef, os bydd yn annhrugarog.
  Criſt a'n dododd yn ſtewardiaid,
I gyfrannu rhwng y gweiniaid,
Y dâ ddododd dan ein dwylo;
Rhannwn rhyngddynt rhag ei ddigio.
  Os bydd marw un o newyn,
Bydd gwaed hwnnw ar ein cobyn;
Ni all cyfoeth mawr yr holl-fyd,
Wneuthur iawn am dan ei fywyd.
  Rho dy gardod yn ddiattal,
Os bydd llawer, dyro'n amal,
Os bydd 'chydig, dyro ronyn,
Ond rho'n llawen heb ei w'rafun.
  Dyro'n ſiriol dy eluſen,
Hoff gan Dduw bob rhoddwr llawen, *2 Cor.*9.7.
Dyro roddech yn gariadus, *Luc* 14.13,14.
Ni fyn Criſt un rhodd wrth'nebus.
  Er na roech i'r tlawd ond cyfran,
Er mwyn Criſt o'i ddâ ei hunan;
Mae e'n addo gwobr ffyddlon,
Am gyfrannu hynny i'r tlodion.
  Na ddihiria hyd y foru, *Diar.*3.27.28.
Roi'r peth allech roddi heddy': *Gal.*6.10.
Rho yn rhwydd a rho yn hawddgar,
Diflas a fydd rhodd ddiweddar.
  Rhown, medd Paul, tra gennym bwer,
Gwnawn ddaioni tra cawn amſer:
Fe all y monarch mwyaf heddy',
Fod yn begian dw'r y foru.
  'Roedd gan Ddeifes wrth giniawa, *Luc.*16.19.
Lawer ſaig o'r bwyd danteithia;
Nid oedd gantho ar ei ſwpper,
O'r dw'r oer mewn fflam a phoethder.
  Wrth *frecwaſta* ar ddanteithion,
Ni chai Lazar ganddo o'r briwſion,
Wrth ſwpperu ni chai ynte',
Ddafan ddw'r er maint a griai.
  Fe roi 'nawr y byd am lymmed
O ddw'r oer i dorri ei ſyched,

Pe rhoi'r nef a'r ddae'r am *ddroppyn*
O'r dw'r oer, ni's cai er canlyn.
  Nid oes ganddo o'i holl olud,
O'r dw'r oer yn uffern danllyd,
Ni bydd gan y llawna ei giſtau,
Foru o boſib' fwy nag ynte'.
  Fe aeth mor noeth, mor llwm oddi yma,
Ag y daeth i'r byd o'r cynta';
Pe cai e'r nef am hanner fflorîng,
Nid oes gantho i'w phrynu o'r ffyrlling.
  Heddyw gall y gwyr goludog,
Rannu llawer i'r newynog;
F'allai foru, trwy ryw ddamwain,
Na bydd ganddynt ddim eu hunain.
  Rhown gan hynny tra peth gennym,
I'r dyn tlawd i dorri newyn;
Foru o boſib' ni bydd dimmau,
I gyfrannu i'r mwya' ei eiſiau.
  Tor dy fara i'r newynllyd, *Eſa*.58.7,8.
Fe fendithia Duw dy olud;
Ni bydd llai dy gig i'th grochon,
Er a roddech i'r rhai tlodion.
  Ni bu'r weddw o Sarepta, *Bren*.17.
Dlottach er a ga'dd Eliſa,
Ni bu llai ei *hoil* na'i thoeſyn,
Er rhoi teiſen iddo o ronyn.
  Gwelais lawer o'r gwyr mawrion, *Diar*.22.16.
Yn cyrwydro am dreiſio tlodion,
Ond ni welais gwedi'm geni,
Ddyn ar feth am helpu'r tlodi.
  Coegedd, ſyrthni, trawſedd, traha,
Helodd lawer i gardotta;
Ond ni yrrodd rhoddi cardod,
Ddyn erioed i fyn'd ar anffod.
  Gwyn ei fyd, medd brenin Dafydd,
Y dyn a dynno'r tlawd o'i gyſtudd;
Duw ei hun mewn amſer adfyd,
A'i tyn ynte' maes o'i ofid.
  Duw a'i gwared o'i drallodion, *Sal*.41.1,2.3.
Duw a'i ceidw rhag gelynion,

Duw ei hun a g'weiria ei wely,
Pan fo claf heb allael cyſgu. *Diar.*19.17.

Rhowch i'r tlawd eu rhaid yn echwyn,
Criſt ei hun â'n feichiau droſtyn',
Ac a dâl i chwi drachefen,
Faint a roddoch wrth eu hangen.

Pwy ond Iuddew brwnt ni fentrai
Roi yn echwyn i'r fath feichiau? *Marc* 10.29,30.
'Rhwn ſy'n talu ar ei ganfed,
I ddyledwyr ei holl ddyled.

'Ry'ch chwi'n *truſto* gwaeth meichneon,
Nâ Mab Duw am ſwmmau mawrion,
Truſtwch Griſt am grach dippynnau
Geiſio'r tlawd, mae'n abal meichiau.

Mae e'n talu ar ei ganfed,
I bob criſtion ei holl ddyled:
Dwl yw'r cybydd ni all hepgor
Dim i'r tlawd am gymmaint occor.

Nid oes occor wy'n ei 'nabod,
Fwy ei fael nag occor cardod;
Mae'n dwad adref ar ei chanfed,
Pan fo rheittaf cael ei gweled.

Nid oes tryſor ar ddaearen,
Well nâ chardod ac eluſen,
Hi fydd gwell yn nydd dy drallod,
Nag aur coeth ac arian parod.

Fe dreulia'r aur, fe ryda'r arian,
Fe fwytty'r pryfed lawnd a ſidan;
Fe lwyda'r bwyd, fe ſura'r ddiod,
Nid oes dim all waethu cardod.

Pan loſgo'r byd yn wenfflam olau, *Mat.*10.42.
A'r tai, a'r tir, a'r holl dryſorau,
Fe fydd cardod uchlaw'r boban,
Yn mharadwys yn dy waetan.

Pan ddel angau glas i'th geiſio,
Fyn'd i'r bar yn noeth i 'mpiro,
Goreu *ſtor*, medd Criſt, yw cardod,
Ddydd y farn o flaen y Drindod.

Pan bo'r tai, a'r tir, a'r traſau,
Gwedi'th ado dan law angau,

Fe fydd cardod yn dy ddilyn,
Nes dy ddwyn i lys y Brenin.

Mwy o ennill ſydd yn dyfod
I'r dyn ſydd yn rhoddi cardod,
Nag i'r tlawd ſydd yn ei derbyn,
Mae e'n cael llawer am y gronyn.

Fe gaiff manna am y briwſion,
*Aqua vita* am ddw'r afon,
Gwiſg ddiſgleirwen am hen gadach,
Ar law Criſt, a'i wir-gyfeillach.

Gwna gan hynny ffryns o'r golud,
Ac o'r mammon oll ſydd gennyd,
Felly y'th dynner ar ddydd tywyll,
Attynt i'r trag'wyddol bebyll. *Luc* 16.9.

*Storia* lle bydd dy breſwylfod,
Gwerth ſydd gennyt, dyro gardod;
Na wanffyddia fel dyn llanas,
Werthu tyddyn i gael teyrnas.

Gyr o'th flaen yn nyrnau'r tlodion
Dryſor, lle na 'ſpeilia'r lladron;
Edrych beth a roddech iddyn',
O law Criſt y cei ei dderbyn.

A roech i'th wraig, a'th blant, a'th draſau,
Dy wraig, a'th blant, a'th ffryns, a'u piau:
A roech i Griſt, a'r tlawd, a'r truan,
*Storio*'r wyt i ti dy hunan.

Tryſora o'th flaen i'r nefol bebyll,
Dod olew i'th lamp, mae'r ffordd yn dywyll, *Luc* 12.
Gwna bwrs didraul o'r dâ ni dderfydd, 33,35.
Mae Criſt ei hun yn rhoi it' rybudd.

Haua'n amal tra c'ech amſer,
Fel y rhoddo Duw it' bwer; 2 *Cor*.9.6.
Ar ei ganfed di gei fedi *Gal*.6.9.
Yn ei bryd, oni ddiffygi.

Tor dy fara i'r newynog,
A dillada'r noeth anwydog, *Eſa*. 58.7.
I'r cyrwydrad dyro letty,
Duw ei hun ſy'n erchi hynny. *Job*.29.12,13,15,16.

Bydd yn llygaid i'r rhai deillion,
Traed i'r cloff, a nerth i'r gweinion,

Rhyſgwy'r weddw, câr deithraid,
Mam a thad i'r plant ymddifaid.

LXXII. *Cyngor i bob penteulu i lywodraethu ei dŷ yn dduwiol.*

OS mynni fod yn ddyn i Dduw,
Yn griſtion ſanctaidd tra f'ech byw,
Gwna dy dŷ yn eglwys fechan,
A'th deulu'n dylwyth Duw ei hunan.

Gwna dy dŷ yn demel gyſon,
Gwna dy dylwyth fel angylion,
Yn eu graddau o bob galwad,
I was'naethu Duw yn ddifrad.

Gwna dy dŷ yn demel ſanctaidd,
I addoli Duw yn weddaidd,
Gan bob enaid a fo ynddo,
Foreu a hwyr yn ddi-ddiffygio.

Dewis fain o bobol raſol,
Gwedi *'ſgwario* i gyd wrth reol,
Yn byw yn ſanctaidd ac yn gymmwys,
I adeilio dy lân eglwys.

Na'd un maen anghymmwys ynddi,
Nac un dryg-ddyn ddwad iddi;
Nid rhai aflan ond rhai cymmwys,
A fyn Duw yn fain i'w eglwys.

Tro'r main aflan oll oddi wrthyd,
Ni fyn Duw'r fath feini ſarnllyd;
Tŷ i Griſt, nid tŷ i gythraul,
A fydd d'eglwys di a'th demel.

*Ffittach* ydyw pobol aflan,
Fod yn fain i gorlan ſatan,
Ac yn danwydd uffern driſt,
Nag yn fain yn eglwys Criſt.

Maen anghymmwys, maen afluniaidd,
Sy'n anffurfio temel g'ruaidd;
Dyn anneddfol, dyn aneſmwyth,
A bair anghlod i'th holl dylwyth.

Na ddod glogfain cas anghymmwys,
Heb ei 'ſgwario yn dy eglwys,

Ac na dderbyn i'th dŷ deddfol,
Rai digrefydd at rai grafol.

Ni wna meini cas anghymmwys,
Ond diwreiddio gwelydd d'eglwys,
Na'r rhai aflan drwg digrefydd,
Ond troi'th dŷ â'i dor i fynydd.

Gyr yr aflan ffwrdd o'th deulu,
Cyn y ceifiech Grift i'th letty;
Ni ddaw Crift i'r lle ammherffaith,
Nes troi'n gynta'r aflan ymaith. *Ioan.* 14. 23.

Byth ni chydfydd mewn un demel,
Wir blant Duw, a phlant y cythraul,
Mwy nâ'r gwenyn bach â'r mwg,
'Mo'r Yfpryd Glân a'r yfpryd drwg.

Ni thrig brenin lle bo moch,
Brwnt eu buchedd, cas eu rhoch;
Ni thrig Crift a'i Yfpryd gwiwlan,
Yn yr un-tŷ â'r rhai aflan.

Os bydd i'th dŷ di rai digrefydd,
Meddwon, marllyd, ac anufudd,
Tro hwy maes fel dafad glafrllyd,
Rhag clafrio'r faint fydd gennyt.

Fel y bwriodd Abra'm Ifmael *Gen.* 21. 14.
Ffwrdd o'i dŷ am chwareu'r rebel,
Felly bwrw ditheu'r aflan,
Ffwrdd o fyfg dy dylwyth allan.

Ni adawai Dafydd frenin *Sal.* 101. 7.
Was annuwiol yn ei gegin;
Na ad ditheu ddrwg-weithredwr
Yn dy dŷ nac yn dy barlwr.

Un gwas aflan a bair anair,
I laweroedd o rai diwair:
Na'd gan hynny aflan orphwys
Yn dy dŷ nac yn dy eglwys.

Myn rai duwiol i'th was'naethu,
Os dedwyddwch a chennychu,
Duw fendithia waith y duwiol,
Pan ddel aflwydd i'r anneddfol.

Gwas fel Jofeph duwiol geirwir,
A dynn fendith ar ei feiftir:

Ond y drygddyn megis Achan, *Jos.*7.25.
All andwyo'r tŷ a'r gorlan.

Os bydd gwas crefyddol gennyd,
Duw fendithia dy holl olud;
Fel y gwnaeth ef er mwyn Iago, *Gen.*30.30.
I holl olud Laban lwyddo.

Gwell gwas duwiol, llariaidd, llonydd,
A dynn lwyddiant ar dy faesydd,
Nâ'r digrefydd goreu gaffech,
A dynn aflwydd ar a feddech.

Gwell y llwydda gorchwyl gwas,
Diddrwg, llariaidd, llawn o ras,
Nag y llwydda gwaith anneddfol
Gwas digrefydd, grymmus, graddol.

F'all gwas'naethwr doeth crefyddol, 1*Cor.*7.16.
Droi ei feistr fod yn ddeddfol,
Fel y dichon gwraig y pagan,
Droi ei gwr yn gristion gwiwlan.

Oni cheisi bobol ddeddfol,
I'th was'naethu yn grefyddol,
Byth ni bydd dy dŷ yn demel,
Ond yn wâl a bwth i'r cythraul.

Nid wyt nes, er gweision cryfion,
I gyflawni dy orchwylion,
Oni byddant hefyd, clyw,
Gryf i gwpla gorchwyl Duw.

Na fyn un i'th dŷ a'th drigfa,
Nes bo o deulu'r ffydd yn gynta':
Nac un gwas tra fyddech byw,
Nes bo'n gynta'n was i Dduw.

Ni fyn eglwys Dduw it' dderbyn
Twrc na phagan i ti'r cymmun;
Na fyn dithau yn dy deulu,
Rai digrefydd i'th was'naethu.

Ni bydd gwas digrefydd cywir,
Nac i'r Arglwydd Dduw na'i feistir;
Can's arferol i'r fath ddryg-was,
Werthu' feistir megis Suddas.

Cais gan hynny bobol sanctaidd,
Pobol dduwiol, pobol weddaidd,

I'th was'naethu tra f'ech byw,
Os gwnei dy dŷ yn eglwys Dduw.
  Bydd dy hunan yn oleuni,
Ac yn batrwn o ddaioni,
I'th holl bobol mewn ſancteiddrwydd,
Glendid buchedd, ac oneſtrwydd.
  A rho ſiampl dda i'w dilyn,
Yn y neuadd, yn y gegin,
Mewn gair, gweithred, ac ymddygiad,
I bob rhai fo'n diſgwyl arnad.
  Rhodia gyd â Duw fel Enog,
Bydd bob amſer yn wagelog,
Cofia fod Duw â ſaith llygad,
Ymhob man yn diſgwyl arnad.
  Gochel dd'wedyd dim na'i wneuthur,
Ond a fyddo tra chymmeſur,
O flaen Duw a chroes y farchnad,
A phar goſio hyn yn waſtad.
  Bydd mor ſobr, bydd mor ſanctaidd,
Bydd mor gynnil, bydd mor weddaidd,
Bydd mor ddeddfol bydd mor gymmwys,
Yn dy dŷ ac yn dy eglwys.
  Y mae dyled ar bob pen-teulu,
Ddyſgu ei dylwyth wir grefyddu,
'Nabod Duw a chadw ei ddeddfau,
Credu yng Nghriſt, a'i 'ddoli'n ddiau.
  Fel y dyſgai Abra'm ebrwydd, *Gen.* 18.19.
Bawb o'i dŷ i ofni'r Arglwydd,
Felly dyſg dy blant a'th deulu,
I 'nabod Duw a'i wir was'naethu.
  Dyſg dy blant, a dyſg dy bobol,
I wir 'nabod eu Tad nefol,
A'r Iachawdwr a ddanfonwys, *Ioan* 17.3.
Dyma'r ffordd i'r nef yn gymmwys.
  Planna gyfraith Duw'n waſtadol,
Yng nghalonnau pawb o'th bobol;
Sonia am dani hwyr a boreu,
I mewn, i maes, wrth rodio ac eiſte'.
  Duw ſy'n erchi'r tadau ddangos *Deut.* 6.6,7,8.
Deddfau'r Arglwydd i'w holl blantos,

A'u rhoi'n lasiau ar eu dillad,
Er mwyn cofio gair Duw'n wastad.
  Darllain bennod o'r 'sgrythurau,
I'th holl dylwyth nos a borau;
Par i bawb ail-adrodd allont,
A byw'n ol y wers a ddysgont. *Iago* 1.22.
  Bydd reolwr, bydd offeiriad,
Bydd gynghorwr, bydd yn ynad,
Ar dy dŷ, ac ar dy bobol,
I reoli pawb wrth reol.
  Bydd offeiriad i'w cyf'rwyddo,
Bydd gynghorwr i'w rhybuddio,
Ac i draethu'r 'fengyl iddynt,
Ac i brudd weddio drostynt.
  Bydd reolwr i *gompelio*,
Ac i gospi'r rhai droseddo,
Ac i beri pawb o'th bobol
Fyw'n gristnogaidd ac yn foesol.
  Bydd di farnwr i gyfrannu
Uniawn farn rhwng pawb o'th deulu,
I roi tâl i'r da a'r duwiol,
A dialau i'r anneddfol.
  Gwna di gyfraith gyfiawn gymmwys,
I reoli'th dŷ a'th eglwys;
Par i'th bobol yn ddiragraith,
Fyw yn gymmwys wrth y gyfraith.
  Dysg i bawb yn gynta' eu dyled,
Dangos b'wedd y dylent fyned;
Gwedi dysgu'r gyfraith groyw,
Par i'r wialen beri ei chadw.
  Bydd â'th law, a bydd â'th lygad,
Yn llwyr ddisgwyl ar eu hymddygiad,
Na'd i neb ar air na gweithred,
Droi ar draws heb gerydd caled.
  Par i bawb o'th dŷ ddisgleirio,
Megis seren yn goleuo,
Yn rhoi llewyrch, dysg, ac urddas,
I bob rhai fo'n trigo o gwmpas,
  Par i'th dylwyth di ragori,
Mewn duwioldeb a daioni,

Fel 'roedd tylwyth Noe dduwiolaf,
Yn rhagori'r holl fyd cyntaf.
  Par i'th wraig fod megis seren
Siriol, sanctaidd, lonydd lawen,
Yn esampl o sancteiddrwydd,
Mewn gair, gweithred, ac onestrwydd.
  Par i'th holl blant fod yn foesol,
Yn grist'nogaidd, ac yn rasol,
Yn ymostwng i'w rhieni,
Fel plant Recab yn y 'stori. *Jer*.35.6.
  Par i'th dylwyth fod yn ffyddlon,
Megis tylwyth tŷ Philemon,
'Rhwn a wnaeth ei dŷ yn eglwys,
Gan mor sanctaidd ei rheolwys.
  Par i'th bobol fyw mor gymmwys
Yn dy dŷ ac yn dy eglwys,
Ac mor sanctaidd ymhob cornel,
A phe baint yng nghorph y demel.
  Na'd hwy ddangos gwaeth cynheddfau,
Na'd hwy wneuthur bryntach castiau,
Yn y tŷ nag yn yr eglwys,
Ond par iddynt fyw yn gymmwys.
  Na'd hwy dorri un gochymmyn,
O'r rhai lleiaf heb eu gw'rafun,
Na'd hwy ddilyn un drwg arfer,
Heb eu cyffroi wella ar fyrder.
  Na'd i fawr na bychan dyngu *Mat*.5.34.
Enw'r Arglwydd mawr, na'i gablu,
Na dibrisio gwaed y cymmod,
Heb roi dial am ei bechod.
  Na'd hwy dreulio'r sabbath sanctaidd,
Mewn oferedd anghrist'nogaidd,
Nac mewn gloddest a phibyddiaeth,
Heb roi union gospedigaeth.
  Na'd un wrando'r gair yn ofer,
Heb ei ddilyn gwedi clywer;
A'i ail gnoi, a son am dano,
A byw'n ol y wers a ddysgo.
  Na'd un fyn'd y nos i gysgu,
Nes penlinio wrth ei wely,

Ac addoli Duw yn gynta',
Cyn y rhoddo i'w gorph esmwythdra.
Na'd un fyn'd y boreu allan,
At un gorchwyl mawr na bychan,
Nes addoli Duw'n ei 'stafell,
Ar ei ddaulin heb ei gymmell.
Na'd un daro ei law ar arad',
Nac ar orchwyl o un galwad,
Nes y cotto ei law yn gyntaf,
Am gael cymmorth Duw goruchaf.
Na'd un fyned i siwrneia,
Nac i forio, nac i ffeiria,
Nes ymbilio'n daer â'r Arglwydd,
I'w ddwyn adre' yn ddidramgwydd.
Na'd un arfer megis mochyn,
Fwytta ei fwyd a llanw ei growyn,
Nes bendithio'r bwyd yn gyntaf,
A chydnabod Duw goruchaf.
Na'd un godi megis 'nifail,
Gwedi llanw ei fol a'i fottel,
Heb roi diolch prudd a moliant
I'r Tad nefol am ei borthiant.
Na'd fod un o'th deulu'n eisiau
Ar wasanaeth nos na borau;
Wrth was'naethu Duw bydd garcus,
Na's gwas'naetho neb e'n 'sgeulus.
Na'd hwy arfer geiriau lloerig,
Nac ymadrodd brwnt, llygredig,
Sen na rheg, na llw, nac enllib,
Ffrwmp na ffrost, na dim cyffelyb.
Dysg dy blant, a rhwym dy bobol,
I arferyd geiriau grasol,
Geiriau baro maeth a chysur,
Gras ac urddas i'r gwrandawyr.
Na'd hwy arfer castiau bryntion,
Na'd hwy watwor pobol wirion,
Na'd hwy gablu rhai anafus,
Na bychanu'r tlawd gofidus.
Na'd hwy chwiffio yn y seler,
Na'd hwy feddwi ar un amser,

Na'd hwy ſugno mwg y * ddalen,
Sydd yn 'ſpeilio'r bol a'r cefen.

* *Tobacco.*

Na'd hwy hoffi ffaſiwn anllad,
Ar eu gwallt nac ar eu dillad;
Par i bob un fyn'd yn weddaidd, 1 *Cor.* 11.14.
Fyn'd yn gryno ac yn g'ruaidd.

Ar y ſabbath na'd hwy i'r pebyll,
Lle mae'r deillion yn ymgynnull,
Nac i dramwy i'r tafarnau,
Lle mae'r diawl yn cadw ei wyliau.

Dos i'th eglwys blwyf y ſuliau,
A'th holl dylwyth wrth dy ſodlau,
I addoli Duw'n gyhoeddus,
Gyd â'r dyrfa yn ddi'ſgeulus.

Na'd i'th dylwyth drigo gartre',
Amſer goſper ar y ſuliau:
Na'd hwy loetran ar y ſabboth,
Sawl a chwario, chwarient drannoeth.

Na ddod ormod waith aneſmwyth,
Ddyddiau'r wythnos ar dy dylwyth;
Lwa ambell awr yn llawen,
I'r diffygiol godi ei gefen.

Ar y ſabbath na'd hwy'n ſegur,
Par i bob un chwilio'r 'ſgrythur,
Ac i weithio gwaith Duw'n eſgud,
O flaen un gwaith a fo gennyd.

Dyſg dy dylwyth ar y ſuliau,
Bob rhyw un i ganu ſalmau,
Ac ymbyngcio'n llon â'u gilydd,
Am air Duw a phyngciau crefydd.

Ar bob cinio, ar bob ſwpper,
Par i ryw un ddarllain *chapter*,
I roi ymborth i bob enaid,
Pan bo'r corph yn cael ei gyfraid.

Na'd dy dŷ na hwyr na borau,
Heb waſanaeth a gweddiau,
Gwell i'th dylwyth fod heb ſwpper,
Tra ſont byw na bod heb oſper.

Na'd i'th eglwys fod un amſer
Heb waſanaeth pryd a goſper,

Nac heb aberth hwyr a borau,
I'th Dad nefol am ei ddoniau.

Na'd un cornel a fo ynddi,
Heb ei yſgubo o bob brynti,
A'r yſgubell o 'difeirwch,
Nes cael ffafar Duw a'i heddwch.

Golch ei llawr â heilltion ddagrau,
Trwſia ei gwelydd â rhinweddau,
Na'd ei hallor heb dân arni,
Ac aroglau mawl a gweddi.

Cais dy hunan chawreu'r 'ffeiriad,
Galw ar enw Duw yn waſtad,
Par i'th bobol gydfyfyrio,
Gyd â thi tr'ech yn gweddio.

Pob penteulu carcus cymmwys,
Ddylai fod fel gwr o'r eglwys,
Yn cynghori, yn rhybuddio,
Pawb o'i dŷ yn oreu ag allo.

A'r fath drefn ſy'n yr eglwys,
Yn rheoli pawb yn gymmwys,
Ddylai fod yn nhŷ pob criſtion,
I reoli'r tŷ a'r dynion.

Goſod un neu ddau o'th deulu,
Fel wardeniaid i'th gyd helpu,
Gadw'th bobol oll wrth drefen,
A'u rheoli yn dy abſen.

Rhaid yw diſgwyl ar arferion
Ac ymddygiad pawb o'th ddynion,
Ac ar lwybrau rhai ſy'n pechu,
Fel y gallech eu ceryddu.

Na'd un drwgddyn heb ei goſpi,
Yn ol meſur ei ddrygioni,
Rhag i arall bechu fwy-fwy,
Am it' ffafrio'r anghym'radwy.

Dyro rybudd i'r troſeddwr,
Dair gwaith, pedair, wella ei gyflwr,
Cyn ei daflu ffwrdd o'r gorlan,
Oni wella tro fe allan.

Os bydd meddwon na bydd ſobor,
Os bydd drel na dderbyn gyngor,

Un digred na charo grefydd,
Tro hwy maes yn ol cael rhybudd.

Os bydd morwyn yn 'ſgoldies,
Ac heb berchi Sara ei meiſtres,
Bwrw Hagar o'r drws allan,
Gad i'r feiſtres gael ei hamcan. *Gen.*16.

Na'd i'th ddynion fod yn ſegur, *Preg.*10.18.
Rho rhyw daſg i bawb i'w wneuthur,
Maeth diffrwythder mammaeth gw'radwydd
Yw cyd-ddwyn â ſegurlydrwydd.

Myn wel'd pawb o'th blant a'th deulu,
Yn myn'd mewn pryd bob nos i gyſgu;
Arfer ddrwg yw gadael gweiſion
Fyn'd i gyſgu pan y mynnon'.

Pan boi'n amſer myn'd i gyſgu,
Cais gan Griſt fendithio'th deulu,
A bod arnynt oll yn Geidwad,
Gwedi'n cymmer di dy gennad.

A rho rybudd i'th holl bobol
Alw ar Dduw yn ddefoſiynol,
Fawr a bach ar ben eu gliniau,
Cyn yr elont i'w gwelyau.

A rhag ofn i Dduw gyrchu
Rhai o'u cwſg i fyn'd i'w barnu,
Par i bob un lwyr ymg'weirio,
Fyn'd o flaen Duw cyn y cyſgo.

Os yn llyn y llywodraethu *1Sam.*2.30.
Dy holl dylwyth, a'th holl letty,
Duw fendithia'th dŷ a'th dylwyth,
Ac a'ch gwna chwi oll yn eſmwyth.

Criſt a breſwyl yn dy demel, *Ioan* 14.23.
Criſt a'th wrendy yn dy drafel,
Criſt a'th dderbyn o'th lân eglwys,
Ar dy ddiwedd i Baradwys.

## LXXIII. *Dyledſwydd plant i'w Rhieni.*

OS plentyn wyt, rho wir anrhydedd
I'th dad a'th fam trwy barch a mawredd, *Eph.*6.2,3
Duw ſy'n erchi eu hanrhydeddu,
Os gras a hir oes a chwennychu.

Gwna'r peth archo dy rieni,
Prawf ymhob peth eu boddloni,
Trwy na cheisiont gennyt bechu,
Gwna bob peth a font yn fynnu.

Derbyn gyngor, derbyn gerydd,
Derbyn gosp dy dad yn ufudd,
Derbyn ddysg pan fo'n dy siacco,
Derbyn bob athrawiaeth gantho. *Diar.*4.1.

Os dwl, os dall, os poeth, os lloerig,
Os annioddefgar a dottiedig,
A fydd dy dad a'th fam mewn henaint,
Godde' eu gwendid trwy ddioddefaint. 1*Tim.*5.4.

Os bydd dy dad a'th fam mewn tlodi,
A chennyt dithau fodd i'w peri,
Maetha'n dirion y ddau hen-ddyn,
Fel y maethsant dithau'n blentyn.

Dilyn siampl y ciconia, *Lef.*11.19.
Sy'n porthi ei dad pan fo ef gwanna',
Yn c'weirio ei nyth, yn ei adeinio,
Yn hen, yn wan, heb allu cyffro.

Dilyn arfer y * dolphiniaid, ** Math ar bysgod.*
Sy'n porthi eu tad a'u mam yn weiniaid,
Gan eu cadw pan font gwanna',
Rhag i'r pysgod mawr eu difa.

Gw'radwydd mawr i feibion dynion,
Fod yn waeth nâ'r adar gwylltion:
Gwaeth nâ'r pysgod mewn caledi,
Wrth y rhai rodd bywyd i ni.

Od wyt wr mawr o alwad uchel,
A'th dad yn dlawd, a'i radd yn isel,
Rho barch i'th dad, er cuwch fo'th alwad,
Anrhydedda'th fam yn wastad.

Er bod Joseph yn rheoli *Gen.*45.
Gwlad yr Aipht, a'i dad mewn tlodi,
Fe wnai Joseph fawr anrhydedd,
I'w dad ei hun er maint ei waeledd.

Er bod Solomon yn frenin, 1*Bren.*2.19.
Ar ei orsedd yn gyffredin,

Fe ddiſgynnai oddi ar ei orſedd,
I berchi ei fam â mawr anrhydedd.

Er bob Criſt yn Dduw yn ddyn,
Yn uwch nâ neb yn well nag un, *Luc.*2, 51.
Fe barchai ei fam, fe barchai ei dadmaeth,
Fe fyddai ufudd i'w hathrawiaeth.

Ped fait ti dduwc, nid llai dy ddyled
I berchi'th dad a'th fam, er tlotted;
Ni rydd uchelfraint rydd-did i ti,
Laeſu'th ddyled i'th rieni.

Mae'th dad yn dad ped f'ai e'n gobler,
A thithau'n fab, ped f'ait ti'n 'ſgwier;
Tra fy'ch yn fab, mae Duw'n dy rwymo,
Roi parch i'th dad pwy bynna' fyddo.

Pan oeddyt wan, heb fedru cwnnu,
Heb fwyd i gnoi, heb laeth i lyngcu,
Heb glwt i'th gylch, dy fam a'th helpodd,
Pa dâl a roi i'r hon a'th fagodd?

Yn hir hi'th ddygodd dan ei gwregis,
A'i gwaed hi'th borthodd yno naw-mis;
A'i llaeth hi'th olchodd o'th holl frynti,
Pa dâl bwyth a wnai di iddi?

Yn glaf hi geiſiodd dy ddiddanu
Lawer nos, gan golli ei chyſgu;
Gan dy lwlan rhwng ei breichiau,
Pan bait ti ar dorri'n rhengau.

Rho anrhydedd prudd gan hynny,
I'th rieni am dy fagu,
Na'd wall arnynt hyd dy farw,
Tro gwerth ceiniog yn dy helw.

Y parch, a'r bri, a'r bwyd, a'r trwſiad,
A roech i'th dad yn hen wr ingnad,
A ry dy fab i tithau'n henddyn,
Wrth union farn, cyn del dy derfyn.

Y garthen rawn a fu ar wely
Dy dad wrth orwedd yn y beudy,
A geidw'th fab i tithau orwedd,
Ar y daflod cyn dy ddiwedd.

Y meſur cwtta'r hwn a roddech,
A roddir i ti pan heneiddiech,

Yr ŵyr a ddial, medd y wlad,
Y mesur bach a roech i'th dad.

Bydd gan hynny hael a serchog,
Rhwydd a thirion, a thrugarog,
Wrth dy dad a'th fam mewn henaint,
Fel y caffech dithau'r cymmaint.

Na ddos fel Esau i briodi, *Gen.* 36. 2.
Heb gael cennad dy rieni,
Odid i Dduw 'rioed fendithio
'R fath briodas wyllt na'i llwyddo.

Os anweddus yw'th rieni,
Nid oes i ti eu hammharchu;
Na'u bychanu hyd eu diwedd,
Ond gweddio am wella eu buchedd.

Cam, am watwar Noa ei dad, *Gen.* 9. 25.
Drwm felldithiwyd yn ei had;
A'r felldith hon s'eb fyned etto,
O grwyn y * mwrs a ddaeth o hono. * *Pobl dduon.*

Absalom dêg a fu'n anufudd, 2 *Sam.* 18. 9.
A thraws i'w dad, hen frenin Dafydd,
Duw a'i crogodd wrth ei locsen,
Am ei drawsedd wrth frig derwen.

Parcha'th dad a'th fam gan hynny,
Helpa'r ddau pan font yn ffaelu;
Felly'r estyn Duw dy ddyddiau,
Yn y tir lle bo dy drigle.

LXXIV. *Pa bethau a ddylai dyn fyfyrio arnynt ar y sabbath wrth fyned i'r eglwys, a pha fodd y mae iddo ymddwyn ei hunyno.*

CYN dy fyn'd i'r llan, wrth gerdded,
Meddwl i b'le'r wyt yn myned;
O flaen pwy, ac i ba bwrpas;
A dos gwedi'n iddi'n addas.

'Rwyt ti'n myn'd i dŷ'r Goruchaf,
O flaen Duw yr Emprwr mwyaf,
I chwedleua ar dy ddaulin,
A'th Greawdwr ac a'th Frenin.

'Rwyt ti'n myn'd i lys Jehofa,
I gael clywed Duw'r Goruchа',

Yn ymddiddan â thi'n hyfryd,
Deg a theg o air y bywyd.
'Rwyt ti'n myn'd yn brudd i adde'
O flaen Duw dy holl gamweddau;
Ac i ddeisyf ei drugaredd,
Gras a grym i wella'th fuchedd.
'Rwyt ti'n yn myn'd i geisio pardwn,
Nawdd, a gras, ac *absolusiwn*,
Gan dy Grist, trwy enau'r 'ffeiriad,
Am dy bechod a'th ymddygiad.
'Rwyt ti'n myn'd i lwyr weddio
Ar yr Arglwydd mawr sy'n addo
Rhoi ni bob peth sydd anghenrhaid
At y corph, ac at yr enaid. *Sal.*34.10
'Rwyt ti'n myned i fendithio
Duw, am bob dawn a ge'st ganddo, *Sal.*95.2,6
Ac i roddi i'r Gorucha'
Glod a moliant gyd â'r dyrfa.
'Rwyt ti'n myn'd i wrando'n hyfryd
'Ffengyl Crist a gair y bywyd,
Ewyllys Duw a'i gyfraith sanctaidd,
I'th gyf'rwyddo i fyw'n grist'nogaidd.
'Rwyt ti'n myn'd i geisio cyfran,
O hael fendith Duw ei hunan, *Num.*6.23,&c.
I'th rwyddau y ffordd y cerddech,
Ac i lwyddo'r hyn a wnelech.
Dos gan hynny trwy lawenydd,
I dŷ Dduw â dirfawr awydd,
A hiraetha am fyn'd yno,
Fel yr hydd am ddyfroedd Silo. *Sal.*42.1.
Dos yn llawen, dos yn siriol,
Dos yn eon, dos yn foesol,
Dos yn fuan, dos yn forau,
Dos i dŷ Dduw ar dy liniau.
Dos i'r eglwys gyd â'r cyntaf,
Aros yno gyd â'r olaf;
Tra f'ech yno na fydd segur, *Preg.*9.10.
Gweithia waith dy Dduw yn brysur.
Na fydd segur yn nhŷ Dduw,
Gweithia ei waith yn brudd tr'ech byw;

Melldigedig yw'r dyn gwallus, *Jer.*29.13.
A wnel waith ei Dduw yn 'ſgeulus.

Cwymp yn iſel ar dy ddau-lin,
Llef yn eiriol ar dy Frenin;
Prudd weddia â'th holl galon,
Na ragrithia od wyt griſtion. *Mat.*15.8.

Gwrando'r gair yn dra awyddus,
Derbyn hwn i'r galon garcus,
Na'd i'r brain a'r fall ei ſgliffied, *Sal.*119.11.
Nes y ffrwytho ar ei ganfed. *Mat.*13.23.

Gochel edrych hwnt ac yma,
Gochel gyſgu na chwedleua,
Ond gwna naill ai prudd weddio,
Gwrando'r gair, a myn'd oddi yno.

Ni all Duw yr union Farnwr,
Aros edrych ar ragrithiwr,
A fo'n cym'ryd arno 'ddoli,
Ac heb wneuthur hyn o ddifri.

Pan weddio'r gwr eglwyſig,
Cyd-weddia ag e'n yſtig,
Air yng air o'r dechreu i'r diwedd,
Mewn cyttundeb a chynghanedd.

Pan bregethir yr efengyl,
Gochel droi at hon dy wegyl:
Gallu Duw yw'r 'fengyl helaeth, *Rhuf.*1.10.
Sydd yn gweithio'n hiechydwriaeth.

Craffa'n fanwl ar y 'ffeiriad, *Luc* 4.20.
Tro'n pregethu, â'th ddau lygad,
Cadw ei eiriau yn dy galon,
A chais ddilyn ei gynghorion.

Cymmer bob gair ag a dd'wetto,
Megis cyngor i'th rybuddio,
O bur enau Criſt ei hunan,
I fyw'n weddaidd yn ei ofan.

Na ddos adref heb yſtyriaeth,
Nes cael diwedd y gwaſanaeth;
Ac na chytgam, dan boen melldith,
Fyn'd i maes nes cael y fendith.

Bid d'ymddygiad yn yr eglwys,
Yn griſt'nogaidd ac yn gymmwys,

Megis yng wydd Duw ei hunan,
A'i angylion fawr a bychan.

LXXV. *Cyngor i ymbarottoi cyn dyfod i addoli yn gyhoeddus.*

TYN dy 'ſgidiau, golch dy ddillad,
Ymſanƈteiddia cyn dy ddwad
I dŷ'r Arglwydd i addoli,
O flaen gorſedd Tad goleuni.

Cyffro d'yſpryd, cwyn dy galon,
Dring i'r mynydd uwch daerolion,
Gwel yr hwn ſydd anweledig,
Cyn ynganech wrtho orig.

Cyn y delech o flaen Duw,
Meddwl byth mai Brenin yw,
Ac na ddere at dy Frenin,
Nes y delech ar dy ddaulin.

Brenin nefoedd, Tad angylion,
Creuwr daear, Barnwr dynion,
Duw'r dialau, Tad goleuni,
Wyt ti ar feder ei addoli.

Dere'n barchus, dere'n barod,
Dere'n brudd o flaen y Drindod;
Dere'n ſanƈtaidd, dere'n ffyddlon,
Di gei d'arch wrth fodd dy galon.

Cod dy olwg, tan dy ddwylo,
Plyg dy ddau-lin goſtwng iddo,
Cur dy ddwy-fron, bydd edifar,
Adde'th bechod, cais ei ffafar.

Galw ar y Tad yn danllyd,
Yn enw'r Mab, trwy nerth yr Yſpryd,
Cais ei deyrnas a'i gyfiawnder,
Di gei'r cwbwl yn ddibrinder.

Cais ogoniant Duw yn bennaf,
Cais nefolion bethau neſaf;
Cais ei ras yn dra awyddus,
Cais dy raid os bydd ei 'wyllys.

Cyn dy fyn'd i ddrws yr eglwys,
Edrych fod dy droed yn gymmwys, *Preg.* 5. 1.
Bwrw heibio draws feddyliau,
A gad fydol fwriad gartre'.

Abra'm ffyddlon cyn addolai, *Gen.*22.5.
Rwymai'r afyn yn yr hendre:
Felly dylai pob dyn rwymo
Traws feddyliau cyn gweddio.

Moefen hyfryd cyn y deuai *Ecf.*3.5.
O flaen Duw, fe dynnai 'fgidiau;
O tyn dithau dy fydolrwydd,
Cyn y doech o flaen dy Arglwydd.

Jofeph ynte' fynnai ymg'weirio, *Gen.*41.14.
Cyn ymddangos o flaen Pharao;
Felly ymg'weiria dithau yn fyw,
Cyn ymddangos o flaen Duw.

Hefter dduwiol hithau ymolchwys,
Cyn myn'd o flaen Ahafuerus;
Ymolch dithau o'th ddrygioni,
Cyn rhoech o flaen Duw dy weddi.

Pan y delech i dŷ Dduw,
Gwel mor hoff, mor hawddgar yw!
A phan ddelech, dere'n chwarian,
Mewn anrhydedd, parch ac ofan.

Cwymp yn ifel ar dy ddau-lin,
Yn ei lys o flaen dy Frenin,
Ac nac yngan air o'th enau,
Nes ymoftwng ar dy liniau.

Ni ry neb o'r faint *triumphant*,
Yn y nef i'r Arglwydd foliant,
Nes y tynnont eu coronau, *Dat.*4.10.
Ac ymoftwng ar eu gliniau.

Pa'm y cytgam llwch a lludy,
Ddwad o'i flaen heb ymgrymmu?
Pan y delont i weddio,
Ac i fegian pardwn ganddo.

Crift ein Meiftr fe 'moftyngai *Mat.*26.39.
Ar ei wyneb pan gweddiai;
Braidd y goftwng rhai o'r gweision,
Un o'u gliniau pan gweddion'.

Iago fwynaf gynt addolai
Grift mor ddyfal ar ei liniau,
Nes caledu yn y demel,
Groen pob glin fel carn y camel.

Moesen, Aaron, Josua, Samuel,
Dafydd, * Selef, Joas, Daniel; * *Salomon.*
A'r holl saint sy'n rhoi goleuni,
I ni ar liniau brudd addoli.

Gwedi cwympech ar dy ddau-lin,
Mewn mawr barch o flaen dy Frenin,
Ystyr beth trwy brudd fyfyrio,
Sy'n dy fryd i dd'wedyd wrtho. *Sal.* 5.1.

Daniel rasol a fyfyriai *Dan.* 4.19.
O flaen y brenin cyn llafarai;
Dithau ddylid brudd fyfyrio
O flaen Duw cyn yngan wrtho.

Yn ol ystyr beth a dd'wedech,
Cur dy ddwyfron cyn gweddiech;
A chydnebydd d'anheilyngdod,
A chais bardwn am dy bechod.

Llef o'i flaen â chalon brysur,
Duw, bydd rasol im' bechadur;
Sy'n anheilwng edrych arnad,
Chwaethach derbyn fy nymuniad.

Hael yw Duw i'r sawl a'i ceisiant, *Iago* 1.5.
Rhwydd yn rhoi i'r rhai ofynant;
Rhoi i bawb heb ddim dannodiaeth,
Yn rhwydd eu rhaid yn dajan helaeth.

Y peth a geisiech, cais trwy ffydd,
Na chymmer ball, ond begia'n brudd;
Nac ammeu dderbyn'r hyn a geisiech,
Os ceisi'n daer, di gei ofynech.

Nac ammeu 'wyllys da dy Dad,
Na gallu Duw sy'n rhoi mor rhad,
Duw galluog, Tad 'wyllysgar,
Helpwr rhwydd yw'n Harglwydd hygar.

## LXXVI. *Gweddi i'r hwn sydd yn myned i addoli Duw yn gyhoeddus.*

DUW trugarog, Tad goleuni,
Rhoddwr gras a phob daioni,
Er mwyn Crist clyw weddi eiriol
Un o'th blant, dros bawb o'th bobol.

'Ry'm ni heddyw yn ymgynnull,
I'th addoli yn dy bebyll,
Duw rho allu in' a meder,
I'th addoli fel y || dirper. || *dylem.*

A bendithia di'n cyfarfod,
A chyf'rwydda ein myfyrdod,
A dod awen yn ein calon,
I'th addoli bawb yn ffyddlon,

Gwna ni'n addas ac yn weddaidd,
I glodfori d'enw ſanctaidd ;
Gwna ni'n barod ac yn garcus,
Bawb i wrando d'air yn barchus.

Duw parottoa di'n calonnau,
Criſt ſancteiddia di'n meddyliau,
Awcha'n zel, chwanega'n hawydd,
I'th addoli mewn gwir grefydd.

Cwyn y galon, deffro'r yſpryd,
'Nynna â'th ras ein hawen oerllyd,
*Settla*'r meddwl, dyſg y genau,
I'th glodfori am dy ddoniau.

Tyn oddiwrthym draws-fwriadau,
Na'd i'r rhai'n wyrdroi'n meddyliau ;
Pâr in' wrando d'air yn fuddiol,
A gweddio'n ddefoſiynol.

O cyf'rwydda, â'th lân Yſpryd,
Ni weddio bawb yn danllyd,
Fel y caffom gennyt wrando,
A rhoi i ni f'om yn geiſio.

Dod dy fyſedd yn ein cluſtiau,
Pâr in' wrando d'air yn olau ;
A rho feder i bob calon
I ddeallu hwn yn union.

Gwedi deall hwn a'i gofio,
Duw rho gymmorth i'w *bracteiſio*,
A'i wir ddilyn yn awyddus,
Nes y dycco ffrwyth toraethus.

Duw bendithia di'n pregethwr,
Rho iddo ddeall, gras a chryfdwr, *2 Theſ.* 3. 1.
I bregethu gair y bywyd,
I ni'n bur o'th 'fengyl hyfryd.

Goleua'i feddwl a'i fyfyrdod,
'Nyn ei galon, dyſg ei dafod,
Nertha i barthu'r gair yn fedrus,
I ni bawb yn ol d'ewyllys.

Nertha in' dynnu o'r tywyllwch,
I'r goleuni a'r diddanwch;
O gorlanau tywyll ſatan, *Act.* 26.18.
I wir deyrnas Criſt a'i gorlan.

Gwna ei athrawiaeth i ni'n rymmus,
Gwna i ni ddilyn yn awyddus;
Gwna i ni bawb ei garu ynte', *Heb.* 13.14.
Lle mae'n gwilied ein heneidiau.

Duw bendithia ef a ninnau,
Duw ſancteiddia di'n calonnau;
Duw rho ras a meder i ni,
Bawb yn bryſur dy addoli.

## LXXVII. *Parottoad i'r cymmun.*

POB rhyw griſtion ag a garo
Ddyſgu'r modd y mae ymg'weirio,
Myn'd yn lân i fwrdd yr Arglwydd,
Dyſged hyn o werſau'n ebrwydd.

Cyn yr elych rhwp i'r cymmun,
Yſtyr b'le yr wyt ti'n 'rofyn,
A pha beth yr wyt ti ar feder
Ei || *reſefo* yn y ſwpper. || *dderbyn.*

Nid i ford rhyw emprwr llidiog,
Ond i ford yr Hollalluog,
'Rwyt ti'n 'rofyn myn'd i fwytta
Bwyd ſydd ganmil gwell nâ manna.

Gwell nâ manna, os fel criſtion
Y derbyni hwn yn ffyddlon; *Ioan* 6.50.
Gwaeth nâ gwenwyn, os trwy anras 1 *Cor.* 11.29.
Y derbyni hwn fel Suddas.

Meddwl dithau am ei dderbyn,
Yn griſt'nogaidd fel y perthyn;
Mewn ſanctеiddrwydd, ffydd a gobaith,
Glendid pur, a chariad perffaith.

Gochel redeg yn ammharod,
I ford Criſt yn llawn o bechod,

Rhag it' dderbyn barnedigaeth,
Lle caiff eraill iachawdwriaeth.

Cofia'n garcus pa ſanctеiddrwydd, *Ecſ.* 12.
Pa ymg'weirio, pa barodrwydd,
Gynt oſododd Duw ar daſg,
Cyn cai Iſrael fwytta'r paſg.

Cofia hefyd pa ymolchi, *Ioan* 13.4,5.
Pa lanhau, a pha ſyberwi,
A wnaeth Criſt â'i ddwylo tyner,
Ar ei ſaint cyn profi o'i ſwpper.

O na ddere dithau'n ſarnllyd,
Yn dy rwd a'th bechod drewllyd,
I ford Criſt heb lwyr ymolchi,
O'th holl feiau a'th holl frynti.

Bwrw lefain pob rhyw bechod, 1 *Cor*. 5.7.
Llid, cenfigen, malais, medd'dod,
Rhyfyg, ffalſedd, ffwrdd o'th galon,
Ni thrig Criſt y man lle byddon'.

Cofia fel yr *entrodd* Satan,
Gynt yn Suddas fradwr aflan,
Yn ol iddo fwytta'r tamaid, *Ioan* 13.27.
Yn ei bechod brwnt mor enbaid.

Gochel dithau rhag digwyddo
Y fath beth yr eilwaith etto;
Os ti ddoi i ford yr Arglwydd,
Yn d'aflendid heb barodrwydd.

Cofia i'r Corinthiaid feirw, 1 *Cor*. 11.30.
A nychu'n hir o'r gwres a'r gwayw,
O waith myn'd yn ammharodol,
Lwyr eu pen i'r bwrdd ſanctеiddiol.

Gochel dithau fyn'd yn rhwyſgus,
I'r ford hon heb ofan parchus,
Heb yſtyried beth ſydd arni,
Rhag dy farw yn dy frynti.

Hola dy hun a myn wybod, 1 *Cor*. 11.28,31.
Wyt ti'n 'difar am dy bechod;
A oes gennyt ffydd a gobaith,
Calon lân, a chariad perffaith?

Barna dy hun yn ddiweniaith,
Fel na farno Duw di'r eilwaith;
Ac lle gwelech ddim yn eisiau,
Cais gan Grist ei roi neu faddeu.

Pedwar peth sydd angenrheidiol,
I'r rhai fyn gymmuno'n ddeddfol,
(1) Ffydd grist'nogaidd, (2) gwir 'difeirwch,
(3) Cariad perffaith, (4) diolchgarwch.

Nid oes llun bod heb y lleia',
O'r rhai hyn cyn myn'd i fwytta;
A'r neb el i'r swpper hebddyn',
Ni chaiff les oddiwrth y cymmun.

Ffydd sy gynta'n angenrheidiol,
I gredu i Grist roi hun yn hollol
Ar y groes i farw drosom,
Am y pechod oll a wnaethom.

Ffydd sy'n cyrraedd ffrwyth y pardwn,
A bwrcasodd Crist trwy *bassiwn*;
Ac yn derbyn ar y swpper,
Crist ei hun a'i holl gyfiawnder.

Nid yw Crist yn fwyd i'r bola,
I'w gnoi â dant, a'i roi mewn cylla;
Bwyd yw Crist i borthi'r enaid, *Ioan* 6.35.
Yn ysprydol trwy ffydd danbaid.

Ni all neb fwynhau'n ysprydol
Grist, a'i waed, a'i gorph sancteiddiol, *Eph.*3.17.
Ond yn unig trwy ffydd rymmus,
Ddel o galon edifarus.

Mae'r efengyl i ni'n dangos, 1*Pedr* 3.22.
Fod Crist yn y nef yn aros;
Ac na ddichon un dyn cnawdol
Fwytta Crist ond yn ysprydol. *Ioan* 6.63.

Ffydd gan hynny sydd anghenrhaid,
I gyrraedd Crist i borthi'r enaid,
Ac i ddercha'r galon atto,
Os myn enaid borthi arno.

Bwyd i'r enaid, bwyd i'r galon,
Bwyd yw Crist i'r meddwl ffyddlon;
Bwyd i'w gym'ryd trwy ffydd fywiol,
Bwyd i'w fwytta yn ysprydol.

Pan bo'r corph yn cym'ryd bara *Luc.*22.19.
Yn y cymmun er ei goffa,
Cwyn dy galon y pryd hynny,
A thrwy ffydd mwynha Grift Iefu.

Nefa at ffydd, rhaid edifeirwch
Am bob pechod trwy ddyfalwch,
A llwyr fwriad gwella beunydd,
Tro at Dduw mewn buchedd newydd.

Edifara o ddyfnder calon,
Am bob bai trwy ddagrau hallton,
Ac na ddere i ford yr Arglwydd,
Nes 'difaru, rhag cael tramgwydd.

Golch dy faril, carth dy waddod,
Na ddod win mewn * *cafk* o bechod, * *Lleftr.*
Rhag i'r gwin mewn llefter aflan
Dorri'r *cafk* a rhedeg allan.

Ni thrig Duw, na'r Oen, na'r G'lommen,
Lle b'o pechod a chynfigen;
Golch gan hynny yn lân dy lefter,
Os derbyni Grift neu' fwpper.

Chwyd dy fedd'dod, cladd dy frynti,
Gad dy fafwedd brwnt a'th wegi,
Attal nwyfiant, ffrwyna nattur,
Gwella'th fuchedd, na fydd fegur.

Golch dy ddwylo mewn gwiriondeb,
Golch dy feddwl mewn duwioldeb:
Golch mewn cariad ben a chynffon,
Os derbyni Grift i'th galon.

Câr gyfiawnder, dilyn fobrwydd,
Arfer lendid a fancteiddrwydd;
Gwifg am danat gariad perffaith,
Na'd un bai dy nurddo eilwaith.

'Does rhoi i gŵn o'r pethau fanctaidd,
Na'r gwerthfawr berls i'r moch angh'ruaidd, *Mat.*7.6.
Na'r manna gwyn mewn halog grochan,
Na chymmun Crift mewn cylla aflan.

Mewn pot o aur y dodir manna, *Heb.*9.4.
A chelain Crift mewn crys o'r meina'; *Mat.*27.59.
A'r gwin o'r ‡*grape* mewn *baril* g'ruaidd, ‡ *Grawn.*
A'r cymmun hwn mewn calon fanctaidd.

Y trydydd peth sy'n rhaid ei geisio,
Yw cariad perffaith cyn * *resefo*; * *derbyn.*
Heb ddwyn meddwl drwg at un-dyn,
Pell nac agos, câr na gelyn.

Cariad ydyw'r § *arwms* tirion § *nodau.*
Sydd gan Grist ar † *lifrau*'i weision: † *gwisgiadau.*
Ac wrth gariad yr adwaenir
Defaid Crist oddiwrth y geifir. *Ioan* 13.35

Nid yw Crist yn derbyn un dyn,
I'w fwynhau ef yn y cymmun,
Ond yr hwn a fo'n ddiragrith,
A phob dyn mewn cariad perffaith.

Pe b'ai gennyt fil o ddoniau, 1*Cor.*13.1,2,3.
A bod cariad i ti'n eisiau;
Nid wyt deilwng byth i ddwad
I ford Crist heb berffaith gariad.

Câr gan hynny dy gym'dogion, *Mat.*5.24,44
Maddeu'n rhwydd i'th holl elynion;
Ac os gwnaethost gam ag un-dyn,
Cymmod cyn bwyttaech y cymmun.

Gochel ddwad yn ddigofus,
I ford Crist mewn llid a malais;
Rhag i satan fyn'd i'th gylla,
Gyd â'r tammaid gwedi fwytta.

Dysg di gan y neidr dorchog,
Chwydu maes dy wenwyn llidiog,
Cyn dy fyn'd i'r ford yn llawen,
Rhag i'th falais ladd ei pherchen.

Neidir fraith, medd rhai a'i gwelas,
Fwrw'i gwenwyn ar y gamlas,
Cyn yr hyfo'i ddw'r o'r afon,
Rhag i'r gwenwyn dorri chalon.

Bwrw dithau dy lid allan,
A'th ddrwg feddwl, a'th draws amcan,
A'th holl falais, a'th gynfigen,
Rhag i'r rhai'n andwyo eu perchen.

Os bydd gennyt y tri yma,
(1) Ffydd, (2) 'difeirwch, (3) cariad, coda,
Dere i'r cymmun, mae i ti roeso,
Crist ei hun sy'n d'alw atto.

Pan y gwelych dorri'r bara,
A thywalltu'r gwin i'r cwppa,
Cofia fel y torrai'r wayw-ffon
Gorph dy Griſt nes gwaedu ei galon. *Ioan* 19.34.

Pan dderbyniech o law'r 'ffeiriad,
Fara a gwin yn ol cyſſegriad,
Derbyn Griſt trwy ffydd i'th galon,
Portha d'enaid arno'n ffyddlon.

Nid â dannedd y mae bwytta
Criſt yn gnawdol a'i roi'r bola;
Ond trwy ffydd y mae'n yſprydol *Eph*.3.17.
Fwytta Criſt â'r galon fywiol.

Cod dy galon, dring i'r nefoedd,
Edrych ar yr hwn a'th brynodd;
Cofia faint a wnaeth ef erddod,
Pan croeshoeliwyd am dy bechod.

Cred i Griſt ar groes a'i hoelion,
Offrwm droſot waed ei galon,
A phwrcaſu bywyd i ti,
'Rwyt ti'n bwytta Criſt o ddifri.

Os gofynni, pa ddaioni
Ddyru Criſt o'r ſwpper i ti,
Pan dderbyniech hi'n griſt'nogaidd,
Mewn gwir ffydd a chariad perffaidd?

Mae'n rhoi i ti gyflawn bardwn, *Mat*.26.28.
O'th holl bechod *abſoluſiwn*,
Gwedi'r Brenin mawr ei ſelu,
A gwaed gwerthfawr calon Ieſu.

Mae'n rhoi pardwn, mae'n rhoi bywyd, *Ioan* 6.51
Mae'n rhoi *comffordd*, mae'n rhoi iechyd, 1*Cor*.10.16.
Mae'n rhoi Yſpryd Glân a'i ddoniau,
Mae'n rhoi hun a'i holl rinweddau.

Mae'n dy wneuthur di'n gyfrannog
O'i holl ddoniau mawr galluog;
Ac mewn Yſpryd mae e'n trigo
Yn dy galon byth tro gantho.

Mae e'n porthi d'enaid egwan, *Ioan* 6.55,56.
A'i wir gorph a'i waed ei hunan, *Eph*.1.13,14.
Ac yn rhoddi nefol Yſpryd,
I ti'n ernes o'r gwir fywyd.

O pwy ddyled mawr fydd arnad,
I foliannu Crift yn waftad,
Am dy wneuthur yn gyfrannog
O'r fath fwpper fawr gyfoethog.

A phwy daliad fy'n dy bwer,
I roi iddo am ei fwynder,
Felly'n porthi d'enaid aflan,
A'i wir waed a'i gnawd ei hunan.

Na fydd dithau mor 'nifeilaidd,
A myn'd o'r llan yn anweddaidd,
Nes rhoi clod a moliant iddo,
Am yr ymborth a ge'ft ganddo.

Crift ni fwyttai fara barlys,
Chwaethach bwyd oedd well ei *relis*,
Heb roi moliant mawr am dano,
I'w Dad nefol heb anghofio.

Pwy faint mwy na ddylit tithau
Fwytta Crift, y penna' o'r feigiau,
Heb roi diolch i'r Duw cyfion,
Am ei Fab o ddyfnder calon.

A gwawdd nef, a dae'r, a dynion,
Seraphiniaid ac angylion,
I'th gyd-helpu foli'r Arglwydd,
Am ei gariad a'i g'redigrwydd.

LXXVIII. *Gweddi cyn derbyn y cymmun.*

ARGLWYDD grafol, 'rhwn a roddaift
Iefu Grift y mwya' geraift,
Fod yn || *ranfwm* dros ein beiau, || *bridwerth.*
Ac yn ymborth i'n heneidiau.

Dyro ras i minnau'n fanctaidd
Ymbar'toi fel criftion gweddaidd,
Dderbyn Crift trwy ffydd i'm calon,
I borthi f'enaid arno'n eon.

Carth fy meddwl a'm cydwybod,
Golch fi'n llwyr oddiwrth fy mhechod,
Gwna fi'n lleftr glân i dderbyn
Crift i'm calon yn y cymmun.

Cryfha fy ffydd, amlha fy ngobaith,
Ennyn ynof gariad perffaith;

Sanc̄teiddia'r corph, cyf'rwydda'r enaid,
I dderbyn Crist y bwyd bendigaid.
  C'od fy nghalon cuwch a'r nefoedd,
Lle mae Crist yr hwn a'm prynodd:
Pâr i'm henaid borthi arno,
A thrwy ffydd gael grym oddi wrtho,
  Pâr im' gredu fod im' bardwn,
Am fy mai er mwyn ei ‖ *basiwn*, ‖ *dioddefaint.*
A rhan hefyd o'i holl ddoniau,
A bwrcasodd trwy loes angau.
  Pâr im' gredu daw i drigo
Yn fy nghalon byth tra gantho,
Ac na 'medy ei Sanctaidd Yspryd,
Nes fy nwyn i'r nefoedd hyfryd.
  Na'd gan hynny i mi nurddo *1 Cor. 6. 19.*
Ei deml sanctaidd lle mae'n trigo,
Nac halogi byth o'm llester,
Ond ei gadw'n lân bob amser.
  Pâr im' hefyd ei glodfori,
Nos a dydd â'r eitha' o'm gallu,
A'i fendithio'n brudd bob amser,
Am yr ymborth sy'n ei swpper.

LXXIX. *Pennillion ar gynheddfau rhai dynion a phethau, ac a sonir am danynt yn yr Ysgrythurau Sanctaidd a'r Apocrypha.*

DYSG, fy mab, wrth gwdwm Adda, *Adda.*
  Wel'd mor bridd yw'r pechod lleia';
Ac mor enbyd bwytta gronyn,
O'r peth a f'o Duw yn warafun.
  Efa hen a'i chwymp a'i hanffod, *Efa.*
Sy'n rhoi i ti rybudd hynod,
Na chytgammech, tra f'ech byw,
Wrando ar satan o flaen Duw.
  Os ca's Adda gymmaint dial, *Afal.*
Am ei waith yn bwytta afal,
Ystyr faint a fydd dialau,
Rhai sy'n byw ar gyfryw 'falau.
  Blin yw'r afal a wnae'r ddincod
Ar bob dant o'r byd heb wybod,

Na fydd un o'r rhai ddymunai
Gael eu maeth ar gyfryw 'falau.
Oni bu'ſai Griſt ddiodde',
Ar bren droſom ddû loes angeu,
Buaſai'r byd i gyd mewn attal,
Ym mhwll uffern am un afal.

Er maint a f'o drwg y ddraig, *Had y wraig.*
Dod dy *druſt* yn had y wraig; *Gen.*3.15.
Mae ef gwedi 'ſigo ei 'ſiol,
Torri chrib, a thynnu ei chol.

Os brath ſarph, â cholyn pechod, *Sarph.*
D'enaid bach heb allu orfod;
Nid oes dim a wna it' les,
Nes myn'd at Griſt y ſarph o bres.

Adda gollodd hen baradwys, *Paradwys.*
Am yr afal gynt a fwyttwys;
Gochel dithau golli'r llall,
Am fath 'falau, od wyt gall.

Y dyn a wnelo ddrwg fel Cain, *Cain.*
Medd Duw'n amlwg ac yn *blain*,
Nid ymedy drwg â'i dŷ,
Nes del dial oddi fry.

Gochel dywallt gwaed dyn gwirion, *Tywallt gwaed*
Megis Cain y mwrddwr creulon, *Gen.*9.6.
A dywallto waed yn ſicir,
Ei waed yntef a dywelltir.

Na wna lanas yn y dirgel,
Duw ddatguddia fwrddrad Abel, *Abel.*
Yn y dirgel os gwnai fawr-ddrwg,
Duw a'i dial yn yr amlwg.

Bydd fyw'n wirion megis Abel,
Ofna Dduw, arfer â'i demel,
Offrwm iddo nos a borau,
Aberth brudd ar ben dy liniau.

Pan offrymmech ddim i Dduw, *Offrwm.*
Offrwm iddo'r goreu o'i ryw: *Mal.*1.13,14.
Ffiaidd ganddo, ac nid hoff,
Y gwan, a'r gwael, y claf, a'r cloff.

Os offrymmi â'th holl galon,
Duw a dderbyn dy anrhegion;

Oni offrymmi o'th lwyr fodd,
Byth ni dderbyn Duw dy rodd.
Pan b'o pawb yn myn'd yn ddiog, *Enos.*
I was'naethu'r Hollalluog,
Cyffra bawb o'r byd fel Enos, *Gen.4.26.*
I addoli Duw heb aros.
Cais gan bawb was'naethu Duw,
Dyled pob gwir Griftion yw:
Gofod allan ei ogoniant,
Di gei ganddo || ffawd a ffyniant. || *Dedwyddwch.*
Rhodia gyd â Duw fel Enoc, *Enoc.*
Dilyn lwybrau'r Hollalluog:
Cofia fod Duw'n difgwyl arnad,
Ymhob man â chil ei lygad.
Gwel pa ymdal a ga's Enoc,
Am was'naethu'r Hollalluog,
Myn'd i'r nef cyn gweled angeu,
Pwy gan hynny na's gwas'naethai.
Dyfg gan Enoc dair gwers rafol,
1. Fod dy enaid yn anfarwol,
2. Bod i'th gorph di adgyfodiad,
3. Ac i'r duwiol nefol daliad.
Na wna frynti yn y cornel, *Rhodio gyd â Duw.*
Mae Duw'n gwel'd pob pechod dirgel; *Gen.5.24.*
Ac am hynny meddwl fyw,
Megis un fy 'ngolwg Duw.
Pe b'ai i ti gryfder cawr, *Cawri.*
Duw a fyn dy dorri lawr,
A'th roi'n fwyd i borthi'r chwilod,
Os ymroi di ddilyn pechod.
Oni allai gawr ddiflannu, *Gen.6.*
Pan daeth diluw dw'r i farnu;
B'wedd y dichon || gwrangc ddihangyd? || *dyn gwan.*
Pan y del y diluw tanllyd.
Er cynddrwg a fo'r byd o bob tu, *Noa.*
Er cymmaint fo o rai yn pechu,
Bydd di berffaith yng wydd Duw,
Dilyn Noe tra fyddech byw.
Gochel ddilyn arfer tyrfa,
A fo'n pechu am y cynta';

Gwell nâ hynny yw dilyn un
A ofno Dduw, a barcho ddyn.

Gwel mor ddrewllyd yw putteindra, *Diluw.*
Gwel mor gas gan Dduw ddiffeithdra;
Pan na was'naethai dyfroedd lai
Nâ'r dw'r diluw i gofpi'r bai.

Os byw wnai di megis No', *Noa.*
Yn wr perffaith ar bob tro,
Byddi gyd â Noe'n gadwedig,
Pan bo eraill yn golledig.

Gwell it' ddilyn Noa ei hunan,
Mewn perffeithrwydd, ffydd, ac ofan;
Nag it' ddilyn yr holl fyd,
Mewn drygioni, a boddi gyd.

Gwna dy long tra'i'n amfer gras, *Arch, neu Long.*
Cyn y delo'r diluw cas;
Mae'n ddiweddar gwneuthur bad,
Pan bo'r diluw'n boddi'r wlad. *Efa.55.6.*

Gwell o lawer, nid ychydig,
Yw bod gyd â Noe'n gadwedig,
Yn y llong, nâ chyd â llawer
Yn y diluw dû a'r dyfnder.

Pan y gwelech fwa'r Drindod, *Bwa'r gwlaw, neu'r enfys.*
Cofia farn Duw a'i gyfammod;
A bendithia ei dduwiol Fawredd,
Am ei fwynder a'i drugaredd.

Yftyr amryw lywiau'r enfys,
Glas a choch yw'r ddwy farn gofus;
Glas oedd dw'r y diluw cyntaf,
Coch yw tân y farn ddiweddaf.

Lle mae'r bwa yn gyffredin,
A'i gyrn i'r ddae'r, heb faeth, heb linyn;
Y mae'n dangos mor heddychlon,
Yw yng Nghrift rhwng Duw a dynion.

Gochel fatan hen a'i rwydau, *Meddwdod Noa.*
Pan b'ech tra diofal gartre';
Ef a'th ddilyn megis No',
Nes rhoi i ti ffwyl ryw dro.

Oni ddichon fatan ddala
Noe â'i rwydau o butteindra;

Fe brawf ddala Noe heb wybod,
Yn hen wr â rhwyd o fedd'dod.

Od ai drigo i Gomorra, *Lot.*
Lle mae medd'dod a phutteindra,
Cadw arnat megis Lot,
Rhag d'halogi â'r hŵr a'r pot.

Os gweli'r dre' lle b'ech di byw,
Yn pechu'n gas yn erbyn Duw,
Tyn fel Lot i maes o Sodom,
Cyn diſgyno arni'r 'ſtorom.

Gwell bod gyd â Lot ei hunan,
Ar y mynydd dan y geulan,
Na bod gyd â holl wyr Sodom
Yn y dre' yn godde'r 'ſtorom.

Pwy ymgadwai yn well nâ Lot, *Meddwdod Lot.*
Ynghanol Sodom rhag y pot?
Yn yr ogof pwy a feddwai
Ar y gwin yn gynt nag ynte'?

Os dihangaiſt rhag putteindra, *Lloſgach Lot.*
Rhwng y * ſtyw-dai yn Gomorra, **Tai putteiniaid.*
Gochel wneuthur pechod aflan
Gartre' ymyſg dy ffryns dy hunan.

Os dihangaiſt rhag y tân,
O ganol Sodom am ſyw'n lân,
Gochel rhag dy loſgi'r eilwaith,
Yn dy dŷ am ſyw yn ddiffaith.

Os gadewaiſt Sodom unwaith, *Gwraig Lot.*
Na ddychwela i Sodom eilwaith:
Trow'd gwraig Lot yn § bîl o halen, *§ Colofn.*
Am droi hwyneb lwyr ei chefen.

Agor d'olwg, gwel mor ffyrnig *Gomorra.*
Y mae Duw yn coſpi rhyfyg, *Puttain.*
Pan y lloſgai â thân a brimſton
Dre' Gomorra o'i achoſion.

Clyw mor cuwch y gwaedda pechod, *Llef Sodom.*
Ddydd a nos ynghluſtiau'r Drindod,
Ac na ddichon pechod dewi
Nes dialo Duw ei brynti.

Och mor ddrewllyd ac mor enbaid *Gwlad Sodom.*
Ydyw lloſgach y Sodomiaid,

Pan bo'r wlad yn drewi etto
O'r mwg a'r tarth lle bu yn trigo

Gochel haeddu rheg dy dad, *Cam.*
Byth ni's gorfu Cam nâ'i had:
Melldith Noe ſy'n glynu'n ffinion
Byth ynghrwyn y *Moyrys* duon.

Megis Sem trwy ddawn a rhad, *Sem.*
Cuddia g'wilydd Noe dy dad;
A phan ddel mewn gŵth o oedran,
Na watwara megis Canaan.

Parcha Bathſeba dy fam, *Salmon.*
Anrhydedda hi ar bob cam;
Rho'r llaw ddeheu iddi yn ufudd,
Fel y rhoddai Selef Ddafydd.

Cynta' peth a wnel dy ddwylo, *Abraham.*
Pa le bynnag elech iddo,
Godi allor gyd ag Abr'am,
I addoli Duw'n ddigytgam.

Cred bob gair o enau Duw, *Ffydd Abraham.*
Gwir a phur a pherffaith yw:
Nef a daear a ddiflanna,
Cyn êl iot o'i air heb gwpla.

Lle archo Duw it' fyned, dos, *Ufudd-dod Abraham.*
Y peth orch'myno gwna yn glos:
Bydd mor ufudd ag oedd Abr'am,
Gwna'r peth archo yn ddigytgam.

Offrwm d'Iſaac, os Duw arch,
Ac enwaeda'r cnawd o barch:
Gado ddelwau aur dy dad,
Dos pan archo maes o'th wlad.

Dyſg gan Iſaac fod yn ufudd, *Iſaac.*
Mwyn a llariaidd, dof a llonydd:
Felly byddi ſiwr o fyw
Mewn ffafar dyn, mewn ofn Duw.

Gwely'th briod na haloga, *Rebecca.*
Ond bydd foddlon i'th Rebecca;
Fel y byddai Iſaac ſanctaidd,
O flaen Duw mae hyn yn weddaidd.

Os bydd geiriau Jacob gennyd,
Gochel ddwylo Eſau waedlyd:

Cas gan Dduw, a pheth digwnt,
Yw'r geiriau braf a'r gweithred brwnt.

Pan bwriadech geisio gwraig,
Bydd i Jacob yn 'sgolhaig:
Dilyn gyngor mam a thad,
Os mynni lwyddiant ar dy had.

Na fydd lwth i lanw'th fola, *Esau.*
Esau ga's y c'wilydd mwya',
Am roi i Jacob ei holl afael
Dros phiolaid o gawl cruel.

Ffei o'r afrad, ffei o'r medd'dod,
Na werth nef am fwyd a diod;
Esau gollodd Ganaan decca',
Am werth fraint i lanw ei fola.

Os cais meistres yn y cornel *Joseph.*
Gennyt orwedd gyd â hi'n ddirgel,
Cilia gyd â Joseph allan,
Na ladd d'enaid er ei chusan.

Dos i garchar, goddef gur,
Gorwedd mewn cadwynau dur,
Cyn y gwnelech megis filain,
Aelod Crist yn aelod puttain.

Na char buttain tra f'ech byw,
Na haloga demel Dduw;
Ni wnai Joseph beth mor ffinion,
O ferch pydru yn y cyffion.

Margen ffront fel margen Esaw, *Puttain.*
Margen a bair cnoi ac wylaw,
Ydyw gwerthu'r nefoedd berffaith,
Am gyfeillach puttain noswaith.

Joseph waith na fynnai orwedd *Dyrchafiad Joseph.*
Gyd â'i feistres mewn anwiredd,
A ga'dd myn'd yn brins arbennig
Ar yr Aipht am *stopi* rhyfyg.

Gwell bod gyd â Joseph ddiwair,
Am onestrwydd yn y carchar,
Nâ bod gyd â Herod frenin,
A Herodias rhwng ei ddeu-lin.

Os dringhadu wely'th dad, *Reuben.*
Gyd â Reuben hyna' o'r gwaed;

Juda gaiff yr holl 'tifeddiaeth,
Ni chei dithau ond yr hiraeth.

Simeon gochel werthu'th frawd, *Simeon.*
Drwg y gwyddoft beth yw'r ffawd:
Fe fydd Jofeph gwedi werthu,
Yn troi Simeon i'r carchardy.

Dyfg gan Foefen fod yn fwyn, *Mofes.*
Araf, llednais, da dy gŵyn;
Hawddgar, ffyddlon, prudd, didwyll,
Cefnog, diddig, da dy bwyll.

Gwel pa filwyr fydd gan Dduw, *Pharao.*
Yn plygu'r brenin cryfa'n fyw,
Llau a llyffaint, ceiliog-rhedyn,
Yn troi Phar'o i geifio canlyn.

Os ceifi fyn'd o'r Aipht i Ganaan, *Canaan.*
Lle mae'r mêl a'r llaeth yn dropian,
Rhaid it' fyned trwy'r môr coch,
Er maint ei rym, er cuwch ei roch.

Gochel 'laru ar y Manna, *Manna.*
Claf iawn wyt oni elli fwytta:
Ac os ceifi bwmps a phanas,
O flaen Manna, mae 'ti anras.

Cyn gadawo Duw ddim eifiau *Soflieir.*
Ar y fawl a gadwo ei ddeddfau,
Pair i'r nefoedd wlawio Manna,
A *Chwails* iddynt i'w eu bwytta.

Na wrth'neba byth o'r 'ffeiriad, *Cora.*
Angel Duw yw wrth ei alwad;
Gochel rhag i'r ddae'r dy lyngcu,
Os fel Cora y gwrth'nebu.

Gochel *fedlo* maes o'th alwad *Offeiriad.*
Bethau berthyn at offeiriad;
Ni fyn Duw ond 'ffeiriad gweddaidd
Drin yr Arch â'r pethau fanctaidd.

Gwel mor gaeth y myn Duw i ni *Sabbath.*
Gadw'r fabbath heb ei halogi,
Pan y parai i'r holl gymmanfa
Labyddio'r dyn am ful-friwydda.

Treulia'r fabbath byth yn fanctaidd,
Dere i demel Dduw yn weddaidd;

Ac nac arfer, tra f'ech byw,
Waith y cythraul ar ddydd Duw.

Gwelwn allu Duw bob un, *Haul.*
Yn ftoppi'r haul wrth weddi dyn,
Ac attal hon ddiwrnod cyfan,
Uwch ben ei lu heb fyn'd o'r un-man.

Cofiwn bawb mai c'wilydd yw,
Os ftoppa'r haul pan archo Duw,
A'n bod ninnau, crach fudreddi,
Pan archo Duw, heb fedru ymftoppi.

Os ceifir gennyt 'ddoli delwau, *Jofua.*
Megis Jofua atteb dithau,
Nid addolaf tra fwy'i byw,
Mi a'm tylwyth, ond fy Nuw.

Zimri, Zimri, gwel y cleddau, *Zimri.*
S'uwch dy ben gan Dduw'r dialau,
A'r ffon wayw fydd gan Phines,
I'th drywanu di a'th langces.

Balaam, Balaam, agor lygad, *Balaam.*
Gwel yr angel fy'n dy warchad:
Tro yn d'wrthol, gochel frib'ri,
Gwrando'r afen yn d'arg'oeddi.

Na char buttain mwy nâ chythraul, *Samfon.*
Na ro iddi byth o'th *gwnfel*;
Hi dyr wddwg, hi dyn galon
Gwr, pe b'ai mor gryf a Samfon.

Na faentumia bobol ddrwg, *Gibea.*
Ond bydd arnynt byth ar d'wg;
Gibea lofgwyd a'i holl bobol,
Am ymddiffyn gwyr anneddfol.

Benjamin, attolwg clyw, *Benjamin.*
Pa'm y tynni ddial Duw
Ar dy dŷ a'th ben dy hunan,
Am ymddiffyn plant i fatan?

Cymmer rybudd oddiwrth Eli, *Eli.*
Ddyfgu'th blant, a'u dyfal gofpi;
Lle na chofpo'r tad â'r wialen,
Duw â'r cleddyf dyr eu cefen.

Dyfg gan Samuel tr'ech yn blentyn, *Samuel.*
Brudd was'naethu Duw a'i ganlyn,

Ac arferu hyd dy ddiwedd,
Fyw yn gyfiawn, yn ddigamwedd.

Dyſg gan Samuel, farnwr gwych,
Na chymmerech fuwch nac ych;
Ond rhoi barn ymhob rhyw fatter,
I bob dyn yn ol cyfiawnder.

Beth ennillodd Joel aflan, *Joel mab Samuel.*
Wrth gam-farnu, ac wrth friban?
Colli ſwydd ac etifeddiaeth,
Ennill cywilydd a dannodiaeth.

Uzza gochel gwrdd â'r arc, *Uzza.*
Gad i'r 'ffeiriad hynny o garc,
Trin dy ſwydd dy hun a'th alwad,
Nid yw'r arch yn perthyn attad.

Bydd ddioddefgar megis Job, *Job.*
Tre'ch yn glaf na lef, Ob, ob!
Yn dy golled gochel gablu,
Duw ſy'n rhoi, a Duw ſy'n tynnu.

Pe dygai Duw ſydd yn dy helw,
Pe'th d'rawai'n glaf, nes b'ai ti marw,
Dywed, Pe b'ai Duw'n fy mlingo,
Etto mi 'mddiriedaf ynddo.

Canol nos, fel brenin Dafydd, *Dafydd.*
Cod i lawr, penlinia'n ufudd,
A molianna Dduw'r pryd hynny,
Pan b'o eraill yn hwrn gyſgu.

Hoff o beth a hyfryd yw,
Ganol nos glodfori Duw,
A rhoi diolch iddo'r borau,
Am ei ras a'i amal ddoniau.

Bydd mor 'difar am dy bechod,
Ag oedd Dafydd brophwyd hynod,
Ac na orphwys wylo'n irad,
Nes cael ffafar Duw a'i gariad.

Wyla nes bo'th wely'n foddfa,
Bwytta ddeigrau gyd â'th fara,
Gwiſg dy ſach a thro mewn ‖ llythrod, *‖ Llwch.*
Nes cael pardwn am dy bechod.

Er melyned a fo'th gydyn, *Abſalom.*
Gochel, f'enaid, chwarae'r coegyn;

Ac nac arfer locsau hirion,
Rhag dy faglu fel Absalon.
Os aiff Dafydd i felina, *2 Sam.* 12.11,12. a 18.22.
Canol nos at wraig Uria;
Fe ddaw un ganol-ddydd goleu,
I felina i'w felin ynte'.
Gwel mor fyr yw plefer oflyd, *Amnon a Thamar.*
A wnai Amnon golli fywyd;
Gwel mor chwerw yn y diwedd,
Yw blas pechod ac anwiredd.
Na ddod d'enaid byth mewn peryg',
I gyflawni chwant a rhyfyg;
Fe fydd chwerw ac edifar,
Yn y diwedd dreisio Tamar.
Dod dy dŷ mewn trefn addas, *Hezecia.*
Fel y dodai Hezecias;
A bydd barod byth yn gwiliad
Angeu, cyn y delo attad.
Gochel chwennych gwinllan Naboth, *Naboth.*
Trais a lef am ddial boenoth,
Gwinllan Naboth os trachwantu,
Teyrnas Israel a fforffettu.
Ahab, Ahab, dela'n union, *Ahab.*
Na ddwg winllan Naboth wirion,
Ac os dygi trwy 'nudoniaeth,
Duw ddifetha dy hiliogaeth.
Er maint a fo'th boen a'th drafael, *Daniel.*
Cwymp i addoli Duw fel Daniel,
Dair gwaith yn y dydd o leiaf,
Dyna'r unig waith sydd reitaf.
Cae dy 'stafell, plyg dy liniau, *Cae'r 'stafell.*
Cod d'olygon, agor d'enau,
Ac addola Dduw yn brudd,
Felly dair gwaith ar bob dydd.
Serch dy daflu i fysg y llewod, *Ffau y llewod, Dan.* 6.
Na 'sgeulusa 'ddoli'r Drindod,
Y bwystfilod gwaetha' eu nattur,
Fedrant ffafrio gwir addolwyr.
Nac ymgrymma byth i ddelw, *Sadrach.*
O serch gorfod arnat farw,

A myn'd gyd â Sadrach hyfryd,
Ar dy ben i'r ffwrnes danllyd.
Duw yn unig fydd i'w 'ddoli, *Mat.*4.10.
Nid yw y ddelw ddim ond gwegi,
Coed a cherrig, aur ac arian, *Sal.*115.4.
Bwbach nad all helpu hunan.
Pan bo'r cwppan wrth dy fin, *Belſaſar.*
Yn cablu Duw, yn yfed gwin,
Gochel angeu dig dy daro,
Fel Belſaſar wrth garowſo. *Dan.*5.
Pan b'ech yn carowſo'n dal,
Gwel y llaw ſydd ar y wal, *Llaw ar y wal.*
Yn 'ſgrifennu o flaen d'wyneb,
Dy farn aethlyd a'th lothineb.
Bydd drugarog fel Tobias, *Tobias.*
Wrth bob tlawd a fo o'th gwmpas;
Ac na fwytta bryd yn iachus,
Nes rhoi rhan i'r tlawd anghenus.
Helpa'r gwan, a chladd y marw,
Swcra'r noeth, cyf'rwydda'r weddw,
Bydd yn rhyſgwy i'r amddifaid,
Na fydd anfwyn wrth ddieithriaid.
Pan y b'ech ar fedr gwreicca, *Raphael.*
Cais gan Dduw dy Helpwr, hela
Raphael ſanctaidd i'th gyf'rwyddo,
Cyn ymlygrech wrth ymfatſio.
Cyn gorweddech gyd â Sara,
Llaw yn llaw â hi gweddia,
Ar i'r Arglwydd roi it' lwyddiant,
Help a chymmorth, ffawd a ffyniant.
Dyſg gan Dobi ieuangc berchi *Tobi ieuangc a*
Dy dad a'th fam a'u hael gymffordd. *Sara ei wraig.*
Pan b'ont marw, cladd hwy'n weddaidd,
Hyn ſydd raſol a chriſt'nogaidd.
Bydd fyw'n gyfiawn ac yn gynnyl, *Efengyl.*
Fel ped fait heb un Efengyl,
A bydd farw'n gyſtal d'obaith,
A phed fait heb wel'd y gyfraith.
Os gofyni, anwyl Griſtion,
Pwy wnaeth hyn o werſau byrion,

Gwas i Grift fy'n ceifio d'hwppo,
Tu a'r nef â'i draed a'i ddwylo.

LXXX. *Llythyr yr Awdwr at ryw Eglwyfwr a ddeifyfodd arno droi ar gân Gatecifm Eglwys Loegr.*

DY zel at Dduw a'i eglwys,
Fy mrawd, ni wn a barwys
It' geifio troi holl byngciau'r ffydd
Ar gân mor brudd, mor gymmwys.

Di weli fod yn hawfach
Gan Gymry (heb eu hammharch)
Ddyfgu caniad ofer ferth,
Nâ'r peth fydd werthfawroccach.

Gan hynny ceifiaift genny',
Droi'r pyngciau hyn i'w canu;
Fel y gallo'n defaid mân,
Yn rhwydd ar gân eu dyfgu.

Wrth wel'd dy dduwiol fwriad,
Ni phellais o'th ddymuniad;
Ond mi droes dy byngciau'n fyr,
Yn *blain*, yn eglur ganiad.

Ni cheifiais ddim cywrein-waith,
Ond mefur efmwyth perffaith,
Hawdd i'w ddyfgu ar fyr dro,
Gan bawb a'u clywo dair-gwaith.

Derbyn yn roefawgar,
A geifiaift mor 'wyllyfgar;
Er nad ydyw'r gwaith ond gwael,
Mae'n chwennych cael dy ffafar.

Os caiff ein Duw ogoniant,
A'n defaid dippyn llefiant,
'Ry'm ni'n dau yn cael ein gwyn,
O'r gorchwyl hyn trwy lwyddiant.

Duw roddo dy ddymuniad,
Duw fyddo geidwad arnad,
Waith bod fy ffrwft, a'm gwaith yn fawr,
Mi gym'raf 'nawr fy nghennad.

LXXXI. *Y Catecism.*

*Holiad.* FY mhlentyn hygar hoyw,
Er Crist beth yw dy enw,
Myneg im', o galon brudd,
Dy gred a'th ffydd yn groyw.

*Atteb.* Fy enw yw Cynedda,
A gollwyd gynt yn Adda,
Etto gadwyd trwy ras Duw,
Yn Nghrist'r hwn yw'r Messia.

*H.* Pwy roes dy enw i ti,
Lle'r oeddyt gwedi'th golli,
Gyd â'r byd trwy Adda gaeth,
A'th droes i'r fath drueni?

*A.* Fy nhadau a mammau bedydd,
Trwy lân ac union grefydd,
Pan bedyddiwyd fi â dw'r,
Wrth arch fy Mhrynwr ufudd. *Mat.* 28. 12.

*H.* Pwy les sy'n dwad i ti
O'th fedydd, gwedi'th olchi
Yn y dw'r gan 'ffeiriad Duw,
Waith cymmaint yw'th drueni?

*A.* 'Rwy'n aelod bur i'm Prynwr
'Rwy'n blentyn i'm Creawdwr,
'Rwy'n 'tifedd mawr o deyrnas ne',
'Rwy 'Nghrist yn oreu nghyflwr.

*H.* Pa beth yw'r llw a'r ammod,
A wnaeth dy feichiau drosod?
Pan dderbyniaist hyn o fraint,
Ymhlith y saint trwy gymmod.

*A.* Addawsant dri pheth drosof,
Na's gad'af byth yn angof,
Ond mi cadwaf hwynt i gyd,
Trwy Dduw, tr'o bywyd ynof.

*H.* Beth ydyw'r tri pheth hynny,
Addawsant it' gyflawni,
Pan yr oeddyt mor ddirym?
Mynega im' os medru.

*A.* Yn gyntaf bod im' wrthod
Y diawl, a'i dwyll, a'i gymmod,
A'r byd anwir, mawr ei wawd,
A chwantau'r cnawd a'i bechod.

Yn nesaf, bod im' gredu
Holl byngciau ffydd Crist Iesu,
Y rhai'n y Gredo bob yr un,
All pob rhyw ddyn eu dysgu.
Yn drydydd, cadw'n garcus
Orch'mynion Duw a'i 'wyllys,
A byw'n eu hol yn dda fy moes,
Holl ddyddiau f'oes yn weddus.

*H.* Beth ydwyt ti yn dybied
I'th rwymwyd di cyn gaethed?
Ac y rhaid i ti gredu hyn,
A'u cwpla'n dynn trwy weithred.

*A.* 1. Yn wir 'rwy'n rhwym i gredu,
Ac hefyd i gyflawni
Hyn i gyd, a hynny wnaf,
Trwy nerth Duw Naf heb ffaelu.
2. Ac yr wyf yn ddiolchgar
I'm Duw am gymmaint ffafar,
A'm galwodd i i'r cyfryw 'stad,
Yng Nghrist fy Ngheidwad hygar.
3. Ac mi 'tolygaf arno,
Roi gras im' byth i drigo
Yn y cyfryw 'stad trw'i byw,
Nes tynno Duw fi atto.

*H.* Adrodd i mi'n brysur,
Holl fannau'th ffydd yn eglur;
A mynega im' ar lled,
Beth yw dy gred a'th hydyr?

*A.* RWY'n credu yn Nuw galluog, *Y Gredo.*
Tad Iesu Grist trugarog, *Ioan.* 14.1.
Creawdwr nef, a dae'r, a dw'r,
A'u Pen rheolwr enwog.
Yr wyf yn credu hefyd
Ynghrist fy Mhrynwr hyfryd,
A wnaed yn ddyn o'r wyryf Fair,
Trwy rad ei ddiwair Yspryd.
Yr hwn a wir ddioddefwys,
Dros ddyn dan Bont's Pilatwys;
Ac a hoeliwyd ar y groes,
Nes marw o'r loes a'i lladdwys.

A chwedi marw ar groes-bren,
Fe gladdwyd yn y ddae'ren;
Fe ddifgynodd er ein mwyn,
I uffern dwymn aflawen. *Act*.2.31.

A'r trydydd dydd fe gododd
O farw lle gorweddodd,
Gwedi gorfod angau glas, 1*Cor*.15.4,55,57.
A'r gelyn cas a'n twyllodd.

Ac yno fe dderchafwys,
I'r drydedd nef yn gymmwys,
Lle'r eifte' 'nawr ar law dde'r Tad, *Marc*.10.19.
Yn Geidwad i'w ei eglwys.

O'r Nef fe ddaw yn hoyw,
I farnu'r byw a'r meirw,
Mewn gallu a gogoniant mawr,
Pan ddel yr awr i'n galw.

'Rwy'n credu'n ffyddlon hefyd,
I'r Glân a'r Sanctaidd Yfpryd, 1*Ioan* 5.7.
Sy'n deilliaw odd'wrth y Tad a'r Mab, *Ioan* 15.26.
Gwir Roddwr rhad a bywyd.

'Rwy'n credu yn fiwredig,
Fod eglwys lân gatholig,
O bob *nawfiwn*, oes, a thir, *Dat*.7.9.
Gan Grift yn wir gadwedig.

'Rwy'n credu bod yn gyngan,
I bawb o'r faint eu cyfran,
Yn Iefu Grift ein Prynwr drud,
A'i ddoniau gyd yn gyfan.

'Rwy'n credu bod maddeuant *Eph*.1.7.
I bawb a wir 'difarant,
Er mwyn Mab Duw a dalodd iawn,
Tra chyflawn am eu nwyfiant.

'Rwy'n credu adgyfodiad,
I'm cnawd pan ddel yr Ynad,
A'i udgorn mawr i'n codi o'r lluwch, *Rhuf*.15.52.
I gyfrif cuwch a'r lleuad. 1*Thef*. 4.16.

Ac yr wy'n credu'n hollol,
Fod bywyd mawr trag'wyddol,
I holl blant Duw a'r faint ynghyd,
Yn ol y byd prefennol. *Amen*.

*H.* Pa bethau bynna' ddyſgaiſt
O'th gredo'r hon adroddaiſt,
Cais grynhoi yn ſyr ynghyd,
Ffrwyth hyn i gyd a draethaiſt.

*A.* 'Rwy'n dyſgu credu'n gyntaf,
Yn Nuw'r gwir Dad goruchaf,
'Rhwn a'm creodd a'r holl ſyd, *Gen.* 1.
Mewn dull a phryd o'r glanaf.

Yn ail, yr wyf yn credu
Yn Nuw'r Mab, f'Arglwydd Ieſu,
A'm prynodd i a phob rhyw ddyn,
A'i waed ei hun i'n helpu.

Yn drydydd, credaf hefyd,
I Dduw'r ſancteidd-lan Yſpryd, 1 *Cor.* 6. 11.
A'm ſanctеiddiodd, a phob rhyw, *Eph.* 1. 4.
Etholodd Duw i fywyd.

*H.* Di addewaiſt trwy feichneion,
Lwyr gadw yr holl orch'mynion;
Pa ſawl un o'r rhai'n y ſydd
I'w cadw'n brudd o'r galon?

*A.* Mae deg gorchymyn croyw,
A roes Duw in' i'w cadw;
Nid oes torri un o'r rhai'n,
Rhag myn'd yn gelain farw.

*H.* Pa rai er Criſt yw rhei'ny,
Moes glywed, prawf eu henwi?
Cais fyw'n ſanctaidd yn eu hol,
A gwna hwy'n reol i ti.

*A.* Y rhai ar fynydd Sina,
A draethodd Duw'r gorucha,'
A'i enau'i hun o'r tân a'r mwg,
Yng olwg ei gymmanfa.

A'r rhai trwy ddwylo Moeſen,
A roes Duw ar ddwy *dablen*;
Gwedi printio â'i fys ei hun,
Yn hawdd i ddyn eu darllen.

Y rhai ſy ddigon eglur,
I'w tynnu maes o'r 'ſgrythur,
O'r ugeinfed bennod dlws,
O Ecſodws gymmeſur.

*H.* Beth yw'r gorchymyn cynta',
A'r ail, a'r lleill ? mynega :
Prawf eu traethu cymmain' un,
Yn oed yr un diwetha'.

*A.* I. MYFI, yr Hollalluog,
Yw d'Arglwydd Dduw trugarog,
Na fyn un Duw ond myfi,
Sydd un a thri galluog.

II. Na wna un ddelw i ti,
Gerfiedig i'w haddoli,
Na llun dim o'r nef na'r ddae'r,
Na'r dw'r, na'r aer, i'm fiommi.

Na oftwng i'r fath wagedd,
Na 'ddola'r fath oferedd ;
Pridd a choed a cherrig yn',
Gwaith dwylo dyn a'i fyfedd.

Can's myfi, dy Arglwydd grymmus,
A'th Ior, wyf Dduw eiddigus,
Sy'n ymwel'd â phechod cant
O dadau ar blant camweddus :

Ac yn rhoi cofpedigaeth,
Hyd dair oes a chenhedlaeth,
O'r rhai fydd yn fy nghafau,
Trwy garu gau addoliaeth :

Gan ddangos trugareddau,
I'r fawl a gadwo neddfau,
Ac i'w plant, a'u had, a'u hil,
Hyd fil o genhedlaethau.

III. Na enwa Dduw un amfer,
Heb ofon, parch, a phryder,
Can's nid gwirion yw dy lw,
Os cym'ri ei enw'n ofer.

IV. Cofia gadw yn fanctaidd
Y fabbath wen yn weddaidd,
A threulia'r ful tra f'ech di byw,
Yn addoli Duw'n grift'nogaidd.

Fe rodd Duw chwe' diwrnod
It' weithio d'orchwyl priod ;
Y feithfed dydd rhaid cwympo'n faith,
I weithio gwaith y Drindod.

Ar y diwrnod hwnnw,
Na wna ddim gwaith ferch marw,
Nath fab, na'th ferch, na'th was, na'th farch,
A'r dierth arch ei gadw;

O achos mewn chwe' d'ie,
Y gwnaeth Duw'r byd a'i bethau,
A'r nef, a'r ddae'r, a'r môr, a'u llu,
A'r cwbl fy'n eu dible.

A'r feithfed dydd f'orphwyfodd,
Gan hynny fe fendithiodd
Yr Arglwydd Dduw y feithfed dydd,
Ac ef a'i prudd fanćteiddiodd.

V. Rho barch a gwir ufudd dod,
I'th dad a'th fam yn waftod,
Fel yr eftyno Duw yn hir
Dy oes ar dir dy drallod.

VI. Gochel ladd un Criftion,
Na thywallt gwaed y gwirion:
Gwaed a lef yn doft ei lais, *Gen*.4.10.
Duw ddial drais llofruddion.

VII. Na wna odineb aflan,
Gwna'n fawr o'th wraig dy hunan; *Diar*.5.15,18
Yf y dw'r o'th ‖ wins dy hun, ‖ *Ffynnon.*
Na chwrdd ag un oddiallan.

VIII. Na ladratta fymryn,
Tr'ech byw, o olud un-dyn;
Na thwylla neb, nac arfer drais,
Serch goddef clais a newyn.

IX. Na fydd dy dyft celwyddog,
Yn erbyn dy gymmydog,
Dywaid wir am bob rhyw ddyn,
Na § fglandra un dieuog. § *Chamgyhuddo.*

X. Na chwennych dy gymmydog,
Na'i wraig, na'i was calonnog,
Na'i forwyn wen, na'i ferch, na'i ych,
Na dim na by'ch berchennog.

O Arglwydd Dduw, bydd dirion *Gweddi.*
Wrth bawb o'th blant a'th weifion;
Goftwng di'n calonnau'n faith,
I gadw'th gyfraith gyfion.

O Arglwydd grafol, maddau
Ein pechod a'n trofeddau;
A 'fgrifena'r gyfraith hon,
Ar lech ein calon ninnnau.

*H.* Beth wyt ti'n ddyfgu'n benna',
O'r gyfraith hon? mynega;
A rho im' yn gryno ynghyd,
Eu ffrwyth i gyd yn gwtta.

*A.* 'Rwy'n dyfgu dau beth enwog,
Fy nau rhyw ddyled ferchog,
Un tu ag at fy Arglwydd Dduw,
Llall at bob rhyw gymmydog.

*H.* Yn gynta' moes im' glywed,
Yn gyflawn beth yw'th ddyled
At yr Holl-alluog Dduw,
Sy'th rwymo i fyw yn gyftled.

*A.* Fy nyled at Dduw cyfion,
Yw credu ynddo'n ffyddlon: *Heb.*11.6.
A'i ofni'n fawr trwy barch a ffydd, *Mat.*22.37.
A'i garu'n brudd o'm calon.

Yno i wir addoli,
Fel y mae air yn erchi;
A'i fendithio bob yr awr, *Sal.*145.2.
Am dan ei fawr ddaioni.

A llwyr ymddiried ynddo,
A galw'n gywir arno,
Perchi air, a'i enw'n brudd,
A bod yn ufudd iddo.

Ac felly ei anrhydeddu
Yn gywir, a'i was'naethu
Ddydd a nos tra ynof chwyth,
A'r eitha' byth o'm gallu.

*H.* Beth yw dy ddyled enwog,
Tu ag at bob rhyw gymmydog?
Moes ei glywed i mi'n glur,
O galon bur yn rhywiog.

*A.* Fy nyled at gymmydog,
I'w garu'n daran ferchog,
Fel y caraf fi fy hun,
Ped f'ai fy ngelyn llidiog:

A gwneuthur i bob criſtion, *Mat.*22.29.
Fel y dymuna nghalon, *Mat.*5.44.
Iddynt hwythau wneuthur im', *Mat.*7.12.
Heb ddangos llym feſuron.

A charu fy rhieni,
A'u cymmorth hwy a'u perchi, 1*Tim.*4.4.
A gwneuthur, heb ddim nâg na ſon,
Bob peth a fon' yn erchi.

Ac ufuddhau i'r brenin,
A'i ſwyddwyr ſy'n f'amddiffyn,
A'i anrhydeddu trwy fawr barch,
A gweithio ei arch yn ddiflin.

A goſtwng i'm dyſgawdwyr,
Athrawon a chynghorwyr,
Sy'n cyfrwyddo i mi fyw, 1*Theſ.*5.12,13.
Wrth 'wyllys Duw a'r 'ſgrythur.

A pherchi mawr a bychan,
O'm gwell o bob rhyw oedran;
Ac ymoſtwg iddynt hwy, *Lef.*19.17.
Heb wneuthur mwy o dwrddan.

Ac na wnelwyf niwed,
I neb ar air na gweithred; *Lef.*19.17.
Na dwyn câs at unrhyw ddyn,
Na chlwyfo un ar aned.

A chadw 'nghorph yn dempraidd,
Yn ſobor ac yn ſanctaidd,
Rhag pob rhyfyg fel rhag plag,
Yn ddiwair ac yn weddaidd.

A chadw nwylo'n benna', *Eph.*4.28.
Rhag chwiwio a lladratta,
A rhag gwneuthur twyll na cham,
Ond gweithio am eu bara:

A chadw nhafod beunydd, *Eph.*4.25.
Rhag cabledd, twyll, a chelwydd,
A rhag d'wedyd drwg am neb,
Fel Ethnic heb ei fedydd.

A chadw 'nghalon angall,
Rhag chwennych golud arall,
Ond llafurio wrth fodd Duw, 2 *Theſ.*3.8.
I geiſio byw yn ddiwall.

*Addysg.*] Gwybydd hyn yn eglur, *Rhuf.*7.18.
Nad wyt ti'n abal gwneuthur
Hyn i gyd o'th rym dy hun,
Lle'r wyt ti'n ddyn pechadur. *Rhuf.*3.12.
Ni elli gadw'r gyfraith,
Na rhodio ynthi'n berffaith,
Na gwas'naethu Duw'n ddifrad, *Ioan* 15.5.
Heb gael ei rad ef (f' ‡ anrhaith.) ‡ *Anwylyd.*
Gan hynny rhaid it' ddyfgu,
Trwy weddi attolygu
Ar Dduw mawr o hyn i maes,
Roi nefol ras i'th helpu.
Moes glywed im' gan hynny,
A fedri di fynegi
Gweddi'r Arglwydd yn ddibaid?
On't ê mae'n rhaid ei dyfgu.

*A.* EIN Tad o'r drydedd nefoedd,
Ein Tad trwy Grift a'n prynodd,
Sancteiddier byth dy enw mawr,
Gan bawb, bob awr, o'th luoedd.
Deued dy deyrnas rafol,
I'n plith, dy blant, a'th bobol;
A rheola ni bob pryd,
A'th air, a'th Yfpryd nefol.
Dy 'wyllys di wnel dynion,
Ar dir ym myfg dae'rolion;
Fel yn y nef y gwneir heb nâg,
Gan thronau ag angylion.
Rho heddyw i ni fwytta,
Bob rhai'n beunyddiol fara,
A phob peth fydd raid i ni
'Th was'naethu di'r Gorucha',
A maddeu i ni'n pechodau,
Fel y maddeuom ninnau
I'r fawl a wnaethont lawer gwaith,
I'n herbyn faith drofeddau.
Nac arwain ni yn ddirgel,
I brofedigaeth uchel;
Ond gwared ni rhag pob drwg ffawd,
O'r byd, a'r cnawd, a'r cythraul.

Can's tydi bie'r deyrnas,
A'r nerth a'r gallu o gwmpas,
A'r gogoniant oll i gyd,
Hyd ddiben byd yn addas. *Amen.*

*H.* Beth wyt ti yn ei geifio
Gan d'Arglwydd wrth weddio,
Yn y weddi fechan hon,
Gan droi d'olygon atto?

*A.* Yn gynta' rwyf fi'n erchi
Ar f'Arglwydd, Tad goleuni,
Roi i ni ras tra f'om ar dir,
Bob rhai i'w wir addoli.

Gwedi'n 'rwyf fi'n eiriol,
Am bob peth angenrheidiol,
I'r eneidiau a'r cyrph ynghyd,
Tr'o ni'n y byd prefennol.

A maddeu'n holl ddrygioni,
Ein beiau oll a'n gwegi,
A thrugarhau wrth bawb ar lled,
A wnelont niwed i ni.

A'n cadw yn ddihangol,
Rhag pob rhyw bechod marwol,
A phob peryg' a phob plag,
Corphorol ac yfprydol.

A hyn yr wy'n obeithio,
A wna fy Nuw heb beidio,
Er mwyn ei Fab fy Mhrynwr gwyn,
A gaiff fy nghanlyn gantho.

*H.* Attebaist hyn yn gymmwys,
Mynega im' cyn gorphwys,
Pa fawl facrament didrift,
Ordeiniodd Crift i'w eglwys.

*A.* F'ordeiniodd ddau'n ei fywyd,
Tra rheidiol ar ein hiechyd,
Y cynta' o'r ddau yw bedydd pur,
Yr ail yw'r fwpper hyfryd.

*H.* Os wyt ti yn deallu,
Dymunwn it' hyfpyfu,
Beth yw facrament yn bur?
Mynega yn glir, os medru.

*A.* Mae'n arwydd plaen gweledig,
O ddirgel ras arbennig,
Trwy'r hwn y rhoddir Crist ei hun, 1 *Cor*.1o.
A'i ddoniau i ddyn cadwedig.

*H.* Pa nifer sydd o rannau
Yn mhawb o'r sacramentau?
Myneg' im' ar g'oedd y plwy',
A dangos hwy yn olau.

*A.* Mae dwy ran amlwg, meddynt,
Ymhob yr un o honynt;
Yr arwydd amlwg o'r tu faes,
A'r dirgel ras sydd ynddynt.

*H.* Beth ydyw'r nod gweledig,
A'r arwydd digon tebyg,
Sy'n y bedydd o'r tu faes,
Yn selu'r gras arbennig?

*A.* Y dw'r yn y bedyddfan,
Lle trochir y dyn bychan,
Yn enw'r Tad, a'r Mab dri phryd,
A'r Sanctaidd Yspryd purlan.

*H.* Beth ydyw'r gras ysprydol,
Na's cenfydd llygad cnawdol,
Y mae'r dw'r yn ar'ddoccau,
Sy'n golchi brychau'r bobol?

*A.* Gwaed Crist, Mab Duw ei hunan,
Sy'n golchi'r enaid aflan,
Oddiwrth bob rhyw bechod cas,
Lle'r oedd yn was i satan.

Ac hefyd yn ei wneuthur
Yn gristion o bechadur,
Ac yn blentyn Duw trwy ras,
O elyn cas wrth nattur.

*H.* Beth ydys yn ei geisio
Gan rai ddel i'w bedyddio?
Beth sydd raid? mynega'n bres
I'r rhai gais lles oddiwrtho.

*A.* 'Difeirwch a ffydd fywiol,
Sydd ddau beth angenrheidiol,
I bob dyn a ddel yn brudd
I geisio bedydd grasol.

'Difeirwch i ymwrthod,
A phob rhyw fath o bechod;
Ffydd i gredu tra fo byw
Addewid Duw a'i ammod.

*H.* Pa ham y rhwydd fedyddir
Plant bychain pan eu genir;
Pan na allant yn ddi feth
Gyflawni'r peth a geifir?

*A.* Y maent hwy trwy meicheon,
Yn cwpla'u haddewidion,
Nes y delont hwy mewn maint
I dalu'r faint addawfon'.

*H.* Mynega pa'm ordeinwyd
Y fwpper pan dechreuwyd?
Pa'm yr y's yn arfer hon
Trwy ddefod 'rhon ni lyfwyd?

*A.* Er mwyn trag'wyddol goffa
Am angeu Crift a'i laddfa,
A'r holl lefad a ddaw i ddyn
Oddiwrth ei wŷn a'i boenfa.

*H.* Beth ydyw'r rhan a weler
Tu allan yn y fwpper,
A'r nod a'r arwydd o'r tu faes
Sy'n felu'r gras addawer?

*A.* Y bara a'r gwin o'r cymmun
Orch'mynodd Crift i'w derbyn,
Er cofio ei gorph a'i waed ei hun, 1 *Cor.* 11.24,25.
Sy'n cadw dyn rhag newyn.

*H.* Beth ydyw'r rhan ni welwn,
A'r gras fydd o'r communiwn,
'Rhwn ar'ddocceir wrth fara a gwin?
Mynega'n § rhin erdolwyn. § *Yn eglur.*

*A.* Corph Crift a'i waed fanĉteiddiol *Ioan* 6.50.
Offrymmodd dros ei bobol, *Eph.* 1.7. *a* 5.6.
I brynu dyn, i dalu Duw,
A'n porthi i fyw'n drag'wyddol.

*H.* Pa les a gaiff crift'nogion
A gym'ro o 'wyllys calon
Y facrament fanĉteiddiol hyn
O'r fwpper pan derbynion'?

*A.* Cael porthi eu heneidiau
Ar Grist ei hun a'i ddoniau,
Cadarnhau eu hegwan ffydd,
A maddeu'n brudd eu beiau. *Mat.*26.26,27,28.

Fel y bydd bara ffrwythlon
A gwin yn porthi'r galon;
Felly Crist a'i waed wrth raid
Sy'n porthi'r enaid ffyddlon.

*H.* Pa beth sydd raid o brysur
I bob rhyw gristion wneuthur,
A ddel i swpper Crist yn llon,
Os cais yn hon gael cysur?

*A.* Rhaid iddo holi'n sanol, 1*Cor.*11.28.
A fo ef wir 'difeiriol,
Am ei bechod o bob rhyw,
Yn erbyn Duw a'i bobol.

A holi'n nesa at hynny,
A fo e'n llwyr fwriadu
Gwella ei fuchedd wrth fodd Duw,
A chwedi'n byw heb bechu:

Ac hefyd mynnu gwybod, 2 *Cor.*13.5.
Oes gantho ffydd dan ammod,
Am drugaredd Duw trwy Grist,
I faddeu ei athrist bechod.

A chredu i'r Arglwydd Iesu,
A'i werthfawr waed ei brynu,
Pan na allai neb ond Crist
Trwy angeu trist ei helpu.

Rhaid hefyd holi eilchwaith,
A fo e' mewn cariad perffaith *Mat.*5.23,24.
A phob dyn, gan faddeu'n brudd *Luc*17.3,4.
I bawb bob dydd eu drygwaith.

LXXXII. *Pethau i'w hystyried a'u harferu pan ddel y nos*

GWEL fel y mae dy oes yn darfod,
Mae'n llai beunydd o ddiwrnod;
'Rwyt ti'n nes y leni i'th ddiwedd,
O un flwyddyn nag y llynedd.

Gochel fyn'd un nos i gysgu
Yn dy bechod nes 'difaru,

A chymmodi â'r Duw cyfion,
Cyn y cauech dy olygon.
Na'd un nos i'r haul fachludo *Eph.*4.26.
Ar dy lid yn ol it' ddigio,
Gwell it' gyſgu gyd ag arthes,
Nag â malais yn dy fynwes.
Mwy yw peryg' dyn ſy'n cyſgu
Yn ei wely heb nawdd Ieſu,
Nag oedd peryg' Daniel hynod
Gynt wrth gyſgu rhwng y llewod.
Y mae'r 'ſgrythur yn mynegi,
Fod y diawl yn troi o bob tu,
Ddydd a nos, yn ceiſio'n llarpio,
Megis llew pwy bynnag allo. 1*Pedr.*5.8.
Pwy ſy'n rhwyſtro'r llew i'n llyngcu,
Ond ein Ceidwad mawr Criſt Ieſu, *Sal.*121.4.
'Rhwn ſydd nos a dydd heb heppian,
Yn cadw ei braidd rhag rhuthrau ſatan.
Llawer dyn ſy'n myn'd i'w wely,
Heb ddihuno mwy ond hynny,
Nes y galwo'r udgorn aethlyd
Hwynt i'r farn i ddwyn eu penyd.
Yn ol dy boen a'th waith y dydd,
Pan ddelo'r nos, ymro yn brudd
I roi i Dduw brydnhawnol aberth,
O galon brudd a geiriau prydferth.
Diwedda'r dydd fel y dechreuaiſt,
Cae dy ddryſau fel agoraiſt :
Gad i weddi brudd bob dyddiau,
Gloi bob hwyr, a datgloi'r borau.
Duw fyn offrwm bêr brydnhawnol, *Num.*28.4.
Fel yr offrwm bêr foreuol :
Mawl y nos fel mawl y borau,
Na'd un pryd dy fawl yn eiſiau.
Galw 'nghyd dy blant a'th bobol, *Gen.*18.19.
Dywaid oſper yn dra deddfol ; *Joſ.*24.15.
Gwna dy dŷ yn demel fechan,
Chwareu'r 'ffeiriad doeth dy hunan.
Prudd weddia ar dy liniau, *Deut.*6.6.
Darllain bennod o'r 'ſgrythurau :

Dysg dy blant mewn pyngciau crefydd,
Duw'th fendithia yn dragywydd.

Cofia'r nos dy waith y dydd, *Sal.*42.8.
Os gwnaethoft gam, gwna iawn yn brudd: *Luc* 19.8.
Os digiaift Dduw, cais bardwn gantho,
Os cefaift ras, rho foliant iddo. *Hof.*42.8.

Na ddos i gyfgu yn dy bechod,
Rhag myn'd o'th gwfg ger bron y Drindod;
Ac na huned dy ddau amrant,
Nes ymbilio am faddeuant.

Y dyn a feiddio fyn'd i gyfgu
Yn ei bechod cyn 'difaru,
Mae e'n mentro mwy o lawer,
Nâ phe cyfgai gyd â gwiber.

Rhag dy fyn'd i'r bar i'th farnu *Mat.*24.44.
Ganol nos tra fe'ch yn cyfgu,
Gochel fyn'd fel dyn diwybod,
Byth i'th wely yn ammharod.

Pan edrychech ar dy wely,
Cofia'r bedd lle'r ai i'th gladdu,
A chyn rhoi dy gorph i orwedd,
Dyfal feddwl am dy ddiwedd.

Pan y tynnech dy holl ddillad,
Ond dy grys oddi am danad,
Cofia fel y gorfydd gado
Yma'r cwbwl ond yr amdo. 1*Tim.*6.7.

Pan y cano ceiliog Peder,
Nes dihunech o'th efmwythder,
Meddwl, f'enaid, fel y deffry 1*Cor.*15.52.
Udgorn Crift di wedi'th gladdu. *Ioan* 5.28.

LXXXIII. *Hymn i'w chanu i Dduw cyn myned i gyfgu.*

F'ANWYL Dad, a'm carcus Geidwad, *Sal.*121.2.
'Rhwn wyt nos a dydd i'm gwiliad:
Bendigedig a fo d'enw
Nos a dydd am dan fy nghadw.

Di'm caftellaift i'r dydd heddy' *Sal.*34.7.
A'th angylion bach o ddautu,
Ac orch'mynaift iddynt f'atteg,
Rhag im' daro nhroed wrth garreg.

Dithau'm cedwaist yn ddihangol
Rhag holl rwydau'r sarph uffernol,
'Rhwn sydd nos a dydd heb gysgu
Yn ceisio'm difa a'm bachellu.

Porthaist finnau heddyw'n ddichwith,
A mêl o'r graig a brasder gwenith,
Ac di roddaist im' i'w yfed
Phiol lawn i dorri'm syched.

Dithau'm cedwaist rhag pob tramgwydd,
C'wilydd, colled, anhap, aflwydd,
Nychdod, niwed; ac am hynny
'Rwy' o'm calon i'th glodfori.

Cym'raist gymmaint carc am danaf
Y dydd heddyw, Dad goruchaf,
A phe bu'sit heb un plentyn
Ond mysi i garcu trostyn'.

Bendigedig yn dragywydd
A fo'm Ceidwad a'm Dyrchafydd,
'Rhwn sy'n carcu cymmaint droswyf,
Ddydd a nos p'le bynna'r elwyf. *Amen.*

LXXXIV. *Diolch am dân a chynhesrwydd.*

PEN * Profidwr pob anghenrhaid, * *Parottowr.*
Gwir ymg'leddwr corph ac enaid, *Sal.* 145. 15.
'Rwy'n bendithio d'enw hyfryd,
Am roi tân i dorri f'anwyd.

Duw mor rasol yr ordeiniaist
Dân rhag anwyd, tŷ rhag temest',
Bwyd rhag newyn, dw'r rhag syched,
I ymg'leddu dyn pengaled.

Oni bu'sai i ti drefnu
Tân i'n gweinif a'n cynhessu,
B'wedd y gallsai dyn ymdaro
Heb y tân pe bu'sem hebddo?

Er bod tân yn beth anhepgor,
Etto 'sywaeth nid oes nemmor
Ymhlith miloedd a rônt i ti
Am eu tân o'r * *Godamersi.* * *Diolch.*

Arglwydd agor ein golygon,
I gydnabod maint dy roddion,

A'n geneuau i'th glodfori,
Am ein tŷ, ein tân, ein gwely.

Y mae'n gwell yn gorwedd allan
Yn yr oerfel toſt yn griddfan;
Duw cynheſſa'r rhai'n â'th ffafar,
A gwna ninnau yn ddiolchgar.

LXXXV. *Gweddi wrth fyned i'r gwely.*

CEIDWAD Iſrael a'i Achubwr,
Caſtell cryf pob gwan diſwccwr,
Er mwyn d'anwyl Fab Criſt Ieſu,
Gwrando'n gwaedd wrth fyn'd i'n gwely.

Arglwydd mawr, 'rwy' ar fy ngliniau,
Wrth fy ngwely yn cyſadde',
Nad wyf deilwng edrych arnat,
Chwaethach dyfod yn nes attat.

Etto er hyn yr wy'n hyderu — *1 Ioan* 5.14,15.
Y caf, er mwyn dy Fab Criſt Ieſu,
Nid yn unig gennyt wrando, — *Ioan* 16.23.
Ond rhoi i mi'r peth wy'n geiſio:

A bod i mi byth yn Gryſdwr
Ac yn Geidwad, ac yn Swccwr,
Rhag pob niwed a ddigwyddo,
Yn enwedig i mi heno.

Arglwydd, 'rwyf fi'n myn'd i orwedd,
Heb wybodaeth am fy niwedd;
Os ni ŵyr un dyn pan gyſgo,
P'un a wna ai codi ai peidio.

Achos da i ddyn gan hynny,
Cyn yr elo'r nos i gyſgu,
Lwyr ymg'weirio ſyn'd at Dduw,
Rhag na chotto mwy yn fyw.

O herwydd hyn 'rwyf fi yn dwad
Attat ti, fy Nuw a'm Ceidwad,
Ar fy naulin heno i 'mhwedd,
Am dy gymmorth a'th drugaredd.

Bydd di Gaſtell, bydd di Geidwad,
Bydd di Graig a Lloches ddifrad,
I'm caſtellu yn ddibryder
Heno rhag pob aneſmwythder.

Y mae'r llew ſy erioed heb gyſgu, *1 Pedr* 5.8.
Ddydd a nos a chwant i'm llyngcu;
Ac ni wela'i lun i'w rwyſtro,
Oni chedwi di fi rhagddo.

Derbyn fi gan hynny i'th fynwes,
Dod fi rhwng dy ddwy-fron gynnes, *Sal.* 17.8.
Fel y gallwy'n eſmwyth orwedd
Heno'm mreichiau dy drugaredd.

Arglwydd, tanna droſwy' d'adain,
Cadw fi rhag bradau'r filain,
Fel y gallwy' yn ddibryder,
Gyſgu dani mewn eſmwythder.

Goſod werſyll o'th angylion *Sal.* 34.7.
I'm caſtellu rhag pob ofon:
Pâr i'r rhai'n fy llwyr ddiwallu,
Yn dy go'l tra fyddwy'n cyſgu.

Bydd dy hun, â'th raſol lygad, *Sal.* 34.15.
Goruwch y rhai'n yn fy ngwiliad,
Na'd i neb rhyw ddrwg fy nrygu,
Na thramwyo lle bwy'n cyſgu.

Rho ſonyddwch ac eſmwythder
I mi heno, a phob amſer;
Rho i'm henaid wir ddiddanwch,
Rho i'm corph ei hûn a'i heddwch.

Ac rhag i mi fyn'd i'm barnu,
Ger dy fron pan byddwy'n cyſgu,
Na'd im' fyned yn ddiwybod
Byth i'm gwely yn amharod.

Na'd im' roddi cwſg i'm llygaid,
Nes ymbilio â thi'n danbaid,
Am gael pardwn am y cwbwl
Ar a wnaethum maes o'th feddwl.

Pâr im' addef fy holl gamwedd,
A'm holl wendid a'm hanwiredd;
Fel y gallwyf gwedi eu hadde',
Gael maddeuant gennyt titheu.

Pâr im' wylo ac alaru
Am fy ngwaith mor rhwydd yn pechu;
A 'moſidio'n doſt gan gynddrwg
Fu fy muchedd yn dy olwg.

Pâr im' fyned mor 'difeiriol
Heno i'm gwely ac mor ddeddfol,
A phe gwypwn na chawn nofwaith
Mwy i edifaru'r eilchwaith.

Pâr im' grio'n daer am bardwn,
Er mwyn Crift a'i waedlyd *bafiwn*,
Am a wnaethum erioed o feiau,
Fel na byddo un heb faddau.

Golch fi oddiwrth fy meiau'n llwyr ddwys,
Yng waed Crift yr Oen a'm prynwys; *Sal.*51.2.
Cladd fy mhechod yn ei weli,
Na'd ef eilchwaith adgyfodi.

Na'd fod un o'm ffiaidd frynti
Yn dy lyfyr heb ei groefi,
Rhag i hwnnw fy ngw'radwyddo,
Ger dy fron pan ddelwy' || *'mpirio.* || *ymddangos.*

Pâr im' fod â'r wifg briodas *Mat.*22.12,13.
Ddydd a nos bob awr o'm cwmpas, *Mat.*25.4.
Ac *oil* i'm lamp, a hwnnw'n llofgi,
Yn difgwyl Crist i'm galw i gyfri'.

Diogela 'nghalon egwan,
Fod yn ficr i mi gyfran
O'r dedwyddwch a bwrcafodd
Crift i'w frodyr yn y nefoedd.

Weithian, Arglwydd, mi orweddaf, *Sal.*3.5.
Ac mewn heddwch mi a gyfgaf,
Can's tydi, O Dduw'r diddanwch,
A'm cyfleu mewn diogelwch.

## LXXXVI. *Myfyrdod pan ddihuner o gyfgu ganol nos.*

MOR hyfryd ac mor weddus
Yw canu i Dduw yn rymmus
Ganol nos, pan fo pob dyn
Yn cyfgu hûn yn felus.

Mor dda, mor ddwys, mor ddehau, *Sal.*92.1,2.
Yw moli ei enw'r borau!
A myfyrio yn ddiddal
Am dan ei amal ddoniau.

A deffro'r corph cyfgadur
A chalon barod bryfur,

I glodfori enw Duw,
Peth hyfryd yw ei wneuthur.
  A chwnnu lawr o'r gwely,
Fel Dafydd i'w foliannu,
Ar ein dau-lin ganol nos, *Sal.* 119. 62.
Yn ddiflin dros ein helpu.
  A chofio ei drugaredd,
Ei gymmorth a'i ymgeledd,
I blant dynion bob rhyw bryd,
O ddechreu byd i ddiwedd.
  A rhoi ar bwys y gwely,
Pan fyddo'r byd yn chwyrnu,
Glod a moliant prudd, dinam,
I'r hael Dduw am ein helpu.
  Clod a gallu, diolch, moliant,
Gwir anrhydedd a gogoniant,
A fo nos a dydd i'r Drindod,
Sydd bob amſer yn ein gwarchod.

## LXXXVII. *Salm xxiii.*

FY Mugail yw'r Goruchaf,
  Pa fodd gan hynny ffaelaf?
Tr'wy'n ymddiried ynddo fe,
Ni edy eiſiau arnaf.
  Y mae ef i'm caſtellu
A'i ras, a'i rym o ddeutu,
Fel na ddichon gwr na gwraig,
Na diawl, na draig, fy nrygu.
  Y mae ef i'm porſela
Mewn dolydd o'r * areula, * *Hyfryda.*
Lle mae dyfroedd tawel iawn,
A thir yn llawn o borfa.
  Pan elwyf dros ei lwybrau,
Fe'm cyrch i eilchwaith adre',
Ac er mwyn ei enw ei hun,
Fe'm try i'r un ſydd oreu.
  Ac os digwydda weithiau
Im' rodio ynghyſgod angau,
Nid rhaid i mi ofni un,
Can's Duw ei hun a'm cadwai.

Y mae ef yn brefennol,
I'm hachub yn waftadol,
A'i wialen wen, a'i fach, a'i ffon,
A'm gwna i'n llon anianol.

Er comffordd im' a chyfur,
O anfodd fy ngwrth'nebwyr,
Rhodd im' ford gyfoethog iawn,
A feigiau'n llawn o fuwgur.

Enneiniodd f'Arglwydd hefyd
Fy mhen ag *oil* yn hyfryd,
Ac 'fe wnaeth fy mwtri'n llawn,
A'i radlawn ddawn a'i olud.

Ei fwynder a'i drugaredd,
A'm dilyn hyd y diwedd;
Yn ei deml, tr'o ynof chwyth,
Y bydd fy nyth a'm hannedd.

I'r Tad, i'r Mab, i'r Yfpryd,
I'r Drindod, Undod hyfryd,
Y bo clod a moliant mawr,
Bob dydd, bob awr, bob ennyd.

LXXXVIII. *Y modd y dylai dyn grafol ddeffro ei gorph a'i enaid ganol nos i glodfori Duw.*

DIHUN, dihun o gyfgu,
Fy enaid bach prawf ganu
Clod a mawl â chalon brudd
I'r Arglwydd fydd i'th helpu. *Sal.*103.1,2.

Dihun, dihun, mae achos
It' wiliad fel yr Eos,
I glodfori d'Arglwydd mawr,
Heb gyfgu awr o'r hir-nos.

Dihun, dihun, a chofia
Drugaredd y Goruchaf',
A'r modd i'th helpodd Prynwr cred,
Er pan y'th aned gynta'. *Sal.*22.9,10.

Fe yw dy unig Helpwr,
Dy Nawdd, dy Nerth, dy Swccwr,
Dy Grift, dy Graig, dy gadarn Ior,
A'th dynnodd o'r cyfyngdwr.

Fe'th greawdd cyn berffeithied,
Fe'th dynnodd o gaethiwed;
Fe'th adgenhedlodd o'th ddrwg rân, *Ioan* 8.36.
A'i Yſpryd Glân bendiged.

Fe'th alwodd o blith deillion,
I gredu'r 'fengyl dirion,
Fe'th gyfiawnhaodd yn rhad trwy ffydd, *Rhuf.* 5.1.
Yng Nghriſt d'Achubydd ffyddlon.

Yn foethus iawn fe'th borthodd,
Yn drefnus fe'th ddilladodd, *Ezec.* 15.40.
Fe'th ddyrchafodd i fawr fraint,
Rhag cwrp a haint fe'th gadwodd.

Fe rodd it' enw hyfryd, *Eſa.* 56.5.
A chredit a ſyberwyd,
Heddwch, llwyddiant, gras a dawn, 1 *Cor.* 3.21,
A llawer iawn o olud. 22.23.

Fe wnaeth it' fyw mewn cariad,
Hawddgarwch a chymmeriad,
Gyd â phob glân *ſort* o ddyn,
Heb gâs gan un o'r teir-gwlad.

Ni phallodd erioed etto
O'r peth a fait yn geiſio;
Er na haeddit, ſeger taer, *Gen.* 32.10.
'Mo'r briwſion ar ei ddwylo,

Nid oes un dyn ag aned,
Sydd arno fwy o ddyled,
I glodfori'r un Duw tri,
Nag ſ'arnat ti o'u parthed.

Dihun gan hynny, a choſia
Garedigrwydd y Gorucha',
A'r modd i'th helpodd Prynwr Cred, *Sal.* 145.2.
Er pan y'th aned gynta'.

A thra fo it' ben a thafod,
Mynega byth ei fawrglod,
A'i ddaioni yn ddiddal,
Tra chwyth ac ana'l ynod.

I'r Tad, i'r Mab, i'r Yſpryd,
I'r Drindod, Undod hyfryd,
Y bo clod a moliant mawr,
Bob dydd, bob awr, bob ennyd.

LXXXIX. *Diolch am etholedigaeth, ac amryw ddoniau ysprydol.*

O ARGLWYDD Dduw goruchaf,
Pa ddull, pa fodd y gallaf,
Roi it' ddiolch llawn ar lled,
Fel y mae'r dyled arnaf?

Cyn gwneuthur nef a daear,
O'th ras yng Nghrist a'th ffafar,
Di'm detholaist fod yn un
O'th blant dy hun yn gynnar.

Di'm ceraist innau o'r priddyn,
Oedd frwnt a gwael ei eilun,
Ar dy lun a'th wedd dy hun,
Yn lanaf dyn o'r werin.

Di'm tynnaist yn dra lluniaidd,
O groth fy mam yn berffaidd,
Lle gallesit fy nhroi maes
Yn grippil cas angh'ruaidd.

Di'm gwnaethost innau'n gristion,
Ymhlith dy bobol ffyddlon,
Lle gallesit heb ddim dysg,
Fy'm rhoi ymysg Iuddewon.

A chwedi Adda ngwerthu
I satan gynt wrth bechu,
Di a'm prynaist o'i law'n rhad,
A gwerthfawr waed y Iesu.

Ni *sperciaist* roddi i farw
Dy unig Fab i'm cadw,
Ac i hongian ar y groes,
Tan lawer loes oedd chwerw.

Di'm hadgenhedlaist gwedi'n, *Tit.* 3.3,4,5,
I fod yn anwyl blentyn 6,7.
It' trwy fabwys prudd a gras,
Pan oeddwn was a gelyn.

Di aethost yn Dad i mi,
A minnau'n blentyn i ti; *Ioan* 1.12.
Di'm hail wnaethost ar dy wedd,
Yn 'tifedd i'r goleuni. *Eph.* 2.10.

Di'm gelwaist innau hefyd *Iago* 1.18.
A'th air, a'th nefol Yspryd,
O blith miloedd o rai cas,
I gaffael gras ac iechyd:

O blith y bobol feddwon,
A'r mud, a'r dwl, a'r deillion,
Di am gelwaist â'th air dwys,
I fynwes d'eglwys dirion.

A gwaed dy Fab di'm golchaist,
A'th Yspryd di'm sancteiddiaist: 2*Pedr* 1.4.
Rhan o'th nattur rhoist i mi,
A'm pechod ti ddirymmaist.

Ac er fy mod yn sarnllyd,
A'm gweithred yn frycheulyd,
Di'm cyfiawnheaist o'th ras yn rhad, *Rhuf*.3.24,
Trwy ffydd yng waed d'Anwylyd. 25,26.

A rhoist im' gadarn obaith,
Er i mi farw unwaith, 1*Thes*.4.13,16,17.
O ran y cnawd, pan ddel y cri,
Y caf gyfodi'r eilwaith:

A derbyn yn ddiffuant,
Gan f'Arglwydd wir ogoniant, *Col*.3.4.
Er mwyn Crist, a nefol fraint,
Ymhlith y saint *triwmphant*.

Lle caf fi wir lawenydd,
A heddwch yn dragywydd;
Parch, anrhydedd tr'o ynof chwyth, *Sal*.16.11.
A gwynfyd byth na dderfydd.

Am hyn o ddoniau 'sprydol,
Fy Nhad a'm Harglwydd nefol,
'Rwy'n rhwymedig ar fy llw,
Glodfori d'enw grasol:

A thr'o dim deall genny',
Yn ddyfal dy addoli,
A'th foliannu bob yr awr,
Am dan dy fawr ddaioni.

I'r hael Dad'r hwn a'm creodd,
I'r Iesu'r hwn a'm prynodd,
Y byddo clod a mawl bob cam,
A'r Yspryd a'm sancteiddiodd.

## XC. *Gweddi yn erbyn gorthrymder gwrthwynebwyr.*

DIHUN, dihun, pa ham y cyfgaift?
Erioed hyd hyn fy Nuw ni heppiaift:
Nid Baal wyt: O danfon fwccwr!
Tyn dy was o doft gyfyngdwr.

Sych fy neigrau, tor fy magal,
Gwared f'enaid, llaefa 'ngofal:
Gwel fy nghyftudd, clyw fy nghwynfan,
Barn fy hawl, rhyddha fi weithian.

Fy nghraig i wyt, O nad im' fyrthio,
Fy nhwr cadarn, na'd f'anrheithio:
Fy Nuw, fy Ner, O dere i'm helpu!
Fy nefol Dad, na'd fy ngorthrymmu.

Galluog wyt, di elli helpu,
Unig ddoeth, y modd di medru,
Drugarog Dad, O dere â fwccwr!
Hawdd yw'th gael mewn toft gyfyngdwr. *Sal.*46.1.

Gw'radwydda fwriad fy ngelynion,
Tola falchder fy nghafeion:
Gwafgar gyngor tyrfa waedlyd,
Er mwyn Crift rhyddha fi o'm penyd.

## XCI. *Arall.*

DUW fy nghraig, a'm twr, a'm nodded,
Duw fy iechyd a'm hymddiried:
Goftwng gluft a gwrando 'ngweddi,
Mewn cyfyngder a gofidi.

Duw rhoift gennad i'm gelynion
Fy ngorthrymmu heb achofion,
A'm difethu'n llwyr gan mwya',
Os tydi ar frys ni'm helpa.

Di roift gennad i eftroniaid
Lwyr amcanu difa f'enaid,
A'r fawl nad wy'n 'nabod etto,
Lwyr amcanu fy anrheithio.

Rhai na wn o b'le yr † henyn, † *Dyfod allan.*
Rhai na wnaethum ddim i'w herbyn:

Rhai na chanfu 'rioed fy llygaid,
Sydd yn ceiſio 'ſpeilio f'enaid.
Arglwydd, maent hwy wedi maglu,
Ac yn barod i'm difethu,
Oni ddoi mewn pryd â ſwccwr
I'm gwaredu o'm cyfyngdwr.
Deffro o gyſgu f'unig Geidwad,
Mae fy llong mewn trallod irad,
O cerydda'r gwynt a'r tonnau,
Rhag im' ſoddi yn eu rhwydau.
Na'd i'm llong a'm taccal dorri,
Bydd di borth ac angor i mi:
Llaeſa'r 'ſtorom ſy'n fy mlino,
Moes dy law a na'd im' ſingco.
Erchaiſt i mi ddwad attad,
Yn fy nhrallod, anwyl Geidwad: *Sal.* 50. 15.
Attat ti, fy Nuw, 'rwy'n trottian,
Danfon im' ymwared weithian.
Di addewaiſt wrando 'ngweddi
Yn fy nhrallod ond im' waeddi,
Gwaeddi arnat yr wy'n waſtod,
Arglwydd weithian tyn fi o'm trallod.
Di wrandewaiſt weddi Jonas
Gynt o fol y morfil atgas,
Di hachubaiſt o'i flinderau,
Gwrando ngwaedd ac achub ſinnau.
Di waredaiſt Dafydd frenin, *Sal.* 18.
Oddiwrth Saul oedd yn ei ddilyn,
Gwared ſinnau o'm trallodion,
Ac o ddwylo fy ngelynion.
Di waredaiſt hen Elias *1 Bren.* 19.
O law waedlyd gwreigin ddiras,
Gwared ſinnau yn fy nolur,
O law waedlyd fy ngwrth'nebwyr.
Di doſturiaiſt yn dra diddig, *Mat.* 17. 15.
Gynt wrth dad y plentyn lloerig;
O! toſturia wrthyf ſinnau,
Sy'n dy ganlyn megis ynte'.
Di roeſt help i'r wraig o Ganaan, *Mat.* 15.
A fu'n daerllyd yn ei fegian;

O rho help a nerth i minnau,
Sydd a'm cais mor daer a hithau.
Er nad oes ym mhwer un-dyn,
Rwymo'r ddraig sy'n codi'm herbyn,
Etto, Arglwydd mawr, di elli
Rwymo hon a'i llwyr ddirymmu.
Cymmer yn dy law dy wayw-ffon,
Cyfod, ymladd â'm gelynion,
Tor hwy ymaith yn eu gwegi,
Na'd hwy wneuthur trallod i mi.
Gyr dy angel i wasgaru
'R sawl sy'n chwennych fy ngorthrymmu,
Gyr dy saethau a difetha
'R sawl sy a'u bwriad am fy nifa.
Duw di elli'r awr y mynnech,
Fy'm rhyddhau i maes o orthrech;
Er dy fawredd dere â *chomffordd*,
A gwir rydd-did im' yn rhyw ffordd.
Na'd i'm gelyn gael fy llyngcu,
Na'm gw'radwyddo na'm gorthrymmu,
Na'd i'r byd ychwaith gael d'wedyd,
Iddo gaffael arna'i wynfyd.
Dangos i mi eglur arwydd
O'th ddaioni a'th g'redigrwydd,
Fel y gwelo'r byd o bob-tu,
Mai tydi sydd yn fy ngharu.
Nid wy'n ceisio help gwyr mawrion,
Na phennaethiaid, na th'wysogion,
Ond yn unig cymmorth difrad
Gennyt ti, fy Nuw a'm Ceidwad.
Na'd i minnau gael fy nhwyllo,
Lle'r wy'n hollol i ti'n trusto;
Dere weithian ag ymwared,
Ynot ti mae f'holl ymddiried.
Mae fy llygaid o'r dechreuad,
Ddydd a nos yn disgwyl arnad;
Dere weithian i'm diddanu,
Arglwydd na'd i'm llygaid ballu.
Dere, Arglwydd, dere, brysia,
Gwared f'enaid o gyfyngdra,

Fel y gallwyf dy foliannu,
Trwy lawenydd am fy helpu.

XCII. *Diolch am ymwared o ddwylo gelynion.*

ANGYLION Duw, a meibion dynion,
Nef a daear, a'u trigolion,
Molwch Dduw â'r eitha'ch gallu,
Ddydd a nos am fy ngwaredu.
Mewn ing, trallod, a chyfyngdwr,
Y gweddiais ar fy Mhrynwr,
Ac o'r nef o blith angylion,
Clybu lef fy nghwyn hiraethlon.
Sarph ofododd fagal embaid,
A chroglathau i ddala f'enaid;
Rhwyd a chroglath Duw a'u torrodd,
F'enaid innau fe'i gwaredodd.
Helodd angel i'm dad-ddryfu,
Rhodd ei Yfpryd i'm diddanu,
Tannodd drofwy' adain hyfryd,
Ac fe'm tynnodd o'm holl ofid.
Duw a glybu'm gwaedd iradus,
Crift eiriolodd drofwy'n rymmus,
A'r Glân Yfpryd a'm diddanodd,
Ac o'm trallod fe'm gwaredodd.
O molianned pob creadur
F'Arglwydd mawr yn ol ei nattur,
Am ei gymmorth a'i dofturi,
Yn fy ngwared o'm gofidi.
Teirw Bafan a'm cylchynodd,
Nadroedd tanllyd a'm herlidiodd;
Bleiddiaid blin ac unicorniaid,
Amcanafant ddifa f'enaid.
Duw a barodd i'r rhai'n darfu,
Pan oedd mwya' eu chwant i'm llyngcu,
Duw a dorrodd gyrn a dannedd
Y bwyftfilod hyn o'r diwedd.
O molianed pob creadur
F'Arglwydd mawr â chalon bryfur,
Am ei garc yn achub f'enaid,
O rhwng cyrn yr unicorniaid.

Gwyr digrefydd, gwragedd gwaedlyd,
A gynllwynodd am fy mywyd;
Ac amcan'fant fy andwyo,
Difa f'enaid a'm hanrheithio.

Duw ddatguddiodd eu dichellion,
Duw ddiddymodd eu hamcanion,
Duw a ddryfodd eu bwriadau,
Duw waredodd f'enaid innau.

O molianned pob creadur
Dduw fy nghraig â chalon bryfur,
Am ddwyn f'enaid o'i drallodion,
A gw'radwyddo fy ngelynion.

Clod a gallu, diolch, moliant,
Gwir anrhydedd a gogoniant,
A fo nos a dydd i'r Drindod,
Am fy nhynnu maes o drallod. *Amen.*

## XCIII. *Arall byrach.*

MEGIS Daniel rhwng y llewod,
Megis Jonas rhwng morfilod,
Y gweddiais ar yr Arglwydd,
Ac o'r nef fe'm clybu'n ebrwydd.

Stopiodd fafnau'r llewod rheipus,
Ffrwynodd ên y * *whal* afradus, * *Morfil mawr.*
Torrodd awch y farph a'm llyngcai,
Tynnodd f'enaid o'u crafangau.

Nefoedd, daear, dw'r ac awyr,
Tân a gwynt, a phob creadur,
Molwch f'Arglwydd mawr yn waftod,
Am fy nhynnu maes o drallod.

## XCIV. *Rhan o'r lxix Salm.*

DUW achub f'enaid gwirion,
O'r llif a'r dyfroedd mawrion,
Sydd o'm hamgylch bob yr awr,
I'm rhoi mewn dirfawr ofon.

Mi foddais mewn gofidi,
Nid oes fefyllfa i mi;
Y ffrwd a lifodd dros fy mhen,
Yr wyf ar ‖ haychen boddi. ‖ *Agos.*

Mi griais nes im' flino,
Fy ngheg ſy'n gryg gan grio;
Hir ddiſgwyliais am dy ras,
Nes i mi las ddiffygio.

Amlach yw ngelynion
Na'm gwallt, neu'r gro o'r afon;
A'r rhai s'heb achos i'm caſau,
Yn ffel, a chlau, a chryfion.

Cedyrn yw ngwrth'nebwyr,
Sy'n ceiſio'm lladd heb yſtyr;
Telais iddynt fwy nâ'u rhan,
A minnau'n wan difeſur.

Di adwaenoſt fy ffolineb,
A'm gwendid a'm gwiriondeb,
A'm holl feiau ſydd mor blain
Bob awr o flaen dy wyneb.

Duw na'd g'wilyddio o'm plegid,
Y rhai ddiſgwyliant wrthyd,
Na gwr'adwyddo un o'th blant
A'th geiſiant yn eu gofid.

Mi ddygais lawer gw'radwydd,
Do, er dy fwyn di, Arglwydd,
A gwrthwyneb lawer pryd,
Gan blant y byd trwy aflwydd.

Mi aethum yn ddieithrol
Oddiwrth fy mrodyr cnawdol,
Ac fel eſtron ar bob cam
Gan blant fy mam naturiol.

Can's zêl dy dŷ a'm hyſodd,
A gwawd y rhai'th w'radwyddodd,
A ſyrthiodd arnaf er dy fwyn;
Duw clyw fy nghwyn o'r nefoedd!

Mi wylais ddeigrau heilltion,
Mi ymprydiais ddyddiau hirion,
Gan gyſtuddio f'enaid prudd,
O ddydd i ddydd yn greulon.

Mi wiſgais ſach a lludw,
Fel un a f'ai mron marw,
A chalon driſt, ac wyneb tlawd,
Nes myn'd yn wawd i'r meddw.

Ond mi weddiaf arnad
Mewn pryd, O Dduw fy Ngheidwad;
Tad trugaredd gwrando fi,
A dwg fy ngweddi attad.

Duw tyn fi o'r pydew tomlyd,
A na'd fi gwympo oddiwrthyd;
Gwared fi oddi wrth fy nghas,
A dwg fi maes o'm gofid.

Duw na'd i'r llif fy moddi,
Na'r pydew mawr fy llyngcu,
Na'd i'r ffos fy llimpro'n fyw,
Duw grafol clyw fy ngweddi.

Duw gwrando nghwyn iradus,
Dy fwynder fydd gomfforddus,
Tro ar fyrder at dy was,
Dy help a'th ras fydd felus.

Na thro dy wyneb grafol
Oddi wrth dy was cyftuddiol,
'Rwy' mewn trallod, dere ar frys,
A thyn fi o'r llys anweddol.

Nefha at f'enaid gwirion,
A thyn fi o'm trallodion,
Gwared fi oddiwrth fy mraw,
A thyn fi o law ngelynion.

Di wyddoft beth yw f'ofan,
A'm cywilydd maith a'm gogan,
Mae ngwrth'nebwyr ger dy fron,
Duw tro'u hamcanion aflan.

Mae nghalon ymron torri,
Gan gymmaint yw ngofidi,
Ac ni feddaf neb o rym,
A ddengys im' dofturi.

Duw dere ar frys i'm helpu,
I'm cymmorth a'm diddanu;
Tyn fi o'm trallod er mwyn Crift,
Gwna nghalon drift grechwenu.

O dere, Farnwr cyfion,
A barna di f'achofion:
Gwel y camwedd wy'n ei gael,
Ar ddwylo gwael elynion.

Mab Duw, bydd di Ddadleuwr,
I bledio dros dy was'naethwr,
Na'd i'r gelyn ddwyn fy rhan,
Lle'r wyf fi'n wan difwccwr.

A thithau, Dad diddanwch,
Comffordda fi'n fy nhriftwch,
Cwyn fy nghalon drift heb ffael,
A phar im' gael llonyddwch.

Dwg gymmorth im' drachefen,
O'th iechydwriaeth lawen;
A'th hael Yfpryd cynnal fi, *Sal.* 51. 8.
Na'd drallod dorri nghefen.

Par i mi glywed beunydd,
Orfoledd a llawenydd,
Fel y chwarddo nghalon wan,
A ddrylliwyd dan dy gerydd.

XCV. *Salm xxx. Diolch am ymwared o gyfludd.*

O'R dwft, o'r dom, o'r dyrfa,
O'r llwch, o'r llaid, o'r llacca,
Di'm dyrchefaift, un Duw tri,
Gan hynny mi'th folianna.

Di nadaift i'm gelynion
Gael arnaf wŷn eu calon,
Pan yr oeddwn glaf a gwan,
Yn gorwedd dan drallodion.

Mi lefais arnat, Arglwydd,
Rhag myn'd i'r bedd trwy w'radwydd,
Di wrandewaift ar fy llef,
Rhoeft help o'r nef yn ebrwydd.

Gwaredaift f'enaid hyfryd,
Rhag myn'd i uffern danllyd,
A'm corph egwan trift ei wedd,
Rhag myn'd i'r bedd llydylyd.

Gan hynny feibion dynion,
A'r faint, a'r holl angylion,
Cenwch foliant un Duw tri,
Am ddelo â mi mor dirion.

Ni phery ei lid ond ennyd,
Ei hedd fydd well nâ'r bywyd;

Dy * fâr a erys-dros brydnhawn, * *Digofaint.*
A'r boreu cawn lawen-fyd.

Tra fum i yn llwyddiannus,
Mi dd'wedais yn rhyfygus,
Na'm fymmudid tra fawn byw,
Ond y cawn fyw'n fin felus.

O Arglwydd o'th ddaioni,
Di fuoft gryfder i mi,
Nes it' ddigio wrth dy was,
A'm troi i § gâs annigri. § *Gyflwr.*

Pan droeft oddi wrthyf d'wyneb,
O achos f'annuwioldeb,
Yna y fyrthiais bob yr awr,
I drallod mawr dihareb.

Ac yno y llefais arnad,
Yn daer, yn doft, yn irad,
Am dofturio wrthy' ym-mhryd,
A 'fpario mywyd anllad.

Pa les, O Arglwydd hyfryd,
A ga'i oddiwrth fy mywyd,
Pan ddifgynwy'n doft fy ngwedd,
I'r pwll a'r bedd llydylyd?

A fydd i'r llwch glodfori
Dy enw di o ddifri?
A fynegaf dy wir, Naf!
Pan byddaf wedi trengi?

Clyw, Arglwydd, moes drugaredd,
A rho gynnorthwy rhyfedd
I mi druan toft fy || nghas, || *Cyflwr.*
Yn ol dy ras bendigedd.

Di roeft, O Dduw, yn hygar,
Lawenydd yn lle galar,
A diofgaift y fach-wifg
Pan o'wn ymyfg rhai'n trydar.

O Arglwydd fy Nuw grafol,
Mi'th folaf yn dragywyddol,
O herwydd ti'm gwaredaift i
I'th foli di yn hollol.

XCVI. *Am ddiwedd y byd.*

PAWB ſy'n chwennych dyſgu'r pryd
Y daw Criſt i farnu'r byd,
Rheittach yw i bob rhai ddyſgu
Ymbar'toi cyn myn'd i'w barnu.
Ffol o beth i feibion dynion
Geiſio gwybod mwy nag angylion,
A deallu wrth draws amcan,
Ddirgel gwnſel Duw ei hunan.
Nid oes dyn, na diawl, nac angel,
All deallu dim o'i gwnſel,
Na'r holl fyd yn abal dadclo
Un cyfrinach a fo gantho.
Ofer yw i neb chwennychu
'Nabod dim ſo Duw'n ei gelu,
A mynegi wrth draws amcan *Marc* 13.32.
Beth na's gwyddai Criſt ei hunan.
Dyſg gan Griſt y peth hyſpyſodd:
Na chais wybod dim a gelodd:
I ni perthyn a ddatguddiodd, *Deut.*29.29.
I Dduw'r cwbwl na's mynegodd.
Na chais wybod tra f'ech byw,
Ddim o ddirgel bethau Duw;
Ac os ceiſi, mae'n ddiogel
Boen a ch'wilydd am dy drafel.
Y mae'r môr yn boddi llawer
Sydd yn chwennych gwel'd ei ddyfnder,
A'r haul wen yn dallu llygaid
Pawb edrycho arno'n danbaid.
Dydd y farn ſydd ſiwr i ddyfod,
Y pryd nid oes ond Duw'n ei wybod;
Ffol yw'r dyn a geiſio dd'rogan
Y dydd na's gŵyr ond Duw ei hunan.
Dyweded pawb eu dewis chwedel,
Nid oes dyn, na diawl, nac angel,
Wyr y dydd, na'r awr, na'r flwyddyn,
Y daw Criſt i farnu arnyn'.
Gwiliwch bawb a byddwch barod,
A diſgwyliwch ne's ei ddyfod;

Ar y dydd a'r awr na's gwypoch *Mat.*25.13.
Y daw Crist yn ddirgel attoch.

Iago a Phedr gynt ofynodd
I Grist cyn ei ddyrcha' i'r nefoedd,
Athro, dangos cyn dy ddyrcha'
I ni'r pryd a'r dydd diwedda'.

Crist attebai ei ddisgyblion,
Nid perthynas i blant dynion,
Wybod cwnsel y Goruchaf, *Act.*1.7.
Am y dydd a'r awr diwethaf.

Mae Duw'n cadw hynny'n ddirgel
Iddo ei hunan yn ddiogel:
Gwiliwch bawb a byddwch barod,
Ne's y del ni chaiff neb wybod.

Nid yw'r doethaf o blant dynion,
Na'r anwylaf o'r angylion,
Yn deallu hyn o amser,
* Gweglwch gredu chwedlau ofer. * *Gochelwch.*

Elias gynt, medd rhai, a dd'wedai,
Y parhai'r byd chwech mil o flwyddau;
Yn ol hynny 'fe ddiweddid
Trwy dân poeth ne's adnewyddid.

Dwy fil heb un gyfraith || haychen, || *Agos.*
Dwy fil dan gyfreithiau Moesen,
Dwy fil dan efengyl Iesu,
Os cai barhau cyhyd a hynny.

Tair oes, meddant, sydd i'r byd,
Un heb * gyfraith oll i gyd, * *Sef yn 'sgrifenedig.*
Llall dan drymlwyth gyfraith Foesen,
Drydedd dan'r Efengyl lawen.

Y ddwy oes gyntaf aethant heibio,
A'r drydedd oes sy'n para etto:
Hyd pa hyd y pery weithian,
Ni's gŵyr neb ond Duw ei hunan.

Mil a chwe' chant aethant heibio
O'r oes hon, ac ugain cryno;
Fe all pawb wrth hynny wybod,
Nad oes fawr o hon heb ddarfod.

Pawb o'r doethion a gyttuna,
Mai berraf oes yw'r oes ddiwedda':

Ac er mwyn y detholedig,
Hi fydd berrach nid ychydig.

Ioan alwai'r oes hon yma, *1 Ioan* 2.18.
Yn ei ddyddiau'r oes ddiwedda':
Os diwedda'r amfer hynny,
Mae hi'n awr ymron terfynu.

Diwedd pob peth oedd yn nefid,
Pan oedd Peder yn y pulpud; *1 Pedr* 4.7.
Nid oes lun nad yw y diwedd
'Nawr wrth hynny yn agos rhyfedd.

Yn amfer Paul yr oedd gan mwyaf
Yr oes, a'r dydd, a'r awr ddiweddaf:
'Rwan yn ein hamfer ninnau
Mae'r diweddaf o'r munudau.

Y byd fydd gwedi myn'd yn gleirchyn,
Ac yn grippil, medd St. Awftin;
Mae e'n cerdded ar ffyn baglau,
Nid oes nemawr iddo o ddyddiau.

Gwiliwn bawb a byddwn barod, *Mat.* 24.33.
Mae'r dydd mawr yn agos dyfod;
Mae, medd Crift, ymron y dryfau,
Trwfiwn bob rhai ein llufernau.

Sicr yw y daw ar fyrder,
Anfertenol ydyw'r amfer:
Pwy cyn gynted ni's gŵyr un-dyn,
Byddwn bob rhai ar ein rofyn.

Nid oes dyn, medd Crift ei hunan,
Wyr y dydd a'r awr yn gyngan,
Nac un angel detholedig,
Na neb ond y Tad yn unig.

Ofer yw gan hynny i ddynion
Geifio myneg yr amferon
Y mae'r Tad yn gadw'n gyngan
Yn dra dirgel iddo ei hunan.

Etto * Napier enwai'r flwyddyn
Y gwnai Duw ar bob peth derfyn,
Ac y byddai'r flwyddyn hynny
Cyn mil feithgant o oes Iefu.

* *Awdwr a yfgrifenodd Efponiad ar Lyfr y Datguddiad.*

D'weded pawb eu dewis chwedel,
Nid oes dyn, na diawl, nac angel,

Wyr yr awr, na'r dydd, na'r flwyddyn,
Y gwna Duw ar bob peth derfyn.

Byddwn barod bawb gan hynny,
Edifarwn heno heddy';
Ar y dydd a'r awr na's gwypom
Y daw Crist yn ddirgel attom.

Fel na 'nabu ferchog Rachel
Mo'i chwymp ne's myned ar ei thrafael,
Felly ni chaiff dynion 'nabod
Dydd yr Arglwydd ne's ei ddyfod.

Pan daeth amser Rachel wisgi
Ar ei phlentyn bach esgori,
Fe orfu esgor ar y bachgen
Ar y ffordd dan fôn y dderwen.

Felly gorfydd ar y ddaear,
Sy'n beichiogi er yn gynnar,
Gwympo i esgor ar y meirw,
Pan del udgorn Crist i'w galw.

Fel y daeth y tân a'r brwmstom
Yn ddisymmwth am ben Sodom, *Luc* 17.28,
Felly daw y dydd diwedda', 29,30.
Pan b'o'r byd yn cysgu'n 'smala.

Ni ŵyr neb o'r awr na'r amser,
Byddwn bob rhai ar ein pryder,
A'n llusernau yn ein dwylo,
Gyd â'r merched call yn gwilio. *Mat.*25.4.

Mae'r arwyddion gwedi cerdded,
A fynegodd Crist cyn blaened,
Ond bod 'chydig o'r Iuddewon
Etto heb gredu'r 'fengyl dirion.

Fe ferthyrwyd y 'postolion, *Mat.*24.9.
A mil miloedd o'r crist'nogion, *Act.*12.2.
Ym mhlaid y ffydd a'r efengyl,
Fe ŵyr holl-gred hyn yn rhigyl.

Fe ddistrywiwyd Caerusalem, *Luc* 19.43,44.
Nid oes faen ar faen lle gwelem;
Hitheu'r deml fawr a losgwyd, *Mat.*24.2.
A'r Iuddewon a wasgarwyd.

F' aeth'r efengyl hygar hyfryd, *Mat.*24.14.
Ar farch gwyn ar draws yr holl-fyd;

Nid oes cornel dan y nefoedd
Na bu'r 'fengyl yntho'n rhyw-fodd.
Nifer fawr o griftiau ffeilftion *Mat.*24.24.
Yng nghred ac anghred a godafon',
A thrwy hocced tad y celwydd,
Troifant lawer i gam-grefydd.
Rhyfel blin rhwng Twrc a Chriftion *Mat.*24.6,7.
A fu'n fynych iawn ni glywfon:
Son mawr fydd am ryfel etto,
Rhoed Duw hedd i'r fawl a'i caro.
Newyn mawr a thoft ddrudaniaeth
A fu'n llawer gwlad yfywaeth;
Haint a phla a chwarren aethlyd,
A fu'n hwyr ar hyd yr holl-fyd.
Daear gryn a fu o'r mwya',
Nes fyrthio teml fawr Ddiana,
A bwrw lawr y trefydd mawrion, *Luc* 24.17.
Tyrau a cheftyll yn * fehwrthon. * *gandryll.*
'R haul dywyllodd o'r tywyllaf,
Nes myn'd dydd yn nos gan mwyaf:
A'r môr mawr aeth dros y bangcau,
Boddodd miloedd o eneidiau.
Y mae anghrift ynte'n rhochain
Ys llawer dydd yn eglwys Rhufain;
Ac yn mwrddro'r faint heb orphwys,
Eifiau'i alw'n ben i'r eglwys.
Cariad perffaith ynte' oerodd,
Ni châr mab o'r tad a'i magodd;
Gwaudd a chwegr fy'n ymfowtan,
Ca's gan frawd ei frawd ei hunan.
Ffydd yfywaeth fy'n myn'd lai lai, *Luc* 18.8.
Cred o gryn-fyd aeth yn garrai;
Afia, Affric, Grecia ffyddlon,
Sydd yr wan heb grift'nogion.
Nid oes un o'r holl arwyddion,
Ond dychweliad yr Iuddewon,
Na b'ont eifoes gwedi dyfod;
Gwiliwn bawb a byddwn barod.
Y mae'r Barnwr mawr yn cychwyn,
Mae ys dyddiau ar ei rofyn:

Fe ddaw weithian yn dra hoyw, 1 *Thes*.4.16.
I roi barn ar fyw a meirw.

Mae ef gwedi hogi'i gleddau,
A golymu ei holl faethau;
Mae ei fwa yn ei annel,
Ac yn barod myn'd i ryfel.

Mae'i fraich rymmus gwedi'i heftyn,
Mae'i angylion ar eu rofyn;
Fe ddaw fel y dulw tanllyd, *Mat*.24.37,
I roi barn ar bawb o'r holl-fyd. 38,39.

O meddyliwn ninneu am wiliad,
Ac am ddifgwyl ei ddyfodiad,
A'n bod bawb â'n cyfri'n barod,
Ac yn dacclus cyn ei ddyfod.

## XCVII. *Cofiwch angeu.*

BER yw'n oes ac anfertennol,
Heddyw'n fyw, a foru'n farwol:
Gynneu'n gawr, y foru'n gelain;
Dyma gyflwr dyn a'i ddamwain.

Ni bydd yma am ben ennyd
Un o honom heb eu fymmud:
O meddyliwn am ein fiwrneu,
Heno yfgatfydd rhaid ei dechreu.

Fel y rhed yr haul i'r hwyr,
Fel y treulia'r ganwyll gŵyr;
Fel y fyrthia'r rhofyn gwyn,
Fel y diffydd tarth ar lyn.

Felly treulia, felly rhed,
Felly derfydd pobol gred;
Felly diffydd bywyd dyn,
Felly fyrthiwn bob yr un.

Fel llong dan hwyl, fel poft dan fawd,
Fel faeth at farc, fel gwalch at ffawd;
Fel mwgar wynt, fel llif ar ddw'r
Y pofta ymaith einioes gwr.

Fel faeth y rhed, fel poft y gyr,
Fel cwyr y tawdd, fel ia y tyr;
Fel dail y fyrth, fel gwellt y gwywa,
Fel tarth y trig, fel lamp y treulia. *Iago* 4.14.

Ni ddiflannwn fel y cyſgod,
Ni lwyr doddwn fel y manod;
Ni ddiharffwn fel glaſwelltyn,
Ni ddiffoddwn fel yr ewyn.
Ni cheir gweled mwy o'n hol,
Nag ol y neidr ar y ddol,
Neu ol llong aeth dros y tonnau,
Neu ol ſaeth mewn awyr denau.
O gan hynny, heddyw, heno,
Moeſwch i ni bawb ymg'weirio,
Fyn'd ar ffrwſt, a thynnu oddi yma,
Lle na chawn o'r hir aroſfa.
Mewn tai o glai yr y'm yn trigo,
'Storom gron a bair in' ſyrthio;
Gwiliwn rhag i'r angeu'n ſaethu,
A briwio'r wal tra f'om ni'n cyſgu.
Fel y t'rewir pyſg â thryfer,
Fel y ſaethir * pheſant dyner, * *Ceiliog coed.*
Fel y torrir blodau'r ardd,
Fel y lleddir gweunydd hardd.
Felly t'rewir dyn heb wybod,
Felly ſaethir yn ddiarfod;
Felly torrir gwychder dyn,
Felly'n lleddir bob yr un.
Fel dw'r diluw ar y cynfyd,
Fel tân gwyllt ar Sodom aethlyd;
Fel llycheden, fel y ddraig,
Fel y gwewyr blin ar wraig.
Felly'n chwyrn, ac felly'n danllyd,
Felly'n † immwngc, felly'n aethlyd; † *Sydyn.*
Felly'n flin, ac felly'n draws,
Y daw'r angeu ar ein traws.
Brau yw'n cnawd, a bach yw'n cryfdwr,
Gwan yw'n grym, a gwael yw'n cyflwr;
Tippyn bach o groes neu gerydd
All ein troi a'n tor i fynydd.
Gwrach all ladd y cawr a chogail,
Blewyn bach all dagu'r bugail;
Draen ar draws all ladd yr hwſmon,
Duw, mor ddiſerth yw plant dynion!

Y gwan, y gwael, y dwl, y dall,
A ladd y cryf, a gwymp y call;
Y drel dibarch, â maen, nid mawr,
A friwia'n caer, a ddifa'n cawr.

Beth yw dyn wrth hyn ond tarth,
A mwg, a niwl, a gwellt, a gwarth;
A gwydyr crin, a rhew a rhofyn,
A 'ften o bridd, a gwynt, ac ewyn.

Y dewr, y doeth, y gwych, y gwalchaidd,
Y cryf, y call, y cadpen c'ruaidd,
Ein pen a'n pont, ein grym a'n gras,
A gafodd gwymp gan angeu cas.

Fel y cwymp holl ddail yr allt,
Fel y croppia'r gwelleu'n gwallt;
Fel y gwiwa lili'r maes,
Fel y tyr y gwydyr glas:

Felly gwywa, felly tyr,
Felly craccia'n bywyd byr,
Felly croppir einioes dyn,
Felly cwympwn bob yr un.

Fel tŷ bugail ein fymmudir,
Fel 'ften briddlyd ein canddryllir;
Fel dilledyn y darfyddwn,
Fel y llwydrew y diflanwn.

Ni chawn aros mwy nâ'n tadau,
Awn i'r ffordd yr aethont hwythau:
Rhaid in' fyn'd i wneuthur cyfri',
A rhoi lle i eraill godi.

Nid oes lle in' aros yma,
Ond dros ennyd i hafotta;
Gwedi'n gorfydd ar bawb fymmud,
Fyn'd i'r ffordd yr aeth yr holl-fyd.

Y mae'r angeu glas a'i fwa
Yn ein herlid ymhob tyrfa;
Nid oes un dyn all ddihangyd
Rhag ei follt a'i faeth wenwynllyd.

Mae e'n ddirgel yn marchogaeth
Ar farch glas ymhob cenhedlaeth;
Nid oes dyn all diangc rhagddo,
Aed i'r wlad a'r man y mynno.

Er bod Hafael gynt nâ'r ewig,
Er bod Saul fel eryr ffrolig,
Er bod Jehu'n gynt nag ynte',
Ni ddihangodd un rhag angeu.

Er gwroled gwr oedd Samfon,
Fe orfu iddo i'r angeu digllon;
Felly gorfydd arnom ninneu,
Pe b'ai ei gryfder yn ein breichiau.

Alecfander a gongcwerodd
Yr holl fyd y ffordd y cerddodd;
Angeu, gwedi'r gongcweft 'fgeler,
A gongcwerodd Alecfander.

Lladdodd angeu bob congcwerwr,
Lladdodd Galen y phyfygwr;
Lladdodd Luc y meddyg goreu;
Pwy all ddiangc mwy rhag angeu?

Fel y damfing meirch rhyfelwyr
Tan eu traed bob math o filwyr,
Felly damfing angeu diraid
Y brenhinoedd fel begeriaid.

Lladdodd angeu Abel wirion,
Lladdodd angeu fanctaidd Aaron;
Lladdodd Cain â Cham yfgymmun:
Nid yw'r angeu'n arbed un-dyn.

Pharao'r prins, ac Eli'r 'ffeiriad,
Efay'r prophwyd, || Joel yr ynad: || 1 *Sam*. 8. 2.
Noa'r patriarc, a'r hen dadau,
A ddifethwyd gan yr angau.

Fel na arbedai Herod greulon
Ladd y bychain mwy nâ'r mawrion,
Felly gwn nad arbed angeu
Hen nag ieuangc mwy nag ynte'.

Pe rhoed iddo aur yn bunnau,
Mil o wledydd a'u coronau,
Ni chaed gantho arbed bywyd
Dyn dros awr pe rhoed yr holl-fyd.

Ni chaiff neb ganlyniaeth gantho,
Er ymhwedd ac er ceifio,
Mwy nag y c'ai Bilat digllon
O'i ganlyniaeth gan Iuddewon.

Ni ry angeu pan y delo
Awr o § respyt i ni 'mgweirio; § *Amser.*
Nac un rhybudd o'i ddyfodiad,
Mwy nâ'r ci cyn lladd y ddafad.

Ond fel lleidr fe ddaw'r angeu
Yn ddisymmwth am ein pennau,
Tr'om ni'n cysgu yn ddiofon,
Fel Philistiaid am ben Samson.

Os bydd diffyg dim i'r siwrnai,
*Oil* i'r lamp, neu wisg i'r cefnau,
Ni cheir gan yr angeu melin
Aros i ni fyn'd i'w 'mosyn.

Ond fel brenin Babel diras,
Yn troi Sadrac chwip i'r ffwrnais;
Fe dry'r angeu bawb y granffo
I'r tŷ priddlyd fel y caffo.

Fel y daw lleidr difiog
Ganol nos am ben goludog,
Felly daw yr angeu'n cyrchu,
Yn ddiymgais tr'om ni'n cysgu.

Fel y tery gwr â thryfer
Bysg tr'o'n gorphwys yn ddibryder,
Felly tery angeu ddyrnod
Ar blant dynion mor amharod.

Fel na ŵyr y g'lommen dyner
Na'r pryd na'r man y tery'r *ffowler*;
Felly'n hollol ni ŵyr un-dyn,
Na'r pryd na'r modd y bydd ei derfyn.

Mewn un ffordd yr y'm yn dwad
I'r byd hwn dan wylo'n irad,
Ac mewn mil o ffyrdd, heb farco,
'Ry'm ni'n myn'd i maes o hono.

Nid oes un man yn ddibryder,
Na ddaw'r angeu glas a'i dryfer,
I roi i ni ddirgel ddyrnod:
Ymhob man, Och! byddwn barod.

Wrth droi'r defaid mewn lle dirgel,
Y daeth angeu ar draws Abel; *Gen.* 4.
Gochel ditheu gael ei ddyrnod,
Wrth droi o ddeutu dy 'nifeilod.

Ar y ge'nffordd wrth ſiwrneia
Y bu farw Rachel fwyna; *Gen.* 35.
Wrth ſiwrneia gochel ditheu,
Rhag cyfarfod â'r glas angeu.

Pan oedd holl blant Job yn gwledda, *Job* 1.
Y daeth angeu ar eu gwartha;
Nid oes gwarant gennyt titheu,
Yn dy wledd, rhag dyrnod angeu.

Holophernes a fu farw
Yn ei gwſg pan oedd ef meddw;
Gochel ditheu yn dy fedd'dod,
Rhag i angeu roi 'ti ddyrnod.

Belſaſar, er maint oedd gantho, *Dan.* 5.
A fu farw wrth garawſo;
Wrth garowſo gochel ditheu,
Od wyt gall, rhag dýrnod angeu.

Fe rodd angeu anfad ddyrnod
Ar y faingc i frenin Herod: *Act.* 12.23.
Ar y faingc y dylai farnwyr
Goſio angeu mawr ei hydyr.

Saethodd angeu ſaeth wenwynllyd
Trwy gorph Ahab yn ei gerbyd; 1 *Bren.* 21.35.
Yn dy *goach* ymgadw ditheu
Rhag dy daro â bollt angeu.

Fe ddaeth angeu megis mwrddwr
Ar draws Eglon yn ei barlwr; *Barn.* 21.
Gochel ditheu rhag ei biccell,
Tr'ech yn gorphwys yn dy 'ſtafell.

Pan oedd Difes yn ei ſidan *Luc* 12,20.
(A'i phâr foethus) oll yn hedfan,
Fe ddaeth angeu ac a'i lladdodd,
Gochel ditheu balch ei wiſgoedd.

Gwedi'r cerlyn adael llawer,
A chrynhoi dros hir-fod amſer;
Fe ddaeth angeu ac a'i lladdodd,
Cyn cael profi o'r pethau gaſglodd.

Gochel ditheu'r cob a'r cerlyn,
Sy'n crynhoi dros lawer blwyddyn,
Rhag i'r angeu dy gyrhaeddyd,
Cyn cael profi dim o'th olud.

Fe ddaeth angeu i drywanu
Dau fab Aaron wrth aberthu; *Lef.*10.2.
Wrth yr allor dylai'r 'ffeiriad
Ofni angeu a'i ddyfodiad.

Pan oedd Senac'rib y brenin *2Bren.*19.37.
Yn y demel ar ei ddau-lin,
Fe ddaeth angeu ac a'i lladdwys:
Ofnwch angeu yn yr eglwys.

Fe rodd angeu frath i Zimri, *Num.*25.8.
Wrth gyd-orwedd gyd â Chofbi;
Gochel ditheu wrth butteinia,
Rhag i'r angeu glas dy ddala.

'Nyn dy lamp, a gwifg dy drwfiad,
Cyn del angeu'n agos attad;
Gwna dy gownt a'th gyfri'n barod,
Cyn dy alw o flaen y Drindod.

Bydd di barod heddyw, heno,
Ag *oil* i'th lamp, a'th wifg yn gy'rdo,
Fyn'd o flaen dy Farnwr prudd,
Y foru o bofib' ydyw'r dydd.

Ni ŵyr Peder, ni ŵyr Pawl,
Ni ŵyr angel, ni ŵyr diawl,
Ni ŵyr planed, ni ŵyr dyn,
Na neb o'n hawr ond Duw ei hun.

'Rhyd dydd, 'rhyd nos, yn glaf, yn iach,
Ar fôr a thir, yn fawr, yn fach:
Mewn tref a gwlad bawb byddwch barod,
Ni w'ys pwy wlad y cawn ni'r dyrnod.

Gweithiwch bawb tr'o'r dydd yn para,
Cyn cotto'r haul crynhowch y manna;
Derbyniwch ras tr'o Duw'n ei gynnyg,
Par'towch eich rhaid cyn delo'r diffyg.

Cyn colli'r gol, cyn delo'r nos,
Cyn torri'r pren, cyn cwympo i'r ffos;
Cyn cau y porth, cyn myn'd i'r garn,
Cyn canu'r corn, cyn rhoddi'r farn.

Rhed am dy chwyth, gwna waith dy Dduw,
Dwg ffrwyth yn rhin o'r goreu'i ryw:
Dos chwip i'r wledd, ac yn gyfrdo
Cais dy gyfraid cyn ymado.

XCVIII. *Cân ar y flwyddyn* 1629, *pan oedd yr ŷd yn afiachus o herwydd llawer o wlaw.*

DUW Frenin trugarog, Duw Dad Hollalluog,
Duw Porthwr newynog, na newyna ni,
Sy'n canlyn dy ffafar, â chalon edifar,
Yn ol dy hir watwar a'th fiommi.

Er mwyn dy drugaredd anfeidrol a'th fawredd,
Er mwyn dy wir 'Tifedd dofa dy lid;
Gwrando di'n gweddi, a maddeu'n drwg nwydi,
A chymmorth ein tlodi a'n hadfyd.

Ni bech'fom yn d'erbyn yn daran yfgymmun,
Nes tynnu hir newyn a niwaid i'n plith;
Ac amryw ddialau fy'n gryddfu'n calonnau,
Heb allael hir odde' dy felldith.

Ni dor'fom dy gyfraith, fydd gyfiawn a pherffaith,
Do lawer canwaith cyn cwnnu o'r man,
Fel rhai a f'ai'n tybiaid na b'ai gennyt lygaid,
I ganfod fileiniaid mor aflan.

Dy enw gablafom, dy air a gafhaufom,
Dy 'Fengyl droedafom yn ddibris dan draed;
Dy fabbath halogwyd, dy demel adaw-wyd,
Dy grefydd a lygrwyd yn irad.

Ni dor'fom dy ddeddfau fel pobol a dybiai
Na ddeuai dialau am ddilyn ffordd ddrwg;
Neu rai a f'ai'n credu na b'ai gennyt allu
I'n plago am bechu yn cynddrwg.

Pan helaift genhadon i fyneg ein beion,
A'n troi i'r ffordd union, yn dirion, yn daer,
Ni gaufom ein cluftiau rhag clywed eu geiriau,
Fel neidir a fyddai yn fyddar.

Pan gyrraift dy weifion i'n gwawdd ni, rai deillion,
I'th fwpper yn dirion i dario'n dy lys;
Ni ball'fom o'r dwad, ni droifom i'r farchnad
A'n fferem, yn anllad anhappus. *Luc* 14.11.

Ni fynnwn ni o'r manna, ni thrig yn ein cylla,
Ni charwn ni'r bara a bery dros byth;
Ond garlleg ac wyniwn, a phannas a phwmpiwn,
Fel twrchod a garwn ni'n aruth'. *Num.* 11.5.

Ni fynnwn ni o'r 'fengyl fy'n cnoi ni mor rhigyl,
  Ni drown ein gwegil at hon lawer gwaith;
Ni chaiff hi'n ceryddu, na'n dangos, na'n dyfgu,
  Mae'n groes yn gwrth'nebu ein dryg-waith.
Ni adwn ni'r 'fgrythur reoli'n drwg nattur,
  Na'th gyfraith gymhefur gymhwyfo 'mo'r traws;
Ond byw wrth ein ffanfi, a'n trachwant, a'n gwegi,
  Heb fynnu rheoli ein drwg-naws.
Gan hynny waith troedio dy gyfraith a'i gado,
  Ni aethom ar ddidro yn ddidrangc, gwae ni!
Fel defaid a redai o'r llafur i'r ffaldiau,
  Ar ol llanw'u boliau, i boeni.
Mae'n gloddeft a'n traha, fel mawr-ddrwg Gomorra,
  Yn llefain am wafgfa i wafgu ar ein ceft;
Ni thaw byth o'u pennau nes delo dialau
  I wafgu ar ein criliau â dirweft.
Mae pob gradd o ddynion, yn fychan yn fawrion,
  Yn pechu yn greulon yn erbyn dy Grift;
Fel pobol wrth raffau a dynnai ddialau
  O'r nef am eu pennau yn athrift.
Mae'r 'ffeiriad yn gadu dy bobol i bechu,
  Heb geifio eu nadu i uffern ar naid:
A'r un ag a geifio â'r 'fengyl eu rhwyftro,
  Fe gaiff ei anfrio yn ddiriaid.
Mae'n parchus reolwyr, Och Dduw, yn rhy fegur,
  Yn goddef trofeddwyr drift foddi'r holl wlad;
Heb gofpi â'r cleddau na'r bobol na'r beiau,
  Sy'n damfing dy ddeddfau mor irad.
Mae'r bobol gyffredin fel Ifrael heb frenin,
  Na 'ffeiriad i'w meithrin, na phrophwyd roi maeth,
Yn byw yn anhywaith, fel pobol heb gyfraith,
  Heb grefydd, heb obaith, yfywaeth.
Mae'n rheipus fwyddogion yn 'fpeilio'r rhai gwirion,
  Yn eonach nâ'r lladron (llwyr edrych ar hyn)
Ar carliaid yn bwytta y tlodion fel bara,
  Neu'r morfil a lyngca'r 'fgadenyn.
Mae'r gweifion cyflogau a'r hirwyr yn chwarau,
  Mae'r gweithwyr yn eifte' heb oftwng eu pen:
Yn tordain, yn blino, heb fynnu 'mo'r gweithio,
  Nes delech i'w priccio ag angen.

Mae'r tanner a'r twccwr, a'r bacer a'r bwtſiwr,
  Gwaydd, gof a thaeliwr, a thiler a chrydd;
A'r hwſmyn a'r crefftwyr, a'r diffrwyth uchelwyr,
  Yn myn'd yn dafarnwyr digrefydd.
Mae'r gwragedd yn gado eu nyddiad a'u cribo,
  Eu gwauad a'u gwnio i dwymno dw'r;
Gwerthaſant eu rhodau, a'u cyffion a'u cribau,
  I brynu coſtrelau tafarnwr.
Mae'r mwrddwr a'r gwibiad, a'r bawdy cnaf anllad,
  A'r lleidir a'r gwilliad, a'r 'ffeiriad ffol;
A Sini a Sianco â * *liſens* i wttro     * *Cennad i werthu.*
  Bŷr, cwrw, tobacco, heb reol.

Pe ceiſiai y cythraul neu'i fam godi cappel,
  Wrth ochr dy demel er dymmai yn y dydd,
I gadw tafarn-dŷ cyhoeddus yng Nghymru,
  Fe g'ai ei gennadu yn ufudd.
Duw dere o'th arfer â chyngor ar fyrder,
  Tor lawer o'r nifer ſy'n nafu'r byd,
Cyn bwyttont eu gilydd, cyn nafont y gwledydd,
  Cyn llygront dy lân grefydd hyfryd.
Mae'r gweiſion mor *ddainti*, na fynnant hwy gorphi,
  Ond gwyn fara'u meiſtri, neu fuſtro a wnant;
A'r merched ar gyflog ond odid yn feichiog,
  Am fod yn rhy wreſog 'nawr, meddant.
Mae pob rhyw o alwad yn ddibris am danad,
  Yn ceiſio eu codiad a'u cadw eu hun;
Heb geiſio d'ogoniant ti, Arglwydd ein llwyddiant,
  Na'th fawrglod, na'th foliant, na'i 'mofyn.
O achos gan hynny fod pawb yn trofeddu,
  A phob rhai yn pechu a'u buchedd ar draws,
Ti geiſiaiſt trwy fwyndra ac ennyd o waſgfa,
  Ein cyffro i wella ein drwg-naws.
Yn fwyn ac yn ſerchog, fel Arglwydd trugarog,
  A f'ai yn dra chwannog i'n hynnill trwy dêg,
Ti geiſiaiſt yn dirion, trwy amryw fendithion,
  Ein tynnu i'r ffordd union yn loyw-deg.
Pan ffaelodd dy fwynder wella'n drwg arfer,
  Bygythiaiſt â chryfder a llymder ein lladd;
Hogaiſt dy gleddau, golymaiſt dy ſaethau,
  Parotoaiſt dy arfau i ymladd.

Ond gwedi 'ti ymg'weirio, rhoeſt rybudd cyn clwyfo,
  Bygythiaiſt cyn taro, a'n torri i lawr:
Cynnygaiſt in' ffafar os byddem edifar,
  A ninneu'n dy watwar yn ddirfawr.

Pan welaiſt, Dduw cyfion, na thycciai'th fygythion,
  Ti yrraiſt yn llymion dy ſaethau i'n lladd,
A'n curo, a'n corddi, a llawer o 'fidi,
  Na allem na'u dofi na'u gwrthladd.

Gelwaiſt dy weiſion, mwſt'raiſt d'angylion,
  A'th dri march mawrion, coch, glas, a dû;
A gyrraiſt hwy'n ddiriaid, a'r holl greaduriaid,
  I'n plago, fileiniaid, a'n gryddfu.

Rhoeſt ddu-rew digaſog, haf poethlyd anffodiog,
  Gwynt 'ſtormus yſgethrog yn 'ſgathru'r ŷd:
Llifeirient i'n ſoddi, a moroedd i'n boddi,
  A chan rhyw ofidi i'n herlyd.

Twymynau cyndeiriog, drudaniaeth digaſog,
  Marwolaeth lem oriog mewn llawer man;
A helaiſt i'n cyffro i bryſur *repento*,
  A'n cathrain i'th geiſio yn gyfan.

Pan gwelaiſt na allai hyn oll o ddialau
  Ein dad-troi o'n beiau i wella ein byd;
Ti helaiſt drachefen hir newyn a chwarren,
  A rhyfel aflawen i'n herlyd.

Y chwarren a laddodd ddiarhebrwydd o filoedd,
  Mewn amryw o leoedd, â gormod o lid;
Nes llanw'r mynwentydd â thlodi'r holl drefydd,
  Lle gyrraiſt dy gerydd i'w hymlid.

A'r rhyfel anffodiog a ddaeth yn ddigaſog,
  A'r cleddyf yn llidiog i'n tlodi a'n lladd;
Nes difa'n rhyfelwyr, a'n tryſor, a'n llafur,
  A'n hela'n ddigyſur i ymladd.

Soddaiſt ein llongau, diddymmaiſt ein plottiau,
  Troeſt fin ein cleddau, taflaiſt ni i'r clawdd:
Dallaiſt ein doethion, dychrynaiſt ein dewrion,
  Gwerthaiſt ni i'r cas'ion a'n ceiſiawdd.

Y chwarren a'r cleddy' a wnaeth i ni grynu,
  A dechreu 'difaru dau foreu neu dri,
A chanlyn a chrio am dynnu'r plag heibio,
  Nes i ti lwyr wrando ein gweddi.

Pan dynnaift ti'r chwarren a'r rhyfel aflawen,
  Ni droefom drachefen dri chyfudd i'n hol,
Fel cŵn at eu chwydfa i'th ddigio a'th hela,
  I'n dofi a'n difa'n anffafriol.

Gan hynny di heleft y 'ftormau a'r *tempeft*,
  Ynghanol ein gloddeft, i'n cofpi â gwlaw,
Nes 'nafu'n cynhaua', a defnydd ein bara,
  A chofpi'n hir draha â chur-wlaw.

Tywelltaift dy felldith yn drom ac yn dryfrith,
  Ar farlis a gwenith, a phob ymborth gwr,
Fel y gwrth'neba 'nifeiliaid ei fwytta;
  Ni phraw'r cŵn o fara'r llafurwr.

Mae'r march yn ffieiddio, a'r mochyn yn gado,
  Y llafur fy'n llwydo, a'r egin yn llawn,
Gan gynddrwg yw *relis* y pilcorn a'r barlis,
  A gaed o'r annilis fifgawn.

O Arglwydd, ni haeddfom dy felldith yn gyfion
  Ar lafur o'r fifgon, ar fafged a 'ftor;
A newyn a nychdod, am hir anufudd-dod,
  O ddiffyg it' ragod ein goror.

Ein dirmyg a'n traha, ar ddiod a bara,
  A bair i ni fwytta, oni attal Duw,
Y ffacbys a'r callod, ac ymborth 'nifeiliod,
  A'r crwft y'm ni'n ei wrthod ef heddyw.

Ni fuom yn poeri y blawd oedd a rhydi,
  A'r bara a'r pinni ni bwriem o'n pen:
A'n *begers* mor foethus yn teru ar farlis,
  Ni phrofant ond canis haychen.

Ni fuom yn bwytta gormoddion o fara,
  Fel pobol Gomorra'n camarfer eu byd:
Heb ddiolch am dano, na fwpper na chinio,
  Nes i ni dy ddigio yn danllyd.

Ni fuom yn yfed ne's myned cyn dynned,
  Na allem ni gerdded na myned o'r man,
Nes arllwys ein ceudod lle hyf'fom ni'r ddiod,
  Yn waeth nâ'r 'nifeilod fydd aflan.

Bu deiau'r tafarnau yn llawnach ddydd fuliau
  O addolwyr y boliau yn addoli'r diawl,
Nag oedd ein heglwyfydd o ddynion o grefydd,
  I'th 'ddoli di'n ufudd Dduw nefawl.

Tair gwaith o leia' y llanwn ni'r bola,
  Bob dydd pan f'o byrra, gan bori ein bwyd:
Prin mewn saith dyddiau, y cofiwn ni ditheu,
  Sy'n llanw ein boliau â bras-fwyd.

Ni flinwn yn ebrwydd yn d'eglwys, O Arglwydd,
  Er maint yw ein haflwydd a'n hoflyd tra':
Ni flinwn ni aros mewn tafarn dros wythnos,
  Er oered yw hir-nos y gaua'.

Fe yf un cyn cinio o fŷr a thobacco,
  Faint a ddigono ddeugeinyn ar bryd:
Fe'i chwyda drachefen, gan dynned ei botten,
  Heb feddwl am angen a gofid.

Mae'n medd-dod yn crio am newyn i'n pigo,
  Mae'n gloddest yn ceisio dwyn prinder i'n cell:
Mae'n hafrad, ysywaeth, yn gofyn drudaniaeth,
  A hir-bryd trwy hiraeth i'n cawell.

Yn gyfiawn, gan hynny, O Arglwydd, y gelli,
  A newyn i'n gryddfu am wrthod gras,
A thorri a difa cynhaliaeth ein bara,
  A pheri 'ni fwytta ein *carcas*.

Ond, Arglwydd trugarog, er mwyn dy Enneiniog,
  Na ddanfon yn llidiog hir newyn i'n lladd;
Na nychdod i'n gryddfu, na phlag i'n difethu,
  Na rhyfel na chleddy' i'n gwrthladd.

Ond maddeu yn rasol ein trawsedd anguriol,
  Na wna ni'n siompol i bobl y byd;
Ond arbed ni'n dirion, a gwella'n harferion,
  Ac arbed ein ffinion ddrwg fywyd.

Nac edrych, Dad cyfion, ar drawsedd dy weision,
  Na'n beiau mawrion i'n lladd gan eu maint:
Ond edrych yn hyfryd ar angeu d'Anwylyd,
  I ddofi dy danllyd ddigofaint.

Er mwyn ei rinweddau, ei fywyd, ei angau,
  Ei 'fudd-dod, ei wyrthiau, a'i werthfawr waed;
Maddeu i ni baswys, tro ni i'r ffordd gymmwys,
  A chadw ni'n d'eglwys yn wastad.

Golch ein pechodau yng waed ei weliau,
  Croeshoelia ein beiau'n grygiau ar ei groes;
Rhwyga'n *'bligasiwn*, a dyro i ni bardwn,
  Er mwyn ei ddrud *basiwn* a'i hir-loes.

Na alw ni i gyfri' am dan ein drygioni,
  Na ddere i'n cofpi am ein gwegi a'n gwaith:
Ond arbed dy weifion er mwyn dy Fab gwirion,
  A'th wnaeth yn dra boddlon ar unwaith.

A danfon dy Yfpryd i wella'n drwg fywyd,
  A'n helpu i ddychwelyd â chalon iach;
I'th gywir was'naethu, a'th ofni, a'th garu,
  A'n deor i bechu dim mwyach.

Duw attal dy wialen, dad-ddugia drachefen,
  Tro d'wyneb yn llawen, na'd newyn i'n lladd;
Maddeu'n trofeddau, gwir wella'n drwg-nwydau,
  Sanĉteiddia'r calonnau fy'n d'wrthladd.

Duw gwella di'r tywydd, bendithia di'r maefydd;
  Tro'n triftwch yn wenydd, na newyna ni:
Rho rad ar y fifgawn, gwna'r farchnad yn gyflawn,
  Diwalla ni â'th radlawn ddaioni.

Rho ymborth i'r criftion, rho ogor i'r eidion,
  Rho'r 'fengyl i'r gwirion a garo y gair;
Rho heddwch i'r deyrnas, ac iechyd ac urddas
  I'n pen llywydd Siarlas, wr diwair.

Mil chwechant ac ugain, a naw mlynedd cywrain,
  Medd holl ddoethion Brydain, oedd oedran ein Brawd,
A'n Prynwr, a'n Ceidwad, pan gwympodd y gawad,
  A lanwodd y farchnad â chwyd-flawd.

## XCIX. *Arall.*

RHEOLWR y nefoedd, a'r ddaear, a'r moroedd,
  A'r tywydd, a'r gwyntoedd, a'r glynoedd, a'r gwlaw;
Clyw cwynfan tofturiol ac achwyn dy bobol,
  Gan dywydd dryc-hinol a hir-wlaw.

Mae'r gwynt ac mae'r tonnau, mae'r gwlaw a'r dialau,
  A'r fer yn eu graddau, a'r nefoedd yn grych, *Barn.*
Yn ymladd i'n herbyn yn daran yfgymmun, [5.10.
  I'n plago â newyn yn fynych.

Mae'r haul oedd i'n porthi â gwres a goleuni,
  Yn awr gwedi forri, yn edrych yn fur,
Gan ballu rhoi'i thwymder a'i gwres yn ei harfer,
  Ne's pydru'r naill hanner o'n llafur.

Mae'r lleuad yn wylo fel gwraig a fai'n *mwrno*,
  Bob nos mae'n ymguddio mewn cwmmwl o'n gŵydd,
I ollwng ei dagrau gan amled ein beiau,
  Nes soddi'r llafuriau ag aflwydd.

Mae'r tonnau cynddeiriog, a'r wybren gafodog,
  A'r cymhylau gwlybyrog yn gwlawio bob awr,
Afonydd o ddrygfyd gan gynddrwg ein bywyd,
  I'n plago ag adfyd yn ddirfawr.

Mae'r ormes yn sathru y llafur sy'n tyfu,
  Mae'r gwynt yn cawdelu a dalo o frig,
Nes iddo ddihidlo, malu ac egino,
  Gan wlaw yn ei guro yn ffyrnig.

Mae'r llafur s'eb fedi yn barod i'w golli,
  Heb dywydd i'w dorri na'i daro ynghyd,
Mewn cyflwr anhygar, Duw moes in' dy ffafar,
  I'w gwnni o'r ddaear sopaslyd.

Mae'r maint sy'n ein helem, fel gwellt yn y dommen,
  Yn ddigon anghymmen ynghwmman y das,
Yn twymno, yn mygu, yn llwydo, yn malu,
  A chwedi llwyr bydru o gwmpas.

Mae'r maint sy'n y 'sgubor, gogyfer a gogor,
  Yn twymno heb gyngor, yn mygu heb gel:
Yn barod i 'nynnu, Mab Duw dere i'n helpu,
  A na'd in' llwyr fethu ein trafel.

A'r maint sydd ar feder ein cinio a'n swpper,
  Sydd gynddrwg ei biner a'i dymmer mor dost;
Ac oni chawn gennyd, Duw grasol, gyf'rwyddyd,
  Fe'n cospir ag adfyd yn hir-dost.

Agor dy lygad, O Arglwydd ein Ceidwad,
  A chenfydd mor irad it' weled mor hyll,
Holl ymborth crist'nogion, yn pydru mor ffinion,
  O eisiau cael hinion i'w gynnull.

Duw grasol tosturia, difwynodd ein bara,
  (Hir nychdod a faga dan fogail dy blant)
O ddiffyg it' ei rwystro, a'i ddyfal fendithio,
  A rhoddi rhad arno a llwyddiant.

Duw beth a feddyliwn am had-yd y gwanwyn,
  O bwy le y ceisiwn, os cawn ni fyw cyd?
Mae pawb yn achwyngar, ddifwyno eu holl heinar,
  Duw dangos dy ffafar am had-yd.

Duw graſol toſturia wrth ddefaid dy borfa,
  Na thor ffon ein bara, i beri i ni boen,
Maddeu'n troſeddau, gwella'n drwg-nwydau,
  Cyſura'n calonnau ſydd ddihoen.

Gorchymmyn i'r haulwen ymddangos drachefen,
  Gwna'r lleuad a'r ſeren yn ſiriol i'th ſaint:
Rho hinon a chyſur i'r poenfawr lafurwyr,
  A dofa dy bryſur ddigofaint.

Rhwylla'r wybrennau, a gwaſgar y cym'lau,
  Cerydda'r cafodau, cu ydwyt a rhwydd;
Goſtega'r doſt ormes, rho degwch a chras-des
  I'r llafur anghynnes, O Arglwydd.

Ond yma, Duw'r gallu, 'rwy'n brudd yn cyffeſu,
  Mai'n pechod ſy'n tynnu'r fath ddial ar ein traws,
A'th 'ſtormydd anraſol, a'r tywydd dric-hinol,
  I'n coſpi dy bobol yn rhy draws.

Di lenwaiſt ein boliau mor gyflawn â'th ddoniau,
  Na chodem o'n heiſte' i oſtwng ein glin,
I roddi it' foliant, na chlod am ein porthiant,
  Nes tynnu aflwyddiant i'n dilyn.

Yr eidion a'r aſen a edwyn eu perchen, *Eſay* 1.3.
  A'r cî fydd llawen wrth ei portho â llaeth:
Ond pobol ddiwybod ni fynnant gydnabod,
  Nac addef mo'r Drindod eu Tadmaeth.

Yr wyt yn ein porthi ag amryw ddaioni,
  Fel un a fai'n peſgi paſgwch yn rhin;
Ni chodwn ein pennau i wel'd mwy nag ynte',
  O b'le mae'r fath ddoniau yn diſgyn.

Gan hynny di yrraiſt y 'ſtorom a'r *tempeſt*,
  I goſpi ein gloddeſt â dryc-hin a gwlaw,
I beri i ni 'nabod, a gweled mai'r Drindod
  Sy'n porthi ni'n waſtod â'i ddwylaw.

Er maint o ddialau a roeſt am ein pennau,
  I goſpi ein beiau gan gynddrwg y'm yn byw;
Ni buom er * concweſt yn byw mor anoneſt,
  A chymmaint ein gloddeſt ag heddyw.

A'r 'ſtorom yn chwythu, a'r gwlaw yn ein gryddfu,
  A'r llafur yn pydru, heb adrodd ond gwir:

* Amſer WILLIAM y Congcwerwr.

Yn nheiau'r tafarnau, yn chwydu ddydd ſuliau,
  A'th gablu, 'ry'm ninnau rai anwir.

Pan ddylem weddio, a phryſur *repento*,
  Mewn llwch, ac ymgrino am bardwn a gras,
A'th gywir was'naethu, 'ro'em ninnau yn dy gablu,
  A'th rwygo a'th regu yn ddi-ras.

Pa fwyaf y ceiſid ein troi a'n dychwelyd,
  A gwella ein bywyd a 'madael â'n bai,
Waeth-waeth y pechem, fwy-fwy y'th ddigiem,
  Saith pellach y ciliem ninnau.

Pa fwyaf ddialau a roed am ein bennau,
  Bid newyn, bid cleddau, bid clefyd, bid gwlaw,
Fwy-fwy, fel Pharao, yr y'm yn dy gyffro,
  I'n poeni a'n plago â hir-wlaw.

Nid rhyfedd gan hynny, dy fod yn ein maeddu,
  Gan ddyblu a threblu ein maethgen â thrwſt:
Ond mwy o ryfeddod na roet i ni ddyrnod,
  A'n taflu i'r pwll iſod yn ddidrwſt.

Duw maddeu'n 'ſtyfnigrwydd, Duw dofa'th lidiawg-rwydd,
  Tyn ymaith ein gw'radwydd a'n haflwydd hir;
Rho ras i ni fedru fel Ninif 'difaru,
  A'th ddyfal was'naethu yn gywir.

C. *Rhybudd i'r Cymry i edifarhau ar yr amſer yr oedd y chwarren fawr yn Llundain.*

CYMRY, Cymry, mwrna, mwrna,
Gad dy bechod, gwella' gwella,
Rhag i'th bechod dynnu dial,
A digofaint Duw i'th ardal.

Mae dy bechod wedi dringad
Cuwch a'r nef yn crio'n irad
Am ddialau ar dy goppa,
Megis Sodom a Gomorra.

Mae e'n gwaeddi nos a borau,
Fel gwaed Abel, am ddialau;
Nid oes dim a ſtoppa'i ſafan,
Ond plag Duw, neu wella'n fuan.

Mae ef gwedi nurddo'r ddaear,
Fel pechodau'r cewri cynnar,

Ac yn gofyn dy yfgubo
Oddi arni, neu *repento.*
  Nid oes cornel mwy nâ Ninif,
Na bo'n llawn o feiau anneirif,
Na chrach bentref, na b'o pechod
Yn fw'rddanu cluftiau'r Drindod.
  Nid oes unrhyw radd na galwad,
Na b'o wedi ymlygru'n irad,
Ac yn tynnu, fel wrth reffyn,
Blag a dial ar dy gobyn.
  Mae'r pennaethiaid, bob yr un,
Yn ceifio'u mawl a'u lles eu hun;
Ac heb ymgais am wir grefydd,
Moliant Duw, na lles y gwledydd.
  Mae dy 'ffeiriaid hwythau'n cyfgu,
Ac yn gado i'r bobl bechu,
Ac i fyw y modd y mynnon',
Heb na cherydd na chynghorion.
  Mae dy farnwyr a'th wyr mawrion
Yn cyd-ddwyn â mwrddwyr, meddwon,
Ac yn goddef treifwyr diriaid
'Speilio'r gweddwon a'r ymddifaid.
  Mae'r fwyddogion hwytheu'n godde'
Cablu Duw, a meddwi'r fuliau;
Troedio'r 'fengyl, cafhau'r cymmun,
Heb na chofp na cherydd arnyn'.
  Mae'r Sirifiaid a'u depution
Yn anrheithio'r bobl wirion,
Ac wrth rym eu braint a'u fwyddau,
Yn eu 'fpeilio liw ddydd golau.
  Mae'r cyfoethog hwythau'n llyngcu
Faint fy'n helw'r tlawd yng Nghymry,
Ac wrth renti'n doft ac occra,
Yn eu gyrru hwy gardotta.
  Mae'r cyffredin o bob rhyw
Yn delo'n ffals, yn digio Duw;
Yn ddall, yn ddwl, heb fynnu eu dyfgu,
Yn myn'd i'r pwll heb odde' eu nadu.
  Mae pob gradd yn pechu'n rhigyl,
Ac heb wneuthur pris o'th 'fengyl,

Nac o gyfraith Duw gorucha',
Yn addoli'r byd a'r bola.

Mae pob gradd, â rhaffau pechod,
Yn dirdynnu dial hynod
Am eu pennau, heb dosturi,
Oni thront oddiwrth eu brynti.

Mae'r fath fedd'dod, mae'r fath dyngu,
Mae'r fath gamwedd ynot, Gymru,
A'r fath wan-gred a gau-dduwiaeth,
Na bu 'nghred o'i fath ysywaeth.

Mae'r Duw cyfiawn ynte'n canfod
Drwg-ymddygiad pawb a'u pechod,
Ac yn rhwym wrth swydd a nattur,
Ddial ar y fath drofeddwyr. *Heb*.10.30.

Er ys dyddiau mae'n ymhwedd
A'th holl blant am wella eu buchedd:
Eisiau gwella mae'n bwriadu
Weithian ddial camwedd Cymru.

Duw a'th ddododd yn y taflau,
Duw a'th gafodd lai nâ phwysau;
Duw a fyn roi maethgen i ti,
Oni throi oddiwrth dy frynti.

Eisiau i Gymru gym'ryd rhybudd
Oddiwrth Loegr a'i holl gystudd,
Y mae gwialen gwedi gwlychu
Yn y sic ar fedr Cymry.

Y mae plag yn ol dy bechod
Gwedi lunio gan y Drindod,
Ac yn barod ddwad attad,
O waith cynddrwg o'th ymddygiad.

Y mae'n crogi uwch dy gobyn,
Ddydd a nos fel wrth edefyn,
Ac yn barod iawn i syrthio,
Oni throi di a *repento*.

Yr wyt titheu yn pentyrru
Plag ar blag heb edifaru,
Ac yn cam-arferu'n rhyfedd
Ffafar Duw a'i hir amynedd.

'Rwyt ti beunydd yn myn'd waeth-waeth,
Ac yn pechu fwy-fwy 'sywaeth;

'Rwyt ti'n tybied fod Duw'n cyſgu,
Tr'o'n dy gathrain i 'difaru.

'Rwyt ti'n hwrnu yn dy bechod,
Heb yſtyried na chydnabod
Fod Duw'n hogi'n llym ei gleddau,
Tr'ech ti'n heppian ar dy feiau.

Edifara'n brudd gan hynny,
Cyn del plag i'th ardal Cymru;
Cyn y tynno Duw ei gleddau,
Cais ei ffafar ar dy liniau.

Os digofaint Duw a 'nynna,
Pwy o'r holl fyd a'i diffodda?
Os y chwarren wyllt a ddenfyn,
Pwy a'i tyn i maes o'th derfyn?

Os yr Arglwydd dig a ddechreu
Ladd dy blant â'i follt a'i gleddeu,
Pwy all gadw rhag ei ddyrnod
Un o'th blant os tery'r Drindod?

Gwel y lladdfa wnaeth e'n Llundain,
Er maint oedd eu cri a'u llefain;
Eſiau gwneuthur hyn mewn amſer,
Fe ddifethodd fwy nâ'u hanner.

Cwyn gan hynny, gochel oedi,
Llwyr ymwrthod â'th holl frynti;
Llef am ras cyn del dy faethgen,
Foru yſgatfydd y daw'r chwarren.

Mae dy blag mewn cydau lliain
Etto'n ſioppau *merchants* Llundain;
Fe ddaw'r plag oddi yno i Gymru,
Os ar fyrder ni 'difaru.

Os i Gymru y daw'r cornwyd,
Och! mor ammharodol ydwyd
Fyn'd i'r bar i wneuthur cyfri',
Heb na gwiſg na dim goleuni.

Os i Gymru y daw'r clefyd,
Ofer ceiſio un cyf'rwyddyd;
Nid yw'r byd yn abal ſtoppi
Haint pan ddelo Duw i'n coſpi.

Ofer ceiſio ſaeds a riw,
I wrth'nebu cleddyf Duw:

Oni throi oddiwrth dy bechod,
Ni thâl *metfwn* un o'r chwilod.
Ofer cadw pyrth dy drefydd, *Amos* 9,2,3.
Fe ddaw'r plag dros ben y gwelydd:
Ni all *peics* na *double-canon*
Attal plag, os Duw a'i danfon.
Ofer rhedeg hwnt ac yma,
Geifio cilio rhag dy ddifa;
Dos lle mynnech, fe fyn dyrnod *Amos* 9,1,2,3.
Duw a'i farn orddiwes pechod.
Goreu cyngor rhag y plag,
I ddyn gadw ei hun yn wag;
Nid rhag bwyd, ac nid rhag diod,
Ond rhag pob rhyw fath o bechod.
Os daw plag i gofpi Cymru,
Fe ddaw newyn i'th gaftellu,
Triftwch, cerydd, cas ac ofan;
Ni ddaeth plag erioed ei hunan.
Fe fydd drygfyd yn dy drefydd,
Fe fydd ochain rhwng dy welydd;
Fe fydd cwynfan ymhob heol,
Fe fydd braw ar bawb o'th bobol.
Cariad brawdol a ddiffoddodd,
Pob c'redigrwydd a ddiflannodd,
A naturiaeth a charennydd
A lwyr gollant eu cydnebydd.
Ni ddaw'r fam i drin y ferch,
Na'r wraig ei gwr, er maint ei ferch;
Na'r chwaer ei brawd, na'r tad ei blentyn;
Câs a thrift a thrwm yw'r cowyn.
Y mab a ladd ei dad â'i ana'l,
A'r fam ei phlant, er maint ei gofal;
A'r wraig ei gwr, wrth roi uchenaid,
A'r brawd ei chwaer a'i holl gyfnefiaid.
Y marw ladd y byw a'i claddo,
A'r gwan y gwych a ddel i'w drinio;
A'r claf yr iach a fo'n ei faethu,
Mor gâs mor flin yw'r plag wrth hynny.
Dyn â'r plag fy'n lladd â'i ddillad,
Fel y || *bafilics* â'i lygad; || *Math o farph.*

Ac â'i ana'l ſy'n gwenwyno,
Fel y *coccatris* y granffo.

Y plag a bair i bob cymmydog
Gaſhau'r llall fel cî cynddeiriog,
A chyfathrach, ffryns a chene'l,
Gaſhau câr fel blaidd neu gythraul.

Hyn a bair garcharu'r cleifion
Yn y tai fel bradwyr ffeilſtion;
A'u dehoryd i ſyn'd allan,
I gael bwyd dros aur ac arian.

Yr aur a ladd y rhai derbyniant,
Y || ſtwff a ddrfa'r rhai a'u *medlant*; || *Dodrefn.*
Pan ddel plag, er maint fo'r diffyg,
Ni thâl arian fwy nâ cherrig.

Hyn y bair i'th bobl Cymru,
Pan ddel chwarren, hir newynu,
Pan na chaffer bwyd dros arian,
Na dim cymmorth er ei fegian.

Dy blag y ddaw yn § immwngc hefyd, § *Diſym-*
Fel y diluw ar y cynfyd, *mwth.*
Neu'r tân gwyllt y ddaeth ar Sodom,
Yn ddirybudd fel y 'ſtorom.

Pan f'ech bryſur yn ymdwymo,
Neu'n y tafarn yn carowſo,
Neu'n cynhennu yn y farchnad,
Y daw'r plag yn immwngc arnad.

Os mewn tafarn, os mewn ‡ ſtewdy, ‡ *Putteindy.*
Os mewn marchnad neu ddadleudy;
Os mewn maes i'th dery'r cowyn,
Dyna'r man lle bydd dy derfyn.

Yno cei di megis 'nifail
Farw'n immwngc trwy fawr drafael,
Heb un dyn i weini i ti,
Na'th || areilio na'th gymfforddi. || *Goſalu.*

Ni ddaw meddyg, ni ddaw 'ffeiriad,
Ni ddaw ffryns yn agos attad,
Nac un carwr o'th holl gene'l,
Mwy nag at ryw anfad *rebel.*

Ni chei neb a ddel i'th drinio,
Nac i'th eſtyn na'th ymwiſgo,

Nac i'th arwyl, nac i'th gladdu,
Ond â chladdiad buwch o'r beudy.

O pwy angeu, O pwy benyd,
O pwy blag a diwedd aethlyd!
O pwy felldith a throm fforten
Ydyw marw'n llyn o'r chwarren!

Hyn i gyd a welodd Lloeger
Yn nhref Llundain yn hwyr amser;
Hyn a weli ditheu Cymru,
Os â'th bechod ni 'madewi.

O gan hynny, Cymru, ystyr
Mor anhawddgar, mor ddigysur,
Mor ddigariad, mor aflawen,
Ydyw marw'n llyn o'r chwarren!

Dyma'r angeu wyt yn haeddu,
Am dy bechod, Cymru, Cymru!
Dyma'r angeu s'ar dy feder,
Oni throi at Dduw ar fyrder.

Mae Duw'n disgwyl er ys dyddiau,
Am it' droi a gado'th feiau;
Eisiau troi, mae Duw yn barod
A phlag ddial dy holl bechod.

O gan hynny, Cymru, mwrna,
Gad dy bechod, edifara!
Dysg gan Ninif geisio heddwch,
Cyn del dial a diffeithwch.

Cyn y tynno Duw ei gleddau,
Cais ei heddwch ar dy liniau,
Rhy ddiweddar it' ymbilian,
Gwedi tynnu'i gleddyf allan.

Cwymp i lawr wrth draed dy Brynwr,
Megis Magd'len wyla'r hallt-ddw'r;
Sych â'th wallt ei ddeudroed rasol,
Fe ddiddana'r edifeiriol.

Cyfod allor megis Dafydd, *Sal.* 51. 17.
Offrwm iddo yspryd cystudd;
Deisyf arno stopio'r angel
Sydd ar fedr lladd dy gene'l.

Mwrn mewn sach fel pobl Ninif,
Tro oddiwrth dy feiau 'neirif;

Duw newidia'th farn a'th ferdid,
Os tydi newidia'th fywyd.
Tramwy i'r deml nos a dydd,
Megis Aaron mwrna'n brudd;
Llef am ras ar Griſt dy Geidwad,
Cyn y delo'r cowyn arnad.
Cur dy ddwyfron yn gyſtuddiol,
Fel y Publican 'difeiriol,
Cais gan Dduw doſturio wrthyd,
Cyn i'th dorrer ffwrdd â'r clefyd.
Bwytta beunydd fara dagrau,
Megis Dafydd am dy feiau;
A gwna'th wely'r nos yn foddfa,
Cyn i'r chwarren wyllt dy ddifa.
Saf fel Moeſen yn yr adwy,
Lle mae'r plag ar fedr tramwy,
Cais gan d'Arglwydd droi'i ddigllonedd,
Felly dengys it' drugaredd.
Megis Phinees cymmer * ſiaflyn, **Gwayw-ffon.*
Lladd y rhai ſy'n peri'r cowyn;
Coſp â'r gyfraith afreolaeth,
Duw a'th geidw rhag marwolaeth.
Gado Sodom, tyn i Soar,
Gochel ddiſtryw, bydd edifar;
Gwrando'r angel ſy'n rhoi rhybudd,
Cyn y del y plag i'th drefydd.
Gad y moch a'r bobl feddwon,
Fel y gade'r mab afradlon;
Tyn i dŷ dy Dad rhag newyn,
Cyn dy dorri lawr â'r cowyn.
Tyn fel Peder i ryw gornel,
Wyla'n chwerw dros dy gene'l;
Y mae'r ceiliog yn dy goſio,
Cais drugaredd cyn dy blagio.
Gwna dy gownt a'th gyfri'n barod,
Cyn dy ſyn'd o flaen y Drindod;
'Nyn dy lamp a gwiſg dy drwſiad,
Cyn y delo'r chwarren arnad.
Chwyrn yw'r chwarren pan y delo,
Ni rydd || reſpyt it' ymg'weirio, *|| Amſer.*

Bydd barodol yn ei gwiliad,
Bob yr awr cyn delo'i attad.
  Os ymg'weiria Cymru farw,
Ac i fyn'd at Dduw yn hoyw,
Hawfa' gyd i Dduw dy *fpario*,
A rhoi iechyd hir it' etto.
  Duw f'o graflon wrthyt, Gymru,
Duw ro gras it' edifaru;
Duw'th achubo rhag y chwarren,
Duw ro i ti flwyddyn lawen.

*Arall.*

CYMRU, Cymru, mwrna, mwrna,
Cwyn fel Ninif, edifara;
Gwifg dy fach, cyhoedda ympryd,
Llef am ras a gwella'th fywyd.
  Y mae Lloegr, dy chwaer hyna',
Yn dwyn blinder toft a gwafgfa,
Dan drwm wialen y Duw cyfion,
Sydd yn maeddu yn dra chreulon.
  Y mae'r plag yn difa'i phobloedd,
Fel tân gwyllt a ddoi o'r nefoedd,
Ac fel † gwaddath ar fych fynydd, † *Fflam.*
Yn gorefgyn ei holl drefydd.
  Mae hwy'n meirw yn ddiaros,
Wrth y miloedd yn yr wythnos,
Ac yn cwympo ar eu gilydd,
Yn gelanedd mewn heolydd.
  Nid oes eli, nid oes *metfwn*,
Nid oes dw'r na dagrau miliwn,
All ei ddiffodd, och! na'i laefu,
Ond trugaredd Duw a'i allu.
  Y mae Llundain fawr yn *mwrno*,
Fel Caerfalem gwedi'i anrheithio;
Nid oes dim ond ochain ynthi,
Cwynfan toft a llef annigri'.
  Mae'r fath alar, mae'r fath driftwch,
Mae'r fath gwynfan a thrafferthwch,
Mae'r fath wewyr a'r fath ochain,
Na bu'r fath erioed yn Llundain.

Mae pob gradd yn gwel'd yr angeu
Ger eu bron yn cwnnu'i gleddeu,
Ac yn difgwyl heno, heddy',
Am y *cart* i'w dwyn i'w claddu.
Y mae'r gwyr yn gwel'd eu gwragedd,
A'u plant anwyl yn gelanedd,
Yn y tai yn dechreu * fowfo, * *Drewi.*
Heb gael un dyn a'u hamwifgo.
Y mae'r gwragedd hwytheu'n ochain,
Wel'd y gwyr a'u plant yn gelain,
Ac heb feiddio myned allan,
Yn gwall-bwyllo'n flin gan ofan.
Mae'r ymddifaid bach yn gwaeddi
Yn y tai heb neb i'w porthi,
Ac yn fugno bronnau'u mhammau,
Gwedi marw er ys tridiau.
Nid oes cymmorth, nid oes cyfur,
O'r nef, o'r ddae'r, o'r môr, na'r awyr;
O'r dref, na'r wlad, o'r maes, na'r winllan,
O'r llan, na'r llys, o'r gaer, na'r gorlan.
Y mae'r iach yn gwel'd y * trwclau, * *Cludfa-oedd.*
Y f'ai gynt yn dwyn tomhennau,
Heb ddwyn dim o oleu i'r gilydd,
Ond y meirw i'r mynwentydd.
Mae'r rhai byw yn hanner marw,
Cyn del arnynt wŷn na gwayw,
Wrth wel'd cymmaint yw'r dialau
Sy'n digwyddo am eu pennau.
Ni cheir rhydd-did fyned allan,
Ni cheir bwyd i mewn dros arian,
Ni cheir tramwy at un criftion,
Ni cheir 'madael â'r rhai meirwon.
Yn y tai mae'r plag a'r cowyn,
Yn yr hewl mae'r cri a'r newyn,
Yn y maes mae'r cigfrain duon
Hwytheu'n pigo llygaid cleifion.
Y mae 'fywaeth Duw a dynion
Gwedi gado'r rhai'n yn dlodion,
Heb roi help na fwccwr iddyn'
Yn eu nychdod toft a'u newyn.

Mae Duw'n chwerthin am eu pennau, *Diar.* 1. 26.
Ac â'i fys yn ſtopio'i gluſtiau,
Ac heb wrando gweddi canmil,
Eiſiau gwrando llais ei 'fengyl.

Y mae dynion annhrugarog,
Yn eu ffoi fel cwn cynddeiriog;
Gwell yw ganthynt weled gwiber,
Yn y wlad, nâ gweled * *Lydner*. * *Gwr o Lundain.*

Waith bod dyn â'r plag yn nyrddo
Pob rhyw ddyn a ddelo atto,
Ac yn lladd â gwynt ei dillad,
Fel y ‡ *baſilics* â'i lygad. ‡ *Math o ſarph.*

Ni faidd tad fyn'd at ei blentyn,
Na gwraig drin y gwr â'r cowyn,
Na ffrynd wel'd ei ffrynd â'r clefyd,
Heb fawr berygl am ei fywyd.

Y mae'r fam yn lladd â'i chuſan
Ei hanwylyd blentyn bychan,
Ac heb wybod yn ‖ andwyo ‖ *Anafu.*
Hwn â'r plag tra fytho'n ſugno.

Y mae'r tad yn lladd â'i ana'l
Ei blant anwyl yn ddiattal,
Ac fel † *coccatris* gwenwynllyd † *Math o ſarph arall.*
Yn ddiſon yn dwyn eu bywyd.

Y mae'r plentyn a glafychodd
Ynte'n lladd ei fam a'i magodd,
Ac o'i anfodd yn * *infecto* ‖ *Gwenwyno.*
Yr holl dylwyth lle bo'n trigo.

Mae hwy'n meirw yn ddiſymmwth,
Gwyr a gwragedd, plant a thylwyth,
Wrth y pum cant yn y noſwaith,
Nes myn'd Llundain megis anrhaith.

Mae'r fath wylo, mae'r fath ochain,
Ymhob cornel o dref Llundain;
Ni bu erioed o'i fath yn Rama
Gynt gan Rachel a'i chyfneſa'.

Mae'r offeiriaid a'r pregethwyr
Yn galaru i maes o feſur,
Wel'd eglwyſydd, lle'r oedd miloedd,
Fel llueſtai heb ddim pobloedd.

Y mae *merchants* mawr â'u ſioppau
'N llawn o frethyn aur a leiſiau,
Heb gael gwerthu dim o'r llathaid,
I roi bara i'w prentiſiaid.

Y mae'r crefftwyr hwytheu'n ochain,
Gwedi gweithio pethau cywrain,
Heb gael un-dyn yno i'w prynu,
Ac yn barod i newynu.

Mae llettywyr y gwyr mawrion,
A'r arglwyddi, a'r marchogion,
A'u hoſtriau mawr yn wag,
Heb neb ynthynt ond y plag.

Y mae'r || *water-men* a'r * *porters*,
Y † *caraniſwyr* oll a'r § *baliers*,
Heb gael lle i ynnill dimmai,
I roi bara yn eu boliau.

Mae'r farchnatfa lle'r oedd llafur,
Cig a phyſgod tu hwnt i feſur,
A phob moethau o'r danteithia',
Heb na chig, na blawd, na bara.

Y mae llawer oedd yn ceiſio
|| *Quails* a * *pheſants* erbyn cinio, || *Soflieir.* * *Ceiliogau*
'Nawr yn chwennych torri'u newyn *y coed.*
Ar † *bwr jon* ac hen ymenyn. † *Pyſgod ballt, ſych.*

Lle'r oedd beunydd fil o fadau
Yn dwyn ymborth, heblaw llongau,
Nid oes heddyw bwn yn dwad
O flawd cawl dros aur i'r farchnad.

Lle'r oedd llewndid o bob ffrwythi
Ag oedd dae'r a dw'r yn roddi,
Nid oes heddyw ond y newyn,
A'r drudaniaeth, waith y cowyn.

Hyn y barodd ein hen draha,
A'n glythineb, a'n putteindra,
A'n gau-dduwiaeth, a'n cas fedd'dod,
A dirmygu'r Gair yn waſtod.

Dyma wobr, dyma ffrwythau, *Deut.* 28.15,
Dyma gyflog ein pechodau. 21,17.

|| *Badwyr.* * *Rhai a fo yn dwy llwythau ar eu cefnau.*
† *Gyrwyr cludfaoedd.* § *Rhai yn llusgo pethau.*

Dyma'r faethgen doſt haeddaſom,
Am y brynti gynt a wnaethom.
  Dyma fel y gall Duw cyfion
Dynnu lawr y trefydd mawrion
Mewn byr ennyd am anwiredd,
A'u daroſtwng am eu balchedd.
  Dyma fel y gall Duw blygu
Pobl drawſion a f'o'n pechu,
Ac heb wneuthur pris o'i ddeddfau,
A'u ‖ *committo* tan law'r angeu. ‖ *Goſod.*
  Hyn haeddaſom er ys dyddiau,
Hyn a ddylem bawb ei adde';
Cyfiawn yw Duw a diargyoedd,
Yn ei ffyrdd a'i holl weithredoedd. *Sal.* 145.17.
  Ni hauaſom pob diffeithder
Gynt rhwng cwyſau anghyfiawnder;
'Ry'm ni'n medi, 'ry'm ni'n caſglu *Gal.* 6.7.
Y *crop* a ddygodd pechod i ni.
  Dyma'r dial gynt addawodd
Duw ei ddanfon ar y bobloedd
Na's gwaſanaethent â'u holl galon,
Ac na chadwent ei orchymynion.
  Dyma'r faethgen y gaiff § Cymru,
Eiſiau gwella a 'difaru,
A chymmeryd rhybudd dyner
Oddiwrth blag a dial Lloeger.
  Pan yr helodd Duw'r fath wialen
Ar y bobol dda o Lunden,
Mae arnaf ofn y daw cleddy'
Ar y bobol ddrwg o Gymru.
  Pan na chym'rai pobl Juda
Rybudd prudd oddiwrth Samaria,
Duw ro'dd Juda i gaethiwed,
Fel Samaria dan law'r Syriaid.
  Pan na chymmer Cymru *warning*
Oddiwrth Loegr yn ddidaring,
Mae arnaf ofn y daw dial
Ar y Cymru â phlag anial.

§ *Fe fu y chwarren ar ol hyn yng Nghymru, a rhyfel trwy'r holl deyrnas.*

Pan y gwlawiodd Duw Gorucha'
Dân ar Sodom a Gomorra,
Ni ddiffoddodd ei lid tanllyd,
Nes difetha Seboim hefyd.

Pan yr helodd Duw y chwarren
I dir Lloegr ac i Lunden,
Mae arnaf ofn toſt na laeſa
'R plag nes del i ymwel'd â † Chambria. † *Cymru.*

Os pan helodd Duw â chleddau
I Germania a'i chyffiniau,
Eiſiau i'r Ffrancod gym'ryd rhybudd,
F'aeth y cleddyf trwy'u holl drefydd.

Eiſiau i Loegr gym'ryd *warning*
Oddiwrth Bohem, Ffraingc a Fluſhing,
Y mae Duw yn coſpi Lloeger
Yn ſaith gwaeth nag un o'r nifer.

Oni chymmer Cymru rybudd
Oddiwrth Loegr driſt a'i chyſtudd,
Mae arnaf ofn gwel'd ar fyrder
Blag yng Nghymru waeth nâ Lloeger.

O gan hynny, Cymru, mwrna,
Gad dy bechod, edifara;
Dyſg gan Ninif geiſio heddwch,
Cyn del dial a diffeithwch.

Cur dy ddwy-fron, wyla'r hallt-ddw'r,
Golch dy wiſg yng waed dy Brynwr,
Llef am ras, a gad dy frynti, *Joel* 2.12,13,14.
Cyn dialer dy ddrygioni.

Cyn y tynno Duw ei gleddau,
Cwymp yn iſel ar dy liniau,
A chais ras a ffafr gantho,
Cyn i'r angeu dig dy daro.

Ofer crio gwedi'th glwyfer,
Ofer ymbil gwedi'th farner,
Ofer ceiſio torri'r wialen,
Gwedi rhodder i ti'r faethgen.

Cwyn gan hynny, gochel oedi,
Bryſia'n ‖ eſgyd, gad dy frynti, ‖ *Ebrwydd.*
Gwel y farn ſydd uwch dy gobyn,
Tro cyn caffo'i arnat ddiſgyn.

CI. *Gweddi eglwyswr wrth fyned i ymweled â'r cleifion yn amser y chwarren.*

DUW gwyn, gwel mor beryglus
Yw swydd dy was trafaelus,
Sydd yn twtian aua' a haf,
At bob dyn claf gwrth'nebus.

Nid oes na gwr na bachgen,
Bid claf o'r frech na'r chwarren,
Neu ryw glefyd y f'o gwaeth,
Nad wyf fi gaeth i olrhain.

Os gwres, os gwayw poethlyd,
Os chwys, os twymyn awchlyd,
F'orfydd myned uwch ei ben,
Bid claf o'r chwarren waedlyd.

A hyn sydd dra echrydus
I galon egwan glwyfus,
Sydd heb bwer gantho'i hun,
I och'lyd twymyn awchus.

Gan hynny ar f'unig Helpwr,
A'm Ceidwad, a'm Diffynwr,
Sy'n rheoli rhai'n i gyd,
'Rwy'n crio 'mhryd am swccwr.

O Arglwydd mawr! di elli
Fy nghadw'n iach, os mynni,
Rhag yr heintiau hyn i gyd,
Er maint eu bryd i'm llyngcu.

Ac oni byddi helpwr,
I'm cadw mewn cyfyngdwr,
Nid oes le im' ddiangc mwy,
Ond *ildio* i hwy fel gwan-wr.

Gan hynny, DUW'R HOLL ALLU,
Os d'ewyllys sy'n cenhadu,
Cadw fi, dy waelaf was,
Rhag heintiau cas i'm cyrchu.

Tydi, fy Nuw, sy'n clwyfo, *Hos.*6.1.
Tydi sydd yn elio; 1 *Sam.*2.6.
Tydi sy'n lladd ac yn bywhau,
Tydi y gai'n *correcto*.

Gan hynny tynna drofwyf
Dy adain fel dihangwyf;
Na ad i glwyf neu glefyd cas
Ymlynu â'th was daiarol.

Duw'r hwn a gedwaift Aaron *Num.* 16.48.
Yn iach yng nghanol cleifion,
Cadw finneu'n rafol rhag
Yr haint a'r plag echryflon.

Di gedwaift Abednego *Dan.* 3.
Yng nghanol fflam heb dwymo,
Cadw finneu 'nghanol plag,
Er Iefu nad f'andwyo.

Di gedwaift Ddaniel hefyd, *Dan.* 6.
O fafn llew newynllyd,
Cadw finneu, Arglwydd Dduw,
Rhag haint i fyw mewn iechyd.

Ac felly mi'th folianna',
Mewn llan, a llys, a thyrfa,
Ac a rof, tra ynof chwyth,
It' ddiolch byth o'r mwya'.

Fel Aaron yn y gangell,
Fel Daniel yn y 'ftafell, *Dan.* 6.10.
Ac fel Dafydd, tra fwyf byw, *Sal.* 146.2.
Bendithiaf Dduw fy Nghaftell.

## CII. *Ber yw oes dyn.*

FEL gwennol Job mae'n hoes yn llithro, *Job* 7.6.
Fel rhofyn Dafydd mae hi'n gwiwo, *Sal.* 90.6.
Fel gyrfa Paul y mae'n diweddi, 1 *Cor.* 9.24.
Fel bwmbwl Iago mae'n diffoddi. *Iago* 4.14.

Fel canwyll gŵyr mae'n hoes yn treulio,
Fel llong dan hwyl mae'n myned heibio,
Fel poft dan fawd mae'n pedwar carnu,
Fel cyfgod cwmmwl mae'n diflannu.

Gwan yw'n tai, a chryf yw'n gelyn,
Byr yw'n **terem*, fiwr yw'n terfyn, * *Amfer.*
Anfertennol yw'i ddyfodiad,
Byddwn barod yn ei wiliad.

## CIII. *Cyngor i'r claf.*

PAN y'th d'rawer gyntaf â chlefyd,
Yſtyr o b'le daeth mor danllyd,
A phwy helodd glefyd attat,
A pha ham ei dodwyd arnat.

Duw ei hun ſy'n danfon clefyd, *Deut.* 28. 2
Oddiwrth Dduw y daw mor aethlyd,
Am ein beiau mae'n ei hela,
I geiſio gennym droi a gwella.

Edifara am dy feiau,
Deiſyf bardwn ar dy liniau,
Cais gan Dduw doſturio wrthyd,
Fe'th gyſura yn dy glefyd.

Os 'nynodd llid dy Dduw yn d'erbyn,
Nes rhoi arnat glefyd 'ſgymmun, *Hoſ.* 6. 1
Gwaed yr Oen a'th ‖ *reconſilia*, ‖ *Heddycha*
§ Deigrau heilltion a'i dad-ddigia.

Goſtwng iddo, mae'n drugarog, *Mat.* 7. 7
Cais ei ras, fe'i rhydd yn ſerchog;
Edifara, ynte' faddeu,
Wyla di, toſturia ynte'. *Act.* 3. 19

Addef iddo dy gamweddau, *Sal.* 32. 5
Barn dy hunan am dy feiau;
Cwymp o'i flaen, a deiſyf bardwn,
Di gei ras ac † *abſoluſiwn.* † *Rhyddhad.*

Tro di atto, ynte'th dderbyn,
Er ei ddigio rhaid ei ganlyn;
A phan welo heilltion ddeigrau,
Fe bair laeſu dy flinderau.

Duw ei hun ſy'n danfon clefyd,
Cennad Duw yw nychdod aethlyd;

§ Er mai gwaed CRIST yw'r iawn am bechod, 1 Pedr i. 19. etto y mae yn rhaid i'r ſawl a ddiſgwyliant am leſhad oddiwrtho gredu yntho, a bod yn edifeiriol, o herwydd bod Duw wedi gorchymmyn i ni ddyfod yn y modd hynny atto trwy ei Fab, Ioan xiv. 6. 1 Ioan iii. 23. Iago iv. 9. Ond er y dylem ni alaru, etto na thybygwn fod ein dagrau yn iawn am ein pechodau; pe buaſai hynny yn gallael bod, ni buaſai raid i Griſt ddioddef troſom.

Oddiwrth Dduw y daw clefydon;
Ni all neb ond Duw eu danfon.

Nid o'r moroedd, nid o'r mynydd,
Nid o'r ddae'r, na'r *aer*, na'r corfydd,
Y daw clefyd ar blant dynion,
Ond oddiwrth yr Arglwydd cyfion.

Gwres a gwayw, crach, cornwydion, *Deut.*28.22.
Clefyd a haint, a fyndra calon,
Sychdod, nodau, mall, diflaniad,
Sy oddiwrth Dduw ei hun yn dwad.

Ni all emprwyr mawr yr holl-fyd,
Ddanfon haint na thynnu clefyd,
Nid oes neb a'u tyn neu danfon,
Ond Duw mawr y Barnwr cyfion.

Nid aiff clefyd byth wrth § *bwyntment* § *Gofodiad.*
Lot nac Antwn, Cat na Chlement,
*Witch* na dewin, fwyn na phlaned,
Nes cenhado Duw ei fyned.

Os o * *furffed*, os o anwyd, * *Bwytta neu yfed gormod.*
Neu dŷ afiach, y celt glefyd,
Duw ei hun fydd yn dy daro,
Pa fodd bynnag daethoft iddo.

Nid wrth ddamwain, nid wrth fforten,
Nid wrth dreiglad lloer na feren,
Y daw clefyd, mawr na bychan,
Ond wrth *bwyntment* Duw ei hunan.

Na chais edrych, fel dyn ynfyd,
Trwy pa fodd y daeth dy glefyd;
Gwell it' edrych tu a'r nefoedd
Ar dy Dduw a'r llaw a'th d'rawodd.

Duw a'th d'rawodd, Duw a'th wella, *Heb.*11.10.
Duw a'th glwyfodd, Duw'th elia;
Duw fy'n cofpi dy gnawd diriaid,
I iachau dy gorph a'th enaid.

Derbyn gennad Duw'n roefawgar,
Ymddwyn tano yn ddioddefgar; *Heb.*12.6.
Y neb a garo Duw fe'i cofpa,
Pob mab anwyl fe'i gwialenna.

Bydd ddioddefgar tan dy drwbwl, *Iago* 5.10,11.
Ffol a wingad ar ben fwmbwl;

Duw a'th d'rawodd mor ddolurus,
Ofer it' wrth'nebu'i ewyllys.

Am ein pechod a'n drwg fywyd *Deut.* 28.
Y mae Duw yn danfon clefyd,
Ac yn gryddfu meibion dynion,
Am drofeddu ei orch'mynion.

Darn o gyflog pechod aethlyd
Ydyw nychdod ac afiechyd;
Pechod a ddaeth wrth ei gynffon,
A phob clefyd ar blant dynion.

Torri'r fabbath, tyngu'n rhigyl,
Cafhau'r eglwys a'r efengyl;
Diftadl 'ffeiriaid a fwyddogion,
A bair llawer o glefydon.

Meddwdod, mafwedd, a phutteindra,
Rhegu, loetran, a lladratta,
Gwledda, gloddeft, treifio tlodion,
Sy'n dwyn clefyd a thrallodion.

Os ce'ft glefyd, o daeth gwafgfa,
Pechod helodd hwn i'th ddala,
Ac a barodd i Dduw ddigio,
A rhoi'r clefyd hwn i'th daro.

Chwilia'n fanol dy gydwybod,
A chais gwrdd â'th ffiaidd bechod; *Galar.* 3.40.
Llwyr groefhoelia dy anwiredd,
Ac ymbilia am drugaredd.

Os 'difaru am dy feiau,
A llwyr droi at Dduw yn fore,
Fe faddeua Duw dy bechod, *Act.* 3.10.
Ac a'th * dynn i maes o'th nychdod.

Cais gan Dduw leihau dy ddolur,
Dofi'th boen a gwella'th gyfur,
Cais yn daer efmwythder gantho,
Fe all ei roi yr awr y mynno.

Pa ryw bynnag yw dy ddolur,
Fe all Duw oftegu ei wewyr,
A'th iachau y modd y mynno,
Bid e'r dolur mwya' fytho.

* Os bydd hynny er daioni i'th enaid di.

Fe iachaodd y claf o'r parlys,
Gwraig o'r lafg, a'r crippil nafus,
Job o'i grach, a Naaman glafrllyd,
A'r rhai cleifion o bob clefyd. *Mat*.4.24.

Nid yw clefyd ddim ond cennad
Wrth arch Duw fy'n dwad attad;
Fe ladd, fe baid, pan archo'i berchen,
Fe ddaw, fe aiff, fel gwas y cadpen.

O gan hynny galw'n daerllyd
Ar dy Dduw fy'n danfon clefyd;
Cais ei nawdd er mwyn dy Brynwr,
Di gei gantho help a fwccwr.

## CIV. *Gweddi'r claf.*

ARGLWYDD cyfiawn, Tad fy iechyd,
Barnwr pawb, a'u helpwr hyfryd,
Gwrando weddi dyn clefycca,
Er mwyn Crift, ac edrych arna'.

Yn glaf mewn corph, yn drift mewn enaid,
Yn drwm mewn meddwl ac uchenaid,
'Rwy'n ymlufgo, O Nghreawdwr,
Attat ti i geifio fwccwr.

Grafol wyt a llawn trugaredd, *Ecf*.34.6,7.
Hwyr dy lid a mawr d'amynedd,
Hawdd i'th gael mewn toft gyfyngdwr,
Er mwyn Crift tofturia nghyflwr.

Di roeft iechyd im' ys dyddiau,
'Nawr ti'i dygaift am fy meiau,
Ac a helaift boen a nychdod
I'm cyftuddio am fy mhechod.

Duw mi haeddais, 'rwy'n cyfadde',
Un oedd drymach er ys dyddiau:
Yn dra chyfiawn, Dduw Goruchaf,
Y rhoeft hyn o nychdod arnaf.

Ti allefid ddanfon clefyd
Immwngc cas i ddwyn fy mywyd,
A'm troi i uffern i boenydio,
Heb roi amfer im' *repento*.

Etto'n fwyn, fel Duw trugarog,
Ti ro'aift arnaf glefyd ferchog;

I'm rhybuddio am fy niwedd,
A'm cyf'rwyddo i wella muchedd. *Sal.*119.71.
'Rwy'n ei gym'ryd megis arwydd
O'm * mabwysiad, a'th garedigrwydd
Yn fy nghospi a'm *correcto*,
Rhag i'm pechod fy andwyo.
Da yw'th waith, O Arglwydd cyfion,
Yn cospi'r corph â'r fath drallodion,
Lle'r oedd f'enaid er ys dyddiau,
Yn dra chlaf gan ormod moethau.
Tra ces iechyd ni ches weled
O'm pechodau er eu hamled;
Ond yn awr, gwae fi, mewn nychdod,
Nid wy'n gweled ond fy mhechod.
O pa nifer o bechodau
Wnaetho'n d'erbyn, Duw, gwae finnau!
Maent yn amlach mewn rhifedi
Nag yw'r sêr, os ceisia'u cyfri'.
Pa fath elyn gwyllt y fuo!
Yn d'wrth'nebu megis Pharao!
Gynt pan oeddyt yn ymhwedd
Am im' droi a gwella muchedd.
Arglwydd grasol, 'rwy'n cydnabod
I mi haeddu cant mwy nychdod,
Ac im' bechu yn ysgymmun,
O'm maboliaeth yn dy erbyn.
Etto gwn dy fod ti'n rasol,
I bwy bynnag f'o 'difeiriol,
Ac yn barod iawn i faddau
I'r galarus eu camweddau.
Er na haeddais ond trallodion,
A dialau, a chlefydon,
Gwna â mi 'nol dy fawr drugaredd,
Ac nac edrych ar f'anwiredd.

* Yr arwyddion o fod yn blant i Dduw yw ffydd yng Nghrist, galar am bechod, a throad oddi wrtho; cariad at y duwiol, a chadw gorchymmynion Duw. Oni fydd dyn â'r pethau hyn yntho, ni ddichon efe gasglu oddiwrth ei glefyd ei fod ef yn blentyn i Dduw, Ioan i. 12. Mat. v. 4. Ioan ii. 3, 4. a iii. 8, 9, 10, 14.

Cymmer angeu Crist a'i 'sudd-dod
Yn dâl i ti am fy mhechod;
Cladd fy meiau yn ei wely;
Er ei swyn bydd rasol i mi.

Na'd im' farw yn fy mrynti,
Cyn im' wneuthur dim daioni,
Ond rho amser o'th drugaredd
I mi etto wella muchedd.

Dal dy law, gostega nolur,
Llaesa mhoen, lleiha fy ngwewyr;
Ac na osod arnaf boenau,
Fwy nag allo nghorph eu godde'.

Er bod f'enaid weithiau'n d'wedyd,
*Dere Grist a derbyn f'yspryd,*
Mae fy nghnawd er hyn yn crio,
*Duw, tro'r cwppan chwerw heibio.*

Y mae'r cnawd a'r yspryd etto
Yn ammharod i ymado;
Duw rho amser im' eu trefnu,
O bydd d'ewyllys yn cenhadu.

Nid wy'n ceisio gennyt amser
I fyw'n foethus mewn esmwythder,
Ond i dannu dy anrhydedd,
Ac i wella peth o'm buchedd.

Duw, os gweli fod yn addas,
Ystyn f'oes fel Hezecias,
Dyro i mi ryw gyf'rwyddyd
I'm iachau a thorri 'nghlefyd.

Ond os gweli fod yn orau
Etto nghospi dros fwy ddyddiau,
Duw d'ewyllys di gyflawner,
Ond cyfnertha fi'r cyfamser.

Yn iach ni wnaethum ond dy ddigio,
Yn glaf ni allaf ond och'neidio,
Oni roi dy nefol yspryd
I'm diddanu yn fy nghlefyd.

Arglwydd cymmorth fi'n fy mlinder,
Llaesa mhoen a'm hanesmwythder;
D'wed wrth f'enaid yn ei * alaeth,
Myfi yw dy Iachawdwriaeth.

* *Ofn.*

Tydi yw Crist y mwyn Samariad,
Minneu yw'r claf trafaelwr irad;
Cyweiria nolur, rhwym f'archollion,
Dofa mhoen, crysha fy nghalon.

Mae dy law yn orthrwm arnaf,
Etto ynot mi ymddiriedaf; *Job* 13.15.
A phe lleddit fi â thrallod,
Duw mae fy holl ymddiried ynod.

Gennyt ti mae'r holl || allweddau *Dat.*1.18.
Sydd ar fywyd ac ar angau, || *Agoriadau.*
Ni faidd angau edrych arnaf,
Nes danfonech (Crist) ef attaf.

Gwna fi'n barod cyn y delo;
Pâr im' ddisgwyl byth am dano,
Fel y gallwyf fyn'd yn addas
Wrth ei 'sgil i'th nefol deyrnas.

Na'd i bethau'r byd anwadal,
Na'th gyfiawnder ddydd y dial,
Nac i ofn angeu'm rhwystro
Ymbar'toi i rwydd ymado.

Tyn o'm calon ofn angau,
Pâr im' wadu'r byd a'i bethau;
Golch â'th waed fy mhechod 'sgeler,
Cudd fy mrynti â'th gyfiawnder.

Rho im' ffydd yn dy *bromeision*,
Gobaith cryf am gael y goron;
Dioddefgarwch yn fy nghlefyd,
Chwant ddwad attad a dattodyd.

Crist rho d'Yspryd i'm diddanu, *Phil.*1.13.
A'th angylion i'm castellu; 2*Tim.*4.8.
Gwna'r awr olaf fy awr oreu,
Rho i mi'r goron ar awr angeu.

Crist fy Mugail, cadw f'enaid,
Na'd i'r llew o'th law ei 'sglyfaid;
Tydi a'i prynaist yn ddrud ddigon,
Dwg ef i'r nef at dy angylion.

CV. *Rhybudd i'r claf i alw am weinidog a physygwr, ac i ochelyd swynwyr.*

PAN glafychech cais offeiriad
Yn ddiaros ddwad attad,

I weddio dros dy bechod,
A'th gyf'rwyddo fod yn barod.
Crist y bwyntiodd yr offeiriaid
Yn phyfygwyr doeth i'r enaid,
Ac a roddodd iddynt eli,
I wrth'nebu pob drygioni.
Adde'th bechod wrth y 'ffeiriad,
(Fe rydd i ti gyngor difrad)
Fel y gallo roi cyf'rwyddyd,
Yn ol naws a rhyw dy glefyd.
* Cred beth bynnag dd'wetto'r 'ffeiriad
O air Duw yn brudd am danad;
Canys llais Crist yn brudd yw hynny,
I'th *rebuco* neu'th ddiddanu.
Deisyf arno brudd weddio
Ar i'r Arglwydd dy *recofro*,
A rhoi i ti gyflawn iechyd,
Neu yn rasol dderbyn d'Ysbryd.
Mae Duw'n addo gwrando'r 'ffeiriad, *Iago* 5.14,
Pan § weddio yn ol ei alwad: 15,16.
Crist a ddyru ei ganlyniaeth,
Oni phwyntiodd dy farwolaeth.
Deisyf arno dy gyfnerthu,
Rhag i satan dy orchfygu,
A llonyddu dy gydwybod,
Pan y'th fliner gan dy bechod.
Goddef † lansio dy gornwydion, † *Chwilio.*
Goddef i'r gair frynaru'r galon:
Fel y gallo fwrw ynthi
Win ac olew gyd ag Eli.
Gwell it' adael i'r offeiriad
* Fyneg it' dy ddrwg ymddygiad, * *Ddangos.*
Fel y gallech edifaru,
Nag o'i blegid gael dy ddamnu.
Di gei § gyngor rhag dy bechod,
I lonyddu dy gydwybod;

* Pan lefaro yr offeiriad allan o air Duw, y mae Crist yng llefaru trwyddo ef. § Llawer a ddichon taer weddi y cyfiawn, ond aberth yr annuwiol sydd ffiaidd, Diar. 15. 1.

§ Ni'th gedwir oni wnei yn ol cyngor Duw, Iago 1. 12.

Di gei gymffordd gan y 'ffeiriad,
Os mewn pryd y gelwi attad.

Na âd y 'ffeiriad heb ei alw,
Nes y b'ech yn hanner marw:
Ni all offeiriad y pryd hynny, *Rhuf.* 10. 7.
Na neb arall, dy ddiddanu.

Oh! pa nifer o'r Brutaniaid
Sydd yn meirw fel 'nifeiliaid, *Rhuf.* 10. 17.
Eisiau ceisio nerth y 'ffeiriad,
I gyf'rwyddo eu hymadawiad.

Er bod Duw yn abal cadw
Sawl a fynno heb eu galw,
Nid yw'n cadw mawr o enaid,
* Ond trwy swydd a gwaith offeiriaid.

Cais gan hynny gynta' ag allech,
'Ffeiriad attat pan glafychech,
I roi *pwrg* yn erbyn pechod,
'Rhwn yw achos dy holl nychdod.

Yn ol cyngor yr eglwyswr,
Cais gyf'rwyddyd y physygwr;

* Trwy bregethiad y gair y mae ffydd a throedigaeth i ffordd iechydwriaeth yn dyfod, ac am hynny yn clafychu. Fe ddylid arferu gwrando'r gair, rhag ofn y bydd hi yn rhy hwyr yn ein clefyd i wneuthur felly: ni ddylem oedi â thybied mai pethau bychain yw ffydd ac edifeirwch, a gwellhad buchedd, o herwydd y mae pob un o'r rhai'n yn angenrheidiol i iechydwriaeth, Ioan iii. 3, 6. Luc xiii. 5. 1 Cor. 6. 9. Heb. xii. 14. Er mwyn Crist, ystyriwch y pedwar lle hyn o'r ysgrythur, a bernwch ynoch eich hunain, gan na ellir bod yn gadwedig heb edifeirwch a ffydd, a newydd-deb buchedd, fel y mae'r ysgrythurau hyn yn dangos yn eglur, onid yw yn ynfydrwydd i'w gadael hwy heb eu ceisio hyd amser ein clefyd? Fe sydd yr enaid y pryd hynny yn ymwrando â dolur ac afiechyd y corph, ac o herwydd hynny yn anghymmwys iawn i wrando cyngor yr offeiriad, ac i wneuthur yn ei ol fel y dylem. Nid ydym yn darllain ond am un, sef y lleidr ar y groes, ag a wir edifarhaodd ar yr awr ddiweddaf: am un yr ydym yn darllain hynny, fel nad amheuo neb; ac nid ydym yn darllain ond am un, fel na ryfygo neb, a bod yn hy neu yn eon, i oedi troedigaeth at Dduw hyd yr awr ddiweddaf.

Duw a roes i hwn gelfyddyd
I'th iachau o lawer clefyd.
Duw ordeiniodd i'r offeiriaid
I iachau doluriau'r enaid,
A'r phyſygwyr a'r meddygon
I ymg'leddu cyrph y cleifion.
Llawer dyn ſy'n marw'n fudwr,
Eiſiau cymmorth a phyſygwr,
Gan fyrhau eu hoes a'u hamſer
Yn enbeidus eiſiau'u harfer.
Corph pob dyn yw tŷ ei enaid,
Rhaid *reparo* hwn a'i drefniad;
Rhaid i bob dyn hyd y gallo,
Gadw ei dŷ ar draed heb gwympo.
Arfer gymmorth phyſygwriaeth
Yn dy glefyd trwy griſt'nogaeth;
Duw ordeiniodd hon yn gyſur
I blant dynion rhag pob dolur.
Y neb wrthodo phyſygwriaeth,
Y roes Duw er iechydwriaeth,
Mae'n gwrth'nebu maeth ei anian,
Ac yn mwrddro'i gorph ei hunan.
Y llyſieuyn ſalwa welech,
A'r gyf'rwyddyd waela' gaffech,
All roi help ac iechyd i ti,
Os rhy Duw ei fendith arni.
Swp o ffigys, os bendithia,
All iachau y cornwyd mwya', *Eſa*.38.21.
A'r gyf'rwyddyd na thâl un-rhith,
All roi help ond cael ei fendith.
Ond pe caet ti balm a nectar,
Cennin Pedr, cerrig Beſar,
Olew, a myrrh, a gwin, a gwenith,
Ni wnant les heb gael ei fendith.
Nac ymddiried i'r phyſygwyr,
Nac i un *fetſwn* ſ'ont yn wneuthur,
Rhag dy farw megis Aſa, 2*Cron*.16,12.
Eiſiau ymddiried i'r Goruchaf'.
Nid oes rinwedd ar lyſieuach,
Grym mewn eli na diodach,

I leihau ein cur a'n poenfa,
Os yr Arglwydd ni's bendithia.
Duw ſy'n rhoddi rhad ar lyſiau,
Grym mewn eli a * chyfyrddonau; * *Cyfrwyddyd.*
Lle bendithio Duw, hwy lwyddant,
Lle ni fynno Duw, ni thycciant.
Cais gan hynny fendith hyfryd
Gan dy Dduw ar bob cyf'rwyddyd; *Deut.* 18. 10, 11, 12.
Heb ei fendith ni wna'r penna',
Ond troi'n wenwyn yn dy gylla. *Lef.* 19. 1.
Gochel geiſio help gan ſwynwyr
Yn dy flinder toſt a'th ddolur,
Gado Duw mae'r cyfryw ddynion,
Ac addoli'r gau-dduw Ecron. 2 *Bren.* 1. 1, 6.
Na chais help i'r corph mor enbaid,
Gan y diawl ſy'n lladd yr enaid;
Nid oes un phyſygwr allan
Waeth nâ'r diawl i helpu'r egwan.
Nid yw ſwyn ond * hug i'th dwyllo, * *Twyll.*
Gwedi i ſatan ei dyfeiſio,
I ddifethu d'enaid gwirion,
Pan y ſwyner dy gleſydon.
Nid yw'r ſwynwr ond apoſtol
Ffalſt i'r diawl i dwyllo'r bobol
Oddiwrth Griſt, mewn poen a thrafael,
I butteinia ar ol y cythraul.
Twyllo'r corph, a lladd yr enaid,
Digio Duw, boddloni diafliaid:
Gwrthod Criſt a'r maint ſydd eiddo,
Y mae'r ſwyn, a'r ſawl a'i credo.
Ceiſio'r cythraul yn hyſygwr,
Ydyw ceiſio help gan ſwynwr;
Ceiſio'r diawl i ddarllain teſni,
Yw â dewin i ymgynghori.
Ceiſio gwir gan dad y celwydd,
Yw ymofyn â d'rogenydd;
Ceiſio help i ladd yr enaid,
Ydyw ceiſio ſwyn hudoliaid.
Na char ſwynwr mwy na chythraul,
Mae'n dy demtio yn dy drafael;

Glyn wrth Grift er maint yw'th flinder,
Cais ei nerth di gei efmwythder.

CVI. *Gweddi'r claf cyn cymmeryd phyfygwriaeth.*

AWDWR iechyd, lluniwr llyfiau,
Rhoddwr rhinwedd, rhwymwr angau,
Tywallt fendith, rhad ac iechyd,
Ar y *fetfiwn* wyf fi'n gym'ryd.
Ti ordeiniaift amryw lyfiau,
Diod, eli, a § chyfyrddonau, § *Pethau i iachau pobl.*
I ymg'leddu meibion dynion
Yn eu gwendid a'u clefydon.
Yn ol d'ewyllys a'th ordeiniaeth,
'Rwyf fi'n cym'ryd phyfygwriaeth,
I oftegu peth o'm didri;
Rho dy fendith, Arglwydd, arni.
Gwn na ddichon un creadur,
Na chyf'rwyddyd laefu ngwewyr,
Oni byddi di'n bendithio
'Rhyn a roer, a'r hwn a'i cym'ro.
O gan hynny prudd fendithia
Y gyf'rwyddyd a gymmera',
Fel y rhoddo hyn im' gyfur.
Ac y llaefo fy holl wewyr.
Peraift gynt i'r ffigys difias
Iachau cornwyd Hezecias,
Par, O Arglwydd, i'r gyf'rwyddyd
Hon roi minnau gyflawn iechyd.
Ti iacheaift olygon Tobi,
Gynt ag afu'r pyfg annigri';
O iacha fy nolur innau
A'r rhai hyn dy gyfyrddonau.
Fel y peraift i ddw'r Jordan
Olchi ffwrdd wahanglwyf Naaman,
Felly par i'r ddiod yma
Dynnu ffwrdd fy nghur a'm poenfa.
Fel y peraift gynt i'th boeryn *Marc* 8.23.
Roddi golwg i'r cardottyn;
O par, Arglwydd, i'r gyf'rwyddyd
Hon roi minnau gyflawn iechyd.
Gwn y gelli trwy'r fath foddion
(Neu heb un) iachau clefydon;

Llaesa nolur 'nol dy allu,
Os budd d'ewyllys yn cenhadu.

Ond os pwyntiaist ti fy niwedd,
A'm llwyr dynnu i'th drugaredd,
Duw, d'ewyllys di gyflawner;
'Rwy'n ymostwng it' bob amser.

Ond rho i mi ras a phwer,
Grym a gallu y cyfamser,
Ddwyn fy nolur yn ddioddefgar,
Megis cristion yn ddidrydar.

A rho d'Yspryd i'm cyfnerthu,
Yn fy mlinder i'th foliannu,
Ac i ddwyn dy groes a'th wialen
Yn ewyllysgar ac yn llawen.

A phar i mi fod yn barod
Ddwad attat ac ymddattod;
A rho f'enaid yn ewyllysgar
Yn dy ddwylo, Arglwydd hygar.

O fy Arglwydd, gwn y gallu
Fy iachau yr awr y mynnu;
Oni fynnu laesu mlinder,
Duw, dwg f'enaid i esmwythder.

CVII. *Gweddi ferrach i'r claf i'w harfer yn ei glefyd.*

DUW trugarog, Tad diddanwch,
Awdwr iechyd, Pen dedwyddwch,
Gwrando waedd pechadur nychlyd,
Sydd yn beggian cymmorth gennyd.

Daeth fy mechod yn dy olwg,
A'm holl fuchedd oedd yn cynddrwg;
A chan gymmaint oedd fy nhraha,
Ti ddanfonaist glefyd arna'.

Haeddais, Arglwydd, drymmach penyd,
Dostach dwymyn, casach clefyd;
Blinach dolur, byrrach amser,
Pe'm talasid wrth gyfiawnder.

Ti allasid dorri ngwddwg,
Am fy muchedd oedd yn cynddrwg,
Neu fy moddi, neu fy mwrddro,
Heb roi amser im' ymg'weirio.

'Nawr 'rwy'n gwel'd dy gariad attaf,
Yn rhoi clefyd c'ruaidd arnaf,

I'm ceryddu am f'anwiredd,
Ac i'm cyffro wella muchedd.
  Nid ewyllysi, Duw'r holl gysur, *Ezec.*33.11.
Ddrwg farwolaeth un pechadur?
Ond yn hytrach gwella ei fuchedd,
I gael bywyd a thrugaredd.
  Trwy'r fath glefyd blin corphorol, *Amos* 4.10.
'Rwyt im' cofio mod yn farwol;
A thrwy flinder tost a thristwch,
'Rwyt i'm gwawdd i edifeirwch.
  Er im' haeddu dy ddigofaint, *Sal.*6.1.
A'th lidiawgrwydd tost yn gymmaint,
Arglwydd grasol, na cherydda
Fi â'th lid a'th gerydd mwya'.
  Mae dy saethau gwedi nghlwyfo,
Mae fy esgyrn gwedi'u briwo,
Mae fy yspryd gwedi gryddfu;
Arglwydd, dere i'm diddanu.
  Tydi a'm clwyfaist am fy mechod,
Minneu haeddais hyn o drallod:
Nid oes neb, fy Nuw, am hynny,
Ond tydi, all fy ngwaredu.
  Tydi sy'n lladd ac yn bywhau,
Tydi sy'n clwyfo a iachau:
Yn dwyn i'r bedd, yn atgyfodi,
Yn trugarhau, ac etto'n cospi.
  Tydi, O Dduw, sy'n danfon clefyd,
Tydi yn unig all roi iechyd: 1*Sam.*2.6.
Nid oes neb all laesu nolur, *Hos.*6.1.
Ond tydi, na rhoi im' gysur.
  Er dy fwynder a'th drugaredd,
Er dy enw a'th anrhydedd,
Maddeu mhechod, llaesa nolur,
Gwared f'enaid, rho im' gysur.
  Oni phwyntiaist fy marwolaeth,
A diweddu fy milwriaeth;
Arglwydd, llaesa ar fy mlinder,
A rho i mi beth esmwythder.
  Dychwel, Arglwydd, i'm diddanu;
O fy Nuw, pa hyd y sorri?
Gwel fy mhoen a chlyw fy nghwynfan,
Tro dy lid, iacha fi weithian.

Cyweiria ngwely yn fy nghyftudd,
Tro fy nhriftwch yn llawenydd;
Rhwyg fy fach a fych fy neigrau,
Llaefa mhoen, iacha noluriau.

Maddeu mechod, tor fy nghlefyd,
Tyn fi o'r ffos a rho im' iechyd,
Fel y gallwyf dy glodfori
Yn fy mywyd a'm holl allu.

Yn y bedd, O Dduw, pwy'th goffa?
Yn nhir angeu pwy'th glodfora?
Sparia mywyd, Arglwydd grafol,
I'th glodfori gyd â'r bywiol.

Felly canaf it' yn hyfryd *Sal.* 30.9,12.
Glod a moliant am fy mywyd;
A thr'o ynof rym na chwythiant,
Mi ddatganaf dy ogoniant.

CVIII. *Rhybudd i'r claf i wneuthur ei ewyllys mewn pryd, a dofparthu ei bethau mewn ofn Duw.*

ONI wnaethoft etto ‡ d'ewyllys, ‡ *Llythyr cymmun.*
Dod dy dŷ mewn trefn weddus; *Efay* 38.1.
Dofparth d'olud megis criftion,
Yn grift'nogaidd ac union.

Cais gan Dduw ei nefol Yfpryd,
I roi i ti lawn gyfrwyddyd;
I gyfrannu d'olud bydol,
Yn ol 'wyllys dy Dad nefol.

* Rho dy enaid bach i'th Brynwr, *Act.* 7-59.
Crift a'i pia, dy Iachawdwr;
Rho dy gorph i'r ddae'r lle cafad,
Hyd nes delo'r adgyfodiad.

Tyn fel Jacob ddefaid Laban,
A'r dâ eraill o'th ddâ allan;
Rho i bob dyn ei iawn eiddo, *Rhuf.* 37.7.
Tâl dy ddyled cyn ymado.

Na ddod geiniog yn d'ewyllys,
O ddâ eraill yn gamweddus,
Rhag dy daflu yn dy gamwedd,
O flaen Duw ar ddydd dy ddiwedd.

* Os buoft fyw yn dduwiol, Efe a dderbyn dy enaid i'r nef; ond ni's gwneir felly, os marw a wnei di yn annuwol, Mat. vii. 21.

Ac na chydgam, ar dy fywyd,
Roi i'th blant anghyfiawn olud;
Ni wna hynny ond eu hela
I gyrwydro a chardotta.

Er na feddech ond tair anner,
I roi rhyngddynt trwy gyfiawnder;
Gwell y llwydda hynny i'th eppil,
Nâ thrwy gamwedd, pe rhoet dair-mil. 2 *Bren*.9.

Gwell y llwyddodd rhandir Abra'm, *Gen*.30.
Nag y llwyddodd teyrnas Joram, *Gen*.31.
A'r gwehilion y ga'dd Iago,
Nâ phraidd Laban gwedi'u hyfo.

Fel y bwyttodd gwinllan Naboth 1 *Bren*.21.
Deyrnas Ahab a'i holl gyfoeth;
Felly bwytty'r geiniog 'fgeler
Faint a feddech trwy gyfiawnder.

Ceiniog ddrwg, pwy bynna'i caffo,
Sydd fel gwartheg truain Pharao,
Rhai fwyttafant ei ddâ tewon,
Heb fod llawnach eu coluddion.

Rho gan hynny'r hyn fydd union,
Rhwng dy blant, a'th ffryns, a'th weifion,
Ac na chydgam, ar dy fywyd, *Ecf*.16.
Roi i neb anghyfiawn olud. 1 *Bren*.17.

Fel y llwyddoddd Duw y manna,
Toes y weddw o Sarepta, *Gen*.25.5,6.
Olew'r weddw dlawd a'i meibion;
Felly llwydda'r gronyn cyfion.

Rho i Ifaac dy etifedd
Ei 'tifeddiaeth yn ddiduedd,
A rho i'r lleill o'th blant o bob tu,
Fodd i fyw yn ol dy allu.

Rho i'th wraig ei chyflawn draian,
Na ro iddi lai nâ'i chyfran;
O rhoi 'chwaneg, mae yn rhigyl
Fod y fath yn 'nafu'r eppil.

Na'd was ffyddlon heb heb ei wabar,
Rho i'th gar-tlawd help o'r heinar;
Na'd dy weithiwr heb ei gyflog, *Iago* 5.4.
Crio'n doft y wna'r fath geiniog.

Cofia'r 'fengyl, cofia'r eglwys,
Cofia'r *Coledge* a'th *faintainwys*;

Cofia'r wlad a'r dref i'th fager,
Os bydd gennyt fodd a phwer.

Os goludog wyt heb eppil,
Ac yn caru Crist a'i 'fengyl,
Adail ysgol rydd yng Nghymru,
Lle mae eisiau. Dysg sy'n methu.

Cofia Joseph sy'n y carchar,
Rho beth help i borthi Lazar:
Rho yn awr dy rodd tra gallech,
Dyma'r rhodd ddiweddaf roddech.

Maent a roech i'th blant a'th drasau,
Dy wraig, a'th blant, a'th ffryns a'u piau;
Y maint a roech i'r tlawd a'r truan,
'Storio 'rwyt i ti dy hunan.

Dyro 'nol yr hyn a dreisiaist, *Luc* 19.8
Gwna iawn dâl i'r rhai orthrymmaist;
Tâl dy ddyled cyn dy symmud,
Yn y * pwll nid oes ddychwelyd.

Dyro'r badell, dyro'r crochan,
Dyro'r tai, a'r tir, a'r arian,
Yn eu hol i'r sawl a'u piau,
Rhag dy fyn'd i'r didrangc boenau.

Na'd i dyddyn y dyn gwirion,
'Rhwn a dreisiaist yn anghyfion,
Beri it' golli teyrnas nefol,
Rho ei dyddyn yn ei wrthol.

'Nawr di elli megis Zacheu',
Wneuthur iawn am dy droseddau;
Yn y pwll ni bydd i'th bwer *Preg*.9.10
Dalu'r hatling pan ofynner.

Praw gyttuno â'th wrth'nebwr, *Mat*.5.25
Cyn dy fyn'd o flaen y Barnwr,
Rhag dy droi i'r *dwngwn* isaf,
Lle rhaid talu'r hatling eithaf.

'Nawr ni fynni mwy nâ Phagan
Ddilyn cyngor Crist ei hunan;
Ond di fwytti gig dy freichiau,
Eisiau ei ddilyn, cyn mawr ddyddiau.

* Nid oes dychwelyd o'r pwll i wneuthur iawn i'r rha a orthrymwyd, ond y mae dychweliad oddi yno i gael barn 1 Cor. 9. 2.

Pa ſawl mil ſy'n nhân uffernol,
Eiſiau rhoddi trais yng ngwrthol;
Rhai a roddent heddyw'r holl-fyd
Yn ſarhad i'r tlawd pes cym'ryd.

Os yn erbyn Duw y pechu,
Ti gei bardwn ond 'difaru;
Os yn erbyn dyn, ni faddai
Duw, nes caffo'r tlawd a ddylai.

Os bu farw'r rhai a dreiſiaiſt,
Rho i'w plant y maint yſpeiliaiſt;
Ac os aethont o'r wlad allan,
Rho eu rhan i'r tlawd a'r truan.

Na ro rhwng dy blant yn angall
Y peth a biau un dyn arall,
Ni wna hynny ond dy ddamnio,
A throi d'eppil i gyrwydro.

Na ro rhwng dy blant trwy 'wyllys,
Ddim ynnillaiſt yn gamweddus,
Trwy uſuriaeth, trais, neu ffalſtedd;
Drwg y llwyddant yn y diwedd.

Craffa blant yr ocrwyr mawrion,
A'r gorthrymwyr, a'r carn-lladron,
Yn ceiniocca mewn eglwyſydd,
Ac yn dwyn y waled beunydd.

Felly tygfydd i'th blant ditheu,
Os rhoi iddynt dda ‡ anniſeu, ‡ *Drwg.*
Os fe ddial Duw yn rhigyl 1 *Theſ.*4.6.
Trais ar dadau ac ar eppil. *Ecſ.*20.5.

Dod di ofon Duw gan hynny
O flaen d'wyneb wrth ddoſparthu,
Rho i bob-dyn ei ddâ cyſion,
Rhanna'r cwbl lle b'o achoſion.

Duw a roddo it' gyfrwydd-deb,
Ac a'th nertho wneud dy atteb;
Duw a'th gadwo rhag camſyniad,
Duw f'o Ceidwad ar dy enaid.

CIX. *Llythyr yr anrhydeddus Syr Lewis Mansel, o Fargam, yn Sir Forganwg, (fel yr ydys yn tybied) at Ficer Prickard.*

GWR wyf ſy'n dioddef maethgen,
Rhyw bendro doſt ſy'm talcen,

Er's amſer hir, (O Arglwydd hael)
Heb allael cael ei orphen.

Ceiſiais gyngor gyd â *phractus*,
Doctoriaid gwyr ſynhwyrus;
I geiſio help, nid llai ſy mloedd,
Er myn'd tros foroedd tryblus.

Pan ffaelodd lles corphorol,
'Rwy'n danfon at wyr duwiol,
Eglwyſig call dros dir a môr,
I geiſio cyngor hollol.

I ddyſgu p'un mae'r Hael-dad,
O ddigter neu o gâriad,
Yn danfon ar ei bridwerth bla,
Rhyw groes neu boenfa irad.

CX. *Atteb i'r Anrhydeddus Syr Lewis Mansel, yn ei glefyd.*

ANWYL Griſtion, clywais dd'wedyd,
I Dduw ddanfon arnat glefyd;
Ac na wyddoſt p'un o gariad,
Ai o gas yr helodd attad.

'Rwy'n dy atteb mewn byr eiriau,
Ac yn myneg i ti'n olau,
Nad o gerydd, ond o gariad,
Y rhodd Duw wialen arnad.

Nid dy elyn ſy'n dy faeddu,
Dy Dad graſol ſy'n dy ddyſgu,
Trwy ddaroſtwng dy gnawd diraid,
Fel y galler cadw d'enaid.

Nid yw'r clefyd hwn ond cennad
Helodd Criſt dy Brynwr attad,
I dreio'th ffydd a'th hir amynedd,
A'th rybuddio am dy ddiwedd.

Derbyn gennad Duw'n roeſawgar,
Ymddwg tano yn ddioddefgar,
A rho ddiolch o wraidd calon
I'th Dad nefol am ei ddanfon.

Ni wna'r clefyd niwed i ti,
Mwy nâ'r *pwrg* ſy'n carthu'r geri,
Ni wna *hindrans* ond dy buro,
I gael oes o newydd etto.

Ni bu gwin erioed heb waddod,
Ni bu ûs erioed heb ſorod;
Ni bu wenith heb ei faſglau,
Ni bu ddyn ond un heb feiau. 1 *Ioan* 1.8.

Yr oedd Adda hen a'i bechod,
Lot a'i loſgach, Noa a'i fedd'dod;
Moſes, Aaron, a'u camweddau; *Num.*20.10.
Peder, Paul, â mil o feiau.

Gwybydd ditheu'r marchog hyfryd,
Er hawddgared yw dy fywyd,
Nad wyt heb ryw fai i'th ddiblau,
Can's dyn wyt er maint yw'th ddoniau.

I nithio d'ûs, i doddi'th ſorod,
I wella'th fai, i dynnu th waddod; *Sal.*19.12.
I ddofi'th gnawd, i nerthu d'yſpryd,
Y danfonodd Duw dy glefyd.

Nid i'th waethu, ond i'th wella,
Nid i'th faeddu nac i'th ddifa;
Ond i'th ddyſgu a'th gyf'rwyddo,
Y mae'r Arglwydd yn dy daro;

Er troi heibio fydol foethau,
A gwir hoffi nefol ddoniau,
Caſhau'r byd a'r maint ſydd yntho,
A dilyn Criſt â'th draed a'th ddwylo.

Rho fawr foliant prudd gan hynny,
I'th Dad nefol am dy ddyſgu,
'Rhwn ſy'th wneuthur trwy ſerchawgrwydd
Di'n gyfrannog o'i ſanƈteiddrwydd.

Y neb a garo Duw, fe'i coſpa, *Heb.*12.10.
Pob mab anwyl fe'i ffonnodia:
Y dyn ni choſpa Duw ei bechod,
*Baſtard* yw, nid mab o briod. *Heb.*12.3.

Mae Duw'n coſpi'r rhai anwyla'
A rhyw groes neu gilydd yma,
Rhag eu myned yn ddamnedig, 1 *Cor.*11.32.
Gyd â phlant y byd gwrthnyſig.

Nid glân gwenith nes ei nithier,
Nid gwyn cambrig nes ei golcher,
Nid pur aur-coch nes ei doddi,
Nid da Criſtion nes ei goſpi.

Ni ry'r grawnwin nes eu gwaſgu,
Ni ry'r thus *ſent* nes ei fygu;

Ni ry'r fflint dân nes ei ffyſter,
Na dyn ffrwyth da nes cyſtuddier.
Y *cloves* arogla'n well o'u pwnian,
Y *vine* a danna'n well o'i chroppian;
Y balm a dyf yn well o'i blygu,
A'r dyn a fydd yn well o'i faeddu. 1 *Pedr* 1.6,7.
Pa fwyaf ſangir ar y gammil,
Mwy arogla eu gwynt yn rhigyl;
Pa fwyaf gwaſger ar y Criſtion,
Mwyaf fydd ei ffydd a'i ofon.
Yſtyr mai er lleſiant i ti
Y mae'r Arglwydd yn dy goſpi;
Ni phery'r coſp ond ennyd fechan,
Fe bery'r § lles dros hir oes gyfan.
Na wan-ffyddia yn dy glefyd,
Yn llaw Duw y mae dy fywyd;
Fe rydd oes ac iechyd etto,
Ac eſmwythder ond ei geiſio.
Cymmer gyſur, cod dy galon,
Ymwrola, bydd obeithlon;
Fe ddaw Criſt â help ar fyrder,
Ac a laeſa d'aneſmwythder.
Y llaw a'th d'rawodd, honno'th helpa, *Hoſ.*6.1.
'Rhwn a'th glwyfodd a'th elia;
A'r neb a yrrodd attat glefyd,
Hwnnw'i tyn, gan roi it' iechyd.
Galw am help ar Dduw dy Geidwad,
Dy Dad yw, fe wrendy arnad:
Cais ei gymmorth, ac fe'i dyru;
Llef yn daer, ni fedr ballu. *Mat.*7.7.
Pa beth bynnag yw dy glefyd,
F'all ei laeſu a'i ddiffoddyd;
Cais ei gyfnerth ac fe'i llaeſa,
Tryſta yntho ac ni'th dwylla.
Oni's llaeſa'r awr y mynnech,
Pwylla, aros dan dy orthrech;
Fe ddaw help o'r nef yn danbaid,
Pan f'o gwell ar les dy enaid.
Ni chei aros awr ymhellach
Yn dy glefyd, na myn'd glafach,

§ Sef, os bydd ef yn gweled hynny yn dda i ti.

Nag y gwelo Duw'n angenrhaid,
Er lleſhad i'th gorph a'th enaid.
Goddef ronyn bach o gyſtudd,
Ti gei gwedi'n hir lawenydd:
Bydd ddioddefgar nes y delo,
Ti gei oes o newydd etto.
'Rhwn a nerthodd Job mor hygar,
Ddwyn ei glefyd yn ddioddefgar,
Nerthed ditheu â'i lân Yſpryd, *Luc* 22.43.
Mor ddioddefgar ddwyn dy glefyd.
A'r hwn helodd un o'i angylion
I gymfforddi'i fab wrth Cedron,
Helo o'r nef ei angel hyfryd,
I'th gymfforddi yn dy glefyd.
Ti ro'iſt ſiampl dda'n dy iechyd,
I ni fyw mewn buchedd hyfryd;
Rho i ni etto ſiampl hygar,
I ddwyn clefyd yn ddioddefgar.
Godde'th nefol Dad dy drinio,
Goddef dynnu'r draen ſy'th bigo;
Goddef waſgu'r crawn lloſgedig,
Carthu'r clwyf a ſugno'r yſig.
Diodde' i Griſt gael tynnu'n gwbwl
Gol y ſarph ſydd yn dy ſawdwl,
Rhag i'r gwenwyn ddyrcha'r galon,
Ac *inffecto*'r enaid gwirion.
Mae Duw'n garcus iawn am danad, *Sal.* 121.3.
Gwell it' oddef loes nâ bagad;
Mae'n dy *bwrgo* 'nawr trwy gyſtudd,
I gael iechyd yn dragywydd.
Mae'n dy wneuthur yma'n addas,
I gael rhan o'i nefol deyrnas,
Mae e'n carthu'r holl ddrygioni,
Sy'n dy rwyſtro i wir oleuni.
'Rwyt ti'n un o faen y demel,
Rhaid dy naddu gyd wrth lefel;
Rhaid i'r mwrthwl dy lwyr bario,
Os yn y nef y mynnu drigo.
'Rwyt ti'n wenith i'r Gorucha',
Rhaid dy ddyrnu tra fech yma;
Tynnu'r ûs a'r col oddiwrthyd,
Cyn b'ech i Griſt yn fara hyfryd. *Mat.* 2.12.

Ti ge'ſt lawer o feluſder
Ar law Duw er dechreu d'amſer, *Job* 2.10.
Rhaid it' brofi peth o'r chwerw
Gyd â'th Brynwr cyn dy farw.

Yf o'r cwppan chwerw lymmaid,
Yfodd Criſt o'th flaen ei lonaid;
F'orfydd ar bob gwas ei *daſto*;
Nid yw'r diſgybl well nâ'i athro.

Cofia i Griſt dy Brynwr odde'
Dros dy bechod, ïe, a minne',
Fwy o flinder, ing, ac yſig;
O goddefwn ninneu ychydig!

Yſtyr nad oes ſanct yn gorphwys,
Mewn gogoniant ym mharadwys,
Na ddioddefodd fwy o gyſtudd;
Goddef ditheu a bydd lonydd.

F'orfu ar Abel odde'i fraenu,
F'orfu ar Joſeph odde'i werthu;
F'orfu ar Eſay odde'i lifo,
Cyn cael myn'd i'r nef i drigo.

F'orfu ar Stephan odde'i bwnian,
F'orfu ar Lawrens odde'i frwylian;
F'orfu ar Iago odde'i wanu,
Cyn cael nefoedd i'w meddiannu.

Fe orfu ar Bedr odde'i hoelio,
F'orfu ar Barth'lom odde'i flingo, *Act.*12.2.
Fe orfu ar Ifan odde'i ferwi,
Cyn cael myn'd at Dad goleuni.

Nid oes un yn credu'n gywir *Ioan* 21.18,19.
Yng Nghriſt Ieſu, hyn ſydd ſicr,
Nad rhaid iddo odde'n rhyw-fodd,
Gyſtudd mawr cyn myn'd i'r nefoedd. *Act.*14.22.

Nid eir o'r Aipht i'r Ganaan hyfryd,
Ond trwy'r môr a'r mynydd tanllyd;
Nid aiff neb i'r nef i daring,
Ond trwy'r porth a'r llwybr cyfyng. *Mat.*7.13.

Mae'n rhaid dwyn y groes yn gyntaf,
Cyn cael dwyn y goron bennaf:
Ni ddarllenais yn fy oes,
Gael y goron heb y groes. *Mat.*16.24.

Dwg dy groes fel milwr ffyddlon,
Ti gei gwedi'n ddwyn y goron: 2*Tim.*2.12.

Cyd-ddioddef gyd â'r Iesu,
Ti gei gwedi'n gyd-deyrnasu.

Na chais nefoedd ar y ddaear,
Na chais wynfyd yn rhy gynnar;
Na chais iechyd didrangc § dewlwys, § *Diloes.*
Nes y delech i baradwys.

Ni cheir melus heb y chwerw,
Ni cheir gwynfyd nes in' farw;
Ni cheir coron heb y groes,
Ni cheir nefoedd heb ryw loes.

Ni cha'dd un o'r patriarchiaid,
Na'r prophwydi, na'r merthyriaid,
Na'r 'postolion, na'r Messia,
Fyn'd o'r byd heb lawer gwasgfa.

Na chais ditheu, fy anwyl ddyn,
Gael y peth na chafodd un-dyn;
Ond ymddyro yn ddi-drydar,
Ddwyn dy ddolur yn ddioddefgar.

Cofia i Grist dy Brynwr odde'
Mwy o flinder am dy feiau:
Cofia ei groeshoelio drosot,
Ti anghofi'r loes sydd ynot.

Ac na feddwl nad o gariad
Y rhodd Duw y clefyd arnad,
I'th siwrhau dy fod yn un
O'i ‖ etholedig blant ei hun.

Cofia fod pob peth yn gweithio
Ar y goreu i'r dyn a gretto,
Hyd yn oed ei glwyf a'i glefyd,
A'i golledion a'i holl adfyd.

Cofia hefyd, nos a boreu,
Nad all croes, nac ing, nac angeu,
Na dim arall ein gwahanu
Oddiwrth gariad Duw a'r Iesu.

'Rhwn a gododd ei ffrynd Lazar
Yn iach o'r bedd tan y ddaear,
Hwnnw'th gotto yn iach-lawen
O'th glaf-wely'n wych drachefen.

'Rhwn a 'spariodd fywyd Isaac,
Gwedi offrwm ar ben Moriac,

‖ Fe ddichon y credadyn edifeiriol sicrhau ei hunan o hynny.

Hwnnw 'ſpario'th fywyd dithau
Etto ennyd o flynyddau.

'Rhwn a helodd gynt Eſaias
I iachau clwyf Hezecias,
Hwnnw helo o'r nef angel,
I iachau Syr Lewis Manſel.

CXI. *Rheſymmau yn cyffroi'r claf i fod yn ddioddefgar.*

ONI bae fod yn angenrhaid
Doſi'r corph i wella'r enaid,
Ni ddanfonai Duw glefydon
Byth ar un o'i anwyl feibion.

Yr oedd Duw yn gwel'd dy enaid
Yn glaf iawn o bechod diriaid;
Nid oedd lun i gadw'th fywyd,
Nes dy goſpi â'r fath glefyd.

Oni bu'ſai'r cwppan chwerw,
Fe allaſai d'enaid farw
Yn ddiſymmwth heb *repento*,
A myn'd dros fyth i boenyddio.

Trwy gyſtudd corph a chlefyd diriaid *Sal.*119.
Y mae Duw'n iachau dy enaid, 67,71.
Ac yn d'arwain trwy 'difeirwch
At dy Griſt i gael ei heddwch.

Trwy glefydon mae Duw'n tynnu
Dyn i geiſio cymmorth Ieſu,
A gwir iechyd pur i'w enaid,
Rhag ei fyn'd i uffern enbaid.

A chlefydon bach amſerol
Mae'n rhag-achub poen trag'wyddol;
Ac wrth goſpi'r corph mor ddiriaid,
Doſi'r cnawd a * chadw'r enaid. * *Yr enaid graſol.*

Nid clefydon, ond dialau
Blin a haeddodd dy bechodau;
Dwg gan hynny'n ddioddefgar
Y fath glefyd c'ruaidd hygar.

Fe allaſai dorri d'wddwg,
Am dy fuchedd oedd yn gynddrwg,
A'th roi i uffern i boenydio,
Heb roi amſer it' *repento*.

Rho gan hynny yn ddiwegi
Ddiolch iddo am dy gofpi,
Lle gallafai dy lwyr ddifa,
A'th roi i frwylian yn gehenna.

Fe allafai Duw dy roddi
Tan law gelyn cas i'th gofpi;
Lle mae'n rafol iawn yr wan,
Yn dy gofpi â'i law ei hunan.

Nid yw'r Arglwydd yn dy blago,
Megis gelyn i'th andwyo,
Ond yn dirion yn dy faethrin,
Megis tad yn trin ei blentyn.

Er bod d'Arglwydd yn dy faeddu,
Mae er hynny yn dy || garu; || *Os wyt yn rafol.*
Pob gwialennod ag a roddo
Sydd fel *plafter* i'th elio.

Ni rydd Duw fydd mor ddaionus,
Na'th Dad nefol fydd mor garcus,
Glefyd arnat na chaledi,
Na wnel i ti fawr ddaioni.

Fe ŵyr Duw beth yw dy ddolur,
Dy rym, dy ryw, dy naws, dy nattur;
Fe rydd dy groes yn ol dy gyflwr,
Ni bydd dy bwn uwchlaw dy gryfdwr.

Er bod aloes yn beth chwerw,
Mae e'n achub dyn rhag marw;
Er bod clefyd yn dy flino,
|| Mae'n dy achub rhag dy ddamnio. || *Os edifarhei.*

Y mae miloedd yn gehenna,
Rhai a ddygent fwy o boenfa,
Dros fil miloedd o flynyddau,
Pe caent rydd-did o'u poenydiau.

Arwydd teg o'i ras a'i ffafar,
Yw cael cofp trwy glefyd hawddgar,
Sydd yn gwneuthur dyn yn barod,
Cyn yr el o flaen y Drindod.

Clefyd fydd fel chwip i'th gofpi,
Nid fel cleddyf llym i'th dorri;
Swmbwl awchlym i'th ddihuno,
Ac nid bwyall i'th ddiftrywio.

Ffuft i ddyrnu ffwrdd dy ffwlach,
*Ffan* i nithio dy holl fothach;

Ffwrn i buro dy amhruddion,
Chwip i'th gofpi yw clefydon.

Nid da mêl i'r llawn ddigonol,
Nid da gwynfyd i'r annuwiol;
Nid da gwin i'r poeth ei golydd,
Nid da iechyd i'r anufudd.

Nid oes arnat gymmaint dolur
Ag a fu ar rai o'th frodyr,
Sydd yr wan mewn efmwythder
Yn y nefoedd gwedi'r blinder.

Bu ar Lazar glefyd flinach,
Bu ar Job ddoluriau trymmach;
Bu ar Grift ei hun fwy blinder,
Maent yr wan mewn efmwythder.

Ac os titheu fydd ddioddefgar,
Fe rydd Duw it' hyn o ffafar,
Fe wna naill ai llaefu'th flinder,
Ai fe'th gymmer i efmwythder.

CXII. *Ymddiddanion cyfurus rhwng y claf duwiol a'i enaid yn erbyn ofn angeu.*

O FY enaid, pa'm yr ofni,
Fyn'd at Grift a fu'n dy brynu,
Ac a gollodd waed ei galon
I'th ryddhau o law d'elynion?

* Pa'm yr ofni fyn'd i'r nefoedd,
Lle mae Crift yr hwn a'th brynodd,
A'th Dad nefol, a'r Glân Yfpryd,
A'r holl faint mewn braint a bywyd?

Mae fy Mlaen i yno eifwys,
A'm Iachawdwr 'rhwn a'm prynwys;
Crift tyn finneu d'aelod attad,
Er anhawfed gennyf ddwad.

* Ni ddichon y dyn diras ddywedyd fel hyn wrth ei enaid, o herwydd os bydd efe marw yn ei bechod, heb ffydd ac edifeirwch, ni chaiff efe fyned i'r nefoedd, 1 Cor. vi. 9, 10. ac am hynny, tra fyddo ef yn aros ac yn byw yn ei bechodau, heb droi oddi wrthynt, y mae gantho achos i ofni. Edifarha gan hynny, bydd ddyn newydd, grafol, gan ymheddychu â Duw trwy Grift, ac yna tydi a elli ddywedyd, O fy enaid, pa ham yr ofni? &c.

O fy enaid, cwyn dy galon,
Pa'm yr ofni mor echryflon:
Gwel Fab Duw, a'i waed, a'i wely,
A dynnodd ffwrdd oedd raid it' ofni.
O fy enaid, gwel dy Brynwr,
Gwel dy Geidwad a'th Iachawdwr;
Gwel dy bardwn, gwel dy gartre',
Gwel y nef a'r hwn a'th bie.
O nac edrych ar dy bechod,
Gwel yr Oen a laddwyd drofod;
Ac nac ofna wedd y Barnwr,
Crift ei Fab yw dy Ddadleuwr. 1 *Ioan* 2.1.
Ac nac ofna'r angeu melyn,
Crift a dynnodd ffrwyth ei golyn: 1 *Cor*. 15.55, 57.
Ni all angeu ond dy fymmud
O'r byd hwn i dir y bywyd.
Nac arfwyda ruthrau fatan,
Gwel angylion Duw i'th *waitian*, *Luc* 16.22.
A Chrift Iefu â faith llygad,
Ddydd a nos bob awr i'th wiliad.
Ac nac ofna'r bedd llydychlyd,
Gwely Crift yw hwn, f'anwylyd;
Y mae'r Prynwr gwedi'i dwymo
I bob Criftion nes cyfodo.
Na wna bris o uffern boenau,
Gwel gan bwy y mae'r allweddau:
Gan dy Grift y mae cadwriaeth
Allwedd uffern a marwolaeth.
O gan hynny cwyn dy galon,
Pa'm yr ofni mor echryflon?
Gwel Fab Duw, â'i waed a'i † weli, † *Clwyfau*.
Fe dynnodd ffwrdd oedd raid it' ofni.
Cymmer gyfur, cwyn d'olygon,
Dring uwchlaw pob daearolion;
Gwel y nef a brynwyd i ti,
A'r 'tifeddiaeth fydd it' ynthi. 2 *Tim*. 4.8.
Gwel dy orfedd, gwel dy goron,
Gwel dy ‖ balmau a'th wifgoedd gwynion,
Y rhai a brynodd Mab Duw i ti
Fry yn nheyrnas y goleuni.

‖ Palmwydd i arwyddoccau buddugoliaeth, Dat. 7. 9.

Gwel dy Grist a'i holl angylion,
Gwel y saint a'r holl rai cyfion,
Yn dy ddisgwyl ddwad attyn',
Ac yn barod bawb i'th dderbyn.

Gwel dy delyn, gwel dy *feiol*,
Gwel dy wers a'th ganiad nefol,
Fry yn disgwyl fyn'd i ganu,
I'th Iachawdwr am dy brynu. *Dat.*15.2.

Llef gan hynny am d'ymddattod,
I gael myn'd at Grist dy Briod,
O garchardy'r corph a'th lygrwys, *Phil.*21.3.
I gael trigo ym mharadwys.

Lle mae Duw a'i holl angylion,
Crist a'i saint, a'i apostolion,
Mewn gogoniant a rhialtwch,
Yn teyrnasu mewn dedwyddwch.

Nid oes yno ddim anghysur, *Dat.*21.4.
Poen na chlefyd, cwrp na dolur,
Na marwolaeth, na dim tristwch,
Ond llawenydd a dedwyddwch.

O hiraetha am gael hedfan
I'r wlad lawen hon yn fuan,
At dy Brynwr Crist a'th Briod,
Mae dy neithior ynthi'n barod.

O fy enaid, meddwl dithau
Am d'ymdrwsio yn dy dlysau,
I fyn'd o flaen Crist yn addas,
Yng wisg sanctaidd y briodas.

Golch dy hun yn ffynnon Dafydd, *Zec.*13.1.
Gwaed yr Oen a deigrau cystudd;
† Ymlanha mewn gwir 'ddifeirwch,
Ffydd yng Nghrist, gwiriondeb heddwch.

Gwisg sancteiddrwydd Crist am danad,
A'i gyfiawnder yn lle trwsiad;
Pleth dy wallt mewn gras a gobaith,
Hardda'th frest â chariad perffaith.

Cais dy lamp, a nyn dy ganwyll,
Dwg i'th lusern olew didwyll;

† Crist yn unig sydd yn glanhau yr edifeiriol oddiwrth bechod, Dat. 1. 5.

Gwilia, gwarchod, a gweddia,
Nes del Crist na chwsg, na slwmbra.
  Deffro, disgwyl am dy Briod,
Llef am dano nes ei ddyfod:
Fel yr hydd na orphwys frefiad,
Nes del Crist dy Briod attad.

  Dywed wrtho, Dere weithian,
Dere, Arglwydd, dere'n fuan;
Dere, Iesu Grist fy nghariad,
Dere, tyn fy enaid attad.

  * I dy ddwylo, Arglwydd hyfryd,
Yr wy'n brudd yn offrwm f'yspryd;
Can's ti prynaist, Duw'r gwirionedd,
Dwg ef weithian i'th drugaredd.

CXIII. *Ymddiddan arall rhwng y claf duwiol a'r enaid am ofni marwolaeth.*

*Holiad.* O FY enaid, dywed i mi,
Mewn prysurdeb, pa'm yr ofni
Fyn'd at Grist a'i wir angylion,
O'r byd brwnt a'i holl drallodion.

  *Atteb.* Tost a thrwm yw gorfod gadael
Gwraig a phlant, a ffryns a chen'l;
Tai a thir, a dâ a dodrefn,
Heb eu gweled mwy drachefn.

  O f'anwylyd, cymmer gysur,
Ti gei § olud mewn mwy mesur;
Siwrach ffryns a gwell cyfeillion,
Gyd â Christ a'i wir angylion.

§ *Sef, os grasol wyt ti.*

  Os dy blant a ofna'r Arglwydd,
A'i wasanaethu mewn sancteiddrwydd,
Ti gei wel'd dy blant drachefen,
Mewn gogoniant yn dra llawen.

  Yn lle ffryns a mwyn gyfeillion,
Ti gei'r saint a'r holl angylion
I'th fawrhau a'th gywir garu,
A'th blant eilchwaith i'th ddiddanu.

* Os credadyn edifeiriol sanctaidd wyt, ti elli yn hyderus offrwm dy enaid i ddwylo Crist, canys fe a'i derbyn i'r nefoedd, Act. vii. 59. Luc xxiii. 43. Ond am y rhai sydd yn marw heb roi ufudd-dod i'r Arglwydd Iesu, fe a ddywed wrthynt hwy, Ewch ymaith oddi wrthyf chwi holl weithredwyr anwiredd; Luc xiii. 27.—Gair tost yw hwn.

Gad dy wraig, a'th blant, a'th bobol,
I gadwriaeth dy Dad nefol:
* Rhwyſgwy'r weddw, Tad ymddifad, ** Cynhal-iwr.*
Yw'r Goruchaf wrth ei alwad.

Na wna bris am dan dy olud, *Sal.*146.9.
Nac o'r dodrefn wael ſydd gennyd;
Mae'n y nef fwy ar dy feder,
Nag y feddodd Alecſander.

Na wna bris o'th neuadd lwyd-las,
Mae'n y nefoedd dai o dopas,
Gwedi i Dduw o berls eu gwneuthur,
Yn diſgleirio fel y gwydyr.

Na hiraetha am dy diroedd,
Na'th berllannau, na'th winllanoedd;
Mae 'mharadwys dir ſydd deccach,
Ffrwyth ſydd well, a gerddi || araulach. *|| Mwy hyfryd.*

Na wna gownt am aur nac arian,
Mae'n y nefoedd aur i'w damſian;
Perls a gems yn gweithio'i gwelydd, *Dat.*21.
Aur yn paſio'r holl heolydd. 18,19.

Na wna bris am un o'th ſwyddau,
Mae'n y nefoedd fwy o raddau;
Y mae'r gwaethaf s'ynthi'n 'ffeiriad,
Ac yn frenin mawr ei alwad.

Na wna bris am ddillad gwychion,
Mae 'mharadwys wiſgoedd gwynion,
Yn diſgleirio ar dy gefen, *Mat.*13.43.
Mewn gogoniant fel yr haulwen.

Na wna bris o'th fwyd newynllyd,
Mae 'mharadwys bren y bywyd; *Dat.*22.2.
Manna'n fwyd, * *aqua vitæ*'n ddiod, ** Dwfr y*
Gwledd heb ddiwedd, oes heb ddarfod. *bywyd.*

Na wna bris am ddim difyrwch,
'Rhwn ſydd yma'n blaenu triſtwch,
Mae'n y nefoedd wir lawenydd, *Sal.*16.11.
Sydd yn para yn dragywydd.

Na wna gownt o ddim ſydd gennyd,
Ond ymg'weiria am dy fywyd,
Fyn'd yn rhwydd trwy lawn barodrwydd,
I lawenydd Criſt dy Arglwydd; *Mat.*25.21.

Lle mae mwy o wir eſmwythder,
A dedwyddwch ar dy feder, 1*Cor.*2.9.

Nag all calon dyn chwennychu,
Nac un tafod i fynegi.
Dos gan hynny, dos yn llawen,
Dos at Grist dy Ben, dy berchen;
Gâd y byd a'r maint fydd yntho,
Mam a thad i fyned atto.
Yn lle'r pethau darfodedig
A ge'st yma gantho'u benthyg,
Ti gei bethau na ddarfyddant, *1 Pedr* 1.4.
I'w meddiannu mewn gogoniant.
Ti gei iechyd heb ddim nychdod,
Ac esmwythder heb ddim trallod;
Gwir lawenydd heb ddim tristwch,
Oes heb ddiwedd mewn dedwyddwch.
Ni chaiff clwyf, na haint, na dolur, *Dat.*21.4.
Newyn, syched, nac anghysur;
Trallod, tristwch, ochain, wylo,
Nac un gelyn mwy dy flino.
Ti gei fyw mewn mawr lawenydd,
A dedwyddwch yn dragywydd,
Ymhlith miloedd o angylion,
I foliannu d'Arglwydd tirion,
Ti gei eistedd mewn * cor euraid, * *Tyrfa gantorion*
I glodfori'r Oen bendigaid,
Ac i ganu Aleuia, *Dat.*19.1.
Yn dragywydd i'r Goruchaf'.
Pwy gan hynny na 'madawai
A'r byd hwn, a'i boen a'i bethau,
I fyn'd at ei Brynwr heddy'?
O bae'r Arglwydd yn cenhadu.
Duw agoro dy ddau lygad,
I wel'd teyrnas Crist dy Geidwad;
Duw ro'i Ysbryd i'th gyf'rwyddo
Ymbar'toi i fyned atto.

CXIV. *Agoriad byrr yn erbyn ofn angeu, a'r daioni sy'n dyfod oddiwrth † dduwiol farwolaeth.*

O NA wyddai dyn pa ddoniau
Sydd yn dwad oddiwrth angeu,

† Creffwch ar y geiriau uchod, sef, DUWIOL FARWOLAETH; y maent yn ysgrifenedig felly yng nghopy Mr. PRICHARD: Eithr nid yw efe yn dywedyd fod y daioni hyn yn canlyn marwolaeth y rhai drwg.

Byth ni ofnai ei ddyfodiad,
Ond fe lefai am ei ddwad.

Y mae angeu'n gwneuthur diwedd
Ar ein cyftudd a'n hanwiredd,
Ac yn dwyn o fôr trafferthwch
Ddyn i'r porthladd o ddedwyddwch.

Y mae'r angeu'n tannu'n gwely,
Gwedi'n trafferth i ni gyfgu,
Ac yn rhoddi mawr efmwythder
Gwedi'r trallod toft a'r blinder.

Y mae angeu'n claddu'n beiau,
Ein clefydon, a'n doluriau,
Fel na ddichon pechod mwyach,
Nac un clefyd, flino 'mhellach.

Y mae angeu'n tynnu'r cyfion *Efa.*57.1,2.
Lawer pryd rhag gwel'd trallodion
A ddigwydda yn dra rhigyl
Ar eu gwlad ac ar eu heppil.

Mae e'n tynnu'r rhai gwirionaid,
Sydd ymyfg cas bechaduriaid,
Rhag i'r rhai'n eu hudo i bechu,
Ac i weithio'r peth na's dylu.

Y mae angeu'n diofg dynion
O'u hen frattiau farnllyd bryntion,
I ddillattu'r rhai'n yn helaeth,
Mewn hardd wifgoedd iechydwriaeth.

Mae'n rhyddhau yr enaid hyfryd,
O'r carchardy tywyll tomlyd,
I gael gwel'd goleuni'r Arglwydd,
A'i was'naethu mewn perffeithrwydd.

Y mae angeu toc yn dattod *Phil.*1.23.
Enaid o'r corph caeth i bechod,
Ac heb aros yn cyfylltu
Hwn â'i Briod mawr Crift Iefu.

Y mae angeu'n tynnu dynion
I'r nef oleu at angylion,
O'u tŷ candryll, fydd er's dyddiau 2*Cor.*5.1.
Ymron cwympo ar eu pennau.

Mae e'n tynnu maes o Sodom,
I'r mynydd-dir rhag y 'ftorom,
Ac yn myn'd o'r Aipht i Ganaan,
A'i rai duwiol yn ddiofan.

Y mae angeu'n tynnu dynion
O'r byd hwn i gael y goron *2Tim.4.8.*
A bwrcasodd Crist trwy angeu,
I'r rhai ffyddlon a'i gwasanaethai.

Y mae'n tynnu dyn o'i ofid,
A'i drueni, a'i drist fywyd,
I ogoniant ac hyfrydwch,
I gael byw mewn gwir ddedwyddwch.

Pwy gan hynny ofnai angeu,
Sydd yn helpu dyn mor ddeheu,
I fyn'd allan o bob trallod,
A'i drosglwyddo i lys y Drindod?

Gad i'r Pagans di-rinweddau,
Gad i'r Tyrcod ofni angau;
Ond nac ofned un gwir Gristion
Fyn'd trwy angeu i gael coron.

Dydd ein jubil a'n gollyngdod, *Lef.25.10.*
Dydd ein rhydd-did o bob trallod,
Dydd sy'n gollwng ein heneidiau
O'r carchardy, yw dydd angau.

Dydd ein neithior a'n priodas,
A Christ Iesu'r gwir Fesias,
Dydd ein gwledd a'n * *coronasiwn*, ** Dydd i gael y goron.*
Yw'n dydd diwedd os ystyriwn.

Dydd sy'n gorphen ar ein gyrfa,
Dydd sy'n tynnu o gyfyngdra,
Dydd sy'n talu ein cyflogau,
Dydd y gol yw dydd ein hangau.

Dydd sy'n derbyn i baradwys,
At Fab Duw yr hwn a'n prynwys;
Dydd sy'n rhoddi'r gŵn a'r goron,
Yw dydd angeu i bob Cristion.

CXV. *Gweddi i gyfarwyddo'r claf am y pethau rheitiaf i'w ceisio, ac i fyfyrio arnynt mewn clefyd.*

DUW'r diddanwch llaesa 'mlinder,
Tad tosturi, rho 'mi esmwythder;
Meddyg pob clwyf iacha 'nolur,
Iesu Mab Duw, rho im' gysur.

Tyn fi o dywyll deyrnas satan, *Act.16.18.*
Ac o bob dallineb allan,

Fel y gallwyf wel'd fy mhechod,
A llonyddu fy nghydwybod.
  Gwna fel Dafydd im' *repento*, *Salm.* 51.
Gwna fel Magd'len i mi wylo;
Gwna fel Ninif im' gydnabod, *Jona* 3.
Ac 'mofidio am fy mhechod.
  Gwna 'mi geifio pardwn gennyd,
Fel Manaffe yn ei ofid, 2*Cron.* 33.12.
Ac ymbilian am drugaredd,
Megis Peder, am f'anwiredd.
  Gwna 'im gredu fod im' bardwn *Eph.* 1.7.
Gwedi'i felio â gwaed dy bafiwn;
A bod f'enaid gwedi'i olchi
Yn dy waed oddiwrth ei frynti.
  Gwna fi hefyd yn ddioddefgar
Tan fy nolur megis Lazar,
A rhoi arnat ti fy hyder,
Megis Job er maint fy mlinder.
  Gwna 'mi geifio ymwared gennyd,
O'm trallodion ac o'm clefyd,
Fel Elias o'i flinderau, 1*Bren.* 19.4.
Modd y gwelech fod yn orau.
  Gwna 'mi megis Hezecias,
Droi'r byd heibio a'i berthynas,
A throi f'wyneb at y pared, *Efay* 38.2.
I roi 'Nghrift fy holl ymddiried.
  Gwna im' feddwl am y cyfri' *Rhuf.* 14.12.
Ddydd y farn fydd raid im' roddi, *Mat.* 12.86.
Am y gwaith a'r geiriau ofer,
Oni cheifiaf ras mewn amfer.
  Gwna im' wrando ar d'efengyl,
A'th *bromeifion* ynthi'n rhigyl;
Gwna im' ddala gafael ffyddlon
Ar d'addewid a'th *bromeifion*.
  Gwna im' feddwl am y bywyd
Yr af iddo ar fyr ennyd,
Lle mae fabbath o efmwythder,
Heb na chur, na phoen, na blinder.
  Gwna im' wadu'r byd twyllodrus,
A'i holl wagedd anwireddus,
Ac ymg'weirio ddwad attad,
Yn ddiaros, anwyl Geidwad.

Gwna im' offrwm, heb ddiffygio,
Gorph ac enaid yn dy ddwylo,
Ac ymbilio hyd y diwedd
Am dy ffafar a'th drugaredd.

CXVI. *Diddanwch rhagorol i'r enaid galarus yn erbyn gwan obaith.*

O Fy enaid, pa'm yr ofni
Faint dy bechod os 'difaru?
Lle bu'r Iesu farw drosod,
I'th ryddhau oddiwrth dy bechod.

Pa'm yr ofni farn y Barnwr,
Crist yw'th Dwrnau a'th Ddadleuwr,
Mab yr Ustus trwy farwolaeth,
A'th ryddhaodd o ddamnedigaeth. *Ioan* 3.19.

Ni chondemnir yn drag'wyddol
Un a gretto 'Nghrist yn fywiol;
Ond hwy basiant wrth eu symmud,
O farwolaeth i wir fywyd.

O fy enaid, ymlonyddа,
Dy Dduw grasol a'th gyfiawna; *Rhuf*.8.33.34.
Pwy all gwedi'n dy gondemnio?
Mae Crist drosot gwedi'i hoelio.

Crist â'i waed a ylch dy bechod,
Ac a'th wnaiff mor wyn â'r manod:
Er dy fod mor goch a'r 'sgarled, *Esay*.1.18.
Crist a'th ylch mor wyn a'r foled.

Yr haul a * riwlia'r cwmmwl tewaf, * *Agor*.
Sebon ylch y dillad buttraf;
§ Rhinwedd Crist a gudd dy frynti,
Ei waed a'th ylch mor wyn a'r lili.

Duw faddeuodd bechod Peder,
Rhyfyg Dafydd a'r Mab ofer;
Rhwyf Manasse a'i holl feiau;
Duw a faddeu'th bechod dithau.

Cymmer gysur, cwyn dy galon,
Lladdwyd Mab Duw ar yr hoelion,
Am dy bechod a'th gamweddau,
Er ei fwyn di gai eu maddau.

§ Os credu ac edifarhau fel hwytheu.

CXVII. *Gweddi brudd am faddeuant pechodau.*

O Fy Nuw! yr hwn a'm creaist,
O fy Ngheidwad! 'rhwn a'm prynaist,
O'r Glan Yspryd! O'r gwir Ddrindod!
Cadw f'enaid, maddeu mhechod.

Er mwyn Iesu, 'rhwn a'm prynodd,
Ac ymhob peth a'th foddlonodd,
Maddeu i mi oll a chwbwl
A'r a wnaethum i o'th feddwl.

Golch â'i waed fy mai a'm mrynti,
Cladd fy mhechod yn ei weli;
Cudd fy ngw'radwydd â'i gyfiawnder,
Maddeu im' fy holl ddiffeithder.

Gwisg fy enaid o gylch-gwmpas,
A gwisg sanctaidd y briodas;
Gwna fi'n barod ddwad attad,
O fy Nghrist, mewn gweddus drwsiad.

Dod d'angylion i'm castellu,
Na'd i satan fy ngorchfygu;
Cadw f'enaid yn dy ddwylo,
Na'd, O Grist, i'r llew ei larpio.

Pan y delwy' i'r bar i atteb,
Ger dy fron, am f'annuwioldeb,
Gwared f'enaid, er mwyn Iesu,
Na ro i mi o'r farn wy'n haeddu.

Cymmer angeu Crist a'i 'fudd-dod,
Yn iawn i ti am fy mhechod;
Fe gondemniwyd am fy meiau,
Er ei fwyn na ddamnia finnau.

Haeddais angeu, haeddais * dopheth, * *Ufferz.*
Haeddais farn rhagrithiwr diffeth;
Duw na ddyro'r hyn wy'n haeddu,
Rho i mi'r farn a haeddodd Iesu. *Rhuf.*6.23.

Fe gyflawnodd droswy'r gyfraith,
Fe'th foddlonodd droswy'n berffaith;
Fe groeshoeliwyd am fy mrynti;
Er ei fwyn rho bardwn i mi.

Nid oes gennyf na sancteiddrwydd,
Na chyfiawnder, na pherffeithrwydd,
Nac ymwared, iawn, na swccwr,
Ond sydd gennyt, Crist, fy Mhrynwr.

Crist yw'm Cymffordd, Crist yw'm Cysur,
Crist yw'm Gobaith yn fy ngwewyr,
Crist yw fy Helpwr ar awr angau,
Crist yw Ngheidwad ddydd dialau.

Fe fu farw yn anhyfryd,
Er pwrcasu i mi fywyd:
Er yr angeu a ddioddefwys,
Duw, dwg fy enaid i baradwys.

CXVIII. *Gweddiau byrrion i'r claf i'w harferu fel y bo achos.*

DUW, rho glust i wrando ngweddi, *Am esmwythder.*
Duw, rho d'Yspryd i'm cymfforddi;
Duw, rho olwg ar fy nolur,
A'th iaw rasol llaesa ngwewyr.

Oen Duw, maddeu im' fy mhechod, *Am faddeuant.*
Sela bardwn i'm cydwybod;
Cladd fy meiau yn dy weli,
Na'd hwy eilchwaith atgyfodi.

'Rwyf fi'n ofni dy gyfiawnder, *Am ddiddanwch.*
'Rwy'n brawychu rhag dy ddigter;
'Rwy'n fy marnu am fy mhechod,
Duw, diddana fy nghydwybod.

Dod, O Grist, dy angeu gwirion *Am ddoniau Crist a'i gymmorth.*
Rhyngwyf fi a'th farn echryslon;
Dod d'ufudd-dod rhwng cyfiawnder
Dy Dad cyfiawn a'm diffeithder.

Crist â'th waed gwna heddwch etto, *Am gymmod.*
Rhyngwyf a'th Dad sydd gwedi digio;
A'th waed diffodd ei ddigofaint,
Fel na byddo mlinder cymmaint.

Egwan wyf, O Grist, cryfha fi, *Am nerth.*
Gwan a chlaf, fy Nuw, iacha fi;
Trwm, a thrist, ac ofnus ddigon;
Cryfha fy ffydd a chwyn fy nghalon.

Duw'r diddanwch, llaesa mlinder, *Am gysur.*
Tad tosturi, rho im' 'smwythder;
Meddyg pob clwyf, iacha nolur,
Iesu, Mab Duw, rho im' gysur.

Llaesa mlinder, dofa nolur, *Am amheuad.*
Gwel fy mhoen, a thor fy ngwewyr;

Trefna niwedd, penna nhrallod,
Dwg fi attat, 'rwy'n dy warchod.

O fy Nghrist, cerydda satan, *Am nerth ysprydol.*
Cadw f'enaid rhag ei safan;
Cynnal fi â'th hael-wych Yspryd,
Dwg fi attat i'r gwir fywyd.

Oen Duw, maddeu im' fy mhechod, *Am drugaredd.*
Oen Duw, pura fy nghydwybod,
Oen Duw, gwilia ar fy niwedd,
Oen Duw, derbyn fi'th drugaredd.

Dywed, Argwydd, wrth fy enaid, *Am wir gredin-*
It' bwrcasu'r nef fendigaid, *[iaeth.*
A'th waed gwerthfawr, trwy fawr boenau,
I'w rhoi i mi gwedi angau.

Dywed, Arglwydd, wrth fy enaid, *Am nefol addewid.*
Dywed, Arglwydd, dywed, dywed,
Heddyw cei di'n gynnar orphwys,
Gyd â mi yng wlad paradwys.

Crist fy Mugail, cadw f'enaid, *Am gadwriaeth.*
Na'd i'r llew o'th law ei 'sglyfiaid;
Tydi'm prynaist yn ddrud ddigon,
Dwg fi'r nefoedd at d'angylion.

Derbyn f'enaid, anwyl Geidwad, *Am dderbyniad ei*
Derbyn f'enaid weithian attad; *enaid.*
Digon bellach o'r fath ddyddiau;
Nid wyf gwell nâ'r rhest o'm tadau.

'Rwy'n 'wyllysio cael fy nattod, *Am dduwiol ymad-*
A dwad attat Crist fy Mhriod: *[iad.*
Tyn fi weithian, Arglwydd Iesu,
Os bydd d'ewyllys yn cenhadu.

I'th ddwy ddwylo, Arglwydd hyfryd, *Am gadw ei*
Yr wy'n brudd yn offrwm f'yspryd, *[yspryd.*
Na'd ym mhwer neb ei 'sglyfio,
Na'i ddwyn mwyach byth o'th ddwylo.

Crist fy Mugail, cadw f'enaid, *Yn erbyn rhuthrau*
Na'd i'r llew o'th law ei 'sglyfiaid, *[satan.*
'Rhwn sy'n ceisio fy ngorchfygu
Yn fy ngwendid a'm traflyngcu.

Dyma'r pryd y cais ef drechaf
Fyn'd â'r gol pan byddwyf gwannaf: *§ Dyfod i ddiw-*
Nertha ngwendid, Arglwydd cyfion, *edd yr yrfa.*
Gadw'r § gol rhag colli'r goron. *Dat.2.10.*

Dod dy Yspryd yn fy nghalon,
Dod o bob tu'm dy angylion;
Dod d'arfogaeth oll am danaf,
Na'd i'r gelyn gael y trechaf.
Nertha fi ddiweddu ngyrfa,
Gwna f'awr oreu'r awr ddiwedda';
Arnat, Arglwydd, mae fy hyder,
Derbyn f'enaid i esmwythder.

CXIX. *Gweddi fer i'r claf duwiol i'w harferu ar yr awr ddiweddaf.*

'NAWR, O Arglwydd, y gollyngu
Fi mewn heddwch o'm carchardy;
Gwna i'm llygaid, cyn marwolaeth,
Wel'd dy nerthol iechydwriaeth.
Daeth y dydd a'r awr a roddaist,
Daeth yr amser a derfynaist;
Daeth y tymmor, daeth y terfyn,
Nid oes lle im' fyned trostyn'.
Y mae ngyrfa ar ei gorphen,
A'm dydd diwedd ar ei ddiben;
Y mae'r terfyn gwedi dwad,
Arglwydd derbyn f'enaid attad.
Megis Stephan 'rwyf fi'n d'wedyd, *Act.* 7. 59.
*Arglwydd Iesu, derbyn f'yspryd:*
Dere, Arglwydd, dere'n fuan,
Cymmer fi'th drugaredd weithian.

CXX. *Myfyrdod ar fywyd ac angeu.*

PA gyntaf byddo marw cristion,
Cyntaf derbyn hwnnw ei goron;
Pa hwyaf byddo cristion byw,
Hwyaf bydd heb weled Duw.
Pa hwyaf byddo dyn heb farw,
Mwyaf fydd gofynion hwnnw;
Pa gyntaf tynner dyn o'i wegi,
Lleiaf gyd y fydd ei gyfri'.

CXXI. *Tost gyffwr yr annuwiol wedi marw.*

GWYR a gwragedd, meibion, merched,
Dewch yn nes, rhowch glust i glywed

Cwyn a chyngor hen ofer-ddyn,
Sydd yn gorwedd tan y brethyn.

Mi fum gynt fel yr y'ch chwythau,
Yn fawr fy nwyf ymhlith fy *nhrafau; * *Ceraint.*
'Nawr heb nwyf, yn noeth, yn isel,
'Rwyf fi'n gorwedd dan y tresel.

Pan oedd fwya' mryd ar faswedd,
Lleia' meddwl am fy niwedd,
Fe ddaeth angeu glas heb wybod,
Ac a rodd im' farwol ddyrnod.

Pan yr oedd y byd yn gwenu,
A phob bargen genny'n ffynnu,
Fel y ia fe dorrodd dana',
Ac a'm trodd yn noeth i'r gladdfa.

Pan yr oedd fy nghorph yn iachus,
A phob aelod genny'n rymmus,
Fel 'sten brudd fe aeth yn † ddrefion, † *Ddarnau.*
Pan ddaeth angeu at fy nghalon.

Gynt 'roedd gennyf aur ac arian,
Tai a thir, a chyfoeth llydan;
'Nawr ni feddaf yr un * *benni*, * *Geiniog.*
O'r holl olud gynne oedd genny'.

Gynt 'roedd genny' geraint ddigon,
Gwraig a phlant, a ffryns a gweision;
'Nawr does neb ond angeu melyn
Y ddaw attaf dan y brethyn.

Mi gawn lawer gynt i'm helpu,
Ymhob ffordd y bawn yn pechu;
Ni ddaw un yn awr i atteb
Gyd â mi am fy ffolineb.

Y peth a ddaeth i mi mor 'sgeler,
Y ddaw i chwytheu bawb ar fyrder:
Byddwch barod cyn del angeu;
Ni chewch rybudd mwy nâ minneu.

Y mae Crist a'i weinidogion
Yn rhoi rhybudd i ni ddigon:
Llawer mil sy'n myn'd i boeni,
Eisiau gwrando llais y rhei'ny.

Y mae llawer rhyw o bechod
Yn dolurio fy nghydwybod;
Nid oes un yn lladd mor rhigyl,
A dibrisio geiriau'r 'fengyl.

Mi fum ben-ffaſt a gwar-galed,
Ni wnawn bris o'r gair er cyſtled:
D'weded Criſt a'i wyr eu 'piniwn,
Ni wnawn inneu ond y fynnwn.

Gwell oedd gennyf wrando cyngor
Crach dafarnwr nag un *doctor*;
Er bod hwnnw i'm cyf'rwyddo,
A'r tafarnwr yn f'anrheithio.

Gwell oedd gennyf awr yn llawen
Yn y tafarn gyd â murſen,
Nâ diwrnod yn y demel,
Gyd â Chriſt a'i anwyl gene'l.

Gwell oedd gennyf gas gyfeillach
Moch a meddwon mewn tafarnach,
Nâ chyfeillach plant goleuni,
'Nawr mae'n gant edifar genny'.

Gwell oedd gennyf * wenydd aflan, * *Llawenydd.*
Na pharhei ond ennyd fechan,
Nâ gorfoledd teyrnas nefoedd,
Sydd yn para yn oes oeſoedd.

Gwell oedd gennyf brudd a cherrig,
Pres a phlwm, a moch, a cheſſig,
Nâ pharadwys a'i hangylion,
Nâ Duw mawr a'i holl fendithion.

Gwell oedd genny'r cnawd nâ'r enaid,
Y drwg nâ'r da, y moch nâ'r defaid;
Y byd nâ'r nef, y cam nâ'r cymmwys,
A'r nos nâ'r dydd, a'r gell nâ'r eglwys.

'Nawr mae'n 'difar gan fy nghalon,
Fy mod mor ffol, mor ddall, mor ffinion;
A phob modfedd ſydd yn crynu
'Nawr wrth fyn'd i'r bar i'm barnu.

Y mae nghorph yn myn'd i bydru
I'r bedd am dan fy ngwaith yn pechu,
A'm henaid triſt yn myn'd i atteb
O flaen Duw am bob ffolineb.

'Nawr mi glywaf Criſt i'm galw,
Rhaid im' atteb wrth fy enw;
F'orfydd myn'd i wneuthur cyfrif,
Er anhawſed ydyw gennyf.

O pwy filoedd o bechodau,
Y mae *nghonſiens* yn eu hadde',

Rhai a wnaethum mor ddiofon,
Gynt yn erbyn Duw a dynion.
O pwy *rol* fydd gan fy ngelyn,
Cyd a'r dwyrain a'r gorllewin,
Yn cyhuddo ac yn traethu
Y man a'r modd y bum yn pechu.
O pwy glywa'i i'm cyhuddo,
Ond y diawl y fu'n fy hudo
Gynt i bechu yn y dirgel;
Gwae wrandawo ar y cythraul.
Nid oes pechod ac a wnaethum
Er yn blentyn, na bo'n awchlym
Yn ei daflu yn fy nannedd;
Gwae fi! gynddrwg y fu muchedd.
Mae e'n achwyn mor ddibrofid
Gynt y treuliais fy holl ieuengctid
Mewn oferedd a phibyddiaeth,
Heb dduwioldeb na christ'nogaeth.
Mae e'n *claimio* mai fe'm piau,
Waith fy ynnill fil o weithiau,
Yn fy ie'ngctid, ac na ddichon
Duw roi iddo lai nâ'i gyfion.
Mae e'n dangos bob ffolineb
Ag a wnaethum mewn gwroldeb,
A'm holl fedd'dod, a'm holl ryfyg,
A'm trachwantau cas llygredig.
Mae e'n dangos fy nigofaint,
A'm holl * rimpau yn fy henaint;
A'm cybydd-dod, a'm hanwiredd,
A'm || dimdawrwydd am fy niwedd.
Mae e'n taeru led ei fafan,
Iddo f'ynnill ymhob oedran;
A mod inneu er yn fachgen,
Yn ei was'naethu yn dra llawen.
Mae e'n pledio yn ddigwiddyl,
Wrth y gyfraith a'r efengyl,
Mai fe'm piau eisiau credu,
Gwella muchedd a 'difaru.
A lle tybiais, trwy anwybod,
I Grist farw dros fy mechod,
Ac na chaffai'r cythraul feddu
Ar y fawl na bae'n ei wadu.

* *Troeau drwg*

|| *Diofalrwydd*

Y mae'r cythraul ynte'n pledio,
Na thâl ſon am hynny wrtho,
Os ni cheidw Criſt un criſtion,
Ond a gretto yntho'n ffyddlon.

Y mae'r diawl yn d'wedyd eilchwaith
Nad oedd gennyf ffydd na gobaith,
Na 'difeirwch, na gwell amcan
Nag oedd gan y Twrc a'r Pagan.

Mae e'n pledio ac yn taeru,
Nad oes i mi wnel â'r Ieſu,
Eiſiau gwrando ei leferydd,
A bod yn greadur newydd. 1 Cor. 5. 17.

Er i mi gael enw criſtion,
A'm bedyddio gyd â'r ffyddlon,
Etto nid oedd well fy nghrefydd,
Medd y diawl, nâ dyn di-fedydd.

Mae e'n d'wedyd, 'rwy'n ei glywed,
Nad oedd gwell fy ffydd a'm gweithred,
Na'm hymddygiad, a'm harferion,
Na rhyw Ethnic anobeithlon.

Mae e'n d'wedyd na ddilynais
Air o'r 'fengyl wen a glywais,
Mwy nâ'r Iuddew na's ca'dd etto
Ras i'w dilyn na'i chofleidio.

Mae e'n d'wedyd wrth Dduw'n amlwg,
Y rhy gennad torri ei wddwg,
Os adrodda'i iddo'n rhigyl,
Bedwar gair o'r holl efengyl.

Mae e'n galw Duw ei hunan,
A'i angylion, fawr a bychan,
Yn dyſtiolaeth, nad yw'n d'wedyd
Ond gwirionedd am fy mywyd.

Mae fy *nghonſiens* drom dan chwyſu,
Gyd â'r diawl yn tyſtiolaethu,
Ac yn d'wedyd mewn gwirionedd,
Felly'n uniawn y bu muchedd.

Mae e'n d'wedyd i mi 'ſpeilio
Pobl dlodion a'u hanrheithio;
Dwyn eu tai a'u tir oddi arnynt,
A 'ſglyfaethu'r maint oedd ganthynt.

Mae e'n d'wedyd i mi feddwi,
A phutteinia ac ymloſgi,

Torri'r ſabbath ſil o weithiau,
A dibriſio Duw a'i ddeddfau.

Y mae'r diawl gan hynny'n gofyn
Am i Griſt roi'r farn i'm herbyn,
A'm troi i uffern byth i boeni,
Am fy mhechod a'm drygioni.

O bwy grynu, O bwy gwynfan,
Y mae f'enaid rhag gwg ſatan,
Sydd yn dyfod a'i wyr duon,
Idd' i'w gyrchu at Dduw cyfion.

O mor chwerw, O mor ddiflas,
O mor ffiaidd ac mor atgas,
Ydyw pechod gantho 'nawr,
Fu e'n garu gynt mor fawr.

O bwy g'wilydd f'arna'i wrando
Y cyhuddwr i'm cyhuddo,
Am gan' peth na fynnai f'enaid,
Er y byd, i'm mam ei * 'ſtyriaid. * *Wybod.*

Gwell gan f'enaid, pe cai ddewis,
Fyn'd i uffern, hyn ſydd ddilys,
Nâ myn'd i'r bar at y Drindod,
I roi cyfrif am ei bechod.

Etto f'orfydd arno ymddangos
O flaen Duw, nid oes lle aros,
I roi cyfrif, llawn a derbyn
Barn, fel y bo'r gwaith yn gofyn. *Rhuf.* 2. 6.

Nid wy'n clywed neb yn pledio,
Nac yn chwarae'r twrnai drofto:
Nid wy'n clywed arno'n atteb
Un o filoedd o'i ffolineb.

'Rwyf fi'n gweled Duw a'i lyfrau
Yn hyſpyſu ei drofeddau,
Ac yn datgan yn ddi-gwnſel
Y pechodau wnaeth e'n ddirgel.

'Rwyf fi'n clywed taflu'i fuchedd
Front ddi-grefydd yn ei ddannedd,
A'i gnawdolrwydd a'i 'freolaeth,
A'i ddrwg arfer ddi-griſt'nogaeth.

'Rwyf fi'n clywed cyfri'r llwon
A fu'n tyngu 'myſg y meddwon,
A'i ffieidd-dra ar y ſabboth,
A'i ddrwg naws, a'i eiriau annoeth.

'Rwy'n ei glywed ynte'n tewi,
Ac yn cwynfan ac yn codi,
Heb agoryd dim o'i enau,
Mwy nâ'r pyſg, ond ochain weithiau.

'Rwyf fi'n clywed Criſt yn gwyſio
'R diawl i g'lymmu ei draed a'i ddwylo, *Mat.* 22.13.
A'i daflu i'r tywyllwch eitha',
Lle nad oes ond y cur a phoenfa.

'Rwyf fi'n clywed Criſt yn traethu
R' ferdid arno, gan ei farnu
I dân uffern yn dra union,
At y cythraul a'i angylion.

'Rwyf fi'n clywed ſatan ynte',
Yn ei rwymo mewn cadwynau,
Ac i uffern yn ei dreiglo,
Gwedi c'lymmu'i draed a'i ddwylo.

'Rwy'n ei glywed ynte'n llefain,
Ac yn beichad, ac yn ochain,
Wrth ei daflu mor anffafrol,
Llwyr ei ben i'r tân uffernol.

'Rwyf fi'n gweled y cythreuliaid
Hwytheu'n rhwygo ei gorph a'i enaid,
Fel y rhwygai gŵn digaſog,
Wrth eu newyn, iwrch neu 'ſgyfarnog.

'Rwyf fi'n gwrando ei § ganlyn ynte' § *Deiſyfiad.*
Yn crio'n doſt am gael ei angeu;
Ac er toſted y mae'n galw,
Nid yw nes er hynny farw.

Mae e'n gorwedd mewn tywyllwch,
Yn nhân uffern heb lonyddwch, *Marc.* 9.43,44.
Rhwng cythreuliaid lle mae newyn,
A phoenydio nid oes derfyn.

Nid oes dim yn torri nghalon,
Mor ddi-gyſur ac mor greulon,
Ag yw meddwl fel na dderfydd
Dim o'i boenfa yn dragywydd.

Dyma'r man a'r lle y gorfydd
Arnaf finneu'r corph di-grefydd
Fyn'd i boeni atto'n irad, *Ioan* 5.28,29.
Yn ol dydd yr atgyfodiad.

A da beth y dylwn fyned
I dân uffern er ei boethed,

Os myfi a barodd iddo
Bechu'n fynych heb *repento.*
Dyna'r lle yr â'r holl bobol
Ddrwg ddi-grefydd, gas, anneddfol,
Yn ol hela'r tŷ trwy'r ffenest',
Byw fel moch mewn glwth a gloddest.
Mi gynghorwn bawb gan hynny
Ofni Duw a'i wir was'naethu,
A byw'n fanctaidd ac yn ddeddfol,
Rhag eu troi i'r tân ufternol.
Byddwch fobr, byddwch fanctaidd,
Byddwch uniawn a christ'nogaidd:
Oni byddwch, gwn yn ficr,
Mai i uffern eich condemnir. *Dat.* 21.8.
Ofnwch Dduw, gwrandewch y 'fengyl,
Gweglwch droi at hon eich gwegil;
Byddwch fyw fel gwir grist'nogion,
Os chwennychwch gael y goron.
Ni thâl pledio ffydd heb weithred,
Nid plant Duw o'r || *libertiniaid*; || *Y rhai ag fydd yn cymmeryd rhydd-dyd i bechu.*
Nid gwir griftion dyn di-grefydd,
Plant i'r fall yw'r rhai anufudd.
Ni thâl d'wedyd, Yr wy'n griftion, 1 *Ioan* 3.8.
O bydd ffydd heb weithred ffyddlon; *Ioan* 8.44.
Ni bydd bywiol ffydd heb weithred, *Iago* 2.14.
Mwy nâ'r tân heb wres pan gynned. *Mat.* 7.17.
Byddwch oneft, byddwch ffyddlon;
Duw ni oddef gam-fargenion;
Os arferwch dwyll neu ffalftedd,
Trwm yw'r dial yn y diwedd. 1 *Thef.* 4.6.
Beth a ynnill dyn wrth dreifio,
Pilio'r tlawd a'u llwyr anrheithio,
Os tormentir hwn o'r diwedd
Yn nhân uffern am ei gamwedd.
Beth a dâl i ddyn dros ennyd *Mat.* 16.25.
Blefio'r cnawd a chael ei wynfyd,
Os â gwedi'n yn drag'wyddol,
Ar ei ben i'r tân uffernol.
Beth a dâl it' ddyfal lanw
'R bola dro ar win a chwrw,
Od a'i gwedi'n am dy fedd'-dod
I newynu i uffern ifod.

Beth a ynnill dyn wrth dwyllo,
Torri'i *bromeis* ac andwyo
Ei gymmydog tlawd trwy gamwedd,
Os â i uffern am ei ffalſtedd.

Naded neb i'r diawl ei dwyllo,
Y wnelo ddrwg fe atteb troſto;
Fel yr hauoch felly medwch, *Gal.* 6.7,8.
Fel y gwneloch y derbyniwch.

Mae mor hawdd i'r cythraul 'ſgeler
Fyn'd i'r nef y dydd ei barner,
Ag i'r dryg-ddyn glwth di-grefydd
Ddiangc uffern ddydd ei gyſtudd.

Hir yr erys Duw heb daro, 2 *Pedr* 3.9.
Llwyr y dial pan y delo;
Am yr echwyn a'r hir 'ſgori,
Fe ry gyflawn daliad i ni.

Fe gyd-ddwg â'r bobl waetha',
Ennyd hir, i geiſio eu gwella;
Gwedi'n eiſiau troi'n 'ddifeiriol, *Luc* 13.5.
Fe'u llwyr dry i'r tân trag'wyddol.

Duw ro gras i bob dyn wella,
Tra fo'r dydd a'r goleu'n para:
Duw a'ch gwnel chwi bawb yn barod,
Cyn del angeu roi chwi ddyrnod.

CXXII. *Cwyn a chyngor Deifes i'w bum brodyr.*

CLYWCH bawb gŵyn a chyngor Deifes,
O'r fflam boeth a'r danllyd ffwrnes,
I'w bum brodyr a'i holl draſau,
Rhag eu dwad lle mae ynte'.

O fy mrodyr, clywch fi'n traethu
Fy nhoſt gyflwr gwedi nghladdu,
Fel y galloch chwytheu ddiangc
Rhag y cyfryw boenau didrangc.

Mae arna'i ddyled i'ch cynghori,
A rhoi rhybudd amlwg i chwi,
Rhag heb wybod i chwi ddwad
I'r fath garchar diddymchweliad.

A phe gwypech faint yw'm trallod,
A'm holl boen yn uffern iſod,
Chwi wrandewech ar fy ngeiriau,
Rhag ich' ddwad i'r fath boenau.

Gwn yn hyſpys iawn pe gwypech,
Faint yw'm poen, a'm cur, a'm gortrech;
Na chymmerech ddâ || Amherod, || *Emprawr.*
Er eu goddef un diwrnod.

O ni ddichon dyn nac angel,
Adrodd gymmaint yw fy nhrafel
Yn y fflam a'r tân uffernol,
Lle'm poenydir yn drag'wyddol.

Bum i gynt yn fawr fy rhyfyg
Yn y byd yn wr arbennig,
Yn rheoli fel y mynnwn,
Ac yn gwneuthur faint 'wyllyſiwn.

Bum yng olwg llawer un,
Heb ofni Duw, heb barchu dyn,
Mwy nag Inffidel neu Bagan,
Y ddilynai ei ffanſi'i hunan.

O mi dybiais, trwy gam-grefydd,
Na bawn marw yn dragywydd;
Ac os byddwn marw unwaith,
Na ddoi 'mofyn arnai'r eilwaith.

Er bod Moeſen a'r Prophwydi,
Yn mynegi'n amlwg i mi,
Fod fy enaid yn anfarwol,
Ni wnawn bris o'u geiriau graſol.

Er eu bod yn dangos i mi,
Y gorfyddai gwneuthur cyfri'
Ger bron Duw am bob ſileindra,
Nid ai hynny yn fy nghloppa.

'Nawr yn uffern 'rwy'n cael dyſgu,
Mai gwir oeddent yn ei draethu,
A bod enaid didrangc gennyf
Yn y fflam yn gwneuthur cyfrif.

Tybiais hefyd tra fum byw,
Nad oedd un nef nac un Duw;
Nac un uffern, nac un cythraul,
Na gwell diwedd dyn nâ 'nifail.

'Nawr yn uffern, wrth boenydio,
Y mae'r diawl i'm cateceiſio,
Ac yn dangos yn blain i mi,
Fod Duw i ddial pob drygioni.

'Nawr 'rwy'n clywed ac yn canfod,
Fod y diawl ac uffern iſod,

A mil miloedd o gythreuliaid,
Wrth farn Duw yn poeni f'enaid.
'Rwyf fi'n gwel'd yn eglur hollol,
Fod pob enaid yn anfarwol,
Gwedi marw'r corph a'i gladdu,
Bid drwg, bid da, fo'r enaid hynny.
'Nawr y gwn mai gwir yw'r 'ſgrythur,
'Nawr y gwn fod Criſt yn eirwir;
'Nawr y gwn y treulia'r nefoedd, *Mat.* 24. 35.
Cyn el geiriau Criſt yn niffodd.
Eiſiau credu hon mewn amſer,
Nid yw nghred yn awr ond ofer;
Eiſiau ei chredu yn fy mywyd,
Mi fum byw fel 'nifail ynfyd.
Felly byddwch chwithau, mrodyr,
Oni chredwch eiriau'r 'ſgrythur,
Ac amcanu byw yn ddeddfol
Yn ei hol fel meibion graſol.
Eiſiau dilyn geiriau'r 'ſgrythur,
Eiſiau dofi trachwant nattur,
Eiſiau byw 'ngoleuni'r 'fengyl,
'Rwyf fi 'nawr mor ddrwg fy mhiccil.
Eiſiau dilyn cyngor Moeſen,
Eiſiau credu'r 'fengyl lawen;
Eiſiau cadw pwyntiau'r gyfraith,
Y bu muchedd front mor ddiffaith.
Pan y troes i'r 'fengyl heibio,
Fe ddaeth ſatan i'm cyf'rwyddo,
Ac i'm tynnu i bob drygioni
Y f'ai nhrachwant yn ei hoffi.
Nid oes pechod alla'i draethu,
Na's dilynais ne's im' laru,
Ne's myn'd bywyd ffiaidd Deifes,
Mor ddihareb a Manaſſes.
Gwnaethum dduw o'm golud bydol,
Rhoes fy mryd ar bethau cnawdol,
Ymhob drwg mi aethum rhagof,
A gollyngais Dduw yn angof.
Felly gwedi toſt gamſynied,
Llwyr ddibriſiais am fy enaid,
Fel rhyw 'nifail na bai'n coffa
Dim ond am y byd a'r bola.
Mynnais drwſiad gwych am danaf,
'Sgarlad coch bob dydd o'r meinaf:

'Nawr yn uffern 'rwy'n noeth lymmyn,
Am fy nghoegedd heb edefyn.
Mynnais ‡ *ſindon, lawn*, a *chambrig*
Yn fy nghryſau § *awr ac orig*;
'Nawr gwae finneu na bae garthen,
Neu hws ceffyl am fy nghefen.
Minnau fwnnwn lanw mola
Ar ddanteith-fwyd o'r meluſa,
Bob diwrnod tra fu'r flwyddyn,
Er bod f'enaid yn dwyn newyn.
Bum mor foethus ac mor *ddainti*,
Ac na fynnwn unwaith brofi
Dim ond y fae tra danteithiol,
Bras a melus, drud a manol.
'Nawr mi fynnwn, pe cawn fwyta,
Soeg y moch i lanw mola,
Ac i dorri peth o'r newyn
Sy'n dolurio pob coluddyn.
Bum yn yfed ac yn chwiffio
Bîr a gwin heb feſur arno;
Ac yn llanw mola ganwaith,
Nes ei chwydu fynu eilwaith.
'Nawr mi rown y byd yn gyfan,
A'i holl dryſor, pe cawn ddafan
O ddw'r oer i oeri nhafod,
Sydd mewn fflam yn llofgi'n waſtod.
Er bod ar fy mwrdd i friwſion,
Allai borthi ‖ fwrn o dlodion,
Fe gae'r cwn y cwbl rhyngddyn',
Cyn cae Lazar un briwſionyn.
'Nawr mae Lazar ynte'n talu
'R pwyth hyd adref, ac yn pallu
Rhoi o'r ffynnon i mi ddafan
O'r dw'r oer, er maint wy'n fegian.
Er bod Moeſen a'r prophwydi
Yn rhoi llawer rhybudd i mi,
Ni wrandawn ar ddim a dd'wedent,
Ni wnawn un-rhith ag a geiſient.
'Nawr gan hynny 'rwy'n cael crio
Ddydd a nos heb gael fy ngwrando,
Ond cael taflu yn fy nannedd
Mor annuwiol y fu muchedd.
Pan bregethid yr efengyl,
Minneu drown at hon fy ngwegil;

‡ *Lliain main.*
§ *Bob amſer.*
‖ *Bagad.*

Ac a gyſgwn ar fy nyrnau,
Pan bae eraill yn cael gwerſau.
'Nawr am gyſgu yn y demel,
Fe'm tormentir gan y cythraul,
Fel nad wyf yn abal cyſgu,
Na marwinio mwy ond hynny.
Ac am flino gwrando'r 'fengyl,
Ac athrawiaeth Criſt yn rhigyl,
Y mae'n gorfod arna'i wrando
'Sgrech y cythraul byth tra gantho.
Eiſiau gwrando cyngor Moeſen,
Eiſiau credu'r 'fengyl lawen,
Eiſiau dilyn hon a'i dyſgu,
Y mae yn uffern fil yn gryddfu.
Minneu dreuliais ddydd yr Arglwydd
Mewn glythineb ac anlladrwydd,
Yn gan' gwaeth, mewn gloddeſt 'ſgymmun,
Nag un dydd o ddyddiau'r flwyddyn.
Mae 'ma filoedd o rai annoeth,
Am halogi'r ſanctaidd ſabboth,
Heb gael ſabboth nac eſmwythdra,
Ond yn poeni haf a gaua'.
Cym'rais enw Duw yn ofer
Fil o weithiau wrth fy mhleſer:
Nid oedd blas ar chwedl genny',
Nes y tyngwn waed y Ieſu.
O bwy boenfa ſ'ar fy nhafod,
Am ddirmygu gwaed y Cymmod;
A phwy *dorment* ſy'n fy ngryddfu,
Am amharchu enw'r Ieſu.
Minneu offrymmais f'enaid ganwaith
Yn y dydd i'r cythraul diffaith;
Am ei roi mor fynych iddo,
F'aeth y diawl â'r enaid gantho.
Mae 'ma lawer mil fel finneu,
Yn y pwll mewn irad boenau,
Am roi eu hun i'r diawl tan regu,
Wedi i Griſt â'i waed eu prynu.
Llawer un a fum i'n hela
O dra malais i ryfela,
Er mwyn tywallt gwaed y gwrion,
A'u difetha heb achoſion.

Nawr mae' gwaed y rhai'n yn llefain
Am ddialau arnai'r filain!
Ac yn crio ar y cythraul,
Dalu i mi am fy nhrafael.

Bum yn gwest ar fywyd ganwaith,
Heb nac ofn Duw na'r gyfraith,
Yn *condemno* llawer gwirion,
Ac yn cadw llofrudd, lladron.

'Nawr mae'r mwrddwyr dan eu henw,
A'r drwg-ddynion fum i'n gadw,
Yn y pwll yn llarpio f'enaid,
Mor ddi-ffafar a'r cythreuliaid.

Larais ar fy ngwraig fy hunan,
Cym'rais fenthyg gwragedd aflan;
Llu o'r rhai'n fy'n awr i'm pwyo
Ym mhwll uffern am eu hudo.

Mae'r bastardiaid fum i'n ynnill
O'r rhai aflan hyn fel perchyll,
Oll yn llefain ac yn crio,
Am i'r cythraul fy *nhormento.*

Minneu orthrymmais blant ymddifaid,
Pan bae farw un o'm deiliaid:
Awn â'r ddau ych fawr o'r arad,
Rhag i'r naill o'r ychen frefiad.

'Nawr am dreisio'r fath wirioniaid,
Fe'm tost gurir gan gythreuliaid,
Yn gan' gwaeth nag y bydd tanner
A'r pawl mawr yn ffysto'r lleder.

Bum yn hirio anwir ddynion
Lawer gwaith i dyngu 'nudon,
Ac yn peri' rhei'ny dyngu
Beth y fynnwn ond eu dysgu.

Y mae rhai'n fel haid o nadredd
Ddydd a nos yn cnoi fy mherfedd,
Ac yn rhwygo'n dost fy nghalon,
Am eu dysgu dyngu 'nudon.

Minneu elwais bobol wirion,
Weithiau'n fwrddwyr, weithiau'n lladron,
Ac enllibiais wyr a gwragedd,
Heb ddim achos ond fy nhrawsedd.

Cedwais hûr a llawer cyflog
Ar fy ngwas a'r tlawd anffodiog,

Ac a berais i'r tlawd fedi
Fy holl heiniar heb un *benni*.

'Nawr mae gwaed y rhei'ny'n crio
Ar y drygwr am fy mhwyo,
Am im' gadw hûr y rhei'ny,
Ac andwyo'r cyfryw dlodi.

Rhoddais f'arian gynt ar occor,
I'r dyn tlawd fel cybydd ‡ angor,
Nes im' lyngcu feddai'r tlodion,
A'u handwyo â'm bargenion.

'Nawr mae llawer un o'r rhei'ny,
Yma'n uffern yn fy mhoeni,
Am eu gyrru i ladratta,
Gwedi f'occor brwnt eu difa.

Rhoddais i'r cyfreithwyr duon
Wobr fawr am dreiſio'r tlodion;
Mae'r cyfreithwyr yn fy llethu
Yma'n uffern am eu llygru.

Rhoddais gennad i'm holl weiſion
*Vexo* pawb o'm cymmydogion;
'Nawr mae'r gweiſion, am eu godde',
Yn *vexo*'n dost fy enaid inneu.

Prynais dir dan bris gan fagad,
Cedwais beth ar bawb o'u taliad:
'Nawr mewn carchar 'rwyf am hynny,
Heb fod gennyf rot i dalu.

Pe bae dimmai'n abal prynu
Rhydd-did i mi o'm carchardy,
A'm dwyn o'r pwll i'r nef oleu,
Nid wy'n abl cael o'r ddimmai.

Cefais rybudd fil o weithiau,
Am roi dreiſiais eilwaith adre';
Minneu awn i'r tân uffernol,
Cyn rhown ddimmai yn ei gwrthol.

Pan y gwerthwn wlan a llafur,
Rhown gam-bwyſau, rhown gam-feſur:
Yn yr ŷd mi werthwn raban
Yr un bris a'r gwenith purlan.

Ac yn erbyn Duw a'i ddeddfau,
Cedwais amryw fath o bwyſau;
Pwys rhy fawr pan fawn yn prynu,
Pwys rhy fach pan fawn yn gwerthu.

‡ *Trachwatus.*

'Nawr fe'm curir ar fy nghloppa,
Gan y diawl â'r pwyſau mwya',
A phawb eraill megis minnau,
A fu'n arfer anwir bwyſau.

Ni adewais bwngc o'r gyfraith
Heb ei thorri lawer canwaith;
Mi ymdroais ymhob rhyw bechod,
Nes i'r angeu roi im' ddyrnod.

Mi fynegais i chwi'n oleu,
B'wedd y bum i byw hyd angeu;
Mi fynegaf i chwi weithian,
B'wedd i'm poenir dan law ſatan.

Y mae'r pwll lle 'rwyf fi'n trigo
Yn ddwfn iawn heb waelod iddo, *Dan*.20.3.
A'i holl welydd cyn ucheled,
Nad oes gobaith cael ymwared.

Y mae'r pwll dros fyth yn llosgi
O dân poeth fel môr yn berwi;
Y mae ana'l Duw ei hunan *Eſay* 30.32.
Yn ei drin fel môr o frwmſtan.

Gwedi nynnu'r tân hwn unwaith,
Byth ni ddiffodd hwn yr eilwaith;
Nid rhaid chwythu dim o hono,
Mae e'n cynnu heb ei gyffro.

Y mae'r tân dros fyth yn llosgi
Yn dra ffyrnig, ac yn poeni;
Ac er hyn nid yw e'n treulio,
Nac yn difa dim el iddo.

Mae'r un tân yn poeni'r bobol,
Ond mewn dull a modd neilltuol;
Rhai yn fwy neu lai o ronyn, *Mat*.10.15.
Fel y byddo'u beiau'n gofyn.

Yr haul a lyſg y *mwr* o'r India,
Yn fwy nâ'r rhai a drig yn Ruſia:
Uffern boeth a lyſg yn boethach
Bechod mawr nâ phechod byrrach.

Nid oes yn y pwll yn trigo *Mat*.22.18.
Un heb rwym ar draed a dwylo,
Mewn cadwynau trag'wyddoldeb,
Am eu pechod a'u ffolineb.

Mae tywyllwch hefyd yntho, *Mat*.25.30.
All pob rhai yn hawdd ei deimlo;

Ac er dechreu'r byd ni welad
Yntho oleu'r haul neu'r lleuad.
  Mae e'n drewi cyn ffyrnicced,
Nad oes dim all drewi gased;
Er bod miloedd yn ei nyrddo,
Ni lanhawyd erioed o hono.
  Y mae pryfed yntho'n bwytta
*Confiens* dyn heb gael eu gwala,
Dydd a nos yn fawr eu hawydd,
Ac heb farw yn dragywydd. *Marc* 9.44.
  Y mae gwedi mil o filoedd
O gythreuliaid megis lluoedd
Yn *tormento*'r rhai damnedig,
Ac heb orphwys § *awr nac orig*. § *Un amser.*
  Maent yn dyrnu ac yn pwyo
Rhai damnedig heb ddiffygio;
Ac er maint y f'ont yn ddial
Byth ni chymmer un ei ana'l.
  Y mae'r *torment* yn drag'wyddol,
Ac ar bawb yn gyffredinol,
Yn *tormento* pawb o'r neilltu,
Ymhob aelod y fu'n pechu.
  Y mae'r llygaid heb gael gweled
Ond cythreuliaid, er eu cased,
Ac eneidiau rhai damnedig,
Yn y pwll yn wylo'n ffyrnig.
  Y mae'r genau ynte'n bwytta
Bustl ‡ lindys, bwyd o'r chwerwa, ‡ *Pryfed.*
Ac heb yfed dim ond gwaddod *Sal.* 75.8.
O ddigofaint tost y Drindod.
  Y mae'r clustiau hwytheu'n gwrando
'Sgrech y diawl a'i blant yn crio,
A tholt ochain rhai damnedig *Luc* 13.28.
Yn 'sgyrnygu dannedd ffyrnig.
  Y mae'r tafod ynte'n llosgi,
Ac mewn brwmstan poeth yn berwi,
Heb gael cymmaint ag un dafan *Luc* 16.24—25.
O ddw'r oer i ddofi'r llosgfan.
  Y mae'r ffroenau yn aroglu
Gwynt y brwmstan o'r carchardy, *Dat.* 21.8.
Sydd heb garthu etto er Adda,
Ac yn drewi o'r ffyrnicca.

Y mae'r traed a'r dwylo hwythau
Gwedi'u c'lymmu mewn cadwynau,
Ac heb allael troi na threiglo
O'r lle'r ydys yn eu brwylio.

Y mae dannedd pawb yn rhingcian,
Yn 'ſgyrnygu, a'r fath dwrddan,
Ag y bydd echrydus gennwn
Wrando'u llais na gwel'd eu *ffaſiwn.*

Y mae pryfed cas anfarwol
Yn cnoi *conſiens* pob annuwiol,
Ac yn bwytta'n llym yſgymmun,
Etto byth heb dorri newyn.

Fel y pechodd pob rhyw aelod
Ag oedd gennyf, 'noed fy nhafod,
Felly poenir fy aelodau
Bob yr un ag amryw boenau.

Mae pob aelod yn poenydio,
Mae pob man â dial arno;
Mae pob dial yn dragywydd,
Yn poenydio heb ddim llonydd.

Ni bydd marw byth o'r pryfyn,
Byth ni ddiffodd tân yr odyn;
Ni ddaw angeu, ar y geiſiaf,
Byth i wneuthur diwedd arnaf.

Ni bu'r diluw ond blwydd hynod,
Na thân Sodom ond un diwrnod;
Newyn *Egypt* ond ſaith mlynedd;
Mae mhoen inneu byth heb ddiwedd.

Pe cawn rydd-did o'm holl boenau,
Am ben canmil o flynyddau,
Byddai hynny'n gynffwrdd i mi;
Ond dros fyth mae'n rhaid im' boeni.

Y GAIR byth ſy'n torri nghalon,
Y GAIR byth ſy'n cnoi ngholuddion;
Y GAIR byth ſy'n peri i mi
Fwytta mreichiau a gwallgofi.

Toſt yw goddef hyn o gyſtudd
Tan law ſatan yn dragywydd;
Y mae etto beth ſydd doſtach,
Colli'r Ieſu a'i gyfeillach.

Colli'r bywyd, colli'r goron,
Colli'r Ieſu a'i angylion,

Colli'r nefoedd a'i rhialtwch,
Colli Duw a phob dedwyddwch.

Melldith Dduw i'r dydd y'm ganed,
Anap ddrwg i'r awr y'm llunied,
Uffern boeth i'm mam na bu'ſe
Yn dwyn llyffant yn fy nghyfle.

Gwae fi erioed na thorſai ngwddwg,
Ar y ploccyn pren â bilwg,
Cyn rhoi bron i fab anwadal,
I ddigio Duw, i ddwyn ei ddial.

Nid oes gythraul na dyn 'ſgymmun,
Yma'n uffern a'i holl derfyn,
Na bont ar eu cylch yn gyngan,
Yn fy mhwyo fawr a bychan.

Nid oes enaid dyn er Adda,
Ym mhwll uffern mewn mwy poenfa,
Mewn mwy trallod, mewn mwy eiſiau,
Nag y mae fy enaid innau.

Dyma nghyſtudd, dyma mhoenfa,
Dyma ngwewyr, dyma ngwaſgfa;
Dyma'r cyflwr yr wyf yntho
Bob rhyw awr yn toſt boenydio.

O gan hynny, fy mhum brodyr!
A phawb eraill ſydd o ſynwyr,
Cym'rwch rybudd cyn del angeu,
Rhag ich' ddwad lle 'rwyf finneu.

Oni byddwch edifeiriol,
Ffyddlon, ufudd, a chriſt'nogol,
Gwn na ddengys Duw'r dialau
Ich' fwy ffafar nag i minnau.

CXXIII. *Atteb i gweſtiwn ynghylch gweddio dros y marw, lle y dangoſir anghyfreithlondeb gweddio dros y cyfryw.*

FY nghâr a'm gwir anwylyd,
Gofynſoch gweſtiwn hyfryd;
Mae'n weddus im' ym mhlaid y ffydd,
Roi atteb prudd o'i blegid.

Hyn yma yw'ch gofyniad,
Ai gweddus yw i'r 'ffeiriad
Weddio dros y marw'n brudd,
Yn ol y dydd *departiad?*

'Rwy'n atteb i chwi'n groyw,
Na ddiodde'r 'ſgrythur ddiw,
Na gweddio na dydd na nos,
Yn ofer dros y marw.

Mae Duw yn barnu'r enaid, *Heb*.9.27.
I'r nef neu uffern danbaid,
Yr awr yr el o'r corph i maes,
Yn ol ei * *gas* a'i weithred. * *Gyſtwr*.

Mae enaid y dyn ffyddlon *Luc* 23.43. *a* 16.22.
Yn myn'd o'i gorph yn union, *Phil*.1.23.
I'r nefoedd at angylion gwar, *Act*.7.59.
Fel enaid Lazar wirion.

Mae enaid yr annuwiol
Yn myn'd i'r pwll uffernol,
(Pan el o'r corph) i'r tân a'r gwres,
Fel enaid Deifes fydol.

Mae'r duwiol mewn dedwyddwch, *Sal*.16.11.
Gogoniant a rhialtwch,
Y fath nid rhaid ich' geiſio mwy,
Gadewn ni hwy mewn heddwch.

Nid rhaid gweddio droſtynt,
Gan gyſtal yw eu helynt,
Maent hwy gyd â'r Oen bob awr, *Dat*.7.13.
A ſwpper fawr ſydd ganthynt. 16.17.

Mae'r enaid anwir ynte,
Yn griddfan yn y poenau; *Luc* 16.23.27.
Ni ddaw hwn o'i boen a'i blag,
Er gweddi nag offrymmau.

Yn ol i un dyn farw,
A chael y farn yn groyw,
Ofer yw i'r wlad a'r plwy'
Weddio mwy dros hwnnw.

Pe ceiſiai Job neu Ddaniel,
Neu Abram, Moeſen, Samuel,
Laeſu'r boenfa yn y fflam,
Ni chaent ddim am eu trafel.

Pe deuai 'ffeiriaid holl-fyd,
I grio droſto'n daerllyd,
A'u haberthau o bob rhyw,
Ni altrai Duw mo'i ferdid.

Pe deuai'r byd yn gyfan,
A gweiddi am laeſu'r boenfan,

Ni chaent gwedi marw'r gwr, *Luc* 16.24.
Mo'r droppyn dw'r i'w ſafan.

Y farn a ſaif yn ddilys;
Lle cwympo'r pren fe erys: *Preg*.11.3.
Ni newid Duw 'mo'r farn a rodd;
Erioed ni throdd o'i 'wyllys. *Iago* 1.17.

Mae Duw yn ddianwadal,
Y farn a rodd fe'i cynnal:
Ni all y byd a'u hymbil taer,
Na'r nef na'r ddae'r ei hattal.

Yr amſer i weddio
Sydd cyn i ddyn *ddepartio*;
Gweddi, gwedi marw neb,
Sydd weddi heb *brefailio*.

Gan hynny 'rwy'n cynghori
I bawb a garo weddi,
Geiſio hon tra yntho wres,
Os cais ef les oddi wrthi.

Cais wiſg, cais *oil*, cais olau, *Eſa*.55.6.
Cais ras cyn delo'r angau;
Ni cheir gwedi paſio'r dydd,
Mo'r dw'r os bydd yn eiſiau.

Gan hynny cyn *departio*,
Ni ddylem bawb weddio;
Dyna'r pryd, heb ddim o'r ffael,
Mae i ni gael ein gwrando.

Cyn marw y mae i ni 1*Cor*.9.24.
Ynnill nef neu'i cholli; *Luc* 13.24—27.
Gwedi marw ni chaiff ffol,
Ond barn yn ol ei frynti.

Cyn marw mae *repento*,
Tra'i'n ddydd y mae ymg'weirio; *Ioan* 9.4.
Pan el hi'n nos, medd Criſt ei hun, *Preg*.9.10.
Ni all un dyn 'mo'r gweithio.

Mae Criſt yn erchi'r treiſiwr *Mat*.5.25.
Gyttuno â'i wrth'nebwr,
Tr'o ar y ffordd, cyn delo 'mlaen,
Rhag myn'd o flaen y Barnwr.

Rhag rhwymo'i draed a'i ddwylo,
A'i daflu i gael ei frwylio,
O eiſiau gwneuthur iawn mewn pryd,
Ni's tynn y byd oddi yno.

Fe wyddai Dafydd frenin, 2 *Sam*. 12. 14—24.
Pan ddarfu am ei blentyn,
Mai ofer oedd gweddio mwy
Dros hwnnw drwy hir ganlyn.

I ddangos hyn mor ofer
I unrhyw ddyn i arfer
Gweddi, gwedi marw'r ffrynd,
Yn ol ei fyn'd i 'ſmwythder.

Am hyn nid oes gweddio
Dros ffrynd yn ol *departio*,
Y mae'n credu fyn'd yn noeth
I uffern boeth i *dario*.

Nid oes i neb ond deu-le
I fyned gwedi angeu,
Nef ac uffern, medd gair Duw,
*Tân pur* nid yw ond chwedleu.

Nid rhaid i neb weddio
Dros un â i'r nef i drigo,
Os yn uffern y gwna ei nyth,
Ni ddaw ef byth oddi yno.

Nid oedd ond gweithred ofer,
A wnaeth i'r 'ffeiriaid arfer
Gweddi tros y marw mud,
I dwyllo'r byd dibryder.

Nid ydyw'r 'ffeiriad gorau,
Yn godde'r fath weddiau;
Ni's gwna ond rhyw 'ffeiriedyn ffol,
Sy'n ſerchu'n ol y ddimmai.

Mae dyled ar bob 'ffeiriad
Roi diolch am 'madawiad
Pob dyn duwiol yn ddiddoi,
Mewn gobaith o'i gyfodiad.

Ond am weddio droſtyn',
Yn ol eu cladd a'u terfyn,
Peth diles gwaharddedig yw,
Ni's gwna ond rhyw ofer-ddyn.

Wel dyma i chwi atteb,
O'ch cweſtiwn mewn ffyddlondeb;
Duw ro gynnydd ar eich ffydd,
A gras yn brudd i'ch hwyneb.

CXXIV. *Cyngor Mr. Prichard i'w fab.*

SAMI bach, er cariad Duw,
Cofia byth tra fyddech byw,
Foli Crist ar ben dy liniau,
Tr'ech o'm golwg oddi cartre'.

Galw'n brudd o ddyfnder calon
Ar dy Dad a'th Brynwr tirion,
Am d'amddiffyn nos a boreu,
Rhag bob drwg tr'ech oddi cartre'.

Plyg dy ddeulin, cod dy ddwylo,
Dal yn graff dy lygaid arno;
Cais ei rym, a'i ras, a'i oreu,
Ymhob dim tr'ech oddi cartre'.

Felly ceidw Duw di'n wastod
Rhag pob niwaid a drwg anffod,
Ac ni edy ddim yn eisiau
Ar SAM bach tr'o oddi carte'.

Cria ar Dduw am help i ddysgu
'Nabod Crist a'i wir wasanaethu,
Tr'ech yn blentyn yn dy foethau,
Dyma'th swydd tre'ch oddi cartre'.

Arfer ofni Duw a'i ganlyn,
Yn dy ie'ngctid tr'ech yn blentyn;
Felly byddi siwr mewn graddau,
Foli Duw yn hen-wr gartre'.

Dos yn llawen at dy lyfyr,
Dysg yn * glic, ac na bydd segur;
Nid wy'n gwardd er hyn it' weithiau
Chwarae peth tr'ech oddi cartre'.

* *Ar frys.*

Cyn b'ech segur taro'r delyn,
Cân y Salmau sy'n ei chanlyn;
Fe fydd hynny'n ddifyr weithiau
I SAM bach tr'o oddi cartre'.

Cân fel cricced ar bob cam,
Gochel wylo am dy fam;
Duw fydd mam a thad o'r goreu
I SAM bach tr'o oddi cartre'.

Duw ro'i ras a'i fendith i ti,
Duw'th gyf'rwyddo i'w addoli;
Duw f'o Ceidwad nos a boreu
Ar SAM bach tra oddi cartre'.

### CXXV. *Arall.*

COD y boreu ar y wawr-ddydd,
Am y cyntaf â'r uchedydd,
Hynny'th helpa i gael hir iechyd,
Dysg a dawn, a chyfoeth hefyd.

Gwisg yn ‡ esgud dy holl ddillad, ‡ *Ebrwydd.*
Dod y rhai'n yn gryno am danad;
Na'd fod bwttwn heb ei gaued,
Cyn y caffo neb dy weled.

Golch dy wyneb, crib dy ben,
A'th gwff yn lân, a'th *fond* yn wen,
A'th drwsiad oll yn dra threfnus;
O flaen Duw mae hynny'n weddus.

Gwedi ymdrwsio dos i'th weddi
Yn ddiaros, gochel oedi:
Cwymp o flaen Duw ar dy liniau,
Cyn y gwlychech di dy enau.

Pan y delech o flaen Duw,
Meddwl, SAM, mai Brenin yw;
O flaen pwy mae'r holl angylion
Yn ymostwng mewn mawr ofon.

Dere ditheu ar dy ddeulin,
SAMI bach, o flaen dy Frenin;
Ac na chydgam wrtho yngan,
Heb anrhydedd, parch, ac ofan.

Ar dy liniau c'od d'olygon Sal.95.6.
At dy nefol Dad yn eon,
Ac nac ofna ofyn iddo
Bob peth ag sydd raid it' wrtho.

Er bod Duw yn frenin grymmus,
Hollalluog, anrhydeddus,
Etto er hyn mae Crist yn d'wedyd,
Fod Duw mawr yn Dad it' hefyd. Mat.6.9.

Galw ditheu ar dy Dad,
Am roi i ti ddawn a rhad;
Ac ni phall ef, ond ei geisio,
Ddim ag y f'o raid it' wrtho. Sal.34.10.

Os bydd arnat ddim ar wall,
Cais yn daer, ac na fyn ball;
Hoff gan Dduw y dyn a geisio *Iago* 5.16.
Yn daer bob awr am gymmorth gantho.

Cais ei gymmorth ac fe ddyru,
Galw arno ac fe'th wrendy; *Sal.*18.30.
Rho di yntho dy ymddiried,
Ac fe'th geidw rhag pob niwed.

Cofia Dduw, fe'th gofia dithau, *Diar.*8.17.
Ac ni edy arnat eifiau;
Ei was'naethwyr fe'u gwas'naetha, 1*Sam.*2.30.
A'i ddirmygwyr fe'u dirmyga.

Os gwas'naethi Dduw yn waftad,
Fe gymmer cymmaint garc am danad,
A phe bae ef heb un plentyn
Ond tydi i garcu troftyn'.

Meddwl ditheu, SAMI bach,
Yn gefnog, p'un ai claf ai iach,
Am was'naethu Duw bob amfer,
Ddydd a nos wrth gwrs ac arfer.

Os arferu 'nawr yn blentyn
Was'naethu Duw yn brudd a'i ganlyn,
Yn wr hen ni elli beidio
Lai na'i was'naethu byth tra gantho. *Diar.*22.6.

Duw r'o i ti rym a gras
I fod iddo byth yn was,
Nes y caffech yn y diwedd
Yn y nefoedd fod yn 'tifedd.

## CXXVI. *Gweddi Samuel Prichard.*

ARGLWYDD, Rhoddwr pob daioni, *Iago* 1.17.
Brenin nef, a Thad goleuni;
Gwel a gwrando weddi egwan,
Blentyn bach o ddeng-mlwydd oedran.

'Rwyf fi'n dwad ar fy neulin
O'th flaen di, fy ngrafol Frenin,
I fegian arch ar dy ddwylo,
Er mwyn Crift na phall im' honno.

Ti orch'mynaift i mi ofyn,
Ti addewaift roi ond canlyn; *Mat.*7.7,8.
Canlyn 'rwyf fi, na phall i mi
O'r un arch ag wyf fi'n erchi.

Salomon gynt, y brenin hyfryd, 1*Bren.*3.
Geifiai un arch, doethineb gennyd;
Ac ti roddaift ei arch iddo,
A llawer mwy nag oedd e'n geifio.

Jacob ynte' geisiodd gennyd *Gen.* 28. 20.
Fwyd a dillad nes dychwelyd; *Gen.* 32. 10.
Ac di roddaist hynny iddo,
A llawer mwy nag oedd e'n geisio.

Minneu sydd yn dwad attad,
Ar fy neulin, anwyl Geidwad,
Geisio gennyd arch trwy weddi;
Er mwyn Crist na phall hi i mi.

Nid wy'n ceisio golud bydol,
Uchel fraint, na phleser cnawdol,
Ond yn unig gras a gallu,
Byth fel cristion i'th was'naethu.

Dyro ras a grym i minnau,
'Nawr yn blentyn gwympo i ddechrau
Dy was'naethu mewn gwir grefydd,
A'i arferu yn dragywydd.

Na'd im' dreulio dyddiau'm ie'ngctid
Mewn oferedd, rhwyf a rhydd-did,
Ond par i mi, yn fy nghryfdwr,
Dy addoli, fy Nghreawdwr.

Agor drysor dy ddaioni, *Dan.* 1.
Dyro ras a deall i mi
Yn ddyn bach dy wir adnabod,
Megis Daniel gynt a'i * gyfod.

Jeremi y prophwyd ynte'
Yn fab bach a'th wir addolai:
Dyro ras fel Jerem i mi, *Jer.* 1.
Yn fab bach i'th wir addoli.

'Rwy'n fy offrwm i'th was'naethu, *Rhuf.* 12.
Yn fy ie'ngctid yn hiraethu; 1, 2.
Arglwydd grasol, derbyn finneu
I'th was'naethu yn ddiammeu.

Ti dderbyniaist Samuel gyntaf, 1 *Sam.* 3. 1.
I'th was'naethu ar y ie'ngaf,
Pan yr oedd ef yn ei fiacced,
Yn fab bach yn dechreu cerdded.

Derbyn finneu, Arglwyddd grasol,
I'th was'naethu mor naturiol;
Ac eglura dy hun i mi,
Fel y gallwy'n fach d'addoli.

* Y sawl oedd o'r un oedran ag ef.

O † *ffwrneiſia* fi'n ddigonol, † *Trwſiada.*
A phob dawn ſy'n angenrheidiol,
I mi gaffael bod yn enwog,
Yn was i ti'r Hollalluog.

Agor lygaid fy ngwybodaeth, *Sal.* 119.18.
Rho im' ras a deall helaeth,
Fel yſtyriwyf yn dra pherffaith,
Bethau dirgel yn dy gyfraith.

Nyn fy nghalon â gwreichionen
O'th wir ras tra fyddwy'n fachgen,
Fel y llofgo'i byth yn wreſog,
Yn dwyn zel i'r Hollalluog.

Cwrdd â'm calon â marworyn *Eſa.* 6.
Oddi ar d'allor tra fwy'n blentyn,
Fel y gallwyf draethu'n olau
Dy fawr glod tr'o chwyth i'm genau.

Rho im' bwer i ddeallu
Dy wir air a'i iawn ddoſparthu,
Fel y gallwyf iawn yſtyriaid
Beth ſydd dda ar les fy enaid.

Gwna fi byth yn batrwn bywiol
Yn f'ymddygiad i'th holl bobol,
Gan fyw'n ſanctaidd yn fy muchedd,
Ymhob pwynt o'r dechreu i'r diwedd.

Dyma f'arch, a dyma nghanlyn,
Dyma'r rhoddiad wy'n ei ofyn:
Er mwyn Criſt na phall hi i mi,
Ras yn blentyn i'th addoli.

Na'd im' dreulio dim o'm hamſer,
O hyn allan byth yn ofer;
Ond par i mi dreulio'n waſtad,
Ynghylch y peth a berthyn attad.

Tywallt fendith ar fy nhrafel,
Par im' ddyſgu yn ddiogel;
Rho im' gymmorth i ddeallu,
Ac i gofio'r peth wy'n ddyſgu.

Tanna droſwyf d'adain raſol,
Cudd fi tani yn waſtadol;
Na'd un gelyn wneuthur niwaid,
Mewn un modd, i'm corph na'm henaid.

Cadw fi rhag cwrp a thramgwydd,
C'wilydd, colled, anap, aflwydd,

Nychdod, niwaid, a'r fath hynny,
Os bydd d'ewyllys yn cenhadu.
 Bid dy lygaid i'm diwallu,
Bid d'angylion i'm caftellu;
Bid dy Yfpryd i'm cyf'rwyddo,
Bid dy ras i'm cynnorthwyo.
 Clod i ti, a gras i minneu,
Mawl i'm Brenin nos a boreu;
Gwir ogoniant yn dragywydd
F'o i'm Harglwydd a'm Hachubydd. AMEN.

CXXVII. *Cyngor arall Mr. Prichard, medd rhai, i'w fab.*

NA || phampra'r corph i ladd yr enaid,
Na ddigia Dduw i blefio diawlaid;
Na werth y nef i brynu daear,
Na phecha mwy rhag bod 'nedifar.
 Pe caet beunydd fwytta manna,
Ar felus-fwyd lanw'th fola;
Beth wyt nes, od ai'n ol hynny
I bwll uffern i newynu?
 Pe caet yfed gwin yn ddiod,
Gwifgo porphor *ffein* yn waftod,
Dodi'th droed ar war brenhinoedd,
Beth wyt nes os colli'r nefoedd?
 Be baet berchen aur yr India,
Dâ'r holl fyd a'r tiroedd tecca',
Beth y dâl it' hyn o wagedd,
A cholli d'enaid yn y diwedd? *Mat.* 16.26.
 Pe caet orwedd gyd â *Venus*,
Plefio'th gorph o'r * *ffeina* gerddwys;
Beth yw d'ynnill am dy drafael?
A myn'd d'enaid gan y cythraul.
 Pe caet bawb i guro'th gefen,
Plant y byd i'th firio'n llawen,
Beth y dâl i'r rhai'n dy *ffatrio*,
A Duw wrthyt wedi digio?
 Gwell gwas'naethu Duw nâ'r byd,
Gwell ffrwyno'r corph nâ'th ddamnio gyd;
Gwell trafael byr nâ phoen trag'wyddol,
Gwell bara a dw'r nâ gwledd uffernol.
 Gwas'naetha Grift, rhyfela â'r cythraul,
Ti gei'r goron am dy drafael;

|| *Na wna yn rhy fawr o'r corph.*

* *Goreu.*

Cofpa'r cnawd i gadw d'enaid,
Ti gei ran o'i wledd fendigaid.

CXXVII. *Achwyn Mr. Prichard ynghylch tref Llanddyfri; ei rybudd a'i gyngor iddi.*

MENE Tecel, tref Llanddyfri,
Pwyfodd Duw di yn dy frynti;
Ni cha'dd ynot ond y forod,
Gochel weithian rhag y Drindod.

Gwialen doft fydd barod i ti,
Er ys dyddiau am dy frynti;
A'th anwiredd fy'n cynhyddu;
Gochel weithian gael dy faeddu.

Hir yr erys Duw heb daro,
Llwyr y dial pan y delo:
Am yr echwyn a'r hir 'fgori,
Och! fe dâl ar unwaith i ti.

Mae'n rhoi amfer i ti wella,
Mae'n rhoi rhybudd o'r helaetha;
Cymmer rybudd tra f'o'r amfer,
Onid ê gwae di ar fyrder.

Pa hwyaf mae Duw'n aros wrthyd,
Am 'ddifeirwch a gwell bywyd,
Waeth-waeth, waeth-waeth, yw dy fuchedd,
Ond gwae di pan ddel y diwedd.

Lle b'o Duw yn hir yn oedi,
Heb roi dial am ddrygioni,
Trymaf oll y fydd ei ddyrnod,
Pan y del i ddial pechod.

Gochel ditheu ddial Duw,
Fe ddaw ar frys er llaefed yw,
A'i draed o wlan a'i ddwrn o blwm,
Lle delo'n llaes fe dery'n drwm.

Tebyg ydwyt i Gomorra,
Sodom boeth a thref Samaria,
Rhai na fynnent wella hyd farw,
Ne's eu troi yn llwch a lludw.

Tebyg ydwyt ti i Pharao,
Oedd â'i galon gwedi fero,
'Rhwn na fynnai wella'i fuchedd,
Nes ei ddifa yn y diwedd.

Cefaiſt rybudd lawer pryd,
Nid yw cyngor * 'mheuthyn id; * *Ymheuthyn.*
Nid oes lun it' wneuthur eſgus;
O gwae di, y dref anhappus!
Bore codais gyd â'r ceiliog,
Hir ddilynais, byth yn d'annog
Droi at Dduw oddiwrth dy frynti,
Ond nid oedd ond ofer i mi.
Cenais i ti'r udgorn aethlyd,
O farn Duw a'i lid anhyfryd,
I'th ddihuno o drym-gwſg pechod,
Chwyrnu er hyn wyt ti yn waſtod.
Minneu'th ddenais â diſigyl
Addewidion yr efengyl,
Yn fwyn i'th wawdd i edifeirwch,
Ond ni chefais ond y triſtwch.
Mi'th fygythiais ditheu â'r gyfraith,
A dialau Duw ar unwaith,
Geiſio ffrwyno d'ên rhag pechu,
Ffrom a ffol wyt ti er hynny.
Cenais bibau, ond ni ddawnſiaiſt, *Mat.* 11. 17.
Toſt gwynfanais, nid alaraiſt:
Ceiſiais trwy dêg a thrwy hagar,
Ni chawn gennyt ond y gwatwar.
Beth a allaf wneuthur weithian,
Ond ei thynnu i ochr ceulan,
I wylo'r deigrau gwaed pe gallwn,
Wel'd dy arwain tu a'r *dwngwn*.
Pwy na wylai weled ſatan
Yn dy dynnu wrth edau ſidan,
I bwll uffern yn drag'wyddol,
A'r bach a'r *bait* o bleſer cnawdol.
Eſau werthai ei 'tifeddiaeth
Am philaid gawl, yſywaeth;
Ditheu werthaiſt deyrnas nefoedd,
Am gawl brag; do, do, o'm hanfonodd.
Dyma'r peth ſy'n torri nghalon,
Wrth dy wel'd di 'nawr mor ffinion,
Orfod prwfo hyn yn d'erbyn
Ddydd y farn heb gelu gronyn.
Toſt yw gorfod ar y Tad,
Ddydd y farn heb ddim o'r gwad,

Dyſtiolaethu o led ſafan
Yn erbyn brynti'i blant ei hunan.
Hyn y fydd, a hyn y ddaw,
Oni wellhau 'maes o law:
Er mwyn Criſt, gan hynny gwella,
Rhag i ddial Duw dy ddala.
Gwiſga len a ſach am danad, *Joel* 2.12,13.
Wyla nes bo'th wely'n nofiad;
Ac na fwyta fwyd na diod,
Nes cael pardwn am dy bechod.
Cur dy ddwyfron, tyn dy wallt, *Luc* 18.13.
Wyla'r deigrau dw'r yn hallt; *Ezra* 9.3.
Cria'n ddyfal iawn † *Peccavi*, † *Pechais*.
Arglwydd, maddeu meiau i mi.
Bwrw ymaith dy ddiffeithdra,
Twyll, a ffalſtedd, a phutteindra;
Gad dy fedd'dod, cladd dy frynti,
Mae Duw'n gwel'd dy holl ddrygioni. *Jer*. 16.12.
Mae dy farn wrth edau wen,
Yn crogi beunydd wrth dy ben;
Mae dy blant a phob ei reffyn,
Yn ei thynnu ar dy gobyn.
Goehel bellach, dal dy law,
Dial Duw fel bollt y ddaw;
Rhoi it' rybudd prudd ſydd raid; *Ezec*. 33.7,8,9.
Oni chym'ri rybudd, paid.

## CXXVIII. *Achwyn eglwyſwr*.

DUW gwel drymmed yw fy nghalon,
Weled faint peng'ledrwydd dynion;
Cais eu harwain tu a'r nefoedd,
Hwytheu ant i'r tân heb ddiffodd.
Golchi'r Moyrys du trwy ſebon,
Troi'r Iorddonen i ben Hermon,
Yw cynghori'r dyn pen-galed,
Ofni Duw a charcu'i enaid.
Cais trwy dêg, a chais trwy hagar,
Ofer canu i'r neidr fyddar: *Sal*. 58.4,5.
Crinia fynnech ar bren pwdwr,
Byth ni ry' ti ffrwyth na ſwccwr.
Dyſg a dangos, gwawdd, ymhwedd,
Mab y fall, ni wella ei fuchedd;

Lladd â'r gyfraith, gwawdd â'r 'fengyl,
Ni thry attat ond ei wegil.

Gollwng arno'r holl brophwydi,
A'r 'poſtolion i'w gynghori,
Nid gwaeth ffyſto pen wrth bentan,
Ni wna ond y fynno ei hunan.

Gwae fy nghalon drom gan hynny,
Na buaſai Duw'n 'wyllyſu
Fy rhoi'n fugail ar dda gwylltion,
Cyn rhoi im' ſiars y cyfryw ddynion.

Y corr a dynn y gwenwyn lyndys,
O'r blodeuyn goreu ei *relis*;
A'r dyn drwg a dynn ryw amcan *Judas* 4.
O bur eiriau Duw ei hunan.

Waith i Griſt ein Prynwr tirion
Golli troſom waed ei galon,
A'i roi'n bridwerth tros ein pechod,
Fe fyn lawer bechu'n waſtod.

Waith bod Noe a Lot yn feddw,
Waith bod Jonas hen yn chwerw,
Fe fyn lawer droedio eu beiau,
Heb ddilyn un o'u holl rinweddau.

Pob gwas gwych yn awr a fedr
Dyngu a rhegu gyd â Pheder; *Mat.*26.72,74.
Pa'm na wela'i neb yn medru
Gyd â Pheder edifaru?

Swrn ſy'n dilyn Daſydd brophwyd
Mewn godineb lle'i gw'radwyddwyd,
Ond ni wela'i neb yn dilyn
Edifeirwch Dafydd frenin.

Un a ddywed, Mi *repentaf*
Fy meiau gyd y flwyddyn neſaf.
Beth, medd Criſt, os aiff dy enaid *Luc* 12.20.
Heno nefaf gan gythreuliaid?

Llall a ddywed, Helwn heddy',
Ni wellawn ein beiau foru:
Heno lladd y gwr yn feddw;
Duw, p'le'r aeth 'difeirwch hwnnw?

Yn ol hwn y d'wed y trydydd,
Pe bae fy mai yn fwy nâ'r mynydd,
Mae Duw mawr yn fwy'i drugaredd;
Mi gaf bardwn ar fy niwedd.

Felly waith bod Duw yn rafol,
Ac yn dirion i'r 'difeiriol;
Llawer dyn fy'n pechu'n 'fgeler,
Heb wneud un pris o'i gyfiawnder.

Er fod Duw yn llawn trugaredd, *Ecf.*34.6,4.
Yn hwyr ei lid, yn dda ei amynedd, *Nah.*1.2,3.
Etto er hyn mae Crift yn d'wedyd,
Fod Duw mawr yn gyfiawn hefyd.

Duw fydd rafol, Duw fydd gyfion,
Duw fydd fwyn, a Duw fydd ddigllon;
Duw fydd ddof, a Duw fydd danllyd, *Heb.*12.29.
Duw fydd hael a chynnil hefyd.

Mae e'n maddeu'r mil talentau, *Mat.*18.
Etto'n pallu'r hatling weithiau:
Mae'n rhoi'r nef yn rhwydd i ryw un,
Etto i'r llall yn pallu'r droppyn.

I'r rhai ffyddlon edifeiriol, *Efa.*55.7.
Mae Duw'n ffyddlon ac yn rafol,
Ond i'r cyndyn cas gwrthnyfig, *Ioan* 3.36.
Mae Duw'n greulon ac yn ffyrnig. *Sal.*18.25,26.

O herwydd hyn yr wy'n cynghori,
Na ddilyner hir ddrygioni,
Ond i bawb tra fyddont byw,
Dreulio eu hoes mewn ofn Duw.

CXXIX. *Rhaid glynu wrth Grift, heb adael i ddim ein troi ni oddi wrtho.*

OS tad, os mam, os mab, os merch,
Os tai, os tir, os gwraig trwy ferch,
A gais dy droi yn draws neu'n drift,
Oddi wrth dy gred a'th ferch at Grift:

Gad dad i droi, gad fam i wylo, *Luc* 14.26.
Gad wraig i 'fgoi, gad blant i grio;
Gad dai, gad dir, gad faeth, gad fywyd;
Cyn gado Crift, gad faint fydd gennyd.

Bydd Crift yn dad, yn fam, yn frawd,
Yn graig, yn gaer, yn ffrynd yn ffawd;
Yn gyfoeth mawr, yn lles, yn llwyddiant,
Yn bob peth cu i bawb a'i carant.

Heb Grift, heb gred, heb faeth, heb fywyd,
Heb ddull, heb ddawn, heb nerth, heb iechyd,

Heb *hope*, heb help, heb ras, heb rym,
Heb ddyſg, heb dda, heb Dduw, heb ddim.

## CXXX. *Gwell Duw nâ dim.*

GWELL Duw nâ'r nef, na dim ſydd ynthi,
Gwell nâ'r ddae'r, nâ'r maint ſydd arni;
Gwell nâ'r byd nâ'i olud im', *Jer*.9.23,24.
Gwell, a dau-gwell, Duw nâ dim.

Gwell nâ thad, nâ mam, nâ mammaeth, *Sal*.27.10.
Gwell nâ chyfoeth nâ 'tifeddiaeth; *Diar*.8.19.
Gwell nâ Mari, gwell nâ Martha, *Sal*.63.3.
Gwell nâ dim yw Duw gorucha'.

Os Duw ddewiſiaiſt yn dy ran, *Sal*.73.25,26.
Cei Griſt i'th gynnal ymhob man; *Rhuf*.8.31.
Cei'r ſaint i'th gylch, cei'r byd i'th beri, *Sal*.91.
Cei'r nef i'th ran, cei'r fall i'th ofni. 11,12.

Ti ddewiſiaiſt y rhan bennaf,
Pan ddewiſiaiſt Dduw goruchaf;
Rhan na ddygir byth oddi arnad, *Luc* 10.42.
Tra parhao'r haul a'r lleuad.

Pan duo'r haul, pan wrido'r lleuad, *Mat*.24.29.
Pan ſyrthio'r ſer, pan ofno bagad, 2*Pedr* 3.10.
Pan loſgo'n boeth y byd a'i bwer, *Luc* 21.28.
Bydd dy ran di yn ddibryder. 1*Theſ*.4.17.

Cwyn dy galon, na fydd wan,
Cadw d'afael ar dy ran;
Ti ddewiſiaiſt y rhan oreu, *Dat*.2.10.
Gochel newid hyd at angeu.

## CXXXI. *Criſt yw Pren y Bywyd.*

DEWCH bob rhai at bren y bywyd, *Dat*.2.7.
Dewch at Griſt ein Prynwr hyfryd;
Mwynhewch y ffrwyth a chredwch yntho,
Chwi gewch ras a bywyd gantho. *Ioan* 3.36.

Dyma'r Pren a dyn y dincod,
A'r newyn dû, a'r poen, a'r pechod,
A melldith Dduw, a'r loes gwenwynig,
A ddaeth o fwyta'r pren gwa'rddedig.

O bwytewch o'r Pren yn rhad,
O'r nef y daeth oddi wrth y Tad,

I'n gyrru'n iach, i gadw'n bywyd,
I dorri'n chwant, i roi in' iechyd.

Mae'i ffrwyth e'n ber, mae'i ddail yn iachus, *Dat.*
Mae'i flas yn well nâ'r manna melus; 22.2.
Ni all newyn byth, nac angau, *Ioan* 6.35,
*Drwblo*'r dyn fwytao'i ffrwythau. 49,50.

Criſt yw'r Pren, Oh! dewch bawb atto,
Y ffrwyth yw'r bywyd y ſydd yntho;
Y dail yw'r gair a'i gyngor iachus,
Sy'n bywhau yr enaid clwyfus. *Mat.*11.28.

Dewch bob rhai ſy'n flin eu cyflwr,
Dewch at Griſt ein gwir Iachawdwr;
Dewch i dderbyn gras ac iechyd,
Cymmorth, cymffordd, bawb o'r holl-fyd.

Dewn at y Pren, bwytawn ei ffrwythau,
Crynhown ei ddail, rhown wrth ein clwyfau,
Fe'n gwir iacha, fe dyr ein newyn,
Fe bair in' fyw dros fyth heb derfyn.

## CXXXII. *Criſt a arwyddoccawyd wrth yr Oen Paſg.*

CRIST yw Oen y Paſg a'n Haberth,
Criſt yw'n Hoen a'n Hoffrwm prydferth; 1 *Cor.*
Oen Duw, Oen da, Oen gwyn i gyd, 5.7.
Sy'n tynnu ffwrdd bechodau'r byd. *Ioan* 1.29.

Criſt yw'r Oen a laddwyd droſom,
Criſt archollwyd am a wnaethom;
Ei waed gwerthfawr, pan groeſhoeliwyd,
Am ein beiau a dywalltwyd.

Blin, a thoſt, a thrwm, ac irad,
Poeni'r Oen am feiau'r ddafad;
Lladd Mab Duw ar flaen yr hoelion,
Am bechodau meibion dynion.

Adda'n bwyta 'falau pechod,
Dannedd Criſt yn godde'r ddincod;
Dyn yn pechu, Criſt yn marw;
P'le bu cariad o'r fath hwnnw?

Och! pa galon na thoſturia,
Chwipio Criſt am bechod Adda;
Lladd y Bugail am fai'r defaid,
Crogi'r *Prins* i gadw'r deiliaid.

Gwerthu'r Meiſtr i brynu'r gweiſion,
Lladd y Mab i gadw ei elynion;

Mwrddro'r Meddyg, brathu'i ystlys,
Gael ei waed i helpu'r clwyfus.

CXXXIII. *Crist a arwyddoccawyd wrth y Sarph Bres.*

YSAWL a frathwyd gan y ddraig,
Dewch at Grist Iesu, Had y Wraig, *Gen.* 3.15.
Fe drin y brath, fe dyn y colyn,
Fe rwym y ddraig, fe 'siga'i chobyn.
'Ry'm ni bob rhai gwedi'n brathu,
Mae col pechod gwedi'n gryddfu;
Ni all neb ond Crist ein *helo*, *Ioan* 3.14,15.
Fe yw'r Sarph Bres, craffwn arno. *Num.* 21.8.
Craffwn ar Grist a groeshoeliwyd,
Fel y craffei'r rhai a frathwyd,
Ar y sarph bres yn y * diffaith, * *Diffeithwch.*
Fe â'r loes a'r gwenwyn ymaith.
Os edrychwn arno'n brudd,
A chalon don, a llygad ffydd;
Er i'r sarph â'i chol ein clwyfo, *Luc* 4.8
Fe'n iacha ond edrych arno.
Oni ddewn at Grist ar fyrder,
I gael help rhag brath y wyber, *Ioan* 6.40
Nid oes meddyg yn yr holl-fyd,
Ond Mab Duw all gadw'n bywyd.

N. B. Nid yw'r tair Cân uchod yn un o Argraffiadau y Parchedig Mr. STEPHEN HUGHES.

CXXXIV. *Hymn neu Gân ar ddydd Nadolig.*

POB cristion ag sy'n clywed,
A'm llais yn medru ystyried,
Cenwch foliant gyd â mi,
I'r un Duw tri gogoned.
Dyrchefwch eich calonnau,
Cyd-genwch Salms a Hymnau,
Er clod a mawl i'n Prynwr cu,
A § aned heddy'r borau.
Can's dyma'r dydd y dylen,
Ymroi i fod yn llawen,
I glodfori bob rhyw awr,
Ein Ceidwad mawr a'n Cefen.

§ Er bod yr ysgrythur yn dangos eni CRIST, etto y m hi yn gwbl ddistaw am y diwrnod y ganed ef.

Os dyma'r dydd y ganed
Crist, Ceidwad, Cymfforddᶁ holl-gred,
Unig Helpwr yr holl fyd;
A gwyn ei fyd ei weled.
Dyma'r dydd y cafas
Holl-gred eu gwyn a'u hurddas;
Dyma'r dydd y torwyd pen
Y sarph a'r filen atgas.
Dyma'r dydd y cawsom
Y gwynfyd gynt a goll'som
Trwy wall Adda, ein Tad cu,
Pan ddaeth Crist Iesu attom.
Dyma'r dydd a dorrodd
Y fagal gynt a'n rhwydodd;
Dyma'r dydd a barodd Och!
I'r wiber goch a'n hudodd.
Os dyma'r dydd y ganed
Mab Duw, yr Had bendiged,
Addawsid gynt o hil y wraig,
I sathru'r ddraig oedd enbaid:
O moeswch in' gan hynny,
Sancteiddio'r dwthwn heddy',
Er cof am Brynwr yr holl fyd,
A ddaeth mor ddrud i'n helpu.
A nedwch in' anghofio
Yn ddyfal i fendithio,
Am y cymmorth mawr i gyd,
A ga'dd y byd oddi wrtho.
Ond moeswch in' glodfori
Ei enw, a'i foliannu
Dydd a nos tr'o ynom chwyth,
A'r eithaf byth o'n gallu.
A heddyw yn enwedig,
Yn gyfan ddydd Nadolig,
Cenwch nes dadseinio'r nef,
Gan lais eich llef garedig.
O'r caniad cynta'r ceiliog,
Ymrowch i godi'n gefnog,
I glodfori hyd y wawr,
Eich Prynwr mawr trugarog.
A phan y torro'r wawr-ddydd,
Cyd-genwch â'r uchedydd,

Foliant am eich * tynnu maes,
O'r tywyllwch cas tragywydd.
A chanol dydd, heb orphen
Fel ceiliog y fwyalchen,
Cenwch Salmau iddo'n glos,
Nes dycco'r nos y ſeren.
A chwedi'n o'r dechreu-nos,
Yn ddyfal fel yr eos,
Cenwch, cenwch, nac orphwyſwch,
Nes gorphennu'r hir-nos.
Ac felly nos a borau,
A chanol dydd yn ddiau,
Treuliwch y Nadolig ddydd,
Mewn diolch prudd a Salmau.
Os dyma'r dydd i'n prynwyd,
A'r dydd i'n *reconſeilwyd*
Yn ffryns â Duw ein Barnwr prudd,
A dyma'r dydd i'n helpwyd.
Dyma'r dydd a'n cododd,
O uffern hyd y nefoedd,
A'r dydd a'n gwnaeth yn || blant i Dduw;
Ond hyfryd yw'i weithredoedd.
Dyma'r dydd ſy'n rhwygo
Ein ſach, a'r dydd ſy'n datro
Ein triſtwch i lawenydd trwch;
O gorfoleddwch yntho.
Os dyma'r dydd y ganed
Oen Duw, yr had bendiged,
I dynnu ffwrdd bechodau'r byd,
Oedd goch i gyd fel 'ſgarled:
Dyma'r dydd gan hynny
Y mae in' orfoleddu,
A myn'd i lyſoedd Duw yn lân,
Tan ddiolch a than ganu.
Dyma'r dydd ſydd i ni
Yn ddyfal i'w addoli,

* Mae rhai heb eu goleuo trwy eu bai eu hunain, Ioan 5.40.

|| Cynnifer ag a'i derbyniaſant ef, efe a roddes iddynt allu i fod yn feibion i Dduw, ſef i'r ſawl a gredant yn ei enw ef, Joan i.12. ac nid i neb arall.

A'i fendithio bob rhyw awr,
Am dan ei fawr ddaioni.

A chofio'r modd a'n prynodd,
Trwy'r gwerthfawr waed a gollodd,
O tan ei fron ar grog-pren croes,
A'r chwerw loes a gafodd.

Fel pelican cariadus,
Tu ag at ei adar clwyfus,
Fe rodd gwaed ei galon bur,
I helpu'i frodyr 'nafus.

Fe addawodd yr angylion,
I ddwad at Iuddewon,
I brynu enaid dyn yn rhad,
A gwerthfawr waed ei galon.

O'r gadair ym mharadwys,
I'r ddae'ren fe ddifgynwys,
I gym'ryd cnawd o Fairwen § dlos, § *Dêg.*
I farw dros ei * eglwys. *Eph.* 5. 25.

Fe gym'rodd arno'n tlodi,
A'n gwaeledd a'n gofidi,
A'r holl ddial arno'i hun,
A haeddai ddyn a'm frynti.

Fe wanwyd am ein beiau,
F'archollwyd am gamweddau;
Ond trwy'i gleifiau fe iachaws
Holl liaws ein pechodau.

Fe gollodd waed ei galon,
Ar grog-pren hefyd drofon,
Ac fe'n gwnaeth yn blant i Dduw,
Pan oeddem yn elynion.

Fe'n golchodd o'n pechodau,
Fe brynodd ein heneidiau;
Ac fe'n || dug i deyrnas nef,
Er maint yw llef ein beiau.

* Sef y bobl ag a alwyd neu a elwir i undeb ag ef ei hun trwy ffydd, aci ufuddhau iddo mewn cyfiawnder a fanćteiddrwydd.

|| Ni ddwg Crist neb o honom ni i deyrnas nef a fo byw a marw heb ffydd, edifeirwch, a fanćteiddrwydd buchedd. Mae Duw yn dweud, na chaiff y rhai anghyfiawn etifeddu ei deyrnas ef, 1 Cor. vi. 9, 10. Y mae efe wedi tyngu yn

O moeſwch in' gan hynny,
Yn geſnog ei glodfori,
Ddydd a nos, chwi welwch pa'm,
Mor raſol am ein prynu.
A moeſwch i ni gadw
Y gwyliau s'ar ei enw,
Mewn duwiolder, rhinwedd, rhad,
Caredigrwydd, cariad croyw.
A moeſwch i ni dreulio
Yn ſanctaidd heb ei nurddo
Mewn oferedd yn y byd,
Ond pawb i gyd ſancteiddio.
Trown heibio afreolaeth,
A medd-dod, a phibyddiaeth,
Ac awn ynghyd i deml Dduw,
Can's hynny yw criſt'nogaeth.
Nid gweddaidd i griſt'nogion
Ymdroi mewn beiau bryntion,
Ar wyliau Criſt ein Prynwr prudd,
Y modd y bydd Iuddewon:
Ond treulio'r rhai'n yn ſanctaidd,
Yn ſobor ac yn weddaidd,
Megis blant i'n nefol Dad,
Mewn gras a chariad perffaidd.
Ac arfer pob diwrnod, *Sal.*51.17.
Yn ddyfal iawn i ddyfod, 1*Cor.*9.20.
I * deml Dduw a'i ſanctaidd dŷ, *Rhuf.*12.1.
Bob rhai tan ganu mawr-glod. *Mat.*6.6,7,8.

ei lid, na chaent ddyfod i mewn i'w orphwysfa ef, Heb iii. 11. Fe ddywed Criſt wrth y cyfryw, "Ewch ymaith "oddi wrthyf chwi holl weithredwyr anwiredd," Luc xiii. 27. Edrychwn ninneu attom ein hunain, a gochelwn aros yn ein pechodau. Er i Griſt ddyfod i gadw pechaduriaid ag ſydd yn gwir gredu, etto efe a ddaeth i dorri gwddf eu pechodau hwynt, 1 Joan iii. 8. fel na byddo i neb ſyned i'r nef heb ei ſancteiddio ar y ddaear, Heb. xii. 14.

* Temlau Duw mewn gwirionedd ymadrodd yn nyddiau'r efengyl yw cynnulleidfaoedd y rhai ſydd yn ofni ei enw ef; yr un peth yw ei dŷ ef a'i deml. "Eithr Criſt megis "Mab ar ei dŷ ei hun, tŷ yr hwn ydym ni, os nyni a geidw "ein hyfder, a gorfoledd ein gobaith yn ſicr hyd y di-"wedd," Heb. iii. 6. "Teml y Duw byw ydych chwi,"

Nid edrych ar ein dwylo,
Am roi un aberth iddo,
Ond clod a mawl tu fewn i'w lys,
Can's hyn fydd felus gantho.

O dewch i'w byrth gan hynny,
Tan ddiolch a than ganu,
Fach a mawr ar foreu a hwyr,
Yn brudd i'w lwyr foliannu.

O dewch i'w deml fanctaidd,
Yn drefnus ac yn weddaidd,
I glodfori enw Duw,
Can's hyfryd yw a gweddaidd.

Tra gweddaidd a pherth'nafol,
I bob rhyw griftion duwiol,
Foli ein Prynwr ddydd a nos,
Am farw dros ei bobol.

Dyma i gyd y taliad,
Y diolch a'r aberthiad,
Y mae'n ddifgwyl ar law'r gwyr,
Am dan ei gur a'i gariad.

Gan hynny curwch ddwylo,
A rhoddwch foliant iddo,

medd Paul wrth yr eglwys neu'r ffyddloniaid yng Nghorinth, 2 Cor. vi. 16. Nid ydwyf fi, yn y mefur lleiaf, yn dywed d un gair yn erbyn dyfod yn barchus i addoli Duw, yn ol ei ewyllys ei hun, yn y lleoedd y mae'r Awdwr yn eu galw yn demlau ac yn eglwyfydd: Ac nid wyf fi yn gwadu nad ellir, wrth ddull o ymadrodd a elwir Metonomia, alw y lleoedd hynny wrth yr enwau y mae'r Awdwr yn eu harfer. Ond yn gymmaint ag nad oedd un adeilad mwy nâ'u gilydd yn awr, yn nyddiau'r efengyl, wedi ei adeiladu trwy orchymmyn neilltuol y Goruchaf DDUW, a phortreiad mewn yfgrifen oddiwrth ei Yfpryd ef, fel yr adeiladwyd y Deml fawr yn Jerufalem yn amfer y Gyfraith; nac un lle mwy nâ'i gilydd yn awr yn arwydd o Grift a'i bobl fel yr oedd y deml honno y pryd hynny, Ioan ii. 19, 21. nac un addewid yn awr o brefennoldeb Duw i un lle mwy nâ'i gilydd (pan fyddo y gynnulleidfa o bobl yr Arglwydd yn abfennol) fel yr oeddent yr amfer hynny i'r deml honno, 1 Bren. ix. 3. Am y rhefymmau hyn, nid wyf fi yn deall etto, cyntaf beth a ddeallaf fi ar ol hyn, pa fancteiddrwydd yr oedd yr Awdwr bendigedig yn tybied ei fod yn y cyfryw leoedd, 1 Tim. ii. 8.

Yn ei deml fawr a'i lys,
Can's hyn ſydd felus gantho.
A nedwch i ni'n un-lle,
I gablu â'n geneuau,
Rhag ein myn'd yn waeth ein § *cas*, § *Cyflwr.*
Na Suddas a'i bradychai.
I'r Tad, i'r Mab, i'r Yſpryd,
I'r Drindod, Undod hyfryd,
Y bo clod a moliant mawr,
Bob dydd, bob awr, bob ennyd.

CXXXV. *Cyngor i geiſio yr Arglwydd Ieſu Griſt.*

O Cais gwr, na gwraig, na phlentyn,
Gael y bywyd mawr diderfyn,
Ceiſient Griſt s'â'r bywyd yntho, 1 *Ioan* 5.12.
A hwy gânt y bywyd gantho.
Rhaid yw ceiſio Criſt yn gynta',
Lle mae'r bywyd yn llettya;
Gwael yw'r gwaith, a thraws, a thriſt,
Geiſio'r bywyd nes cael Criſt. *Ioan* 14.6.
Cais di Griſt yn Geidwad i ti,
Ac yn Arglwydd i'th reoli;
Ti gei'r bywyd didrangc yntho,
Ac ni cholli fyth 'mo hono.
Oni cheiſi Griſt yn Geidwad,
Ac yn Llywydd parchus arnad,
Nid yw boſib' it' ddychymmyg,
B'wedd y byddi ddyn cadwedig.
Pawb a chwennych gael wrth farw
Criſt fel Ceidwad pur i'w cadw;
Wrth fyw ni fyn ond rhai o'r rhei'ny
Griſt fel Arglwydd i'w rheoli.
Na'd dy dwyllo griſtion anllad,
Ni bydd Criſt i neb yn Geidwad,
Ond i'r dyn a gym'ro o ddifri'
Griſt yn Arglwydd i'w reoli. *Heb.*5.9.
'Rhwn na fynno ei reoli
Gan air Duw a'i Yſpryd gwiſgi,
Nac edryched y dyn hwnnw
Gael gan un Mab Duw ei gadw.
Cais gan hynny Griſt yn Geidwad,
Ac yn Ben-rheolwr arnad;

Ni all un-dyn, gwnaed a fynno,
Byth fod yn gadwedig hebddo.

Pe caet ti'r byd a'i bethau euraid,
Heb gael Crist i gadw'th enaid,
Beth y dalai'r drwg-fyd trist,
Os colli d'enaid eisiau Crist?

Pe caet Grist, heb ddim ond hynny,
Ti gaet ddigon i'th ddiwallu:
Mae yn gryno yng Nghrist ei hun, *Col.* 1.19.
Oll sydd raid i gadw dyn.

Och! na welit mor angenrhaid
Yw Mab Duw i gadw d'enaid,
Ac na elli weithio, 'sywaeth,
Hebddo, ddarn o'th iechydwriaeth.

Ond bod yn rhaid ac yn gorfod,
Arnat geisio'r Iesu drosot,
Weithio'r cwbl, ddechreu a diwedd,
Cyn y gallech gael trugaredd.

Os ni ddichon dyn nac angel,
Gwyllt na dof, nac un anifail,
Wella dim o'th gyflwr truan,
Nes gwellhao Crist ei hunan.

Rhaid it' Grist yn Dduw, yn Ddyn,
A'i ddwy nattur tan yr un,
Weithio pob darn o'th brid-bryniad,
Cyn boddloner Duw'r Uchel-dad.

Rhaid i Grist, dy Frawd, dy Frenin,
Weithio pob darn, a phob tippyn,
O'r gwaith mawr o'th iechydwriaeth;
Ni all eraill helpu, ysywaeth.

Os cais enaid dyn feddiannu
Crist a'i ddoniau i'w § ddiddanu,
Rhaid i'r enaid bach ymgweirio,
Dderbyn Crist cyn delo atto.

Gwna dy enaid bach yn barod
I gael Crist i drigo ynod,

§ Er fod Crist yn dyfod i lanhau y pechadur pan y mae ef yn aflan, etto nid yw efe'n dyfod i ddiddanu y pechadur nes yn gyntaf ei sancteiddio ef, Ioan xiv. 15, 17, 21, 23. Mae'n rhaid bod gras yn gyntaf, cyn y gellir cael heddwch a llawenydd yn yr Arglwydd, Rhuf. v. 1, 2. a xv. 13.

Gwedi'n planna dy hun yntho,
A thyn ras a grym oddi wrtho.

Rhaid it' wneuthur, anwyl griſtion,
Lle i Griſt cyn del i'th galon,
A chymhennu ei le'n barod,
Cyn y delo tan dy fargod.

Ni all Criſt na'i Yſpryd ſanctaidd,
Aros byth mewn lle anghruaidd:
Os cais un dyn ei gyfeillach,
Gwnaed ei galon iddo'n lanach.

Ni ddaw Criſt i'r galon aflan,
Nes troi pechod oſlyd allan:
Ni thrig Criſt lle bo aflendid,
Sanctaidd yw a glân o Yſpryd.

Ni chyttuna Duw a dagon,
Criſt a belial mewn un galon,
Mwy nâ'r dw'r a'r tân pan ddoder
I gyd-aros mewn un lleſter.

Ni all calon llawn o falchder,
Dderbyn Criſt nes yr arllwyſer,
Mwy nâ baril llawn o blwcca,
Dderbyn llaeth nes *fento*'r llacca.

Rhaid ymado'n lân â phechod,
A'i gaſhau, a'i lwyr ymwrthod,
Cyn y gallo enaid un-dyn
Gael cyfeillach Criſt, na'i dderbyn.

Rhaid i'r enaid bach ymarllwys
O bob pechod y mae'n gynnwys,
Fel y gallo Criſt â'i ddoniau
Lenwi'r enaid gwag â'i radau.

Ni all un-dyn dderbyn Criſt
I'r galon aflan, druan, driſt,
Nes cymhennir hon yn gyntaf, *Eſay* 57.15.
I roeſawi'r Brenin mwyaf. *Sal.*24.9,10.

Ni all un dyn wrth gwrs nattur,
Chwennych Criſt, er maint ei ddolur,
Nes del Duw a'i ras i'w gyffro,
A dwyn y dyn o'i * anfodd atto.

* Er bod dyn trwy nattur yn anewyllyſgar i ddyfod at Griſt, etto ar ol tywalltu Yſpryd Duw arno, a gweithio gras yntho, y mae efe yn dyfod atto yn ewyllyſgar ac o'i wir-fodd, Eph. ii. 1. Diar. i. 2, 3. Ioan vi. 44. Cân. i. 4. Salm.cx. 3. 2 Cor. iii. 5. Phil. ii. 13.

Duw o'i ras a'i naws ei hun,
Sy'n cynnyg Crift i gadw dyn,
Nid dim ond mwynder Duw yn unig,
Sy'n cynnyg Crift i'r dyn colledig.

Nid oes dim mewn dyn all gyffro
Duw i ddangos ffafar iddo,
Duw o'i nattur dda ei hun,
Sy'n rhoddi Crift i gadw dyn.

Mae Duw'n cynnyg dw'r y bywyd,
Gras, a dawn, a didrangc iechyd,
Yn rhad, yn rhwydd, i'r dyn a'i mynno,
Os daw at Grift a fyched arno. *Dat.* 21.6.

Mae Duw'n galw pawb yn rhin,
I fwytta manna, i yfed gwin,
Yn rhad, yn rhwydd, heb aur, heb arian, *Efa.* 55.
Os at Grift y dewn dan drottian. 1,2.

Nid yw Duw yn gwardd i un-dyn
Dderbyn Crift, a'i gadw, a'i ganlyn;
Y mae'n gwardd i neb ei wrthod,
Er ffieiddied y fo'i bechod. *Efa.* 1.18.

Er bod Duw yn cynnyg Crift
I bob pechadur truan trift,
Ni ddaw un er hynny atto,
Nes del Duw â bach i'w ‡ lufgo.

Ni ddaw un-dyn, gwnaed y fynno,
At Fab Duw, er maint ymg'weirio,
Nes y tynno Tad trugaredd *Ioan* 6.44.
Ef at Grift i gael ymgeledd.

Ni ddoe'r ddafad aeth ar ddidro,
Byth i'r gorlan nes ei chario;
Na phechadur at ei Geidwad,
Nes ei gario fel y ddafad. *Luc* 15.

Ni ddaw lleidr at yr uftus
Byth o'i fodd, ond yn wrth'nebus;
Na phechadur, er ei flingo,
At ei Brynwr, nes ei lufgo.

Y mae nattur yn gwrth'nebu, *Gal.* 5.17.
Mae cydwybod yn ei nadu;

‡ Pan yr ydys yn dywedyd fod Duw yn llufgo dyn at ei Fab Crift, ei yftyr yw, fod Duw trwy ei Yfpryd a'i ras yn gwneuthur dyn, ag fydd o hono ei hun yn anewyllyfgar, i fod yn awr yn ewyllyfgar i dderbyn Crift, Cân. i. 4.

2 S

Mae'i bechodau'n d'wedyd wrtho,
Ei condemnir os daw atto.
Rhaid i Dduw'r Tad agor llygaid
Dyn i wel'd gofidi'i enaid,
A'i drueni, a'i wael gyflwr,
Cyn 'mofynno am Iachawdwr. *Act.*26.18.
Ni ddaw'r iach i 'mofyn meddyg, *Marc* 2.17.
Nes y gwelo ei glwyfo'n ffyrnig;
Ni ddaw dyn i 'mofyn Ceidwad,
Nes y gwelo ei gyflwr irad.
Rhaid in' weled ein trueni,
A'n tost gyflwr a'n gofidi,
A'r ddamnedig 'stad ein ganed,
Cyn gwel'd eisiau Crist er rheitted.
Rhaid i'r Tad, â'i air a'i Yspryd,
Oleuo dyn i wel'd ei osid,
Cyn y ceisio dyn diwybod
Help gan Grist i faddeu'i bechod.
Rhaid i'r Tad â bach o gariad, *Hos.*11.4.
Dynnu dyn fel tynnu dafad,
Cyn y delo un pechadur
At Fab Duw i geisio cysur.
Rhaid i Dduw droi'r galon garreg *Ezec.*36.26.
Yn galon gig, mor *soft* a'r bloneg,
Nes dolurio wel'd ei chyflwr,
Cyn 'mofyno'i am Iachawdwr.
Rhaid i Dduw'r Tad ddangos i ti,
Olud ei ras a'i dosturi,
Yn rhoi'i Fab drosot i'w groeshoelio,
Cyn y mentrech ddwad atto.
Rhaid i'r Tad fynegi i ti,
Mor anfeidrol o'i ddaioni,
Ac mor barod yw i faddau
I'r 'difeiriol ei holl feiau:
A'i fod e'n gwawdd ac yn ceisio *Esa.*55.7.
Pob pechadur ddwad atto,
I gael cyfran o'i drugaredd,
Ond ymwrthod â'i ddrwg fuchedd.
Rhaid i Dduw orchymmyn i ti, 1 *Ioan* 3.23.
Tan boen melldith drom a didri,
Gredu yng Nghrist a 'mddiried yntho,
Cyn y mentrech ddwad atto.

Gwedi galw a gorchymmyn,
Rhaid i'r grafol Dad dy ganlyn,
Ddwad at Grift i'th gymmodi,
A'th Dad nefol gwedi fiommi.
Rhaid dy ganlyn yn gariadus,
Mae dy nattur mor wrth'nebus,
Cyn y delech trwy ymhwedd,
I gael heddwch a thrugaredd.
Rhaid i'r brenin ganlyn bradwr,
Ac ymhwedd â'r trofeddwr,
Cyn y delo i geifio pardwn,
Am ei frad, a'i drais, a'i *dref-wn.*
Er nad gweddus iddo ganlyn
Arnat ti fy'n pechu i'w erbyn,
Mae'n ymhwedd â thi'n deilwng, *Ezec.* 33.11.
Ddwad atto i geifio pardwn.
Gwedi'r canlyn rhaid yw dangos
Ddaed amynedd Duw a'i ymaros, 2 *Pedr.* 3.9.
Mor ddioddefgar ac mor ddiddig,
Yw i'r criftion llaes hwyrfrydig:
Ac mor bwyllog y mae'n edrych,
Gan gyd-ddwyn â'th feiau'n fynych, *Mat.* 23.37.
A hir-aros wrth dy blefer,
I roi ymaith bob diffeithder.
Er dy gathrain, er dy gyffro,
Er dy ganlyn a'th oleuo,
Ni ddoi byth at Grift o'th bechod,
Nes y pigo Duw'th gydwybod: *Act.* 2.37.
A'th gyhuddo, a'th ragfarnu,
A'th gondemnio, a'th lwyr adu,
Gan dy *gonfiens* doft dy hunan,
Am dy fuchedd oflyd aflan.
Ac er pigo dy gydwybod,
A'th gondemnio am dy bechod,
Ni ddoi byth at Grift er hynny,
Nes del Yfpryd Duw i'th dynnu. *Ioan* 6.44.
Rhaid i Dduw â'i Yfpryd gwiwlan
Fwrw i maes yr yfpryd aflan
Sy'n dy galon yn teyrnafu,
Cyn y ceifiech help Crift Iefu. *Eph.* 2.2.
Rhaid i'r Yfpryd Glân dy dynnu,
A'th ryddhau, a'th lwyr waredu,

Oddi wrth ſatan, a'th gyf'rwyddo
At Fab Duw, cyn delech atto.

Rhaid dy dynnu oddi wrth bechod, *Ioan* 14.23.
A rhaid puro dy gydwybod,
A ſanćteiddio'r galon aflan,
Cyn y delo Criſt i'th gyfran.

Plant digofaint wrth naturiaeth, *Eph*.2.3.
Y'm ni bob rhai oll, yſywaeth,
Hyd nes gwnelo Criſt ni, clyw,
O blant digofaint yn blant Duw. *Ioan* 1.12.

Mae digofaint Duw mor greulon
Yn llofgi yn erbyn pechod dynion;
Nid oes dim all ddofi ei loſgfan,
Ond gwaed calon Criſt ei hunan.

Ni all y dw'r s'uwchlaw'r ffurfafen,
Na dw'r y môr, na dyfroedd Hafren,
Ddiffodd digter Duw at ddyn,
Nes dofo Criſt â'i waed ei hun.

'Ry'm ni bob rhai yn elynion *Rhuf*.5.1,10.
I'r Duw mawr, y Barnwr cyfion,
Nes y gwnelo Criſt ei hun
Heddwch têg rhwng Duw a dyn.

Ni all dyn, na diawl, nac angel,
Na nef, na dae'r, mi ddyweda'n uchel,
*Reconſilo* Duw â dyn,
Nes *reconſilo* Criſt ei hun.

'Ry'm ni bawb tan felldith greulon, *Gal*.3.
Am droſeddu'r gyfraith gyfion; 10,13.
Ni ddaw neb o tan y felldith,
Nes gwaredo Criſt e'n ddiwyth.

'Ry'm ni bawb yn weiſion pechod, *Ioan* 8.
Yn pechu beunydd bob diwrnod; 34,36.
Ni all un-dyn lai nâ phechu,
Nes del Criſt i'w atgenhedlu.

'Ry'm ni bawb yn *ſlafs* i ſatan,
Ac mewn carchar tywyll aflan;
Nes del Criſt i ddwyn ei arfau, *Luc* 11.21,22.
Ni ddaw dyn i maes o'i grampau.

'Ry'm ni bawb yn *ſlafs* i'r cythraul, 1 *Ioan* 3.8.
Ac mewn carchar dû diogel; *Col*.1.13.
Nes del Criſt i rwymo ſatan,
Ni ddaw neb o'i deyrnas allan.

Pe doe Micael a'i angylion, *Dat.*12.7—11.
I ymdrechu â'r ddraig greulon,
Ni orchfygu byth 'mo hono,
Nes del Oen Duw i'w gongcwero.

'Ry'm ni'n euog bawb o angau, *Rhuf.*6.23.
Ac o uffern boeth a'i phoenau; *Rhuf.*1.8.
Ni all un-dyn ddiangc rhagddynt,
Nes gwaredo Crift ni oddi wrthynt.

Fe'n condemniwyd, cyn ein geni, *Rhuf.*5.12,
Bawb am drofedd ein rhieni; 17,18.
Rhaid cael cymmorth Crift yn gynta',
Cyn cadwer un o eppil Adda.

Ni chaiff un-dyn, gwnaed a allo,
Fyn'd i deyrnas Dduw i *dario*,
Nes ail-aner hwn yn hyfryd,
Gan Fab Duw, â'r dw'r a'r Yfpryd. *Ioan* 3.5,6.

Rhaid i Grift ein atgenhedlu,
A'n ail greo a'n newyddu,
Cyn y caffo un-dyn cnawdol
Etifeddu'r deyrnas nefol.

Ni allai neb orchfygu'r ddraig,
Na 'figo ei fiol am dwyllo'r wraig,
Na'n tynnu maes o'i dywyll gorlan,
Ond Had y wraig, Mab Duw ei hunan. *Gen.*3.15.

Ni allai neb roi rhan o'r fendith,
Na'n tynnu maes o tan y felldith, *Gal.*3.13.
Ond Iefu Grift yr Hedyn dinam,
Addawodd Duw o lwynau Abram. *Gen.*12.18.

Ni allai un creadur hynod
Ein tynnu maes o ddannedd pechod,
A'n dwyn i'r nef at Dduw i *dario*,
Ond Iefu Grift yr unig Silo.

Duw ddug Ifrael trwy law Mofes,
O gramp Pharao i Ganaan gynnes;
Duw trwy Grift a'n harwain * ninneu
O gramp fatan i'r nef oleu.

Y neidir bres a helpai'n efgud
Y rhai a frathai'r neidir danllyd;
A Chrift â'i waed a helpa'n fuan
Yr enaid prudd a fratho fatan.

* Os credwn ni yntho, ac os edifarhawn am ein pechodau, a bod yn ufudd iddo, Heb. 5. 9.

Gwaed yr Oen a gadwai'r angel *Num.*21.9
I maes o'r tai rhag difa Israel; *Ecs.*12
Gwaed Mab Duw a geidw satan *Ioan* 3.14,15
I maes o galon pawb a gredan'.

Fel y tynnodd Dafydd rymmus 1 *Sam.*17
Oen o enau'r llew afradus; 34,35
Felly tynnodd Crist ein Bugail *Act.*26.18
Enaid dyn o enau'r cythraul.

A'i farwolaeth lladdodd Samson *Barn.*16.30
Y rhai pennaf o'i elynion:
A'i ddioddefaint lladdodd Iesu
Angeu, pechod, diawl, a'i deulu.

Maent hwy'n farwol gwedi'u clwyfo,
Er bod chwythiant ynthynt etto;
Ni all eli sy'n yr holl-fyd
Iachau eu clwyf, na chadw eu bywyd.

Nid oedd dim a olchai Naaman, 2 *Bren.*5
O'i glwyf gwan, ond dyfroedd Jordan;
Nid oes dim a'n golcha ninnau,
Ond gwaed Crist, oddi wrth ein beiau.

Helodd Duw ei angel hyfryd,
I ddwyn Sadrac o'r ffwrn danllyd; *Dan.*3.
Helodd Duw ei Fab ei hunan
I'n dwyn ni o ffwrnes satan.

Jonas a fu 'mol y morfil
Dridiau a their-nos mewn mawr bery'l;
Felly bu ein Prynwr hygar
Trosom ni ym mola'r ddaear.

Fel offrymodd Abram Isaac, *Gen.*22.
I JEHOFA ar ben Moriac;
Felly offrymodd Crist ei enaid,
I'w Dad cyfion dros ei ddefaid.

Neb ymolchai ym mhwll Bethesda, *Ioan* 5.
Fe iachaid o'i glwyf pwy bynna';
Neb ymolcho yng waed y Cymmod,
Fe iachair o bob rhyw bechod.

Gwaed y pelican sy'n helpu
Ei adar gwedi'r sarph eu brathu:
Gwaed yr Oen all gadw'r cristion,
Gwedi i bechod frathu'i galon.

Yr unicorn â'i gorn a helpa
'R dw'r lle chwydo'r sarph ei chylla;

Crist â'i waed all gadw'r enaid
Lle chwydo'r sarph ei wenwyn enbaid.
Mor g'wilyddus i ni wrthod
Un Mab Duw i fod yn Briod,
A phe pallai merch rhyw *feger*
Fod yn wraig i frenin Lloeger.
Nid yw bosib' i neb ddringad Gen.28.12.
I'r nef uchel uwchlaw'r lleuad,
Oni chymmer ysgol Iago,
'R hon yw Crist, i ddringad arno.
O gan hynny llef yn irad,
Am gael gafael yn dy Geidwad:
Na'd i'r byd na dim sydd yntho,
Beri it' golli d'afael arno.
Llef am Grist fel hydd am afon, Sal.42.1.
'Mofyn Grist a phob fforddolion:
Cais e'n ddyfal nes y caffech, Can.5.8.
Cadw d'afael pan ganfyddech.
Cyn y gallech chwennych Crist,
I gadw d'enaid truan trist,
Rhaid it' wel'd fod gras a gallu
Gan Fab Duw i'th gadw a'th brynu.
Rhaid it' wel'd fod Crist yn rasol,
Yn Dduw, yn ddyn, yn rymmus hollol;
Yn well nâ dim; yn rheitach wrtho
Nâ'r byd i gyd a'r maint sydd yntho.
Rhaid it' wel'd fod Crist yn rheitach,
Yn well ymhell, yn werthfawroccach,
Nâ'r byd a'i bethau darfodedig,
I gadw d'enaid bach o'i beryg'.
Ni all y byd a'i werthfawr bethau
Brynu d'enaid byth o'i boenau;
Fe all Crist ei ddwyn i'r nefoedd,
O grafangau'r sarph a'i twyllodd.
Fe all Crist â'i waed ei olchi Esa.1.18.
O'i bechodau fel y lili;
Er eu bod mor goch a'r 'sgarled,
Eu glanhau mor wyn a'r foled.
Fe all Crist dy ail *reparo*,
Yn ddyn newydd er dy nyrddo,
A'th gyfnerthu tra f'ech byw,
Fyw mewn ffafr dyn â Duw.

Fe all Crist dy lwyr *ffwrnisho*,
A gras a grym i lynu wrtho; *Ioan* 1.16.
A dysg, a dawn, a gwir wybodaeth,
I weithio gwaith dy iechydwriaeth.
Fe all Crist *recyfro* i ti
Faint a gollodd dy rieni,
A rhoi i ti siwrach bywyd,
Na's gall satan ddwyn oddi wrthyd.
Fe all Mab Duw gadw d'enaid,
Er ei fyn'd i fysg y bleiddiaid,
A'i ddwyn adref i'r wir gorlan,
Yn wych ar ei ysgwyddau'i hunan.
Ni all y byd, a'r maint sydd yntho,
Gadw d'enaid, na *recyfro*
Faint y gollaist gynt yn Adda,
Ond dy ollwng i'r pwll isa'.
Crynho di 'nghyd dy rym a'th allu,
Rho'th goel, a'th drist, a'th bwys ar Iesu;
Cais ef, car ef, craffa arno,
Bydd siwr i gadw d'afael yntho.
Rhaid i Gristion brudd 'wyllysio
Cael Mab Duw yn Geidwad iddo,
Cyn y byddo'r Prynwr hawddgar,
Geidwad byth i'r anewyllysgar.
Oni chwennych, oni flysia, *Dat*.22.17.
Oni chais, oni sycheda
Dyn am Fab Duw gael ei gadw,
Ni thry Mab Duw byth drwyn hwnnw.
Ni ry Duw mo'i Fab i un-dyn,
Nes b'o chwannog i'w ei dderbyn;
Rhaid yw chwennych Crist a'i geisio,
Cyn y caffer gafael arno.
Os bydd un-dyn yn 'wyllysio,
Yn hiraethu, yn dymuno, *Mat*.5.6.
Derbyn Crist, a'i ras, a'i ffafar,
Duw rhy iddynt yn ewyllysgar. *Sal*.110.3.
Ni chais Duw gan ddyn edifar,
Ond derbyn Crist yn dra 'wyllysgar;
Y dyn a'i ceisio yn awyddus,
Fe'i caiff e'n rhad yn ol ei 'wyllys. *Dat*.22.17.
Cyn cael Crist, a gras oddi wrtho, *Eph*.3.17.
Rhaid cael ffydd i 'maflyd yntho;

Heb ffydd ni all un-dyn byw
Gyrraedd gafael ar Fab Duw.

Ni chaiff criftion, mwy nâ phagan,
Les, na ffrwyth, na rhan, na chyfran,
O'r maint oll a brynodd Iefu, *Gal.* 5.6.
Heb ffydd fywiol i'w meddiannu.

Ffydd fydd reittaf peth i'w cheifio,
Byth ni chei di Grift heb honno:
Cais y fynnech yn dy ddydd,
Ni cheidw Crift ti byth heb ffydd. *Mat.* 16.16.

Heb ffydd ni bydd it' wnel â Chrift, *Rhuf.* 14.23.
Heb ffydd mae'r weithred oreu'n drift;
Heb ffydd ni wir foddlonir Duw; *Heb.* 11.6.
Wrth ffydd y bydd y cyfion byw. *Rhuf.* 1.17.

Pe bae gennyt aur fynyddau,
A'r byd yn bac a'i amryw bethau,
Beth fyddet gwell ar ddydd angenrhaid,
Os eifiau ffydd y colli d'enaid?

Pe baet mor dlawd a Lazar druan,
Heb dai, heb dir, heb fwyd, heb 'fgreppan,
Heb ddâ, heb ddim ond ffydd yn unig,
Trwy ffydd yng Nghrift ti wyt cadwedig.

Er na ddichon mynydd euraid
Gyffro Crift i gadw d'enaid,
Gronyn bach o ffydd fel hedyn, *Luc* 7.50.
All ei gyffro i gadw un-dyn.

Heb ffydd ni ellir cael diddanwch, 1 *Pedr* 1.8.
Gwir lawenydd, na dedwyddwch,
Yn y nef nac ar y ddaeren;
Bod heb ffydd fydd beth aflawen.

Heb ffydd ni chei ran yng Nghrift,
Heb ffydd fe'th droir i uffern drift,
Heb ffydd ni *phlefir* 'mo Duw'r lluoedd, *Heb.* 11.6.
Heb ffydd nid ai di byth i'r nefoedd.

Ni cheir pardwn byth am bechod,
Ni cheir ffafar ar law'r Drindod,
Ni cheir dim llawenydd * prudd, **Difrifol.*
Lle na byddo bywiol ffydd.

Rhaid i'r tlawd, rhaid i'r cyfoethog,
Rhaid i'r diddyfg a'r llyth'renog,
Rhaid i'r brenin, rhaid i'r *beger*,
Rhaid i bawb wrth ffydd cyn cadwer.

Rhaid i bawb ei ffydd ei hun,
Nid ffydd arall wrth ei glin; *Act.*20.21.
Os ni chedwir neb yn gyngan, *Act.*15.9.
Ond trwy'i ffydd a'i gred ei hunan. *Iago* 2.18.
Nid ffydd dy fam, nid ffydd dy dad,
Nid ffydd y *prins* a'r penna' o'r wlad,
All tynnu gras o Grist it' allan,
Ond dy ffydd a'th gred dy hunan.
Ni cheidw ffydd y tad ei blentyn, *Ezec.*18.20.
Na ffydd y mab ei dad ysgymmun;
Pawb a gedwir, pob yr un,
Wrth eu ffydd a'u cred eu hun.
Wrth wrando geiriau Duw yn brudd,
Mae Duw yn arfer rhoddi ffydd;
Heb wrando'r gair nid yw yn arfer
Rhoddi ffydd i neb un amser.
Gwrando'r gair, a chred a 'ddawo, *Rhuf.*10.17.
Marca a chofia'r hyn a dd'wetto;
A 'ddawo Duw fe'i tâl yn ddilys,
Ni thorrodd Duw erioed ei *bromis*.
Nid ein nattur, nid ein tadau,
Nid ein dysg, na'n poen, na'n doniau,
Ond Yspryd Duw trwy'i air ei hun, *Gal.*5.22.
Sy'n gweithio ffydd yng nghalon dyn.
Gwrando'r gair, a chais yr Yspryd,
Llef am ffydd fel am dy fywyd;
Wrth weiddi am ras a gwrando'r 'fengyl, *Mat.*7.7.
Mae Duw yn rhoddi ffydd yn rhigyl.
Nid y gair tu faes ei hun,
Sy'n gweithio ffydd yng nghalon dyn,
Ond Yspryd Duw ynghyd â'r gair,
Sy'n gweithio ffydd p'le bynna' cair.

## CXXXVI. *Salm xxxviii.*

DUW grasol, Tad trugaredd,
Na faedda fi'n dy ddigedd;
Ac na chospa fi'n dy far,
Mor ddigllon ar fy niwedd.
Duw mae dy saethau llymion
Yn glynu yn fy nghalon,
A'th law drom yn daran chwyrn,
Yn briwio f'esgyrn gweinion.

Nid oes i'm cnawd ond nychdod,
Gan faint dy lid a'th ddirnod,
Na dim hedd i'm hesgyrn briw,
Waith cymmaint yw fy mhechod.

A'm camwedd a'm trosеddau
Sy'n pwyso'n drwm, gwae finnau!
Fel baich gorthrwm ar fy ngwar,
Yn gwasgu ar f'ysgwyddau.

A'm cnawd sy'n llawn o gleisiau,
Waith trymmed yw'th ddyrnodiau,
A'm cleisiau'n pydru fel hen glwyf,
Gan ffoled wyf, gwae finnau!

Ti grymmaist, Dduw, fy nghefen,
Ti'm helaist i'r bedd * haychen;
Ti'm gostyngaist hyd y llawr,
'Rwy'n un yn awr â'r ddae'ren.

* *Ymron.*

'Rwyf beunydd yn galaru,
'Rwy'r nos heb allael cysgu;
'Rwy'n wylo'n dost, 'rwy'n griddfan mwy,
Fy neigrau aeth trwy ngwely.

Gwel drifted yw f'amcanion,
Clyw dosted yw f'uch'neidion;
Gwel mor drwm yw'th lid a'th far,
Yn gwasgu ar fy nghalon.

I beri im' fwy o flinder,
A gwewyr heb esmwythder,
Mae'r holl gnawd yn afiach iawn,
A'm llwynau'n llawn o boethder.

'Rwy'n egwan gwedi nghlwyfo,
'Rwy'n ochain ac yn rhuo;
Gan faint poen fy Mhrynwr cu,
'Rwy'n barod i wall-bwyllo.

O dofa beth o'th ddigter,
A llaesa ddarn o'm blinder;
Na lwyr ddifa fi, fy Nuw,
Ond rho 'mi ryw esmwythder.

Ti wyddost, Dduw fy Ngeidwad,
Beth ydyw fy neisyfiad;
Ni chuddiwyd rhagot ti un pryd,
Na'm poen, na'm cryd, na'm bwriad.

Mae nghalon drom yn curo,
A'm nerth sydd gwedi ngado,

A'm llygaid trymion bob yr un,
Sy'b weled dyn i'm fwccro.

Fy ngheraint a'm cyfeillion,
O hirbell rhoent olygon
Ar fy nhrallod blin a'm pla,
Heb gyfur na chynghorion.

A'r rhai ddymunai nifa,
Ofodent faglau i'm dala,
A'm gorthrymmu megis cwn,
Och! och! pan oeddwn wanna'.

A minneu yn fy nhrafel,
Fe ddywedai pawb ei chwedel,
Ac a'm barnent bob yr un,
Yn waetha' dyn o'm cen'el.

A rhai ddych'mygent gelwydd,
A rhai'm gwatwarent beunydd;
A rhai chwarddai'n uwch ar g'oedd,
Gan gymmaint oedd fy nghyftudd.

A minneu fel dyn byddar,
Heb glywed dim o'u gwatwar,
Yn tewi fon, heb atteb neb,
Fel mudan heb ei lafar.

Yr wyf fel gwr heb glywed,
Neu ffol heb fedru 'ftyried,
Yn gado i bawb chwedleua eu hun,
Heb ammeu dyn a'r aned.

Ond Arglwydd, 'rwy'n gobeithio,
Dy fod ti yn eu gwrando,
Ac yn atteb dros dy was,
I bawb a'i cas enllibio.

Duw, na'd i'm drwg elynion
Gael arna'i wŷn eu calon,
Na chrechwenu tra font byw,
Wel'd cymmaint yw nhrallodion.

Pan llithro nhroed ond gronyn,
Hwy chwarddant bawb i'm herbyn,
Ac a wawdiant am fy mhen,
Gan roi im' fen yfgymmun.

Fe'm ganed i ddwyn poenau,
Par'towd fi i ddialau,
A blinderau nghalon don,
Sydd ger fy mron yn ddiau.

O Arglwydd, 'rwy'n cyfadde'
Fy mhechod a'm trofeddau,
Mae'n flin gennyf, O fy Nuw,
Wel'd cymmaint yw fy meiau.
Ond etto mae ngelynion
Yn fywiol ac yn gryfion,
A'r fawl fy'b achos i'm cafhau,
Sydd yn amlhau yn greulon.
A'r rhai a dalant i mi
Dwrn drwg am fy naioni,
Sy'm gwrth'nebu bob yr awr,
Trwy wneuthur mawr ddrygioni.
Ac am fy mod yn dilyn
Y peth fydd dda i'r werin,
'Rwy'n gas gan bawb o'r bobl ddrwg,
A'r rhai s'a'u gwg i'm herbyn.
Na wrthod di fy helpu,
O Dduw, fy Nuw, er hynny;
Gwna fi beunydd ar fy ngwell,
Ac na fydd bell oddi wrthy':
Ond bryfia i'm cynnorthwyo,
A'm helpu byth tra gantho,
Duw fy iechyd, Un a Thri,
Can's ynot ti 'rwy'n trufto.

## CXXXVII. *Am y Sabbath.*

DEFFRO'n fore gyd â'r ceiliog,
Ffyft d'adenydd, cân yn ferchog
Salm i'r Arglwydd yn blygeiniol, *Sal.*92.1,2.
Ar bob fabbath yn dra firiol.
Gwifg dy ddillad goreu am danad,
Ymfanctеiddia cyn dy ddwad
O flaen Duw i'r deml fanctaidd,
Hoff gan Dduw ei addoli'n gruaidd.
Gwedi'n dos â'th dylwyth gennyd,
I dŷ Dduw â chalon hyfryd,
I addoli Duw'n y dyrfa,
Megis Jofeph, Mair, a Jofua.
Fe fyn Duw ei addoli'n barchus,
Ar bob fabbath yn gyhoeddus,
Gyd â'r dyrfa yn y demel,
Nid yn ddirgel yn y cornel.

Duw ddibennodd ei holl weithred,
Ar y dydd o flaen y feithfed;
Gorphen ditheu bob gorchwylion,
Cyn y fabbath, od wyt griftion.

Ymfanĉteiddia cyn y fabboth,
Cadw'n lân dy leftr boenoth;
Golch dy hun mewn edifeirwch,
Ofna Dduw a chais ei heddwch.

Cyn y fabbath rhaid ymgweirio,
A throi pob bydol-waith heibio,
I gael gweithio gwaith yr Arglwydd,
Tra fo'r dydd, mewn gwir fanĉteiddrwydd.

Gorphwys di, a'th ddâ, a'th ddynion,
Oddiwrth bob rhyw o orchwylion,
Ac na weithia ddydd yr Arglwydd,
Waith o blefer na bydolrwydd.

Gwerthu * *livelihood*, cario beichiau,
Gweithio'n galwad, myn'd i fiwrnau,
Pob ofer-waith pleferedig
Ar y fabbath fydd wa'rddedig.

* *Pob math oymborth.*

Cadw'r fabbath oll yn brudd,
Fore a hwyr, a chanol dydd;
Yn dy dŷ fel yn yr eglwys,
Yn gwas'naethu Duw heb orphwys.

Cymmer fwy o garc tr'ech byw,
Weithio'r fabbath waith dy Dduw,
Nag y gym'rech un dydd amgen,
Ynghylch gweithio bydol brefen.

Ar y ful mae mor angenrhaid
Geifio manna i borthi'r enaid,
Ag yw ceifio ar ddydd marchnad
Fwyd i borthi'r corphyn anllad.

Cod y boreu ar y wawr-ddydd,
Am y cyntaf â'r uchedydd,
I gael treulio dydd yr Arglwydd,
Mewn duwioldeb a fanĉteiddrwydd.

Nid diwrnod i ni gyfgu,
Nac i dordain yn y gwely,
Ond diwrnod i'w fanĉteiddio
Yw'r dydd fabbath oll tr'o gantho.

Nid diwrnod i ti loetran,
Nac i feddwi, nac i fwlian,

Ond diwrnod i ti weithio
Gwaith dy Dduw, yw'r ſul tra dalo.
  Dydd i'w dreulio mewn ſancteiddrwydd,
Dydd i weithio gwaith yr Arglwydd,
Dydd i ddarllain a gweddio,
Dydd i 'ddoli Duw a'i gofio.
  Dydd i orphwys rhag gwaith bydol,
Dydd i weithio gwaith ſanctеiddiol,
Ac nid dydd i fod yn ſegur
Yw dydd Duw, medd geiriau'r 'ſgrythur.
  Er bod Duw yn erchi coffa,
Cadw'r ſabbath yn ddiſigla,
Nid y'm ninneu'n ceiſio cadw
Un gorchymmyn waeth nâ hwnnw.
  O'r holl ddyddiau nid oes un-dydd,
Y'm ni'n dreulio mor ddi-grefydd,
Mor anneddfol, mor yſgymmun,
A'r dydd ſabbath tra fo'r flwyddyn.
  Dydd i feddwi, dydd i fwlian,
Dydd i ddawnſio, dydd i loetran,
Dydd i hwrian a gwylherſu,
Yw'r dydd ſabbath gan y Cymry.
  Dydd i eiſtedd a † dyfalu, † *Gwawdio.*
Dydd i ymladd ac ymdaeru,
Dydd i weithio gwaith y cythraul
Yw dydd Duw mewn llawer cornel.
  Y dydd a ddylem ei ſanctеiddio,
Y'm ni fwyaf yn ei nyrddo,
I amherchi'n Prynwr tirion,
A dolurio ei gywir weiſion.
  Treulia'r ſabbath oll yn llwyr,
Mewn ſanctеiddrwydd fore a hwyr,
Ac na ddyro ran na chyfran
O ddydd Duw i addoli ſatan.
  Cofia gadw'r ſabbath ſanctaidd,
Duw fyn gadw hwn yn berffaidd;
'Rhwn a dreulio'r ſul yn ofer,
Ni wna bris o ddim orch'myner.
  Cadw'r ſabbath, ti a'th gene'l,
Yn dy dŷ fel yn dy demel; *Gen.*18.19.
Gwna i'th dylwyth fyw mor gymmwys,
Yn dy dŷ fel yn yr eglwys. *Joſ.*24.15.

Tri rhyw waith all dyn arferu
Ar y ſabbath heb droſeddu;
Gwaith duwioldeb yn ddi-enbaid,
Gwaith cariadol, gwaith angenrhaid.

Gweithred dduwiol yw trafaelu
I dŷ Dduw i'w anrhydeddu,
Ac i wrando'r 'fengyl hyfryd,
Pe bae 'mhell o ffordd oddi wrthyd.

Gwaith cariadol ydyw cadw
Dyn a 'nifail rhag eu marw,
A rhoi ymborth iddynt ddigon,
Ac ymgeleddu'r bobl weinion.

Gwaith angenrhaid, 'rhwn ni's gelli
Gynt na chwedi'n ei gyflawni,
Megis cadw tŷ rhag lloſgi,
Gwraig wrth eſgor, buwch rhag boddi.

Gochel ddilyn drwg gyfeillach,
Cyfaill drwg ſydd wybren afiach;
Plag yn llygru, pyg yn nyrddo
'R dyn duwiolaf a'i dilyno.

## CXXXVIII. *Gweddi dros yr eglwyſwr, yn llawn o ddymuniadau graſol.*

ARGLWYDD graſol cadw d'eglwys,
A'r winwydden dêg y blanwys *Sal.*80.14,15.
Dy ddeheulaw di dy hunan,
O'r dechreuad yn dy winllan.

Na'd i'r baedd o'r coed ei thirio, *Sal.*80.13.
Na'd i'r bwyſtfil gwyllt ei chroppio;
Na'd un gelyn, er mwyn Ieſu,
Ei anrheithio byth na'i ſathru.

Bydd yn wal o dân o'i bob tu, *Zec.*2.5,8.
Ddydd a nos gan ei chwmpaſu;
Bydd â'th lygad arni'n waſtad, *Eſa.*27.2,3.
A'th fraich rymmus yn ei gwarchad.

Cadw hi megis byw dy lygad,
Portha hi fel praidd yn ddifrad,
Trwſia hi fel dy anwyl briod,
Na'd un gelyn byth ei gorfod. *Sal.*51.8.

Gwella ei gwelydd, cod ei bylchau,
Gwilia ei phyrth, a ch'weiria'i thyrau,

Cadarnha bob bar ſydd ynthi,
Na'd un gelyn ei difrodi.

Na'd i dwrc, na phab, na phagan,
Nac un pennaeth waethu'th winllan, *Gen.*12.13.
Ond bydd elyn i'w gelynion,
A difetha ei digaſogion.

Gwlawia arni yn gawodau,
Dy fendithion nos a borau,
Nes y tanno * oſglau'i gwynwydd * *Canghenau.*
Dros y byd o fôr i gilydd.

Tafla i lawr, a dryllia'n gandryll,
Rwyſg y ddraig a'i theyrnas dywyll; *Dat.*12.9.
Adeilada ymhob cornel
Deyrnas Criſt, a ſathra'r cythraul.

Criſt, â'th ana'l llwyr ddifetha 2*Theſ.*2.3,4,8.
Y § mab anwir ſy'n ymddyrcha; § *Pab.*
A'r hen † buttain goch ſy'n yfed † *Eglwys Rufain.*
Gwaed dy ſaint i dorri ei ſyched. *Dat.*17.1,6.

Gwna i'r 'fengyl wen farchogaeth
Trwy'r holl fyd at bob cenhedlaeth,
I gael gorfod a gorchfygu; *Dat.*6.2.
A thro bawb o'th blant i'w chredu.

Adeilada o gylch-cwmpas,
Ymhob gwlad dy raſol deyrnas,
Ymhlith Groegiaid ac Iuddewon,
Gwna hwy, Arglwydd, yn griſt'nogion.

I'r Iuddewon gwna drugaredd, *Rhuf.*11.
Dangos iddynt dy wirionedd; 25,26.
Tyn eu hanghrediniaeth ymaith,
Derbyn hwynt i'th gorlan eilchwaith. 2*Cor.*3.16.

A bendithia bob rhyw deyrnas,
Lle addolir Criſt yn addas;
Cadw'r 'fengyl ſanctaidd iddynt,
Ne's del Criſt i farnu rhyngddynt.

## CXXXIX. *Am dyngu.*

YR Iuddew dû a rwyg ei wiſgoedd,
Pan y cabler Duw y lluoedd;
Llawer criſtion gwael ni ſyfla,
Pan y cabler Duw gorucha'.

Os tyngai Sibſwn i ben Pharao,
Yngham, fe gae ei ddi-eneidio;

Os twng y criftion gorph ei Brynwr,
A'i gig a'i waed, nid oes dialwr.

Gwn na frathai yr Iuddewon
Grift ond unwaith dan ei ddwyfron,
Mae'r crift'nogion â'u cas lwau,
Yn ei frathu fil o weithiau.

Na ryfedda wel'd gwyr mawrion *Lef*.18.28.
Yn gwerthu'r tir a'r teiau gwychion; *Hof*.4.2,3.
Cablu Duw a bair yn fuan
I'r tai a'r tir droi'r meiftri allan.

Ti gei wel'd yn nhai gwyr mawrion
Bedwar pâr o gardiau brithion,
I rai dyngu ac ymgigo,
Heb un llyfyr i weddio.

'Rwyf fi'n tybied ac yn credu,
Na cheir clywed cafach tyngu
Gan gythreuliaid yn § gehinnon, § *Uffern.*
Nag a glywer gan grift'nogion.

Nid oes fon yn nheiau llawer
Am enw Duw ond pan y cabler,
Nac am werthfawr waed yr Iefu,
Ond tra fydder yn ei dyngu.

Melldith Duw, medd Zecharias, *Zec*.5.2,3,
A red i dŷ'r udonwr diras, 4,5.
Ac a lyna wrth bob ceubren,
Nes pydru'r tŷ, a'i droi yn dommen.

Gwell it' drigo lle b'o powdwr,
Yn y gegin, yn y parlwr,
Nag it' drigo lle b'o tyngu,
Yn y parlwr neu'n y penty.

Naw ugain mil o lu'r Affyriaid 2*Bren*.19.
Y laddodd angel Duw yn ddiriaid, 22,25.
Mewn un nofwaith gynt am gablu,
Enw'r Arglwydd a'i ddirmygu.

Mae Duw'n erchi llwyr labyddio *Lef*.24.16.
Pob rhyw ddynion ag a gablo;
Nid dieuog yw'r dyn 'fgeler,
Ag a gym'ro'i enw'n ofer.

Pe bae barnwyr yr holl deyrnas
Yn rhyddhau'r udonwyr diras,
Duw ei hun a farn yn ficcer
Bawb a gym'ro'i enw'n ofer.

## CXL. *Dyledſwydd gweinidogion.*

DWG ſancteiddrwydd yn dy dalcen, *Ecſ.*28.
Fel y gallo pobl ddarllen, 36,38.
Wrth d'ymddygiad a'th ſancteiddrwydd,
Dy fod ti yn was i'r Arglwydd.

Par i'th glych ſydd wrth dy ſiacced
Ganu'r ffordd y b'ech yn cerdded,
Fel y gallo pawb yn rhigyl
Glywed gennyt eiriau'r 'fengyl.

Par i'r pomgranadau ffrwythlon, *Ecſ.*28.
Oddiwrth ymyl ſiacced Aaron, 33,34,35.
Beraroglu â'th ddaioni,
Bob rhyw dyrfa ddelech iddi.

Par i 'roglau dy ymddygiad,
Par i lewyrch dy lân alwad,
Par i ffrwyth dy wefus draethu,
Mai gwas wyt i'r Arglwydd Ieſu.

Gwr i Dduw wyt wrth dy alwad,
Gwas i Griſt, ein Pen a'n Ceidwad,
Nid yw gweddus i was Brenin
Fyn'd mor frwnt a gwr cyffredin.

Cennad wyt i'r Brenin mwya', 2*Cor.*5.20.
I fynegi ei air i'r dyrfa;
Na'd un gair heb ei fynegi,
O'r hyn archodd i ti draethu.

Bugail wyt i gadw'r defaid,
Brynodd Criſt â'i waed bendigaid; *Act.*20.28.
Na'd un ddafad farw o newyn, *Ezec.*34.8.
Rhag myn'd ei gwaed ar dy gobyn.

Dwg ſancteiddrwydd gyd â'th Urim, *Deut.*33.8.
Dwg wybodaeth gyd â'th Thwmmim;
Dwg y ddau hyn ar dy galon,
Hyn yw dyled 'ffeiriad ffyddlon.

Rhoeſt dy law ar gorn yr arad, *Luc* 9.29.
Dos o'th flaen, a dilyn d'alwad;
Na thro'n d'ol fel cî at chwydfa,
Ni cheir coron heb hir bara. 2*Tim.*4.8.

Gw'radwydd oedd i Ephraim fudyr
Droi'n ei ol yn nydd y frwydyr:
O troi'n ol oddiwrth dy alwad,
Gwaeth dy ddiwedd nâ'th ddechreuad.

Gado'r llong fel Iago a Pheder,
Dilyn Crist tra caffech amser;
Rhaid i weision y Messia
Ado'r byd fel Lefi'r dollfa.

Bwrw'r byd a'i bethau oddi wrthyd,
'Rwyt ti'n rhedeg am dy fywyd;
* Ffardel gron o bridd a hindra — * *Llwyth.*
Gawr neu farch wrth redeg gyrfa.

Tafla ffwrdd bob peth sy'n pwyso,
A'r pechodau sy'n dy rwystro;
Rheded pawb y nefol yrfa,
Trwy amynedd am y cynta'. — *Heb.*12.1.

Portha ddefaid Crist yn gywrain,
Yn 'wyllysgar heb dy gathrain;
Pan ddangoso Crist ei fawredd, — 1 *Pedr* 5.2,3,4.
Ti gei goron ac anrhydedd.

Gwae pob bugail mud anghynnil,
Na phregetha Crist a'i 'fengyl;
Gwaed eneidiau mil ofynir — *Ezec.*33.8.
Ar law hwnnw pan ei bernir.

Mewn tair ffordd y dylit borthi
Defaid Crist a'u llon gymfforddi:
Ag athrawiaeth bur 'fengylaidd,
Gweddi frwd, a bywyd sanctaidd.

Gwell yw 'ffeiriad da nag angel,
Gwaeth yw'r drwg nâ'r ddraig neu'r cythraul;
Y da a'n dwg i dir goleuni,
Y drwg a'n gollwng bawb i'n colli.

Trin dy winllan, hi ddwg rawnwin,
Haua dy faes, 'fe ddwg egin;
Trin dy braidd, fe fydd llwyddianus,
Dysg dy blwyf, fe fydd rinweddus.

Dysgwch eich praidd, ac arweiniwch
I wlad Canaan trwy'r anialwch;
Nid nes 'ffeiriad fod yn ddoctor,
Oni wnaiff yn ol ei gyngor.

Byddwch dirion wrth y defaid, — *Esa.*40.11.
Cwnnwch lef yn ol y bleiddiaid;
Mwynder a wna'r ddafad bori,
Llefain a wna'r blaidd gynffonni.

Rhowch y fron i'r ŵyn cariadus,
Rhowch y ffon wrth hwrdd cildynnus;

Byddwch fwyn wrth rai diniwed, *1 Cor.* 4.2.
Coſpwch bawb o'r rhai pengaled. *2 Cor.* 13.2.

Bydded arfau yn eich dwylo, *Neh.* 4.17.
Fel plant Iſrael wrth adeilo;
Llwy i fildo, cledd i ymddiffyn,
Ac i ymladd dros y werin.

Porthwch bawb eich praidd â manna, *1 Pedr* 5.2.
Nedwch arnynt eiſiau porfa;
Os bydd marw un rhag newyn,
Bydd gwaed hwnnw ar eich cobyn. *Ezec.* 33.8.

Cyrchwch adref, trowch i'r gorlan, *Ezec.* 34.4.
Y ddiſperod aeth i *ſtraglan*; *Heb.* 13.17.
Nedwch neb i gyfrgolli,
Fe fyn Duw am bob pen gyfri'.

Canwyll y'ch i roi goleuni, *Mat.* 5.14,16.
Yn eglwys Dduw i'r holl gwmpeini;
O diſgleiriwch fel canhwyllau,
Fel y rhodiom yn eich golau.

Y lamp a dreulia'r llun o'r thyſſur,
Yn goleuo'r gwir addolwyr;
Treuliwch chwithau'ch oes mor ffyddlon,
Yn goleuo eich plwyfolion.

Halen y'ch i *ſeſno* eneidiau, *Mat.* 5.13.
Rhag drwg ſawru mewn pechodau;
*Seſnwch* galon pawb ſy'n pechu,
Rhag i Griſt â'i droed eich ſathru.

Golwg doſt yw gweled defaid
Yn eu llarpio'n ſafnau bleiddiaid;
Toſtach gwel'd eneidiau'n griddfan,
Eiſiau dyſg yng nghrampau ſatan. *Hoſ.* 4.6.

Toſt yw gweled maes o * lafur * *Yd.*
Yn pydru eiſiau help medelwyr;
Toſtach gweled mil o ddynion
Yn meirw eiſiau help athrawon.

Toſt yw gweled plentyn bychan
Eiſiau help ar wres yn brwylian;
Toſtach gwel'd eneidiau bagad *Diar.* 29.18.
Mewn tân eiſiau help offeiriad.

Toſt gweled mil yn myn'd i foddi,
Eiſiau rhyw un i'w cynghori;
Toſtach gweled mil, yſywaeth,
Aiff i uffern eiſiau athrawiaeth.

Y ceiliog gwyn ffyſt ei adenedd,
I ddeſtro'i hun cyn deffro'i wragedd;
Felly dylai'r holl offeiriaid
Ddeffro'u hun cyn deffro'u defaid.

Fel y dygai gwialen Aaron *Num.*17.8
Ddail a blodau, a chnau ffrwythlon,
Pan oedd eraill, o bob graddau,
Heb ddwyn ffrwyth, na dail, na blodau:

Felly dylai'r gweinidogion
Mewn rhinweddau fod yn ffrwythlon,
Pan bo eraill o bob galwad,
Yn ddirinwedd eu hymddygiad.

Beth wneir â'r dall i arwain deilliaid? *Mat.*15
Beth wneir â'r mud i gyfarth bleiddiaid? 14.
Beth wneir â'r heſp heb laeth mewn bronau?
I fagu plant, i borthi eneidiau.

Ni wneir dim â chî cyſgadur,
Ni wneir dim â gweiſion ſegur;
Ni wneir dim â halen diflas,
Ni wneir dim a 'ffeiriad llanas. *Eſa.*56.10.

Fe wneir ſtalwyn o hen farch tywyll,
Fe wneir tân o hen dŷ candryll, *Mat.*5.13.
Fe wneir peth â chrochan tyllog,
Ni wneir dim â 'ffeiriad diog.

Pwy ddyd ddall i arwain deilliaid?
Pwy ddyd mud i gyfarth bleiddiaid?
Pwy ddyd ynfyd i roi cyngor?
Pwy ddyd ddwl i rannu tryſor?

Dodi'r dall ar ben diſgwylfa,
Dodi'r dwl i ddyſgu tyrfa,
Dodi'r diddyſg wrth y * llyw,
Yw dodiad dyn, nid dodiad Duw.

Os *doctor* wyt, O dyſg ni'r deillion! *Ezec.*34.2.
Os bugail da, ymg'ledda'r gweinion; 1*Cor.*4.1.
Os *ſteward* doeth, cyfranna'n gywir,
Os gwas i Griſt, gwna arch dy Feiſtir.

Os cî cywir, cyfarth ladron,
Os pyſgodwr, dala ddynion,
Os gwiliedydd, gwilia'r gelyn, *Luc* 12.42.
A rho 'mhryd y rhybudd iddyn'. *Eſa.*56.10.

* Sef, ſtern yr eglwys, i'w rheoli.

Gwinllanwr wyt, O gweithia'n ffyddlon, *Mat.*
Na'd i'th winwydd fyn'd yn wylltion; 4.19.
Trin eu gwraidd, a'u brig, a'u bronau, *Ezec.*33.7.
Na'd eu torri eisiau ffrwythau. *Luc* 13.8,9.

Lle ni hauir had ni fedir,
Lle ni chanir corn ni chyffrir,
Lle ni phorthir praidd ni phrysia,
Lle ni ddysgir plwyf ni lwydda.

Peder, Peder, od oes cariad *Ioan* 21.15,
Gennyt at dy Grist a'th Geidwad, 16,17.
Portha, portha, portha'r ddefaid,
Mâg ei ŵyn, a tharfa'r bleiddiaid.

Na'd ei ddefaid fyn'd ar ddidro, *Ezec.*34.4.
Na'd i'r blaidd na'r llew eu 'sglyfio,
Na'd i'r cwal a'r pwd eu mallu,
Eisiau'u trin, a'u troi, a'u maethu.

O disgleiriwch yn eich graddau,
Megis ser mewn noswaith olau;
Ac na fyddwch fel y lleuad *Dat.*1.20.
Sydd â brychau yn ei llygad.

Gwnewch eich clywed yn yr eglwys,
Fel angylion ymharadwys;
Gwnewch eich gweled yn y dyrfa,
Fel y ser pan b'ont ddisgleiria.

Byddwch farw yn y pulpid,
Yn pregethu'r 'fengyl hyfryd,
Neu'n yr eglwys ar eich deulin,
Yn gweddio dros y werin.

Bydded pob offeiriad glân,
Fel piler niwl a'r piler tân, *Neh.*9.19.
Yn cyfrwyddo'r ffordd i'r bobol,
Fyn'd o'r Aipht i'r Ganaan nefol.

A pha *gonsiens* y gall 'ffeiriad
Gippio'r cnyf heb borthi'r ddafad,
Bwytta'r offrwm mor ddiwybod, *Ezec.*34.2,3.
Ac heb weiddi'n erbyn pechod.

O ba lef ac achwyn irad
Y fydd dydd y farn gan fagad!
Am i'r 'ffeiriaid eu newynu,
A'u handwyo eisiau eu dysgu.

## CXLI. *Am ragluniaeth Duw.*

DUW ni attal un daioni
Oddiwrth neb a fo'n ei ofni,
Fe ry ras ac urddas iddynt, *Sal.*84.11.
Ni bydd ffael na diffyg arnynt.
Bwrw d'ofal ar yr Arglwydd,
Ac fe'th bortha mewn helaethrwydd:
Ni ad Duw i'r cyfiawn gwympo,
Na dwyn diffyg byth tra gantho.
Mae Duw'n d'wedyd wrthyt (craffa)
Lleda'th fafn minneu'i llanwa'; *Sal.*81.10.
Cymmer boen mewn galwad union,
Mi fendithia'th holl orchwylion. *Eph.*4.28.
Er bod eifiau ar y llewod,
A'r rhai cryfa o'r bwyftfilod,
Ni bydd eifiau dim daioni *Sal.*34.10.
Ar a dryfta i Dduw'r tofturi.
Mae Duw'n porthi'r bobl aflan,
Mae'n rhoi maeth i'r Twrc a'r Pagan,
Mae'n rhoi ymborth i'w elynion;
Oni phortha Duw ei weifion? *Mat.*5.45.
Gochel chwennych gormod olud,
Ymfoddlona â'r maint fydd gennyd;
Byth ni ffaela, byth ni edy *Heb.*13.5.
Duw o'r dyn fo'n ei was'naethu.
Ymhob diffyg cais gan Dduw, *Hab.*1.16.
Rhoddwr pob daioni yw;
Gochel dryfto i'th rwyd dy hun,
Rhag colli'r pyfgod wrth dy glin.
Llawer dyn fy'n dlawd yn byw,
Eifiau ceifio cymmorth Duw;
A llawer dyn fy'n myn'd i fegian,
Am dryfto i'w rym a'i rwyd ei hunan.
Lle mae Duw mor hael i'r gwerin,
Pa'm y marw cant rhag newyn?
Am roi coel ar rym eu breichiau,
Heb geifio cymmorth Duw na'i orau.
Ni chwfg ni hûn ein Ceidwad grafol,
Sy'n gofalu am ei bobol:
Tra fo'm bawb yn cyfgu'n efmwyth, *Sal.*112.4
Mae'n gofalu am ei dylwyth.

A ddichon gwraig anghofio'i phlentyn, *Esay*.49.15.
A ſugno ei bronnau yn ei rwymyn?
Ni's anghofia hon ei meibion,
Byth ni anghofia Duw 'mo'i weiſion.

Cyn bo eiſiau arian arnad,
Os gwas'naethi Dduw yn ddifrad,
Fe bair Duw i'r pyſgod gario *Mat*.17.27.
Arian i ti i'th ddi-rwydo.

Er na bo dy 'ſtor ond cwtta,
Fel blawd y weddw o Sarepta, 1*Bren*.17.16.
Os gwas'naethi Dduw yn ffyddlon,
Fe wna Duw fod hynny'n ddigon.

Gochel roi dy bwys a'th hyder
Ar dy 'ſgil dy hun a'th gryſder,
Ond ar Dduw dy Helpwr unig,
Os ceiſi fod yn ddyn di-ddiffyg.

Mae Duw'n porthi'r adar gwylltion,
Mae'n dilladu'r lili gwynion,
Mae'n rhoi nerth i bob peth bywiol;
Oni phortha ei blant a'i bobol?

Ni haua'r frân, ni feder fedi,
Nid oes na chell na 'ſgubor iddi;
Etto er hyn mae Duw goruchaf
Yn porthi'r brain bob haf, bod gauaf. *Mat*.6.26,30.

Ni chrib, ni nydd, na'r ros na'r lili,
Ni feder un na gwau na 'ſtofi;
Etto'r Arglwydd a'u dillada, *Sal*.145.15.
Mewn harddach gwyſg nâ'r brenin gwycha'.

Llygaid pob creadur bywiol
Sydd yn diſgwyl ar Dduw nefol,
Am roi maeth ac ymborth iddynt,
Ynte'n hael yn rhannu rhyngddynt.

Mae'n agoryd ei law raſol,
Ac yn porthi pob peth bywiol,
O'i ras a'i rodd, mewn pryd a meſur,
Heb adael gwall ar un creadur.

Mae'n rhoi bwyd i g'nawon llewod,
Mae'n rhoi maeth i'r gwyllt fwyſtfilod;
Mae e'n porthi plant y gigfran; *Salm* 147.9.
Oni phortha'i blant ei hunan?

Ni chwymp un o wallt dy ben,
Ni ſyrth aderyn tô ar bren; *Mat*.10.29.

Ni ddigwydd dim heb brudd rag-weliad
Duw'n Creawdwr mawr a'n Ceidwad.

Duw rodd i ti gorph a bywyd,
Ana'l, einioes, cryfder, iechyd,
Deall, rhefwm, cof a chyfri',
Oni ddyry fara i ti?

Fe werthir dau o adar tô,
Am ffyrling fechan lawer tro:
Er gwaeled y'nt, mae Duw'n eu porthi;
Di dalu fwy nâ deg o'r rhei'ny.

Er bod Duw'n gofalu'n gaeth
Am bob creadur ag a wnaeth;
Mae'n gofalu am ddyn a'i enaid,
Fwy nag am yr holl gre'duriaid.

Rho dy ofal ar dy Dduw,
Mae'n gofalu drofot, clyw; 1 *Ped.*5.7.
Os gwas'naethi Grift yn gywir,
Mae dy gyflog gantho'n ficir.

## CXLII. *Am y Purdan* *.

NID oes dim all olchi enaid
Dyn, ond gwaed yr Oen bendigaid,
'Rhwn fy'n golchi ffwrdd bob pechod, *Dat.*1.5.
Ac yn puro'r holl gydwybod. *Heb.*9,14.

Nid oes ffordd ond dwy i'r holl-fyd,
Ffordd i ddiftryw, ffordd i fywyd; *Mat.*7.13.
Ni ddangofodd Crift yn un-man,
Drydydd ffordd yn myn'd i'r purdan.

Nid oes hefyd ddim ond dau-le,
I blant dynion gwedi ange',
Nef ac uffern, nid lle trydydd;
Nid yw purdan ddim ond celwydd.

Nid oes ond dau fath o ddynion,
Un yw'r anwir, llall yw'r ffyddlon;

* Y mae'r Papiftiaid yn dal fod heblaw nef ac uffern drydydd lle, b'le mae eneidiau rhai pobl, trwy ddioddef cofpedigaeth tân, yn rhoddi iawn i Dduw am ryw bechodau na's maddeuwyd iddynt yn y byd hwn; ac yn cael trwy hynny lanhad oddi wrthynt; ac y dichon ffryns y marw, trwy weddiau ac offerynau, ac arian a roddir i'r Pab, gael gollyngdod i'r cyfryw eneidiau allan o'r purdan.—Yn erbyn yr athrawiaeth gelwyddog gythreulig hon, y cyfanfoddodd yr Awdwr y gân uchod.

Y rhai anwir a ddifethir,
A'r rhai ffyddlon oll a gedwir.
  Tân a ddichon boeni dynion,
Tân all losgi daearolion;
Ni all tân, na'r holl greaduriaid, *Act*.4.22.
Ond gwaed Iesu, buro'r enaid. *Mat*.1.21.
  Tân all buro'r aur a'r sorod,
Tân all losgi'r ûs a'r callod;
Ni all tân, na dim er hynny,
Buro'r enaid ond gwaed Iesu.
  Y dyn nad elo i baradwys,
Lle mae Iesu Grist a'n prynwys,
Nid oes lun nad el tan drottian,
I bwll uffern lle mae satan.
  Y dyn nad elo megis Lazar,
I glyd fynwes Abram hawddgar,
Nid oes lun nad el i'r ffwrnes,
Lle mae'r diawl yn poeni Deifes.
  Nid yw'r purdan yn y nefoedd,
Yn y ddaear, yn y moroedd,
Nac yn uffern; p'le gan hynny
Y mae'r purdan yn cartrefu?
  Rhai dd'wedant, fod y purdan
Yn y môr sy'n fawr ei ddwrdan;
Rhai'n y ddaear, rhai yn * Ætna;
Ni wn i p'un o'r rhai'n a greda'.
  Rhai a dd'wedant mai angylion,
Rhai mai hen gythreuliaid duon,
Sy'n *tormento*'r sawl sy' mhurdan;
Rhai ni wyddant beth a dd'wedan'.
  Rhai sy'n tybied mai tân ffyrnig,
Rhai mai tân a dw'r berwedig,
Sy'n poenydio'r rhai sy' mhurdan,
Does mawr gydfod ar eu ‡ llafan.
  Rhai sy'n tybied mai pechodau
Crynion, bychain, hawdd eu maddau,
Y's yn gospi yn y purdan;
Rhai mai beiau marwol anian.
  Rhai dormentir yn y purdan,
Hyd ddydd barn, os gwir y dd'wedan';

* Mynydd mawr o ba un y mae tân yn dra mynych yn dyfod allan. ‡ Ar eu swmp o gelwydd.

Rhai dros filoedd o flynyddau,
Rhai nes offrwm dros eu 'neidiau.
  Fe all 'ffeiriad, ond cael offrwm,
Fe all efgob os rhy bardwn,
Fe all Pab, os gwir y dd'wedan',
Dynnu fynno maes o'r purdan.
  Fe gaiff y * carl am ddryll o arian, *Clown cyfoethog.
Ei ryddhau o boenau'r purdan;
Ond y tlawd s'eb geiniog gantho,
Fe gaiff ynthi hir boenydio.
  Od yw'r purdan yn ein puro
Oddiwrth bechod gwedi'n nyrddo,
I ba bwrpas yr offrymmodd
Crift ei werthfawr waed a'n prynodd?
  Os y purdan fy'n ein golchi
O'n pechodau oll a'n brynti,
Pa'm y dywed y 'fgrythurau,
Mai gwaed Crift fy'n golchi'n beiau?
  Ofer oedd i Fab Duw cyfion
Golli gwerthfawr waed ei galon,
I'n glanhau oddiwrth ein brynti,
Os y purdan fy'n ein golchi.
  Os caf waed fy Nghrift i'm golchi,
O'm holl bechod a'm holl frynti,
Cloed y Pab fi 'nghanol purdan,
Ni bydd arnaf byth 'mo'i ofan.
  Dannedd gwaedlyd y pabyddion,
Sydd yn gollwng gwaed crift'nogion,
Sydd yn dangos nad gwir ddefaid
Crift yw'r rhai'n, ond rheipus fleiddiaid.

CXLIII. *Am barhad mewn yftad o ras.*

HOLLALLUOG ydyw Duw,
  Da a dianwadal yw;
Fe ddwg i ben yr hyn arfaethodd,
Ni chyll ef un or rhai ddewifodd.
  Nid yw bofib' golli un
O'r rhai ddewifodd Duw ei hun;
Ni all y byd, na'r cnawd, na'r cythraul,
Dynnu un o ddwylo'r Bugail. *Ioan* 10.28
  Duw fydd ffyddlon, 'rhwn a'n golchodd, 1 *Thef.* 5
Fe gyflawna'r hyn arfaethodd; 24

Fe geidw'n lân y corph a'r yſpryd,
Nes del Criſt i'w ddwyn i'r bywyd.

Fe 'ſgrifenodd Duw cyn cynfyd, *Dat.*20.12.
Enwau ei ſaint yn rhol y bywyd;
Ni all hoil gyfrwyſdra ſatan
Grafu un o'u henwau allan.

Y rhai ddetholodd Duw cyn byd,
Rhei'ny eilw Duw'n ei bryd;
Rhei'ny oll a wir ſancteiddia,
Ac yn y nef fe'u gogonedda. *Rhuf.*8.30.

Duw, medd Paul, a brudd oſododd
Siccir ſail i'r rhai ddewiſodd;
Fe ŵyr pwy yw'r rhai ddetholodd, 2 *Tim.*2.19.
Ni chyll ef un o'r rhai ddewiſodd.

O braidd bychan, paid ac ofni,
Yr hael Dduw rows deyrnas i ti, *Luc* 12.32.
Er mwyn Criſt, er cyn dechreuad,
Ni all neb ei dwyn oddi arnad. *Mat.*12.52.

Duw addawodd ddodi ofan *Jer.*32.40.
Yng nghalon pawb o'i ddewis gorlan;
Ac na chânt hwy lwyr ymado,
Na throi byth yn * gwyt oddi wrtho. * *Gwbl.*

Mae'n Tad nefol wedi ſelu 2 *Cor.*1,21,22.
Rhai ddetholodd e'ng Nghriſt Ieſu,
A rhoi'r Yſpryd Glân yn *erneſt*,
I bob un a'i cadw'n oneſt.

Mae Mab Duw yn rhoi dan warrant, *Ioan* 10.28.
Drag'wyddol fywyd i'r rhai gredant;
Byth ni chollir un o honynt,
Y mae Criſt a'i Yſpryd ganthynt. 1 *Ioan* 5.12.

Mae Duw'n cadw trwy fawr allu, 1 *Ped.*1.4,5.
Ei blant ei hun rhag ffiaidd bechu,
A thrwy ffydd yn rhoi yn helaeth
Nef i'r rhai'n ac iachawdwriaeth.

Duw a geidw ei blant rhag cwympo, *Judas* 1.24.
Duw a'u cynnal rhag tramgwyddo; *Phil.*1.6.
Duw a'u ceidw yn ddifeius,
Hyd ddydd barn yn dra gofalus.

Nid cadwedig ydyw Iago, *Mal.*3.6.
Am na newid byth o hono;
Ond cadwedig er hyn yw,
Am na newid byth ei Dduw.

Nid yw ficrwydd || iechyd dyn || *Iechydwriaeth.*
Yn fefyll ar ei law ei hun, *Heb.*10.16—24.
Ond ar *bromais* Duw a'i ammod,
Yn ei Fab am faddeu pechod.

Er i Beder wadu'i Feiftir, *Mat.*26.75.
Er i Ddafydd gwympo'n fudur, *Sal.*51.
Yfpryd Duw a wnaeth i'r ddau-ddyn
Edifarhau a gwella gwedi'n.

Er bod meibion Duw yn cwympo,
Ac yn pechu wrth eu temtio,
Ni chwymp un o'r rhai'n mor ddiffaith, *Sal.*37.24
Ag na allant godi eilwaith.

Er i dafod Peder wadu
Crift, rhag ofn ei garcharu,
'Roedd ei galon etto'n ficcir,
Yn gwir lynu wrth ei Feiftir.

Er i'r faint dramgwyddo weithiau,
Ac anghofio Duw ar brydiau,
Ni all un er hyn dramgwyddo,
Fel na allant ail *recyfro.*

Os pecha un o'r detholedig,
Mae Yfpryd Duw'n ei gyffro'n daerig
I 'difarhau trwy dduwiol driftwch; 2 *Sam.*24.10.
Nes gwella'r bai ni chaiff lonyddwch.

Os dewifodd Duw di unwaith,
Byth ni wrthyd Duw di'r eilwaith;
Os ni newid Duw 'mo'i gariad, *Iago* 1.17.
A garo dro, fe'i câr yn waftad. *Ioan* 13.1.

CXLIV. *Fe ddylai pob gwraig fagu ei phlentyn (fef oni fydd hi gwan a chlafycca) â'i llaeth ei hunan.*

MAG dy blant â llaeth dy fronnau,
Na fydd waeth nâ'r ddraig i'r dreigiau;
Pob anifail, a phob bwyftfil,
Berchen llaeth, a fag ei eppil.

Fe wnaeth Duw dy fronnau i fagu,
Fel y gwnaeth e'r groth i blannu; *Hof.*9.14.
Nid gwell y fron na roddo fugyn
Nâ chroth yr hefp na ddygodd blentyn.

Rhodd Duw laeth i'th fron trwy fendith,
Na chadw hwn i droi yn felldith;

Sara yn ddeg a phedwar-ugain, *Gen.* 21.7.
Fagodd Isaac yn dra llawen. *Heb.* 11.11.
* Os par'todd Duw laeth i'th fronnau,
I fagu'th blant â llaeth eu mammau,
Tost it' ddwyn oddiar dy blentyn,
Un peth y rodd naturiaeth iddyn'.

CXLV. *Cyngor i wraig beidio tristau gormod ar ol marwolaeth plentyn.*

MARTHA, Martha, paid ac wylo,
Cymmer gysur, gad d'och'neidio,
Am dy blentyn bach y gym'rwys
Duw mor gynnar i baradwys.
F'anwyl chwaer na thor dy galon,
Yn wylo'n ol dy blentyn tirion,
Aeth gan Dduw, o boen a blinder,
I'r nef at Grist i gael esmwythder.
Cennad Duw a ddaeth i'w geisio,
O blith y drwg lle'r oedd e'n tario,
I fyn'd ag ef i'r nefoedd olau,
At y saint i ganu hymnau.
Yr angylion gynt a gyrchwys
I goel Abram enaid Lazrwys, *Luc* 17.22.
Aeth i'r nefoedd, yn eu breichiau,
Ag enaid bach dy blentyn dithau.
Duw a'i cippiodd ar frys atto,
Cyn i § bechod caeth ei nyrddo,
Na chyfeillach ddrwg ei lygru,
Na'r maleisiwr dû ei ddrygu.
'Nawr ni ddichon un gwrth'nebwr,
Nac ofer-ddyn, na maleisiwr,
Wneuthur *speit* na niwed iddo;
Gyd â Christ y mae e'n *tario.*
Mae e'n gorphwys mewn esmwythder,
Oddiwrth bob rhyw boen a blinder;
Mae ef gyd â'r Oen a'i gwmp'ni,
Yn clodfori Tad goleuni.
Cymmer gysur, cwyn dy galon,
Goruwch pob rhyw ddaearolion;

* Y mae Mr. S. Hughes yn dweud, fod y copi yn amherffaith yma. § Sef, cyn i bechod gweithredol ei nyrddo.

Gwel y man lle mae dy blentyn,
Gyd â Chrift, ni wyli ddefnyn.
  Gwel y lle mae'r hwn a'i prynodd,
Gwedi'i dderbyn atto i'r nefoedd,
I blith miloedd o wyryfon, *Dat.*14.4.
Sydd a'u cyrph a'u llestri'n loywon.
  Gwel y wifg o fyndon purwyn,
Y rodd Crift am dan dy blentyn,
Sy'n difgleirio fel yr haulwen *Dat.*7.13.
Yn y nef ynghylch dy fachgen.
  Gwel y goron o aur melyn 2 *Tim.*4.8.
Y ddododd Crift ar ben dy blentyn,
Gwel orfoledd plant goleuni,
Wrth ei urddo a'i goroni.
  Gwel y côr lle mae e'n gorphwys,
Gyd ag angylion ym mharadwys,
Gwel y gadair lle mae'n eifte',
Gyd â'r faint i ganu falmau.
  Gwel y delyn euraid hefyd, *Dat.*14.2.
Sy'n ei law yn canu'n hyfryd
I'r Tad nefol, 'rhwn a'i creodd,
A'r Oen fanctaidd 'rhwn a'i prynodd.
  Gwrando'r caniad mwyn hofanna,
Sanct, fanct, fanct, ac haleluia, *Efay* 6.
Mae e'n canu i Dduw'r lluoedd, *Dat.*19.4.
Yn y man yr aeth i'r nefoedd.
  Gwel y ffrwythau per a'r manna, *Dat.*2.17.
Mae dy blentyn yn ei fwytta,
Gyd â'r faint ar fwrdd yr Oen,
Yn ddibrinder, yn ddiboen.
  Gwel y ffynnon wen fendiged, *Dat.*22.6.
A'r dw'r bywiol lle mae'n yfed;
O'r hwn gwedi'i brofi unwaith,
Ni ddaw byth ddim fyched eilwaith.
  Gwel y dref lle mae e'n trigo,
Ag aur melyn gwedi'i phafio,
A'i holl welydd o gylch gwmpas,
O faen gwerthfawr, beril, topas. *Dat.*21.
  Gwel pwy ydyw ei gyfeillion,
Sef y faint a'r gwir angylion, *Mat.*6.20.
At ba rai ni ddichon dryg ddyn,
Gwnaed a allo, ddwad attyn'.

Gwel pa waith y mae e'n wneuthur,
Cadw'r ſabboth fawr yn ddifyr,
Gyd â'r ſaint, heb ddim i'w arfer, *Dat.*4.8,9—10.
Ond clodfori Duw bob amſer.

Gwel nad oes na phoen, na thriſtwch, *Dat.*21.4.
Nychdod, newyn, na thywyllwch,
Ond dedwyddwch byth tra gantho,
Lle mae'th fab yn awr yn trigo.

Pa'm gan hynny, fy chwaer dirion,
Y galaru mor hiraethlon,
Am dy blentyn y gyrhaeddodd
Duw o drallod atto i'r nefoedd.

Pa'm y wyli wel'd dy Brynwr
Yn ei dynnu o gyfyngdwr,
I eſmwythder a dedwyddwch,
O blith dynion ar eu § garrwch. § *Gwg.*

Pa'm y wyli wel'd Duw cyfion *Marc* 10.14.
Yn ei alw i geiſio coron,
A gogoniant mawr diderfyn,
Er nad oedd ef etto ond plentyn.

Duw ſy'n tynnu atto'n gynnar *Eſay* 57.1.
Ei rai anwyl, hoff a hygar,
Rhag cael gweled dim o'r drygfyd
Y ddaw'n immwngc ar yr ynfyd.

Y mae Duw yn tynnu'n fuan
Ei rai anwyl atto'i hunan,
Rhag i'r anwir eu ‖ gormeilio, ‖ *Gorthrymmu.*
A'r drygionus eu gw'radwyddo.

Lladdwyd Abel er gwirioned,
Gwerthwyd Joſeph er diddrycced,
Taflwyd Daniel at y llewod,
Trwblwyd Dafydd â mawr drallod.

Meibion Job i gyd a lethwyd,
Holl blant Rhachel hwythau laddwyd;
Crogwyd Abſalom wrth ei locſen;
Ni wŷr dyn beth yw'i dynghedfen.

Un a gwymp ar flaen y cleddau,
Llall a grogir am ei feiau,
Arall a fawdd pan f'o meddw;
Wylo ddylit wel'd diwedd hwnnw.

Toſt gwel'd lladd mab gwraig â bilwg,
Toſt gwel'd torri ei ben a'i wddwg,

Neu'i lwyr nychu yn y carchar;
Nid toſt marw o angeu hygar.

Pa'm y wyla gwraig gan hynny,
Wel'd yr Arglwydd gwyn yn tynnu
Ei blant anwyl atto'n gynnar,
Trwy ryw glefyd hyfryd hygar?

O rhown ddiolch i'r Uchel-dad,
Am y cyfryw lân ymweliad,
Ac na wylwn dros ben meſur,
Ond ſydd raid i gynnwys nattur:

Ond rhown ddiolch i'r Tad ſanctaidd, 1 *Theſ.*4.13.
Pan y tynno mor garuaidd
Ei rai anwyl, o'u mawr flinder,
Atto ei hun, i gael eſmwythder.

Duw ro gymfford a diddanwch
It' fy chwaer i laeſu'th driſtwch;
Duw'th gyſuro am dy blentyn;
Duw ro i minneu decced terfyn.

CXLVI. *Rhybudd i ochelyd gorthrymmu neb, ac i roddi yn ol yr hyn a dreiſi-wyd oddi ar neb.*

YNNILL can' punt, colli'r *credyd*,
Ynnill bawach, colli bywyd,
Ynnill cyfoeth, colli Criſt,
Ynnill trwm, ond colled triſt. *Mat.*16.26.

Gwell ceiniog fach trwy ffordd ddigamwedd,
Nâ'r chweigen aur trwy drais a ffalſtedd;
Y naill a lwydda'r ffordd y cerddech,
A'r llall a fwytty faint a feddech.

Gwell cae o dir trwy union bryniad,
Nâ gwlad o dir trwy dreiſio bagad:
Trais hel d'enaid i boenydio,
A'th wraig yn dlawd, a'th blant ar ddidro.

Cyttuna ar frys â'r rhai orthrymmaiſt,
Rho'n ol fel Zacceus faint y dreiſiaiſt; *Luc* 19.8.
Na ddos, medd Criſt, i'r carchar cyfyng,
Rhaid talu'r trais hyd at y ffyrling. *Mat.*5.25.

Na wna gam ag un rhyw ddyn, 1 *Theſ.*4.6.
Gwell goddef deg nâ gwneuthur un,
Os cam a wnei, rhaid atteb droſto,
Ond goddef gam, cei iawn am dano.

Beth wnei di â'r geiniog drift a dreifiech,
Fe fwytty hon y maent y feddech; *Efay* 61.8.
Ni fyn Duw na'i dŷ 'mo honi,
Yn ffroenau Crift mae'r fath yn drewi.

Os prynu tir, hi bair ei werthu,
Os adail tâi, hi a'u try yn lludy,
Os rhoi hi'th blant, hi'u gyr ar anffod,
Os rhoi i'r tlawd, mae Duw'n ei gwrthod.

Rho'r geiniog drais i'w huniawn berchen,
Cyn tynno i'th dŷ ryw farn aflawen: *Amos* 5.11.
Ni lwydda hon ymhlith dy weiniaid,
Mwy nâ'r arch ymyfg eftroniaid.

CXLVII. *Gwahoddedigaeth i bechaduriaid i ddyfod a derbyn y pethau da ag y mae Duw yn ei gynnyg yn yr efengyl, trwy y ddammeg o'r fwpper fawr.*

DEWCH foneddigion, dewch gyffredin,
Dewch i fwpper Mab y Brenin; *Mat.*22.4.
Dewch, a nedwch dim i'ch rhwyftro, *Luc* 14.16.
Dewch, mae Duw'n eich gwawdd chwi atto.

Mae'n y fwpper fir o'r goreu,
Bwyd i lonni eich eneidiau;
Mel a manna, bara'r bywyd, *Efay* 55.2,3.
Gwin gorfoledd, doniau'r Yfpryd.

Chwi gewch ynthi un Mab Duw,
Yr Oen yn farw ac yn fŷw;
Gwedi'i ladd a chwedi'i * roftio,
A chwedi codi o'r bedd i'ch firio.

Cewch ei werthfawr waed i'ch golchi,
Cewch ei fanctaidd § gnawd i'ch porthi,
Cewch ei wlan yn drwfiad i chwi,
A'i fywyd gwyn i'ch atgyfodi.

Chwi gewch heddwch Duw a'r Drindod,
Chwi gewch bardwn am bob pechod,
Chwi gewch Yfpryd y diddanwch,
Chwi gewch Grift a phob dedwyddwch.

Dewch yn llawen, dewch yn firiol,
Dewch heb aros i'r wledd nefol;
Dewch yn gyfrdo i briodi,
Crift fy'n cynnyg ei hun i ni.

* Gwedi dioddef poethder digofaint Duw. § Yr ufudd-dod a gyflawnodd efe yn ei gnawd.

Naded neb i ddim ei *ſtayo,*
Na'r byd, na'r cnawd, na'r fall ei rwyſtro,
Na'r fferem fawr, na'r pum iau ychen, *Luc* 14.
Na'r wraig newydd, na dim amgen. 18, 19.

Onid ewch chwi'n hy, yn hoyw,
I'r briodas wrth eich galw, *Luc* 14. 24.
Gwr y tŷ ſy'n tyngu'n 'ſgeler,
Na chewch brofi byth o'i ſwpper.

Dewch gan hynny iddi'n addas,
Yng wiſg ſanctaidd y briodas;
Na ddewch iddi byth heb honno,
Rhag cael rhwym i'ch traed a'ch dwylo. *Marc* 22. 13.

Gwyn a choch yw'r wiſg o ras,
Gwyn tu fewn, a choch tu faes;
Gwyn yn gofyn buchedd ſanctaidd,
Coch yn dangos ffydd griſt'nogaidd.

Trwſied pob rhai eu heneidiau,
Mewn hardd wiſgoedd o rinweddau,
A f'o gweddus a chyfaddas,
I ſirioli'r gwir Feſſias.

Os dewch i'r wledd i'ch priodi,
Mewn 'difeirwch, ffydd a gweddi,
Chwi gewch gan Griſt fod yn waſtod
I chwi'n Geidwad ac yn Briod. *Hos.* 2. 19.

## CXLVIII. *Salm* C.

DEWCH holl dylwythau'r ddaear,
Dewch bawb â llawen lafar,
Cenwch glod â chalon rwydd,
I Dduw ein Harglwydd hawddgar.

Dewch fawr a bach drachefen,
Dewch bawb ſy'n troedio'r ddae'ren,
Dewch, addolwch Dduw yn llon,
Bob rhai â chalon lawen.

Gwybyddwch hyn yn ſiccir,
Mai'r Arglwydd graſol, geirwir,
Y ſydd Frenin nef a llawr,
Ac Emprwr mawr yr holl-dir.

Gwybyddwch nad chwi'ch hunain
A'ch gwnaeth o'r pridd mor gywrain,
Ei waith ef y'ch o'r llwch a'r llaid,
Ei blant a'i ddefaid bychain.

O dewch i'w byrth gan hynny,
Tan ddiolch a than ganu,
Fach a mawr, ar fore a hwyr,
Yn brudd i'w lwyr foliannu.

O dewch i'w deml fanctaidd,
Yn drefnus ac yn gruaidd,
I glodfori enw Duw,
Can's hyfryd yw a gweddaidd.

Daionus a thofturiol
Yw'r Arglwydd wrth ei bobol,
O oes i oes y peri'i air,
Tros fyth fe'i cair yn rafol.

## CXLIX. *Am y Gaerfalem Newydd.*

Y BRUTANIAID o Ddeheubarth,
Ac o Wynedd fwyn o bob parth,
Clywch fyfyrdod gwr o'r eglwys,
Yn eich arwain i baradwys.

Mae teyrnas hardd uchlaw'r ffurfafen,
Yn llawn o bob dedwyddwch llawen,
Wedi i Dduw o'i ras a'i fwynder,
Ei darparu ar ein mener.

Mae Mab Duw, ein helpwr tirion,
Wedi ei phrynu â gwaed ei galon,
I'w rhoi i ni, ei frodyr truain,
Oni's cyll ein gwall ein hunain.

Y mae llawer yn ei cholli,
Eifiau gwybod dim oddi wrthi,
Ac fel ffyliaid dwl di-hyder,
Yn ei gwerthu am ddiffrwythder.

Un a'i gwerthai am gael llanw
Ei bledren front yn llawn o gwrw;
Arall a'i gwerth megis filain,
Am gael gorwedd gyd â phuttain.

Adda werthai'r nef am afal,
Cain am ddyrnod ddig di-attal,
Efau am gawl, Hophni am gigach,
A llawer dyn am bethau falwach.

Un a'i cyll hi eifiau gwrando
'R 'fengyl fanctaidd a'i *phractifo*,
Arall eifiau arfer gweddi,
O ddimdawrwydd yn ei cholli.

Ni wŷr un o'r rhai'n, yſywaeth,
Eiſiau crefydd a gwybodaeth,
Faint yw'r deyrnas y'nt hwy'n golli,
Heb ymwrol dim am dani.

Mi ddangoſaf i chwi'n eglur,
Beth o hanes hon o'r 'ſgrythur,
I edrych a fyn Duw o'i wiw-ras
I chwi bawb chwennychu'r deyrnas.

Mae hi mor hardd, mor wych, mor uchel,
Ac na ddichon dyn nac angel
Ddatgan degwm ei rhialtwch,
Na'i gogoniant, na'i dedwyddwch.

Mae ganmil mwy nâ'r môr, nâ'r ddae'ren,
Mae nos a dydd mor oleu a'r haulwen;
Mae aua' a haf, heb rew, heb eira,
Heb wynt, heb wlaw, ond hîn o'r decca'.

Mae'n blodeuo'n braf bob amſer,
Mae'n ddi-lwgwr, mae'n ddi-bryder,
Mae'n anfarwol, mae'n ddiſigyl,
Mae'n drag'wyddol, medd y 'fengyl.

Ni bydd newyn, ni bydd ſyched,
Ni bydd triſtwch, poen na lludded,
Ni bydd gwendid na goſidi
Byth ar un ſy'n aros ynthi.

Nid yw'r nefoedd uwch ein pennau,
Lle mae'r ſer a'r holl blanedau,
Er hawddgared yw'n diſgleirio,
Ond fel llawr o'r deyrnas honno.

Nid oes dim yn eiſiau ynthi
Ag all calon dyn ei hoffi;
Nid oes ynthi ddim yn tyfu,
Ag all calon dyn wrth'nebu.

Y deyrnas hon a wnaeth Jehofa,
A'i ſys ei hun, yn llys o'r uwcha',
I'w addoli gan angylion,
A'i glodfori gan griſt'nogion.

Yng nghanol hyn o deyrnas dwym-glyd,
Y mae dinas hardd-wych hyfryd,
Yr hon, medd Ifan y gweledydd,
A elwir, Tref Caerſalem Newydd.

Gwelydd hon i gyd o gwmpas
Sydd wedi eu gweithio oll â thopas,

Beril, jaſpis, amethyſtus,
Saphyr hardd, a gloyw ſardus.
Pedwar ochrog fel y dis,
Yw'r deyrnas hardd-wych hon fe w'us;
Ei lled, ei hyd, a'i huwchder hirdded,
Sydd gogyd, goguwch, a gogyfled.
Deuddeg porth o berls ſydd arni,
I ollwng pobl Dduw ddwad iddi,
A deuddeg angel ſydd yn gwilio,
Rhag i ddim aflan ddwad yno.
Mae ei heolydd wedi'u paſio
Ag aur melyn, yn diſgleirio
Fel y gwydyr hardd-wych rhial,
Yn tywynnu fel y criſtial.
Afon loyw fel yr arian,
Yn tarddu o orſedd Duw ei hunan,
Sy'n dyfrhau pob heol ynthi:
Dw'r ſydd well nag *aquavitti*.
Pren y bywyd ſy 'mhob heol,
Yn tyfu o ddeutu'r afon ſywiol,
Yn dwyn deuddeg rhyw o ffrwythau,
I ddiwallu'r holl eneidiau.
Ni ddaw newyn, ni ddaw clefyd,
I'r rhai ſwytto pren y bywyd;
Ni ddaw ſyched na thrallodion
Fyth ar neb a yfo'r afon.
Nid oes neb yn trigo ynthi,
Ond angylion y goleuni,
A'r rhai duwiol etholedig,
A wir brynodd Criſt yn unig.
Ni chaiff mwrddwr, na gwr meddw,
Na'r neb y ſy'n addoli delw,
Na phutteinwr, na dyn aflan,
Drigo yn ninas Duw ei hunan.
Nid oes ynthi ddim tywyllwch,
Nac anwiredd, na thrafferthwch,
Ond goleuni yn waſtadol,
Nos a dydd yn dragywyddol.
Nid rhaid i'r dref hon un amſer,
Oleu'r haul, na'r lloer, na'r lanter;
Criſt yr Oen, a'r ſanctaidd Drindod,
Sy'n oleuni ynthi'n waſtod.

Nid oes un dyn ynthi'n trigo,
Na bo'i wyneb yn disgleirio
Fel yr haulwen yn yr awyr,
Ar ddiwrnod hafaidd eglur.

Nid oes ynthi bris am drysawr,
Aur a pherls, a meini gwerthfawr,
Aur sy'n pasio'r holl heolydd,
*Precious stones* sy'n bildo'r gwelydd.

Yng nghanol y dref reial yma,
Y mae gorsedd y Gorucha',
Wedi'i gosod ar ysgwyddau
Hardd angylion eglur thronau.

Canopi fel bwa'r Drindod,
Hardd-wych eglur o liw'r emrod,
Sydd uwch ben yr orsedd hyfryd,
Lle mae'r Tad, a'r Mab, a'r Yspryd.

Saith o lampau gwynion golau,
Yn arwyddoccau ysprydol ddoniau,
Sydd yn llosgi'n eglur, rhyfedd,
Bob rhyw awr o flaen ei orsedd.

O ddeutu'r orsedd mae cerubiaid
Chwech adeiniog, yn llawn llygaid,
Ddydd a nos yn rhoddi mawr-glod,
Yn ddi-orphwys, i'r hael Ddrindod.

Gyd â'r rhai'n y mae seraphiaid
Grymmus, grasol, tanllyd, enbaid,
Yn cyd-ganu, sanct, sanct, ganwaith,
I Dduw'r lluoedd yn dra pherffaith.

Yn nesaf at hynny mae henuriaid
Gwynion reial, mewn cor euraid,
A'u coronau yn eu dwylo,
Yn ymostwng i fendithio.

Mae pob un â'i goron weddus
Ar ei ben fel brenin grymmus;
Mae pob un â'i wisg wen gantho,
Fel offeiriaid yn bendithio.

Mae pob un â'i goron euraid,
Yn canu mawl i'r Oen bendigaid;
Mae pob un â'i feiol gantho,
Yn arogl-darthu diolch iddo.

Y maent hwy bob rhai yn eu graddau,
Yn canu'r Arglwydd salms a hymnau,

Ac yn rhoi i'r Oen ganmoliaeth,
Am ei nerthol iachawdwriaeth.

Yr angylion ſydd yn gynta'
Yn canu i'r Arglwydd haleluia,
A'r ſaint hwythau yn eu hatteb
O'u cadeiriau mewn cyd-undeb.

Nid oes yno ſant nac angel,
Na bo'n canu ſalms yn uchel,
Nid oes yno un yn ſegur,
Na bo'n canu mawl yn ddifyr.

Yr un ganiad y ſydd ganthyn',
Trwy gyttundeb gyd â'r delyn;
Yr un tafod, a'r un genau,
Yn clodfori Duw yn ddiau.

Maent hwy'n canu haleluia,
Yn dra hyfryd i'r Gorucha',
Ac yn rhoddi clod a gallu
I'r Oen ſanctaidd am eu prynu.

Maent hwy'n canmol mawr drugaredd
Duw ſy'n eiſtedd ar ei orſedd,
Ac yn moli'r Oen bendiged,
Am eu prynu o'r caethiwed.

Mae mor hyfryd ac mor weddaidd,
Gant yn moli'r Drindod ſanctaidd,
Ac na allant fyth ddiffygio,
Ond rhoi clod a moliant iddo.

Maent yn gweled, bawb yn gyngan,
Wyneb graſol Duw ei hunan;
Yn ei wyneb mae'n dragywydd,
Ddigonolrwydd o lawenydd.

Ynghylch yr henuriaid gwynion
Mae mil miloedd o angylion,
O bob * *nation* yn addoli
Duw mewn *number* heb rifedi,

Y mae wyneb Duw cyn decced,
Gan ei ſaint ſydd yn ei weled,
Ag na allant chwennych mwyach,
Edrych fyth ar ddim amgenach.

Maent hwy'n ſefyll yn ddiogel,
O flaen Duw tu fewn i'r demel;
Ni all ſatan nac un gelyn
Wneuthur mwyach niwed iddyn'.

* Cenedl.

Nid oes emprwr tan y nefoedd,
Yn cadw llys fel Duw Y LLUOEDD,
Lle mae'r gwaethaf ſy'n ei ddilyn,
Yn benadur ac yn frenin.

Maent hwy gyd yn foneddigion,
Or gwaed reial un â'r goron;
Maent hwy gyd yn blant i'r Brenin,
Ac fel *princes* yn ei ddilyn.

Maent hwy'n frodyr i'r Meſſias,
Cyd-'tifeddion o'r un deyrnas;
Maent hwy'n ‡ *fellows* i'r angylion,
Maent hwy gyd yn dywyſogion.

‡ *Cyfeillion.*

Nid oes un o'r rhai'n yn cyſgu,
Dydd a nos, ond golchi canu;
Nid oes un ag all ddiffygio,
Mae mor ddifyr iddo yno.

Mae pob un â'i goron hardd-wych
Ar ei ben fel brenin dewr-wych,
Mewn gogoniant yn teyrnaſu,
Gyd â'n Prynwr mawr, Criſt Ieſu.

Mae pob un â'i wiſg wen ganaid,
Yn ei gylch mewn gorſedd euraid,
Megis 'ffeiriad yn aberthu,
Yn rhoi clod a mawl i'r Ieſu.

Mae pob un â'i balmwydd gantho,
Fel congcwerwyr yn *triumpho*
Ar y byd, a'r cnawd, a'r cythraul,
Wedi ffwlio'r rhai'n mewn rhyfel.

Ni bu Selyf a'i hyfrydwch,
Ni bu Rhos a'i holl rialtwch,
Mor drwſiadus yn ei wiſgoedd,
Ag yw'r gwaethaf ſy'n y nefoedd.

Maent hwy'n deccach yn eu hwyneb
Nag oedd Abs'lom dêg dihareb,
Yn diſgleirio'n ogoneddus,
Ar lun corph ein Prynwr grymmus.

Maent hwy'n gryfach nag oedd Samſon,
Maent hwy'n deccach nag Abſalon;
Mae pob un yn hardd fel angel,
Ac ar draed yn gynt nag Has'el.

Maent hwy'n byw mewn mawr ddedwyddwch,
Gwir lawenydd a rhialtwch;

Hwnnw'n para yn dragywydd,
Heb na phoen, na thrangc, na chyſtudd,
  Eu gwaith hwy gyd, o fach i fwya',
Yw canu i'r Arglwydd haleluia,
A rhoi moliant, clod, a gallu,
I'r Oen a laddwyd am ein prynu.
  Bwyd pob rhai yw manna hyfryd,
O hoff ffrwythau pren y bywyd;
O'r hwn ffrwyth pan fwytaer unwaith,
Ni newynir byth yr eilwaith.
  Eu diod oll yw dw'r y bywyd,
O afon Duw, o'r ffynnon hyfryd,
Yr hon ſy'n tarddu'n wrychias allan,
O tan orſedd Duw ei hunan.
  Y difyrrwch ydyw rhodio
Gyd â'r Oen p'le bynna'r elo,
I lan ffynnon dw'r y bywyd,
I glodfori'i enw hyfryd.
  Gwedi'n pan y delont adre',
Mae gwledd reial ar y byrddau,
Wedi eu goſod i roeſawi
'R Oen o'i § *brogreſs*, a'i gwmpeini. § *Taith.*
  Ni bu wledd Ahaſuerwys,
A'i rialtwch mawr y barwys,
Ddim gyffelyb i'r wledd yma;
Swpper Mab y Brenin mwya'.
  Ni chlywodd cluſt, ni welodd llygad,
Ni ddych'mygwyd o'r dechreuad,
Faint o foethau ſy'n y ſwpper,
Wedi trwſio ar eu meder.
  Nid oes ynthi neb yn bwytta
Unrhyw ymborth waeth nâ manna,
Nac yn yfed ynthi hefyd
Ddiod waeth nâ dw'r y bywyd.
  Duw ei hun ſy'n coſti'r ſwpper,
Mab y Brenin ydyw'r ‖ *Sewer*; ‖ *Swyddog.*
Awdurdodau yw'r § *controlwyr*, § *Llywodraethwr.*
Arch-angylion yw'r gwas'naethwyr.
  Y cerubiaid ſydd yn canu
Ar y delyn i ddifyrru,
A'r ſeraphiaid gyd â hwythau
'N canu ar dafod ac ar dannau.

Y caniadau yw, Hoſanna,
Sanct, ſanct, ſanct, ac haleluia;
Diolch, gallu, mawl, a mawr-glod,
Y fo fyth i'r ſanctaidd Drindod.

Mae pob un yn cael ei ddigon
O bob peth wrth fodd ei galon,
Mae pob *ſence* yn cael ei borthi
Ar y peth ſy'n perthyn iddi.

Y mae'r llygaid yn gwel'd digon
O rialtwch rhwng angylion,
Y mae'r cluſtiau'n clywed hwythau,
Eu gwir wala o ber leiſiau.

Y mae'r genau'n cael ei borthi
Bob dydd â manna ac *aquævitì*,
Y mae'r tafod yn cael canu
Ddydd a nos i'r Prynwr Ieſu.

Y mae'r cyrph yn hedeg hwythau,
Mor ddirwyſtir a'r eneidiau;
Y mae'r pen, a'r traed, a'r cwbwl,
Cyn ebrwydded ag yw'r meddwl.

Nid oes aelod mewn un criſtion,
Fu'n gwas'naethu Duw yn ffyddlon,
Na fyn Duw ei ogoneddu
Yn mharadwys am ei was'naethu.

Mae'r holl gorph pan ddelo yno,
Fel yr haulwen yn diſgleirio:
Os diſgleiria'r corph mor gannaid,
Pa wedd yr hardd-ddiſgleiria'r enaid?

## CL. *Am bwyll ac amynedd.*

PWYLL mewn dyn yw mantol enaid,
I gadw'r meddwl ſydd angenrhaid,
Mae naill ai'n gywir, union, helaeth,
Neu ynte'n prwſio'n ſiomedigaeth.

Dwl naturiaeth dynion trymllyd,
Sy' weithiau'n paſio am bwyll tros ennyd,
Er bod arnynt eiſiau doniau,
A llawer iawn o'u gwir gynheddfau.

Fe ddylai rhei'ny gau eu ciſtau,
Nid rhag dwyn eu tryſor gorau,
Ond rhag i eraill ddigwydd canfod
Byth mor weigion yw eu gwaelod.

Nid rhaid canmoliaeth i'r eunuchiaid,
Am fod yn ddiwair ymyfg merched,
Pan nad ydyw yn eu gallu
Ddim amgenach i'r rhai hynny.

Mae rhai'n cym'ryd arnynt arfer
Fod yn bwyllig iawn bob amfer,
Gan droi'u llygaid a'u hwynebpryd,
A llufgo'u geiriau o'r un ffunud.

Eu hymadrodd a ddaw allan,
Bob yn ddefnyn, deigryn bychan;
Ond os digwydd iddynt ddigio,
Chwi gewch araith waeth nâ honno.

'Roedd un a gyfenwyd pwyllog,
O ran ei ffurf a'i ddull ragrithiog,
Ond ar ol chwarau rhyw brangc diofal,
Fe alwyd pwyllog yn anwadal.

Y gwir bwyll a ymddengys allan,
Yn ei ddull a'i fut ei hunan,
Yn ei fuchedd a'i 'marweddiad,
Yn ei ymadrodd, yn ei wifgad.

Fe a fernir nattur dynion
Mewn llawer iawn o ffyrdd a moddion,
Yn trofeddu'n erbyn pwylledd,
Ac heb fod felly mewn gwirionedd.

Yn rhai y mae rhyw yfpryd bywiol,
A'u holl hynt fel gyrfa led-ffol,
Ac eraill o ymddygiad uchel,
Balch yr olwg yn eu hoedel.

Eraill fydd yn bur dueddol
I lawenydd yn waftadol:
Na atto Duw fod pawb o'r rhei'ny
Yn ddrygionus oll i'w cyfri'.

Pa nerth a grym all wrthladd nattur,
Peth rhy anhawdd yw o'i yftyr,
*Porfiwn* rhai'n y byd brefennol,
A'u comffordd hefyd yn feddiannol.

Nid oes nemawr awr nac ennyd,
Na bo rhai yn cam gymmeryd;
Ymddygiad grafol ymyfg dynion,
Weithiau fernir yn anghyfion.

Pe bae Dafydd 'nawr yn dawnfian, 2 *Sam*.6.16.
O flaen arch un Duw ei hunan,

Pawb a'i barnai ef yn ynfyd,
Heb ddim pwyll na fynwyr hefyd.

Pe gwnae Elias ei weddiau, 1 *Bren*.18.42.
A'i ben rhwng ei draed a'i liniau,
D'wedai pawb a fae'n ei grybwyll,
Wele ddyn mewn yfpryd amhwyll.

Pe gwelit Peder yn rhedegan, *Ioan* 20.3,4.
A Ioan at y bedd yn fuan,
A Rhode yn troi yn ol heb agor, *Act*.12.13.
Ar frys yn gado'r drws ar gynor.

Y fawl a graffo ar yr achofion,
Tu fewn tu faes oedd ar y dynion,
I'w cynhyrfu ac i fryfio,
Rhyw zel wrefog oedd i'w pigo.

Mae dangofiad eglur ddigon,
Fod y rhei'ny oll yn gyfion,
Ac yn bwyllog yn eu buchedd,
Gwir dduwioldeb ac amynedd.

Duw yw rhoddwr yfpryd pwyllog,
Amyneddgar a lliofog,
Efe yw Awdwr pob rhinweddau,
A Thad anwyl trugareddau.

CLI. *Fel y deallir y Gân fydd yn canlyn, bydded hyfpys i'r darllenydd, fyned brenin* Charles I. *i* Spain, *pan oedd ef yn dywyfog* Cymru, *mewn bwriad i briodi merch brenin y deyrnas honno. A phan yr oedd teyrnas* Lloegr *yn llawn o ofn na adawai'r* Spainiaid *iddo byth ddychwelyd adref, fe welodd Duw fod yn dda i ddyfod ag ef i dref yn iach-lawen; ac ar hyn fe wnaeth ficer* Prichard *y gân hon.*

Y *MUSES* oll o Helicon,
Y *grafes* taer a'r *nymphs* o'u bron,
Cym'rwch bawb eich offer ganu,
I roefaw o Spain dywyfog Cymru.

Apollo, dod dy gor yn gyngan,
Par i'r *nymphs* a'r *grafes* ddawnfian,
Tra fo'r *mufes* oll yn canu,
*Welcome home* i *brins* y Cymru.

Rho i'r *grafes* wifgoedd gwynion,
Pletha'u gwallt â'r lawrydd gwyrddion;
Trwfia'r *nymphs* â'u tlyfau o ddeutu,
Fyn'd i roefaw *prins* y Cymru.

Rho i'r *muses* offer euraid,
* Coronelos dan law'r ceidwaid,
Fel y gallont gywraint ganu,
Groesaw o Spain i *brins* y Cymru.

Gosod pob un yn eu graddau,
Gochel adael dim yn eisiau,
Ag a allo lawenychu
Clust a llygad *prins* y Cymru:

Gwedi'n PHOEBUS taro'r delyn,
Hoff gan ferched JOVE dy ganlyn,
A'r tair chwaer y sydd yn gwenu,
Dawnsio *welcome prins* y Cymru.

Troed MELPOMEN drist ei hoernad,
Caned CLIO lawen ganiad;
Caned pawb, THALIA flaenu,
‡ Euraid wers i *brins* y Cymru.

MERCHUR ditheu dos i hedfan,
Gwysia'r duwiau fawr a bychan,
A'r duwiesau bawb ymdacclu,
Fyn'd i roesaw *prins* y Cymru.

Deued JOVE â'i holl oreu-gwyr,
MARS mewn rhangc â'i holl ryfelwyr,
PHOEBE a'i 'ffeiriaid oll tan ganu,
Groesaw o Spain i *prins* y Cymru.

Deued JUNO ar *goach* o baunod,
FESTA ar gerbyd o g'lomenod,
VENUS ar alarchod coes-ddu,
I roi groesaw i *brins* y Cymru.

Rhodded VENUS iddo degwch,
JUNO gyfoeth, PALLAS heddwch,
CERES lafur gwedi addfedu,
I *bresento prins* y Cymru.

* SON adeiniog heda dithau    * *Fame.*
Dros y moroedd a'r mynyddau,
Cân â'th gorn i'r byd o bob-tu,
*Saff return* i *brins* y Cymru.

Par i bawb â'u dillad goreu
Ddwad ei roesawi adre';

* Y mae ysgrifen-law yr Awdwr yn anamlwg yma. Pa un ai Coronelos dan law, &c. neu ynteu, Goreu'n nelos dan law, &c.

‡ Dawnsio welcome prins y Cymru, mewn copy arall.

Ac yn ddyfal i foliannu
Duw, am gadw *prins* y Cymru.

NEPTUNE donnog a'i dolphiniaid,
THETYS drwſtfawr a'i ſireniaid,
Y rodd ſiars i DRITON ganu,
Goſteg-fôr i *brins* y Cymru.

ÆOLUS chwyrn-wyllt ynte' oſtegodd
Dwrdd a chynnwrdd yr holl wyntoedd,
Ac a wnaeth i ZEPHYR chwythu
'R hwyl wrth fodd tywyſog Cymru.

PHOEBUS hardd o'r nef a chwarddodd,
Wel'd y llongau ar y moroedd,
Ac a wnaeth i'r haulwen wenu,
Tra fu'r dydd ar *brins* y Cymru.

CYNTHIA hitheu ni bu ſegur,
Na'i morwynion ar yr awyr,
I oleuo'r byd o bob-tu,
Tra fu'r nos i *brins* y Cymru.

CASTOR, POLLUX, ac URANIA,
POL y gogledd, ac AURORA;
A'r holl ſer oedd yn ymdynnu,
*Ledo*'r ffordd i *brins* y Cymru.

Haul a lleuad, ſer y nefoedd,
Gwynt, a gwlaw, a thir, a moroedd,
Nef a daear ſy'n datganu
Ffafar Duw i *brins* y Cymru.

Pan y daeth i olwg Lloeger,
F'aeth y duwiau i ſtrifio'n 'ſgeler,
Pwy gae gyntaf, dan ymdynnu,
Ddwyn i dir dywyſog Cymru.

MERCHUR am fod droſto'n ladmer,
JOVE am roddi iddo bwer,
VENUS am ei fyn'd i garu,
Fynnai'r dydd gan *brins* y Cymru.

SATURN friglwyd, tad y duwiau,
Wrth ei oedran ynte'i mynnai,
Ond y SUL, 'rhwn oedd e'n barchu,
Ga's y dydd gan *brins* y Cymru.

Y pummed dydd o fis *October*,
Ar ddydd Sul, dair awr cyn hanner,
Y dygodd Duw, dan lawenychu,
I dir Lloeger *brins* y Cymru.

Duw ddanfonodd ei wir angel,
I gyf'rwyddo ei holl drafel,
Ac i ddwyn pob peth o bob-tu,
Wrth fodd calon *prins* y Cymru.
O moliannwn ninneu'r Drindod,
Ddydd a nos â chalon barod,
Am iddo ddwyn pob peth o bob-tu,
Wrth fodd calon *prins* y Cymru.
Spain a fynnai mewn cyfrwyſder,
Gadw'n *prins* dros ddyddiau lawer;
Duw a gwlad a fynnai er hynny,
Fyr ymchweliad *prins* y Cymru.
Gan i Dduw o gariad atto,
Ddangos cymmaint ffafar iddo,
Pa fath roeſaw gwych y ddylu
Brydain roi i *brins* y Cymru?
Doed ein brenin a'i gynghoriaid,
Doed yr ieirll a'r holl bennaethiaid,
Yn eu *rhobs*, a *thrwps* o bobt-u,
I roeſawi *prins* y Cymru.
Doed y graſol archeſgobiaid,
A'r eſgobion, a'r preladiaid,
Mewn *proffeſiwn* i foliannu
Duw, am gadw *prins* y Cymru.
Doed ardderchog arglwydd *keeper*,
Urddas Cymru, llewyrch Lloeger,
A'r Brutaniaid hardd o ddeutu,
I roeſawi *prins* y Cymru.
Doed y mwyaf garo Cymro,
Colofn y deyrnas, arglwydd Penfro,
A'i wyr *galant* i 'ſtafellu
Yn nhŷ'r brenin *prins* y Cymru.
Doed maer Llundain a'i gwmpeini,
Yn eu 'ſgarlad a'u cadwyni,
Ar feirch gwynion i anrhegu,
Ac i roeſaw *prins* y Cymru.
Doed y *merchants* mawrion hwytheu
I'r heolydd â'u gwin goreu,
I roi rhwng eu ffryns o bob-tu,
I yfed *health* tywyſog Cymru.
Doed yr holl brentiſiaid hwythau,
Tan roi bloedd a thaflu cappiau,

Yn dra llawen, tan grechwenu,
I roesaw o Spain dywysog Cymru.

Doed 'sgolheigion yr holl ynys,
Yn eu gradd â'u heuraid *werses*,
A'u hareithiau, tan lawenu,
I roesawi *prins* y Cymru.

Doed offeiriaid a'u plwyfolion,
Gwyr a gwragedd, merched, meibion,
I'r eglwysydd i foliannu
Duw, am gadw *prins* y Cymru.

Caner clych yr holl eglwysydd,
Nes dadseinio'r môr a'r mynydd,
Ac i'r ddaear fud ddatganu,
Groesaw o Spain i *brins* y Cymru.

Cynner tân a *bonffires* fagad,
(Tân sy'n dangos gwres ein cariad)
Fel y gwelo'r byd o bob-tu,
Faint yw'ch serch i *brins* y Cymru.

Minneu a'm tylwyth, nos a borau,
A rof ddiolch ar fy ngliniau
I'r gwir Dduw, am ddwyn o ddeutu
Yn iach-lawen *brins* y Cymru.

Duw ymddiffynno rhag bradwriaeth,
Cadwed Crist ef rhag pabyddiaeth,
A rhag pawb sydd yn amcanu
Drwg neu *speit* i *brins* y Cymru.

Duw ro galon Hezecias,
Synwyr Selyf, zel Josias,
Dewrder Dafydd, ac at hynny,
Einioes Noa i *brins* y Cymru.

Joas, Cusai, fo cynghorwyr,
Joseph, Daniel, fo golygwyr;
Moesen, Samuel, a fo'n barnu
Byth ar faingc tan *brins* y Cymru.

Crist â'i esgyll a'i hadeinio,
Crist â'i Yspryd a'i cyf'rwyddo,
Crist â'i ras a fytho'n nerthu,
Ymhob achos, *prins* y Cymru.

Arglwydd grasol, cadw'r deyrnas,
A bendithia'n brenin Siamas,
A rho gynnydd, gras, a gallu,
Uchlaw pawb, i *brins* y Cymru.

CLII. *Cân yn dangos trueni dyn yn byw ac yn marw heb Grist.*

CLyw ddaear o bob cwr, dy annog mewn cynnwr,
  Ac ystyr dy gyflwr, tyn go-flin le;
Cais, bydd yn ofalus 'difeirwch dymherus,
  Am bechod peryglus ei 'rogle.

Myfyria'n ddifrifol dy gyflwr anianol,
  Mewn meddwl ysprydol dda dduwiol fost;
Beth oedd dy ddechreuad, beth yw d'ymarweddiad,
  Beth fydd dy ddiweddiad ni wyddost.

Dau le wedi apwyntio sydd i ddyn i breswylio,
  Terfynol a'u cofio, cyfion wir yw,
Rhag magu cynfigen, balch osgedd trwy asgen,
  Y groth a'r ddaearen ddu oerliw.

Camweddus amhuredd oedd sylwedd dy salwedd,
  Llygredig had gwagedd a gwegi drwg cry',
Y pryd y'th wir greued tan gysgod mewn casged,
  Yng nghroth dy un swynged fam gu.

O'r llaeth i'r gwaed gŵydyn, o'r gwaed i'r rhith brith-
  O'r rhith cnawd ac esgyrn gie a gwthi a gest, (wyn,
Pen, traed, ac aelodau, trwy nerth Duw a'i wyrthiau,
  Ac felly gan adde' y cynhyddaist.

Yr oeddyt ti yno fel clai newydd gweirio,
  Ei ffurfio a'i rithio fel delw hardd fry,
Yn farwol, heb symmud, nes cael gan Dduw fywyd,
  Trwy anadl da yspryd diaspri.

Mewn ofer-drist swriad ymdreiglaist yn wastad,
  Tra fu dy breswylfod tan gauad glo clyd,
Heb oleu i'th gomfforddio na rhydd-did i rodio,
  Na dim i ti i'w deimlo ond yn domlyd.

I'r byd hwn ddyn bregus, tro filain trafaelus,
  Yn noeth anolygus mewn gwir gwaedlyd grys,
Pan ddaeth y tymp cyfan i'th agwedd go-egwan,
  Y dest yn ddall fudan anfedrus.

Bydmaethod da eu campiau i'r byd a'th dderbyniai,
  A'th olchai, a'th driniai, yn hynaws ddilys,
Dy fogel a dorren' mewn cynnes lân wlanen,
  Hwy a'th rwymen' yn llawen ddyn llywus.

Ac yno rhai gwystlon a geisied yn gysson,
  A mammaeth â dwyfron dda laeth lon lwys,

I'th gario di yn ddychlyn i dderbyn yn ddibrin,
O rinwedd arogl-win yr eglwys.
Dy olchi oddiwrth bechod a gefaist dan ammod,
It' gashau a gwrthod fyth satan a'i siot,
Y byd a'r cnawd ffeilstion a charu Duw'n ffyddlon,
A'th feichiau a fentrason fyn'd trosot.
Oddi yno yn ddyn newydd hwy'th garian i'w ceurydd,
I fod yn llawenydd rhieni diddig;
I'th fagu yn groyw-ber hwy'th lanwen' yn dyner,
A phob rhyw felusder yn ystig.
Pan gest dy draed danad, gweinyddus gynhyddiad,
Ni chofiaist ddechreuad dy *sailad* i'r byd,
Na dim o'th 'ddewidion pan enwyd ti'n gristion,
I fyw i Dduw'n union bob ennyd:
Ond craffu ar bob gwag-beth, a'i ddilyn yn helaeth,
A hoffi naturiaeth rhyw wag gastiau mân,
A charu'n anwyledd aneirif o oferedd,
Hyn ydoedd dy fuchedd di'n fychan.
Pan aethost, ddyn gwiwlan, ymhellach mewn oedran,
Cydnebydd dy hunan dy hanes o hyd;
Y byd a'i holl droiau, y cnawd a'i drachwantau,
A geraist yn orau uwch gweryd.
Dewisaist fyw'n aflan a rhodio'n ffordd satan,
A'th lenwi dy hunan yn gyfan â'r drwg;
Pob gwarth a fae gwrthun o'r sawdwl i'r coryn,
O gamwedd i'th ymlyn yn amlwg.
Glân ffrwythydd yspryddol i ti oedd ddieithrol,
Ffydd, gobaith cariadol, a da duwiol serch,
Lletteugar drugaredd, diddanus amynedd,
Haelioni di-drawsedd o dra-serch.
Pob drwg ffrwythau cnawdol i ti oedd yspysol,
Cartrefol, dewisol, hynodol, ddrwg bla;
Bryd, llid, a chynfigen, gwag gelwydd, drwg absen,
A balchder, chwysigen rhy swga.
Trechu dy wannach, yn orthrwm ddi-'meiriach,
A lledu dy aflach yn oflin trwy'r fro,
Dal cilwg anghyfion i'th wâr gymmydogion,
A'th rwydau ffalst trawsion i'w treisio.
Ac felly cynhyddaist mewn blwyddau, cam dreuliaist
Dy amser, a theflaist air Duw o'th ol,
Heb gofio am dy ddiwedd a dyddiau blin dialedd,
Yr ait ti i'r bedd gwaredd yn farwol.

O hir ddilyn hirddrwg, ni ddigwydd ond mawrddrwg,
Daw'r angeu chwilen-ddrwg a'i olwg yn dynn,
Am dy holl feiau, anwireddus gamweddau,
A'i biccell i ddechreu i ti ddychryn.

Pan ddel y cul ſwyddog, ciw melyn cymhalog,
I'th ddyfyn yn arfog o'th yrfa yn y byd:
Ar far y cyfiawnedd am faich dy ddrwg fuchedd,
I dderbyn o ddialedd a ddilyn.

A dechreu o'th dŷ priddlyd a'i furiau echryſlyd,
Gan henaint tuchanllyd egwan;
A chlwyfau leſmeirio yn ſwrthedd i ſyrthio,
Mae'n bryd i ti fydio yn ail fudan.

Ti fyddi'n meddylio y dichon dy ddwylo
Fod i ti rhag plagio'n gref ſwccled;
A hwytheu mor weinion a diffrwyth, na's gallon'
Droi ffwrdd dy grach boerion i'r pared.

Ti fyddi'n chwennychu i'th ddau-droed dy helpu,
I fyned i lechu rhag lloches y bedd;
A hwytheu heb ſymmudo, yn llwyr wedi ffaelio,
Heb allu dim rhodio i anrhydedd.

Dy dafod dewr eiriau fydd rhwym yn dy enau,
Dy gof a'th ſynhwyrau oedd oreu i'th blaid;
Dy gorph i gyd troſto yn arcs i amdo,
A'r bedd i ſyn'd iddo i'th anhuddiaid.

Ti roet y pryd hwnnw, pe bae ar dy helw,
Er diangc rhag marw, ymerodraeth y byd;
Ei lwyddiant a'i fawredd, am funud yn ſwynedd,
I grio am drugaredd cyn gweryd.

Ni thyccia dim tacclau i wrthſefyll yr angau,
Er garwed dy gychiau, cychwyn fydd raid,
Dy gorph i'w hir garchar, a'r golud i'r galar,
Bwyd pryfed yn gynnar di-ganaid.

A'r enaid, yſywaeth, a hudaiſt yn helaeth,
Yn ol dy lywodraeth yn ddiffaith i gas;
A myn'd o'r corpholyn, trwy gaffael barn erwyn,
Am dy hir ymdryn, i andras.

Ond andras oedd colli gras Criſt a'i gwmpeini,
Y ſaint a'r merthyri i foli'r Ion lwyth;
A myned i udo at ſatan a'i eiddo,
I gael ei boenydio mewn adwyth.

Mae'n rhaid i'r corph orwedd yng waelod ei gul-fedd,
Heb ſylwedd cyfannedd, yn llygredd y llawr,

Nes canu o'r archangel gorn awchus yn uchel,
  I'w ddeffro i ail drafel fydd rhy fawr.
A'r enaid pryd hwnnw a yrrir yn arw,
  Mewn dychryn di falw a chwerw ddurnad,
I ymwifgo â'i hen dom-dŷ, ei lettai a'i letty,
  I gael ei gyd-farnu â'r oer farnad.
Pan ddel yr archangel â'i utgorn di-atgel,
  I ddyfyn pob gafael a'i gofyn ger bron;
A'r Barnwr i'w holi am bob cnawdol ddireidi,
  Och, gaethed fydd cyfri'r hen gofion!
Cei weled yr haulwen a'r lleuad gwmpafwen,
  O fewn y ffurfafen yn colli eu gwawr;
A llewyrch goleu-lân y feren firiol-lân,
  Yn gyfan a fyrthia'n un ferthawr.
Cei weled cymhylau fel tanllyd gerbydau,
  Ar ddiwrnod y borau yn barod,
I dderbyn 'modd ufudd lu Duw mewn llawenydd,
  Fydd gyd â Mab Dafydd yn dyfod.
Pan welech y creigiau yn helaeth golcothau,
  Gwaftad-tir a brynniau, a'r bronnydd ar dân;
Y moroedd, y muriau'n aflwyfion eu lleifiau,
  A'r cyrph yn eu beddau ni byddan'.
Rhwng Seion, fryn dedwydd, a *mount* yr oliwydd,
  Uwch dyffryn hyfrydwydd JEHOFA,
Y bydd y cyfarfod ofnadwy ddychryndod,
  I'r frawdle dda ammod Dduw yma.
Y faint a gynhullir mewn awydd i'r awyr,
  Bob un fel yr eryr yn bybyr yr ant,
I dderbyn y fendith a'r meddiant yn ddilyth,
  O'r deyrnas ddigyrrith a garant.
A thitheu a ddidolir, annuwiol ddyn anwir,
  I gorlan y geifir, lle'th drinir mewn dig,
Gan fod yn benydiol mewn poenau trag'wyddol,
  Yn ffwrnes uffernol ddû ffyrnig.
Dy gyflwr dangofais yn oreu ag y medrais,
  Mewn bwriad dyfais i'th ddyfyn yn ol,
I geifio hedd Iefu, trwy wir edifaru,
  Fel hydd ar ei frefu yn ddifrifol.
Os ydwyt yn ammau un mymryn o'm geiriau,
  Chwilia'r 'fgrythurau bob boreu wrth dy bwyll;
Ac yno wrth ddwys ymgais cei weled yn llednais,
  Y cwbwl a dd'wedais yn ddidwyll.

Os byw ydwyt etto, rhag it' anobeithio,
  Dod gluſt i ymwrando er un-dyn;
Yn y rhan neſa', os Duw a genhada,
  I'r bywyd mi ddyſga' i ti eſgyn.

CLIII. *Cân dduwiol.*

GRAS a bonedd cyfiawn, ac urddas mawr a bri,
  Gwyr gweng a chyffredin, er cariad Un a Thri,
A ddewch chwi i roi moliant i'm cywir Arglwydd Ion,
A ymroes i farw droſom drwy angeu blin a phoen?
  Am hynny ninneu ddylem yn ſiccir cymmain' un,
O 'wyllys ein calonnau addoli Mab y dyn,
A hwn ſydd ddewiſedig o fawr ei fri a'i fraint,
Pob criſtion ag a'i gwnelo, mae'n ynnill nef dihaint.
  Cofiwch weled Deifes yn uchel yn ei ŵn,
A Lazar yn poenydio yn glaf o flaen y cŵn,
Difes anrhugarog i wres y mwg a'r tân,
A Lazar aeth i'r nefoedd i foli Duw ar gân.
  Pan darfu claddu Lazar, a'i ddodi yn y bedd,
Criſt a'i hail-gyfododd yn iach a gwych ei wedd,
A hwn fe gas ei barchu ymhlith angylion glân,
A Deifes anrhugarog i waelod uffern dân.
  Chwy-chwi y gwyr cyfoethog, chwi glywſoch ſon a ſain,
Fod y tylodi'n meirw ger bron y cwn a'r brain;
Ac felly'r cyfoethogion, mae leni'n flwyddyn driſt,
Rhennwch beth o'ch golud rhwng gwir aelodau Criſt.
  Yſtyriwn a meddyliwn cyn myn'd i uffern dân,
Lle mae y rhingcio dannedd, a gwres y mwg a'r fflam,
Yſtyriwn cyn myn'd yno, meddyliwn ddynion câll,
Pob un yn ol ei grechwen ſy'n bwytta cig y llall.
  Duw ſy'n ffon ni dderſydd, a Duw ſy'n helpu'r gwan,
A Duw ſydd hollalluog, a Duw i'r gwir a'i ran,
A Duw ſydd gluſt i'r byddar, a llygaid i'r rhai dall,
A Duw gyfodai'r forwyn o farw i fyw yn gall.
  Nid oes a all fynegi beth yw ewyllys Duw,
Yſtyriodd wrth y weddw, fe wnaeth ei mab hi'n fyw,
Fe wnaeth wahaniaeth eglur rhwng corph y pren a'i riſg,
Ac fe iachaodd y cleifion heb ddim ond cwrdd â'u gwiſg.
  Y pren pan fo e'n deilio mewn blagur gwych a dail,
Meddyliwn yn y diwedd pa fodd mae gyd â'r ſail,
Pan el ei wreiddau'n bwdwr, ni ddug ef ddim lleſhad,
Meddyliwn am drugaredd tra fo'm ni ar ein traed.

Nef i'r neb fu farw yn lân trwy 'wyllys Duw,
A nef i'r neb ſy'n clywed, a nef i'r neb a'i clyw,
A nef i'r neb a'i dyſgo, a'i cano maes yn ffraeth,
Ac fallai d'wedai rhyw un, fod nef i'r hwn a'i gwnaeth.
Mil a chwe' cant flwyddyn, deunaw pedwar ac un,
Oedd oedran Criſt ein Prynwr, yſtyried pob rhyw ddyn,
Ficer *Llanymddyfri* a'i rhoes ef 'maes o'i ben,
Duw roddo 'ni drugaredd, a d'weded pawb, *Amen.*

CLIV. *Can ynghylch holl-breſennoldeb Duw.*

GAN fod llygaid y Duw cyfion — *Job* 34.21.
Ar bob cwr o'r ddae'r yn gyſſon, — *Sal.* 11.45.
Pa mor bur ac mor ddiffuant — *Diar.* 5.21.
Dylem foli Duw'r gogoniant.
Mae fe'n gwel'd bwriadau'r galon, — *Sal.* 94.8,
Mae fe'n canfod hyd yr eigion; — 9,10,11.
Nid oes dim anamlwg iddo,
Na dim yn guddiedig rhagddo.
Y mae pob dychymmyg 'ſgeler,
Y mae'n holl feddyliau ofer,
Mae ein rhagrith, mae ein ffalſter,
Oll yn amlwg i'r Uchelder.
Ie, a bydded hyn yn gyſſur, — *Mat.* 6.6.
Mae ein cyſtudd oll a'n llafur, — *Sal.* 112.5,6.
Mae ein gweddi ddirgel addas,
Yn myn'd at orſeddfaingc y-gras.
Pe bae ond phiolaid o ddw'r afon,
Er mwyn Criſt, a rown i griſtion, — *Mat.* 10.42.
Ni edy Duw 'mo hynny'n ango',
Heb ei dalu a'i wobrwyo.
Gan fod llygaid y Duw cyfion
Ar bob cwr o'r ddae'r yn gyſſon,
Pa mor bur ac mor ddiffuant
Dylem foli Duw'r gogoniant.
Mae'n beth anhawdd ddigon gadw
Rhag bod neb yn dala ſulw,
Neb rhyw lygad dyn yn canfod
Ar a wnelom yma iſod.
Odid fawr i'r mwrddwr gwaedlyd,
Er dirgeled fo ei ergyd,
Fyn'd yn ddi-goſp ei holl ddyddiau,
Oni ddaw ryw bryd i'r golau.

Neu y godinebwr aflan,
Sydd yn gwanu ei droed mor yſgafn,
Etto odid na fydd digon
Yn hyll-dremmu ar ei droion.

Pe bae'n boſibl er hynny,
Gadw'n ddirgel, heb gyhoeddi,
Bechod anwyl mynwes dirion,
Maes o olwg neb rhyw ddynion;

Mae y Barnwr mawr gorucha' *Jer.* 32.17,18,19.
Etto'n diſgwyl ar ein gwartha;
Nid oes le, na chyſgod angau,
A all guddio ein camweddau.

Gan fod llygaid y Duw cyfion
Ar bob cwr o'r ddae'r yn gyſſon,
Pa mor bur ac mor ddiffuant
Dylem foli Duw'r gogoniant.

Brodyr Joſeph oe'nt yn tybied, *Gen.* 37.28,32.
Nad oedd Duw ddim yn yſtyried,
Wrth ei werthu e'n yſgymmun,
A dweud celwydd wrth yr hen-ddyn.

Ond yno ymhen talm o amſer,
Wedi dyfod arnynt flinder, *Gen.* 42.21.
Fe wnaeth Duw gydwybod ddeffro,
Ac i bechod eu cyhuddo.

Nid oedd bryd na meddwl Achan, *Joſ.* 7.21
Wrth guddio dillad, aur ac arian,
Ofod Duw yn craffu arno,
Nes i'r Hollalluog ddigio. 2 *Bren.* 5.21,22.

Na Gehezi fydol ynte',
Pan wrth Naaman y cymmerai
Yr aur melyn yn dra boddlon,
A dau bar o ddillad gwychion.

Er bod llygaid dyn ynghaued,
Er dirgeled oedd y weithred,
Ca's y naill a'r llall eu coſpi,
Am eu bydol chwant a'u brynti.

Gan fod llygaid y Duw cyfion *Job.* 34.
Ar bob cwr o'r ddae'r yn gyſſon,
Pa mor bur ac mor ddiffuant
Dylem foli Duw'r gogoniant.

Am fod Duw gan hynny'n gweled
Pob rhyw weithred er dirgeled;

Mae'n beth enbyd i ryfygu
Maes o olwg Duw i bechu.

Ond yn anad un peth arall,
Fy mrodyr anwyl byddwn gall,
I addoli Duw yn ddidro, 1 *Cron.*.16.29
Can's y fath mae'n ei geiſio.

I addoli Duw o'r galon,
Gan yſtyried fod angylion
Yn dal ſulw, y'm ni'n weddus
Ein hymddygiad yn yr eglwys.

Llygaid Arglwydd Dduw y lluoedd 2 *Cron.*16.9.
Yw angylion, ſaint y nefoedd;
Och! na fyddwn ni'n anaddas,
O gwmpeini'r fath gymdeithas.

Mae'n anweddus ac anſyber
Yng wydd Brenin mawr ei bwer,
Beidio a gwiw ymoſtwng iddo,
A dangos ein gwir barch tu ag atto.

Och! mwy erchyll i ddyn ddyfod,
O flaen y fendigedig Drindod,
Heb wir ac iawn ymbarottoad,
At ei ſanctaidd fyth addoliad.

Gan fod llygaid y Duw cyfion
Ar bob cwr o'r dddae'r yn gyſſon,
Pa mor bur ac mor ddiffuant
Dylem foli Duw'r gogoniant.

Ni all ddweud yn dda am danon,
A chael clod ein cymmydogion,
Wneuthur un math o leſhad,
Os cydwybod wna ein brad.

Ac ni wna ddim niwed 'chwaith,
Ddifenwad, enllib, 'ſgeler iaith,
Os cydwybod a fydd dirion,
Ac yn diſt i ddadleu troſon.

Ein maintais yw gan hynny wilied,
Fel criſt'nogion da eu gweithred;
Na aed o'n cof fyth fod y Drindod
Ac angylion nef i'n canfod.

Gan fod llygaid y Duw cyfion
Ar bob cwr o'r ddae'r yn gyſſon,
Pa mor bur ac mor ddiffuant
Dylem foli Duw'r gogoniant.

CLV. *Can ynghylch y gwrthryfel a dorrodd allan yn y flwyddyn* 1641. *Ystyried y darllenydd fod llawer wedi colli lle nodir â'r serennod hyn* * * * *

O Na bae fy mhen yn ddyfroedd,
Mi a foddwn etto'r tiroedd,
O waith cymmaint yw'r 'sgelerder,
Maint yw'r bâr, a'r llid, a'r balchder.
Na bae fy llygaid yn ffynhonau,
Fe ffrydiai o honynt allan ddagrau,
Yn ddibaid, bob dydd, bob nos,
Am fod 'nawr ond gormod achos.
Pwy a fuasai'n meddwl unwaith
Am y gwir oedd dêg eu haraith,
Fod bradwriaeth mor echryslon
Yn cael ei meithrin yn eu calon ?
Y mae'r neidir las yn gorwedd
Tan y perthi mwya' hoffaidd;
Lle b'o ffrwd y dw'r yn dawel,
Mae yno ddyfnder idd' ei ochel.
Yn awr y mae eu hunain gwaedlyd,
Yn dra hyspys iawn i'r holl-fyd,
Gan nad dim ond gwaed y gwirion,
A dyr syched fath genawon.
Llawer gwaith y bu'r Philistiaid
Yn gorthrymmu'r Israeliaid.
* * * *

Erioed ni bu y fath beth yma,
Gan farbariaid gwyllt o'r India;
Tebyg gennyf fod y cythraul,
Ymhob aelod o'r gwrthryfel.
Byth ni thaerai un barbariad,
Mai Duw o'r nef roes iddo gennad;
Lladd a llosgi dynion ufudd,
I wir frenin, a gwir grefydd.
Ond mae rhai yn mentro d'wedyd,
Mai cynhyrfiad y Glân Yspryd,
Ydyw'r achos o'u hymrafael,
A gwisgo am danynt arfau rhyfel.
O fy enaid, na nesaia
At gyfrinach y rhai yma,

Sydd yn gablaidd iawn yn gosod
Gwaith tywyllwch ar y Drindod.

Fe fydd gennym fara heno,
Ac erbyn trannoeth wedi wangco.
* * * *

Duw a gadwo'n brenin graslon,
Rhag eu brad a'u diftryw creulon,
Nertha, O Arglwydd Dduw, ei ddwylo,
Bydd di yn nerth a tharian iddo.

Duw a atgyweirio furiau
Seion ddinas a'i hadwyau,
Ac a helo'r tyrchod allan,
Rhag llwyr ddifa ffrwythau'r winllan.

## CVI. *Crist sydd oll yn oll.*

CRIST ei hun sydd oll yn oll, *Col.*3.11.
Yn cadw dyn rhag myn'd ar goll;
Nid neb, nid dim, ond Crist ei hun,
A ddichon gadw enaid dyn.

Y sarph â'r afal gynt a'n twyllodd,
Y sarph â phechod a'n gwenwynodd,
Y sarph a'n tynnodd o baradwys,
Y sarph i uffern boeth a'n gyrrwys.

Mae mor siwr i bob dyn fyned *Rhuf.*6.23.
I bwll uffern, i gaethiwed,
A phe baem ni eisoes ynddo,
Oni cheidw Crist ni rhagddo.

Crist a ddaeth o'r nef i'n prynu, *Ioan* 6.38.
Crist a'n cadwodd gwedi'n damnu, *Rhuf.*8.
Crist o'n cystudd a'n gwaredodd, *Mat.*25.34.
Crist a'n dwg i deyrnas nefoedd.

O gramp y llew, o enau'r wyber,
O rwyd y fall, o balfau'r teiger,
O'r pwll a'r pair, o'r deyrnas aflan,
Y tynnodd Crist ei ddefaid allan.

Ni all satan ladd a mwrddro,
Fwy nag all Mab Duw ddadfywio;
A laddo'r ddraig â'i cholyn gau,
Gwaed yr Oen all ei iachau.

Iesu Grist yw Had y Wraig, *Gen.*3.15.
A bwyntiodd Duw i droedio'r ddraig,

I 'ſigo ei ſiol, i rwygo ei theyrnas,
I dynnu dyn o'i chrampau atgas.
Ni orchfyga neb y ddraig,
Ond trwy gymmorth Had y Wraig,
Ni ddaw dyn o'i theyrnas aflan,
Nes y tynno Criſt ef allan.

Criſt yn unig yw'r Had dinam, *Gen.*22.18.
A bromeiſiodd Duw i Abram,
I'n rhyddhau oddiwrth y felldith,
A rhoi i ni'r nefol fendith.

Criſt yn unig ydyw'r Silo *Gen.*49.14.
A ddanfonodd Duw i'n ceiſio
O gaethiwed pob rhyw bechod,
I was'naethu'r ſanctaidd Drindod.

Criſt ei hun yw Pren y Bywyd,
Sy'n rhoi maeth i bawb o'r holl-fyd;
Ni bydd marw yn drag'wyddol
Neb a fwytto'r ffrwyth ſancteiddiol.

Criſt yw'r Arch a'r Archles eſmwyth,
Gadwodd Noa rhag boddi a'i dylwyth;
Criſt yw'r Arch ſy'n cadw ninnau
Rhag pob diluw a dialau.

Criſt ei hun yw Yſgol Iago, *Gen.*28.12.
Oedd o'r nef i'r ddae'r yn pheico,
Ar yr hwn y mae in' ddringad, *Ioan* 1.51.
Os i'r nef y mynnwn ddwad.

Criſt yw'r Prophwyd mawr a helodd *Act.*3.22,23.
Duw o'i fynwes fry o'r nefoedd,
I fynegi ei 'wyllys hyfryd,
Gwrandawn arno dan boen bywyd.

Criſt yw'r Sarph o efydd preſlyd, *Num.*21.8.
Sy'n iachau brath y neidr danllyd;
Awn bob rhai â'n dolur atto,
Fe'n iacha ond edrych arno.

Criſt yw'r 'Ffeiriad mawr offrymmwys *Heb.*9.11,
Waed ei galon dros ei eglwys, 12.
Ar y groes, i'w Dad ſancteiddiol,
Dros y byd i gadw'i bobol.

Criſt yw'r brenin grymmus, graſol, *Sal.*2.6.
Sydd trwy ras yn llywio'i bobol,
Ac yn goſtwng eu gelynion,
Fel y gallont gael y goron.

Crist yw'r Bugail, sy'n bugeilia *Ioan* 10.11,28.
Enaid cristion rhag ei ddifa,
Ni chaiff llew, na blaidd, na llwynog,
Ddwyn ei braidd, nac oen, na mammog.

Crist yw *Prins* ein gwir dangnefedd, *Esay* 9.6.
A ddiffoddodd bob digllonedd,
A gwaed y groes, yn Dduw, yn ddyn, *Col.*1.20.
Y gwnaeth e'r ddwy-plaid ddig yn un.

Crist yw'r Rhosyn coch o Saron, *Can.*2.1.
Sydd â'i liw'n comfforddi'r galon,
Ac â'i 'roglau yn rhoi bywyd
I'r trwm feddwl, a'r gwan yspryd.

Crist ei hun yw'r Balm o Gilead, *Jer.*8.22.
Sy'n iachau pob archoll *desperad*,
A rodd satan â *dart* pechod
I'n heneidiau a'n cydwybod.

Crist yw'r Manna ddaeth o'r nefoedd, *Ioan* 6.31,
Duw ei hun o'i ras a'i rhoddodd; 33,35.
Y neb yn ffyddlon a'i bwyttao,
Ni ddaw byth ddim newyn arno.

Crist yw Oen y Pasg aberthwyd *Ecs.*12.
Dros ein pechod pan groeshoeliwyd,
'Rhwn s'â'u waed yn cadw'r enaid,
Rhag i'r angel drwg ei 'sglyfiaid.

Crist yw'n Hallor arogl-darthu, *Ecs.*30.
Ar yr hon y mae aberthu
Per aroglau, mawl, a gweddi,
Fore a hwyr i Dad goleuni.

Crist yw Meddyg y crist'nogion, *Marc* 2.17
Rhwn â gwerthfawr waed ei galon
'Sy'n iachau archollion pechod,
Pan na'll dim amgenach gydfod.

Crist yn unig yw'n Cyfryngwr, 1*Tim.*2.5.
Sy'n ein cymmodi â'n Creawdwr;
Nid oes neb ond Crist ei hun
All gymmodi Duw â dyn.

Crist yw'r Twrneu sydd yn dadlau 1*Ioan* 2.1.
O flaen Duw am faddeu'n beiau,
Pan fo satan yn cyhuddo,
Ac yn canlyn * grawnt i'n plago. * *Cennad.*

Crist yw'n Brenin, Crist yw'n 'Feiriad,
Crist yw'n Prophwyd, Crist yw'n Ceidwad,

Crist yw'n Bugail, Crist yw'n Barnwr,
Crist yw'n Pen, a Christ yw'n Prynwr.

Crist cyn cynfyd ydyw'r Alpha, *Dat.*1.11.
Crist heb derfyn yw'r Omega;
Dechreu, diwedd iachadwriaeth
Meibion dynion a'u dyrchafiaeth.

Crist yw dewr Gongcwerwr angau,
Crist a'i 'speiliodd o'i holl arfau,
Crist a lyngcodd angeu melyn, 2 *Tim.*1.10.
Crist a dynnodd ffwrdd ei golyn.

Crist sy'n cadw'r holl * allweddau *Agoriadau.*
Sydd ar uffern ac ar angeu, *Dat.*1.18.
Ni faidd diawl nac angeu || *dwtso* *Cyffwrdd.*
Neb, nes cael gan Grist ei § *lwo.* § *Rhoi cennad.*

Crist yw'r Pelican cariadus,
Sydd â gwaed ei galon glwyfus
Yn iachau ei adar bychain,
Wedi'r sarph eu lladd yn gelain.

Crist yw'r Pelican trugarog,
Sydd â gwaed ei galon serchog
Yn iachau ei frodyr priod,
Wedi'r diawl eu llad â phechod.

Nid oes eli ag y wnaethpwyd,
Nac un *metswn* a ddych'mygwyd,
All iachau un archoll pechod, 1 *Ioan* 1.7.
Ond gwaed Crist, gwir eli'r Drindod.

Crist yw'r Perl a ddylem 'mofyn, *Mat.*13.45,46.
Nid tlawd perchen cyfryw berlyn;
Dos dros fôr a thir i'w geisio,
Gwerth sydd gennyt cyn bod hebddo.

Crist sydd bob dim, sydd angenrhaid, *Col.*1.19.
O flaen Duw i gadw'r enaid;
Ni fyn Duw ond Crist ei hun, *Luc* 3.22.
Yn iawn dâl am enaid dyn. 1 *Ioan* 2.2.

Crist yn unig, Crist ei hunan,
Crist heb neb mewn rhan na chyfran;
Crist heb ddim, ond Crist ei hun,
Yw unig Geidwad enaid dyn.

Crist yw'n Prydwerth, Crist yw'n Haberth, 1 *Tim.*
Crist yw'n Hoffrwm, Crist yw'n Cyfnerth, 2.16.
Crist yw'n Trysor, Crist yw'n Golud, *Heb.*9.14.
Crist yw'n gwir Iachawdwr hefyd.

Crist sydd gyflawn o bob doniau
Angenrheidiol i'n heneidiau,
Mae pob peth yng Nghrist ei hun,
Ag sydd raid i gadw dyn.

Crist ei hunan yw'n Cyfiawnder, 1 *Cor*.1.30.
A'n Sancteiddrwydd, a'n gwir Ddoethder,
A'n Hymwared, a'n holl Bryniad,
Crist yw'n Cymfford, Crist yw'n Ceidwad.

Crist, heb ddim ond Crist ei hunan,
Sy'n datguddio Duw yn fuan;
Crist, heb ddim ond Crist yn unig, *Rhuf*.5.1.
Sy'n cyfiawnu dyn colledig. 2 *Cor*.5.21.

Crist, heb help na sant na santes,
Crist, heb gymmorth dyn na dynes,
Crist, heb neb ond Crist ei hun,
Yw unig Geidwad enaid dyn.

Crist yn unig ymdrybaeddodd *Esay* 63.3,5.
Yn y winwryf pan y'n prynodd;
Ni bu neb o blant yr holl-fyd
Yn ei helpu i gadw'n bywyd.

Ni wnaeth Peder ond ei wadu,
Na'r 'postolion ond * difannu; * *Cilio*.
Ni wnaeth Mair ond wylo'n eirad,
Tra fu Crist yn chwarau'r Ceidwad.

Ni ddug neb ond Crist ei hunan *Esay* 53.5,6.
Bwys a baich ein pechod aflan,
Ni chwysodd neb o'r gwaed yn ddagrau, *Luc* 22.44.
Ond Mab Duw dan bwys ein beiau.

Ni chroeshoeliwyd ond Crist Iesu,
Am ein pechod wrth ein prynu;
Ni bu neb ond Crist ei hun 1 *Pedr*.2.24.
Yn boddhau Duw, yn iachau dyn.

Ni bu neb ond Crist ei hunan *Heb*.2.14,15.
Yn ein dwyn o feddiant satan;
Ni bu neb yn lladd, yn llyngcu 1 *Cor*.15.55,57.
Angeu didrangc, ond Crist Iesu.

Crist ei hun a lyngcodd angau, *Col*.2.14,15.
Crist a 'speiliodd 'i awdurdodau,
Crist a gwnnodd ein § *'bligasiwn*, § *Rhwymedigaeth*.
Crist a dalodd gwerth ein pardwn.

Crist ei hun a wnaeth ein heddwch, *Col*.1.20.
Crist a brynodd ein dedwyddwch, *Gal*.4.4,5.

Crist a'n gwnaeth yn feibion Duw,
Crist a'n cadwodd * oll yn fyw. * Sef y ffyddloniaid.
Crist ei hun a wnaeth y cwbwl,
A dynnodd enaid dyn o'i drwbwl;
Nid neb, nid dim, ond Crist ei hun,
Dan Dduw, a gadwodd enaid dyn.
Ni bu angel, ni bu brophwyd,
Ni bu sant, na dyn a fagwyd,
Ni bu neb ond Crist ei hun
Yn gweithio iachawdwriaeth dyn.
Ni fyn Duw na chymmorth angel,
Cyfrwng sant, na'i draul na'i drafael;
Gwaed merthyri, na gwaith dynion, 1 Tim. 2. 5.
Ond gwaith Crist i gadw cristion. Heb. 7. 25.
Crist yw'r iawn sydd am bob pechod, 1 Ioan 2. 2.
Iawn amgenach ni all gydfod:
Ni fyn Duw am bechod drewllyd
Iawn sydd lai nâ gwaed ei Anwylyd.
Na ddod waed na gweithred un-dyn,
Gyd â gwaed dy Brynwr purwyn:
Ni chyttuna tr'ech di byw,
Waed pechadur â gwaed Duw.
Gwaed y Iesu, gwaed y cymmod, 1 Ioan 1. 7.
Ydyw'r gwaed sy'n golchi pechod;
Ni all gwaed yr holl ferthyri
Olchi ffwrdd y lleia' o'th frynti.
Nid gwaith saint, nid gwaith angylion,
Ydyw cadw enaid cristion,
Gwaith ein Prynwr Crist yn unig,
Sydd yn cadw dyn colledig.
Gwaith dwy nattur mewn un Person,
Sydd yn cadw enaid cristion:
Rhaid ein Prynwr, Duw a Dyn,
Weithio'r gwaith cyn cadwer dyn.
Nid gwaith Duw na dyn neilltuol,
Ond gwaith Duw a dyn cyssylltiol,
O ddwy nattur mewn un Person,
Sydd yn cadw enaid cristion.
Rhaid i'th Brynwr fod yn Dduw, Esay. 9. 6.
Ac yn Ddyn, er 'tolwg clyw, Heb. 7. 26.
Cyn y galler cadw d'enaid,
Na'i ryddhau o boenau afrifaid,

Rhaid ei fod e'n Dduw galluog, *Col.* 1.20.
I ddad-ddigio d'Arglwydd llidiog, *Heb.* 2.14.
A'th ryddhau o feddiant ſatan, *Luc* 1.71.
A'th elynion fawr a bychan.

Rhaid ei fod e'n ddyn di-frychau,
I gael marw dros dy feiau, *Heb.* 7.26.
A'i farwolaeth yn cyſtadlyd,
A marwolaeth pawb o'r holl-fyd.

Nid oes yn y nef na'r ddaear,
O'r fath Brynwr perffaith hygar,
Ond y gair y wnawd yn gnawd,
Ieſu Griſt ein Duw a'n Brawd.

Nid oes neb gan hynny ddichon
Gadw enaid unrhyw griſtion,
Ond y Prynwr mawr, Criſt Ieſu,
Duw a dyn, a fu'n ein prynu.

Nid oes iachawdwriaeth ddiwall,
I ni gaffael mewn neb arall,
Ond y gaffom yng Nghriſt Ieſu,
'Rhwn ordeiniodd Duw i'n prynu.

Nid oes enw dan y nefoedd, *Act.* 4.13.
Gwedi roddi i ni'r bobloedd,
All ein gwneuthur yn gadwedig,
Onid enw'r Ieſu'n unig.

Ni fyn Duw ond Criſt ei hunan, *Mat.* 17.5.
Ni fyn Duw un *partner* aflan, 1 *Tim.* 2.5.
I gyd-weithio gyd â'i 'Nwylyd,
Yn y gwaith ſy'n cadw'r holl-fyd.

Ni fyn Mab Duw neb yn *bartner*,
I gyd-weithio gwaith dau-hanner, *Eſay* 63.3.
Yn y gwaith o'n iachawdwriaeth,
Nid neb teilwng o'r gwmp'niaeth.

Fe fyn naill a'i bod yn hollol,
Yn Iachawdwr idd' ei bobol,
Neu na fwrw byth ynghyd
A chreadur ſy'n y byd.

Ni fyn Criſt roi i ſant nac angel,
Dyn na delw o un fettel, *Eſay.* 42.8.
*Bart* na *pharſel*, rhan na chyfran,
O'r gogoniant ſy'ddo ei hunan.

Os bydd un rhyw ddyn mor angall
Ag ymofyn Ceidwad arall,

Cym'red hwnnw yn achubydd,
A gadawed Grist yn llonydd.
Ceisied eraill saint a delwau,
A'u gwaith gwael i gadw 'neidiau,
Ni chais f'enaid archolledig,
Geidwad byth ond Crist yn unig. *Hos.* 13.4.
Duw, rho i mi dy Anwylyd,
Crist yn arch wy'n geisio gennyd;
Rho i mi fynnech gyd â hynny,
Rhoest im' ddigon os rhoi'r Iesu.
Duw, rho i mi Grist yn Geidwad,
Crist yn Frenin, Crist yn 'Ffeiriad,
Crist yn Brophwyd, Crist yn Brynwr,
Crist yn help ymhob cyfyngdwr.
Os caf ddim ond Crist ei hunan,
Gan fy nefol Dad i'm cyfran,
Mi gaf ddigon yn fy nghist,
Er na chaffwyf ddim ond Crist.
Os caf fi Grist, fe dry fy rhyw
O fab i'r fall yn blentyn Duw,
O ddyn ar goll, o *slaf* i satan,
Yn wir aelod iddo ei hunan.
Er cael aur, ac er cael arian, *Jer.* 9.23,24.
Er cael tai a thiroedd llydan,
Beth wyf nes, er cael pob cyfraid,
Ne's cael Crist i gadw f'enaid?
Tyn fy llygaid, tyn fy nghalon,
Tyn fy ngolud a'm cyfeillion,
Tyn y cwbl oll sydd gennyf,
Cyn y tynnech Grist oddi wrthyf.
Sonied milwyr am ryfela,
Sonied morwyr am ddâ'r India,
Sonied carl am lanw'i gist,
Sonied cristion byth am Grist.

---

*Chwanegiad rhai* LLOFFION, *o waith yr un Awdwr, o gasgliad y Parchedig* GRIFFITH JONES, LLANDDOWROR.

CLVII. *Am Hollbresenoldeb Duw.*

MAE Duw'r gallu yn anfeidrol,
Mae e' 'mhob man yn bresennol;

Nid oes cornel bach yn un-lle,
Na b'o Duw yn llanw'i gellau.
Mae'n llanw'r nef, mae'n llanw'r ddaear,
Ac uffern gau â'i dwfwn garchar,
Dyfnderau'r môr, wybrenau'r awyr,
A'r anialwch maith difesur.
Mae'n y nefoedd mewn gogoniant,
Mae ar y ddae'r mewn gras a llwyddiant,
Mae yn y pwll yn lladd yn llym,
Ymhob lle oll mae fe'n ei rym.
Dos i eitha'r môr a'r ddaear,
Dos i'r nef neu'r pwll anhygar;
Nid oes diangc dos lle mynnech,
Rhag llaw Duw p'le bynna'r elech.
Mae Duw'n gweled pob dirgelwch,
A'r hyn a wneler mewn tywyllwch:
Nid oes dim cuddiedig rhagddo,
Mae pob peth yn amlwg iddo.
Fe welodd Cain yn mwrddro Abel,
Ac yn tywallt gwaed yn ddirgel;
Er nad oedd un dyn yn canfod,
Fe roes arno ddial hynod.
Fe welod ddirgel fwriad Pharao,
I chwennych Sara i'w chofleidio;
Ac am ei chwant a'i fwriad dirgel,
Fe roes arno boen diogel.
Fe welodd Ddafydd yn y dirgel,
Yn denu Bathfeba mewn cornel;
Ac am ei ddirgel lanas cynddrwg,
Fe roes arno ddial amlwg.
'Rhyn amcanai brenin Syria,
Duw fynegai i Eliza,
Ac a barai'r un diwrnod
Frenin Ifrael gael ei wybod.
Fe welodd Duw holl fwriad gwaedlyd
Antiocus gas i'r deml hyfryd;
Ac am ei fwriad gwaedlyd rhyfedd,
Fe ga'dd gwymp, nes 'figo'i berfedd.

## CLVIII. *Am Hollalluogrwydd Duw.*

MAE'r Duw mawr yn Hollalluog,
A'i fraich yn gryf, a'i fys yn nerthog;

A'i air fe wna beth bynna' fynno,
Y byd i gyd ni all 'mo'i rwyſtro.
Fe wnaeth y nef, a'r ddae'r, a'r môr,
A'r maint ſydd ynddynt oll yn 'ſtor,
O beth heb ddim â'i air yn unig,
Mewn chwech * die mor drefnedig. * *Diwrnod.*
Mae'n cadw'r byd a'r maint ſydd yntho,
Yng nghalon awyr las heb gwympo;
Mae'n peri'r haul a'r holl furfafen
Droi fel rhod o ddeutu'r ddae'ren.
F'all bwyſo'r mynydd mawr mewn taflau,
F'all ddala'r môr mewn un o'i ddyrnau;
F'all rifo'r ſer, f'all ſtoppio'r gwynt,
F'all *ſtayo*'r haul pan retto'i hynt.
F'all ffrwyno'r môr, f'all ddofi'i donnau,
F'all ddala'r morfil mawr wrth fachau;
F'all beri i'r nef a'r ddaear gyffro;
F'all Duw wneuthur 'rhyn a fynno.
Fe all ein coſpi am ein beiau,
Fe all ein helpu yn ein rheidiau;
Fe all ein lladd, fe all ein cadw,
Fe all ein codi gwedi marw.
F'all Duw'n troi i'r priddyn dichwaith,
F'all Duw'n codi o'r pridd eilchwaith;
Fe all roi'r nef, os gwnawn ei 'wyllys,
Neu'n troi i'r tân am fyw'n gamweddus.
Fe wnaeth i'r diluw foddi'r cynfyd,
A'r tân gwyllt loſgi Sodom ddrewllyd,
A'r ddae'r lyngcu Cora a Dathan,
A'r môr foddi Pharao a'i * *gompan.* *Gwmpeini.*
Fe droes yr angel balcha'n gythraul,
Fe droes *fonarc* Syria yn 'nifail;
Fe droes wraig Lot yn biler halen,
Adda am bechu i bridd y ddae'ren.
Lladdodd Eglon yn ei 'ſtafell,
Brenin Ninef yn ei gangell,
*Monarc* Syria wrth *garawſo*;
Cadwed Duw ni rhag ei ddigio.
Gwnaeth i'r llyffaint blago'r Aiphtiaid,
Gwnaeth i'r ſeirph wenwyno'r He br'aid,
Gwnaeth i'r caccwn erlid Canaan,
A llau ladd Herod yn ei ſidan.

Y dwr, a'r tân, a'r tir, a'r tonnau,
Y gwynt, a'r gwlaw, a'r ser o'u graddau;
Pob creadur, os Duw ddigia,
All bob awr o'r dydd ein difa.

Am hyn ymrown, tra fo'm ni byw,
I fyw bob dydd yn ofn Duw,
Ac ymgadw rhag ei lidio,
Can's tân ysol yw pan ddigio.

Fel y dichon Duw ein cospi,
Os ei ddigio wnawn â'n brynti;
Felly mae y gallu gantho,
Helpu pob dyn a'i gwas'naetho.

Fe waredodd Ddaniel dirion,
Maes o ffau y llewod creulon;
Ac fe helodd angel purwyn
A bwyd iddo i dorri'i newyn.

Fe waredodd Sadrach hefyd,
A'i gyfeillion, o'r ffwrn danllyd,
Ac a helodd angel attynt,
Fel na losgodd blewyn iddynt.

Fe waredodd, wedi cyfarch,
Jonas hen o fola'r môr-farch,
Gwedi aros mewn cyfyngdra
Dridiau a thair-nos yn ei gylla.

Fe borthodd Israel yn y newyn,
A bara angylion lawer blwyddyn;
Gwlawiodd arnynt || *gwails* a manna, || *Sofl-ieir.*
Gymmaint allai'u dannedd fwytta.

Fe wnaeth i'r cigfrain borthi Elias,
A bara a chig dros flwyddyn hirllaes,
A'i ddwyn atto hwyr a bore,
I lan Cerith lle'r ymprydiai.

Felly dichon Duw roi etto
Help i bawb ag alwant arno:
Nid yw lai ei rym a'i allu
Y pryd hwn nâ'r hen-bryd hynny.

Fel y mae Duw'n hollalluog,
Felly mae e'n Dduw trugarog,
Yn hwyr ei lid, yn dda'i amynedd,
Goreu ei naws, a grasol rhyfedd.

Mae'n drugarog wrth ei nattur,
Mae'n dosturiol t'wnt i fesur;

Nid oes terfyn, pen, na diwedd,
Yn dragywydd o'i drugaredd.
  Fel mae calon tad caredig
Yn tosturio wrth blentyn diwrig,
Mor dosturiol y tosturia
Calon Duw wrth bawb a'i hofna.

## CLIX. *Am gyfiawnder Duw.*

MAE Duw'n eistedd ar gyfiawnder,
  Rhwng y brenin mawr a'r *begger*,
Cyn gymhwysed ag ni wyra,
Er y byd, na hwnt nac yma.
  Ni *respecta* Duw un person;
Ni thwyllir byth, ni lwa 'sguson;
Ni ofna neb, ni ddengys ffafor;
Ni wyra farn, ni dderbyn wobor.
  Pe rhoed i Dduw sydd ar y ddaear
O ddâ bydol yn lle gwobar,
Ni throe yn un-modd, er y wneler,
Hwnt nac yma, oddiwrth gyfiawnder.
  Duw a roddes ei Anwylyd
I'w groeshoelio yn anhyfryd,
Fel na chai dynion nac angylion
Dd'wedyd llai nâ'i fod yn gyfion.
  Nid oes pechod aller enwi,
Na fyn Duw ei gyfiawn gospi,
Naill ai yn yr hwn a'i gwnelo,
Neu yng Nghrist y Meichiau drosto.
  Holl bechodau'r rhai ddetholwys,
Duw a'u cospodd yng Nghrist eiswys;
Holl bechodau'r rhai'i gwrthodo,
Fe gospa Duw y sawl a'u gwnelo.
  Ni bydd un-gair brwnt a dd'wettom,
Na drwg-weithred ag a wnelom,
Na thraws amcan yn y meddwl,
Na fyn cyfiawnder gospi'r cwbwl.
  Ni bydd munud fach o amser
Ag y dreuliom mewn diffeithder,
Na gair ofer, na chrach wegi,
Na fyn cyfiawnder Duw ei gospi.
  Y maint y gasglo dyn trwy ffalster,
Y maint y dreulio trwy ddiffeithder,

Y maint y gatwo trwy gybydd-dra,
A farna Duw i'r hatling eitha'.
  Os y cyfion Dduw a'n barna,
Wrth gyfiawnder prudd o'r eitha',
Ni bydd y goreu a mwya'i 'fgil,
Yn abal atteb un am fil.

CLX. *Am drugaredd Duw.*

MAE trugaredd Duw y lluoedd,
Dros bob un o'i holl weithredoedd;
Mae'n anfeidrol, medd y 'fgrythur,
Nid oes arno bwys na mefur.
  Yn y dafol mae Duw'n dodi
Ei gyfiawnder, a'i dofturi:
Mae'i dofturi'n drymmach lawer,
Yn y dafol nâ'i gyfiawnder.
  Mae e'n 'hedeg ar adenedd,
Pan ddel i ddangos ei drugaredd:
Mae'n llaes, mae'n llefg, mae'i draed o blwm,
Pan ddel i ddial, mae e'n drwm.
  Mae e'n canlyn, mae'n ymhwedd,
Am i'r gwaethaf wella'i fuchedd:
Mae'n rhoi pardwn am aeth heibio,
Trwy i ni droi yn gywir atto.
  Nid oes pechod ellir enwi,
Os 'difara dyn o ddifri,
Na's llwyr faddeu Duw'r trugaredd,
I'r dyn a wir wellhao'i fuchedd.
  Fe faddeuodd i Ddafydd brophwyd,
Fwrddra gwaedlyd cafa wnaethpwyd,
Pan y llefodd yn 'difarus,
Am ei ffafor mor iradus.
  Fe faddeuodd i dre' Ninif,
Yn drugarog, feiau anneirif,
Yn ol iddi wir *repento*,
A throi mewn fach a lludw atto.
  Fe gas Ifrael fil o weithiau,
Bardwn gantho am eu beiau:
Yn y man y troent atto,
Hwy gaent ras a ffafor gantho.
  Pan y wylodd Mari Mag'len,
Wrth draed Crift am chwareu'r buttain,

Fe roes Crist yn rasol iddi
Lwyr faddeuant o'i holl frynti.

Wylwn ninneu, a *repentwn*
Am ein beiau, ni gawn bardwn:
Mae'n barottach i'n pardyno,
Nâ ni i geisio pardwn gantho.

Os gwnaethom fwrddra megis Dafydd,
Wylwn ddagrau hallton beunydd:
Gwisgwn sach, awn ar ein gliniau,
Ni gawn ffafor megis ynte'.

Os addol'som ffiaidd ddelwau,
Os credasom i grach swynau,
Fel Manasse gwir *repentwn*
Am ein gwan-ffydd, ni gawn bardwn.

Os tyngasom lwon ofer,
Os gwadasom Grist fel Peder;
Am ei wadu, chwerw wylwn,
Megis Peder, ni gawn bardwn.

Os treisiasom ddâ'r gwirioniaid,
Megis Zache'r swyddog diriaid;
Rhown fel Zeche'r dâ'n eu gwrthol,
Fe'n pardyna'n dra thosturiol.

Os trown ni gyd â'r mab afradus,
Oddiwrth ein beiau afreolus;
Crist a'n derbyn yn ei freichiau,
Ac a'n groesaw'n llawen adre'.

Na wan-ffyddiwn am drugaredd,
Er diffeithed a fu'n buchedd;
Os trown atto trwy 'difeirwch,
Ni gawn gantho ras a heddwch.

Pe bae'n pechod ni cyn goched
Ag yw'r porphor coch neu'r 'sgarled,
Duw a'n gylch mor wyn a'r eira,
Os ni'n ffyddlon a 'difara.

Pe bu'sai Cain, a Saul, a Suddas,
Yn troi at Dduw, er maint eu hanras,
Ac mewn pryd yn gwir *repento*,
Yn siwr hwy gawsent bardwn gantho.

Pan droes y lleidr edifeiriol,
Ar y groes at Grist yn rasol;
Er ei droi yn dra diweddar,
Fe ga's y lleidr gantho ffafar.

Awn gan hynny'n eon atto,
Ceisiwn ras a ffafor gantho,
Mae e'n barod iawn i'n derbyn,
A rhoi pardwn ond ei ofyn.

Y mae'n pardwn gwedi selu,
A gwaed y Prynwr mawr, Crist Iesu;
Mae Duw'n gweiddi, mae Duw'n galw,
Arnom bawb i dderbyn hwnnw.

Os ni a dderbyn ei drugaredd,
Ac a ymrown i wella'n buchedd,
Duw anghofia'r beiau baswys,
Ac fe'n derbyn i baradwys.

Ti weli'n awr fod Duw'n drugarog,
Yn rasol iawn, yn daran bwyllog;
Yn hwyr i lid, yn hawdd i faddeu,
Os trown atto oddiwrth ein beiau.

Ond os ninnau gam-arfera
Ei amynedd mawr o'r mwya';
Yno'r aiff Duw'r holl-drugaredd
Yn Dduw cyfiawn yn y diwedd.

Yno ennyn ei lidiawgrwydd,
A'i ddigofaint yn dra ebrwydd,
Ac ni cheir, er maint y grier,
Yn ol hynny, ond cyfiawnder.

## CLXI. *Am ragluniaeth Duw.*

O GELLI di was'naethu Duw,
Yn ol ei air tra fyddech byw;
Dy Feistr Crist a ddyru'n ddifrad,
Fwyd a diod it' a dillad.

Os gofali fel dyn grasol
Am was'naethu dy Dad nefol,
Duw ofala am *faintainiaeth*
Y rhai a wnelo ei wasanaeth.

Cyn gadawo Duw gorucha'
Ar ei weision eisiau bara,
Fe bair Duw i'r brain eu porthi,
Fel Elias yn ei dlodi.

Ofer codi'n fore'r borau,
Ofer gwilied hir nosweithiau,
Ofer bwytta bara'n gynnil,
Oni lwydda Duw dy orchwyl.

Os Duw ni adeilada'th dŷ,
Os Duw ni cheidw'r dref yn hy,
Dy dai â i lawr, dy dref ddifethir,
A'r maint a feddech di anrheithir.

## CLXII. *Gofal Duw am y crist'nogion.*

OD wyt ti griftion cred yng Nghrift,
Cod dy galon, na fydd didrift;
Cenfydd pwy fydd Fugail arnad,
A phwy Geidwad fy'n dy warchad.
'Rwyt ti'n rhodio 'mhlith angylion,
Bob yr awr, od wyt ti griftion,
Y mae'r rhai'n yn difgwyl arnad,
Wrth orchymmyn Crift dy Geidwad.
Ni bu brenin mor ddiogel,
Rhwng ei *gard*, ymhlith ei gene'l,
Ag yw'r gwanna o'r crift'nogion,
Yng nghyfeillach gwir angylion.
Gellir cadw'r haul a'r golau
Rhag ymddangos i ti weithiau,
Ond ni ddichon yr holl ynys
Gadw'r angel oddiwrth d'yftlys.
Ni all clo, na chau, na chyfgod,
Rwyftro angel Duw i'th warchod;
Dos lle mynnech, fe ddaw hwnnw
I'th ddiddanu ac i'th gadw.
Er nad ydyw'r gwir angylion
Yn weledig i'r crift'nogion,
Maent hwy'n ddyfal iawn, er hynny,
Yn eu gwarchod a'u caftellu.
Er bod llawer o blant dynion
Yn dirmygu'r gwir grift'nogion,
Mae angylion Duw, er hynny,
Yn eu *tendio* a'u gwas'naethu.

## CLXIII. *Serch at Grist.*

NI bu Samfon fwy ei fyched,
Am gael dw'r yn ol ei ludded,
Nag yw fy fyched inneu am Grift,
I ddiddanu nghalon drift.
Fel y brefa'r hŷdd am ddyfroedd,
A'r tir cras am wlaw a gwlithoedd,

Felly f'enaid ſy'n hiraethu
Am waed Ieſu i'm diddanu.

Ni bu ar Ahab fwy o chwant,
I gael gwinllan Naboth gynt,
Nag yw f'enaid i feddiannu
Un-mab Duw a fu'n fy mhrynu.

Cariad gwreſog i Dduw a Chriſt,
Sy'n dofi awch fy nhrachwant triſt,
At uchel-fraint a blys cnawdol,
At gwrw, gwin, a golud bydol.

Fel y llyngcodd neidir Moſes
Nadroedd mawrion Pharao a Jambres,
Felly llyngcodd cariad Criſt
Holl drachwantau nghalon driſt.

Nid yw tryſorau'r byd ond tom,
A phridd di-bris i'm calon drom,
Os cyffelybir mewn cyfyngdwr,
I wybodaeth am fy Mhrynwr.

Os llaw, os troed, os dim a'm rhwyſtra
I ſyn'd at Griſt, y mwya' gara',
Tor fy llaw, a thyn fy llygad,
Gollwng fi at Griſt fy Ngheidwad.

Os tad, os mam, os mab, os merch,
Os gwraig, os plant, a gais o'u ſerch,
Fy nghadw'n ol oddiwrth fy Helpwr,
Dros fola'r rhai'n af at fy Mhrynwr.

Gwell gan fy enaid clwyfus triſt
Un droppyn bach o waed fy Nghriſt,
I iachau archollion pechod,
Nâ chael golud cant a'u ſorod.

Cymmered eraill aur ac arian,
Bwydydd moethus, gwiſgoedd ſidan,
Uchel fraint y byd a'i bethau;
Ond rhoed Duw ei Fab i minnau.

Bydd heb fwyd i dorri'th newyn,
Bydd heb grys i guddio'th groenyn,
Bydd heb ddim ond goleu'r lleuad,
Cyn y b'ech heb Griſt dy Geidwad.

Goddef draha, goddef garchar,
Godde'th gladdu dan y ddaear,
Godde'th ladd, a godde'th loſgi,
Cyn y gwadech Griſt o ddifri.

Rhoed Duw i mi Grist yn gyntaf,
Rhoed a fynno i mi'n nesaf;
Os caf Grist, mi gaf wir ddigon,
Os ni chaf Grist, fe dyr fy nghalon.

## CLXIV. *Dyledswydd rhieni.*

OS gwnaeth dy Dduw di'n dad i blant,
A rhoi it' eppil wrth dy chwant,
Mae'n rhaid it' ddwyn dy blant i fynydd,
Yn ofn Duw ac uniawn grefydd.

Meithrina'th blant trwy bur athrawiaeth,
Yn ofn Duw a gwir grist'nogaeth,
Fel y dysgont fyw mewn sobrwydd,
Gwir uniondeb a sanćteiddrwydd.

Tempra'u llestri ar y cyntaf,
A rhinweddau o'r careiddiaf;
Haua had da yn eu meddwl,
Cyn tyfo'r chwyn i lygru'r cwbwl.

Dysg hwy 'nabod Duw a'i ofni,
Dysg hwy'n ddyfal ei addoli,
Dysg hwy gredu 'Nghrist yn berffaidd,
A byw yn ol ei 'fengyl sanćtaidd.

Dysg hwy ddarllen y 'sgrythurau,
O'u maboliaeth nos a borau,
Dysg hwy nabod pyngciau crefydd,
A myfyrio arnynt beunydd.

Tywallt beunydd bob yn ddefnyn
Ddysg a moesau ymhob plentyn,
Fel y caffo Duw ogoniant,
Hwytheu ras, a thitheu ffyniant.

Nid wyt ti nes a llanw eu bola
A bwyd a diod o'r danteithia',
Oni bae it' lanw eu pennau
A dysg, a dawn, a duwiol wersau.

Fe rydd pagan fwyd i'w blentyn,
Fe rydd faeth i'r march a'r mochyn;
A rydd cristion i blant gwiwlan
Ond y pethau rotho pagan?

Rho i'th blentyn dduwiol ddygiad,
Er lleied bwyd, er lleied dillad:
Os rhoi dduwiol ddygiad iddo,
Caiff ei gyfraid aed lle'r elo.

Mae Duw'n gofyn ar law criſtion
Ddyſgu ei blant trwy grefydd union;
Adnabod Duw a'i gyfraith ſanctaidd,
Credu 'Nghriſt a byw'n griſt'nogaidd.

CLXV. *Dyledſwydd penteulu.*

OS wyt ti'n berchen tŷ a thylwyth,
A chwennych byw mewn cyflwr eſmwyth,
Dyſg dy wraig, a'th blant, a'th bobol,
I 'nabod Duw, a'i foli'n ddeddfol.

Duw fyn i'r tad roi dyſg i'w eppil,
A'r gwyr roi'r gwragedd werſau'r 'fengyl,
A meiſtri ddyſgu eu gwas'naethwyr,
Was'naethu Duw wrth eiriau'r 'ſgrythur.

Wrth godi i lawr, wrth fyn'd i gyſgu,
Wrth rodio'r ffordd, ac wrth ddifyrru,
Y myn dy Dduw it' ddyſgu'th ddynion,
Adnabod Criſt a'i gyfraith union.

Bid mor brudd dy garc a'th chwant
Roi dyſg i'th was fel dyſg i'th blant;
Felly dyſgai Abram ffyddlon
Ei dŷ a'i dylwyth fel ei feibion.

Oni ddyſgi'di dy bobol
Ofni Duw a byw yn ddeddfol,
Duw a ofyn waed dy deulu
Ar dy gobyn eiſiau'u dyſgu.

Os goddefi'th was fyw'n aflan,
Yn ddi-grefydd megis pagan,
Fe'th *inffecta* fel gwyr mawrion,
A gae'r pla oddiwrth eu gweiſion.

Nid wyt ti nes er porthi'th dylwyth
Ag ymborth llawn a dillad eſmwyth,
Oni phorthi eu heneidiau
A bara'r bywyd o'r 'ſgrythurau.

Rheitach i ti borthi eneidiau
Dy holl dylwyth â'r 'ſgrythurau,
Nag it' borthi'r cyrph llygredig
A phob ymborth darfodedig.

Duw a'th wnaeth yn *ſteward* dano,
I ddyſgu pawb ſydd dan dy ddwylo:
Oni roi i'r rhai'n athrawiaeth,
Di ai'n euog o'u marwolaeth.

## CLXVI. *Dyledſwydd Barnwr.*

BARNA'n gymmwys, f'enaid, clyw,
Yr wyt ti'n eiſte' 'ngorſedd Duw:
Barna'n ol y gyfraith hyfryd,
Duw a bia'r farn a'r ferdyd.
Hola'n gyntaf megis Sal'mon,
Ni cheir gwir ymhob achoſion;
Gwrando'r ddwy ran trwy amynedd,
Gwedi'n barna yn ol gwirionedd.
Yr wyt ti'n barnu yn lle Duw,
Dy ferdid di ei ferdid yw:
Barna fel y barno ynte';
Na wna gam, ſerch dioddef angeu.
Pan y barnech barn yn ddiddig,
Gwel yr hwn ſydd anweledig,
Dod ei ofn o flaen dy wyneb,
Yno barn yn ol uniondeb.
Gwedi holi'r cas yn bwyllog,
Gwedi gwrando'r ddwy blaid enwog,
Gwedi nithio'r beiau'n berffaith,
Yno barn yn ol y gyfraith.
Ni fyn Duw gondemnio'r gwirion,
Na rhyddhau yr euog ddynion;
Ond condemnio'r anwireddus,
A chyfiawni'r gwirion gweddus.
Gad y gwaedlyd yn llaw angeu,
Gwaed a lef am waed yn ddieu;
Duw fyn ladd y dyn a laddo,
Bid ei radd ef cuwch y ſynno.
Pan fo ambell fai yn tewi,
Fe fydd mwrddra ynte'n gweiddi:
Nid oes dim a ſtopia'i ſafan,
Nes cael gwaed y mwrddrwr aflan.
Os myn Duw ladd yr ych diſynwyr,
A laddo ddyn â'i gorn yn bryſur;
Pwy gan hynny geidw fwrddrwr
Rhag ei ladd, am chwareu'r bwtſiwr?
Lladd, medd Duw, y dyn a laddo,
Gwaed a lygra'r wlad lle cwympo:
Nid oes dim ond gwaed y mwrddrwr
All lanhau y wlad o'i llwgwr.

Oni fynni i'r Arglwydd daro
Wlad a thref lle'r wyt ti'n trigo,
A'th lwyr ddifa, a'th eppil hefyd,
Na chais gadw'r mwrddrwr gwaedlyd.

Na *refpecta* wyneb un-dyn,
Na wna gam â'th gas na'th elyn,
Nac ofna gryf, na ddangos ffafor,
Na wyra farn, na dderbyn wobor.

Na *fparia*'r tlawd os bydd ef 'fgeler,
Nac arbed garl er mwyn ei bwer,
Na 'nebydd gâr, na threifia eftron,
Na *fpeita*'r gwan, na ladd y gwirion.

Yn y pwll fe fydd edifar,
Wyro barn a derbyn gwobar,
Pan bo'r pryf yn pigo'r galon,
Am *gondemno*'r gwan a'r gwirion.

Cyn i Dduw *gondemno* Adda,
Fe'i *hexamnwys* ef yn gynta';
Ac a 'fpiodd gyflwr Sodom,
Cyn difetha'r dref â'r 'ftorom.

Felly dylai barnwyr ddyfgu
Chwilio'r matter cyn ei farnu,
Rhag rhoi ferdid ffol trwy gamwedd,
Cyn ddeallont y gwirionedd.

Gochel dderbyn rhodd na gwobor,
Rhodd a'th dyn i ddangos ffafor;
Rhodd a ddalla dy olygon,
I wyro barn, i faeddu gwirion.

Barna'n gymmwys megis Moefen,
Na fyn fuwch, nac ych, nac afen,
Mwy nâ Samuel yn ei amfer,
Ond rho farn yn ol cyfiawnder.

Na'd i wobor wen dy dwyllo,
Y fath *bits* a nyrdd dy ddwylo,
Ac a bar i'th wifgoedd ddrewi,
Pan y delech i gwmpeini.

Os derbynni wobar ddirgel,
Maen y mur a lef yn uchel,
A'th draws-brennau yn dy *fiambar*,
Ddygant dyft yn erbyn gwobar.

Os gorch'mynodd hen Gambyfes,
Flingo'r barnwr ffalft, Sufannes;

Oni flinga Duw'r dialau
Bob cam-farnwr am ei feiau?

Emprwr Ruffia a fyn lofgi
Barnwr ffalft mewn pair, a'i ferwi;
Brenin nef a fyn, heb ammau,
Lofgi barnwr ffalft mewn fflammau.

Ni chas Balaam ond ei fwrddro,
Na Gehezi ond ei blago,
Na hen Suddas ond ei grogi,
Gwedi'r wobr front a'r *briberi*.

Ni chei ditheu ddim dedwyddwch
Oddiwrth wobr, ond diffeithwch;
A dolurio dy gydwybod,
A throi d'eppil oll ar anffod.

Er nad ydyw dyn yn gweled
Lawer pryd mo'th *fribes* a'th hocced,
Y mae Duw yn gwel'd y cwbwl
O'th gyfrwyftra a'th ddrwg feddwl.

O gan hynny, golch dy ddwylo,
Na'd i'r wobor front dy dwyllo,
Rhag i'r wobor beri blinder
O flaen Duw y dydd i'th farner.

Od yw *torment* meibion dynion
Yn condemnio'r barnwyr ffeilftion,
B'wedd na farna uniawn frawdle
Crift bob barnwr ffalft i angeu?

Na ddwg gleddyf Duw yn ofer,
Tyn e' maes pan welech amfer;
Taro bechod, tor anwiredd,
Dryllia drais, ymddiffyn rinwedd.

Na'd i gleddy'r gyfraith rydu
Yn y wain o eifiau'i dynnu,
Rhag i gleddy'r Arglwydd digllon
*Rangio* i maes ymhlith ei elynion.

O gwel drais y rhai annuwiol!
O clyw lef y gwan cyftuddiol!
Sydd yn griddfan dan orthrymder,
Eifiau cofpi pobol 'fgeler.

Clyw pa lefain y mae'r gwirion,
Ddydd a nos, gan orthrech lladron,
Sy'n anrheithio'r maint fydd ganthynt,
Ac heb neb i yngan wrthynt.

Gwel ſydd o * faſteirdd bach ar ddyrnau
Merched ieuaingc ar gyflogau,
Sy'n cardotta mewn goſidi,
Eiſiau barnwr idd' eu coſpi.

* *Baſtardiaid.*

Clyw pa dyngu mae criſt'nogion,
Fach a mawr, heb barch nac ofon,
Ar gig Criſt, a'i waed, a'i § weli,
Ac heb un-dyn da i'w coſpi.

§ *Archoll.*

Gwel pa barch ſydd i'r offeiriaid,
Pa anrhydedd i'r henuriaid,
Pa *reſpect* i'r doeth bregethwyr,
Eiſiau help a chyfraith barnwyr.

Gwel pa dramwy ſy' i dafarnau,
Pa gyrneitto i'r ſtiw-deiau,
Pa 'ſgeuluſo myn'd i'r eglwys,
Eiſiau coſpi'r rhai 'ſgeuluſwys.

Pan y cyſgo cledd cyfiawnder
Yn y wain o eiſiau'i arfer,
Cleddyf Duw a heda allan,
Ac a ddifa'r wlad yn gyfan.

Camwedd toſt a dirfawr dra
Yw cadw'r drwg i blago'r da;
Arbed lladron, mwrddwyr gwaedlyd,
I andwyo'r wlad o'u plegid.

Lle bo mwrddra, meddwdod, brynti,
Lladrad, trais, heb neb i'w coſpi,
Duw a blaga'r wlad o ddeutu,
Sydd yn diodde'r cyfryw bechu.

O gan hynny barna'n gymmwys,
Er mwyn Criſt, yr hwn a'th brynwys;
Cais ogoniant Duw dy Dad,
A thor di ymaith feiau'r wlad.

Phineas, Phineas, coſpa bechod,
Gwân dy waywffon trwy ei geudod,
Felly ſtoppir y farwolaeth
Sydd yn difa'r wlad mor helaeth.

Os y ſwyddog drwg a wingca,
Wel'd amharchu Duw gorucha',
Duw a chwardd pan ddelo diſtryw,
Pla a llid am ben y cyfryw.

Llefa, llefa, tyn dy gleddau,
Taro bawb ſy'n dilyn delwau,

Tad a mam, a'r brawd a fo
Yn gado Duw i addoli llo.
  Pan na fynnai Eli chwyppio
Plant â gwiail, a'u *corretto*,
Duw a laddodd ddau fab Eli
A min cleddyf eisiau'u cosbi.
  Eisiau cosbi treiswyr Gom'ra,
Am eu rhyfyg a'u putteindra,
Duw ddistrywiodd yr holl ddinas
Am ymddiffyn pobl ddiras.
  Meddwl ditheu, od wyt farnwr,
Gosbi lladrad, crogi mwrddrwr,
Chwyppio rhyfyg, ffeinio ffalstedd,
*Stocso* meddwdod, cosbi camwedd.
  Wyneb dyn ac wyneb llew
A ddylai fod gan farnwyr glew;
Wyneb dyn i sirio'r cywir,
Wyneb llew i gosbi lleidir.
  Cleddyf llym a thafod cysion
Ddylai fod gan farnwr union;
Tafod gron i bwyso'r matter,
Cleddyf llym i gosbi'r 'sgeler.
  Cau dy lygaid, cudd dy ddwylo,
Wrth roi barn ar ddyn a becho,
Rhag i'th lygaid ddangos ffafor,
Rhag i'th ddwylaw dderbyn gwobor.
  Na cham-farna hawl ymddifaid,
Na orthrymma o'r dieithriaid,
Ac na threisia wreigen weddw,
Rhag i Dduw dy ladd yn farw.
  Os ymddifad a orthrymmi,
Os y weddw a gam-ferni;
Duw wna'th eppil yn ymddifad,
A'th wraig wen yn weddw irad.
  Melldigedig ydyw'r ynad
A gam-farno hawl ymddifad;
Cwyn y weddw sy'n och'neidio,
D'weded pob dyn felly byddo.

CLXVII. *Y tlawd a'r cyfoethog mewn byd arall.*

IAGO glodfawr, brenin Drasiaid,
  Pentywysog y Fenediaid,

A wnaeth wledd i bawb o'i werin,
Boneddigion a chyffredin.

Fe wnaeth fynnu pob danteithion,
A berthynai at y goron,
A gwas'naethu mewn aur ddifglau,
Yn yr *hâl*, ar rial fyrddau.

Ond fe gadwodd bob melus-fwyd,
A'r danteithion penna' gafwyd,
Idd' eu gofod yn ferchog-lân,
Yn ei barlwr iddo ei hunan.

Gwedi *plafo* y gwyr mawrion
A'r arglwyddi, a'r marchogion,
Yn yr *hâl*, bob rhai i eifte',
Yn eu rhangc, yn ol eu graddau;

Efe a alwodd y rhai tlodion,
A'r rhai llymmaf o'r crift'nogion,
Atto i'r parlwr yn gyffredin
I giniawa gyd â'r brenin.

Ac fe wnaeth i blant gwyr marwrion
*Dendio* yn ddyfal ar y tlodion,
A'u gwas'naethu â'r fath *waitan*,
A'r fath win a yfai'i hunan.

Yno dywedai yr arglwyddi,
Arglwydd frenin, beth fy'n peri
Ich' *brefferro* pobl dlodion
Ar eich bwrdd o flaen marchogion?

Yno Iago wych attebai,
Nid wy'n gwneuthur hyn o foethau
Fel breninoedd y byd angall,
Ond fel Brenin y byd arall;

'Rhwn fy'n gofod y rhai tlodion,
A'r rhai glân a phur o galon,
O gylch gwmpas iddo i eifte',
Yn y nef mewn aur gadeiriau.

'Rwy'n eich perchi chwi, bennaethiaid,
Fel fy *mhrinfes* 'mhlith y Drafiaid;
'Rwyf fi'n parchu gwael grift'nogion
Fel fy ffryns ymhlith angylion.

Dyma'r rhai mae Crift yn erchi
I mi fwccro a'u conforddi,
A'u dwyn adref i giniawa
Ar fy mwrdd tra fyddwy'n gwledda.

A thra fo i mi fwyd a diod,
Mynnaf ar fy mwrdd yn waſtod
Rhai o'r tlodion i gyd-fwytta,
Yn ol arch fy Mhrynwr penna'.
Dyma'r rhai a fydd gyfeillion
I mi, Iago, 'mhlith angylion,
Pan b'och chwi, fy holl bennaethiaid,
Yn y pwll ymhlith paganiaid.
Dyma'r rhai fydd mawr eu hurddas,
Ym mrenhiniaeth y Meſſias;
A phob un yn gwiſgo'i goron,
Megis *prinses* a th'wyſogion.
Dyma'r rhai a fydd yn eiſte'
Yn y nef ar orſeddfeingciau,
Gyd â Chriſt a'i wir angylion,
Er eu bod yn awr mor llwmion.
Ac os ceiſiwch chwi, fy mhobloedd,
Eu cwmp'niaeth yn y nefoedd,
Rhowch barch iddynt ar y ddaear,
Er mwyn Criſt eich Prynwr hygar.
A derbyniwch hwy i'ch byrddau,
A rhowch iddynt ran o'ch moethau;
Criſt a dâl am y danteithion
Yn y nef â gwledd angylion.
Ni chaf fi daliad am eich porthi
Chwi, fy *mhrinſes*, ond gwenieithu;
Mi gaf wledda gyd â 'ngylion,
Er mwyn Criſt, am borthi'r tlodion.
Os gwahoddwch y rhai tlodion
I gael cyfran o'ch danteithion,
Criſt ſy'n d'wedyd, y cewch daliad,
Pan y delo'r atgyfodiad.
Gwedi llofgi'r byd yn burboeth,
A'r maint oll ſydd yntho o gyfoeth,
Chwi gewch gwrdd yng wlad goleuni,
A'ch cardodau heb eu llofgi.
Gwedi i ſatan a'r Sabeaid
Ddwyn ar Job ei holl 'nifeiliaid,
Nid oedd dyn na diawl a allai
Ddwyn ar Job un o'i gardodau.
Pan na chaffech, gwedi angeu,
Les o'r arian ſy'n dy goſtau,

Ti gei les oddiwrth dy gardod,
Wrth dy raid, yn nydd dy drallod.

CLXVII. *Gweddi ganol dydd.*

O Godiad haul hyd hyn o ddydd,
Yn iach, yn llawn, yn llon, yn rhydd,
Fy Nuw, fy Nerth, fy Ner, di'm cedwaift;
Moliant i ti yr hwn a'm nerthaift.
Ganol dydd tro'r haul yn gwenu,
Tr'o mol yn llawn, tr'o ffryns o'm deutu,
Y follt, y fall, yr haint a'm clwyfa,
Os Duw'r gallu ni'm caftella.
Ganol dydd y lladdwyd Amnon,
Ganol dydd y cwympwyd Eglon,
Ganol dydd y fyrthiodd Dafydd,
Ganol dydd y daw'r dinyftrydd.
Duw bydd Geidwad arna'i'n ddieu,
Ganol dydd fel nos a boreu;
Na'd fi bechu, na'd fy ngorfod,
Bydd bob amfer yn fy ngwarchod.
Dod feddyliau da'n fy nghalon,
Cod fy meddwl uwch dae'rolion;
Par fi weithio yn dy winllan,
Nes i'r hwyr fy hel i heppian.
Felly, Arglwydd, yn ddiogel,
Gyd â Dafydd, gyd â Daniel,
Mi'th glodforaf bob canol-ddydd,
Am dy gymmorth yn dragywydd.

CLXIX. *Am angeu.*

FE ordeiniodd Duw i holl blant dynion,
O ba raddau bynna' y byddon',
Am eu pechod farw unwaith,
A chodi o'r bedd i'r bar yr eilwaith.
Nid oes na brenin mawr na *begger*,
Na'r lleia' ei barch, na'r mwya' ei bwer,
Nâ'r câll, na'r ffol, na'r gwych, na'r gwaela',
Na fymmud fyd i fyn'd oddi yma.
Fe orfydd gado'r tai a'r tiroedd,
Y golud mawr a'r holl bwrcafodd,
A thynnu'n llwyr bob rhai oddi yma
I'r bedd, i'r bar, o flaen JEHOFA.

Ni cheir aros yma ond amſer,
Er maint y grym, a'r nerth, a'r pwer;
Ni cheir trigo yn dragywydd,
Ond hafotta dros ddiwedydd.

I b'le'r aeth Selyf a'i holl ſynwyr?
I b'le'r aeth Samſon cryf a'i ſilwyr?
I b'le'r aeth Nimrod wych a Pharao?
Aeth angeu glas â'r cwbwl gantho.

I b'le'r aeth Herod falch a Philad?
Ym mh'le mae Cai'phas, archoffeiriad;
Ym mh'le mae Ffelics? 'mh'le mae Cæſar?
Aeth y rhai'n i gyd i'r ddaear?

Nid oes ar glawr na monarc Perſia,
Na brenin Groeg, na phen Aſſyria,
Na Phompey fawr, na dewrwych Scipio,
Heb i angeu eu congcwero.

Mae fel Herod yn diſtrywio
Hen ac ieuaingc, heb eu *ſpario*;
Gwyr a gwragedd, meibion, merched,
Cryf a gwan, heb fedru eu harbed.

Fe orfydd myn'd i ffordd yr holl-fyd,
O'r gwely gwych i'r bedd lludylyd,
Fe orfydd cwympo dan draed angau,
A dodi'n gwar dan fin ei gleddau.

Nid oes gwân yn awr, lle gweler,
Rhwng y brenin mawr a'r *begger*;
Nid oes *ods* rhwng pab a phobydd,
Na rhwng marchog na melinydd.

Y mae'r llyffaint yn llettya
Ym mhenglogau'r emprwyr mwya';
Y mae'r chwilod yn eu ffroenau,
A'u tom wedi llenwi'u ſafnau.

Y mae'r gwan, a'r tlawd, a'r truan,
Oedd yn crynu gynt rhag ofan,
'Nawr yn ſengyd ar eu boliau,
Ac yn tramwy dros eu beddau.

Y mae'r pryfed gwedi bwytta
Y cnawd purwyn am y cynta';
Y mae'r ddaear wedi eu mallu,
A throi eu heſgyrn oll yn lludu.

Nid oes gwân rhwng 'ſgerbwd marchog,
Yn y bedd, mewn ciſt gyfoethog,

A rhyw 'ſgerbwd hen gardottyn,
Fae yn ei fedd heb un edefyn.
  Fe wylai dyn yn hallt pe gwyppai
Na bae ond dau ddydd rhyngtho ac angeu;
Pa'm y chwardda hwn mor ſiriol,
Lle na fedd un dydd ſertennol?
  Arglwydd, pa'm na feddwl dynion
Am eu dechreu, a'r lle daethon',
A'r modd y mae yn rhaid i'nt fyned
Bawb i'r bedd i borthi'r pryfed

CLXX. *Anſicrwydd bywyd.--I'w chanu ar ddydd Calan*

GYNT ti dreuliaiſt lawer blwyddyn
  Mewn oferedd bob yn ronyn;
Treulia flwyddyn mewn ſancteiddrwydd,
Cyn i'th farner gan yr Arglwydd.
  Rhag na chaffech ond y leni,
Treulia hon yn ddeddfol trwyddi:
Pwy fydd yma'r flwyddyn neſaf,
Ni's gŵyr neb ond Duw goruchaf.
  Rhag na chaffech hon yn gyfan,
Dechreu heddyw ar ddydd Calan;
Fe aiff llawer cyn gwyl Iago
O flaen Criſt, i'r bar i ympirio.
  Pwy aiff gynta' i gyfri'i feiau,
Ni's gwn i, ni's gwyddoſt tithau:
Yr amharottaf fyth, ond odid,
Aiff yn flaena' i gael ei ferdid.
  Byddwn bawb gan hynny'n barod,
I fyn'd i'n barnu bob diwrnod:
Ar yr awr y b'om ni'n cyſgu,
Y daw'r angeu glas i'n cyrchu.

TERFYN.

# TABL.

*Tu dal.*


CYNGOR i wrando ac i ddarllen gair Duw . . 26
Hil Brutus. Rhybudd i'r Cymry i edifarhau 35
Yr ail Ran .................... 38
Truenus gyflwr dyn wrth naturiaeth ......... 40
Genedigaeth, bywyd, a marwolaeth Crist ....... 44
Adroddiad o gariad Crist at y byd ............ 51
Awn i Fethlehem ...................... 54
Hil Adda ........................... 56
Cyngor i bechadur i ddyfod at Iesu Grist .... 61
Cyngor arall i bechadur i ddyfod at Iesu Grist .. 65
Cynhyrfiad i foli'r Arglwydd Iesu ........... 71
Gwahoddedigaeth arall i foli Crist Iesu ......... 74
Annogaeth i ddiolchgarwch am ein prynedigaeth 76
Cynghorion i'r sawl a ddymunai gael ffafr Duw, &c. 80
Cyngor i gredu yng Nghrist, &c. ............ 84
Cyngor i ochelyd cwmpeini drwg ............ 86
Galarnad pechadur ...................... 89
Cynghorion duwiol . ...................... 93
Cyngor i wr ieuangc ..................... 98
Cyngor i wasanaethu Duw ................ 105
Beth yw gwasanaethu Duw ................ ib.
Rhesymmau i'n cyffroi i wasanaethu Duw ..... 109
Siamplau o wir wasanaethwyr Duw a'u gwobrwy 110
Am weddi a'i pherthynasau ............... 114
Yr ail Ran ...................... 123
Rhybudd i ddyn i feddwl am Dduw y boreu, &c. 125
Diolch boreuol pan ddyhuner gyntaf ......... 127
Diolch i Grist am ymddiffyniad ac esmwythder 128
Rhybudd i ddyn wrth ddilladu'r corph, &c. 129
Gweddi wrth wisgo am danat, &c. ........... ib.
Gweddi arall wrth wisgo dy ddillad ......... 130
Rhybudd wrth ymolchi ................ ib.
Gweddi fer wrth ymolchi ............. 131
Gweddi foreuol .................... ib.
Rhybudd i ymgadw tra fo'r dydd, &c. ........ 134
Yr arfogaeth ysprydol ............... ib.
Rhybudd i ddyn i ymgadw ymhob lle, &c. 135
Gweddi yn erbyn temtiad a rhuthrau satan 136
Cynghorion yn erbyn profedigaethau satan 138
Rhybudd i ochelyd rhwydau satan ymhob oedran 140
Cyngor i weddio ar bob achos, &c. ......... 141
Cynghorion duwiol i bob gradd i'w dilyn, &c. 143
Cyngor i'r hwsmon neu'r llafurwr .......... 144

Gweddi yr hwſmon .......... *Tu dal.* 145
Cyngor i'r trafaelwr .................... 146
Gweddi trafaelwr .... .. .... 147
Cyngor i'r milwr .................... 149
Gweddi'r milwr .... .... .... .... .. 150
Cyngor i'r porthmon .... .... .... .. 153
Cyngor cyn myned i garu .... .... .... 154
Canmoliaeth gwraig dda .... .... .... 157
Rhybudd a chyngor i'r godinebwr .... ...... ib.
Cyngor i'r meddwyn .... .... .... 161
Cân ynghylch y diawl a'r meddwon .... . 165
Cyngor i ymgadw rhag llettya meddyliau drwg . 167
Cyngor i lywodraethu ein geiriau wrth fodd Duw 172
Gweddi am lywodraethu'r geiriau a'r genau, &c. 174
Cyngor i ddyn fod bob amſer o ymddygiad, &c. ib.
Cyngor ynghylch bwytta ac yfed .... .... 177
Gras cyn bwyd .... .... .... 180
Gras yn ol bwyd .... .... 181
Gras cyn bwyd .... .... ib.
Gras yn ol ciniaw .... .... 182
Arall cyn bwyd .... ib.
Gras yn ol bwyd .... .. 183
Gras cyn bwyd .... ib.
Gras gwedi bwyd .... .... 184
Gras cyn ſwpper .... .. 185
Gras yn ol ſwpper .... .... .... 186
Arall yn ol ſwpper .... ... ib.
Cerydd am eſgeuluſo ceiſio bendith, &c. .... 187
Gweddi ar yr un yſtyriaeth .. . .... 188
Cyngor i gyfrannu i'r anghenus yn ol ein gallu .. ib.
Cyngor i bob penteulu i lywodraethu ei dŷ .. 193
Dyledſwydd plant i'w rhieni .... .. 202
Pa bethau a ddylai dyn fyfyrio arnynt, &c. 205
Cyngor i ymbarottoi cyn dod i addoli'n gyhoeddus 208
Gweddi i'r hwn ſydd yn myned i addoli Duw, &c. 210
Parottoad i'r cymmun .... .... 212
Gweddi cyn derbyn y cymmun .... 218
Pennillion ar gynheddfau rhai dynion a phethau 219
Llythyr yr awdwr at ryw eglwyſwr, &c. .. 231
Cateciſm yr eglwys .... .... 232
Pethau i'w hyſtyried a'u harferu pan ddel y nos 244
Hymn i'w chanu i Dduw cyn myned i gyſgu .. 246
Diolch am dân a chynheſrwydd .... 247
Gweddi wrth fyned i'r gwely .... ib.

Myfyrdod pan ddyhuner o gysgu ganol nos *Tu dal.* 250
Salm xxiii .... .... 251
Y modd y dylai dyn grasol ddeffroi ei gorph, &c. 252
Diolch am etholedigaeth, &c. .... 254
Gweddi yn erbyn gorthrymder gwrthwynebwyr 256
Arall ar yr un peth .... ib.
Diolch am ymwared o ddwylo gelynion .... 259
Arall byrrach .... .... 260
Rhan o'r lxix Salm .... ib.
Salm xxx. Diolch am ymwared o gystudd .. 263
Am ddiwedd y byd .... .... 265
Cofiwch angeu .... .. 270
Cân ar y flwyddyn 1629 .... 277
Arall ar yr un peth .... .... 283
Rhybudd i'r Cymry i edifarhau .... .. 286
Arall ar yr un peth .... .. 294
Gweddi eglwyswr wrth fyned i ymweled â'r cleifion yn amser y chwarren .... .. 300
Ber yw oes dyn .... .. 301
Cyngor i'r claf .... . 302
Gweddi'r claf .... .... .. 305
Rhybudd i'r claf i alw am weinidog, &c. .. 308
Gweddi'r claf cyn cymmeryd physygwriaeth .. 313
Gweddi ferrach i'r claf i'w harferu yn ei glefyd 314
Rhybudd i'r claf i wneuthur ei ewyllys, &c. 316
Llythyr Syr Lewis Mansel o Fargam .... 319
Atteb i Syr Lewis Mansel .... .. 320
Rhesymmau yn cyffroi'r claf i fod yn ddioddefgar 326
Ymddiddanion cysurus, &c .. .... 328
Ymddiddan arall ar yr un peth .... 331
Agoriad byr yn erbyn ofn angeu .... 333
Gweddi i gyfarwyddo'r claf am y pethau rheittiaf 335
Diddanwch rhagorol i'r enaid galarus .... 337
Gweddi brudd am faddeuant pechodau .... 338
Gweddiau byrion i'r claf .... .. 339
Gweddi fer i'r claf duwiol, &c. .... 341
Myfyrdod ar fywyd ac angeu .... .. ib.
Tost gyflwr yr annuwiol wedi marw .... ib.
Cwyn a chyngor Deifes i'w bum brodyr ... 349
Atteb i gwestiwn yngbylch gweddio dros y marw 359
Cyngor Mr. Prichard i'w fab .... .... 363
Arall ar yr un peth .... .... .. 364
Gweddi Samuel Prichard .... .. 365
Cyngor arall Mr. Prichard, medd rhai, i'w fab .. 368

TABL.


Achwyn yr awdwr ynghylch tref Llanymddyfri . 369
Achwyn eglwyſwr .... *Tu dal.* 371
Rhaid glynu wrth Griſt, &c. .... 373
Gwell Duw nâ dim .... ... 374
Criſt yw pren y bywyd .... ib.
Criſt a arwyddoccawyd wrth yr oen paſg ... 375
Criſt a arwyddoccawyd wrth y ſarph bres .. 376
Hymn neu gân ar ddydd Nadolig .... ib.
Cyngor i geiſio yr Arglwydd Ieſu Griſt ... 382
Salm xxxviii .... .... .... 394
Am y ſabbath .... .... 397
Gweddi dros yr eglwyſwr .... .... 400
Am dyngu .... .... 401
Dyledſwydd gweinidogion .... 403
Am ragluniaeth Duw .... .... 408
Am y purdan - .... ... 410
Am barhad mewn yſtad o ras .... 412
Fe ddylai pob gwraig fagu ei phlentyn â'i llaeth 414
Cyngor i wraig ar ol marwolaeth ei phlentyn 415
Rhybudd i ochelyd gorthrymmu neb, &c. ... 418
Gwahoddedigaeth i bechaduriaid .... 419
Salm c .... .... .. 420
Am y Garſalem newydd .... 421
Am bwyll ac amynedd ..... .... 422
Cân ar ddychweliad tywyſog Cymru .... 430
Trueni dyn yn byw ac yn marw heb Griſt ... 435
Cân dduwiol .... .... . . 439
Cân ynghylch holl-breſennoldeb Duw .. 440
Cân ynghylch y gwrthryfel yn y flwyddyn 1641 443
Criſt ſydd oll yn oll .... .... 444
Am holl-breſennoldeb Duw .... 445
Am holl-alluogrwydd Duw ... .... 452
Am gyfiawnder Duw .... ... 455
Am drugaredd Duw .... .... 456
Am ragluniaeth Duw .... ... 458
Gofal Duw am y Criſt'nogion .... 459
Serch at Griſt .... .... ib.
Dyledſwydd rhieni ... ... ... 461
Dyledſwydd penteulu .... .... 462
Dyledſwydd barnwr .... .... 463
Y tlawd a'r cyfoethog mewn byd arall .... 467
Gweddi ganol dydd .... . .. 470
Am angeu .... .... ib.
Anſicrwydd bywyd, &c. ... .... 472

# YR EGWYDDOR.

a b c ch d dd e f ff g ng h i l ll
m n o p ph r ſ s t
th u w y

A B C CH D DD E F FF G
NG H I L LL M N O P
PH R S T TH U W Y

---

Ab eb ib ob ub wb yb
ac ec ic oc uc wc yc
ach ech ich och uch wch ych
ad ed id od ud wd yd
add edd idd odd udd wdd ydd

---

Ba be bi bo bu bw by
ca ce ci co cu cw cy
cha che chi cho chu chw chy
da de di do du dw dy
dda dde ddi ddo ddu ddw ddy

---

## GEIRIAU O UN SILLAF.

*Rhannau perthynol i Gorph Dyn.*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Pen | Siol | Gwallt | Clust | Min |
| Croen | Bol | Boch | Trwyn | Dant |
| Gen | Gwddf | Gwaed | Traed | Braich |
| Cefn | Bron | Ais | Llaw | Bys |
| Ceg | Cern | Croth | Clin | Coes |
| Dwrn | Bawd | Sawdl | Cnawd | Gar |

# LLYFRAU CYMRAEG

AR WERTH GAN

# JOHN DANIEL,

Yn Heol-y-Farchnad, yn Nghaerfyrddin.

---

Y BIBL Sanctaidd, 8s.

Y Teftament Newydd, 2s.

Geirlyfr Saefonaeg a Chymraeg, gan W. Richards, 6s.

Geirlyfr Cymraeg a Saefonaeg, yr ail ran, gan W. Owen, 7s. 6ch.

Dirgelwch i rai i'w ddeall ac i eraill i'w watwar; sef Tri Aderyn yn ymddiddan, yr Eryr, y Golommen, a'r Gigfran; neu arwydd i annerch y Cymru am y Flwyddyn 666, 1s.

Gweledigaeth y Bardd Cwsg; yn cynnwys Gweledigaeth Cwrs y Byd; Gweledigaeth Angeu; a Gweledigaeth Uffern, gan Ellis Wynn, 1s.

Athrawiaeth Rhagluniaeth Dwyfol, neu Helaethrwydd y Prynedigaeth Crift'nogol, wedi ei ddifrifol a'i fanol yftyried, &c. 1s.

Gramadeg Cymraeg, gan Tho. Richards, 1s.

Canwyll y Cymry; fef Gwaith y Parchedig Mr. Rees Prichard, M. A. gynt Ficer Llanymddyfri, 3s. 6ch. neu 4s. yn rhwym.

Drych y Prif Oefoedd; yn cynnwys hanes y Cymry, o ba le y daethant allan; y rhyfeloedd a fu rhyngddynt a'r Rhufeiniaid, y Brithwyr, a'r Saefon, a'u moefau cyn troi'n Grift'nogion; ynghyd â phregethiad a chynnydd yr efengyl yn Mhrydain, &c. 3s. 6ch.

Hanes y Byd a'r Amſeroedd, er hyfforddiad i'r Cymry, 1s. 6ch.

Drych y Ddaear a'r Ffurfafen; neu Geography, yn rhoddi hanes am yr holl wledydd adnabyddus yn Ewrop, Aſia, Affrica, ac America. Ynghyd â phellder, maintioli, cyflymdra, a throion amgylchiadol yr haul, lleuad, y ſer gwibiog â ſefydlog, ynghyd â'u diffygiadau, a'r achos o honynt, 4s.

Allwedd Newydd i ddyſgu darllen Cymraeg, 6ch.

Talfyrriad o'r Allwedd Newydd i ddyſgu darllen Cymraeg, 2g.

Athrawiaeth y Drindod, gan. R. Hall, 3c.

*Y Llyfrau canlynol gan I. Bunyan.*

Taith y Pererin, tan Gyffelybiaeth Breuddwyd, yn yr hwn y dangoſir, 1. Y modd y mae pechadur yn cychwyn, neu yn dechreu ei daith o'r byd hwn tu a'r nefoedd. 2. Y peryglon y mae efe yn gyfarfod â hwynt yn ei daith. 3. Ei ddyfodiad o'r diwedd i'r wlad ddymunol, neu'r nefoedd, mewn diogelwch. Gyd â Sylwiadau ar amryw ſannau tywyll; ac amddiffyniad a diwedd-glo'r awdwr; wedi ei gydmaru oll yn ffyddlon â'r argraphiad gorau yn Saeſonaeg, a'i ddiwygio o amryw feiau anafus.

Y Ddinas Sanctaidd, neu'r Jeruſalem Newydd; lle y dehonglir ei golau, ei chaerau, ei phyrth, ei hangylion, a'r dull y maent yn ſefyll; y goſodir allan ei hŷd, a'i lled, ynghyd â'r gorſen-feſur aur, ac yr amlygir gogoniant y cwbl: ac hefyd rifedi ei phreſwylwyr, a pha

beth yw pren a dwfr y bywyd, trwy y rhai y cynhelir hwy, 1s.

Crist yn Iachawdwr Cyflawn; neu Eiriolaeth Crist, a phwy sydd a chanddynt fraint ynddi; at yr hyn y chwanegwyd nodau profiadol ac ymarferol, 9c.

Gwrthodedigaeth yn brofedig; neu yr Athrawiaeth o Etholedigaeth tragywyddol a Gwrthodedigaeth wedi eu cyd-ystyried; lle y gwrthbrofir y dadleuon a arferir gan wrthwynebwyr yr athrawiaeth hon, y symmudir amryw amheuon, ac y penderfynir llawer o ymofynion cydwybod, 6ch.

Elw da i werthu drachefn.

RD-64

---

CAERFYRDDIN:

*Argraphwyd ac ar werth gan* IOAN DANIEL; *lle yr argrephir pob math o gopiau am bris rhesymol.*

—o—

1808.

Deacidified using the Bookkeeper process.
Neutralizing agent: Magnesium Oxide
Treatment Date: August 2006

PreservationTechnologies
A WORLD LEADER IN PAPER PRESERVATION
111 Thomson Park Drive
Cranberry Township, PA 16066
(724) 779-2111

DOBBS BROS. INC.
JAN 83
ST. AUGUSTINE
FLA.
32084

LIBRARY OF CONGRESS
0 003 125 562 4